006009315005

# KOHELETH:

SEF

# CYFRES O BREGETHAU,

GAN Y

PARCH. W. REES,

HIRAETHOG.

*From the Library*

*of*

PÁDRAIG Ó BROIN

123

# KOHELETH:

SEF

# CYFRES O BREGETHAU.

GAN Y

PARCH. W. REES,

(HIRAETHOG,) CAERLLEÔN,

*(Gynt o Lansanan.)*

"CHWILIODD Y PREGETHWR (KOHELETH) AM EIRIAU CYMERADWY; A'R HYN OEDD YSGRIFENEDIG OEDD UNIAWN, SEF GEIRIAU GWIRIONEDD."—*Pregethwr* xii. 10.

LLUNDAIN:

ARGRAFFWYD GAN R. SAMUEL, CITY BUILDINGS, CATTLE MARKET, N.

M.DCCC.LXXXI.

LIBRARY
14 JUL 1976
UNIVERSITY OF TORONTO

# KOHELETH:

SEF

# CYFRES O BREGETHAU.

Digitized by the Internet Archive
in [illegible] with funding from
Ontario Council of University Libraries

http://www.archive.org/details/[illegible]

## AT Y DERBYNWYR.

ANERCH.—Yr oedd yn ddefod gan ein hên dadau, y Puritaniaid, i wneyd cyflwyniad o bob llyfr a gyhoeddent i ryw noddwr galluog a fuasai yn gynorthwyol iddynt i ddwyn y gwaith allan drwy y wasg. Y mae enwau eu cymwynaswyr caredig hyny yn cael eu cadw felly mewn parchus goffadwriaeth, o genhedlaeth i genhedlaeth, i ddarllenwyr a hoffwyr gweithiau yr hên awdwyr; pe amgen, buasai enwau amryw o honynt wedi eu claddu mewn ebargofiant yn hir cyn hyn. Felly y digwyddasai i enw a choffadwriaeth yr "Ardderchog Theophilus" hwnw, oni buasai ddarfod i Luc gyflwyno ei Efengyl a'r Actau iddo, canys nid oes crybwylliad arall am ei enw yn un man.

Pe gwnaethwn i ryw gyflwyniad ffurfiol felly o'r gyfrol hon, dyledus arnaf, yn bendifaddeu, fuasai ei chyflwyno i'r cyfaill caredig a rhyddfrydig, Mr. Thomas Thomas, Ty'nywern, Groeswen, ger Pontypridd, yr hwn a fu y prif anogwr

a chefnogydd i'w thynu oddiwrthyf, a'i dwyn allan fel y gwelir hi yn awr o flaen y cyhoedd. Dylwn hefyd ddiolchus gydnabod caredigrwydd parod Mr. H. Lewis, Llewelyn Lodge, Bodedeyrn, Mon, yr hwn, yn gyntaf o bawb, pan ymddangosodd yr hysbyslen, a anfonodd ei enw fel tanysgrifiwr am ddeg o gopïau. Y mae yn bleser genyf fi gyflwyno fel hyn ddiolchus gydnabyddiaeth i'r ddau gyfaill cymwynasgarol, a hyderaf nad blin iddynt hwythau fydd ei derbyn; buont yn fwy o nerth a chynorthwy i'r awdwr, yn ei berthynas â'r anturiaeth hon, na'r holl filoedd Cymry yn y dref fawr y bu ef yn llafurio yn eu mysg drwy ystod deuddeg ar hugain o flynyddoedd goreu ei fywyd gyda'u gilydd. Taerineb y cyntaf o'r ddau a enwyd – taerineb hafal i'r eiddo y weddw daer yn y ddameg—a orthrechodd yr anhueddgarwch cryf oedd ynof i ymgymeryd â chyhoeddi cyfrol o'm pregethau. Cawswn lawer o anogaethau o'r blaen; a thua deuddeg mlynedd yn ol, copïais ddeg neu neu ddeuddeg o'm pregethau gyda'r bwriad o'u cyhoeddi y pryd hwnw; ond wedi ail fwrw golwg drostynt, rhoddais y bwriad o'u cyhoeddi i fyny, am nad oeddynt wrth fy modd, ac nid ydynt felly eto chwaith; a gwaith anhawdd oedd ail ymgymeryd â'r gorchwyl. Am y rhan fwyaf o'r pethau a gyhoeddaswn o'r blaen, er boddlonrwydd fy ewyllys fy hun, yn benaf, y bu hyny; ond daeth y KOHELETH hwn allan, fel y llô aur a wnaeth Aaron, ar gais ereill; ond hyderaf ei fod, er ei holl ddiffygion, yn amgenach *article*

na'r llô hwnw. Ymdeimlaf yn dawel yn hyn, beth bynag, nas gall hyn o bregethau ddim yn *erbyn* y gwirionedd, ond *dros* y gwirionedd, hyd eithaf fy ngwybodaeth i *o'r* gwirionedd; felly gobeithiaf y gallant fod, i ryw fesur, yn gynorthwyol *i'r* gwirionedd.

Drwg oedd genyf orfod gadael allan amryw o bregethau yr amlygodd rhai cyfeillion eu dymuniadau am eu cael yn y gyfrol hon; hyny fu, "Am nad oedd iddynt le yn y llety." Wedi dyfod o honof i'r penderfyniad i ddwyn y gyfrol allan, teimlwn yn awyddus ar fod i gyfran arbenig o honi gyfarfod, i ryw raddau, âg amgylchiadau neillduol yr amser presenol hwn, pan y mae llifeiriant Annuwiaeth, Anffyddiaeth, a Defodaeth, yn dyrchafu eu twrf a'u tonau mor uchel o'n hamgylch.

"Mi a heneiddiais, ac nis gwn ddydd fy marwolaeth," ebai y tad Isaac pan y teimlai frys i gyflawni gorchwyl olaf ei fywyd, fel y tybiai ef. Felly, bellach, rhaid i minau ddwedyd, "Mi a heneiddiais," er yn rhagor na thriugain mlynedd ieuengach nag oedd y Patriarch hwnw pan lefarodd efe y geiriau hyny. Petr apostol, hefyd, yn ei henaint, a ddywedai, "Gan wybod y bydd i mi ar frys roddi fy nhabernacl hwn heibio;" oblegid hyny, teimlai yntau yn awyddus i gwblhau tystiolaeth ei fywyd dros yr efengyl drwy ysgrifenu ei epistol olaf hwnw i fod er gwasanaeth i'r eglwys, i'w sefydlu a'i chadarnhau hi yn y ffydd wedi ei ymadawiad ef. Yn gyffelyb i'r apostol, yn hyn o beth, gwn inau y bydd

i mi cyn hir bellach, ddodi y pin ysgrifenu hwn heibio; ac y mae y wybodaeth o hyny, yn un peth, yn peri i mi deimlo yn awyddus ar fod iddo adael ei dystiolaeth hon, yr olaf fe ddichon, i sefyll ac aros yn dystiolaeth o blaid "y ffydd a roddwyd unwaith i'r saint," wedi i mi fyned o'r golwg. Eto, y mae yn chwith genyf y meddwl am ddodi hên gydymaith fy neheulaw am yspaid mwy na haner can' mlynedd heibio; ond "myned heibio" yw dull a defod y byd hwn erioed, yn ei dda a'i ddrwg, ei waith a'i ddychymyg, "ac nid oes ymaros" na "dinas barhaus" i'w chael yma.

O herwydd y rhesymau a grybwyllwyd, bu raid cadw allan y pregethau y cyfeiriwyd atynt, i roddi lle i'r rhai ar *Rhagluniaeth*, *Llyfr*, ac *Efengyl Duw*, &c., lle y cyfeirir at rai o'r profion o'u ddwyfolrwydd. Ni cheisid, ac ni ellid, o fewn cylch cyfyng tair neu bedair o bregethau, ragor nac arwain y darllenydd megis i gŵr maes toreithiog y profion hyny. Buasai yn ofynol cael rhywun llawer galluocach nag Awdwr y KOHELETH hwn at y gorchwyl o lwyr fedi a chynhauafu cynyrch y maes hwnw; ond "Yr hyn a allodd hwn, efe a'i gwnaeth," yn y gobaith y gallai fod yn offerynol i dueddu meddyliau rhai darllenwyr—darllenwyr ieuainc yn neillduol—i ymofyn yn mhellach, a chwilio yn fanylach i'r mater pwysig, er meddu "llawn sicrwydd deall" yn ngwirioneddau y gair a'r efengyl, fel gair ac efengyl Duw.

Wrth derfynu hyn o anerch, dymunaf gyflwyno fy nghydnabyddiaeth ddiolchus i weinidogion yr efengyl, yn

Eglwyswyr ac Ymneillduwyr, a anfonasant eu henwau fel Tanysgrifwyr am y gyfrol hon, ac i bawb oll, a phob un a wnaeth hyny.

Fy nymuniad yw, ar fod i'r KOHELETH hwn ddwyn lles a bendith i bob tŷ y caffo dderbyniad i mewn.

BYDDWCH WYCH.

# CYNWYSIAD.

## PREGETH I.

### YR HANFOD DRAGWYDDOL.

"A dywedodd Moses wrth Dduw, Wele, pan ddelwyf fi at feibion Israel, a dywedyd wrthynt, DUW eich tadau a'm hanfonodd atoch; os dywedant wrthyf, Beth yw ei enw Ef? beth a ddywedaf fi wrthynt? A DUW a ddywedodd wrth Moses, YDWYF YR HWN YDWYF. Dywedodd hefyd, fel hyn yr adroddi wrth feibion Israel, YDWYF a'm hanfonodd atoch."—*Exodus* iii. 13, 14.

## PREGETH II.

### ANNIBYNIAETH DUW.

Y DUW a wnaeth y byd, a phob peth sydd ynddo, gan ei fod yn Arglwydd nef a daear, nid yw yn trigo mewn temlau o waith dwylaw; ac nid â dwylaw dynion y gwasanaethir Ef, fel pe byddai arno eisieu dim; gan ei fod Ef yn rhoddi i bawb fywyd, ac anadl, a phob peth oll."—*Actau* xvii. 24, 25.

## PREGETH III.

### MAWREDD DUW.

"O'r gogleddwynt y daw hindda: y mae yn Nuw ogoniant mwy ofnadwy. Am yr Hollalluog, ni allwn ni mo'i gael Ef: ardderchog yw o nerth, a barn, a helaethrwydd cyfiawnder: ni chystuddia Efe. Am hyny yr ofna dynion Ef; nid edrych Efe ar neb doeth eu calon."
—*Job* xxxvii. 22–24.

## PREGETH IV.

### GWIRIONEDD DUW—Y LLWON DWYFOL.

"Fel mai byw fi, medd y Brenin, enw yr hwn yw Arglwydd y lluoedd, cyn sicred a bod Tabor yn y mynyddoedd, a Charmel yn y môr, efe a ddaw."—*Jeremia* xlvi. 18.

---

## PREGETH V.

### CARIAD DUW.

"Anwylyd, carwn ein gilydd; oblegid cariad, o Dduw y mae; a phob un a'r sydd yn caru, o Dduw y ganwyd ef, ac y mae efe yn adnabod Duw. Yr hwn nid yw yn caru, nid adnabu Dduw; oblegid Duw, cariad yw. Yn hyn yr eglurwyd cariad Duw tuag atom ni, oblegid danfon o Dduw ei unig-anedig Fab i'r byd, fel y byddem fyw trwyddo Ef."—1 *Ioan* iv. 7–9.

---

## PREGETH VI.

### AMYNEDD DUW.

"A DUW yr amynedd a dyddanwch a roddo i chwi synied yr un peth tuag at eich gilydd yn ol Crist Iesu."—*Rhufeiniaid* xv. 5.

---

## PREGETH VII.

### TRUGAREDD DUW.

"Mor werthfawr yw dy drugaredd, O Dduw! Am hyny yr ymddiried meibion dynion dan gysgod dy adenydd."—*Salm* xxxvi. 7.

---

## PREGETH VIII.

### DOETHINEB DUW.

"Eithr yr ydym ni yn llefaru doethineb Duw mewn dirgelwch, sef y ddoethineb guddiedig, yr hon a ragordeiniodd Duw cyn yr oesoedd i'n gogoniant ni."—1 *Corinthiaid* ii. 7.

## PREGETH IX.

### LLYWODRAETH DUW.

"Yr ARGLWYDD a barotodd ei orseddfainc yn y nefoedd, a'i freniniaeth Ef sydd yn llywodraethu ar bob peth."—*Salm* ciii. 19.

## PREGETH X.

### HOLLWYBODAETH A HOLLBRESENOLDEB DUW.

"ARGLWYDD, chwiliaist, ac adnabuost fi," &c., &c.
*Salm* cxxxix. 1–12.

## PREGETH XI.

### LLYFR DUW.

"Ceisiwch allan o Lyfr yr Arglwydd, a darllenwch; ni phalla un o hyn, ac ni bydd un heb ei gymhar; canys fy ngenau, Efe a orchymynodd, a'i Yspryd, Efe a'u casglodd hwynt."—*Esaia* xxxiv. 16.

## PREGETH XII.

### LLYFR DUW—ETO.

## PREGETH XIII.

### CYSEGR DUW.

"Gorsedd ogoneddus; ddyrchafedig o'r dechreuad yw lle ein cysegr ni. O ARGLWYDD, gobaith Israel, y rhai oll a'th wrthodant a waradwyddir; ysgrifenir yn y ddaear y rhai a giliant oddiwrthyt, am iddynt adael yr ARGLWYDD, ffynon y dyfroedd byw."—*Jeremia* xvii. 12, 13.

## PREGETH XIV.

### BARNEDIGAETHAU DUW.

"Fel hyn y dangosodd yr ARGLWYDD i mi, ac wele ef yn ffurfio ceiliogod rhedyn," &c., &c.—*Amos* vii. 1–6.

## PREGETH XV.

### EFENGYL DUW.

"Eithr yr ydwyf yn hysbysu i chwi, frodyr, am yr efengyl a bregethais i chwi, nad yw hi ddynol; canys nid gan ddyn y derbyniais i hi, nac y'm dysgwyd, eithr trwy ddadguddiad Iesu Grist."—*Galatiaid* i. 11, 12.

## PREGETH XVI.

### EFENGYL DUW—ETO.

## PREGETH XVII.

### GWAITH DUW.

"Gweddi Habaccuc y proffwyd, ar Sigionoth, Clywais, O Arglwydd, dy air, ac ofnais: O Arglwydd, bywha dy waith yn nghanol y blynyddoedd, par wybod yn nghanol y blynyddoedd; yn dy lid cofia drugaredd."—*Habaccuc* iii. 1, 2.

## PREGETH XVIII.

### GWAITH DUW—ETO.

## PREGETH XIX.

### DYN DUW.

"Ac ymarfer dy hun i dduwioldeb."—1 *Timotheus* iv. 7.

## PREGETH XX.

### GWAS DUW.

"Ac ni chododd proffwyd eto yn Israel megis Moses, yr hwn a adnabu yr Arglwydd wyneb yn wyneb. Yn mhob rhyw arwyddion a rhyfeddodau, y rhai yr anfonodd yr Arglwydd ef i'w gwneuthur yn nhir yr Aifft, ar Pharao, ac ar ei holl weision, ac ar ei holl dir ef. Ar yr holl law gadarn, ac yn yr holl ofn mawr, y rhai a wnaeth Moses yn ngolwg holl Israel."—*Deuteronomium* xxxvi. 10–12.

## PREGETH XXI.

### GWEINIDOGAETH YSPRYD AC EGLWYS DDUW.

"Ac y mae yr Yspryd a'r briodasferch yn dywedyd, Tyred. A'r hwn sydd yn clywed, dyweded Tyred. A'r hwn sydd a syched arno, deued. A'r hwn sydd yn ewyllysio, cymered ddwfr y bywyd yn rhad."—*Datguddiad* xxii. 17.

## PREGETH XXII.

### ANGELION DUW.

"Bendithiwch yr Arglwydd, ei angelion Ef, cedyrn o nerth, yn gwneuthur ei air ef; gan wrando ar leferydd ei air Ef. Fy enaid, bendithia yr Arglwydd."—*Salm* ciii. 20.

## TRAETHODAU.

I.—GWEINIDOGAETH GAIR DUW.

II.—AWDURDOD Y SWYDD WEINIDOGAETHOL.

III.—TWYLL OFFEIRIADAETH.

# PREGETH I.

## "YDWYF."—YR HANFOD DDWYFOL.

"A Duw a ddywedodd wrth Moses, YDWYF YR HWN YDWYF; dywedodd hefyd, fel hyn yr adroddi wrth feibion Israel, Ydwyf a'm hanfonodd atoch."—*Exodus* iii. 14.

NI feddyliasai neb llai na Duw byth dystioliaethu fel hyn am dano ei hun. Ni fu dyn erioed ar y ddaear, nac angel yn y nefoedd chwaith, a ddychymygasai am ateb y cwestiwn, "Beth yw dy enw di?" yn y fath ymadrodd â hwn; a phe gallasai creadur gynyrchu y cyfryw feddwl, ynfydrwydd, cabledd, a rhyfyg ynddo fuasai iddo osod y meddwl hwnw allan mewn ymadrodd o'r fath yma am dano ef ei hunan. Saif yr ymadrodd, gan hyny, yn golofn dystiolaeth drwy holl oesau'r ddaear o hanfodiad personol un Duw byw tragwyddol ac anfeidrol, yn erbyn syniadau'r annuwiaid o bob rhyw a math. Cyhoeddiad o'r ENW MAWR am unwaith i'w gadw a'i gofio byth yw hwn. Sylwer yn

I. *Ar gymwysiad yr Enw.* Beth a fynai yr anfeidrol drosglwyddo i'n meddyliau ni am dano Ef drwy yr enw hwn a ddyry arno ei Hun—YDWYF YR HWN YDWYF? YDWYF, am neu o herwydd fy mod, fel yr aralleiria rhai yr ymadrodd, yn arwyddo

1. *Bôd nad oes un rheswm am ei fodoliaeth Ef, ond ei hanfodaeth yn unig.* Cawn y rheswm am fodoliaeth pawb a phob peth arall yn nghân y pedwar henuriad ar hugain ger bron yr orseddfainc (Dat. iv. 11), "Canys Ti a grëaist bob peth; ac o herwydd dy ewyllys Di y maent, ac y crëwyd hwynt." Dyna y rheswm, yr unig reswm, am eu hanfodiad hwy oll. Ewyllys y Bôd digreuedig yw ffynonell wreiddiol bodoliaeth y nefoedd a'r ddaear a'u holl luoedd hwynt; o'r ffynon dragwyddol hon y llifodd hi allan yn ei hamrywiaethau diderfyn o fydoedd, a'u helfenau, a'u creaduriaid, yn weledig ac anweledig, yn anianol ac yn ysprydol, yn anifeilaidd a rhesymol, yn farwolion ac anfarwolion. Ond nid oes un rheswm i'w roddi am ei fodoliaeth Ef ei hun; ïe, ni fedd Efe ei hunan un rheswm i'w roddi am ei hanfodaeth, ond "YDWYF" am fy mod, nid am ddarfod i mi ewyllysio hyny; ynfydrwydd fyddai y cyfryw dybiaeth. Y Bôd sydd yn hanfodi o angenrheidrwydd ei natur, y mae yn bodoli erioed heb ddechreuad iddo. Nid oes a wnelo yr ewyllys ddwyfol ddim oll â'r mater hwn. Nid oes a wnelo yr ewyllys ddwyfol ychwaith â hanfodiad y priodoleddau hyny yn ei natur a alwn *Ei briodoleddau naturiol*, megis Hollalluowgrwydd, Hollwybodaeth, Hollbresenoldeb, Annibynolrwydd, &c., y maent oll ynddo Ef o angenrheidrwydd ei natur, yn gystal ag y mae ei fodoliaeth felly; yn y pethau hyn nid oes ganddo ewyllys. Ond am y rhai a alwn ei *Briodoleddau Moesol*, y maent yn wahanol. Yr ewyllys ddwyfol sydd yn rheoli gweithrediadau y priodoleddau naturiol—ei Hollalluowgrwydd, ei Hollwybodaeth, &c., yn holl oruchwyliaethau creadigaeth, rhagluniaeth, a gras. Nid o angenrheidrwydd ei natur y creodd Efe un byd nac un creadur erioed, ond "*O herwydd dy ewyllys Di y maent, ac y crewyd hwynt.*" Ewyllysio creu; ewyllysio cynal a llywodraethu; ac ewyllysio trugarhau ac achub.

2. "YDWYF." Y Bôd sydd yn hanfodi erioed o angenrheidrwydd ei natur, ac yn parhau yr un yn ddigyfnewid byth oddiar yr un angenrheidrwydd. Y ffaith—y gwirionedd mawr—y datguddiad a wnaeth Efe o hono ei Hun a gynwysir yn yr enw gogoneddus hwn a ddygodd y syniadau am Fôd Tragwyddol, Hunanhanfodol, Hollbresenol, Annghyfnewidiol, &c., i gyraedd meddwl creadur. Ni chenhedlodd meddwl y creadur erioed, ac ni chenhedlasai byth, y cyfryw syniadau o hono ei hun. "Nid adnabu y byd trwy ei ddoethineb" a'i athroniaeth mo Dduw; yn ol y syniad hwn am dano, ni allodd, er chwilio ac ymbalfalu am dano, "ei gael Ef." Nid oes dim tebyg iddo i'w gael yn holl hanes ei ymchwilio a'i ymbalfalu am dano Ef; yn yr Ysgrythyrau Hebreig yn unig y ceir y syniad hwn am Dduw; ac nid ffrwyth ymchwiliadau y genedl hono ei hun ydyw; yr oedd llawer cenedl fwy craff ac ymchwilgar yn y byd na hi pan y daeth hi i feddiant o'r syniad goruchel; nid cig a gwaed a'i dadguddiodd iddi, felly rhaid ddarfod iddi hi ei gael oddiuchod drwy ddadguddiad o hono ei Hun iddi gan Dduw; "fel y mae y nefoedd yn uwch na'r ddaear," felly uwch yw y meddwl hwn na meddwl creadur.

3. YDWYF. Y Bôd sydd yn meddu perffaith adnabyddiaeth o hono ei Hun yn holl gyflawnder anfeidrol ei hanfod. Tybiwn nad oes gan yr anifail un ymwybyddiaeth o hono ei hun ar wahan oddiwrth arall; y mae yn greadur byw, yn gweled, yn clywed, yn arogli, yn teimlo, ac yn symud; medda ar reddfau sydd yn ei ysgogi i weithredu yn ol ansawdd ei natur. Ond y MYFI nid yw ynddo. Ni cheir y *Myfi* yn un creadur ar y ddaear ond yn y dyn, a'r *Myfiaeth* hwn sydd yn ei wneyd yn anesmwyth ynddo ei hun, ac yn anfoddlawn arno ei hun, nes y mae yn troi i chwilio am dano ei hun a'i gael allan. Y mae wedi bod wrthi yn mhob cenhedlaeth ac oes yn chwilio ac yn ymbalfalu am dano

ei hun, heb ei gael ei hunan eto. Beth yw y meddwl sydd yn ymweithio o'i fewn—yn dyfalu ac yn dyfeisio, yn ofni, yn gobeithio, yn *ad*-olygu ac yn *rhag*-olygu; yn mha le y mae y gwreiddiau, a beth yw achosion y meddylddrychau a ymgodant ynddo—a mil a mwy o gyffelyb ymholion a ymgyfodant o'i flaen, megis o ddyfnderau ei natur; ymholion y llafuriodd lawer i geisio eu hateb, ond erioed nis gallodd wneyd i foddlonrwydd. Pan megis yn ceisio ymsuddo i waelod cyfrinion cuddiedig ei natur, torodd y Salmydd duwiol allan un tro gan ddywedyd, "Ofnadwy a rhyfedd y'm gwnaed," ac yn y fan yna y gadawodd efe ei hun, ac yn y fan yna hefyd rhaid i bob hunan-ymchwilydd adael ei hunan yn y diwedd. Pe caffem gyfleusdra i ymofyn â phob angel yn y nefoedd am eu profiad a'u gwybodaeth hwythau am danynt eu hunain, diau mai yr un stori a gaem ganddynt, "Yn erbyn ei angelion y gosododd Efe ynfydrwydd," neu anmherffeithrwydd. Efe yw yr unig YDWYF perffaith, am ei fod yn ei adnabod, yn dirnad, ac yn amgyffred ei Hun yn berffaith, a hyny nid trwy chwilio a myfyrio arno ei Hun, fel y gwna y creadur, ond y mae ei hunan-adnabyddiaeth Ef ynddo yn wreiddiol a gogyhyd dragwyddol â'i Hanfod, a "hysbys i Dduw (gan hyny) ei weithredoedd oll erioed." Iddo Ef nid oes dim wedi myned heibio, dim yn ddyfodol, pob peth yn gyd-bresenol ger ei fron bob amser—"Cofiwch y pethau gynt erioed, canys Myfi ydwyf DDUW ac nid neb arall; DUW ydwyf, ac heb fy math; yn mynegi y diwedd o'r dechreuad, ac er cynt yr hyn ni wnaed eto; yn dywedyd, Fy nghyngor a saif, a'm holl ewyllys a wnaf." (Esa. lxvi. 9, 10.) "Wele, mawr ydyw Duw," ac Efe yn unig a all ddywedyd YDWYF am dano ei Hun.

II. *Achlysur y Dadguddiad hwn o hono ei Hun a wnaeth Duw i Moses.* Galwasai yr Arglwydd ar Moses o'r berth

oedd yn llosgi gan dân, ond heb ei difa, gan orchymyn iddo fyned at Pharaoh yn ei enw a'i awdurdod Ef, a dwyn plant Israel o gaethiwed yr Aifft, &c. Ceisiai Moses yn mhob modd ymesgusodi, "A dywedodd Moses, Wele, pan ddelwyf fi at feibion Israel, a dywedyd wrthynt, Duw eich tadau a'm hanfonodd atoch; os dywedant wrthyf, Beth yw ei enw ef? beth a ddywedaf fi wrthynt?" Y mae rhywbeth yn ddieithr yn ngofyniad Moses; canys yr oedd efe newydd gael enw o enau yr Hwn oedd yn llefaru wrtho o'r berth—yn dywedyd, "Myfi yw Duw dy dadau, Duw Abraham, a Duw Isaac, a Duw Jacob." Er hyny y mae Moses am gael enw yr Hwn oedd yn ei alw, ac yn ei anfon i waredu ei bobl o'r Aifft. Yr oedd yr enw a roddasai angel y berth arno ei Hun yr un mwyaf pwrpasol i lefaru ynddo wrth feibion Israel, dybiasem ni. Arglwydd Dduw eich tadau; pa enw arall a allasent hwy ddymuno gael! Pan lefarai Moses ac Aaron wrth Pharaoh, yr enw "Arglwydd Dduw Israel," neu "Duw'r Hebreaid," a ddefnyddient, ond pan lefarent wrth feibion Israel, "Arglwydd Dduw eich tadau, Duw Abraham, Duw Isaac, a Duw Jacob" oedd yr enw, yr enw gwerthfawrocaf ac anwylaf ganddynt o bob enw a allesid ei swnio yn eu clustiau, gallem feddwl. Pa beth, gan hyny, a barai i Moses ofyn y cwestiwn hwn?

1. Dichon ei fod yn petruso wrth edrych ar fawredd y gwaith yr oedd efe yn cael ei anfon i'w gyflawni, nes yr ymddangosai iddo fel peth anhygoel, os nad anmhosibl i'w ddwyn i ben. Yr oedd yn beth newydd, ac yn beth nad oedd sôn am ei gyffelyb o'r blaen er pan oedd dynion ar y ddaear; gan hyny, ewyllysiai Moses gael enw newydd, anadnabyddus o'r blaen, ar yr Hwn oedd yn ei anfon ef fel offeryn yn ei law i wneyd y gwaith newydd a rhyfeddol hwn. Ymsyniai ynddo ei hun, fe ddichon, nad oedd yr holl amlygiadau o Dduw yn hanes eu tadau Abraham,

Isaac, a Jacob, a'u gwaredigaethau hwy, i'w cydmaru â mawredd y gwaith o waredu Israel o gaethiwed yr Aifft. Galwasai Duw Abraham allan o wlad ei enedigaeth, ac arweiniasai ef bob cam o'r wlad hono i'r wlad a addawasai Efe ei roddi yn etifeddiaeth iddo ef ac i'w hâd, ond nid oedd neb ond Abraham a Sarah ei wraig, a'u gweision, a'u morwynion, a golud Abraham mewn anifeiliaid ac ysgrubliaid, yn perthyn i'r ymfudiad hwnw; a beth oedd hyny wrth symud cenedl gyfan o bobl o'r naill wlad i'r llall, yn chwe' chan mil o nifer, heblaw y plant; llawer yn eu mysg yn hên bobl; llawer yn llesg a gweiniaid; llawer o wragedd tyner â'u babanod ar eu bronau. Heblaw hyny, yr oedd Abraham yn ŵr rhydd i fyned lle y mynai pan y mynai; nid oedd llywodraeth ei wlad yn ymyraeth dim oll â'i symudiadau ef; ond yr oedd plant Israel yn gaethion yn yr Aifft; a llywodraeth yr Aifft, y llywodraeth gryfaf ar y ddaear y pryd hwnw, yn eu dàl yn ei gafaelion tynion, ac yn penderfynu na ollyngai hi mo honynt o'i gwasanaeth ar un cyfrif. Nid rhyfedd os ymddangosai eu gwaredigaeth i Moses y pryd hwn fel yn anmhosibl; ac mai ofn mai yn fethiant y troisai yr anturiaeth a barai iddo ymbil mor daer am gael ei esgusodi rhag cynyg ymaflyd ynddi; ond gan fod y gŵr a lefarai wrtho o'r berth yn gwrthod derbyn ei holl esgusodion, y mae y gŵr Moses yntau am gael enw ar yr Hwn oedd yn ei anfon at y gwaith a fuasai yn ateb i'r amgylchiad—enw a fuasai yn cynwys ynddo sicrwydd cyflawniad y gwaith, er yr holl anhawsderau a safent ar y ffordd; Wel, "Fel hyn yr adroddi wrth feibion Israel, gan ddywedyd, Ydwyf a'm hanfonodd atoch." Dyna ddigon ar gyfer pobpeth, mewn un gair! "Y mae y gwaith y fath na chlybuwyd erioed sôn am ei gyffelyb, pwy a'i cyflawna?" Ydwyf! "Y mae Israel yn gaethion dan law Pharaoh greulawn, ac yn ngafael yr awdurdod gryfaf ar y ddaear,

awdurdod na ollynga byth mo'i gafael ar ei hysglyfaeth, ond ar waethaf ei chalon, a phwy a ddichon ei gorthrechu?" YDWYF! Dywedodd yr Hwn oedd yn llefaru o'r berth wrth Moses y buasai i'r genedl, ar ol eu gwaredu o'r Aifft, wasanaethu Duw yn yr anialwch hwnw o flaen Horeb a Sinai. "Pa fodd y dygir hwynt yma?" gallasai Moses ofyn, "y mae y Môr Coch rhwng yr Aifft a'r anialwch hwn, pa fodd y gellir eu dwyn yma?" Trwy waelod y môr ar dir sych. "Pwy a wna ffordd yn y môr drwy y dyfroedd dyfnion?" YDWYF! "Pwy a'u cynal ac a'u harweinia trwy'r anialwch mawr ac ofnadwy, 'lle nad oes hau na medi,' 'trwy dir diffaeth a phyllau;' 'tir sych diffaeth heb ddwfr, lle mae seirff tanllyd ac yscorpionau—tir nad aeth gŵr trwyddo, ac na thrigodd dyn ynddo;" a phwy a ddichon ddarostwng a goresgyn y wlad a addawyd iddynt, sydd yn cael ei meddiannu gan genhedloedd mwy a chryfach o lawer nac Israel, a chanddynt ddinasoedd caerog hyd y nefoedd—Pwy a wna y pethau mawrion ac ofnadwy hyn oll?" YDWYF! Myfi a'u gwnaf. Lluosoger a mwyhaer y rhwystrau a'r anhawsderau hyd eithaf gallu meddwl a dychymyg i wneyd, a dyma un gair, un enw ar eu cyfer a'u symuda ac a'u dilëa hwynt oll ar unwaith, ac am byth—"YDWYF!" Ië, fel y dywed yr hên air, "Peth hawdd ydyw dyweyd, ond peth arall ydyw gwneyd." Dywedodd dynion fel Senacherib a Nebuchodonosor, a llawer o'u blaen ac ar eu hol hwy, y gwnaethent bethau aruthrol ac ofnadwy, na allasant byth eu cyflawni. Do; ond nid felly yr YDWYF sydd yn llefaru yn y berth; iddo Ef y mae *cyflawni* ei air mor hawdd a *llefaru* y gair. Wrth anerch y genedl a ddygasai Moses o'r Aifft, ac a arweiniasai trwy'r anialwch, y mae Joshua, olynydd Moses, yr hwn a oresgynodd ac a ranodd wlad yr addewid yn etifeddiaeth i'r llwythau, yn dywedyd wrth y bobl, "Ac wele fi yn myned heddyw

i ffordd yr holl ddaear, a chwi a wyddoch yn eich holl galonau, ac yn eich holl eneidiau, na phallodd dim o'r holl bethau daionus a lefarodd yr Arglwydd eich Duw am danoch chwi, hwy a ddaethant oll i chwi, ac ni phallodd dim o honynt." (Josh. xxiii. 14.) Tua phedair blynedd a thrigain cyn hyny y dadguddiasai Duw ei Hun i Moses o'r berth dan yr enw newydd "YDWYF," ac yn awr, wele yr enw hwnw wedi ei wirio a'i gyflawni oll yn oll yn ei berthynas â goruchwyliaeth y waredigaeth fawr o'r Aifft a sefydliad y gwaredigion mewn cyflawn feddiant o wlad yr addewid. "*Daethant oll i ben, ni phallodd un.*"

2. Peth arall, ni a dybiwn, a barai i Moses ofyn y cwestiwn, "Beth yw ei enw Ef?" oedd ei awydd am adnabyddiaeth helaethach o Dduw, er cadarnhad ei ffydd ynddo, fel y gallai fyned at ei waith mawr yn fwy calonog a hyderus. Po helaethaf fyddo adnabyddiaeth yr enaid o Dduw, mwyaf oll fydd ei nerth a'i wrolder i sefyll a gweithio dros Dduw—"Y bobl a adwaenant eu Duw fyddant gryfion ac a ffynant." (Dan. xi. 32.) Myfyriodd Moses lawer yn ddiau ar yr enw gogoneddus hwn ar ei ffordd o Midian i'r Aifft; a phan y safai ger bron Pharaoh i lefaru wrtho genadwri Duw, ac y cyflawnai y rhyfeddodau a'r gweithredoedd nerthol yn nhir Ham, ac wrth y Môr Coch, teimlai fod yr YDWYF tragwyddol â'i adnoddau anfeidrol wrth ei gefn i'w arddel a'i lwyddo, a, "Trwy ffydd y gadawodd efe yr Aifft, heb ofni llid y brenin, canys efe a ymwrolodd fel un yn gweled yr anweledig." (Heb. xi. 27.) Wrth fendithio y llwythau cyn ac yn ymyl marw, tynodd ei holl enaid allan pan ddaeth at Joseph, a *chlimax* y fendith hono oedd, "Ac âg ewyllys da *Preswylydd y berth* delo bendith ar ben Joseph, ac ar goryn yr hwn a neillduwyd oddiwrth ei frodyr." (Deut. xxxiii. 16.) Tarawodd y côf am hên weledigaeth y berth yn Horeb ddeugain mlynedd o'r blaen

gyda goleuni a nerth ar ei feddwl, a rhoddodd yntau enw newydd ar yr Hwn a lefarasai wrtho o ganol y berth yn llosgi gan dân, enw a ddefnyddir yn fynych eto yn nghaniadau y Saint—"Preswylydd y berth."

Ymweithiodd Moses yn mhellach ac yn ddyfnach i fynwes yr Anfeidrol nac yr un arall o ddynion sanctaidd yr Hên Destament. Tynodd enw newydd arall ar Sinai i gyfarfod â'r amgylchiad yr oedd efe ag Israel ynddo ar y pryd hwnw, yr hwn a ddaw dan sylw dro arall. Cafodd Moses waith mwy i'w wneyd dros Dduw nac a gawsai yr un o'i flaen nac ar ei ol, ac i'w addasu a'i nerthu i gyflawni y gwaith hwnw cafodd fyned yn nes at Dduw, ac yn ddyfnach i'w gyfrinach na neb arall; felly dywed yr Arglwydd am dano, pan lefarodd Miriam ac Aaron yn ei erbyn—"Yna disgynodd yr Arglwydd yn ngholofn y cwmwl, ac a safodd wrth ddrws y babell, ac a alwodd ar Aaron a Miriam, a hwy a aethant allan ill dau, ac Efe a ddywedodd, Gwrandewch yr awr hon fy ngeiriau. Os bydd proffwyd yr Arglwydd yn eich mysg, mewn gweledigaeth yr hysbysaf iddo, neu mewn breuddwyd y llefaraf wrtho. *Nid felly y mae fy ngwas Moses*, yr hwn sydd ffyddlon yn fy holl dŷ. Wyneb yn wyneb y llefaraf wrtho; mewn gwelediad, nid mewn damegion, ond caiff edrych ar wedd yr Arglwydd; pa ham, gan hyny, nad oeddych yn ofni dywedyd yn erbyn fy ngwas, sef yn erbyn Moses? A digofaint yr Arglwydd a enynodd yn eu herbyn hwynt, ac Efe a aeth ymaith." (Num. xii. 6–8.) "Ac ni chododd proffwyd eto yn Israel megis Moses, yr hwn a adnabu yr Arglwydd wyneb yn wyneb. Yn mhob rhyw arwyddion a rhyfeddodau, y rhai yr anfonodd yr Arglwydd i'w gwneuthur yn nhir yr Aifft, ar Pharaoh, ac ar ei holl weision, ac ar ei holl dir ef. Ac yn yr holl law gadarn, ac yn yr holl ofn mawr, y rhai a wnaeth Moses yn ngolwg holl Israel." (Deut. xxxiv. 10–12.)

II. *Gwerth yr enw hwn i wasanaeth ffydd yr Eglwys drwy'r oesau.* Y mae yr enwau a roddodd yr Anfeidrol arno ei Hun yn ei air y trysorau gwerthfawrocaf i ni o'r oll a gynwysir yn y Gair. Y mae pob peth ein iachawdwriaeth ni—pob peth bywyd, gobaith, ffydd, cynhaliaeth, cysur a diddanwch eglwys Dduw yn y byd, oll wedi eu trysori yn yr enwau a roddodd Efe arno ei Hun yn ysgrythyr y gwirionedd. Y mae yr enw a rydd yr Addawr wrth bob addewid yn wystl gymaint ag ydyw gwerth anrhydedd a gogoniant yr enw, y cyflawnir hi i'r llythyren o honi, yn ei phryd, fel y cyflawnwyd yr addewid o waredigaeth Israel o'r Aifft. Ni phallodd dim o bethau daionus yr addewid hono, daethant oll i ben. Y mae yr "YDWYF" yn y testyn wrth gefn pob addewid sydd eto heb eu cyflawni, ac y mae yn yr addewidion hyny waredigaethau llawer mwy, hyd yn nod na'r waredigaeth hono o'r Aifft; a thrachefn, yr un o Babilon, a gwaredigaethau drwy rwystrau mwy, a gwrthwynebiadau cryfach nac oedd ar ffordd y ddwy hyny; yn

1. Gwaredigaeth hâd Israel o Aifft eu caethiwed ysprydol dan anghrediniaeth, a'u dygiad i ryddid a dedwyddwch Canaan yr efengyl yn y dyddiau diweddaf. Y mae llawer o'r addewidion hyn yn yr Hên Destament a'r Newydd. Wrth edrych ar, a meddwl am eu cyflwr yn nghaethiwed eu hanghrediniaeth a'u gelyniaeth yn erbyn yr efengyl—eu bod wedi parhau yn y cyflwr hwn am ddwy fil o flynyddoedd, mor anghrediniol a gelynol yn awr ag oeddynt yn nyddiau'r apostolion, na ddarfu i'r hyn oll a wnaeth yr Eglwys Gristionogol hyd yma er eu dychwelyd, effeithio na menu dim arnynt fel cenedl (ond yn unig ychydig bersonau), tuedda hyn i lesghau ffydd yr eglwys yn sicrwydd cyflawniad yr addewid; ond pan feddylio fod yr "YDWYF" digyfnewid yn sefyll yn gefn i'r addewidion hyn oll—mai ei addewidion Ef ei hun ydynt, a'u bod oll ynddo Ef yn "Ië" ac "Amen,"

cadarnheir ei ffydd yn sicrwydd y cyflawniad, a bod "yn haws i'r nef a'r ddaear fyned heibio" nac i un iòd o honynt ballu na methu. Megis yn y dyddiau y daeth yr hên genedl i fyny o wlad yr Aifft y dangoswyd iddi ryfeddodau a barasant i'r môr megis ddychrynu a chilio, i'r mynyddoedd lamu fel hyrddod, a'r bryniau fel ŵyn defaid—"a wnaethant i dduciaid Edom synu, a chedyrn hyrddod Moab i doddi ymaith," &c. Ac megis y bu pan y gwaredwyd hi o gaethiwed Babilon, pan oedd yr holl genhedloedd cylchynol yn "synu ac yn arswydo," ac yn dywedyd, "Yr Arglwydd a wnaeth bethau mawrion i'r rhai hyn;" felly gwna Efe ryfeddodau mwy eto pan ddelo dydd eu gwaredigaeth fawr, eu rhyddhad o efynau eu hanghrediniaeth i ben. Bydd eu dychweliad yn un wyrth fawr nad oes gyffelyb iddi yn hanes y gwyrthiau gynt—yn wyrth ger bron llygaid yr holl genhedloedd y maent yn wasgaredig yn eu mysg, pryd y genir y genedl i'r Eglwys Efengylaidd ar unwaith, mewn un dydd. Dyna y pryd y dychryna Anffyddiaeth, y gesyd eu llaw ar ei genau, ac y "tawa fel careg." Yr "YDWYF" a lefarodd yn y berth a lefarodd hefyd y pethau hyn, ac Efe a'u dwg oll i ben, "ni phalla un," fel y cyflawnodd Efe yr holl addewidion am y waredigaeth o'r Aifft yn ystod y trigain mlynedd canlynol i gyhoeddiad yr enw mawr hwnw yn y berth yn Horeb.

2. Dychweliad yr holl genhedloedd i'r ffydd yn Nghrist oddiwrth eu holl eilunod a'u coel-grefyddau, yn un cyflawnder a chyfangorff, wedi y delo "Y Gwaredwr o Seion i droi ymaith annuwioldeb oddiwrth Jacob." "Ac yna holl Israel a fydd gadwedig," a bydd eu hadferiad a'u himpiad hwy drachefn yn eu holewydden eu hun, yn fywyd o feirw i'r cenhedloedd yn gyffredinol. Nid yw ffydd yr eglwys eto wedi dyfod i'r nerth angenrheidiol i wireddoli yr addewidion lawer sydd yn y Gair am y pethau mawrion hyn; edrycha

llawer o Gristionogion ar y fath addewidion fel yn fwy o farddoniaeth—desgrifiadau awenyddol, a'u bod i edrych arnynt a'u deall felly, ac nid pethau i'w cyflawni yn llythyrenol mewn ffeithiau. Ond ai felly y mynai yr Hwn a addawodd i'w bobl Ef ddeall ei air a'i addewidion a "gyfryngodd Efe trwy lŵ?" Faint bynag o farddoniaeth oedd yn yr addewidion a'r llwon am y gwaredigaethau o'r Aifft a Babilon, cyflawnwyd pob un i'r llythyren a'r iòd—"Daethant oll i ben, ni phallodd dim," canys Yr Ydwyf ei Hun a'u llefarasai, ac Efe a'u cyflawnodd; ond os na chyflawnir yr addewidion am waredigaeth fawr yr Iuddewon a'r Cenhedloedd o gaethiwed eu hanwybodaeth a'u hanghrediniaeth yn llythyrenol, yr un modd ag y cyflawnwyd yr addewidion am y gwaredigaethau cenedlaethol a thymorol hyny, bydd cwmwl annileadwy yn aros ar ogoniant yr "Ydwyf" a addawodd.

3. Adgyfodiad y meirw a gogoneddiad y saint yn y dydd diweddaf. Nid oes dim yn farddonol yn ngwisgiad yr addewidion am hyny. Llefarodd yr Ydwyf yn y berth pan ddaeth Efe, y tân ysol ei Hun, i breswylio yn mherthen dynoliaeth, mewn geiriau symlion pendant ar y mater hwn lawer gwaith, gan ddywedyd, "Myfi a'i hadgyfodaf ef." Ac, "Y mae yr awr yn dyfod pan y caiff pawb sydd yn y beddau glywed ei leferydd Ef, a hwy a ddeuant allan," &c.

"Anmhosibl! Ynfydrwydd!" gwaedda Anffyddiaeth ac Annuwiaeth gyda'u gilydd. Pa beth? "Ai anghredadwy y bernir gyda chwi," Anffyddiaeth ac Annuwiaeth, "y cyfyd Duw y meirw?" "Ië," medd Anffyddiaeth, "Anghredadwy y bernir genyf fi ddarfod i Dduw erioed ddyweyd y gwnai Efe y fath beth, na darfod iddo erioed ymyraeth dim oll â threfn a deddfau anian ar un achlysur, nac y gwna Efe hyny byth; ac nad yw yr holl wyrthiau y cymer eich Beibl arno roddi hanes am danynt yn ddim oll ond ffugchwedlau celwyddog o ddyfais twyll-offeiriadaeth i synu a

hudo dynion ehud a gweinion i wneyd ysbail ac enw o honynt." "Ië," medd Annuwiaeth, "Anghredadwy y bernir genyf fi fod Duw o'r fath y soniwch chwi am dano yn bodoli o gwbl. Ni fu i anian a'i deddfau, ei chreaduriaid a'i helfenau, Greawdwr o'r fath y dychymygwch chwi am dano yn bodoli. Nid oes duw arall, nac oes Duw, amgen na naturiaeth ei hun, yr hwn dduw y mae pawb a phobpeth yn rhanau o hono; ac nid yw yr holl ddigwyddiadau a'r cyfnewidiadau a gymerant le beunydd o'n hamgylch yn ddim oll ond gwaith y duw hwn, natur, yn dadanhuddo ei hun drwy rym naturiol ei ddeddfau cynhenid a gwreiddiol. Po fwyaf yr ymchwiliaf i gyfrinion mynwes y duw hwn, mwyaf oll yr wyf yn cael fy argyhoeddi a'm sicrhau mai felly y mae."

Wel, "Deuwch yn nes â'ch cwyn," eich dwyoedd. Dygwch eich rhesymau cadarnaf am eich credöau. Ymostyngwch, er hyny, i gydymddyddan â ni, er ein bod gymaint îs law i chwi mewn gwybodaeth a doethineb. Yr ydym ni yn credu yn modoliaeth Un YDWYF, Un Duw byw personol ac anfeidrol, yn Greawdwr a Llywodraethwr pob peth, ac yn Farnwr pawb; ac yr ydym ni yn credu ddarfod i'r Duw Hwnw roddi dadguddiad o hono ei Hun a'i ewyllys i ni yn Ysgrythyrau yr Hên Destament a'r Newydd—bod yr holl Ysgrythyr wedi ei roddi drwy ei ysprydoliaeth Ef, ac felly fod pobpeth a gynwysir ynddi—yn hanesion a thystiolaethau, yn broffwydoliaethau ac addewidion a bygythion—yn wirioneddau dilys a safadwy. Chwi a addefwch, canys nis gellwch ei wadu, a dyweyd y lleiaf, i luoedd o ddynion llawn mor ddoeth, mor ddysgedig, mor ddeallus, mor ymofyngar, ac mor alluog a'r rhai penaf a goreu o honoch chwi sydd yn fyw heddyw, ddarfod i luoedd o'r cyfryw ddynion (meddwn) o wahanol wledydd a chenhedloedd, ac mewn gwahanol oesau, gredu yn, cydnabod ac addoli, a gweddïo ar yr YDWYF—y Duw Hwnw; a chredu fod y llyfr hwnw a

ddirmygwch chwi yn wir a phur Air Duw, ac ymorphwys ar ei dystiolaethau ef fel unig graig eu gobaith—rhaid i chwi gydnabod y pethau hyn, heb achos i neb ddiolch i chwi am hyny. Gan hyny, yr ydym ninau, y bobl syml a gwledig, nad ydym yn meddu nac yn hòni y ddysg a'r ddoethineb a'r wybodaeth a feddwch chwi, yr ydym ni, meddwn, yn teimlo y gallwn heb ryfygu, anturio nesau atoch, ac ymresymu â chwi ar y mater mawr hwn. Ië, y mae genym hawl i wneyd felly, canys nid iawn fyddai i ni oddef i chwi gymeryd oddiarnom y trysorau gwerthfawrocaf a feddwn yn y byd a'r bywyd hwn, heb sôn am fyd a bywyd ar ol hwn, heb wneyd ymdrech i'w diogelu yn ein meddiant, ac i'n plant ar ein hol. A chaniatau i chwi, ddoethion Anffyddiaeth ac Annuwiaeth, nad yw yr holl stori a gawn yn yr Ysgrythyr am y gwyrthiau a'r rhyfeddodau mewn cysylltiad â gwaredigaeth plant Israel allan o'r Aifft, ddim amgen na ffug-chwedl wedi ei dyfeisio gan y Moses hwnw ei hun, neu gan rywun arall ar ol ei amser ef, a wnai wron dychymygol o hono i seilio ei ramant arno, yn gyffelyb fel y gwnaed Arthur yn wron y Mabinogion Cymreig; a chaniatau i chwi hyn oll, A anturiwch chwi eto haeru na bu cenedl Israel erioed mewn caethiwed yn yr Aifft dan law Pharaoh a'i weision? Na, gwyddoch na wiw i chwi gynyg gwneyd y fath beth, gan fod sicrwydd y gwirionedd hanesyddol am y ffaith hono yn sefyll fel craig ddiysgog drwy yr holl oesau; cenedl gyfan o bobl sydd yn aros hyd yr awr hon wedi ei chredu drwy yr holl genhedlaethau, heb i neb un o honynt ei gwadu na'i hameu erioed; ei phroffwydi, ei beirdd, a'i hoffeiriaid yn mhob cenhedlaeth olynol yn y dyddiau gynt, hyd ei Rabbiniaid a'i dysgawdwyr yn y dyddiau hyn yn ei chrybwyll, yn ei chroniclo, ac yn canu iddi, fel peth a gredent ac a gredant yn awr mor ddilys ac y credant y ffaith o'u bodoliaeth eu hunain; ac a

gredwyd yr un modd gan genhedloedd ereill hên a diweddar hefyd. Y cwestiwn yw ynte, Pa fodd y gwaredwyd y genedl o'r caethiwed hwnw, ac y dygwyd hi i feddiannu gwlad Canaan? Y mae y ffaith ddarfod iddi feddiannu y wlad hono, eto, mor sicr-brofedig na feiddia un perchen synwyr cyffredin geisio ei wadu. Pa fodd y symudwyd cenedl gyfan o gaethion tlodion oedd yn rhwym yn ngafaelion tynion y gallu gwladol cryfaf ar y ddaear? A dybiech chwi ddarfod iddynt orthrechu y gallu hwnw, a dryllio rhwymau eu caethiwed o honynt eu hunain? Na thybiech chwi, na neb arall byth, i genedl o gaethion tlodion, heb ddysgu rhyfel erioed, ac heb feddu dim darpariadau rhyfel, allu gorchfygu y gallu milwraidd cryfaf ar y ddaear, oedd yn meddu ar fyddinoedd cryfion, wedi eu dysgu a'u hyfforddi yn dda, a phob darpariadau rhyfel ganddynt bob amser yn barod. Pa fodd ynte? A dybiech chwi ddarfod i frenin yr Aifft a'i weision foddloni i ollwng eu caethion o'u gwlad, y rhai yr oedd eu gwasanaeth yn dwyn y fath elw dirfawr i'w teyrnas, a'u gollwng felly heb na gwerth na gwobrwy? Os credech ac yr hònech y gallai mai yn un o'r ddwy ffordd yna y daethant allan o'r Aifft, na soniwch byth mwy am wyrthiau fel pethau anmhosibl. Buasai gwaredigaeth y caethion yn un neu arall o'r ffyrdd hyny, yn gymaint, ïe, yn fwy o wyrth na'r un o'r deg plâ y dywed yr hanes ysgrythyrol ddarfod i'r Arglwydd daro gwlád yr Aifft â hwy er dwyn ei bobl allan o'i chaethiwed. Onid doethach i ddoethion y dyddiau hyn ddywedyd am y waredigaeth hono, fel y dywedodd doethion yr Aifft eu hunain uwchben un o'r gweithredoedd nerthol hyny, "Bys Duw yw hyn." Yr YDWYF a lefarodd yn y berth, a gyflawnodd â'i law yr hyn a lefarasai â'i enau, gredwn ni, ac a gyflawna eto yr oll a addawodd Efe sydd yn aros heb ei gyflawni, hyd nes y perffeithir yr holl oruchwyliaeth fawr yn adgyfodiad ei saint

o'r bedd, a'u gogoneddiad gydag Ef y dydd diweddaf, "Ac yna bydd Duw oll yn oll."

"Gwyn eu byd y bobl y mae yr Arglwydd yn Dduw iddynt. Ymddiriedwch yn yr Arglwydd byth, o herwydd yn yr Arglwydd Dduw y mae cadernid tragwyddol." (Esa. xxvi. 4.) Adgofia'r Arglwydd ei bobl yn fynych drwy y proffwydi am ei weithredoedd nerthol a wnaethai Efe drostynt wrth eu gwaredu o'r Aifft er cadarnhau eu ffydd a'u hymddiried yn ei enw, ei air, a'i addewid am bethau mwy eto yr oedd Efe ar fedr eu gwneuthur iddynt. "Am hyny (medd Efe) caiff fy mhobl adnabod fy enw; am hyny y cânt wybod y dydd hwnw mai Myfi yw yr Hwn sydd yn dywedyd; Wele, Myfi ydyw." (Esa. lii. 6.) "Cafodd fy mhobl adnabod fy enw a ddadguddiais iddynt trwy Moses yn y berth yn eu gwaredigaeth o'r Aifft; a chafodd Pharaoh a'r Aifftiaid hwythau adnabod yr enw hwnw er eu gwae a'u dinystr yn y Môr Coch. Caiff fy mhobl adnabod fy enw eto yn eu gwaredigaeth o Babilon, a chaiff y Babiloniaid hefyd adnabod fy enw yr un pryd yn eu dinystr hwy." "Megis y dyddiau y daethant allan o dir yr Aifft y dangosaf iddi ryfeddodau." "Y cenhedloedd a welant ac a gywilyddiant gan eu holl gryfder hwynt: rhoddant eu llaw ar eu genau, eu clustiau a fyddarant." (Mic. vii. 16, 17.) Peri adnabod ei enw mawr dadguddiedig yn ei air i'w bobl ac i'w gelynion hefyd yr oedd Efe yn y rhyfeddodau a'r gwaredigaethau hyny, ac y mae Efe eto yn ngoruchwyliaethau ei ragluniaeth yn aml. Parodd i holl natur, y môr a'r mynydd, yr anialwch a'r graig, a'r holl genhedloedd oddiamgylch, wybod ystyr yr enw Ydwyf, fel y cana Habbacuc yn ogoneddus am y rhyfeddodau hyny—"A sòrodd yr Arglwydd wrth yr afonydd? ai wrth yr afonydd y mae dy ddîg! Ai wrth y môr y mae dy ddigofaint? gan i ti farchogaeth ar dy feirch, ac ar gerbydau dy

iachawdwriaeth. Llwyr noethwyd dy fwa yn ol llwon y llwythau, sef dy air Di. Holltaist y ddaear âg afonydd. Y mynyddoedd a'th welsant, ac a grynasant; y llifeiriant dwfr a aeth heibio; y dyfnder a wnaeth dwrf; cyfododd hefyd ei ddwylaw yn uchel." (Hab. iii. 8–10.) Esponiad ar yr enw YDWYF yn y berth oedd y pethau mawrion ac ofnadwy hyny. Efe oedd yn myned allan er ymwared i'w bobl a dinystr i'w gelynion—gan farchogaeth ar "gerbydau ei iachawdwriaeth." Ar y pedwerydd dydd ar ddeg o fis Abib (ein Mawrth ni), ar ben y ddegfed flwyddyn ar hugain a phedwar cant o breswyliad meibion Israel yn yr Aifft, cychwynodd cerbydres (*train*) iachawdwriaeth o orsaf Rameses â chwe chan mil o wyr, heblaw plant, o *bassengers* ynddo, o dan nawdd a gofal yr YDWYF tragwyddol ei hun; safodd enyd yn ngorsaf Succoth; cychwynodd oddiyno a chyrhaeddodd orsaf Migdol yn ddiogel.

Pa fodd yr â yn mlaen yn awr? Y mae trên arall, trên natur a rhagluniaeth (*luggage train*), yn union o flaen trên iachawdwriaeth, sydd wedi bod yn rhedeg ar y llinell gyferbyniol iddo yn ol ac yn mlaen am oesau olynol; os rhed y llall yn mlaen yn awr, bydd yna *gollision* a dinystr ofnadwy yn union; ac och! dyna sŵn trên Pharaoh yn cynwys ei holl fyddin, yn feirch a marchogion, a gwyr traed yn nesau. Y mae trên yr iachawdwriaeth, a'r holl deithwyr sydd ynddo, wedi cau arnynt mewn sefyllfa arswydus, fel nas gall symud yn ol nac yn mlaen! Dyma'r adeg i'r YDWYF yn y berth ogoneddu yr enw hwnw. "Sefwch ac edrychwch." Yr oedd Efe yn myned o flaen ei drên, ac yn dàl goleuni iddo yn y nos; a phan y daeth at linell hên drên natur a rhagluniaeth, efe a barodd iddo sefyll a *shuntio*—cilio yn ei ol—cilio o'r ffordd—ac yn mlaen â thrên yr iachawdwriaeth ar draws llinell y llall, ar gledr-ffordd newydd a wnaethai yr enyd hono ar waelod y môr ar dir sych. Yr oedd trên

Pharaoh yntau yn gyru yn mlaen ar ei ol ar ruthr, ond wedi i drên iachawdwriaeth gyraedd yr orsaf nesaf, ar dir sych, a thra yr oedd trên y gelyn ar ganol y ffordd yn ngwaelod y môr, rhoddodd Llywydd trên yr iachawdwriaeth *signal* i hên drên rhagluniaeth gychwyn yn mlaen, ac yn mlaen yr aeth yn ei nerth ar draws trên yr Aifft, gan ei dori a'i ddryllio yn chwilfriw, fel y darfu am dano, a phob un oedd ynddo. YDWYF oedd yno yn gogoneddu ei enw mawr; fel y dywedasai—"A mi a ogoneddir ar Pharaoh, ac ar ei holl fyddin, ar ei gerbydau ef, ac ar ei farchogion; a'r Aifftiaid a gânt wybod mai myfi yw yr Arglwydd, pan y'm gogoneddir ar Pharaoh, ar ei gerbydau, ac ar ei farchogion." (Exodus xiv. 17, 18.)

"Yna canodd Moses a meibion Israel," ac yr oedd blâs ar y gân hono a'r canu hwnw; a llawer cân a gyfansoddodd beirdd yr Hên Destament ar y testyn hwnw, ac a ddatganodd cantorion Sïon ar y caniadau hyny drwy yr oesau a'r cenedlaethau; ac y mae adsain yr hên ganiadau yn aros eto yn Sïon y Testament Newydd. Troi i gofio a choffâu "y gwyrthiau gynt" y byddai y ffyddloniaid yn Israel bob amser pan elai yn dywyll a digalon arnynt, fel seiliau i ymgysuro a gobeithio y byddai i'w Duw eu cofio ac ymweled â hwy mewn trugaredd eto. Y mae holl gyfyngderau ac ofnau Sïon Duw erioed wedi dibenu mewn caniadau. Ac wedi i'r holl dywydd garw fyned heibio—"Gwaredigion yr Arglwydd a ddychwelant, ac a ddeuant i Sïon â chaniadau, ac â llawenydd tragwyddol ar eu pen: goddiweddant lawenydd a hyfrydwch, a chystudd a galar a ffŷ ymaith." (Esa. xxxv. 10.)

# PREGETH II.

## MAWREDD DUW YN EI HANFOD, EI ALLU, EI GYFIAWNDER, A'I RASLONRWYDD.

"O'r gogleddwynt y daw hindda: y mae yn Nuw ogoniant mwy ofnadwy. Am yr Hollalluog, ni allwn ni mo'i gael ef: ardderchog yw o nerth, a barn, a helaethrwydd cyfiawnder: ni chystuddia efe. Am hyny yr ofna dynion ef: nid edrych efe ar neb doeth eu calon."
—*Job* xxxvii. 22–24.

Pa un a'i hanes a'i dameg yw llyfr Job, a chan bwy, a pha bryd yr ysgrifenwyd ef, sydd wedi bod yn fater ymchwiliadol yn mysg beirniaid er oesau boreuol, ac y mae y pwnc yn aros heb ei benderfynu hyd heddyw. Y grêd fwyaf gyffredinol yw bod y llyfr yn dwyn nodau amlwg hanesyddiaeth ddilys—nodau nad ydynt byth i'w cael mewn dameg, nac yn briodol iddi, megis enwau achau a chenedlaethau y Patriarch a'i gyfeillion. Eglur yw fod y proffwyd Eseciel yn golygu Job yn berson gwirioneddol pan gysylltia ei enw gyda Noah a Daniel (Esec. xiv.); a'r apostol Iago yr un modd pan y cyfeiria ato ef ac Elias fel esiamplau o ddioddefgarwch ac amynedd (Iago v. 11, 12).

Ni chytuna beirniaid chwaith i ba rŷw o farddoniaeth y perthyn y cyfansoddiad. Myn rhai mai arwrgerdd, ereill mai *drama*, a'r lleill mai bugeilgerdd ydyw; ond cytuna

pawb, gelynion yn gystal a chyfeillion yr Ysgrythyr, ei fod yn farddoniaeth o'r fath fwyaf oruchel a godidog a gyfansoddwyd erioed.

Gwedd batriarchaidd hollol sydd ar grefydd yn y llyfr hwn yn ei hathrawiaeth a'i defodau. Nid oedd goruchwyliaeth cyfamod Sinai wedi ei threfnu a'i gosod i fyny yn amser Job a'i gyfeillion; a phe buasai, ni allasent hwy fod yn ddeiliaid darostyngedig i ddeddf yr oruchwyliaeth hono, er eu bod o hâd Abraham, canys i'r gangen hono o'i hâd ef —"hâd yr addewid"—a hànai o Isaac, ac wedi hyny o Jacob, y trefnwyd yr oruchwyliaeth hono a'i defodau. Yn nechreu y llyfr, cawn hanes Job fel offeiriad yn ei deulu, yn aberthu dros ei blant; ac yn ei ddiwedd cawn ef yn cael ei osod gan Dduw yn offeiriad mwy cyhoeddus, i aberthu ac eiriol dros ei gyfeillion, yr hyn oedd yr anrhydedd uchaf a allasai efe gael.

Heb ddilyn y pethau hyn yn mhellach, dychwelwn at eiriau ein testyn. Llefarwyd hwy gan Elihu, yr ieuengaf a'r olaf a gymerodd ran yn y ddadl rhwng Job a'i gyfeillion. Ymddengys fod y gŵr ieuanc hwn wedi syrthio i'r amryfusedd y mae gwyr ieuainc yn gyffredin yn dueddol iddo —awydd i ddangos ei wybodaeth a'i dalentau—tybio ei fod ef yn deall pwnc y ddadl yn llawer amgenach nag yr oedd Job ac Eliphas, a Bildad a Zophar yn ei ddeall. Dengys gryn hyfdra, anweddus i un o'i oedran ef, wrth gyfarch henafgwyr anrhydeddus fel Job a'i gyfeillion. Beia hwy yn drwm, a dwrdia hwy yn dost, am nad oedd yr un o honynt yn dirnad y mater y dadleuent yn ei gylch; ac ni phetrusa osod ei hun yn oracl a dysgawdwr iddynt. Geilw ar Job i ymbarotoi a sefyll o'i flaen ef i ateb ei gwestiynau a'i resymau, os gallai. "Gwrando arnaf fi," medd ef; "Bydd ddistaw, a myfi a ddysgaf i ti ddoethineb;" a geilw ar y tri ereill, yr un modd, i wrando arno a chymeryd eu dysgu ganddo.

Y mae Elihu yn llefaru yn dra rhagorol, mae yn wir. Nid yw yn dwyn llawer o bethau newydd i'r ddadl; helaetha a manyla lawer ar rai o'r pwyntiau a nodasai y lleill. Rhoddodd gyfleusdra i Job i'w ateb, os mynai, ddwywaith neu dair; ond parhaodd Job yn ddistaw, gan farnu, fe ddichon, ei fod wedi ei ateb ef eisoes yn ei atebion i'w dri chyfaill, ac hwyrach y golygai mai y ffordd fwyaf priodol i geryddu hyfdra y gŵr ieuanc oedd peidio gwneyd sylw o hono. Felly hefyd y gwnaeth Duw ei hun pan ddaeth Efe i derfynu y ddadl.

Ymddengys Elihu ar ganol ei araeth olaf hon fel un mewn brys i fyned i'r pen a thewi. Yr oedd mewn brys ac awydd mawr am gyfle i ddechreu llefaru; dywed fod ei "fol fel gwin nid agorid arno;" bod "yspryd ei ddeall yn ei gymell i lefaru;" a bod yn rhaid iddo "ddywedyd fel y caffai ei anadl," &c. Y mae efe eto tua'r diwedd fel yn colli ei anadl *wrth* lefaru, ac yn ymddangos ar lawn cymaint brys i dewi ag oedd efe i ddywedyd ar y cychwyn. Yr oedd amgylchiadau, tebygid, yn peri hyn. Pan oedd efe ar ganol ei araeth olaf hon, tòrai taran gref allan yn ddisymwth ac annisgwyliadwy uwchben y dadleuwyr, yr hon a barai i galon yr areithiwr "grynu a dychlamu allan o'i lle," medd efe. Taflodd y daran ef oddiar linell ei ymresymiad, a throes i draethu ar fawredd a gogoniant Duw yn y taranau a'r mellt. Ciliai y dymestl daranllyd yn raddol—goleuai y ffurfafen, anadlai awel adfywiol o'r gogledd; cafodd y dadleuwr yntau ei draed tano, a'i anadl ato, ac ymbarotoa i ail-ymaflyd yn ei bwnc. "Cawn dywydd teg," meddai, "canys o'r gogleddwynt y daw hindda." Ar hyny, drachefn, clywent swn rhyferthwy o gorwynt yn dynesu tuag atynt ar du yr anialwch iddynt, ac ymaflai arswyd a braw yn y llefarwr a'i wrandawyr eto. "Y mae yn Nuw ogoniant mwy ofnadwy," medd Elihu—mwy ofnadwy

nac sydd yn y fellten a'r daran. Y mae gweinidogaeth nerth ei gadernid Ef yn rhyferthwy y corwynt yn fwy arswydlawn a dinystriol nag ydyw yn ngweinidogaeth "dirgelwch y daran." Yna, gydag ychydig o eiriau byrion a brysiog, y mae efe yn tewi i roddi lle i'r Hwn oedd yn dyfod i lefaru ar ei ol allan o'r corwynt hwnw. Pan y mae Duw yn dyfod i lefaru, rhaid i gnawd "dewi ger ei fron Ef."

Cyflea geiriau y testyn dair ystyriaeth am fawredd anfeidrol Duw o flaen ein meddwl:—

I. *Fod pob ymchwiliad a wnelo dyn am wybodaeth, adnabyddiaeth, a dirnadaeth o Dduw yn terfynu yn hyn*—"NI ALLWN NI MO'I GAEL EF," *ac* "Y MAE YN NUW OGONIANT MWY OFNADWY."

II. Er hyny, "*Bod gwybodaeth ac adnabyddiaeth o Dduw i'w cael drwy ymchwiliad am dano, a dâl yn dda am y llafur.*" Y mae y pethau hyn i'w dysgu a'u cael am dano Ef—"ARDDERCHOG YW O NERTH, A BARN, A HELAETHRWYDD CYFIAWNDER: NI CHYSTUDDIA EFE."

III. *Bod y wybodaeth hon o Dduw yn dysgu y ddoethineb uchaf i ddyn, fel y mae yn cynwys elfenau hanfodol duwioldeb ymarferol*—"AM HYNY YR OFNA DYNION EF."

I. *Fod pob ymchwiliad a wnelo dyn am wybodaeth a dirnadaeth o Dduw yn terfynu yn hyn*—"NI ALLWN NI MO'I GAEL EF," *ac* "Y MAE YN NUW OGONIANT MWY OFNADWY."

I chwilio am a cheisio Duw y crewyd dyn fel prif ddyben ei fodoliaeth. "Efe a wnaeth o un gwaed bob cenedl o ddynion i breswylio ar holl wyneb y ddaear, ac a benodd yr amseroedd rhag-osodedig a therfynau eu preswylfod hwynt. Fel y ceisent yr Arglwydd os gallent ymbalfalu am dano Ef, a'i gael, er nad yw Efe yn ddiau neppell oddiwrth bob un o honom; oblegid ynddo Ef yr ydym ni yn byw, yn symud, ac yn bôd." (Act. xvii. 26–28.) Y mae pob

creadur arall "yn ceisio ei fwyd gan Dduw;" "Efe sydd yn rhoddi i'r anifail ei borthiant." Ond nid oes yr un o honynt hwy a all geisio Duw ei Hun. Nid oes dim yn natur yr un o honynt yn "sychedu ac yn hiraethu am dano Ef"—dim gallu i feddwl na dirnad dim oll am dano nac i'w fwynhau; ond "y mae yspryd mewn dyn," a rhaid i'r yspryd hwn sydd mewn dyn gael yr Yspryd tragwyddol ei Hun i gyflawni a diwallu angenrheidiau a dymuniadau ei natur ysprydol, neu fod yn dlawd a thruenus byth. Ond eto, "Ni allwn ni mo'i gael Ef," yn

1. *Mewn amgyffrediad o'i Natur a'i Hanfod, ond i raddau bychain ac anmherffaith iawn.* Hanfod ysprydol, anweledig, anfarwol, ac anfeidrol yw Duw. Llefara Zophar yn ardderchog iawn ar hyn (Job xi. 7–9), "A elli di wrth chwilio gael gafael ar Dduw? A elli di gael yr Hollalluog i berffeithrwydd? Cyfuwch a'r nefoedd ydyw, beth a wnei di? Dyfnach nac uffern ydyw, beth a elli di wybod? Y mae ei fesur Ef yn hwy na'r ddaear ac yn lletach na'r môr." Ië, "Beth a wnei di? Beth a elli di ei wybod?" Ni elli di, druan ddyn, er chwilio ac ymofyn, gael dy hunan allan i berffeithrwydd byth, Pa faint llai y gelli gael yr Hanfod Anfeidrol allan felly? Yr Hanfod sydd yn wreiddyn pob hanfod—yn cynal ac yn cynwys pob hanfod ynddo ei hun? Beth a all y pysgfilyn distadl ar làn y môr, pan y mae yn agor gwefusau ei gragen fechan y mae efe yn byw ynddi, ar ddynesiad y llanw, fel pe bai ar fedr llyncu yr eigion mawr; a all efe, druan, draflyncu y môr a'i gyflawnder iddo ei hun? Gosoder holl gregin-bysg yr oesau ar y traeth o'i flaen, lleinw y môr hwynt bob un, a gorchuddia trostynt â chyflawnder ei ddyfroedd heb fod ei gyflawnder ef ddim llai. Beth a all meddwl ac amgyffred dyn, sydd yn preswylio mewn cragen fechan o gnawd ar y ddaear, ddirnad ac amgyffred am eigion cyflawnder mawredd

anfeidrol Hanfod Jehofa? Gosoder holl amgyffredion dynion ac angelion o flaen gogoniant ei fawredd Ef, a chleddir hwynt oll o'r golwg byth fel diddim ynddo—"Ni allwn ni mo'i gael Ef, y mae yn Nuw ogoniant mwy ofnadwy!"

Y mae mawredd Duw yn gynwysedig, yn un peth, yn ei fod Ef yn adnabod ac yn ei amgyffred ei Hun i berffeithrwydd, yn gystal ag y mae Efe yn adnabod ac yn amgyffred pawb a phob peth arall felly. Yn mherffeithrwydd ei adnabyddiaeth o hono ei Hun y mae perffeithrwydd ei ddedwyddwch ynddo ei Hun. [Ni chaf ymhelaethu ar hyn gan ei fod wedi bod dan sylw yn y bregeth flaenorol.]

Eto, perffeithrwydd bodoliaeth yw Duw. Y mae y syniad hwn am dano yn gynwysedig yn yr enw—Duw; h.y., y mae pob priodoledd a ddichon berthyn i fodoliaeth, yn y perffeithrwydd o honi, ynddo Ef, heb le i gynydd, lleihad, diffyg na chyfnewidiad. Yr hyn oedd Efe erioed ydyw yn awr, ac a fydd Efe byth. Yn ei allu nid oes dim yn anmhosibl nac yn anhawdd iddo. Yn ei wybodaeth y mae "y diwedd o'r dechreu" yn hysbys iddo; yn ei bresenoldeb yn llenwi'r nefoedd a'r ddaear—a'r holl briodoleddau ereill yr un modd. Yn y creadur uchaf, y mae y priodoleddau hyn, a phob priodoledd arall y gwnaed ef i fesur yn gyfranog o honi, yn nes i'r diddim nac ydyw i'r perffeithrwydd. Y mae gagendor anfeidrol a thragwyddol rhwng ei wybodaeth Ef â Hollwybodaeth—ei allu â Hollalluowgrwydd, &c.

Drachefn, am a wyddom ni, gall fod priodoleddau yn yr Hanfod Dwyfol heb erioed eu datguddio i ni nac i angelion—priodoleddau nas gallwn ni yr awrhon, beth bynag, amgyffred dim am danynt. Rhaid i'r creadur feddu ar ryw gymaint ei hun o bob priodoledd y gall efe ddirnad rhyw gymaint am dani; priodoledd na chyfranogodd ddim o honi ni all ddirnad dim am dani. Yn y priodoleddau hyny y gallem ni feddu rhyw gymaint o ddirnadaeth am danynt,

am ein bod ni ein hunain yn meddu ar ryw fesur o honynt, y mae Efe wedi datguddio ei Hun i ni yn ei weithredoedd ac yn ei Air, gymaint ag oedd yn angenrheidiol i ni fel moddion gwybodaeth am dano fel creaduriaid cyfrifol iddo yn ein sefyllfa bresenol o brawf, ac fel creaduriaid syrthiedig i roddi gwybodaeth iachawdwriaeth i ni. Pa ddatguddiadau newyddion a wna Efe o hono ei Hun i angelion a saint yn y byd a ddaw, ni wyddom ni; hyn a wyddom, y sait geiriau ein testyn yn wirionedd byth i ni yn y byd hwnw yn gystal ac yn y byd hwn. Wedi oesau rif y tywod mân o chwilio i ryfeddodau yr Hanfod dragwyddol, cytuna'r holl nefolion, o angelion a saint, i ddywedyd âg un llef—"Ni allwn ni mo'i gael Ef!" Y mae yn Nuw ogoniant mwy ofnadwy!"

2. "*Ni allwn ni mo'i gael Ef" a'i amgyffred yn mawredd ei weithredoedd mwy nac yn mawredd ei Hanfod.* Nid aeth golygon dyn erioed, na'i ddirnadaeth, na'i ddychymyg chwaith i derfynau eithaf gweithredoedd ei ddwylaw Ef. "Megis nas gwyddost ffordd yr Yspryd, na pha fodd y ffurfheir yr esgyrn yn nghroth y feichiog, felly ni wyddost waith Duw, yr Hwn sydd yn gwneuthur y cwbl." (Preg. xi. 5.) "Yr hwn sydd yn gwneuthur pethau mawrion anchwiliadwy, a rhyfeddodau aneirif." (Job ix. 10.) Y mae rhyfeddodau fwy na mwy wedi eu chwilio allan o'i weithredoedd ef eisoes; a rhyfeddodau newyddion yn dyfod i'r golwg yn barhaus o uchelderau y nefoedd ac o ddyfnderau y ddaear; ond y mae pob darganfyddiad newydd yn agor i rai ereill yn ddiddiwedd. Gwahodda y nef a'r ddaear yr ymchwilwyr yn mlaen gan ddywedyd megis, "Tyred, fab dyn, a nyni a ddangoswn i ti ryfeddodau mwy." Y mae llyfr Job yn fyw drwyddo (a rhanau ereill o'r Gair Sanctaidd yr un modd) o'r syniadau mwyaf eang a dyrchafedig am fawredd anchwiliadwy Duw yn ei weithredoedd, oll yn terfynu yn hyn, "Ni allwn ni mo'i gael," &c.

3. "*Ni allwn ni mo'i gael Ef" yn ngoruchwyliaethau ei ragluniaeth gyffredinol ac yn ei lywodraeth foesol ar y byd.* Y mae cantau yr olwynion "yn ogyfuwch fel y maent yn ofnadwy; a'u gwedd hwynt a'u gwaith megis pe byddai olwyn yn nghanol olwyn" yn troi rai bob ffordd, a phob un yn troi o ddê i gyfansoddi un oruchwyliaeth fawr i ddwyn oddiamgylch un dyben a phwrpas anfeidrol ddoeth a da. Nid oes genym ni yn yr olwg arnynt ond dywedyd gyda Dafydd, "Dyfnder mawr yw dy farnedigaethau" (Salm xxxvi. 6), a gyda Paul, "O! ddyfnder golud a gwybodaeth Duw! Mor anchwiliadwy yw ei farnau Ef! a'i ffyrdd mor anolrheiniadwy ydynt. Canys pwy a wybu feddwl yr Arglwydd? neu pwy a fu gynghorwr iddo Ef? neu pwy a roddes iddo Ef yn gyntaf ac fe a delir iddo drachefn? Canys o hono Ef, a thrwyddo Ef, ac iddo Ef, y mae pob peth. Iddo Ef y byddo y gogoniant yn dragywydd. Amen." (Rhuf. xi. 33–36.)

Ar y maes hwn y saif Job a'i gyfeillion i geisio egluro a chysoni y goruchwyliaethau dwyfol, ac nid rhyfedd oedd iddynt ddyrysu a chamgymeryd wrth geisio gwneyd hyny. Gwahaniaethent yn fawr oddiwrth eu gilydd yn eu golygiadau ar y pwnc yn ei wahanol ganghenau a'i gysylltiadau, ond cytunent yn hyn, "Ni allwn ni mo'i gael Ef, y mae yn Nuw ogoniant mwy ofnadwy!"

4. "*Ni allwn ni mo'i gael Ef" yn nyfnderoedd rhyfeddodau ei gariad, ei ddoethineb, a'i ras yn nhrefn fawr ein iachawdwriaeth ni yn Nghrist Iesu.*

"Gwnaeth Duw yn Mherson Iesu glân,
Waith mawr tu hwnt i ddim o'r blaen."

Yma y datguddiodd Efe adnoddau "ei fawr amryw ddoethineb" i olwg y "Tywysogaethau a'r awdurdodau yn y nefolion leoedd," ar faes newydd, mewn ffordd newydd, ac yn

helaethach nac erioed o'r blaen. "Ar yr hyn bethau y mae yr angelion yn chwenychu edrych." (Ephes. iii. 10., a 1 Petr i. 12.) Dyfnder mawr dirgelwch person ac ymgnawdoliad Emanuel, ei fywyd yn y byd, ei ddioddefaint a'i angeu fel Aberth ac Iawn dros bechodau y byd, ei adgyfodiad o'r bedd, a'i ogoneddiad yn y nefoedd. Ei wneuthur Ef, "yr Hwn nid adnabu bechod, yn bechod trosom ni, fel yn gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo Ef." (2 Cor. v. 21.) Nid oes genym ni, ac nid oes gan yr angelion mwy na ninau, ddim i'w wneyd ond rhyfeddu ac addoli uwch ben y weledigaeth fawr hon, gan ddywedyd, "Yn ddiddadl, mawr yw dirgelwch duwioldeb."

"Nis gall angelion nef y nef,
Fynegi maint ei gariad Ef,
Mae angeu'r groes yn drech na'u dawn."

Ond, yn

II. *Y mae gwybodaeth ac adnabyddiaeth o Dduw i'w cael drwy chwilio am danynt sydd yn werth pob llafur er eu meddu.* O bob gwybodaeth, gwybodaeth o Dduw yw y benaf a'r werthfawrocaf. "Hyn yw y bywyd tragwyddol, iddynt dy adnabod Di yr Unig wir Dduw, a'r Hwn a anfonaist Ti, Iesu Grist." (Ioan xvii. 3.) Y mae yr adnabyddiaeth hon i'w chael drwy chwilio am dani; "Ië, os gwaeddi ar ol gwybodaeth, os cyfodi dy lef am ddeall; ïe, os ceisi hi fel arian, os chwili am dani fel am drysorau cuddiedig; yna y cei ddeall ofn yr Arglwydd, ac y cei wybodaeth o Dduw." (Diar. ii. 3–5.)

Rhydd Elihu yn y testyn swm a sylwedd y wybodaeth am Dduw a gasglasai efe oddiwrth yr hyn y sylwasai ac a draethasai efe am weithredoedd a goruchwyliaethau y Goruchaf yn y penodau o'r blaen, yn cynwys tair ystyriaeth am y mawredd Dwyfol. Mawredd naturiol, moesol, a grasol.

1 *Mawredd naturiol*—"*Ardderchog yw o nerth.*" Y mae y wybodaeth hon, fel ffaith, yn hawdd ei chael, "Canys ei anweledig bethau Ef er creadigaeth y byd, wrth eu hystyried yn y pethau a wnaed, a welir yn amlwg; sef ei dragwyddol allu Ef a'i Dduwdod; hyd onid ydynt yn ddiesgus." (Rhuf. i. 20.)

Hollalluog nerth Duw sydd megis yn flaenaf yn y golwg yn ngwaith y greadigaeth. Y mae ei anfeidrol wybodaeth a'i ddoethineb yn cael eu hamlygu a'u gogoneddu hefyd; ond ardderchowgrwydd ei nerth Ef a dery y meddwl yn gyntaf. Ond beth yw y nerth—y gallu creawl hwn? Pa ddelw, pa ddarnodiad a ellir roddi o hono? Nid oes unrhyw fath ar nerth a gallu a fedd creadur yn dwyn dim cyffelybrwydd iddo. Nid nerth gewynol ydyw. Nid oedd nerth Samson, yr hwn a allai "hollti llew fel yr holltid mỳn," a chludo drysau pyrth a barau dinas ar ei ysgwyddau, yn ddim mwy at greu byd nac ydyw nerth baban newydd eni. Casgler yr holl nerth hwn a feddai holl ddynion yr oesau yn nghyd, ac ychwaneger ato nerth pob creadur arall, a doder ef yn meddiant un dyn, byddai hwnw wedyn mor annigonol i greu dim ac a fyddai y gwibedyn gwanaf. Nid nerth peirianol chwaith—y gallu rhyfedd y gwna dynion y fath orchestion rhyfedd y dyddiau hyn, ydyw y nerth hwn eto. Nid ydyw hwnw yn dyfod ddim yn nes at y gallu i greu na'r llall. Rhywbeth anfeidrol uwchlaw i bob nerth y gwyddom ni am dano yw y nerth "ardderchog" hwn—*nerth mawr Duw* ydyw. Oblegid y mynent gredu yr anmhosibilrwydd i greu dim ô ddim yr haerai doethion gynt, a llawer o ddoethion y dyddiau hyn yr un modd, fod defnyddiau y bydysawd yn hanfodi erioed, ac iddynt gydymweithio, ymffurfio ac ymddëor i'r wedd a welir arnynt rywbryd, rywsut, drwy ryw hap neu ddamwain. Wel, gadewch iddynt: gwell genym ni athrawiaeth yr hên lyfr—athrawiaeth Moses,

Job, Dafydd, Esaia, a Paul. "Wrth ffydd yr ydym yn deall wneuthur y bydoedd trwy air Duw, yn gymaint nad o bethau gweledig y gwnaed y pethau a welir." (Heb. xi. 3.)

2. *Mawredd moesol—"A barn a helaethrwydd cyfiawnder."* Y mae Efe, yr Hwn sydd yn "Ardderchog o nerth," yn anfeidrol mewn cyfiawnder ac uniondeb hefyd, fel Goruchaf Lywodraethwr a Barnwr. Rhydd Elihu yn yr ymadrodd hwn sylwedd yr hyn a draethasai o'r blaen ar y mater. "Pell oddiwrth Dduw fyddo gwneuthur annuwioldeb, ac oddiwrth yr Hollalluog weithredu anwiredd. Canys Efe a dâl i ddyn ei waith; ac Efe a wna i ŵr gael yn ol ei ffyrdd ei hun. Diau hefyd na wna Duw yn annuwiol; ac na ŵyra yr Hollalluog farn." (Job xxxiv. 10–12.) "Canys ni esyd Duw ar ddyn ychwaneg nag a haeddo; fel y gallo efe fyned i gyfraith â Duw." (*ib.* adn. 23.) Ac y mae ganddo lawer o'r cyfryw ymadroddion, yn gosod allan y gwirionedd am "Helaethrwydd cyfiawnder Duw," wedi eu tynu a'u casglu oddiwrth hanes ei oruchwyliaethau tuag at blant dynion, yn gystal ac oddiwrth natur foesol yr Anfeidrol. Mae y math hwn o fawredd, "helaethrwydd cyfiawnder Duw," yn llewyrchu gogoniant ar y llall—mawredd ei allu. Bôd "ardderchog o nerth," heb fod ynddo "Helaethrwydd cyfiawnder," neu fod "Cyfiawnder a barn yn drigfa ei orseddfainc Ef," yn ddeddf fawr ei holl weinyddiadau, fuasai yn ddychryn i'w holl greaduriaid. Heb hyn, Pa gydwybod a allasai ei barchu? pa galon allasai ei garu? pwy byth allasai ymddiried ynddo, na chyflwyno mawl ac addoliad iddo? Duw cyfiawnder yw'r Arglwydd. "Nid oes anghyfiawnder gyda Duw. Duw gwirionedd ac heb anwiredd, cyfiawn ac uniawn yw Efe. Efe a farn y bobl yn uniawn. Efe a farna y byd mewn cyfiawnder." A'r cyffelyb ymadroddion, lawer rhy aml i'w coffâu, y mae y Duw mawr yn ei Air yn gosod allan ei gyfiawnder fel Llywodraethwr a Barnwr y byd. Ni fynai

Efe fod yr amheuaeth leiaf yn llechu yn nghalon ei greadur am ei gyfiawnder a'i uniondeb Ef.

3. *Mawredd grasol—"Ni chystuddia Efe."* Ni chystuddia Efe ei greadur yn ddiachos, a phan yn gwneyd, "Nid o'i fodd" y gwna Efe hyny. Y mae ei diriondeb a'i dosturi yn ogymesur â'i allu a'i gyfiawnder—pob priodoledd yn ogyfuwch a gogymaint ynddo Ef. Pan yn ceryddu, yn blino, ac yn cystuddio plant dynion, er lleshad iddynt y gwna hyny. Traethasai Eliphas yn rhagorol ar hyn yn ei araeth gyntaf, "Wele, gwyn ei fyd y dyn a geryddo Duw: am hyny na ddiystyra gerydd yr Hollalluog. Canys efe a glwyfa ac a rwym: efe a archolla, a'i ddwylaw ef a iachânt. Mewn chwech o gyfyngderau Efe a'th wared di; ïe, mewn saith ni chyffwrdd drwg â thi. Wele hyn, ni a'i chwiliasom, felly y mae; gwrando hyny, a gwybydd er dy fwyn dy hun." (Job v. 17–27.) "Ni a chwiliasom ac a gawsom y wybodaeth hon am diriondeb a daioni Duw fel Tad yn ceryddu ei blant er eu lles a'u daioni." Pe buasai Eliphas a'i gyfeillion yn llefaru bob amser fel y gwna efe yn yr ymadroddion hyn, nid "cysurwyr gofidus' a meddygon diddim" a fuasent i Job. Llefara Elihu hefyd yn rhagorol ar natur a dyben grasol Duw yn ceryddu plant dynion (Job xxxiii.). Wedi desgrifio truan cystuddiedig yn cael ei wasgu i borth angeu, ac yn y cyflwr hwnw yn ymostwng ger bron Duw fel pechadur edifeiriol—gweinidogaeth cystudd wedi cael ei heffaith briodol arno, "Yna efe a drugarha wrtho, ac a ddywed, Gollwng ef yn rhydd rhag disgyn o hono i'r clawdd, Myfi a gefais iawn" (boddlonrwydd ynddo). "Wele, hyn oll a wna Duw ddwywaith neu dair â dyn i ddwyn ei enaid ef o'r pwll, i'w oleuo â goleuni y rhai byw." Byddai credu a chadw mewn cof y wybodaeth hon a olrheiniodd ac a chwiliodd y gwyr hyn allan am natur a dyben goruchwyliaethau ceryddol y Brenin mawr, yn lles

annhraethol i blant Duw, a phlant dynion hefyd, er sicrhau y fendith a amcenir iddynt drwy eu cystuddiau.

Nid oedd athrawiaeth maddeuant pechodau wedi ei datguddio yn amser y Patriarchiaid hyn fel ei datguddiwyd hi wedi hyny yn yr Hên Destament. Nid oedd "Tŵr y praidd"—castell merch Sïon, wedi ei godi eto. I Moses yn Horeb y cyhoeddodd yr Arglwydd ei enw mawr, "Jehofa, Jehofa, y Duw trugarog a graslawn, yn maddeu anwiredd a chamwedd a phechod," gyntaf erioed. Yr enw hwnw byth wedi hyny oedd y "Tŵr cadarn" y rhedai y saint i lechu ynddo yn mhob tymhestl. Cofféir yr ymadrodd hwnw yn ngweddïau a chaniadau mawl y ffyddloniaid yn fynych. Nid oedd Job a'i gyfeillion wedi cael "gweledigaeth eglur" ar y pwnc hwn eto, ond yr oedd megis "gair yn ddirgel" wedi "ei ddwyn atynt, a'u clustiau wedi derbyn peth o hono." Ceir awgrymiadau go gryfion weithiau yn eu hymadroddion am drugaredd faddeuol Duw. Yr oeddynt yn arfer aberthu, y mae yn eglur, fel yr oedd ganddynt ryw syniad am drefn maddeuant pechod drwy aberth. Llewyrch o oleuni y datguddiad goruwch-naturiol o ras a dywynasai yn Eden ar gyflwr euog ein rhieni cyntaf oedd hwn. Ni rydd goleuni natur un datguddiad i ddyn am ddwyn anifail yn aberth i Dduw dros ei bechod. Trwy draddodiad o Eden yr aeth aberthu yn ddefod arbenig yn mysg pob cenedl o ddynion, yn y pelydryn cyntaf hwnw o oleuni ar drefn maddeuant trwy aberth a dywynodd ar gyflwr y troseddwyr cyntaf, y cawsant hwy, a'r Patriarchiaid ar eu hol, hyd Abraham, obaith bywyd ac iachawdwriaeth drwy faddeuant pechodau, ond a gaent trwy ddatguddiad cyfrinol gan Yspryd Duw yn eu profiadau personol eu hunain. Fel yr oedd y datguddiad o'r athrawiaeth drwy gyfrwng yr aberthu yn wanaidd, a'r datguddiad yn eu profiadau eu hunain yn aneglur a chyfrinol, yn aneglur a chyfrinol y llefarent hwythau

ar y mater; ond pan yn traethu ar fawredd, gallu, doethineb, a chyfiawnder yr Anfeidrol, llefarent yn eglur a nerthol iawn.

III. *Y mae y wybodaeth hon o Dduw yn dysgu y ddoethineb uchaf i ddyn—yn cynwys elfen hanfodol crefydd ymarferol.* "AM HYNY YR OFNA DYNION EF." "Dechreuad doethineb yw ofn yr Arglwydd." (Diar. i. 7.) "Wrth ddyn efe a ddywedodd, Wele, ofn yr Arglwydd, hyny ydyw doethineb." (Job xxviii. 28.) Y dyn nad yw wedi dysgu y wers hon o ddoethineb, "Ni ŵyr efe eto ddim fel y dylai wybod."

1. *Y mae'r amlygiadau o fawredd Anfeidrol Duw, ardderchawgrwydd cadernid ei weithredoedd ofnadwy yn dysgu y ddoethineb o'i ofni.* Dygir yr ystyriaeth hon yn mlaen yn fynych yn yr Ysgrythyrau i gymell addysg y ddoethineb hon ar ddyn, megis, "Ofned yr holl ddaear yr Arglwydd: holl breswylwyr y byd arswydant Ef, canys Efe a ddywedodd ac felly y bu, Efe a orchymynodd a hyny a safodd." (Salm xxxiii. 9, 10.) "Onid ofnwch chwi fi? medd yr Arglwydd: oni chrynwch rhag fy mron, yr Hwn a osodais y tywod yn derfyn i'r môr trwy ddeddf dragwyddol, fel nad elo dros hwnw; er i'r tònau ymgyrchu ni thycia iddynt; er iddynt derfysgu eto ni ddeuent dros hwnw." (Jer. v. 22.) "Yn gymaint ac nad oes neb fel Tydi, Arglwydd: mawr wyt, a mawr yw dy enw mewn cadernid. Pwy ni'th ofna Di, Brenin y cenedloedd? canys i Ti y gweddai: o herwydd yn mysg holl ddoethion y cenedloedd, ac yn mysg eu holl deyrnasoedd hwy, nid oes neb fel Tydi." (Jer. x. 6, 7.) Felly mae yr angel a ehedai "yn nghanol y nef" a'r efengyl dragwyddol ganddo yn llefaru, "Gan ddywedyd â llef uchel, Ofnwch Dduw, a rhoddwch iddo ogoniant; oblegid daeth awr ei farn Ef: ac addolwch yr Hwn a wnaeth y nef, a'r ddaear, a'r môr, a'r ffynonau dyfroedd." (Dat. xiv. 7.) O ddyn, a fynit ti nad ofnit yr awdurdod? Yr awdurdod oruchaf ac anfeidrol—

yr awdurdod a all ddinystrio enaid a chorff yn uffern—"Y mae colofnau y nefoedd yn crynu ac yn synu nerth ei gerydd Ef." Ai ni chrynu, ai ni synu di? Y mae'r angelion sanctaidd, cedyrn o nerth, yn plygu gyda gwylder a pharchedig ofn ger bron gogoniant ei fawredd Ef, a'r cythreuliaid hwythau hefyd yn "credu ac yn crynu" o'i flaen. (Iago ii. 19.) "O ddyn! brysia, dos dithau i'r graig, ac ymgudd yn y llwch rhag ofn yr Arglwydd, a rhag gogoniant ei fawredd Ef." (Esa. ii. 21.)

2. *Helaethrwydd cyfiawnder*—"AM HYNY YR OFNA DYNION EF." Nid oes i greadur dieuog a diniwed ddim i'w ofni oddiwrth Farnwr cyfiawn; ond eto y mae cyfiawnder y Barnwr yn cynyrchu ofn parchedig yn y fynwes ddiniwed, ac i'r ofn hwn "nid oes boenedigaeth." Yr oedd Adda, cyn erioed iddo bechu, yn ofni Duw, yn ei barchu a'i garu, gan ymhyfrydu ynddo. Ond y mae achos yr euog yn wahanol—y mae efe yn ofni cyfiawnder fel ei elyn penaf; ofn cyfiawnder sydd yn ei ladd ef. Mor fuan ac yr aeth Adda yn euog drwy droseddu, llanwyd ei fynwes gan ofn cwbl ddieithr iddo o'r blaen. Dan ddylanwad yr ofn hwnw rhedai i geisio ymguddio o ŵydd Duw yn mysg prenau yr ardd. Yr ofn hwn a yrodd Cain i ffoi o ŵydd yr Arglwydd i geisio lloches yn nhir Nod, ac a'i gwnaeth yn "Wibiad a chrwydriad ar y ddaear;" ac a yrodd Judas yntau i ymgrogi. Gyru dyn yn mhellach oddiwrth Dduw, ac yn fwy llosgedig mewn gelyniaeth yn ei erbyn, y mae yr ofn hwn erioed. Pan ddeffröer cydwybod euog pechadur gyntaf, trwy dywyniad goleuni i'w feddwl ar ei gyflwr ac ar "Helaethrwydd cyfiawnder" Duw, meddiennir ef yn union gan wasgfeuon yr ofn deddfol hwn: nid ofn pechu, ond ofn cosp pechod ydyw.

3. *Mawredd graslonrwydd Duw*—"NI CHYSTUDDIA EFE, AM HYNY YR OFNA DYNION EF." Y mae yr olwg ar, a'r

ystyriaeth o diriondeb a daioni anfeidrol Duw yn cynyrchu ofn o ansawdd hollol wahanol yn y galon i'r ofn y sylwyd arno yn flaenorol, a gwahanol hollol yn ei effeithiau yr un modd. Gyru yr euog i ffoi oddiwrth Dduw y mae y cyntaf, gweithio yr enaid at Dduw y mae hwn. Cyffroi gelyniaeth y galon fwyfwy yn erbyn Duw y mae y blaenaf, tyneru ac enill y galon i'w garu y mae yr olaf. Y mae "gobaith cadarn" yn yr ofn hwn, fel y mae y llall yn gyru yr enaid i *an*-obaith. Eto, nid yw yr ofn hwn yn llwyr ddilëu y llall chwaith. Y mae ofn mawredd cadernid a helaethrwydd cyfiawndėr y Jehofa yn aros yn y galon, ond nid yn deimlad llywodraethol ynddi mwyach, y mae yn cael ei nawseiddio a'i chynesu gan y llall, fel y mae y "boenedigaeth" oedd ynddo yn cael ei gymeryd ymaith. Ofn cosp cyfiawnder—ofn y "dinystr tragwyddol oddiwrth ogoniant ei gadernid Ef"—oedd teimlad llywodraethol yr enaid dan y ddeddf; ofn anfoddloni Duw trwy bechu yn ei erbyn yw yr ofn a gynyrcha yr olwg ar ei dosturi a'i ras maddeuol Ef yn yr enaid: "Y mae gyda thi faddeuant fel y'th ofner." "Ateb trwy bethau ofnadwy yn ei gyfiawnder" yr oedd y Barnwr Cyfiawn yn ngweinidogaeth y cyfamod cyntaf yn rhoddiad y gyfraith ar Sinai. Llefaru wrth yr euog o ganol tân a tharanau, a thywyllwch a thymhestl, â llef geiriau, "Yr hon, pwy bynag a'i clywsant a ddeisafasant na chwanegid yr ymadrodd wrthynt." Cenhedlu i gaethiwed braw a dychryn yr oedd y weinidogaeth hono. Yr oedd cnawd yn llewygu gan ofn yn ei sŵn hi; ac yn yr ofn hwnw yn addunedu gwrando a gwneyd yr hyn oll a orchymynai Duw iddynt. Ond dyna, y bobl a fuasent yn addunedu felly yn eu braw, mor gynted y tawelodd y dymhestl, y peidiodd y taranau a'r mellt, yn gwneyd "llô yn Horeb"—wrth odre "y mynydd teimladwy," ac yn ymgrymu i'r ddelw dawdd wrth droed Gorseddfainc y

Barnwr mawr ei Hun! Dodent y gorchymyn cyntaf o'r "danllyd gyfraith" a gyhoeddasai Efe iddynt â'i enau ei Hun dan eu traed, yn y fan hono lle y derbyniasent ef ychydig ddyddiau cyn hyny! Ni wnaeth gweinidogaeth y "danllyd gyfraith" o ddeheulaw Duw ei Hun ond yn unig eu dychrynu yn eu pechodau, heb eu gweithio i'w casâu a'u gadael. Yr oeddynt mor wrthryfelgar, grwgnachlyd, anghrediniol, ac anufudd wedi hyny ag oeddynt o'r blaen. Ond wele gyfamod a gweinidogaeth newydd yn cael eu datguddio: "Canys yn beio arnynt hwy y dywed Efe, Wele, y mae y dyddiau yn dyfod, medd yr Arglwydd, ac mi a wnaf â thŷ Israel ac â thŷ Judah gyfamod newydd: nid fel y cyfamod a wnaethum â'u tadau hwynt yn y dydd yr ymaflais yn eu llaw hwynt i'w dwyn hwy o dir yr Aifft: oblegid ni thrigasant hwy yn fy nghyfamod i, minau a'u hesgeulusais hwythau, medd yr Arglwydd. Oblegid hwn yw y cyfamod a amodaf fi â thŷ Israel ar ol y dyddiau hyny, medd yr Arglwydd; Myfi a ddodaf fy nghyfreithiau yn eu meddwl, ac yn eu calonau yr ysgrifenaf hwynt: a mi a fyddaf iddynt hwy yn Dduw, a hwythau a fyddant i minau yn bobl. Ac ni ddysgant bob un ei gymydog, a phob un ei frawd, gan ddywedyd, Adnebydd yr Arglwydd: oblegid hwynt-hwy oll a'm hadnabyddant i, o'r lleiaf o honynt hyd y mwyaf o honynt." Y dirgelwch, y rheswm am hyn yw—"Canys trugarog fyddaf wrth eu hanghyfiawnderau, a'u pechodau hwynt a'u hanwireddau ni chofiaf ddim o honynt mwyach." (Heb. viii. 8–12.) Drwy y datguddiad hwn o drugaredd faddeuol Duw yn Nghrist Iesu yn unig y gweithir yr enaid i ofni a charu Duw, a chasâu a chilio oddiwrth ddrygioni—i rodio yn ei farnedigaethau Ef, ac i'w gwneuthur hwynt—"*Am hyny yr ofna dynion Ef.*"

Wrth derfynu, nodwn yn

1. Y mae yr hyn a fu dan ein sylw yn dangos cydgordiad

addysg ac athrawiaeth ymarferol pob datguddiad a wnaeth y Duw mawr o hono ei Hun i ni yn ei weithredoedd fel Creawdwr, yn ngoruchwyliaethau ei lywodraeth fel Goruchaf Lywydd, ac yn ngair ei ras—eu bod yn cyd-alw arnom i'w ofni, ei fawrhau, ei barchu, a'i addoli Ef. "Swm y cwbl a glybuwyd" o'r nef ac o'r ddaear—oddiwrth ei holl oruchwyliaethau rhyfedd ac ofnadwy tuag at feibion dynion, lleferydd ei air yn y ddeddf a'r efengyl drwy eneuau Moses a'r proffwydi, Crist a'i apostolion—"Swm y cwbl a glybuwyd yw, Ofna Dduw, a chadw ei orchymynion Ef, canys hyn yw holl ddyled dyn." (Preg. xii. 13.)

2. Bod mawredd anfeidrol Duw yn dangos pwysfawredd a gwerth y fraint o fod mewn heddwch âg Ef uwchlaw pob bendith arall. "Gwynfydedig wyt, O Israel," medd Moses wrth fendithio y llwythau cyn ei farw—"Pwy sydd megis ti, O bobl gadwedig gan yr Arglwydd, tarian dy gynorthwy, yr hwn hefyd yw cleddyf dy ardderchowgrwydd! a'th elynion a ymostyngant i ti, a thi a sethri ar eu huchel leoedd hwynt. Dy noddfa yw Duw tragwyddol, ac oddi tanodd y mae y breichiau tragwyddol." (Deut. xxxiii. 27–29.) "Gwŷn ei fyd yr hwn y mae Duw Jacob yn gymorth iddo, sydd â'i obaith yn yr Arglwydd ei Dduw, yr Hwn a wnaeth nefoedd a daear; y môr a'r hyn oll sydd ynddynt: yr Hwn sydd yn cadw gwirionedd yn dragywydd." (Salm cxlvi. 5–6.)

"Y sawl a'th gaffont, gwynfyd hwy,
Nis gallant byth ddymuno mwy,
I lanw'u heisiau oll o'r bron,
Mae môr a thir, a da a dyn,
Oll yn Dy heddwch Di dy hun,
A mwy nag fedd y ddaear hon."

O'r tu arall, trueni gelyn Duw—yr enaid sydd heb Grist, heb obaith, ac heb Dduw yn y byd—ïe, yn gwrthod ei gymod Ef, a'i heddwch cynygiedig iddo yn yr efengyl!

yn rhedeg yn y gwddf iddo, yn erbyn tòrau tarianau y cadernid tragwyddol; yn herio dialeddau "helaethrwydd ei gyfiawnder, ac yn diystyru golud ei ddaioni Ef, heb wybod fod daioni Duw yn ei dywys i edifeiriwch." (Rhuf. ii. 2.) "Beth fydd diwedd yr hwn nid yw yn ufuddhau i efengyl Duw? Pa le yr ymddengys yr annuwiol a'r pechadur hwn?" (1 Petr iv. 17, 18.) Y mae Duw yn *ardderchowgrwydd* ei nerth, yn helaethrwydd ei gyfiawnder, yn yr hyn oll ag ydyw Efe, yn erbyn hwn, a phob peth a phawb oll drwy holl greadigaeth Duw yn ei ysgymuno; "Y nefoedd a ddatguddiant ei anwiredd Ef, a'r ddaear a gyfyd yn ei erbyn ef." (Job xx. 27.) CYMODER CHWI A DUW!

3. Yn wyneb yr ystyriaeth o fawredd anfeidrol Duw a'n gwaeledd ein hunain, a'n cyflwr euog fel troseddwyr yn ei lywodraeth Ef, y mae gwerth datguddiad yr efengyl o Gyfryngwr rhwng Duw â dynion yn dyfod i'r golwg—"Dyddiwr a all osod ei law arnom ein dau." (Job ix. 33.) Un y mae natur Duw a'n natur ni wedi dyfod i undeb tragwyddol â'u gilydd ynddo. Un, pan oedd ar y ddaear yn nyddiau ei gnawd, a hònai adnabyddiaeth berffaith o'r Hanfod Anfeidrol ei Hun. "Myfi a'i hadwaen Ef," meddai, "Ac nid edwyn neb y Mab ond y Tad, ac nid edwyn neb y Tad ond y Mab." (Matt. xi. 27.) "Fel yr edwyn y Tad fyfi, felly yr adwaen inau y Tad." (Ioan x. 15.) Dyma un wedi cael yr Hollalluog i berffeithrwydd; ïe, Un â holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorfforol ynddo (Col. ii. 9), eto yn frawd i ni; yn asgwrn o'n hasgwrn ni; wedi ei wneuthur yn mhob peth yn gyffelyb i'w frodyr, "fel y byddai yn drugarog ac Arch-offeiriad ffyddlon mewn pethau yn perthyn i Dduw; i wneuthur cymod dros bechodau y bobl." (Heb. ii. 17.) "Gan fod wrth hyny i ni Arch-offeiriad mawr, yr hwn a aeth i'r nefoedd, Iesu Mab Duw, glynwn yn ein proffes. Canys nid oes i ni Arch-

offeiriad heb fedru cyd-ddioddef gyd â'n gwendid ni; ond wedi ei demtio yn mhob peth yr un ffunud â ninau, eto heb bechod. Am hyny, awn yn hyderus at orseddfainc y gras, fel y derbyniom drugaredd, ac y caffom ras yn gymorth cyfamserol." (Heb. iv. 14–16.)

Yn ddiweddaf. Fe rydd y Duw mawr ei ofn drwy ryw foddion i deyrnasu ar bob calon byth: "I mi fy hun y tyngais, aeth y gair o'm genau mewn cyfiawnder, ac ni ddychwel, Mai i mi y plyga pob glîn, y twng pob tafod." (Esa. xlv. 23.) Teyrnasa ofn gogoniant ei fawredd Ef ar ysprydion a dynion colledig yn uffern byth. Y "Rhyw ddysgwyl ofnadwy" hwnw, fydd un o brif elfenau y gwae a'r trueni yn oes oesoedd. O'r tu arall, "Ofn yr Arglwydd sydd lân, ac yn parhau yn dragywydd." (Salm xix. 9.) Y "parchedig ofn" hwnw y soniwyd am dano fydd un o brif elfenau mwynhad a dedwyddwch y nefoedd byth. Un o addewidion mawr iawn a gwerthfawr y cyfamod newydd ydyw, "Mi a osodaf fy ofn yn eu calonau fel na chiliont oddiwrthyf." (Jer. xxxii. 40.) "Cilio oddiwrthyf a wnant," megis pe dywedasai, "er pob peth arall a roddwyf ac a wnelwyf iddynt; ond dan ddylanwad Fy ofn yn eu calonau, hwy a giliant oddiwrth ddrygioni, ac a lynant wrthyf Fi, gan rodio yn fy marnedigaethau a'u gwneuthur hwynt."

# PREGETH III.

## ANNIBYNIAETH DUW, A DIBYNIAETH PAWB A PHOB PETH ARNO EF.

"Y Duw a wnaeth y byd a phob peth sydd ynddo, gan ei fod yn Arglwydd nef a daear; nid yw yn trigo mewn temlau o waith dwylaw: ac nid â dwylaw dynion y gwasanaethir Ef, fel pe bai arno eisieu dim; gan ei fod Ef yn rhoddi i bawb fywyd ac anadl, a phob peth oll."—*Actau* xvii. 24, 25.)

YR oedd Paul yn ddiau yn un o'r dynion mwyaf annghyffredin a fu erioed yn y byd. Pe gofynid pa ryw un ymadrodd a fyddai gymwysaf i nodweddu y dyn hwn, tybiwn mai yr *angerddol* fyddai hwnw. Dyn ar dân oedd efe bob amser yn mhob man, a chyda phob peth yr ymaflai ynddo. Yr oedd yn Pharisead ac yn erlidiwr angerddol ar Eglwys Dduw cyn ei dröedigaeth; yn "chwythu bygythion a chelanedd yn erbyn dysgyblion yr Arglwydd." Ni allasai dim llai na llwyr ddilëu Eglwys Crist oddiar y ddaear ddiwallu angerddoldeb ei elyniaeth yn ei herbyn. Wedi ei dröedigaeth, y mae yn Gristion ac apostol llawn mor angerddol eto ac a fuasai o erlidiwr. Ymorchestai bellach i lenwi yr holl ddaear âg efengyl Crist, ac i ddwyn yr holl genedloedd i ufudd-dod ffydd i'r gwirionedd—i dynu i lawr a llwyr ddinystrio teyrnas Satan a phechod hyd ei sylfeini. Y mae angerddolder yn llenwi ei yspryd, ei dymer, ei deimlad, ei eiriau, a'i holl symudiadau—ni chai ei "gnawd

ddim llonydd," fel y dywed ef ei hun, "gan angherddolrwydd yspryd." Nid mor rhyfedd ydyw ddarfod i'r fath ddyn wneyd y fath argraff ar y byd ag a wnaeth efe wrth fyned trwyddo.

Cawn yn y benod hon hanes ei ymweliad âg Athen. Hwn oedd ei ymweliad cyntaf, a'r olaf hefyd fe ymddengys, â'r ddinas hono; y ddinas oedd yn enwog trwy y byd er ys oesau a chenedlaethau cyn hyny ar gyfrif gwybodaeth ei rhai deallgar, doethineb ei hathrawon a'i hathronwyr, hyawdledd ei hareithwyr, coethder chwaeth a chywreindeb dwylaw ei harlunwyr a'i cherfwyr, a medr a gallu ei gwladweinyddion. Wrth ei thraed hi yr eisteddai y byd i ddysgu doethineb, ac i dderbyn y gyfraith o'i genau. Y hi oedd mam pob mawredd meddyliol a moesol oedd yn perthyn i Rufain fawr ei hun, yn ei dyddiau goreu dan ei gwerinlywodraeth. Diau yr ymofynent ag Athen, ac felly y dibenent.

Ymddengys nad oedd yn mwriad yr apostol ymweled âg Athen y tro hwnw, ac nid arosodd ond tros ychydig amser yno; ac nid ymwelodd â hi chwaith drachefn ar un o'i deithiau i bregethu yr efengyl yn ninasoedd Groeg a Macedonia. Yn ddamweiniol, megis, y daeth efe i Athen y waith hon. Pan gyfododd yr Iuddewon anghrediniol erledigaeth yn ei erbyn yn Berea, "Y brodyr a anfonasant Paul ymaith i fyned megis i'r môr. A chyfarwyddwyr Paul a'i dygasant ef hyd Athen." Yn awr, dyma ddoethineb Duw a doethineb y byd hwn yn cyfarfod wyneb yn wyneb. Apostol Iesu Grist a'r Stoiciaid a'r Epicuriaid yn myned i fesur eu galluoedd ar orsaf gornest. Ni bu yr apostol yn y ddinas nemawr o oriau cyn iddi deimlo dylanwad ei bresenoldeb. Daeth yn ganolbwnc sylw a siarad pawb yno. Ymgasglai y bobl o'i ddeutu ar yr heolydd, rhai yn holi, rhai yn amheu ac yn petruso, rhai yn gwawdio ac yn

dirmygu ei athrawiaeth, a rhai yn credu. Dygid ef i Areopagus, llysdŷ y ddinas, i roddi cyfrif am ei athrawiaeth ddieithr. "A allwn ni gael gwybod beth yw y ddysg newydd hon a draethir genyt?" meddynt. Yr oedd eu cwestiwn yn un priodol iawn; ni allasai dim foddhau Paul yn well na chael cynulleidfa o wrandawyr yn yr yspryd ymofyngar hwn, ac y mae yn cymeryd gafael yn awyddus yn y cyfleusdra i egluro ei athrawiaeth. Fel athraw doeth, y mae efe yn cymwyso ei ddysgeidiaeth at ystâd meddwl ei wrandawyr. Pan aethai i Corinth, cawsai ddinas wedi ymsuddo yn ddwfn i lygredigaeth a halogrwydd buchedd. Yn Athen y mae yn cael dinas lawn o eilunod a "thra choel-grefyddol." Yn Corinth ni "farnai wybod dim ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio." Nid oedd angen dadleu ar gwestiynau dyrus o athrawiaeth yno. Yn Athen, y ddinas dra choelgrefyddol, a llawn o feddyliau uchel am ei dysgeidiaeth a doethineb ei doethion, yr oedd yr achos yn wahanol. Yno, cyfarfyddai â dynion meddylgar, ymchwilgar, a llawn o yspryd ymresymu a dadleu; ac yr oedd raid i'r apostol eu cymeryd fel yr oeddynt, a'u cyfarfod ar eu tir eu hunain. Ymresyma â'u hathronwyr fel athronydd, heb anghofio ei bwnc mawr, "Iesu a'r adgyfodiad."

Cafodd ei destyn mewn arysgrifen a welsai efe ar allor yn y ddinas—"I'R DUW NID ADWAENIR." Oddiwrth y testyn hwn efe a bregethodd iddynt yr "Unig wir a bywiol Dduw," fel unig wir wrthddrych addoliad, mewn gwrthdystiad i'w haml dduwiau a'u delwau hwy. Nid oedd yr athrawiaeth am Un Gwir a Goruchaf Dduw yn gwbl ddieithr yn Athen, y mae yn wir; buasai Socrates yn ei dysgu yno rai canrifau cynt. Ond pan aeth yr apostol i sôn wrthynt am "Iesu a'r Adgyfodiad," y mae meddwl ymofyngar yr Atheniad yn deffro, ei glust yn goglais, ei ragfarnau yn cyffroi, a'i dafod yn barod i ymresymu a dadleu.

Y mae yn ymddangos braidd yn hynod na ddilynwyd pregethiad Paul yn Athen â llwyddiant fel yn ninasoedd ereill Groeg. Ni phlanwyd yno Eglwys i Grist, fel yn mhob dinas arall yr ymwelsai yr apostol a'i gyd-lafurwyr â hwy. Ond ni bu yn hollol aflwyddiannus chwaith; "Rhai gŵyr a lynasant wrtho, ac a gredasant: yn mhlith y rhai yr oedd Dionysius yr Areopagiad, a gwraig a'i henw Damaris, ac ereill gyda hwynt." Nid yn ofer, gan hyny, yr arweiniwyd yr apostol i Athen, ac y dygwyd ef i Areopagus. Efe a ddygodd un o'r prif athrawon i gaethiwed ufudd-dod efengyl Crist; yr hwn a fu wedi hyny yn ddysgawdwr enwog, ac yn amddiffynydd galluog i'r gwirionedd.

Gesyd yr apostol unig wir a phriodol wrthddrych addoliad ger bron yr Atheniaid, yn ngeiriau ein testyn, mewn pedair o briodoleddau ei fawredd:—

I. Fel Creawdwr—achos cyntaf pob peth; "*Y Duw a wnaeth y byd a phob peth sydd ynddo.*"

II. Fel Meddianydd a Llywodraethwr pob peth; "*Gan ei fod yn Arglwydd nef a daear.*"

III. Fel Bôd hollol annibynol ar bawb a phob peth; "*Nid â dwylaw dynion y gwasanaethir Ef, fel pe bai arno eisieu dim.*"

IV. Fel yr Hwn y mae pawb a phob peth yn ddibynol arno, ac yn derbyn y cwbl o'i law; "*Gan ei fod Ef yn rhoddi i bawb fywyd, ac anadl, a phob peth oll.*"

Cyfyngir ein sylwadau at y ddau beth olaf yn unig, sef perffeithrwydd hanfodol y *Bôd* Dwyfol, a mawredd anfeidrol yr *Haelioni* Dwyfol; "*Nid oes arno eisieu dim.*" Ac y mae Efe yn diwallu eisieu pawb. Neu mewn geiriau ereill, *Annibyniaeth Duw ar bawb, a dibyniaeth pawb arno Ef.*

I. Annibyniaeth Duw: "*Nid oes arno eisieu dim.*" Am dano Ef yn unig y gellir dyweyd felly—nid oes fôd ond y Bôd anfeidrol ei Hun nad ydyw mewn eisieu parhaus.

Gellir gofyn i'r Archangel yn gystal ag i ddyn, "Pa beth sydd genyt a'r nas derbyniaist?" Yn y ddau ymadrodd—"*Nid oes arno eisieu dim,*" a'r "*Hwn sydd yn rhoddi i bawb,*" gosodir dau fath o fawredd dwyfol ar gyfer eu gilydd, a'r naill yn adlewyrchu gogoniant ar y llall—sef mawredd naturiol a mawredd moesol.

Yn awr, ni a gawn edrych ar berffeithrwydd Jehofa fel Bôd annibynol ar bawb—"*Nid â dwylaw dynion y gwasanaethir Ef, fel pe bai arno eisieu dim.*" Gwasanaethir eich duwiau chwi (Atheniaid, gallasai yr apostol ddyweyd) â dwylaw dynion; ïe, â dwylaw dynion y gwnaed hwynt, ac er i chwi gyflwyno rhoddion ac offrymau iddynt a'ch dwylaw, ni feddant hwy ddwylaw a allant dderbyn eich aberthau; er gweddïo o honoch arnynt mor fynych ac mor daer ac y galloch, ni allant wrando ac ateb eich gweddïau. Nid felly y Duw yr wyf fi yn ei fynegi i chwi. Yspryd yw Efe, ac âg *ysprydoedd* dynion yr addolir Ef; ac er ei fod yn anfeidrol uwchlaw bod arno eisieu dim o'r gwasanaeth a allwn ni gynyg iddo, eto, Efe a ymostynga i dderbyn aberthau ysprydol ei wir addolwyr, i wrando eu gweddïau, a chyfranu pob bendith angenrheidiol iddynt. Ond yn

1. *Y mae Annibyniaeth yn briodoledd yn Nuw, nid yn unig yn anghyfranedig ond anghyfranadwy yn gystal â hyny.* Efe a gyfranodd i angelion a dynion ô amryw o'i berffeithiau gogoneddus ei Hun, i ryw fesur. Y mae yn rhoddi iddynt fesurau o nerth, awdurdod, doethineb; o'i gariad, ei gyfiawnder, ei sancteiddrwydd, a'i ras a'i ogoniant. Gwneir pechaduriaid drwy Grist "yn gyfranogion o'r duwiol anian;" ond ni wnaed angel na dyn, na sant na phechadur erioed yn gyfranog o annibyniaeth Jehofa. Ni all Efe ei Hun gynysgaeddu y creadur â'r briodoledd hon mewn un gradd. Creadur wedi dyfod yn annibynol, ni byddai yn greadur mwyach, byddai yn Dduw.

2. *Y mae ei Annibyniaeth yn cynwys y syniad o'i dragwyddol hanfodaeth.* Rhaid fod yr Hwn sydd annibynol yn dragwyddol; heb na dechreu na diwedd iddo. Y mae pob bôd a phob peth y bu iddo ddechreuad ag achos cyntaf, o angenrheidrwydd yn ddibynol ar yr achos cyntaf hwnw am barhad a chynaliaeth ei fodoliaeth. Os yw natur a'i deddfau yn dragwyddol ddiddechreu, yna y maent yn annibynol ar Dduw—nid ei eiddo Ef ydynt, ac ni all Efe yn gyfiawn ymyraeth dim oll â'u trefn a'u llywodraethiad. Y mae holl ymadroddion pendant y Bibl am Dduw, fel Llywodraethwr y nef a'r ddaear, yn anwiredd a thwyll; ni all fod, os na chymerodd Efe yr Awdurdod trwy drais; pe felly, nid "cyfiawnder a barn yw trigfa," neu sail ei orseddfainc Ef. A gellid gofyn yn hŷf, "Pwy a roddes iddo Ef lywodraethu y ddaear?" Pa hawl sydd ganddo i ymyraeth â'i hachosion? O ba le y mae ganddo y gyfryw awdurdod? Os hònir iddo Ef fodoliaeth annechreuol, ac i natur a'i defnyddiau a'i deddfau hanfodaeth annechreuol yr un modd, yna y mae y ddwy hanfod annechreuol hyn yn dragwyddol ar wahan oddiwrth, ac annibynol y naill ar y llall o angenrheidrwydd eu natur. Nid yw bodoliaeth neb oll, na dim oll, mor eglur brofedig â bodoliaeth Duw—fel Bôd annibynol a thragwyddol. Ar wahan oddiwrtho Ef, nid oes un math o reswm i'w gael am ddim oll. Y mae annuwiaid yr oesau, hên a diweddar, wedi bod yn dyfal chwilio am ryw reswm amgen na Duw i roddi cyfrif am ffaith fawr bodoliaeth. Esgynasant i uchelderau y nefoedd, a disgynasant i ddyfnderau y ddaear i chwilio am dano; ond pa le y mae y rheswm a'r prawf? Y mae y nefoedd a'r ddaear yn cydateb, "Nid yw ynom ni!" Haerent hwy eu bod wedi ei gael, neu o leiaf, eu bod yn ymyl ei gael; nad oes ond un *missing link*—un ddolen yn eisieu. Ië, un *missing link.* Wel, ddoethion, tra byddwch chwi yn chwilio am y *missing*

*link* hono, nyni a eisteddwn wrth draed yr hên lyfr hwnw sydd mor gas genych chwi, ac mor ddirmygedig yn eich golwg, ac a wrandawn ar eiriau ei ddysgeidiaeth ef. Nes i chwi gael gafael ar y ddolen gydiol rhwng y dyn a'r mwnci, a dwyn i eglurder anwadadwy mai o'r mwnci y deilliodd y dyn ar y cyntaf, nyni a ymfoddlonwn ar dystiolaeth Moses ar y mater, yr hwn a ddywed, "A'r Arglwydd Dduw a luniasai y dyn o bridd y ddaear, ac a anadlasai yn ei ffroenau ef anadl einioes, a'r dyn a aeth yn enaid byw" (Gen. ii. 7), ac a adawn rhyngoch chwi a'r mwncïod a'r athrawiaeth fwncïaidd hon. Nyni a ymfoddlonwn yn y rheswm hwnw am fodoliaeth pob peth sydd yn boddloni "y pedwar henuriaid ar hugain" sydd ger bron yr orseddfainc, y rhai sydd yn dywedyd, "Teilwng wyt, O Arglwydd, i dderbyn gogoniant, ac anrhydedd, a gallu; canys Ti a greaist bob peth, ac o herwydd dy ewyllys Di y maent ac y crewyd hwynt." (Dat. iv. 11.) Ewyllys Duw yw y rheswm, a'r unig reswm, am fodoliaeth pob peth. Am fodoliaeth y Creawdwr ei Hun—y Bôd tragwyddol ac annibynol, ni all fod un rheswm i'w roddi, y mae rheswm yn myned i'r pen, ac yn darfod yma, "Y mae Efe yn bod o angenrheidrwydd ei natur, ac nid o herwydd ei ewyllys," fel y sylwyd mewn lle arall.

Y mae dynion sanctaidd y Bibl yn fynych yn ymogoneddu yn nhragwyddol hanfod Duw, "Ti hefyd wyt Dduw o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb." (Salm lx. 2.) Mewn amserau o drallodion ac adfyd, caent noddfa a chysur yn nhragwyddolrwydd Duw; "Onid wyt ti er tragwyddoldeb, O Arglwydd fy Nuw, fy Sanctaidd, ni byddwn feirw." (Hab. i. 12,) Er, i bob golwg, fod ein cyflwr yn annobeithiol, er bod marwolaeth yn tremu yn ein hwyneb, ac yn ein cylchynu o bob tu, fel yr ymddengys ei bod yn anmhosibl i ni ddianc, "Ni byddwn feirw, canys yr wyt Ti, ein Duw ni, o dragwyddoldeb; ein noddfa ydwyt Ti, ein Duw tra-

gwyddol; ac y mae dy freichiau tragwyddol am danom ac oddi tanom." "O Arglwydd," medd y proffwyd drachefn, "Ti a'u hordeiniaist hwy (ein gelynion) i farn, ac a'u sicrheaist, O Dduw, i gospedigaeth." Ti a'n hordeiniaist ninau, dy bobl gyfamodol, i fyw, ac y mae ein bywyd wedi ei guddio yn y Bywyd sydd er tragwyddoldeb—y Bywyd sydd yn annibynol ar bob bywyd ac ar bob peth.

3. *Y mae Annibyniaeth yn arwyddo Hollddigonolrwydd.* "Nid oes arno eisieu dim." Hollddigonol ynddo ei Hun. Rhaid i'r creadur fyned allan o hono ei hun o hyd i ymofyn rhywbeth—"Pwy a ddengys i ni ddaioni?" yw cri gwaelod ei galon ef yn barhaus. "Rhodio ar hyd lleoedd sychion gan geisio gorphwysfa," ac heb ei chael, y mae yr angel syrthiedig a'r dyn syrthiedig byth wedi iddynt adael Duw. Gall yr angel gofio o ba le y syrthiodd, ond y mae clo barn dragwyddol ar ei gyflwr yn atal iddo ddychwelyd yn ol; ond gall y dyn syrthiedig ddweyd wrth ei enaid blinedig eto, "Dychwel, O fy enaid i'th orphwysfa; canys yr Arglwydd a fu dda wrthyt." Agorodd ei fynwes dragwyddol yn Nghrist i'w dderbyn ef yn ol iddi. Yno, yn yr Holldigonedd anfeidrol ei Hun yn unig y mae gorphwysfa iddo. Yn nghyflawnder y cariad tragwyddol hwnw y mae Efe ei Hunan yn ymlonyddu ac ymddigoni ynddo, y gall y creadur tlawd ymddigryfu dan ganu:—

"Llawen ydwyf fod dy Hanfod
Fawr, yn ddedwydd ynddi 'i Hun;
Ac na raid i ti ymddiried,
Mewn creadur, na raid un."

"Digon, digon, digon yw,
Dy hyfryd bresenoldeb gwiw,
Yn angeu ceidw hyn fi 'n fyw,
A boddlon wyf yn awr."

"Fy holl eisieu wneir i fyny,
O gyflawnder Tri yn Un."

4. *Y mae Annibyniaeth—Hollddigonolrwydd Duw ynddo ei Hun, yn arddangos ei anfeidrol ras a'i ymostyngiad pan y mae yn sylwi ar ac yn cymeradwyo gwasanaeth ei greaduriaid.* "Pwy sydd fel yr Arglwydd ein Duw ni, yr Hwn a ymddarostwng i edrych y pethau yn y nefoedd, ac yn y ddaear?" (Salm cxiii. 6.) "Canys Efe a edrychodd o uchelder ei gysegr: yr Arglwydd a edrychodd o'r nefoedd ar y ddaear; I wrando uchenaid y carcharorion; ac i ryddhau plant angeu." (Salm cii. 19, 20.) Nid yw da y creadur ddim iddo Ef. "A wna gŵr lesâd i Dduw, fel y gwna y synwyrol lesâd iddo ei hun?" (Job xxii. 2.) "Edrych ar y nefoedd, a gwel; ac edrych ar y cymylau, y rhai sydd uwch na thi. Os pechi, pa niweid a wnei di iddo Ef? os aml fydd dy anwireddau, pa beth yr wyt yn ei wneuthur iddo Ef? Os cyfiawn fyddi, pa beth yr wyt yn ei roddi iddo Ef? neu pa beth y mae Efe yn ei gael ar dy law di?" (Job xxxvi. 5–7.) Nid yw y gawod wlaw sydd yn disgyn ar y môr yn ychwanegu dim at gyflawnder yr eigion. Gall y môr ddweyd "O gwmwl, nid oes arnaf fi un angen am dy ddiod offrwm; mae fy nghyflawnder i ynof fy hun; er hyny, mi a dderbyniaf dy fân ddefnynau; gollwng hwynt i lawr, mi a'u cuddiaf hwynt fel gemau yn fy mynwes." Felly gall yr Anfeidrol, Annibynol a Hollddigonol, ddweyd wrth angelion a saint, "Er nad oes arnaf eisieu dim—er na ellwch ychwanegu dim at fy nghyflawnder I, eto dygwch eich offrymau o weddi, mawl, a diolch, byddaf foddlawn i chwi gyda'ch arogl peraidd (Ezec. xx. 40.) Yr wyf fi yn cyfaneddu yn moliant Israel! a dychwelaf eich gweddïau a'ch mawl yn gawodau bendith yn ol arnoch.

II. *Mawredd Anfeidrol yr haelioni Dwyfol; neu ddibyniaeth pawb ynddo Ef.* Gan ei fod Ef yn rhoddi i bawb —"Bywyd, ac anadl, a phob peth oll."

1. *Bywyd.* Y benaf a'r werthfawrocaf o holl roddion Duw yw Bywyd. "Gydag Ef, ynddo Ef, y mae ffynon

bywyd." Bywyd yn ei holl raddau, ei amrywiaeth, a'i ffurfiau; o fywyd y llysieuyn sydd yn tyfu ar y maes, hyd fywyd yr angel sydd yn ymddedwyddu yn y nefoedd. O holl ddirgelion cuddiedig y cread, bywyd yw y dirgelwch dyfnaf. Cymerwch ronyn o had mwstard, er enghraifft, "Yr hwn pan hauer yn y ddaear sydd leiaf o'r holl hadau sydd ar y ddaear. Eithr wedi yr hauer, y mae yn tyfu, ac yn myned yn fwy na'r holl lysiau, ac efe a ddwg ganghenau mawrion." (Marc iv. 31, 32.) Ond pa fodd y mae y gronyn bach hwnw yn tyfu? Cymerwch ronyn o dywod, o'r un ffurf, maint, lliw, a phwysau ag ef, a dodwch ef yn y ddaear, ac ni thŷf byth. Yn mha beth y mae y gwahaniaeth hwn rhwng y ddau ronyn? Yn hyn, ddarfod i Dduw roddi yr egwyddor o fywyd yn yr hedyn mwstard na roddodd Efe yn y tywodyn. Ond eto, beth yw y bywyd hwn, ni all neb ddywedyd. Cymerwch ef at y fferyllydd i'w ddosranu a'i ddifynu, a dadgysoddi ei elfenau, a'u chwilio hwynt oll, a ddichon efe ddyfod o hyd i'r elfen ddirgeledig hon—bywyd? Na, rhaid iddo ddyweyd, "Dyma wybodaeth ry ryfedd i mi; uchel yw, ni fedraf oddiwrthi." Gellir cloddio bedd yn yr hedyn bychan yna, digon dwfn i gladdu holl wyddoniaeth dyn. Fel y mae bywyd yn ymddyrchafu yn uwch yn ei raddau a'i briodoleddau, y mae ei ddirgeledigaethau hefyd yn amlhau. Bywyd trychfilod, ednogion, ac ymlusgiaid—creaduriaid sydd yn ymwingo drwy'r ddaear a'r awyr a'r môr, o hono Ef, Ffynon Bywyd, y mae yn tarddu yn ffrydiau parhaus a diball. Yn y dyn y cododd bywyd i'w fan uchaf yn y byd hwn, yr hwn sydd yn berchen ar fywyd rhesymol, deallol, ac ysprydol, drwy yr hwn y mae efe yn gallu darostwng y bywydau ereill at wasanaeth ei fywyd ei hun. Cynysgaeddwyd ei fywyd ef a chymwysderau i ddal cymundeb a'i wneuthurwr; i fyned at ffynon wreiddiol bywyd ei Hun, ac yfed ei ddedwyddwch o honi. Beth

bynag a ddaw o'r bywydau ereill, fe barha y bywyd hwn yn fyw byth.

Y mae Efe yn rhoddi bywyd mewn ystyr uwch eto—y bywyd newydd a gyfrenir yn adgyfodiad yr enaid oedd yn farw ysprydol mewn camweddau a phechodau, drwy ei undeb â Christ. "Myfi a ddaethum fel y caent fywyd," medd y Gwaredwr, "ac y caent ef yn helaethach." (Ioan x. 10.) "A minau wyf yn rhoddi iddynt fywyd tragwyddol." (Ioan x. 28.)

Y mae y doethion, y bu *agos* iddynt gael allan y dirgelwch o haniad y dyn o'r mwnci, wedi yn *agos* gael allan y dirgelwch hwn (bywyd) hefyd, meddant hwy. Hwyrach mai doethineb y doethion hyn fyddai tewi a sôn hyd nes yr elont yn agosach nac yr aethant at y pethau hyn. Nid oes neb a all amgyffred bywyd ond Efe yn unig, yr Hwn y mae y Bywyd ynddo yn ei holl gyflawnder a'i berffeithrwydd.

2. *Anadl.* "Yr hwn y mae einioes pob peth yn ei law, ac anadl pob math ar ddyn." (Job xii. 10.) Y mae anadl yn brif angenrhaid pob bywyd daearol; ac y mae y Rhoddwr bywyd yn rhoddi anadl i'r bywyd hefyd; ac y mae ei ddoethineb, a'i ddaioni, a'i ofal am y creaduriaid a gynysgaeddodd Efe â bywyd, i'w gweled yn nghyfansoddiad yr awyr y mae eu bywyd yn anadlu o honi, fel y mae y gwahanol elfenau a nwyon gwrthwynebol y naill i'r llall wedi eu cydbwyso a'u cyd-dymeru yn ei chyfansoddiad, er ei chyfaddasu i gyfansoddiad pob creadur, pan y buasai anadlu un o'r nwyon hyny, ar ei phen ei hun, yn farwolaeth i bob un ar unwaith.

3. *A phob peth oll.* "Yr Hwn sydd yn helaeth yn rhoddi i ni bob peth i'w mwynhau." (1 Tim. vi. 17.) Pob peth angenrheidiol i gynaliaeth, ymgeledd, a chysur bywyd. Rhoddi bywyd, a rhoddi pob peth angenrheidiol i'r bywyd—

pob bywyd, "Efe sydd yn rhoddi i'r anifail ei borthiant, ac i gywion y gigfran pan lefant." (Salm cxlvii. 9.) "Cenawon y llewod a ruant am ysglyfaeth, ac a geisiant eu bwyd gan Dduw." (Salm civ. 21.) "Felly y mae y môr mawr llydan, yno y mae ymlusgiaid heb rifedi, bwystfilod bychain a mawrion. Y rhai hyn oll a ddisgwyliant wrthyt; am roddi iddynt eu bwyd yn ei bryd. A roddech iddynt, a gasglant: agori dy law, a diwellir hwynt â daioni." (Salm civ. 25–28.) Nid oes yr un o'r teulu aneirif o fywydolion sydd yn cyfaneddu yn holl ororau y greadigaeth fawr yn cael disgwyl yn ofer wrtho Ef; nid oes un yn cael ei esgeuluso, na'i ollwng yn angof. Pob bywyd yn dibynu ac yn byw arno ac ynddo Ef.

Y mae yr athrawiaeth sydd wedi bod dan ein sylw yn dysgu i ni amryw wersi ymarferol o'r pwys mwyaf.

1. *I feithrin syniadau uchel a mawr am Dduw.* Y gŵyn drom yn erbyn yr annuwiol ydyw—"Nid yw Duw yn ei holl feddyliau ef;" a phan ddigwyddo iddo feddwl am dano, tybia ei fod "yn gwbl fel ef ei hun," a pha ddirmyg mwy a allai'r annuwiol ei roddi ar Dduw na hyny? Y mae syniadau teilwng am Dduw yn perthyn yn hanfodol i natur gwir dduwioldeb a gwir addoli. Y maent yn wreiddiau i bob teimlad priodol tuag at Dduw, yn cynyrchu gwylder a pharchedig ofn yn y galon. Dan ddylanwadau syniadau dyrchafedig am fawredd a gogoniant Duw y llefai y Salmydd, "Canaf i'r Arglwydd tra fyddwyf byw, canaf i'm Duw tra byddwyf. Bydd melus fy myfyrdod am dano; mi a lawenychaf yn yr Arglwydd." (Salm civ. 33, 34.)

2. *I'n dysgu i fyw dan deimlad gwastadol o'n Dibyniaeth ar Dduw am bob peth a berthyn i'r bywyd sydd yr awr hon, â'r hwn a fydd.* "Ynddo Ef yr ydym ni yn byw, yn symud, ac yn bod," medd yr apostol wrth wyr Athen. Hebddo Ef ni allwn ni ddim, ïe, nid ydym ni ddim. "Yn

dy holl ffyrdd cydnebydd Ef, ac Efe a hyfforddia dy lwybrau." (Diar. iii. 6.)

3. *I feithrin yspryd diolchgar yn wastadol.* Y mae y cymelliadau yn y Bibl at y ddyledswydd o dalu diolch yn amlach nac ydynt at un ddyledswydd arall. Y mae Salmau Dafydd yn llawnion o honynt. "Yn mhob dim diolchwch," medd yr apostol. "Gan ddiolch yn wastad i Dduw a'r Tad am bob peth, yn enw ein Harglwydd Iesu Grist," medd efe mewn lle arall. Cymella Paul y ddyledswydd hon ar Gristionogion yn ei holl epistolau. Y mae dyn di-weddi ac anniolchgar yn eithriad i holl greaduriaid Duw. Y mae "cenawon y llewod yn ceisio eu bwyd gan Dduw," yn eu ffordd hwy; "Cywion y gigfran yn llefain arno" fel y gallant hwy. Ond pa gynifer o dai dynion sydd i'w cael, ac yn Nghymru uchelfreintiog, ag y mae gweddi a mawl yn estroniaid anadnabyddus iddynt! Pa wrthuni sydd i'w gydmaru â gwrthuni creadur sydd yn cael ei lwytho beunydd â daioni Duw, na haeddodd efe y drugaredd leiaf oddi ar ei law erioed, nad yw byth yn cydnabod ei rwymedigaethau o ddiolchgarwch iddo? Y mae anniolchgarwch yn bechod na osodir mo hono yn erbyn yr angel syrthiedig. Torwyd ef ymaith am byth oddi wrth bob ffafr ddwyfol pan droseddodd gyntaf; ond y mae dyn pechadurus, yn derbyn ac yn mwynhau doniau Duw yn aneirif bob dydd, ac eto, y mae myrddiynau yn byw mewn angof gwastadol o hono, a gwrthryfel i'w erbyn. Y mae yr angel syrthiedig yn ddrwg, ond y mae y dyn yn *anniolchgar* â drwg; ac anniolchgarwch yw yr elfen wrthunaf o holl elfenau drygioni. Un o'r cyhuddiadau trymaf, a'r drymaf oll, a ddygai Daniel yn erbyn Belsassar oedd, "Ac nid anrhydeddaist y Duw y mae dy anadl di yn ei law, a'th holl ffyrdd yn eiddo." (Dan. v. 23.) Os oedd anniolchgarwch yn bechod mor ysgeler yn y brenin paganaidd hwnw, a'r paganiaid y cyfeiria yr apostol atynt (Rhuf.

i. 21) yr un modd, pa faint mwy felly raid ei fod mewn dynion yn ngwlad efengyl?

4. *Y mae athrawiaeth ein pregeth yn ein cymell i feithrin yspryd cymwynasgar a haelfrydig.* Gesyd ein testyn, a llawer o destynau eraill o'r ysgrythyr yr un modd, Dduw ei Hun yn esiampl o gymwynasgarwch a haelfrydedd o'n blaen. Y mae Efe yn Dduw Gwirionedd, Cyfiawnder, a Sancteiddrwydd, o angenrheidrwydd ei natur bur; ond yn gymwynasgar a haelionus, oddiar ei ewyllys da a'i raslonrwydd, ac yn hyn y mae efe yn ymogoneddu yn benaf oll; ac yn hyn y gall y creadur ymddyrchafu uchaf mewn tebygolrwydd iddo—"Yr Hwn sydd yn rhoddi i bawb." Dyma ddysgeidiaeth yr Athraw mawr ei Hun ar y mater hwn: "Cerwch eich gelynion, a gwnewch dda, a rhoddwch echwyn, heb obeithio dim drachefn; a'ch gwobr a fydd mawr, a phlant fyddwch i'r Goruchaf: canys daionus yw Efe i'r rhai anniolchgar a drwg. Byddwch, gan hyny, drugarogion, megis y mae eich Tad yn drugarog." (Luc vi. 35, 36.) "Rhoddwr llawen y mae Duw yn ei garu," medd yr apostol; rhoddwr felly ydyw Ef ei Hun—"Rhoddi i bawb," "Diwallu pob peth byw a'i ewyllys da." Y mae ein Tad yn y nefoedd yn caru ein gweled ninau, ei blant ar y ddaear, yn debyg iddo yn hyn. Rhoddodd wên lawen ar wyneb pob goruchwyliwr a drefnodd Efe i wasgaru ei roddion. Mor llawen yw gwedd yr haul? "Hyfryd yw i'r llygad ei weled" ef, "Yr hwn sydd fel gŵr priod yn dyfod allan o'i ystafell," bob bore, "ac a ymlawenha fel cawr i redeg gyrfa" o gymwynasgarwch bob dydd—i lenwi bydoedd â goleuni a gwrês. Ni welsom olwg surllud, anfoddog, ar ei wyneb ef erioed. Wedi iddo guddio ei wyneb ar ei fachludiad yn yr hwyr, gwelir ei belydron olaf yn dawnsio ac yn chwareu fel ŵyn bach ar ochrau ein mynyddau. Golwg lawen sydd ar y maes yn y gwanwyn a'r hâf, pan y mae ei flodau a'i laswellt yn gwa-

hodd yr anifeiliaid i wledda arnynt. Yr unig oruchwyliwr sydd yn edrych yn ddu, ac megis yn wgus wrth gyfranu ei ddoniau, yw y cwmwl. Bydd golwg ddigllawn arno ef weithiau, pan yn cyhoeddi ei fygythion mewn mellt a tharanau; ond ni phery ei ŵg yn hir; ymdywallta yn wlaw bendithiol ar y ddaear; egyr ei enau, a thywallta yr haul ei belydrau, fel y bydd gwenau yn chwareu ar ei wefusau tewion, a'i enau megis wedi ei lenwi â chwerthyn, ac fel yn dywedyd wrth y ddaear a'i thrigolion, "Peidiwch a dychrynu, nid wyf fi yn ddig." Drwy y pethau hyn oll, y mae ein Tad trugarog megis am ein toddi a'i garedigrwydd a'i gymwynasgarwch i'r un dymer haelfrydig a chymwynasgar âg Ef ei Hun; ond yn benaf oll, drwy "Ei gymwynasgarwch i ni yn Nghrist Iesu." "Canys felly y carodd Duw y byd, fel yr anfonodd Efe ei Unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo Ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol." (Ioan iii. 16, a Rhuf. viii. 32.) "Chwi a adwaenoch ras ein Harglwydd Iesu Grist, iddo Ef, ac yntau yn gyfoethog, fyned er eich mwyn chwi yn dlawd, fel y cyfoethogid chwi trwy ei dlodi ef." (2 Cor. viii. 9.)

Yn olaf, y mae yr athrawiaeth yn cymell yr ystyriaeth o'n rhwymedigaeth i gysegru ein hunain, a'r oll a feddwn ac a allwn, i wasanaethu a gogoneddu Duw fel prif ddyben bywyd. "Efe a'n gwnaeth ni, ac nid ni ein hunain; ei bobl Ef ydym, a defaid ei borfa." (Salm c. 3.) "Gogoneddwch Dduw yn eich corff, ac yn eich yspryd, y rhai sydd eiddo Duw." (1 Cor. vi. 20.) "Yr wyf yn atolwg i chwi, er trugareddau Duw, roddi o honoch eich cyrff yn aberth byw, sanctaidd, cymeradwy gan Dduw, yr hyn yw eich rhesymol wasanaeth chwi." (Rhuf. xii. 1.)

## PREGETH IV.

## GWIRIONEDD DUW—Y LLWON DWYFOL.

"Fel mai byw fi, medd y Brenin, enw yr Hwn yw Arglwydd y lluoedd, cyn sicred a bod Tabor yn y mynyddoedd, a Charmel yn y môr, efe a ddaw."—*Jer.* xlvi. 18.

Fe ddaw brenin Babilon "ac a dery wlad yr Aifft," hyny mae y "Brenin, enw yr hwn yw Arglwydd y lluoedd" yn ei sicrhau, ar ei lŵ, yn y geiriau cryfion hyn. Llefarwyd geiriau y broffwydoliaeth hon am oresgyniad yr Aifft gan Nebuchodonsor yn yr Aifft ei hun, lle y dygasid y proffwyd o'i anfodd gan weddill Juda, y rhai a adewsid yn y wlad pan gaethgludwyd corff y genedl i Babilon gyda Sedecia eu brenin. Mynai y gweddill hwnw a adawsid yn ngwlad Juda fyned i'r Aifft i lechu yn nghysgod Pharaoh, er i'r proffwyd eu rhybuddio yn enw yr Arglwydd, ac erfyn yn daer arnynt lawer gwaith i beidio myned yno, gan sicrhau iddynt y byddai nawdd Duw trostynt i'w diogelu os arosent gartref yn eu gwlad eu hunain. Gallesid meddwl mai yr Aifft fuasai y lle olaf yn y byd yr aethai y bobl hyn iddo i geisio nawdd a chymorth, ac mai Pharaoh fuasai yr un diweddaf o bawb iddynt hyderu ynddo. "Ffon gorsen

ddrylliedig" y cawsent hwy yr Aifft a Pharaoh bob amser y pwysent arnynt; eto, bob amser y delai gradd o wasgfa a chyfyngder arnynt, "Disgyn i'r Aifft i ymnerthu yn nerth Pharaoh," ac i "ymddiried yn nghysgod yr Aifft," fynent hwy: a gwaith y naill ar ol y llall o broffwydi Duw, mewn rhan fawr, oedd ceisio eu hiachau o'r Aifft-glwyf hwn.

Anfonasai gweddill Juda Jeremia, ar ol caethgludiad eu brodyr i Babilon, i ymofyn â'r Arglwydd drostynt, i edrych a gawsent ganiatâd Duw i fyned i'r Aifft, yn ol eu dymuniad. Yr oedd ewyllys Duw ar y pen hwnw wedi ei hysbysu iddynt cyn hyny; ond disgwylient y buasai Efe yn newid ei feddwl i foddhau eu mympwy hwy, ac y rhoddai Efe ganiatâd iddynt i dori ei orchymyn pendant ei hun. Aeth y proffwyd a'r achos at Dduw, er hyny, yn ol eu dymuniad. Addawent yn dêg iawn y gwrandawent ar bob gair "a anfonai yr Arglwydd atynt drwy y proffwyd," os da, neu os drwg a fyddai. Dychwelodd y proffwyd atynt gyda'i genadwri oddi wrth Dduw, gan ddywedyd, "Fel hyn y dywed yr Arglwydd, Duw Israel, yr hwn yr anfonasoch fi ato i roddi i lawr eich gweddïau ger ei fron Ef; os trigwch chwi yn wastad yn y wlad hon, Myfi a'ch adeiladaf chwi, ac ni's tynaf i lawr, Myfi a'ch planaf chwi, ac ni's diwreiddiaf: oblegid y mae yn edifar genyf am y drwg a wnaethum i chwi. Nac ofnwch rhag brenin Babilon, yr hwn y mae arnoch ei ofn; nac ofnwch ef, medd yr Arglwydd: canys Myfi a fyddaf gyda chwi, i'ch achub, ac i'ch gwaredu chwi o'i law ef. A mi a roddaf i chwi drugaredd, fel y trugarhao efe wrthych, ac y dygo chwi drachefn i'ch gwlad eich hun. Ond os dywedwch, Ni thrigwn ni yn y wlad hon, heb wrando ar lais yr Arglwydd eich Duw, gan ddywedyd, Nag ê: ond i wlad yr Aifft yr awn ni, lle ni welwn ryfel, ac ni chlywn sain udgorn, ac ni bydd arnom newyn bara, ac yno y trigwn ni. Am hyny, O gweddill Juda, gwrandewch yn awr air yr Arglwydd, Fel hyn y dy-

wed Arglwydd y lluoedd, Duw Israel, Os chwi gan osod a osodwch eich wynebau i fyned i'r Aifft, ac a ewch i ymdeithio yno, yna y bydd i'r cleddyf, yr hwn yr ydych yn ei ofni, eich goddiwes chwi yno yn nhir yr Aifft; a'r newyn, yr hwn yr ydych yn gofalu rhagddo, a'ch dilyn chwi yn yr Aifft; ac yno y byddwch feirw. Felly y bydd i'r holl wŷr a a osodasant eu hwynebau i fyned i'r Aifft, i aros yno, hwy a leddir â'r cleddyf, â newyn, ac â haint: ac ni bydd un o honynt yngweddill, neu yn ddiangol, gan y dialedd a ddygaf fi arnynt," (pen. xlii. 9—17.) Ffromodd y bobl yn aruthr wrth y genadwri, ac wrth y proffwyd o'i herwydd, gan godi yn ei wyneb a dywedyd, "Celwydd yr wyt ti yn ei ddywedyd; ni anfonodd yr Arglwydd ein Duw ni mo honot ti i ddywedyd, Nac ewch i'r Aifft i ymdeithio yno." (pen. xliii. 2.) I'r Aifft y mynent fyned, ac i'r Aifft yr aethant; ac i'r Aifft yr aeth y cleddyf, y newyn, a'r haint, a chyflawnwyd pob iòta o eiriau Duw drwy enau y proffwyd wrthynt, yn eu llwyr ddinystr, fel na ddiangodd un yn weddill o honynt.

Bu Jeremia yn broffwyd a rhybuddiwr i Juda a Jerusalem dros yr ysbaid maith o ddeugain mlynedd; ond aflwyddianus iawn fu ei weinidogaeth. Traddodai ei bregethau wrthynt fel yr oedd yn eu cael gan Dduw; felly, nid yn ei weinidogaeth yr oedd y rheswm am ei aflwyddiant. Yr oedd efe bob amser hefyd yn yspryd ei weinidogaeth yn ei thraddodi; gan hyny, nid yn y pregethwr yr oedd y drwg. Anaml y pregethai ef heb fod ei galon yn ddrylliog, â'i ruddiau yn wlybion gan ddagrau; "Ond y gair a glybuwyd ni bu fuddiol iddynt hwy." "Celwydd yr wyt ti yn ei ddywedyd" meddynt wrth y pregethwr. Wedi gwrandaw ac ymgaledu dan weinidogaeth y proffwyd am ddeugain mlynedd, cododd Duw bregethwr arall i'w anfon atynt ar ol Jeremia, a hwnw oedd Nebuchodonosor, brenin Babilon; fel, gan na fynent wrando geiriau Duw o enau Jeremia, y caent deimlo

nerth ei gleddyf Ef yn llaw Nebuchodonosor; gan na wylent pan oedd Jeremia, dan wylo, yn eu galw i edifeirwch yn eu gwlad eu hunain, cawsant eu hanfon at afonydd Babilon i wylo yno. Fe ddaw geiriau Duw o hŷd i'w gwrandawyr yn rhywle, o'r diwedd, ac a'u gwasgant i deimlo eu gwirionedd a'u nerth. Ni chymerai y gweddill a adawsid yn y wlad rybudd oddiwrth eu brodyr a ddygasid i Babilon, ond ymgyndynu a myned yn eu ffyrdd eu hunain a fynent, a'u ffyrdd eu hunain a'u difethodd hwynt.

Wedi iddynt fyned i'r Aifft, y mae yr Arglwydd yn y bennod hon a'r un flaenorol, yn cadarnhau yr hyn a lefarasai wrthynt cyn iddynt gychwyn yno, yn mherthynas i oresgyniad y wlad hono gan Nebuchodonosor. Desgrifir dyfodiad a rhuthr y gelyn ar y wlad gyda manylrwydd; y byddai calon yr Aifft yn toddi o'i mewn, ei gwŷr cryfion yn wrageddos, a'u brenin ymffrostgar yn troi yn llwfryn ofnog. Tybiai ei wrandawyr fod y proffwyd yn ynfydu. Yr oedd yr Aifft y pryd hwnw yn anterth ei gogoniant, ei dinasoedd yn fawrion a chedyrn, ei chyfoeth a'i hadnoddau yn ddiderfyn, ei byddinoedd yn gryfion, a'i brenin, Pharaoh Hophra, y rhyfelwr penaf yn ei oes. Credent hwy na ddeuai brenin Babilon byth yno, ac na feiddiasai gynyg ymosod ar y wlad. "Gwrandewch," medd y proffwyd, "*Fel hyn y dywed y Brenin, enw yr Hwn yw Arglwydd y lluoedd, cyn sicred a bod Tabor yn y mynyddoedd, a Charmel yn y môr, efe a ddaw.*" Y ddau fynydd yr ydych mor gydnabyddus â hwy; "Tabor," yr uchaf o'r mynyddoedd yn nghanol y wlad, a "Charmel," yr uchaf o'r mynyddoedd gerllaw y môr; yno y maent er pan sylfaenwyd hwynt, yn edrych megis ar eu gilydd dros ysgwyddau y bryniau sydd rhyngddynt, ac yno y byddant hyd ddyddiau olaf y ddaear. Mor sicr â bodolaeth y mynyddau hyny, ydyw gwirionedd y geiriau hyn am ddinystr yr Aifft, a'ch dinystr chwithau yn ei chwymp hi.

Cymerwn y geiriau a ddarllenwyd yn destyn yn safle i edrych ar y Llwon Dwyfol yn yr ysgrythyrau yn eu perthynas âg enw a gogoniant Duw, ac yn eu perthynas â ninau.

I. Yn eu perthynas a Duw ei Hun, fel y maent yn arddangos Ansawdd ei Gymeriad.

Dyben y Brenin mawr yn y datguddiad a wna Efe o hono ei Hun i'w greaduriaid rhesymol ydyw, fel y byddai iddynt hwy ei adnabod, ei fawrhau, a'i fwynhau Ef; ei garu, ei addoli, ac ymddiried ynddo. Datguddia ei Hun felly yn natur, yn ei ragluniaeth; ac yn benaf, yn ngair ei ras. Y mae y dyben hwn yn cael ei amlygu yn y llwon Dwyfol:—

1. *Fel y maent yn dangos anfeidrol ymostyngiad y Brenin, "enw yr Hwn yw Arglwydd y lluoedd."* Pan feddyliom am anfeidrol fawredd y Bôd Tragwyddol ar un llaw, ac am waeledd ac annheilyngdod y creadur, dyn, ar y llaw arall, yr ydym yn barod i dori allan mewn syndod, gan ddywedyd, "Arglwydd, beth yw dyn pan fawrheit ac yr anrhydeddit ef" gan ymostwng a to i lefaru wrtho, pe na buasai ond am ryw unwaith yn unig! Ond Efe a lefarodd wrtho lawer gwaith, mewn llawer modd—trwy angelion, trwy broffwydi—unwaith, ar Sinai, â'i enau ei Hun yn ddigyfrwng—"Yn y dyddiau diweddaf hyn, wrthym ni, yn ei Fab." Llefarodd wrthym, nid yn unig yn iaith ac awdurdod Brenin a Barnwr Cyfiawn, ond hefyd fel Tâd tyner, ac fel cyfaill a chynghorwr caredig. Yn lleferydd ei ras y mae Efe yn erfyn, yn deisyf, ac yn ymbil arnom i wrando ar ei leferydd Ef; a mwy na hyny, ymostynga i sicrhau i ni wirionedd ei eiriau drwy lŵ; a hyny a wnaeth Efe, nid ar ryw un achlysur neillduol, ond laweroedd o weithiau, ac mewn llawer dull a ffurf o lwon. Pe cesglid yr holl lwon Dwyfol yn y Bibl yn un llyfr, gwnai gyfrol fwy nag a feddyliem. Yr ydym yn eu

cyfarfod ar bob dalen o'r ysgrythyr yn mron; a llawer o honynt, ar ambell i ddalen. Yr ydym yn eu cael mewn cysylltiad â hanes y goruchwyliaethau Dwyfol tuag at bersonau, teuluoedd, gwledydd, a chenedloedd, er cadarnhâd gwirionedd diymod ei rybuddion, ei fygythion, a'i addewidion iddynt. Weithiau, Efe a dynga i un neu arall o'i briodoliaethau naturiol, megis, "Tyngodd yr Arglwydd i'w ddeheulaw a'i fraich nerthol" (Esa. lxii. 8); pryd arall, i un o'i briodoleddau moesol, megis, "Tyngais unwaith i'm Sancteiddrwydd" (Salm lxxxix. 35). Weithiau, iddo ei Hun, i'w Enw Mawr, "I mi fy Hun y tyngais, aeth y gair o'm genau mewn cyfiawnder" (Esa. xlv. 23); ond yn fynychaf, i'w anfarwoldeb, megys yn y testyn, "Fel mai byw Fi." Pa fodd y gallem ni yn briodol fawrhau ymostyngiad y Brenin mawr tragwyddol yn ei waith yn rhwymo ei Hun fel hyn â rhwymau dynol? "Canys dynion yn wir sydd yn tyngu i un a fo mwy: a llŵ er sicrwydd sydd derfyn iddynt ar bob ymryson. Yn yr hyn Duw, yn ewyllysio yn helaethach ddangos i etifeddion yr addewid ddianwadalwch ei gynghor, a gyfryngodd drwy lŵ." (Heb. vi. 16, 17.) Llŵ, er sicrwydd, sydd derfyn ar bob dadl ac ymryson rhwng dynion a'u gilydd. Pan ymrwymo y naill ddyn i'r llall drwy lŵ, y mae wedi dyfod dan y rwymedigaeth gryfaf sydd yn ddichonadwy i'w gosod arno, i gyflawni yr amodau y cytunasai y pleidiau arnynt. "Yn yr hyn Duw," yn ewyllysio rhoddi terfyn bythol ar bob ymryson rhyngddo Ef a dynion—rhoddi terfyn ar bob culni ac amheuon yn eu mynwesau am ei eirwiredd Ef, a'i ffyddlondeb i'w air a'i dystiolaethau, "a gyfryngodd drwy lŵ"—a ymostyngodd at ddyn, i ymwneyd â dyn, yn null dyn—i rwymo ei Hun i ddyn, â rhwymyn dyn! Anfeidrol ymostyngiad a gras!

2. *Y mae y Llwon Dwyfol yn brofion o ddidwylledd a difrifoldeb y meddwl Dwyfol yn nhystiolaethau ei air.* Y

weithred fwyaf pwysig a difrifol y galwyd ar ddyn erioed i'w chyflawni yn ei berthynas â'i gyd-ddyn, ydyw myned ar ei lŵ. Ni ddylid arfer llŵ byth ar achos dibwys—ar siarad cyffredin. Ond och! gynifer o lwon felly sydd yn cael eu harfer bob dydd! "O herwydd llwon y gofidiodd y ddaear," medd y proffwyd (Jer. xxiii. 10). Ydyw, y mae yr hên "greadur" yn gofidio bob dydd, hyd y pryd hwn, o herwydd y llwon diachos a chableddus a arfera ei phlant anystyriol. Dylid cadw y llŵ yn gysegredig at achos gwirionedd a chyfiawnder yn y llŷs barn yn unig, pan fyddo galw am dano. Y dyn a all dyngu llŵ gyda phob peth a ddywedo, ychydig iawn o goel a ellir roddi ar ddim a ddywedo; a'r dyn a all dyngu mewn llŷs barn ar dystiolaeth y gŵyr ei gydwybod ei fod yn gwneyd llŵ celwyddog, a wna ei hun yn ysgymunbeth mewn cymdeithas; gwnaeth longddrylliad gwirfoddol o gydwybod dda, a rhoddodd archoll anfeddyginiaethol i'w barch a'i gymeriad. Fel mai tyngu yw y weithred fwyaf difrifol o eiddo dyn, felly, yr un modd, yn ei berthynas a'r Anfeidrol ei Hun. Y mae Ef am ein hargyhoeddi trwy ei lwon, ei fod o ddifrif yn meddwl yr hyn a lefara, ac y bydd yn sicr o wneyd ei air yn dda. Yn y Bibl yr ydym yn cyfarfod, megis wyneb yn wyneb, â Duw sydd yn llefaru wrthym gyda'r difrifoldeb a'r didwylledd puraf. Y fath ddwfn ddifrifoldeb sydd yn gweddu i fod yn llenwi ein meddyliau ni, gan hyny, wrth chwilio a darllen y llyfr y mae y Jehofa wedi tywallt ei holl galon iddo, gan wystlo ei Hanfod dragwyddol, a gogoniant ei enw mawr, ar wirionedd ei dystiolaethau ynddo!

3. *Y mae y Llwon Dwyfol yn yr ysgrythyr, hefyd, yn dangos ac yn gogoneddu y caredigrwydd Dwyfol yn ei ofal am les a diogelwch dyn.* Ewyllysiai Ef symud pob meddyliau culion a chelyd am dano o'n calonau. Y mae y fynwes euog yn wastad yn edrych ar ei barnwr cyfiawn fel gelyn pan ei

dyger o'i flaen, fel pe mai efe yw yr achos o'i phoen a'i thrueni. "Ffolineb dyn a ŵyra ei ffordd, a'i galon a ymddigia yn erbyn yr Arglwydd." (Diar. xix. 3.) Wedi iddo, yn ei ffolineb, ŵyro ei ffordd, a thrwy hyny ddwyn cywilydd a gofid iddo ei hun, "Dywed yn ei galon sydd fwy ei thwyll na dim," mai Duw a'i temtiodd i gael mantais arno i'w gospi a'i wneyd yn druenus. "Nid cymwys yw ffyrdd yr Arglwydd" (Esec. xviii. 25), meddai Israel gynt, ac medd miloedd eto yn eu calonau. Ni fynai y Duw mawr i'w greaduriaid, gwaith ei ddwylaw, feithrin y fath syniadau annheilwng am dano Ef a'i ffyrdd. "Dywed wrthynt," medd Efe wrth Eseciel (pen. xviii, 23), "Gan ewyllysio a ewyllysiwn i farw yr annuwiol, medd yr Arglwydd Dduw, ac na ddychwelai oddi wrth ei ffyrdd a byw?" Pa achos na rheswm a gafodd yr annuwiol erioed i feddwl y fath beth am danaf? "Dos, a dywed wrthynt," medd Efe wrth y proffwyd drachefn (Esec. xxxiii. 11), "Fel mai byw fi, medd yr Arglwydd Dduw, ni ymhoffaf yn marwolaeth yr annuwiol; ond troi o'r annuwiol oddi wrth ei ffordd a byw: dychwelwch, dychwelwch oddi wrth eich ffyrdd drygionus; canys, tŷ Israel, paham y byddwch feirw?" Ai nid yw llŵ y Digelwyddog, yr "Arglwydd Dduw," yn ddigon i argyhoeddi yr annuwiol, am byth, ar y mater? Beth sydd yn ychwaneg i'w wneuthur? Beth yn ychwaneg a all yr Anfeidrol ei Hun ei wneyd er sicrhau i ni ei gariad a'i ewyllys da tuag atom? a'i fod yn awyddus i'n gwaredu o feddiant Satan a phechod ac uffern, ac i'n bendithio â maddeuant a sancteiddrwydd a dedwyddwch tragwyddol. Y mae Efe yn tystiolaethu hyny ar ei lŵ lawer gwaith. "Hyn yw gwaith Duw"—hyn, uwchlaw ac o flaen pob peth, yw gwaith ac ewyllys Duw—"Gredu o honoch yn yr Hwn a anfonodd Efe." (Ioan vi. 29.) Drachefn, "Hwn yw ei orchymyn Ef; Gredu o honom yn enw ei Fab Ef, Iesu Grist." (1 Ioan

iii. 23.) A oes eisieu rhagor? Y mae llawer yn rhagor o'r fath bethau i'w cael yn ei air Ef, yn dystiolaethau pendant, yn llwon cryfion, ac, "Os tystiolaeth dynion yr ydym yn ei dderbyn, y mae tystiolaeth Duw yn fwy"—yn fwy o gymaint ag y mae Duw yn fwy na dyn—"Canys hyn yw tystiolaeth Duw, yr hon a dystiolaethodd Efe am ei Fab. Yr hwn sydd yn credu yn Mab Duw, sydd ganddo y dystiolaeth ynddo ei hun: yr hwn nid yw yn credu yn Nuw, a'i gwnaeth Ef yn gelwyddog, oblegid na chredodd y dystiolaeth a dystiolaethodd Duw am ei Fab. A hon yw y dystiolaeth, roddi o Dduw i ni fywyd tragwyddol; a'r bywyd hwn sydd yn ei Fab Ef, Iesu Grist." (1 Ioan v. 9–11.) Pa fodd y gall anghrediniaeth Cymru ddàl, heb lesmeirio, yn nghalonau miloedd o wrandawyr yr efengyl, a'r tystiolaethau a'r llwon mawrion hyn ger bron eu llygaid, ac yn swnio yn eu clustiau drwy'r blynyddoedd?

Pwy bynag a gymerai arno i chwilio tystiolaeth y gair ar y mater, er cael boddlonrwydd i'w feddwl yn mherthynas i ewyllys Duw gyda golwg arno, byddai raid iddo ddyfod i'r penderfyniad hwn:—"Os Duw a lefarodd eiriau y llyfr hwn, rhaid ei fod yn ewyllysio fy nghadwedigaeth a'm dedwyddwch tragwyddol, a'i fod Ef 'yn ewyllysio fod pob dyn yn gadwedig, a'u dyfod i wybodaeth y gwirionedd' (1 Tim. ii. 4); neu rhaid fod y llyfr yn dwyll, a chelwydd, ac anudoniaeth drwyddo oll."

II. Llwon Duw yn eu perthynas a chyflwr ac achos dyn.

Y mae y mater hwn wedi ei drafod, mewn rhan, dan y pen cyntaf; y mae eto rai pethau i'w crybwyll yn mhellach.

1. *Y mae y Llwon Dwyfol, yn gystal ag y maent yn amlygiadau o* CARACTER *Duw, yn dangos y fath yw* CARACTER *dyn yn ei gyflwr syrthiedig.* Dyn yw yr unig greadur, hyd y gwyddom ni, y cyfryngodd Jehofa trwy lŵ wrth ymwneyd

ag ef. Pan yn llefaru wrth ei angelion, "cedyrn o nerth, y rhai sydd yn gwrando ar leferydd ei air Ef," nid oes angen am lŵ i gadarnhau gwirionedd ei air iddynt hwy; y maent yn ei adnabod yn rhy dda, yn ei barchu ac yn ei garu yn rhy fawr, i ameu dim a ddywed Efe. Ond pan lefara wrth y dyn, a aeth yn estron ac yn elyn iddo, gwel fod yn angenrheidiol iddo sicrhau gwirionedd ei air iddo â'r llwon mwyaf difrifol, gan wystlo gogoniant ei enw a'i hanfod dragwyddol ar ddilysrwydd ei dystiolaethau. Daeth y Phariseaid at y Gwaredwr, ar un achlysur, gan ofyn, "Ai cyfreithlawn i ŵr ysgar a'i wraig ar bob achos?" bod Moses yn y gyfraith yn caniatâu hyny. Dywedodd yntau wrthynt, "Moses, o herwydd caledwch eich calonau, a oddefodd i chwi ysgar a'ch gwragedd; eithr o'r dechreuad nid felly yr oedd." (Matt. xix. 8.) Erys y gyfraith Foesenaidd hon ar glawr byth, yn dystiolaeth am ddwfn lygredigaeth calonau y bobl y rhoddwyd hi iddynt. Gallwn gymwyso yr ymadrodd at lwon Duw yn ei air, "O herwydd caledrwydd ein calonau" y cyfryngodd y Digelwyddog drwy lŵ, wrth lefaru wrthym. Mae y llwon Dwyfol yn y Bibl, yn achos cywilydd wyneb a chalon i ni. Pa beth! a oedd yn angenrheidiol i "Gadernid Israel, yr Hwn ni ddywed gelwydd," ïe, "yr Hwn nis *gall* fod yn gelwyddog," i wystlo ei fraich Hollalluog, a'i sancteiddrwydd, coron ei ogoniant, ïe, a'i fywyd, ar wirionedd ei dystiolaethau i beri i ni ei gredu? "O chwi nefoedd, synwch! O chwi ddynion, gwridwch a chywilyddiwch!" Duw y gwirionedd ei Hun yw yr olaf o bawb y creda y dyn Ef ar air ei lŵ! Safodd Mab Duw ei Hun mewn syndod uwchben y weledigaeth aruthrol hon! do, "Efe a ryfeddodd o herwydd eu hangrediniaeth hwynt" (Marc vi. 6), "ac a dristaodd am galedrwydd eu calonau hwynt, (Marc iii. 5); ond nid yw yr anghredadyn byth yn tristau, yn synu, ac yn rhyfeddu dim ato ei hun. Syna ac ymddigia yn ddirfawr wrth ei gyd-

ddyn a'i hanghredo ef ar ei air a'i anrhydedd; ystyria hyny fel y sarhâd mwyaf ellir ei fwrw arno, pan y mae efe ei hun yn sarhau y Gwirionedd Tragwyddol ei Hunan, ac yn ei "wneuthur Ef yn gelwyddog!" "am na chrêd y dystiolaeth a dystiolaethodd Efe am ei Fab." "Hon yw y ddamnedigaeth, ddyfod goleuni i'r byd, a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na'r goleuni." (Ioan iii. 19.) Y mae anghrediniaeth yn mysg y pechodau, fel yr oedd brenin Israel gynt yn mysg y bobl, "o'i ysgwyddau i fyny yn uwch na hwynt oll." Ar wreiddyn hwn, yn nghalon dyn, y mae bwyell fawr y llwon Dwyfol yn yr ysgrythyr wedi ei gosod, i'w dori i lawr; ac wedi y cymyner i lawr y brenin-bren hwn yn y galon, y mae holl brenau gweddill coed pechod ynddi yn gwywo, a'u tyfiant yn darfod. Efe, anghrediniaeth, a gauodd yr hên genedl allan o wlad yr addewid, ac a gwympodd eu celaneddau yn yr anialwch. "Wrth bwy y digiodd Efe ddeugain mlynedd? onid wrth y rhai ni chredasant? Ac yr ydym ni yn gweled na allent hwy fyned i mewn o herwydd anghrediniaeth." (Heb. iii. 18, 19.) Ac anghrediniaeth sydd yn cau eneidiau deiliaid gweinidogaeth y gair allan o'r orphwysfa dragwyddol sydd eto yn ol i bobl Dduw.

2. *Y mae y llwon dwyfol, gan hyny, wedi eu hamcanu fel moddion nerthol i ddeffroi yr annychweledig i ystyriaeth o drueni ei gyflwr.* Taranau cryfaf y Bibl—"Taranau ei gadernid Ef" ydynt, "Pan ddywedwyf wrth yr annuwiol, gan farw y byddi farw." (Esec. xxxiii. 14,) Dyna'r llŵ, a llŵ ar fater bywyd tragwyddol yr annuwiol ydyw, "Ti a fyddi farw yn sicr"—neu, yn wir, yn wir, ti fyddi farw, oni ddychweli. Y mae yn rhaid i'r annuwiol farw, neu mae yn rhaid i Dduw ei Hun farw, dim ond un o'r ddau sydd i fyw, "Oni ddychwel yr annuwiol;" ond, "os yr annuwiol a ddadrydd wystl, ac a rydd yn ei ol yr hyn a dreisiodd, a rhodio yn neddfau y bywyd," gan ddwyn felly ffrwythau

addas i edifeirwch a ffydd, "gan fyw efe a fydd byw, ni bydd marw." (Esec. xxxiii. 15.) Dyma obaith i'r annuwiol eto; ïe, a sicrwydd o gael byw byth, ond yn unig drwy ddychwelyd o'i ffordd ddrygionus. Dyma un o amcanion grasol y rhybuddio drwy lŵ. Y mae y Duw mawr yn tyngu yn ei lid na ddaw yr annychweledig—yr anghredadyn yn ei anghrediniaeth—"i mewn i'w orphwysfa Ef" (Heb. iii. 11); nid aeth yr un erioed, ac nid â yr un byth. Y mae llwon Jehofa yn sicrhau pyrth y bywyd yn erbyn yr anghredadyn.

4. *Eto, y mae y Llwon Dwyfol yn y gair, o'r tu arall, yn cynwys yr anogaethau a'r cysuron cryfaf i gredinwyr ar eu gyrfa tua'r nefoedd.* "Fel trwy ddau beth dianwadal, yn y rhai yr oedd yn anmhosibl i Dduw fod yn gelwyddog, y gallem ni gael cysur cryf, y rhai a ffoisom i gymeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'n blaen." (Heb. vi. 16.) Pan y mae yr enaid dychrynedig yn ffoi am ei fywyd i gymeryd gafael yn y gobaith a rydd yr efengyl o'i flaen ef—unwaith yr elo i mewn i'r ddinas noddfa hono—amgylchynir ef â chaniadau ymwared. Y mae llwon Duw oll fel cynifer o fagnelau wedi eu gosod ar gaer ei iachawdwriaeth i amddiffyn a diogelu ei fywyd: "Gan fyw, efe a fydd byw," medd pob llŵ, "y mae ei fywyd ef wedi ei rwymo â llŵ wrth fywyd Duw ei Hun." Cyfeiria "gair y llŵ" at bethau cryfaf a sicraf natur i osod allan gadernid trefn y cyfamod, yn yr hwn y mae bywyd credadyn wedi ei rwymo "yn rhwymyn y bywyd," gyda'r Arglwydd ei Dduw. "Fel hyn y dywed yr Arglwydd, yr Hwn sydd yn rhoddi yr haul yn oleuni y dydd, defodau y lloer a'r sêr yn oleuni y nos; yr Hwn sydd yn rhwygo y môr pan ruo ei donau, Arglwydd y lluoedd yw ei enw. Os cilia y defodau hyny o'm gwydd I, medd yr Arglwydd, yna hâd Israel a baid a bod yn genedl ger fy mron I yn dragywydd. Fel hyn y dywed yr Arglwydd, os gellir

mesur y nefoedd oddi uchod, a chwilio sylfeini y ddaear oddi isod, minau hefyd a wrthodaf holl hâd Israel am yr hyn oll a wnaethant hwy, medd yr Arglwydd." (Jer. xxxi. 35–37.) Unwaith, wrth osod allan gadernid trefn ei ras a diogelwch ei bobl, cyfeiria Jehofa at y cyfamod a wnaethai â Noa; fel yr oedd bendithion y cyfamod hwnw wedi eu sicrhau i'r byd drwy bob cenedlaeth ac oes. "Dros enyd fechan y'th adewais," medd Efe wrth Seion, "ond â mawr drugareddau y'th gasglaf. Mewn ychydig soriant y cuddiais fy wyneb oddi wrthyt, megis enyd awr, ond â thrugaredd dragwyddol y trugarhaf wrthyt, medd yr Arglwydd, dy Waredydd. Canys fel dyfroedd Noa y mae hyn i mi: canys megis y tyngais nad elai dyfroedd Noa mwy dros y ddaear, felly y tyngais na ddigiwn wrthyt, ac na'th geryddwn. Canys y mynyddoedd a giliant, a'r bryniau a symudant, eithr fy nhrugaredd ni chilia oddi wrthyt, a chyfamod fy hedd ni syfl, medd yr Arglwydd yr Hwn sydd yn trugarhau wrthyt." (Esa. liv. 7–10.) Cedyrn natur, pendefigion y ddaear, yw y mynyddoedd a'r bryniau. Derbyniasant eu teitlau, "Y mynyddoedd tragwyddol, a'r bryniau oesol," oddiwrth yr awdurdod uchaf (Hab. iii. 6). Y maent hwy yn aros ac yn parhau yr un fath o oes i oes. Y mae wyneb y ddaear, a'r wlad o'u hamgylch, yn myned dan gyfnewidiadau yn barhaus, dan law llafur a chelfyddyd dyn; ond y maent hwy, y mynyddoedd, yn parhau yr un. Pe deuai Jeremia yn awr i dalu ymweliad a'i hên wlad, efe a welai fod Tabor a Charmel yn gwisgo yr un agwedd yn union a'r un oedd arnynt pan oedd efe yn ysgrifenu geiriau ein testyn; er mai prin y gallasai efe adnabod wyneb y wlad o'u hamgylch, gan faint y cyfnewidiadau a wnaed arni. Y mae y mynydd megis yn dwyn delw ei Greawdwr digyfnewid ar ei wedd. Bu llawer cenedlaeth o ddefaid a bugeiliaid yn cyniwair ar hyd ei lechweddau yn olynol, am oes ar ol oes;

ond ni bu iddo ef, y mynydd, ragflaenor erioed, ac ni bydd iddo olynydd byth ychwaith. Taflodd llawer gauaf fantell dew o eira dros ei ysgwyddau, ond nid oedd yn eira tragwyddol; toddodd dylanwad y gwanwyn yr eira ymaith, fel y rhedai yn ddagrau dros ei ruddiau crych; ond yr oedd efe yn aros yr un. Cuddiwyd ei goryn o'r golwg dan lèni tewion o niwl laweroedd o weithiau; chwythodd yr awelon y niwl ymaith, ond yno yr erys y mynydd yr un fath drwy yr oesau. Gorphwysodd llawer cwmwl blinedig dan ei faich ar ei ysgwydd; gwlawiodd pob cwmwl ei hun i ddiflaniad, ond deil y mynydd ei ysgwyddau llydain yn orphwysfanau i gymylau oes ar ol oes. Hên fynyddoedd hybarch, patriarchiaid a phendefigion y ddaear, a aroswch chwithau ar eich gorsafleoedd cedyrn, heb ysgogi, yn oes oesoedd? Na, "Y mynyddoedd a giliant, a'r bryniau a symudant!" Teifl nerthoedd goruchwyliaeth y dydd mawr a ddaw hwythau hefyd oddiar eu gwadnau, a lle ni cheir iddynt. Daw oes hîr y cyfamod â Noa i ben; tymorau hau a medi yn darfod; deddfau gwanwyn a hâf, cynauaf a gauaf, yn rhoddi i fyny eu swydd am byth: darfodedigaeth derfynol wedi ei dwyn ar bob peth, a môr na mynydd ni bydd mwyach, ac ni bydd amser mwyach; heuliau y nefoedd wedi diffodd, a'i myrdd miliynau o sêr wedi syrthio a diflanu am byth bythoedd! Ie; ond, "Fy nhrugaredd ni chilia, a chyfamod fy hedd ni syfl, medd yr Arglwydd, yr Hwn sydd yn trugarhau wrthyt." Saif y cyfamod, a'r drefn a gadarnhaodd Efe â'i lwon yn Nghrist Iesu cyn bod y byd, pan syrthio trefn natur yn ei gwedd bresenol i ddinystr a darfodiad. "Dyrchefwch eich llygaid tua'r nefoedd, ac edrychwch ar y ddaear isod; canys y nefoedd a ddarfyddant fel mŵg, a'r ddaear a heneiddia fel dilledyn, a'i phreswylwyr yr un modd a fyddant feirw; ond fy iachawdwriaeth I a fydd byth, a'm cyfiawnder ni dderfydd. (Esa. li. 6.) Nid rhyfedd i bêr ganiedydd Israel,

yn yr olwg ar gadernid tragwyddol y cyfamod hedd, anadlu ei enaid allan, wrth farw, yn acenion melusion ei gân ddiweddaf. Pan yn dodi ei goron ddaearol heibio, yn gollwng ei deyrnwialen freninol o'i law am byth, gan adael ei orsedd yn wâg i'w olynydd, gwnai hyny dan ganu y penill melusaf a gyfansoddasai efe erioed: "Cyfamod tragwyddol a wnaeth Efe â mi, wedi ei luniaethu yn hollol ac yn sicr; canys fy holl iachawdwriaeth, a'm holl ddymuniad yw." (2 Sam. xxiii. 5.) Y mae trefn cyfamod yr iachawdwriaeth yn Nghrist mor ddigyfnewid â natur, ac mor barhaus â bywyd a chariad y Jehofa tragwyddol ei Hun. I fynwes y cyfamod hwn y mae yr efengyl yn galw ac yn gwahodd eneidiau euog a cholledig i'w cuddio a'u cadw byth. "Deuwch ataf, gwrandewch, a bydd byw eich enaid, a mi a wnaf gyfamod tragwyddol â chwi; sef sicr drugareddau Dafydd." (Esa. lv. 3.)

Beth a welwn ni yn, ac a ddywedwn ni wrth y pethau hyn?

1. Ni a welwn, fel y crybwyllwyd o'r blaen, fawr "Ddaioni a charedigrwydd Duw, ein Hachubwr, tuag at ddyn"—tuag at ddyn, yr iselaf a'r gwaelaf, fe ddichon, o holl ddeiliaid ei lywodraeth foesol. "Dyn, yr hwn sydd brŷf; mab dyn, yr hwn sydd abwydyn"—y creadur "anniolchgar a drwg." "Lle yr amlhaodd" annheilyngdod a thrueni, y "rhagor amlhaodd gras" a chariad; "Efe a anfonodd ei Fab ei Hun, wedi ei wneuthur o wraig, yn nghyffelybiaeth cnawd pechadurus" dyn, i fyw a marw, ufuddhau a dioddef drosto. Rhoddodd "Addewidion mawr iawn a gwerthfawr" iddo, wedi eu cadarnhau a'u selio â'i lwon lawer. Gwnaeth gymaint er ac i ddyn, fel y mae yn gofyn uwch ei ben, "Beth oedd yn ychwaneg i'w wneuthur nag a wnaethum iddo?" (Esa. v. 4.) Gwnaeth lawer yn ychwaneg iddo ef nag a wnaeth i'r angel syrthiedig. Gadawodd hwnw, wedi iddo

golli ei ddechreuad a "gadael ei drigfa ei hun," heb un ddarpariaeth i'w adferu. Ni alwodd byth ar ei ol, ac ni ddywedodd air wrtho; ond y mae sŵn ymysgaroedd ei dosturiaethau yn rhuo ar ol y dyn i'w glywed yn awelon y ddaear o ddydd ei gwymp ef hyd y dydd hwn, a'i alwadau yn adseinio yn ei chreigiau yn barhaus. Daeth y Bugail Da ar ol y ddafad gyfrgolledig hon (dynoliaeth) i anialwch ei chollecigaeth, i chwilio am dani. Nid rhyw ffigyrau barddonol ydyw ymadroddion fel hyn, ond ffeithiau wedi eu sicrhau â llwon Duw ei Hun.

2. Yr ydym yn gweled natur ysgeler a thuedd ddinystriol anghrediniaeth, fel y mae yn cynyg yn uniongyrchol at fywyd "y Brenin, enw yr Hwn yw Arglwydd y lluoedd." "Yr hwn nid yw yn credu, a'i gwnaeth Ef yn gelwyddog," ïe, yn anudonwr! a dyna deyrnfradwriaeth—cynyg at fywyd *character* yr Anfeidrol! "A ddywedir wrth frenin, Drygionus ydwyt? neu wrth dywysogion, Annuwiol ydych?" Y mae llaweroedd o freninoedd drygionus, ac o dywysogion annuwiol wedi bod ac yn bod yn y byd, y byddai, gan hyny, yn eithaf priodol dywedyd felly wrthynt, megis y dywedodd Elias wrth Ahab, a Jeremia wrth Coniah, brenin Juda, a'i dywysogion; ond yn anaml iawn y meiddia neb ddywedyd y fath wirionedd wrth freninoedd a thywysogion. Ond y mae pob anghredadyn yn meiddio dywedyd bob dydd yn ngwyneb y gwirionedd ei Hun, "Celwyddog ydwyt!" Y mae yn cau ei Fibl bob tro y cymero ef yn ei law i'w ddarllen, gan ddywedyd, "Celwyddog ydwyt!" Felly y dywed ar derfyn pob Sabbath, ar ol gwrando yr efengyl—"Celwydd i gyd!" "Yr hwn nid yw yn credu, a'i gwnaeth Ef yn gelwyddog, am na chredodd y dystiolaeth a dystiolaethodd Duw am ei Fab."

3. Yr ydym yn gweled cysondeb y drefn o gysylltu colledigaeth dynion yn ngwlad yr efengyl, âg anghrediniaeth,

ac âg anghrediniaeth yn unig, fel yr unig achos o honi, a'r rheswm am dani. "Hon yw y ddamnedigaeth, ddyfod goleuni i'r byd, a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na'r goleuni." (Ioan iii. 19.) "Yr hwn nid yw yn credu a ddamniwyd eisioes." "Yr hwn nid yw yn credu, ni wêl fywyd, eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef." O herwydd eu hanghrediniaeth y cauwyd y genedl a waredwyd o'r Aifft allan o'r Ganaan ddaearol. "Yr ydym ni yn gweled na allent hwy fyned i mewn o herwydd anghrediniaeth." (Heb. iii. 19.) Gallasent, a chawsent fyned i mewn, wedi eu holl rwgnachrwydd, eu tuchan, a'u gwrthryfel yn yr anialwch, oni buasai eu hanghrediniaeth. "Wrth bwy y tyngodd Efe na chaent hwy fyned i mewn i'w orphwysfa Ef? Onid wrth y rhai ni chredasant?" (Heb. iii. 18.) Yr hyn a'u cauodd hwy allan o'r orphwysfa dymorol hono, sydd yn cau anghredinwyr gwlad efengyl allan o'r orphwysfa dragwyddol. Yr un modd, o'r tu arall, cysylltir cyfiawnhad a chadwedigaeth pechadur, yn nhrefn yr efengyl, â ffydd, ac â ffydd yn unig.

# PREGETH V.

## CARIAD DUW.

"Yr hwn nid yw yn caru, nid adnabu Dduw: oblegid Duw, cariad yw. Yn hyn yr eglurwyd cariad Duw tuag atom ni, oblegid danfon o Dduw ei unig-anedig Fab i'r byd, fel y byddem fyw trwyddo Ef. Yn hyn y mae cariad; nid am i ni garu Duw, ond am iddo Ef ein caru ni, ac anfon ei Fab i fod yn iawn dros ein pechodau."—1 *Ioan* iv. 8–10.

Buasai yn bur naturiol i ni ddisgwyl cael "Y dysgybl yr oedd yr Iesu yn ei garu," yr hwn a bwysasai ar fynwes y cariad ymgnawdoledig ei hun ar Swper, yr hwn a yfasai mor helaeth o'r ffynon hono, yn son llawer am gariad, ac felly y mae efe. Ysgrifenodd Ioan ei efengyl a'i epistolau megis â chariad; ni chanai ei delyn ef unrhyw ganiadau ond caniadau cariad. Nid efe oedd y cyntaf a soniasai am gariad Duw; ond ei bin ef a anrhydeddwyd â'r ragorfraint o roddi yn gyntaf oll y syniad goruchel hwn am dano—"Duw, Cariad yw." Ymadrodd sydd megis yn cymeryd y goron freninol i deyrnasu yn nghalon ac yn nuwinyddiaeth yr eglwys byth er pan ddisgynodd efe oddi wrth bin yr ysgrifenydd cariadlawn hwn.

Mae tri ymadrodd yn y Testament Newydd yn datguddio

i ni yr hyn yw Duw—"Yspryd yw Duw" (Ioan iv. 24); "Goleuni yw Duw" (Ioan i. 5); a'r ymadrodd yn y testyn, "Duw, cariad yw." Llefarwyd y cyntaf gan "yr unig-anedig Fab, yr hwn sydd yn mynwes y Tad," ac a ddaeth i'w "hysbysu" Ef i'r byd; yr ail gan yr apostol hwn, fel "cenadwri" a dderbyniasai efe gan yr Arglwydd Iesu i'w hysbysu i'r eglwys; a'r olaf, fel tystiolaeth ysprydoledig Ioan ei hun am Dduw. Llefarwyd y cyntaf am Dduw yn natur ei Hanfod fel unig wir wrthddrych addoliad, er dysgu pa fath addoliad ac addolwyr sydd weddus iddo, a chymeradwy ganddo; canys addoli oedd pwnc yr ymddyddan rhwng Crist a'r wraig o Samaria ar y pryd. Yr oedd ysprydolrwydd Duw wedi ei ddysgu mewn ymadroddion arwyddocaol o'r peth yn yr Hên Destament; ond yn yr ymddyddan rhyfedd hwnw wrth ffynon Jacob y deorwyd sylwedd y ddysgeidiaeth hono i'r un ymadrodd hwn—"YSPRYD YW DUW."

Ymadrodd cyffelybiaethol yw yr ail, yn gosod allan, nid natur Jehofa, fel y cyntaf, ond ei *garacter* moesol—"Goleuni yw Duw, ac nid oes ynddo ddim tywyllwch." Purdeb, heb ynddo ddim yn groes i hyny; sancteiddrwydd, "ac nid sanctaidd neb fel Efe;" cyfiawnder, "ac nid oes anghyfiawnder gydag Ef." Perffeithgwbl o wybodaeth, nad oes dim yn guddiedig oddiwrtho. Yn yr ymadrodd hwn gosodir ef allan, yn benaf, fel gwrthddrych i ni ymestyn at ymdebygoli iddo—i fod "yn ddilynwyr Duw fel plant anwyl." "Eithr megis y mae y neb a'ch galwodd chwi yn sanctaidd, byddwch chwithau hefyd sanctaidd yn mhob ymarweddiad; oblegid y mae yn ysgrifenedig, Byddwch sanctaidd, canys sanctaidd ydwyf fi." (1 Petr i. 15, 16.) Hyn hefyd a gymellir gan Ioan ar y saint yn y geiriau cysylltiadol â'r ymadrodd; anog y saint y mae efe i rodio yn y goleuni, i fyw yn unol â'u proffes, canys "Goleuni yw

Duw," yr Hwn y proffesent eu bod yn blant ac yn ddilynwyr iddo.

Y mae yr ymadrodd yn y testyn, "*Duw, cariad yw,*" yn gosod allan ansawdd ysprydol—ansawdd calon Jehofa. Ymadrodd beiddgar yw'r ymadrodd "calon Duw;" ond y mae yn ymadrodd ysgrythyrol, ac yn ymadrodd a ddefnyddia Efe ei Hun yn fynych yn ei Air; gan hyny, mae yn gyfreithlawn i ninau ei arfer. Anog y saint i gariad, i garu eu gilydd, y mae'r apostol. Yr oedd Ioan, yn ei ddyddiau olaf, yn debyg iawn i'w Arglwydd yn ei ddyddiau olaf Ef. Prif fater ei ymddyddan gyda'i ddysgyblion, a'r brif siars a roddai Efe iddynt cyn eu gadael oedd, ar "Garu o honynt eu gilydd, megis y carai Efe hwynt." Felly Ioan yntau, yn ei ddyddiau olaf, yn llawn o'r yspryd yr yfasai Efe o hono ddeunaw mlynedd a deugain cyn ysgrifenu yr epistol hwn, pan yn gwrando cyfarchiad olaf ei Arglwydd yn yr oruwch-ystafell, efe a'i tywallta fel olew sanctaidd i eneinio y saint âg ef cyn iddo eu gadael a myned i wlad y cariad perffaith a thragwyddol. "Anwylyd, carwn ein gilydd. Cariad, o Dduw y mae; a phob un ar sydd yn caru, o Dduw y ganwyd ef, ac y mae efe yn adnabod Duw. Yr hwn nid yw yn caru, nid adnabu Dduw; oblegid Duw, cariad yw." Egyr y geiriau feusydd eang a thoreithiog o'n blaen. Yn

1. Mai adnabyddiaeth o Dduw ydyw gwreiddyn y cariad y sonia yr apostol am dano, ac a gymellir ganddo ar y saint fel eu dyledswydd tuag at eu gilydd.

2. Mai y prawf goreu fod un yn adnabod ac yn caru Duw yw, ei fod yn caru plant Duw; dwg yr apostol y syniad hwn yn mlaen drachefn a thrachefn yn yr epistol.

3. O'r tu arall, bod amddifadrwydd o'r cariad hwn at blant Duw, yn brawf sicr o amddifadrwydd enaid o'i adnabyddiaeth o Dduw a chariad ato.

4. Bod yr adnabyddiaeth o Dduw sydd yn cynyrchu y cariad hwn at eu gilydd yn eneidiau y saint, yn cynwys sylweddoliad yn y meddwl o wirionedd y dystiolaeth hon am dano, "*Duw, cariad yw.*" Crediniaeth gyffredinol o'r gwirionedd hwn a laddai holl elyniaeth y byd yn erbyn Duw, ac a'i llanwai â chariad tuag ato, ac a glymai galonau dynion wrth eu gilydd â "rhwymyn perffeithrwydd, yr hwn yw cariad."

5. Mai yr ystyriaeth o gariad anfeidrol Duw tuag atom ni yn anfoniad ei Fab i fod yn iawn dros ein pechodau ni, ydyw y moddion effeithiol i ddyfod i'r adnabyddiaeth hon o hono Ef, ac i brofiad a meddiant o'r cariad Cristionogol hwn tuag ato Ef a thuag at ei blant Ef.

Ni chynygir olrhain y materion yna yn mhellach yn awr, ond disgynwn ar y dystiolaeth a ddwg y testyn am Dduw, a'r prawf a rydd o'r dystiolaeth hono.

I. Y DYSTIOLAETH.—"*Duw, cariad yw.*" Beth mae'r dystiolaeth hon yn gynwys?

1. *Mai yn y briodoledd hon, ei Gariad, y mae Efe ei Hun yn benaf yn ymogoneddu*, "Efe a lonydda, a ymfoddlona, a ymddigona, ac a ymddigrifa yn ei gariad." (Seph. iii. 17.) Yn Nuw yn unig y mae dedwyddwch, yn gystal a phob mawredd, yn berffaith yn ei raddau, fel na all fod cynydd na lleihad yn perthyn iddo. Y mae dedwyddwch saint ac angelion yn y nefoedd yn llawn, ac yn llenwi dymuniadau pob un; ond y mae yr un pryd, ar gynydd parhaus, ac fe â ar gynydd byth; fel y cynyddo eu gwybodaeth am Dduw, a'u hadnabyddiaeth o hono, fe gynydda eu dedwyddwch hefyd—"Myned i mewn i lawenydd eu Harglwydd" y byddant hwy byth. Ond y mae gwybodaeth Duw yn Hollwybodaeth, ei adnabyddiaeth Ef o hono ei Hun yn berffaith, ac y mae ei ddedwyddwch Ef ynddo ei Hun yn berffaith, yn anfeidrol felly. Yr oedd felly erioed, ac fe

fydd felly byth. Y mae pob priodoledd yn y perffeithrwydd o honi ynddo, a phob un yn elfen dedwyddwch iddo; ond yn benaf, ei gariad. Nid yn ei fod yn Hollalluog, yn Hollwybodol, yn Hollbresenol, &c., y mae Efe yn ymogoneddu ynddo ei Hun yn *benaf*, ond yn nghyflawnder anfeidrol ei gariad. Ymgyfenwa yn Dduw Hollalluog, Hollwybodol, Hollbresenol, yr unig ddoeth Dduw, &c.; ond ni ddywedir —Duw, Hollalluowgrwydd, neu Hollwybodaeth, neu Hollbresenoldeb, &c., yw—Cariad oedd i ġael y lle blaenaf hwn yn y datguddiad o'i enw mawr—"*Duw, cariad yw.*" Eto, geilw ei Hun "Y Duw trugarog a graslawn," "Duw pob gras," "Duw'r amynedd;" ond ni ddywedir, Duw, trugaredd yw, gras yw, neu amynedd yw; ffrydiau o'i gariad yw ei drugaredd, ei ras, a'i amynedd; Cariad yw eu ffynonell wreiddiol hwy.

2. *Mai y Cariad Dwyfol yw ffynon wreiddiol bodoliaeth.* "O herwydd dy ewyllys di (dy ewyllys da di, dy garedigrwydd di) y maent, ac y crewyd hwynt" ydyw iaith y gân nefol gyda golwg ar bob peth sydd yn bodoli—"y nefoedd a'r ddaear, y môr, a'r hyn oll sydd ynddynt." (Dat. iv. 11.) Megis pe dywedent, i gariad—i garedigrwydd "Yr Hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfainc," yn unig, yr ydym ni yn ddyledus am ein bodoliaeth i fwynhau gwynfyd a dedwyddwch y cyflwr gogoneddus hwn. Efe a ewyllysiodd eu creu am ei fod yn *caru* bodoliaeth—yn caru bodoliaeth ynddo ei Hun. Nid mai cariad yw gwreiddyn neu achosydd y fodoliaeth Ddwyfol a olygir, ni all fod achos i'r fodoliaeth sydd er tragwyddoldeb; ond y fodoliaeth grëedig, rhaid fod achos cyntaf iddi hi, a'r achos hwnw yw y Bôd tragwyddol, a'r achos hwnw ynddo Ef ydyw, yr hyn *yw* Efe, a "Duw, cariad yw." Nid oedd gan gyfiawnder ddim i'w ddyweyd ar gwestiwn y creu; buasai yr un mor gyfiawn iddo beidio creu dim oll a greodd Efe, ag oedd iddo eu

creu hwynt; nid oedd dan un rwymedigaeth i wneyd, nac i beidio gwneyd. Yr oedd Efe hefyd yn gymaint uwchlaw *angen* am greadigaeth a chreaduriaid ag oedd Efe uwchlaw rhwymedigaeth a dyled; o'i gariad a'i ewyllys da yn unig, gan hyny, y creodd Efe bob peth, yn llestri i'w llenwi â'i ddaioni a'i garedigrwydd. Gwreichion o dân ei gariad Ef yw holl sêr y nefoedd; defnynau o eigion anfeidrol y cariad tragwyddol ydyw holl elfenau natur; a llestr i dderbyn o'r cariad hwnw ydyw pob creadur—"*Duw, cariad yw.*"

3. *Cariad, mewn gwahanol agweddau o hono, yw holl oruchwyliaethau ei lywodraeth ar y byd.* Llywodraethu mewn cariad y mae Efe, yn gystal ag mewn cyfiawnder. Pan y mae gwedd o ŵg a soriant ar oruchwyliaeth o'i eiddo, cariad yn gwgu ydyw. Am ei fod yn caru daioni, lles, a dedwyddwch ei greadur, y mae Efe yn anfoddlon, ac yn dangos anfoddlonrwydd tuag at bob peth a dueddo i'w niweidio a'i wneyd yn druenus. Y mae pechod yn elyn mawr i iawn drefn ei lywodraeth, a dedwyddwch y deiliaid, yn aflonyddu ar ei heddwch hi, yn yspeilydd ei hiawnderau hi; ac am hyny, o angenrheidrwydd ei natur, y mae cariad yn ei gasau ac yn gwgu arno, ac ar y creadur sydd yn ei garu ac yn byw ynddo. Ni fu y cariad tragwyddol yn ddîg wrth un creadur erioed, fel creadur; ond fel troseddwr y mae Efe yn gwgu arno. Am eu bod yn caru ac yn gwneuthur celwydd yn unig y mae Efe yn ddîg wrth yr angelion ni chadwasant eu dechreuad, a dynion colledig yr un modd. Ei gariad at gyfiawnder ac iawn drefn yn ei lywodraeth, at ddiogelwch a dedwyddwch ei ufudd ddeiliaid, sydd yn gofyn carcharu a chospi y troseddwyr. Y mae ocheneidiau a thrueni gwlad y golledigaeth dragwyddol, yn gystal a chaniadau a dedwyddwch y nefoedd, yn cyhoeddi y gwirionedd mawr—"DUW, CARIAD YW."

4. *Cariad yw deddf fawr ei lywodraeth foesol.* Y cyntaf o'r holl orchymynion yw, "Clyw, Israel; yr Arglwydd ein Duw, un Arglwydd yw: a châr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl feddwl, ac â'th holl nerth. Hwn yw y gorchymyn cyntaf. A'r ail sydd gyffelyb iddo; Câr dy gymydog fel ti dy hun. Nid oes orchymyn arall mwy na'r rhai hyn." (Marc xii. 29–31.) "Cyflawnder y gyfraith yw cariad." (Rhuf. xiii. 10.) "Y mae y ddeddf yn sanctaidd, a'r gorchymyn yn sanctaidd, yn gyfiawn, ac yn dda." (Rhuf. vii. 12.) Ond os mynir cael ateb mewn un gair i'r gofyniad, Beth yw y gyfraith? Beth yw ei sylwedd? Y gair a rydd yr ateb goreu i'r cwestiwn ydyw CARIAD, canys cariad ydyw ei sylwedd—ei chyflawnder hi. Y mae yn llawer haws i greadur euog gredu fod Duw yn gyfiawn a sanctaidd, na chredu ei fod Ef yn drugarog ac yn raslawn; meddwl fod Duw yn ei gasau, na meddwl ei fod yn ei garu. Yr un modd am y gyfraith; dywed ei gydwybod wrtho ei bod hi yn gyfiawn ac yn sanctaidd; ond ni fedd syniad am dani fel cyfraith cariad, am ei bod hi yn ei fygwth, ac yn ei gondemnio ef yn ei gydwybod ei hun. Yr un yw Duw a'i gyfraith, *Duw, cariad yw*, a'i gyfraith, cariad yw; "Canys yr holl ddeddf a gyflawnir mewn un gair, sef yn hwn, Câr dy gymydog fel ti dy hun." (Gal. v. 14.) Y mae y gorchymyn mawr cyntaf o'r gyfraith yn rhwymo calon y creadur wrth ei Greawdwr "i'w garu Ef â'i holl galon, â'i holl nerth," fel y daioni penaf, a'r cariad tragwyddol ei Hun; a'r ail orchymyn yn rhwymo calonau y creaduriaid wrth eu gilydd, â'r un rhwymyn, *Cariad*, gan erchi i'r naill i garu y llall fel ef ei hunan. Fel y mae cyfraith y dysgyrchiad yn y byd naturiol, yn rhwymo planedau a heuliau wrth eu gilydd, ac yn cadwyno holl gysawdiau y cread y naill wrth y llall, felly y mae cyfraith cariad yn y lywodraeth foesol, yn rhwymo

calonau ei deiliaid wrth y cariad anfeidrol ei Hun, fel eu canolbwnc, ac wrth eu gilydd hefyd, i gyd-droi megis o amgylch ei orseddfainc Ef, i gydymhyfrydu ynddo byth. Cariad yn llefaru mewn cyfiawnder oedd ar Sinai; cariad oedd yn ymguddio yn y cwmwl, y tywyllwch, a'r dymestl yno: "Gwrandewais di yn nirgelwch y daran" (Salm lxxxii. 7). Medd yr Arglwydd wrth ei bobl Israel, "Pan elwaist arnaf mewn cyfyngder a dychrynfeydd marwolaeth, dan weinidogaeth arswydlawn dydd y gymanfa, mi a'th wrandewais." "Gwrandewais di pan oeddwn yn llefaru wrthyt yn nirgelwch y daran. Daeth dy lef di ataf drwy y daran ofnadwy hono. Yr oedd fy nghariad atat yn lluniaru ac yn tymeru y daran a'r dymestl, fel na byddai y brofedigaeth uwchlaw yr hyn a allesit ei dwyn." "Yr Arglwydd a ddaeth allan o Sinai, ac a gododd o Seir iddynt (medd Moses), ymlewyrchodd o fynydd Paran, ac Efe a ddaeth gyda myrddiwn o saint, a thanllyd gyfraith o'i ddeheulaw iddynt." (Deut. xxxiii. 2.) Sylwer ar y geiriau nesaf (adn. 3), "*Caru y mae Efe y bobl*, ei holl saint ydynt yn dy law." Am ei fod yn *caru y bobl* y daeth Efe "allan o Sinai a thanllyd gyfraith o'i ddeheulaw iddynt." Pregethu yr athrawiaeth fawr, "Duw, cariad yw," yr oedd pob mellten a tharan, y cwmwl dudew, y dymestl gref, a'r tân mawr hyd entrych nefoedd, a phob gorchymyn o'r "gyfraith danllyd," yr un modd, erbyn deall ystyr eu lleferydd—"*Duw, cariad yw.*"

5. *Cariad yw cyflawnder holl fygythion y gyfraith.* Cariad sydd yn dywedyd, "Melldigedig yw pob dyn nid yw yn aros yn yr holl bethau a ysgrifenir yn llyfr y ddeddf, i'w gwneuthur hwynt." (Gal. iii. 10.) Am nad oedd Efe yn ewyllysio i neb fyned dan y felldith hono y llefarai y Deddfroddwr cariadlawn y bygythion yna, a'r holl fygythion, yn rhybuddion i'r deiliaid, na ryfygent gellwair a'i gyfraith Ef,

a thynu ei gwaeau a'i melldithion cyfiawn hi arnynt, ac i'w gyru fel rhai oeddynt wedi ei throseddu oddiwrthi hi am gyfiawnder ac ymwared, at y drefn o ras oedd yn cael ei rhag-efengylu drwy yr aberthau cysgodol dan y cyfamod cyntaf. "Eithr cyd-gauodd yr ysgrythyr bob peth dan bechod, fel y rhoddid yr addewid trwy ffydd Iesu Grist i'r rhai sydd yn credu. Eithr cyn dyfod ffydd, y'n cadwyd dan y ddeddf, wedi ein cyd-gau i'r ffydd, yr hon oedd i'w datguddio. Y ddeddf, gan hyny, oedd ein hathraw ni at Grist, fel y'n cyfiawnhaid trwy ffydd." (Gal. iii. 22–24.)

II. YR EGLURHAD—*y prawf mawr, penderfynol, ar y mater.* "Yn hyn yr eglurwyd cariad Duw"—*yn hyn* yr eglurwyd ac y profwyd am byth, mai "Duw, cariad yw!" Buasai yn anhawdd tynu yr ymadrodd hwn gyda sicrwydd allan o un datguddiad arall a wnaeth Duw o hono ei Hun. Y mae "cymylau a thywyllwch" o'i amgylch Ef yn ngoruchwyliaethau natur, a'i lywodraeth gyffredinol ar y byd, fel na allasid tynu allan y brif *idea* fawr hon am dano, i lawn sicrwydd deall, o honynt; ond *yn hyn*, daeth allan yn ei symledd i lawn eglurder. *Yn hyn*, wele Gariad wedi ymddiosg o'r cymylau a'r tywyllwch, yn ymddangos âg wyneb agored, heb fellten yn ei lygad, heb daran yn ei lais, heb sain udgorn, â llef geiriau, "Yr hon, pwy bynag a'i clywsant, a ddeisyfasant na chwanegid yr ymadrodd wrthynt." (Heb. xii. 19.) Yn *hyn*, sef yn

1. *Yn anfoniad ei Fab i'r byd.* "Duw a ymddangosodd yn y cnawd." Yn ei ymddangosiad Ef, wele gariad yn ei wisg briodol ei hun, cariad Duw tuag atom ni, wedi ei wisgo yn ein dillad ni. Dynoliaeth y Cyfryngwr yw dillad goreu cariad Duw; y wisg hono am dano Ef oedd yr un harddaf a welodd y byd erioed, a hono am dano Ef yw yr harddaf a welodd y nefoedd erioed hefyd, ac a wêl hi byth—"Efe yw tegwch nef y nef." Wele, yn Nghrist, "yr

Unig-anedig Fab, yr Hwn sydd yn mynwes y Tad," wedi dyfod atom yn ein natur ni ein hunain i'w hysbysu Ef, a sylwedd yr hysbysiad hwnw ydyw—*Duw, cariad yw.* Un o ddybenion mawrion ei anfoniad a'i ddyfodiad i'r byd oedd symud camgymeriadau, ac unioni syniadau y byd am Dduw. Yr oedd y byd yn ei gasau Ef, am nad adwaenai efe Ef; "Y Tad Cyfiawn, nid adnabu y byd dydi," medd y Gwaredwr. (Ioan xvii. 25.) Yr oedd Dafydd yn ofni fod drwg yn nghalon Saul tuag ato ef, am hyny, ofnai fyned i'w bresenoldeb wrth fwrdd y wledd. Ni fynai Jonathan ddiniwed feddwl hyny am ei dad, ond cynghorai Dafydd i ymgadw o'r golwg am ddiwrnod neu ddau, nes iddo ef wneyd ymchwiliad i'r peth. "Myn Arglwydd Dduw Israel (meddai ef), wedi i mi chwilio meddwl fy nhad, yn nghylch y pryd hyn y fory neu drenydd; ac wele, os daioni fydd tuag at Dafydd, ac oni anfonaf yna atat ti, a'i fynegu i ti; fel hyn y gwnel yr Arglwydd i Jonathan, ac ychwaneg: os da fydd gan fy nhad wneuthur drwg i ti, yna mynegaf i ti, ac a'th ollyngaf ymaith, fel yr elech mewn heddwch," &c. (1 Sam. xx. 12, 13.) Nid oedd raid i'r Unig-anedig ddyweyd wrth fyd o ddynion oedd yn llawn o feddyliau culion ac amheus am y Tad, "Aroswch, nes i mi fyned a chwilio meddwl fy Nhad yn mhellach, ac os caf fod dygasedd tuag atoch yn ei fynwes, mi a ddeuaf ac a fynegaf i chwi." Gallasai Ef ddyweyd, "Yr oeddwn I yn ei fynwes Ef cyn bod y byd, yr wyf yn berffaith hysbys o holl gyfrinach fy Nhad; ni chadwodd Efe ddim yn guddiedig oddiwrthyf Fi; y mae pob peth sydd yn ei feddwl a'i galon Ef yn cyd-ddyweyd, 'Nid oes lidiowgrwydd ynof.' Ar garu'r byd yr oedd ei fryd Ef er tragwyddoldeb; oddiwrtho Ef y deilliais ac y daethum I. 'Felly y carodd Duw y byd, fel yr anfonodd Efe Fi, ei Unig-anedig Fab,' yn genadwr i gyhoeddi ei gariad a'i ewyllys da tuag ato."

2. *Yn holl fywyd y Mab yn y byd.* *Yn* hyn yr eglurwyd cariad Duw. "Duw, cariad yw" oedd holl iaith lleferydd a gweithredoedd ei fywyd Ef. Yr oedd "Cariad yn ei wedd at wael golledig fyd." Pob gair yn gariad, pob gweithred, pob gwyrth, yn garedigrwydd; pob cam a gerddodd, pob anadliad a anadlodd, pob deigryn a wylodd, cariad oeddynt oll. Unwaith yn unig y gwelwyd soriant yn ei lygad addfwyn cariadlawn Ef, pan oedd uwchben cynulleidfa o ddynion calongaled ac anghrediniol; chwareuodd mellten digofaint ynddo am foment y tro hwnw, ond diffoddwyd hi yn y fan gan ddeigryn tosturi a chariad. "Wedi edrych arnynt o amgylch yn ddigllawn, gan dristau am galedrwydd eu calon hwynt" (Marc iii. 5), Efe a drôdd oddiwrthynt i gyflawnu gweithred o garedigrwydd, drwy adferu ac iachau llaw wywedig y dyn oedd yn sefyll yn y canol yno. Yr oedd ei holl fywyd yn un eglurhad mawr o'r gwirionedd hwn, *Duw, cariad yw!* Nid cenadwr soriant Duw at y byd i'w ddinystrio yn ei wrthryfel; nid anfonedig ei gyfiawnder i'w ddamnio yn ol ei haeddiant oedd Efe, ond cenad anfonedig ei gariad ato, i gyhoeddi a chynyg heddwch iddo: "Heddwch, heddwch, i bell ac i agos." (Esaia lvii. 19.) "Efe a ddaeth ac a bregethodd dangnefedd." (Ephes. ii. 17.)

3. *Yn benaf oll*, YN NYBEN *penaf anfoniad yr Unig-anedig Fab i'r byd.*" "Fel y byddem ni fyw trwyddo Ef." "*I fod yn iawn tros ein pechodau ni.*" Yr oeddym ni yn feirw, "Meirw oedd pawb." "Meirw mewn camweddau a phechodau;" meirw dan farn marwolaeth dragwyddol. Yr oedd yn anmhosibl i ni, ar dir cyfiawnder, gael byw yn llywodraeth Duw; yr oedd raid i ni farw byth, neu yr oedd raid i ddeddf a chyfiawnder Duw farw—i'w air a'i wirionedd Ef drengu; ond nid posibl myned gair Duw yn ddirym. "Fel y byddem ni byw," yr oedd raid cael iawn tros ein pechodau ni;

ac nid oedd iawn tros ein pechodau ni i'w gael, "Hyny a baid byth," heb anfon yr Unig-anedig Fab, a gosod ei enaid Ef yn aberth; yr oedd raid iddo Ef farw os oeddem ni i gael byw; ac "Efe a fu farw dros bawb." "Ac yn hyn yr eglurwyd Cariad Duw." Myn rhai o ddoethion y dyddiau hyn nad oedd angen am iawn dros bechod, ac nad oedd marwolaeth Crist yn aberth cymod dros ein hanwireddau ni; y gall Duw faddeu, cyfiawnhau, a chadw pechadur mewn trugaredd heb aberth ac iawn drosto. Yn sicr, y mae y doethion hyn yn ddoeth uwchlaw yr hyn a ysgrifenwyd—"Canys felly yr ysgrifenwyd, ac felly yr oedd *raid* i Grist ddioddef, a chyfodi o feirw y trydydd dydd: a phregethu edifeirwch a maddeuant pechodau yn ei enw Ef yn mhlith yr holl genedloedd." (Luc xxiv. 46, 47.) Pregethu edifeirwch a maddeuant pechodau, wedi hyny; heb *hyny*, ni buasai maddeuant pechodau i'w bregethu byth. "Canys heb ollwng gwaed nid oes maddeuant." (Heb. ix. 23.) Yr oedd Efe wedi pregethu tangnefedd ei Hun cyn hyny gyda golwg ar ei farwolaeth, am yr hon y llefarai yn fynych cyn iddi gymeryd lle. Yn ei angeu y gwnaeth Efe y cymod. Wedi iddo wneuthur heddwch trwy waed ei groes Ef, trwyddo Ef gymodi pob peth âg Ef ei hun—"A chwithau, y rhai oeddych ddieithriaid a gelynion, yr awrhon hefyd a gymododd Efe, yn nghorff ei gnawd Ef trwy farwolaeth, i'ch cyflwyno chwi yn sanctaidd, ac yn ddifeius, ac yn ddiargyhoedd ger ei fron Ef." (Col. i. 20–23.) Yn hyn y mae cariad! Yn hyn yr eglurwyd cariad Duw—yn ei farwolaeth Ef yn aberth ac iawn dros ein pechodau ni ar y groes yr ysgrifenwyd geiriau ein testyn—*Duw, cariad yw*—â gwaed ei Unig-anedig Fab. Cerfiwyd ef gan y "cleddyf a ddeffrödd i daro bugail a chyfaill Jehofa" (Zech. xiii. 7), ar lech calon y llywodraeth Ddwyfol, ac ar lech calon pob angel yn y nefoedd, y rhai a safent mewn syndod uwch ben

ei groes Ef pan oedd y cleddyf yn ei ddryllio ef yn Aberth dros bechod, gan ddywedyd, "Wele! fel y mae Efe yn caru byd llawn o elyniaeth a gwrthryfel i'w erbyn!"

4. *Yn yr amlygiad hwn o'i Gariad tuag atom ni y gwnaeth Efe yr Aberth mwyaf a allasai Efe ei Hunan ei wneyd.* Gallasai Hollalluowgrwydd wneyd mwy nac a wnaeth; creu mwy o fydoedd nac a greodd; ond ni allasai y Cariad Anfeidrol wneyd mwy nac a wnaeth Efe. Yr oedd Ef ar ei eithaf ar Galfaria, "Yr Hwn nid arbedodd ei briod Fab, ond a'i traddododd Ef drosom ni oll; pa wedd gydag Ef hefyd na ddyry Efe i ni bob peth?" (Rhuf. viii. 32.) Y mae llawer o'r cariad, a'r caru (a gamenwir felly) yn rhywbeth ar air yn unig, i'w gael yn mysg dynion. Pan fyddo gwrthddrych, neu wrthddrychau y cariad proffesedig hwn mewn angen a chyfyngder, ni theimla ei galon oer ef (y cariad hwn) un parodrwydd i wneyd unrhyw aberth er eu mwyn. Yr oll a wna efe fydd dywedyd wrthynt, "Ewch mewn heddwch, ymdwymnwch ac ymddigonwch" (Iago ii. 16), a throi ei gefn. Nid proffesu ein caru ni ar air yn unig a wnaeth Duw; nid dywedyd fod yn ddrwg ganddo drosom, a throi ei gefn arnom. Nid addaw y gwnai Efe rywbeth mawr erom rywbryd, ac ymesgusodi wedi hyny, fel y gwna dynion i'w gilydd yn bur fynych. Do, Efe a addawodd yn fore y dygai ymwared i ni o'n trueni; deuai addewidion o Iachawdwr ac iachawdwriaeth, y naill ar ol y llall, am ganoedd o flynyddau; bu cenedlaeth ar ol cenedlaeth yn disgwyl, ac yn marw "heb dderbyn yr addewidion" hyny yn y cyflawniad o honynt; ond "Pan ddaeth cyflawnder yr amser y danfonodd Duw ei Fab, wedi ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur dan y ddeddf, fel y prynai y rhai oedd dan y ddeddf, ac y derbyniem ni y Mabwysiad." (Gal. iv. 4, 5.) Cyflawnwyd pob addewid am dano i'r llythyren o honi. Coronwyd y cwbl yn ei adgyfodiad oddi-

wrth y meirw y trydydd dydd, a'i esgyniad i'r nefoedd. "Yr ydym ni yn efengylu i chwi yr addewid a wnaed i'r tadau, gan ddarfod i Dduw gyflawnu hwn i ni, eu plant hwy, gan iddo adgyfodi yr Iesu o feirw." (Actau xiii. 22.) Rhydd y Gwaredwr unwaith y ffaith o'i gariad Ef ei hun yn dodi ei einioes drosom ni, fel rheswm fod y Tad yn ei garu Ef, "Am hyn y mae y Tad yn fy ngharu I, am fy mod I yn dodi fy einioes, fel y cymerwyf hi drachefn." (Ioan x. 17.) "Am hyn; am fod fy nghalon I yn cyd-daro â'i galon Ef yn mhwnc iachawdwriaeth y byd—fy mod yn caru y byd mor fawr ag y mae Efe ei Hun yn ei garu; am fy mod I mor barod i ddyfod i'r byd ag oedd Efe i'm hanfon; mor barod i farw drosto ag oedd Efe i'm traddodi. Am hyn y mae y Tad yn fy ngharu I."

5. *Y mae y gwirionedd mawr hwn, gan hyny, "Duw, cariad yw," wedi ei lawn egluro a'i sefydlu am byth yn aberth ei Fab.* Ni wna Efe yr aberth yma byth eto, ac aberth mwy na hwn nis gall Efe ei wneyd; ac ni bydd angen am y cyffelyb aberth mwy, i un dyben yn y llywodraeth Ddwyfol, gan fod yr *Un Aberth* hwnw wedi cyflawni a pherffeithio pob dyben aberth yn dragwyddol. Pechod wedi ei gondemnio, y gyfraith wedi ei mawrhau, cyfiawnder tragwyddol i'r euog wedi ei ddwyn i mewn, *Cariad* Duw wedi ei lawn egluro a'i ogoneddu.

### CASGLIADAU.

1. *Yn ngholeuni Athrawiaeth Cariad Duw y gwelir pechod fwyaf ysgeler ac ofnadwy o un goleuni sydd yn ei ddangos.* Casineb, gelyniaeth at gariad ydyw! gwrthryfel yn erbyn llywodraeth cariad! sarhau a dirmygu cariad a charedigrwydd anfeidrol! Pa ham y dirmyga'r annuwiol Dduw? Ai am mai *cariad yw Efe?* Ai am ei fod yn ei garu ef, ac yn ewyllysio iddo fod yn gadwedig? Am beth

arall? Canys "Duw, cariad yw." Y drwg mawr yw, na fyn yr annuwiol gredu y gwirionedd hwn am dano Ef, ac ni fyn ymadael â'i bechod am ei fod yn ei garu. O'r holl gyhuddiadau a ddwg gair y gwirionedd yn erbyn dynion, hwn yw y duaf a'r trymaf, "Yn gas ganddynt Dduw." Y maent yn "Ddigasog, yn casau eu gilydd;" ond cytunant â'u gilydd yn hyn, cyd-gasau Duw. Y mae calon a chydwybod pechadur annychweledig yn gwrthdaro y naill y llall. Cynygier iddo Dduw o'r fath a hoffai ei galon, gwrthyd ei gydwybod ei barchu; a Duw o'r fath a hawliai barch ei gydwybod, a gasa ei galon. Gallai ei galon ddygymod â Duw "trugarog a graslawn," pe na byddai yn Dduw cyfiawn, a sanctaidd hefyd. Dirmygai y gydwybod Dduw trugarog a graslawn heb ei fod yn gyfiawn a sanctaidd. Y mae y gydwybod, gan hyny, yn nes i'w lle na'r galon. Ynddi hi, ffynonell bywyd a buchedd, y mae gwraidd llygredigaeth, trueni, a dinystr dyn; allan o honi y mae bywyd yn dyfod; ond ni fynai dynion erioed gredu bod yn gas ganddynt Dduw. Honai yr Iuddewon gynt yn gryf eu bod hwy yn *caru* Duw; ond tystiolaeth yr Hwn oedd yn adnabod eu calonau yn well nag yr oeddynt hwy eu hunain yn eu hadnabod am danynt oedd, "Hwy a'm casasant I, a'm Tad hefyd. Eithr, fel y cyflawnid y gair sydd ysgrifenedig yn eu cyfraith hwynt, Hwy a'm casasant yn ddiachos." (Ioan xv. 24, 25.) "Ai yn ddiachos y mae Job yn ofni Duw?" (Job i. 9.) gofynai Satan. Nag e ddim, yr oedd gan Job, fel pob un arall, ddigon o achosion a rhwymedigaethau i ofni Duw; ond yn ddiachos, yn ddireswm, y mae pob un erioed yn *casau* Duw; canys *Duw, cariad yw.*

2. *Y mae yn y gwirionedd mawr hwn, nerth mawr, a chysur mawr i bregethu yr Efengyl*—i wynebu ar fyd llawn o elyniaeth a thrueni. Gweinidogaeth cariad Duw yw hi; gair y cymod, "sef bod Duw, yn Nghrist, yn cymodi y byd

âg Ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau," "Am hyny," medd yr apostol, "yr ydym ni yn genadau dros Grist, megis pe byddai Duw yn deisyf arnoch trwyddom ni: yr ydym yn erfyn dros Grist, Cymoder chwi â Duw. Canys yr Hwn nid adnabu bechod, a wnaeth Efe yn bechod drosom ni: fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo Ef." (2 Cor. v. 20, 21.) Yn nghenadwri yr efengyl, y mae Duw'r cariad yn agor ei fynwes, ac yn gwahodd ei elynion i ddyfod iddi i'w cofleidio yn Nghrist. Ië, megis pe byddai yn deisyf arnynt ddyfod i'w heddwch a'i gariad. Llefarai yr efengyl yn llawer uwch a chroewach na gweinidogaeth natur a rhagluniaeth, a'r ddeddf—*Duw, cariad yw.*

3. *Yr anogaeth gryfaf i bechadur argyhoeddedig i ddychwelyd at Dduw—Duw, cariad yw.* "Clywsom am freninoedd tŷ Israel, mai breninoedd trugarog ydynt hwy," meddai gweision Benhadad, brenin Syria gynt; nid mor drugarog oedd llawer o honynt; ond beth bynag am *freninoedd* tŷ Israel, un trugarog a graslawn ydyw Duw Israel. "Pa Dduw sydd fel Tydi, yn maddeu anwiredd, ac yn myned heibio i anwiredd gweddill ei etifeddiaeth? ni ddeil Efe ddîg byth, am fod yn hoff ganddo drugaredd." (Mica vii. 18.) Na, ni ddeil Efe ei ddîg ddim yn hwy nag y deil y pechadur i wrthod dychwelyd ato. Y fynyd yr ymostwng wrth ei draed, Efe a daena aden ei gariad a'i drugaredd drosto i'w gysgodi. Nid yw Efe yn gwneyd un aberth pan y mae yn derbyn ac yn cofleidio yr enaid dychweledig. Gwnaeth yr aberth mwyaf erioed er cael trefn y gallai Efe yn anrhydeddus dderbyn a chroesawi yr afradlon ar ei ddychweliad ato; nid fel aberth yr edrycha un ar beth y mae yn cael yr hyfrydwch mwyaf wrth ei wneyd. Llefara y Duw mawr am dano ei Hun yn iaith teimlad calon dyn ar y mater hwn. Y fath lifeiriant o gariad a gras sydd yn ymdywallt allan yn yr ymadroddion dwyfol hyn—"Hwy a fyddant yn

bobl i mi, a minau a fyddaf yn DDUW iddynt hwythau. A mi a roddaf iddynt un galon, ac un ffordd i'm hofni byth, er lles iddynt, ac i'w meibion ar eu hol. A mi a wnaf â hwynt gyfamod tragwyddol, na throaf oddiwrthynt heb wneuthur lles iddynt, a mi a osodaf fy ofn yn eu calonau, fel na chiliont oddi wrthyf." Ië, gwrandewch eto. "Ië, mi a lawenychaf ynddynt, gan wneuthur lles iddynt, a mi a'u planaf hwynt yn y tir hwn yn sicr, â'm holl galon, ac â'm holl enaid." (Jer. xxxii. 38–41.) Dyna, bechadur, beth y mae y Duw mawr yn fwriadu wneyd i ti, os dychweli ato; a'i wneyd gan lawenychu ynot wrth ei wneyd. Y mae ei holl galon, a'i holl enaid am wneyd i ti les tragwyddol. "Nid o'i fodd y blina ac y cystuddia Efe blant dynion," y mae ei galon megis yn troi ynddo wrth feddwl am eu rhoddi i fyny i golledigaeth; ond o'i wir fodd, "â'i holl galon, ac â'i holl enaid," y mae Efe yn trugarhau, yn maddeu, ac yn cofleidio'r enaid dychweledig, canys *Duw, cariad yw.*

4. *Mai Cariad Duw yw ffynonell wreiddiol Cariad y Saint ato.* "Yr ydym ni yn ei garu Ef, am iddo Ef yn gyntaf ein caru ni." (1 Ioan iv. 19.) Ei gariad Ef atom ni a enynodd ein cariad ni ato Ef. Ynddo Ef, nid ynom ni, y dechreuodd y garwriaeth ddwyfol hon. "Yn hyn y mae cariad, nid am i ni garu Duw, ond am iddo Ef ein caru ni." (*Ib.* adn. 10.) Yn hyn y mae yr achos o hono, a'r rheswm am dano. Ni buasai cariad na charu yn bod, oni bai hyn; ni buasai y tân sanctaidd hwn yn enynu ac yn cyneu byth mewn un galon lygredig ar y ddaear, oni buasai i wreichion y

"Fflam angerddol, gadarn gref
O dân enynodd yn y nef"

dreiddio i mewn iddi.

5. Y casgliad a wna yr apostol oddiwrth eiriau ein testyn yw hwn—"Anwylyd, os felly y carodd Duw ni, ninau hefyd a ddylem garu ein gilydd." (Adn. 11.) Caru ein gilydd, "nid ar air yn unig, ond mewn gweithred a gwirionedd." Dengys yr apostol oferedd a gwrthuni y broffes o gariad at Dduw, yn yr amddifadrwydd o gariad at blant Duw. "Y mae yr hwn sydd yn caru yr Hwn a genedlodd yn caru yr hwn a genedlwyd o hono. Yr hwn a ddywed ei fod yn y goleuni, ac a gashao ei frawd, yn y tywyllwch y mae yn aros hyd y pryd hwn. Yr hwn sydd yn caru ei frawd sydd yn aros yn y goleuni." (1 Ioan ii. 9, 10.)

Gan hyny, yn olaf, cariad yw y brif egwyddor mewn crefydd. "Heb gariad genyf" (medd Paul), er meddu cyflawnder o bob doniau ereill, "nid wyf fi ddim." Gwneler eich holl bethau chwi mewn cariad. "A nyni a adnabuom ac a gredasom y cariad sydd gan Dduw tuag atom ni. Duw, cariad yw; a'r hwn sydd yn aros mewn cariad, sydd yn aros yn Nuw, a Duw ynddo yntau." (1 Ioan iv. 16.)

# PREGETH VI.

## AMYNEDD DUW.

"A Duw yr Amynedd."—*Rhuf.* xv. 5.

HANFODOLION yn natur yr Anfeidrol, neu y pethau sydd yn hanfodol ynddo, fel Duw, ydyw yr hyn a alwn ni "y priodoleddau dwyfol," wrth y rhai yr ymgyfenwa Efe yn y datguddiad a wna Efe o hono ei Hun i ni yn ei air. Amlygir ei allu a'i ddoethineb yn ei weithredoedd fel Creawdwr; ei gyfiawnder, ei amynedd, a'i ddaioni yn ngoruchwyliaethau ei lywodraeth gyffredinol ar y byd; ei gariad, a'i ras, a'i drugaredd yn nhrefn fawr iachawdwriaeth dyn, yn ddatguddiedig yn ei air. Yma datguddir priodoleddau dwyfol nad oeddynt wedi eu datguddio o'r blaen, ac y cyd-ogoneddir yr oll gyda'u gilydd, yn llawnach a helaethach nag y gogoneddasid hwy cyn hyny.

Y mae yr Amynedd Dwyfol, fel yr awgrymwyd eisoes, yn ffaith adnabyddus yn hanes y Goruchwyliaethau Dwyfol tuag at y byd drwg a phechadurus hwn yn mhob oes, ac fe'i gogoneddir hi yn fynych yn nhystiolaethau y gair am dani.

Gosodir amynedd allan hefyd fel gras i'w feithrin yn eneidiau credinwyr, ac fel dyledswydd i'w hymarfer ganddynt yn wastadol ar eu gyrfa gristionogol drwy y byd hwn o drallodion a phrofedigaethau, "Y mae yn rhaid i

chwi wrth amynedd," medd yr apostol (Heb. x. 26). Amynedd i wneuthur ewyllys Duw, ac yn aml i ddioddef yn ol ei ewyllys Ef oddiwrth fyd gelyniaethus at eu Duw a'u crefydd, er eu nerthu a'u galluogi i ymaros mewn tawel ddisgwyliad "am y gras a ddygir iddynt yn nydd Crist," sef cyflawn a thragwyddol ymwared o'u holl drallodion a'u profedigaethau.

Nid yw y gair amynedd, gan ein cyfieithwyr ni, mewn un man yn yr Hên Destament. Y mae dros ugain o weithiau yn y Testament Newydd; yn golygu weithiau y briodoledd hono yn Nuw, yn fynychaf y gras hwnw yn y saint. Y geiriau a ddefnyddir am y briodoledd hon yn yr Hên Destament ydynt *Hwyrfrydig*, *Hirymarhous*, *Hirymaros*. Megis yn y cyhoeddiad o'i enw mawr a wnaeth Jehofa i Moses yn Horeb, "Y Duw trugarog a graslawn, *hwyrfrydig* i lid" (Ex. xxxiv. 6); a "Yr Arglwydd sydd *hwyrfrydig* i lid." (Naham i. 3.) Y gair am *hwyrfrydig* a *hirymarhous* yn yr iaith yr ysgrifenwyd yr Hên Destament, meddir, ydyw Ffroeneang; felly darllenai, "Yr Arglwydd sydd eang ei ffroen." "Na ddwg fi ymaith yn dy hirymaros," neu, "Na ddwg fi ymaith yn eangder dy ffroen." (Jer. xv. 15.) Yr oedd yn gred a diareb yn mysg ein tadau yn Nghymru gynt, ac ymddengys ei bod yr un modd yn mysg yr Iuddewon, a chenedloedd ereill yn y dwyrain, fod ffroen eang agored yn arwyddnod o ddyn pwyllus, dioddefgar, arafaidd, a llariaidd ei dymer; fel o'r tu arall, y trwyn main, ffroen gyfyng, yn ddyn prysur, poethlyd ei dymer, a hawdd ei gyffroi i ymddigio. Am ŵr ffroen eang, bernid ei fod yn hawdd byw gydag ef, yn ŵr heddychlawn, tawel, ond yn ofnadwy os unwaith y digid ef. Felly y dywed Nahum am Dduw, "Yr Arglwydd sydd hwyrfrydig i lid, a mawr ei rym, ni ddieuoga Efe yr anwir; pwy a saif o flaen ei lid Ef? pwy a gyfyd yn ngynddaredd ei ddigofaint?

ei lid a dywelltir fel tân, a'r creigiau a fwrir i lawr ganddo." Y mae yr un geiriau, *hwyrfrydig*, *hirymarhous*, hefyd yn cael eu defnyddio am Amynedd Duw yn y Testament Newydd droion.

Yr ymadrodd a esyd allan wir feddwl ac ystyr y gair amynedd yn fwyaf dynodol, hwyrach, ydyw yr un lefarodd y Gwaredwr wrth ei ddysgyblion pan oedd Efe yn rhagfynegu iddynt yr erlidiau a'r dioddefiadau y gelwid arnynt fyned trwyddynt er mwyn ei enw Ef, "Yn eich amynedd, meddienwch eich eneidiau." (Luc xxi. 19.) Yr amyneddus ydyw yr hwn sydd yn dal llawn feddiant a llywodraeth ar ei yspryd, ei dymer, a'i deimladau, heb ymchwerwi, ymddigio, ac ymddial pan yn cael ei sarhau, ei waradwyddo, a'i boenyddio, a hyny ar gam, "Oblegid pa glod yw, os, pan bechoch, a chael eich cernodio, y byddwch dda eich amynedd? eithr os, a chwi yn gwneuthur yn dda, ac yn dioddef, y byddwch dda eich amynedd; hyn sydd rasol ger bron Duw." (1 Petr ii. 20.)

I. *Cynygiwn rai sylwadau cyffredinol ar* Amynedd Duw.

1. Cyflea yr enw a roddir yn y testyn ar Dduw y syniad am dano fel y Bôd sydd yn meddu perffaith feddiant a llywodraeth arno Ef ei Hun, Un nad yw yn gwneyd dim dan ddylanwad a chyffroad nwydau dialgar—dim yn annheilwng o urddas ei fawredd anfeidrol. Perffeithrwydd mawredd yn unig a all gadw perffaith lywodraeth arno ei hun dan bob amgylchiadau. Y mae bodoliaeth yn anmherffaith o ran mawredd yn y creadur uchaf: nid yw yr angel penaf yn gyfryw un y gellid ymddiried ynddo y daliai feddiant arno ei hun dan bob amgylchladau a all ddigwydd ei gyfarfod. "Wele, yn ei wasanaethwyr ni roddes ymddiried, ac yn erbyn ei angelion y gosododd ynfydrwydd." (Job iv. 18). Pan gynygiodd Angel y Cyfamod angel crëedig i fod yn arweinydd i'r "bobl wargaled" yn yr anialwch, gan fygwth

eu gadael ei Hun, gwrthododd Moses y cynyg yn y modd mwyaf penderfynol; "Onid â dy wyneb gyda ni, nac arwain ni oddiyma," meddai. Credai ef nad oedd un angel yn y nefoedd yn ddigon eang ei ffroen, mawr ei amynedd, ei ddioddefgarwch, i fod yn arweinydd i'r fath bobl wrthryfelgar—y buasai yn sicr o'u lladd a'u dinystrio ar y ffordd. Eu bod yn "bobl wargaled" oedd y rheswm a roddai Duw am ei fod Ef am eu gadael a rhoddi angel i fyned o'u blaen hwynt, a'r ffaith hono, eu bod yn "bobl wargaled," a ddefnyddia Moses, yntau, yn ei eiriolaeth ar Dduw i *beidio* eu gadael. "Eled fy Arglwydd, atolwg, yn ein plith ni, *canys* pobl wargaled ydyw." (Ex. xxxiv. 9.) Ni allai Moses ymddiried i neb llai na'r un Anfeidrol ei Hun mewn amynedd i fod yn arweinydd i'r genedl. Gwyddai, oddiar ei brofiad ei hun, fod dioddefgarwch creadur yn rhy fyr; credai, yn ddiau, y buasai angel yn colli ei hunan-feddiant a'i lywodraeth arno ei hun, ac yn rhuthro ar y fath greaduriaid anhydrin, ac yn eu lladd yn angerdd ei ddigter; ac, yn wir, rhoddasai yr Arglwydd ei Hun o'r blaen awgrym i Moses a roddai nerth mawr yn y ddadl hono yn ei enau ef, am iddo Ef, angel y Cyfamod ei Hun, aros a myned gyda hwynt yn arweinydd iddynt. Dywedasai yr Arglwydd, "Wele fi yn anfon angel o'th flaen i'th gadw ar y ffordd, ac i'th arwain i'r man a barotoais. *Gwylia rhagddo, a gwrando ar ei lais ef; na chyffroa ef: canys ni ddioddef eich anwiredd:* oblegid y mae fy enw ynddo ef. Os gan wrando y gwrandewi ar ei lais ef, a gwneuthur y cwbl a lefarwyf; mi a fyddaf elyn i'th elynion, ac a wrthwynebaf dy wrthwynebwyr." (Ex. xxiii. 20–22.) Gafaelodd y geiriau hyn yn meddwl Moses, a gafaelodd yntau ynddynt hwythau, gan eu troi yn ol ar Dduw, fel dadleuydd medrus, pan ddywedai, "Onid â dy wyneb gyda ni, nac arwain ni oddiyma." Cystal a dyweyd, na ai efe un cam o'r lle hwnw i ganlyn un angel yn y

nefoedd, nad oedd un o honynt yn ddigon eang ei ffroen iddo ef (Moses) allu ymddiried ynddo; credai y buasai i'r "bobl wargaled" *gyffroi* yr angel yn fuan, ac y buasai yn eu lladd oll yn y cyffroad hwnw cyn y cyrhaeddasent i wlad yr addewid. Cydnabyddodd yr Arglwydd nerth y ddadl, a chaniataodd gais a dymuniad ei was ffyddlon, "Fy wyneb a gaiff fyned gyda thi, a rhoddaf orphwysdra i ti," meddai, (Ex. xxxiii. 14.) Gogoniant yn perthyn i Dduw yn unig ydyw meddu perffaith hunan-feddiant a llywodraeth arno ei Hun. Y mae llawer o wahaniaeth rhwng y naill *ddyn* a'r llall yn hyn, fel y crybwyllwyd eisioes. "Gwell yw y dioddefgar o yspryd na'r balch o yspryd" (Preg. vii. 8); "Gwell yw y diog i ddigofaint na'r cadarn, a'r neb a reolo ei yspryd ei hun na'r hwn a enillo ddinas" (Diar. xvi. 32). "Yr ydym ni yn galw y beilchion yn wynfydedig," meddai rhywrai gynt, (Mal. iii. 15,) ac y tybia llawer eto. "Y cadarn, a'r hwn a enillo ddinas," a fawrygir ganddynt hwy, pan y mae y dyn "dioddefgar o yspryd," "y diog i ddigofaint," a'r "neb a reolo ei yspryd ei hun," yn isel a dirmygus yn eu cyfrif; ond hwnw yw dyn mawr y Bibl—ar ei ben ef y cyhoedda y Gwaredwr wynfydau teyrnas nefoedd yn ei bregeth ar y mynydd—yn hwnw y gwelai Efe ddelw ei Dad a'i ddelw ei Hun yn disgleirio. Yr yspryd dioddefgar, tawel dan erlidiau a gwaradwyddiadau yn achos cyfiawnder, a fedd ar wir fawrfrydedd a'r gwrolder moesol ac ysprydol hwnw, y sydd yn annhraethol uwchlaw y gwrolder anianyddol a ganmolir gan ddoethineb doethion y byd hwn.

2. *Y mae Amynedd Duw yn briodoledd hanfodol i ddaioni a graslonrwydd anfeidrol ei natur.* Am ei fod yn "Dduw trugarog a graslawn," y mae Efe hefyd yn "Dduw'r amynedd." Y mae Efe yn "hwyrfrydig i ddig," yn "hirymarhous," am fod "yn hoff ganddo drugaredd." Gweini i'w ras â'i drugaredd y mae ei amynedd Ef. Gwna gras a

thrugaredd fwy nac a wna amynedd. Y mae hi yn arbed ac yn estyn einioes yr euog; cyfrana gras a thrugaredd ddaioni iddo. Goddef y troseddwr heb wneyd "barn yn erbyn ei weithredoedd drwg yn fuan," wna amynedd; cynygia gras a thrugaredd faddeuant a chymod iddo; ond ni byddai gwrthddrychau iddynt hwy i gynyg eu bendithion iddynt, oni bai fod yr amynedd Dwyfol yn dal ac yn oedi barn cyfiawnder arnynt. Pe gwnai cyfiawnder farn yn erbyn pob gweithred ddrwg ar y cyflawniad o honi, ni byddai le i weinyddiad gras a thrugaredd yn llywodraeth y Brenin Mawr. Goddefa amynedd i'r pechadur wneuthur drwg ganwaith, "ac estyn ei ddyddiau yn ei ddrygioni" (Preg. vii. 15), i edrych "a ddaw efe ryw amser i edifeirwch" —i edrych a gaiff trugaredd ei gwynfyd arno drwy ei achub i fywyd tragwyddol.

3. *Gweinidogaeth Ben-arglwyddiaethol yw gweinidogaeth amynedd Duw.* Nid oes gan un pechadur, ac ni all fod ganddo, un *hawl* ar amynedd Duw mwy nag ar ei ras a'i drugaredd—dim mwy o hawl i arbediad bywyd ac estyniad dyddiau, nag sydd ganddo o hawl i fywyd tragwyddol. "Dawn"—rhad rodd—"Duw yw bywyd tragwyddol" i bechadur; felly gweinyddiad ei amynedd yn arbediad ei fywyd ac estyniad ei ddyddiau yr un modd. Y mae rhai pechaduriaid yn cael eu goddef a'u gadael yn hŵy na'r lleill. Cymerir un ymaith yn ddisymwth yn mlodau ei ddyddiau, o ganol ei bleserau a'i annuwioldeb, tra y mae un arall mor annuwiol âg yntau yn cael ei adael i benwynu yn ei anwiredd. Dyma un pechadur yn cael ei dori i lawr yn haner ei ddyddiau yn ei ddrygioni; dyna un arall yn byw yn "fab canmlwydd" yn ei bechodau a'i wrthryfel. Pa fodd y mae hyn yn bod? Felly y *mae* hi yn bod yn aml, fel y dengys hanes y byd hwn erioed; ond nid oes un rheswm am hyn, ond ewyllys ben-arglwyddiaethol Duw. Nid oedd

yr un a dorwyd i lawr yn ei annuwioldeb yn bump-ar-hugain oed yn waeth na'r llall a fu farw yn ei bechod yn ddeng-mlwydd a phedwar ugain oed; ac nid oedd hir arbediad yr olaf yn gwneyd cam a'r cyntaf.

4. *Dyn pechadurus yn unig, hyd y gwyddom ni, yw gwrth-ddrych gweinyddiad amynedd Duw tuag ato.* "Canys nid arbedodd Duw yr angelion a bechasant, eithr eu taflu i uffern, a'u rhoddi i gadwynau tywyllwch, i'w cadw i farnedigaeth y dydd mawr." (2 Petr ii. 4.) Ni ddeffrôdd ei amynedd Ef yn sŵn eu cwymp i gyfryngu am arbediad barn arnynt; gadawodd hwynt yn llaw cyfiawnder, i'w "taflu i uffern, a'u rhoddi i gadwynau tywyllwch, i'w cadw i farnedigaeth" fwy drachefn. Ond pan bechodd dyn, y mae yr amynedd Dwyfol yn cael ei ddatguddio yn arbediad ei fywyd ef, ac y mae yn parhau i'w ddilyn byth, gan amlhau arbediadau yn wyneb amlhad ei anwireddau. Goddefodd y Duw mawr bethau gan ddyn na oddefodd Efe gan un creadur arall. Haeddiant y dyn a bechodd, yn gystal a'r angel a bechasai, oedd ei "daflu i uffern" ar ol yr angel, a'i roddi fel yntau dan "gadwynau tywyllwch" i'r un farnedigaeth. Amynedd pen-arglwyddiaethol a wnaeth y gwahaniaeth yn yr oruchwyliaeth tuag atynt. Taflwyd Adda ac Efa allan o'r Ardd, ond nid i uffern; bwriwyd hwynt o baradwys, ond nid i gadwynau tywyllwch; melldithiwyd y ddaear â barn drain a mieri, ond bendithiwyd y troseddwyr eu hunain âg addewid y caent fwyta bara o honi; cyhoeddwyd barn marwolaeth naturiol arnynt yma, ond agorwyd iddynt ddrws gobaith ymwared a diangfa rhag barn marwolaeth dragwyddol.

5. *Y mae parhad gweinyddiad Amynedd Duw yn derfynol o angenrheidrwydd.* "Hirymarhous yw Efe," ond nid ymerys byth. "Nid ymrysona ei Yspryd Ef â dyn yn dragywydd." Er "na wna Efe farn yn erbyn gweithred ddrwg yn fuan,"

fe "wneir barn yn erbyn pob gweithred ddrwg" rywbryd, "Canys Duw a ddwg bob gweithred i farn." Y mae cyfiawnder tragwyddol yn galw am hyny; y mae anrhydedd ei gyfraith, gogoniant ei enw a'i orsedd, ei wirionedd, ac iawnderau ei lywodraeth, oll yn cyd-alw am fod i weinidogaeth amynedd roddi lle i weinidogaeth barn yn mherthynas a'r troseddwr onid edifarha; os na ddychwel efe dan oruchwyliaeth amynedd, rhaid ei drosglwyddo i ddwylaw goruchwyliaeth cyfiawnder. Doethineb y Llywydd mawr sydd yn gosod y terfyn i weinyddiad ei amynedd yn ei berthynas â phob un o'i wrthddrychau. Talu "i bob un yn ol ei weithred" y mae cyfiawnder; ond nid yw gweithred a theilyngdod yn dyfod i'r cwestiwn o gwbl yn ngweinidogaeth amynedd. Yn ngweinidogaeth trugaredd yn maddeuant pechodau, fel y crybwyllwyd o'r blaen, y dychweledig edifeiriol yn unig yw ei gwrthddrych hi; ond y mae gweinidogaeth amynedd fel gweinidogaeth yr haul, yn codi ac yn tywynu ar y drwg a'r da yr un modd.

6. *Y mae Amynedd Duw, er o angenrheidrwydd yn derfynol yn ei berthynas a'i wrthddrychau, eto yn anfeidrol fel Ef ei Hun.* Goddef i droseddwyr fyned rhagddynt yn eu hanufudd-dod a'u gwrthryfel am byth, heb eu galw i gyfrif, eu barnu a'u cospi yn ol haeddiant eu gweithredoedd, fuasai dadymchwelyd yr orsedd a'r llywodraeth Ddwyfol, ac yn andwyol i bob trefn, diogelwch a dedwyddwch yn y bydysawd. Rhaid, gan hyny, oedd gosod terfynau i weinyddiad yr amynedd Dwyfol, yr hwn ynddo ei hun sydd yn annherfynol ac anfeidrol. Pan feddyliom mor adgas a ffiaidd ydyw pob pechod yn ngolwg y Duw Sanctaidd, yr "Hwn sydd lanach ei lygad nag y gall edrych ar ddrwg" (Hab. i. 13); pan feddyliom gynifer o filiynau o bechaduriaid sydd yn pechu bob dydd a nos yn wastad, ac aneirif nifer pechodau pob un o'r pechaduriaid; pan feddyliom am

swm pechodau yr oll yn nghyd, hyd y nod am un diwrnod, a bod pob ffieidd-dra dichonadwy i ddynoliaeth fod yn euog o hono, yn cael ei gyflawni yn wastadol i "gyffroi llygad ei ogoniant Ef," onid ymddengys yn rhyfedd, uwchlaw pob rhyfeddod, fod un pechadur i'w gael tu allan i uffern, a bod y ddaear, mangre pechod, heb ei dilëu er ys oesoedd? Oni raid fod yr amynedd, sydd wedi dal a pharhau i arbed yn wyneb hyn oll, yn Anfeidrol yn ei fawredd?

II. *Beth a ddywed yr Ysgrythyr ar y mater hwn?*—AMYNEDD Duw. Cyfeiriwyd o'r blaen at amryw o'i thystiolaethau hi arno; ond teimlwn ei fod yn gofyn sylw manylach arno eto.

1. Yn hanes yr hên fyd o flaen y diluw, defnyddia yr Ysgrifenydd Sanctaidd yr ymadroddion cryfaf i osod allan fawredd llygredigaeth a drygioni yr hên fyd hwnw, er dangos mawredd amynedd a dioddefgarwch Duw yn gyferbyniol i'r drygioni hwnw. "A'r Arglwydd a welodd mai aml oedd drygioni dyn ar y ddaear, a bod holl fwriad meddylfryd ei galon yn unig yn ddrygionus bob amser." (Gen. vi. 5.) Drachefn (adn. 11–13), "A'r ddaear a lygrasid ger bron Duw; llanwasid y ddaear hefyd â thrawsder. A Duw a edrychodd ar y ddaear, ac wele hi a lygrasid; canys pob cnawd a lygrasai ei ffordd ar y ddaear. A Duw a ddywedodd wrth Noa, Diwedd pob cnawd a ddaeth ger fy mron: oblegid llanwyd y ddaear â thrawsedd trwyddynt hwy: ac wele, myfi a'u difethaf hwynt gyd â'r ddaear." Y mae'r Brenin mawr yn ofalus i arddangos cyfiawnder ei farn ar yr hên fyd yn ngolwg yr holl genedlaethau a ddeuent, yn y dystiolaeth gref a rydd Efe am fawredd arswydlawn ei lygredigaeth. Yr oedd wedi ei oddef yn ei ddrygioni am gannoedd o flynyddau cyn cwyno gair yn ei gylch wrth Noa, na neb arall; ond daeth tymor ei amynedd i ben o'r diwedd. Ond eto y mae

yn estyn oediad y farn fygythiedig am "ugain mlynedd a chant;" chwech ugain mlynedd eto o amser i'r hên fyd ystyried ac edifarhau. "Pan unwaith yr oedd hir-amynedd Duw yn aros yn nyddiau Nöe, tra y darperid yr arch." (1 Petr iii. 20.)

2. Yr esiampl arall o hir-amynedd Duw y cyfeiria yr ysgrythyr ati ydyw hanes Israel yn yr anialwch: "Deugain mlynedd yr ymrysonais â'r genedlaeth hon, ac y dywedais, Pobl gyfeiliornus yn eu calon ydynt hwy," medd Efe. (Salm xcv. 10.) "Ac yn nghylch deugain mlynedd y goddefodd Efe eu harferion hwy yn yr anialwch," medd Paul. (Act. xiii. 18.) Hir-dymor i ddioddef, onide? Di-oddef "eu harferion hwy,"—y fath arferion—arferion mor wrthyn ac anhawdd i'w dioddef! Yr oedd y genedlaeth hono, fel yr ymddengys i ni yn ei hanes, megis pe buasai wedi penderfynu mynu gwybod eithaf amynedd Jehofa—pa faint o anufudd-dod, anghrediniaeth, anniolchgarwch, grwgnachrwydd, a gwrthryfel a allasai Efe oddef cyn dial arni. Cafodd ddeugain mlynedd o amser i wneyd y prawf. Daeth y tymor hwnw i ben. "Wrth bwy y digiodd Efe ddeugain mlynedd? onid wrth y rhai a bechasant *ddeugain mlynedd*, y rhai y syrthiodd eu cyrff yn y diffaethwch?" (Heb. iii. 18.)

3. Codir hanes Juda a Jerusalem cyn eu rhoddi yn llaw brenin Babilon, a thrachefn cyn eu rhoddi yn nwylaw y Rhufeiniaid i'w dinystrio a'u gwasgaru, fel y gwelir heddyw, fel esiamplau arbenig o amynedd a hirymaros Duw. Dengys hanes yr ysgrythyr hefyd, yn

(i.) Nad yw y Duw mawr ei amynedd byth yn taro heb rybuddio yn gyntaf. Bu Noa, pregethwr cyfiawnder, yn rhybuddio yr hên fyd am ugeiniau, os nid rhai cannoedd, o flynyddoedd, fe ddichon, cyn iddo ef ei hun gael ei rybuddio gan Dduw am y diluw oedd i ddyfod. Yr oedd

y byd o un iaith, ac un ymadrodd, a dynolryw heb ymwasgaru dros wyneb y ddaear y pryd hwnw, fel y mae yn debygol ddarfod i bob dyn ar y ddaear gael cyfleusdra i glywed "Pregethwr Cyfiawnder" yn traddodi ei rybuddion droion. Ond gallasai Noa ofyn, wedi iddo fod yn pregethu ac yn rhybuddio am gannoedd o flynyddau, "Pwy a gredodd i'm hymadrodd?" Ei deulu ei hun, "wyth enaid," yn unig a gadwyd yn yr arch. Wedi i dymor hir-amynedd Duw ddyfod i ben, boddodd cyfanfyd o ddynion yn eu hanghrediniaeth a'u llygredd, er pob rhybuddion a manteision a gawsent. Bu "Lot gyfiawn" yn rhybuddio y Sodomiaid yn hir cyn gwlawio o'r nefoedd y tân a'r brwmstan arnynt, i'w troi yn lludw yn ac am eu pechodau gwaeddfawr. Rhybuddiodd Moses, yntau, lawer ar y genedlaeth hono yn yr anialwch yn ystod y deugain mlynedd hyny y bu efe yn arweinydd iddi; ond cwympo yn yr anialwch a fu eu diwedd hwy, wedi diystyru o honynt yr holl rybuddion a gawsent. "Danfonodd Duw" ei holl weision y proffwydi, "gan fore godi ac anfon" (Jer. vii. 45) i rybuddio Juda a Jerusalem, cyn anfon Nebuchodonosor i losgi y ddinas, a dwyn y genedl yn gaethion i Babilon. Bu y Mab ei hun, drachefn, yn rhybuddio Jerusalem a'r genedl dan wylo, cyn eu rhoddi yn nwylaw y Rhufeiniaid i "Wneyd Jerusalem yn gydwastad â'r llawr, a'i phlant o'i mewn, am nad adnabu amser ei hymweliad." (Luc xix. 44.)

(ii.) Mawrygir amynedd Duw yn yr hanes a rydd yr ysgrythyr am weinyddiad ei geryddon a'i farnedigaethau ar ddynion, ei fod yn wastad yn cyffwrdd yn ysgafn, a hyny dro ar ol tro, cyn taro yn drwm. Tarawodd afon yr Aifft, a'i thir, a chwnd y maes, a ffrwyth ei choed, cystuddiodd hi â deg o bläau yn olynol, cyn lladd ei chyntaf-anedigion, ac yn y diwedd "Ysgytio Pharao a'i lu yn y Môr Coch." "Y gŵr a gerydder yn fynych, ac a galedo ei war, a ddryllir yn

ddisymwth, fel na byddo meddyginiaeth." (Diar. xxix. 1.) Gwneyd pob cynyg ar y pechadur, trwy rybuddion lawer, a cheryddon mynych, cyn "ei ddryllio na byddo meddyginiaeth;" ond dyna fydd diwedd y "gŵr a galedo ei war." Felly yr oedd, ac felly mae Efe eto, yn gwneyd â phlant dynion, eu rhybuddio drwy ei weision, eu ceryddu yn fynych drwy oruchwyliaethau ei ragluniaeth—darostwng gwlad, neu deulu, neu ddyn yn bersonol, yn eu hamgylchiadau—drwy gystuddiau, &c., cyn eu rhoddi i fyny i ddinystr yn eu pechodau. "Hirymarhous yw Efe tuag atom ni, heb ewyllysio bod neb yn golledig, ond dyfod o bawb i edifeirwch." (2 Petr iii. 9.)

(iii.) Pan fyddo y rhybudd yn ateb y dyben i ddwyn i edifeirwch, arbedir y cerydd; neu pan fyddo y cerydd ysgafn yn foddion i ddwyn y pechadur i ymostwng, y mae y cerydd trymach yn cael ei atal. Arbedwyd Ninife, "am iddi edifarhau" wrth bregeth Jona. Arbedwyd y dinystr bygythiedig ar dŷ Ahab, yn ei ddyddiau ef, am iddo ymostwng mewn sachliain a lludw ger bron Duw, "Oni weli di fel yr ymostwng Ahab ger fy mron I?" medd Efe wrth Elias. Prin yr oedd Elias wedi sylwi arno; ond yr oedd Duw yn edrych arno, ac eb Efe, "Ni ddygaf y drwg yn ei ddyddiau ef; ond yn nyddiau ei fab ef y dygaf y drwg ar ei dŷ ef." (1 Bren. xxi. 29.) Y mae Duw fel yn cymeryd gafael yn mhob mantais ac esgus a gaffo er arbed pechadur, "Wele, hyn oll a wna Duw, ddwywaith neu dair, â dyn, i ddwyn ei enaid ef o'r pwll, i'w oleuo â goleuni y rhai byw." (Job xxxiii. 29, 30.) "Cerdda, a chyhoedda y geiriau hyn tua'r gogledd, a dywed, Ti Israel wrthnysig, dychwel, medd yr Arglwydd, ac ni adawaf i'm llid syrthio arnoch: canys trugarog ydwyf Fi, medd yr Arglwydd, ni ddaliaf lid yn dragywydd." (Jer. iii. 12.) Ië, geiriau gwerth eu "cyhoeddi tua'r gogledd," a thua'r gorllewin, a'r dehau, a'r dwyrain

hefyd—geiriau tystiolaeth y Duw mawr am dano ei Hun—am ei hwyrfrydigrwydd i lid, a'i barodrwydd i drugarhau a maddeu.

III. *Y Gras o Amynedd.* Ni wnaf ond ychydig o grybwyllion dan y pen hwn. Yn

1. Y mawr bwys a gwerth a roddir arno mewn crefydd yn y Testament Newydd. "*Yn eich amynedd, meddienwch eich eneidiau,*" medd y Gwaredwr. Trwy *amynedd*, rhedwn yr yrfa a osodwyd o'n blaen ni," medd Paul. "Y mae yn rhaid i chwi wrth *amynedd*," medd efe mewn lle arall; a thrachefn, efe a ddywed, "Fel trwy *amynedd* a dyddanwch yr ysgrythyrau y gallem gael gobaith. Caffed *amynedd* ei pherffaith waith, fel y byddoch berffaith a chyfan, heb ddiffygio mewn dim;" a, "Byddwch chwithau hefyd yn dda eich *amynedd*," medd Iago.

2. Y gwerth mawr a rydd y Gwaredwr ar y gras hwn yn ei saint. "Mi a adwaen dy weithredoedd di, a'th lafur, a'th *amynedd*. A thi a oddefaist, ac y mae *amynedd* genyt," medd Efe wrth yr Eglwys yn Ephesus. (Dat. ii. 2, 3.) Drachefn, wrth yr Eglwys yn Thyatira, "Mi a adwaen dy weithredoedd di, a'th gariad, a'th wasanaeth, a'th ffydd, a'th *amynedd* di." (Dat. ii. 19.) Wrth yr Eglwys yn Philadelphia (*ib.* iii. 10), "O achos cadw o honot air fy *amynedd*."

3. Ynddo Ef, Pen mawr yr Eglwys ei Hun, y dysgleiriodd gogoniant amynedd yn ei lawn nerth, mewn esiampl weledig, perffaith, o hono ar faes dyledswydd a phrofedigaethau dyn, a hyny yn natur dyn, "Yr Hwn, pan ddioddefodd, ni fygythiodd; pan ddifenwyd, ni ddifenwodd drachefn." (1 Petr ii. 21.) Bywyd o ddioddef felly oedd ei fywyd Ef, bob cam o hono, wrth fyned trwy y byd. Bywyd na welsai y byd erioed ddim yn gyffelyb iddo; canys "Duw'r Amynedd ei Hun oedd Efe." Ni chollodd ei hunan-feddiant a'i reolaeth ar ei yspryd ei Hun am un

foment ar un achlysur, yn wyneb un brofedigaeth; a pha fywyd mor brofedigaethus a'i fywyd Ef? Cyfeiria Petr, llygad-dyst o fywyd a dioddefiadau ei Arglwydd, y Cristionogion yr ysgrifenai atynt, i edrych arno Ef fel esiampl berffaith o amynedd a dioddefgarwch, "Yr Hwn a adawodd i ni esiampl, fel y canlynech ei ol Ef." Dangosir Job fel esiampl nodedig o amynedd a dioddefgarwch mewn adfyd; "ond efe a agorodd ei enau, ac a felldithiodd ei ddydd" (Job iii. 1.) Yr oedd "y gŵr Moses, y llareiddiaf o'r holl ddynion ar y ddaear" (Num. xii. 3), ond, yntau hefyd a "gamddywedodd â'i wefusau, o herwydd cythruddo o honynt ei yspryd ef" (Salm cvi. 32). Fel hyn yr ydym yn gweled y dynion mwyaf a goreu fu ar y ddaear—y rhai mwyaf amyneddus a dioddefgar, yn colli eu rheolaeth ar eu hyspryd, yn wyneb profedigaethau tanllyd. Gan hyny,

"Yn mhlith a fu, neu ynte a ddaw,
'Does debyg iddo Ef."

"Yn llawn gras a gogoniant."

Wrth derfynu, dywedaf yn

1. Mai y cymwysiad mwyaf priodol oddiwrth yr athrawiaeth am amynedd Duw ydyw, bod i bob un ei hystyried yn ei berthynas âg ef ei hun yn bersonol. Nid tuag at yr hên fyd, Sodom a Gomora, Ninefe, Jerusalem, gwledydd a theuluoedd, a phersonau yr hên amser gynt, y gweinyddodd Duw yn ei amynedd yn unig; Hirymarhous yw Efe *tuag atom ni.* Pe buasai Efe wedi rhoddi heibio gweinyddu yn ei amynedd, beth fuasai cyflwr pob un o honom ni? Pe terfynai gweinyddiaeth ei amynedd Ef heddyw, pa olwg fyddai ar y byd hwn y fory? Nid oes un dyn a safo mewn adolygiad difrifol ar yrfa ei fywyd, nad ymddengys iddo fel y rhyfeddod fwyaf o bob rhyfeddod ei fod ef ei hun yn fyw—ei fod heb ei gyfrgolli yn dragywydd. Yr ydym yn synu llawer, yn

aml, at anniolchgarwch, cyndynrwydd, grwgnachrwydd a gwrthryfel yr hên genedl hono yn yr anialwch, yn wyneb rhyfeddodau amynedd a daioni Duw tuag ati; felly yr oedd yr Iuddewon eu hunain, yn amser Crist, "Pe buasem ni yn nyddiau ein tadau, ni buasem gyfranogion â hwynt yn ngwaed y proffwydi," meddynt (Matth. xxiii. 30). Ond dangosai Efe iddynt eu bod hwy yn waeth na'u tadau, pan y ceisient ei ladd Ef, yr Hwn y dygasai yr holl broffwydi dystiolaeth iddo. Pe deuai pob un o honom adref ato ei hun, i ystyried ei ffyrdd ei hun, ac i adnabod pla ei galon ei hun, darfyddai y synu a'r sôn am bechodau dynion ereill, a rhyfeddodau hir-amynedd Duw tuag atynt hwy, a deuem oll i ryfeddu a mawrhau yr amynedd dwyfol, bob un yn ei berthynas âg efe ei hunan yn anad neb.

2. Y mawr berygl o gam-farnu a cham-ddefnyddio hirymaros Duw, a byw ar ei hir-amynedd i bechu yn ei erbyn, megis pe mai amcan Duw yn ei amynedd tuag at ddyn fyddai rhoddi digon o amser iddo fwyhau a mwynhau ei bechod. "Ac a wyt ti yn ystyried hyn, O ddyn, yr hwn wyt yn barnu y rhai sydd yn gwneuthur y cyfryw bethau, a thithau yn gwneuthur yr un pethau, y diengi di rhag barn Duw? Neu a wyt ti yn diystyru golud ei ddaioni Ef, a'i ddioddefgarwch, a'i ymaros, heb wybod fod daioni Duw yn dy dywys di i edifeiriwch?" (Rhuf. ii. 3, 4.) "Heb wybod," ystyried, a deall, mai amser i *edifarhau* am bechod ydyw yr amser a gyfrana Duw yn ei hirymaros i ti, ac nid amser i ti fyned yn mlaen yn mhellach mewn gyrfa o bechod a gwrthryfel; a thrwy "dy galedrwydd, a'th galon ddiedifeiriol, i drysori i ti dy hun ddigofaint erbyn dydd digofaint, a datguddiad cyfiawn farn Duw" (adn. 4). O ddyn! Ddyn, ystyria beth wyt yn ei wneyd o'r amser a'r manteision a fwynhei yn ystod tymor hir-amynedd Duw tuag atat. Y mae "dydd digofaint" i ganlyn dydd amynedd, i'r sawl a'i cam-

ddefnyddio. Dydd barn, dydd galw i gyfrif am bob dydd o hir-ymaros Duw a gamddefnyddiwyd.

3. Y mae amynedd a hir-ymaros Duw, gan hyny, yn dangos ac yn profi nad yw Efe yn ewyllysio bod neb yn golledig, "ond dyfod o bawb i edifeirwch," fel y crybwyllwyd o'r blaen. Dyna fel y mae Efe ei Hun, yn ei Air, yn ein dysgu i esbonio ei hir-ymaros tuag atom. Yn y goleuni yna y mynai Efe i ni edrych ar y mater, "A chyfrifwch hir-amynedd ein Harglwydd yn iachawdwriaeth." (2 Petr iii. 15.) Cyfeiria Petr at holl epistolau ei "anwyl frawd, Paul," fel yn dwyn tystiolaeth i'r gwirionedd pwysig hwn, "Megis yr ysgrifenodd ein hanwyl frawd Paul atoch, yn ol y ddoethineb (yr ysprydoliaeth) a rodded iddo ef; megis yn ei holl epistolau hefyd, yn llefaru ynddynt am y pethau hyn." "Y pethau hyn," y pethau am amcan a dyben goruchwyliaeth hir-ymaros ac amynedd Duw tuag at ddynion; ac yn sicr, y mae Efe yn deall amcan a dyben ei oruchwyliaethau ei Hun.

4. Bydd daioni Duw yn ei hir-amynedd, yn gystal â'i gyfiawnder, yn cael ei ogoneddu yn ngospedigaeth dragwyddol yr anedifeiriol, "Mi a roddais iddi amser i edifarhau am ei godineb, ond nid edifarhaodd hi" (medd Efe am y Jezebel hono), "Wele, yr wyf fi yn ei bwrw hi ar wely, a'r rhai sydd yn godinebu gyda hi, i gystudd mawr, oni edifarhânt." (Dat. ii. 21, 22.) Y pechadur a ymgaledo mewn anystyriaeth, gan fyned yn mlaen yn fwyfwy rhyfygus yn ei bechod drwy yr holl amser a estynodd Duw yn ei amynedd, iddo i edifarhau a dychwelyd, y mae "bwrw ar wely," ac i "gystudd mawr," yn ei aros—gwely cystudd a marwolaeth. Amynedd Duw yn ei roi i fyny, ac yn cefnu arno am byth! gan ddywedyd wrtho megis, "Ni chei byth ddiwrnod yn hwy o amser i bechu genyf fi; mae dy amser cymeradwy ar ben; Dydd dy iachawdwr-

iaeth yn darfod am byth!" Rhyw "gystudd mawr" fydd cystudd pechadur anedifeiriol ar wely angeu, wedi ei ddeffro i weled a theimlo ei gyflwr truenus am y waith gyntaf erioed. "Cyfrifwch hir-amynedd ein Harglwydd yn iachawdwriaeth."

## PREGETH VII.

---

## TRUGAREDD DUW.

---

"Mor werthfawr yw dy drugaredd, O Dduw! am hyny yr ymddiried meibion dynion dan gysgod dy adenydd."—*Salm* xxxvi. 7.

SONIA'R testyn am beth gwerthfawr, gwerthfawr iawn, "Mor werthfawr," nad oes pris i'w osod arno. Gesyd drugaredd Duw, mewn Salm arall, yn gyferbyniol â'r peth gwerthfawrocaf y mae creadur yn feddianol arno, ei fywyd, a dywed, "Gwell yw dy drugaredd di na'r bywyd." (Salm lxiii. 3.)

Myfyrdod y Salmydd rhyngddo ag ef ei hun yw y Salm hon, fel rhai o'i Salmau ereill. Y mae llawer o'r Salmau yn weddïau at Dduw, ereill yn fawl i Dduw, a'r lleill yn Salmau i roddi addysg ac athrawiaeth, fel casgliadau oddiwrth weithredoedd Duw, a hanes ei oruchwyliaethau tuag at ei bobl yn neillduol, a thuag at y byd yn gyffredinol.

Yr annuwiol sydd wedi tynu ei sylw yn y Salm hon. Y casgliad y mae efe yn ei dynu am yr annuwiol oddiwrth ei ddull yn byw ydyw, "nad oes ofn Duw o flaen ei lygaid ef." Pe buasai ofn Duw o flaen ei lygaid, buasai golwg wahanol ar ei fywyd ef. Try y Salmydd ei olwg oddiwrth yr annuwiol at drugaredd Duw, a'i farnedigaethau, a'i ddaioni, gan ryfeddu mawredd ei drugaredd, dyfnder ei farnedigaethau, a chyflawnder ei ddaioni i ddyn ac anifail. Dychwela yn ol eilwaith at drugaredd Duw yn y testyn, "Mor werthfawr

yw dy drugaredd, O Dduw." Y mae'r amlygiadau a wna Duw o'i fawredd a'i ogoniant, yn y rhan fwyaf o'i berffeithiau naturiol a moesol, yn dal cyd-berthynas â'i holl greaduriaid rhesymol a deallol fel eu gilydd. Y mae i bob un ei *interest* personol yn ngweithredoedd ei allu a'i ddoethineb, yn ei Hollwybodaeth a'i Hollbresenoldeb; ond y mae actau dwy briodoledd yn dal perthynas neillduol â dyn ar wahan oddiwrth bob creadur arall, sef ei amynedd a'i drugaredd.

I. *Sylwadau cyffredinol ar Drugaredd Duw.* Yr euog a'r truan ydyw gwrthddrych trugaredd, a hwnw yn ddyn ar y ddaear. Creadur hunan-ddinystriol yw y truan hwn. Ni chreodd Duw yr un truan erioed, ac ni buasai truan na thrueni yn ei lywodraeth Ef byth, ond fel y mynodd creaduriaid a grewyd yn dda iawn, ac mewn cyflawnder o bob dedwyddwch, dynu'r aflwydd a'r distryw arnynt eu hunain. Pe gofynid uwchben trueni diobaith gwlad y golledigaeth, Pa fodd y bu hyn? Pwy a barai hyn? Byddai raid i bob cydwybod euog ateb, Myfi a barodd hyn i mi fy hun. Gwrthryfel gwirfoddol pob creadur sydd yno a greodd yr uffern sydd ynddo, a'r uffern y mae ynddi. Ond nid ymwelodd trugaredd erioed â thrueiniaid y wlad dlawd hono; ni ddisgyna dyferyn oddiar ben ei bys hi i oeri un tafod llosgedig yno. Y ddaear yw ei thalaeth hi, a dyn ar y ddaear yn unig yw gwrthddrych ei thosturi a'i hymgeledd. Trugaredd yw sylw tosturiol Duw ar ddyn digymhorth, annheilwng, euog, a hunanandwyol, yn tori allan yn gymwynásgarwch, ymwared, ac ymgeledd iddo. Y mae cyflwr cenedl Israel, fel y desgrifir yn Eseciel (pen. xvi.), yn ddrych cywir o gyflwr y ddynoliaeth dan bechod, "Yn ymdrybaeddu ar wyneb y maes yn ei gwaed, heb lygad yn tosturio wrthi;" a'r caredigrwydd a wnaeth y tosturi dwyfol â hi yn y cyflwr hwnw, yn gosod allan weinidogaeth trugaredd rad at y cyflwr truenus hwnw; "A phan dramwyais heibio

i ti, a'th weled yn ymdrybaeddu yn dy waed, dywedais wrthyt, yn dy waed, Bydd fyw" (adn. 6). Ond gwnaeth y cymwynasgarwch dwyfol fwy i'r genedl hono na chyhoeddi bywyd cenedlaethol yn unig iddi—ei *golchi*, ei glanhau, ei gwisgo, ei phrydferthu, ei chyfoethogi, ei gwledda, a'i chymeryd i gyfamod âg Ef ei Hun. Bywyd, a mwy na bywyd. Felly yn union y gwna trugaredd Duw yn Nghrist a'i gwrthddrychau hi.

2. *Y mae Trugaredd yn briodoledd hanfodol i natur Duw, fel Duw'r Cariad.* "Eithr Duw, yr Hwn sydd gyfoethog o drugaredd, o herwydd ei fawr gariad trwy yr hwn y carodd Efe ni." (Ephes. ii. 4.) *Cyfoethog o drugaredd, o herwydd ei fawr gariad.* Yn ei *fawr gariad* y mae ei drugaredd yn gwreiddio, oddiyno y mae hi yn deilliaw. Gallwn ymsynio am Dduw cyfiawn, pur, a sanctaidd—"Duw gwirionedd heb anwiredd;" heb ei fod yn Dduw trugarog a graslawn. Nid oes berthynas, yn ol angenrheidrwydd natur y pethau, rhwng y priodoleddau hyny â thrugaredd a thrugarhau; sicrhau barn ac uniondeb yn holl oruchwyliaethau y llywodraeth ddwyfol y maent hwy. Ond, heblaw hyny, "*Duw, cariad yw.*" Y mae tosturi a thrugaredd, o angenrheidrwydd ei natur, yn mynwes cariad. "Y mae cariad yn hir-ymaros, yn gymwynasgar." (1 Cor. xiii. 4.) Y mae hir-ymaros a chymwynasgarwch yn elfenau hanfodol yn ei natur Ef.

3. *Fel pob un o'i briodoliaethau, y mae Trugaredd yn Nuw erioed.* "Trugaredd yr Arglwydd sydd o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb." "A thrugaredd dragwyddol y trugarharhaf wrthyt." "Cofia dy drugareddau a'th dosturiaethau, canys erioed y maent hwy." (Salm cviii. 17; Esay liv. 8; Salm xxv. 6.) Rhaid i feddwl wedi ei ddeffro, gael pethau tragwyddol i'w dawelu a'i lawn foddloni; pethau diddechreu, yn gystal a phethau diddiwedd. Rhaid iddo gael Duw tragwyddol yn noddfa, a Breichiau tragwyddol oddidano,

cyn yr ymdeimla yn foddlon a diogel. Cynygier iddo dduw y bu dechreuad i'w hanfod yn wrthddrych iddo i'w addoli ac ymddiried ynddo—un y gallai efe wthio ei feddwl a'i ddychymyg y tu hwnt i ddechreuad ei fodoliaeth, efe a deimla nas gall ymddigoni wrth ei fodd yn hwnw. Cynygier i feddwl argyhoeddedig, a theimladwy o'i drueni a'i angen ysprydol, drugaredd a gras fel pethau newydd diweddar, ni wnânt ei dro ef. "Pa le y mae dy hên drugareddau, O Arglwydd?" medd y Salmydd. (Salm lxxxix. 49.) Ac megis y dywed efe mewn Salm arall (xxv. 6), pan yn adgofio ei hên bechodau ei hun, pechodau a chamweddau ei ieuenctyd, y mae yn ffoi rhagddynt i wneyd ei noddfa mewn tosturiaethau a thrugareddau hynach na'r hynaf o'i bechodau. "Cofia dy dosturiaethau a'th drugareddau, canys ERIOED y maent hwy," medd efe. "Y mae genyf fi," fel pe dywedasai, "ryw fath o gôf o gyfnod plentynaidd fy mywyd, cyn i mi gyflawni un weithred bechadurus y gwn am dani; ond ni elli di, y Duw mawr, gofio un cyfnod yn dy fodoliaeth dragwyddol, pryd nad oedd trugaredd a thosturi ynot. Anghofia, gan hyny, fy hên bechodau i yn y côf am dy drugareddau a'th dosturiaethau tragwyddol dy Hun." Rhaid i'r enaid blinedig gael gwely hwy, a lletach, a chryfach na hên wely Og, brenin Basan, i ymestyn arno ac ymdroi ynddo, cyn y gallo orphwyso mewn esmwythdra, a dyma fe yn barod iddo—trugaredd a thosturi maddeuol Duw, "canys erioed y maent hwy."

4. *Y ddiweddaf o'r priodoliaethau Dwyfol a ddatguddiwyd yw Trugaredd.* Yr oedd tragwyddol allu, doethineb, gwybodaeth, a daioni cyffredinol Duw wedi eu datguddio oesau di-rif cyn dechreu oes dynoliaeth. Drwy yr holl gyfnodau hyny yr oedd trugaredd yn aros yn ddirgelwch cuddiedig yn Nuw. Yr oedd lleni y dirgelwch hwnw yn cuddio ei hwyneb hawddgar hi o olwg angelion a cherubiaid a

fuasent yn gwledda, hwyrach, ar ryfeddodau datguddiedig y priodoliaethau ereill dros ystod gorfeithion oesau. Yn sŵn cwymp y ddynoliaeth, yn Eden, y deffrödd hi (trugaredd) fel un o gysgu, y tro cyntaf erioed. "Adda, pa le yr wyt ti?" oedd y geiriau cyntaf a ddisgynodd oddiar ei gwefusau bendigedig ar glust creadur; gwisgo y trueiniaid noethion a grynent mewn cywilydd a gwarth o flaen gorsedd eu Barnwr Cyfiawn, yn yr Ardd, oedd y gwaith cyntaf a wnaeth ei dwylaw glan hi; ac, ar yr un pryd, rhoddodd ddyrnod ar ben temtiwr dyn y teimla oddiwrtho i dragwyddoldeb. Cymerodd feddiant o'r ddaear iddi ei hun; o'r dydd hwnw allan taenodd ei hadenydd, yn ol iaith y testyn, trosti, ac y mae meibion dynion yn llechu o dan y cysgod clud; taflodd asgell ei nawdd dymorol dros dalaeth ei hetifeddiaeth yn gyntaf, a byth wedi hyny, y mae yn lledu aden ei iachawdwriaeth uwch ei phen, ac yn gwahodd meibion dynion i ymddiried dan ei chysgod diogel.

5. *Yr unig briodoledd Ddwyfol a ddatguddiwyd yn a thrwy Aberth, ac y mae Aberth yn sail ei holl weinyddiadau, yw Trugaredd.* Nid oedd un angen am allor ac aberth i ddwyn allan yr Anfeidrol allu a doethineb mewn creu, cynal, a llywodraethu y byd; "Efe a ddywedodd, ac felly y bu; Efe a orchymynodd, a hyny a safodd" (Salm xxxiii. 9), a dyna y cwbl; ond, yn Eden, cofir hyny byth, dyma beth newydd ar y ddaear, a newydd yn holl lywodraeth Jehofa—dwyn aberth at yr allor, rhyw greadur neu greaduriaid glân, ŵyn o'r praidd, fe ddichon, yn gwaedu, yn dioddef, ac yn marw tros ac yn lle y troseddwyr euog (yn gysgodol), am fod Duw y dydd hwnw yn myned i ddatguddio ei drugaredd i droseddwyr am y waith gyntaf erioed. Yr oedd yr Anfeidrol ei Hun yn myned i wneyd gwaith na wnaethai Efe erioed cyn hyny—maddeu anwiredd; "Ac heb ollwng gwaed nid oes maddeuant." Mewn aberth y dygwyd yn mlaen holl wein-

yddiadau trugaredd byth ar ol hyny. Cododd ei llŷs a'i gorseddfainc yn nghanol gwersyll Israel yn yr anialwch; daeth i mewn iddo; cymerodd feddiant o hono; eisteddodd ar ei thrugareddfa, rhwng y cherubiaid, i gyhoeddi cymod a maddeuant i droseddwyr; seiliodd orseddfainc ei gras ar gyfiawnder a barn. Y gyfraith danllyd, bur, a gyhoeddasai y Deddfwr Cyfiawn ar Sinai ychydig ddyddiau o'r blaen, a wnaeth trugaredd yn wadn, yn osail, ei gorsedd, canys yr oedd llechau y gyfraith yn nghadw yn yr Arch o dan ei heisteddle hi, ar y Drugareddfa; ond gweinyddai ei gras a'i doniau bob amser drwy waed aberth. Buasai raid iddi ladd yr archoffeiriad pe rhyfygasai ymddangos ger ei bron ar ddydd y cymod, heb waed i'w daenellu yno. Yr oedd raid amddiffyn ac anrhydeddu hawliau deddf a chyfiawnder wrth faddeu ac estyn bywyd a chymod i'r euog, neu ddadymchwelyd llywodraeth Duw hyd ei seiliau, ac aberth dros yr euog oedd y drefn i ateb y pwrpas hwnw. "Rhaid oedd, gan hyny, i bortreiadau y pethau sy yn y nefoedd gael eu puro â'r pethau hyn," (aberthau y gyfraith,) "a'r pethau nefol eu hunain âg aberth gwell na'r rhai hyn." (Heb. ix. 23.) "Cysgod y daionus bethau i ddyfod, ac nid gwir ddelw y pethau" (Heb. x. 1) oedd aberthau y gyfraith—cysgod o'r "Aberth gwell," yr hwn oedd "gwir ddelw" y pethau. Yr hyn ni allai y gyfraith hono a'i haberthau ei wneyd, "o herwydd ei bod yn wan drwy y cnawd," nid oedd dim ond *cnawd*, a hwnw yn gnawd anifeiliaid anrhesymol ac anianol, yn ei haberthau hi, ac anmhosibl, wrth natur pethau, oedd i "waed teirw a geifr dynu ymaith bechodau." Ni allasai gwaed creaduriaid na feddent gydwybod eu hunain, nad oedd na deall, na chydwybod, nac ewyllys ganddynt yn yr oruchwyliaeth y dygid hwy drwyddi; ni allasai *gwaed* y cyfryw ebyrth buro a thawelu cydwybod euog troseddwr, na rhoddi yr anrhydedd gofynol ar y ddeddf foesol. Yr oedd

eu bodoliaeth hwy islaw bod yn ddeiliaid iddi hi, a sarhad o'r mwyaf fuasai eu cynyg fel Iawn dros bechod iddi, ond fel cysgodau o "aberth gwell" yn unig. "Yn nghyflawnder yr amser," wele yr *Aberth gwell*—Oen Duw—"yr Hwn sydd yn tynu ymaith bechodau y byd," yn ymddangos. "Unwaith yn niwedd y byd yr ymddangosodd Efe i ddilëu pechod trwy ei aberthu ei hun." (Heb. ix. 26.) Oblegid os ydyw gwaed teirw a geifr, a lludw anner, wedi ei daenellu ar y rhai a halogwyd yn sancteiddio i bureiddiad y cnawd, pa faint mwy y bydd i waed Crist, yr Hwn trwy yr yspryd tragwyddol, a'i hoffrymodd ei Hun yn ddifai i Dduw, buro eich cydwybod chwi oddiwrth weithredoedd meirwon, i wasanaethu y Duw byw." (Heb. ix. 13, 14.) *Trwy yr yspryd tragwyddol.* Yr oedd *yspryd* yn ei aberth Ef; nid oedd dim ond *cnawd*, fel y sylwyd, yn aberthau y gyfraith; ond yr oedd *yspryd—enaid*, yn cael ei osod yn aberth dros bechod ar y groes. Yspryd oedd yn fwy, anfeidrol fwy ei urddas a'i werth, na'r holl ysprydoedd euog y gosodid Ef yn aberth drostynt. Yspryd oedd yn *aberth difai* i yspryd y ddeddf, ac yr oedd hi yn cael mwy o anrhydedd yn ei ufudd-dod a'i aberth Ef nac a gawsai yn ufudd-dod ei holl ddeiliaid, neu yn eu cosp dragwyddol, dan ei melldith fel troseddwyr. Pan oedd yr aberth gwell yn "gogwyddo ei ben, ac yn rhoddi i fyny yr Yspryd ar y groes, rhwygodd trugaredd lèn yr hên gyfamod a orchuddiasai ei hwyneb yn y Cysegr Sancteiddiolaf am bymtheg can mlynedd, a daeth allan i gymeryd meddiant o'i gorseddseddfainc dan y cyfamod newydd; a byth wedi hyny,

"Ar Galfari, mae mainc y nef,
Yn agos at ei groesbren Ef,
Oddiyno y dodir hedd i maes."

"Duw yn Nghrist, yn cymodi y byd âg Ef ei hun, heb gyfrif

iddynt eu pechodau. Canys yr hwn nid adnabu bechod, a wnaeth Efe yn bechod drosom ni, fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo Ef." (2 Cor. v. 19, 21.)

Ymddengys fod rhyw ysfa anghyffredin mewn llawer a fynant gael eu hystyried yn feirniaid dysgedig, ac yn dduwinyddion o awdurdod yn y dyddiau hyn, i wadu a dirmygu yr athrawiaeth o faddeuant pechodau trwy aberth ac iawn Mab Duw; nid oedd un angen am y fath beth, meddant hwy; y gall Duw, fel Tad trugarog, faddeu gwendidau a cholliadau yn ei greaduriaid (canys dyma yn unig yw pechod yn eu golwg) heb aberth ac iawn drostynt. Y mae yr Epistol at yr Hebreaid yn faen tramgwydd annymunol iawn ar ffordd y gwŷr hyn. Y maent, fe dybiant, yn gallu ystwytho a chystwyo rhanau ereill o'r Testament Newydd at eu hathrawiaethau, drwy gyfieithu ac esponio yr ymadroddion yn ol eu hewyllys. Ond y mae Crist, fel aberth dros bechod, yn cael ei ddal allan yn yr epistol hwn, fel y mae yn rhaid ei addef, ac nid oes dim i'w wneyd ond haeru mai rhywun dan ddylanwad rhagfarnau Iuddewig a'i hysgrifenodd, ac nid apostol, ac felly nad yw o un awdurdod ar y pwnc. O! chwi ladron a chysegr yspeilwyr! a fynech chwi ddymchwelyd allor cristionogaeth i'r llwch, a dwyn ei Haberth, ei bywyd, a'i gogoniant ymaith? A fynech chwi dynu gorseddfainc trugaredd oddi dani? A fynech chwi yspeilio cysegr Sïon o'i ganiadau melusaf? O! chwi Ysgrifenyddion a Phariseaid y dyddiau diweddaf! cedwch eich athrawiaeth dlawd i chwi eich hunain, a gadewch lonydd i ni, Bublicanod a phechaduriaid tlodion ac euog, i ymofyn am y "Brynedigaeth trwy ei waed Ef, sef maddeuant pechodau, yn ol cyfoeth ei ras Ef." (Ephes. i. 7.)

6. *Y mae holl briodoliaethau ereill y Duwdod at alwad a gwasanaeth Trugaredd.* Llawforwyn trugaredd yw ei amynedd. Y mae braich ei Hollalluowgrwydd yn barod at ei

gorchymyn hi, i symud oddiar ei ffordd bob peth a fyddo yn rhwystr iddi ddwyn ei hamcanion yn mlaen. Yr oedd gwaredu Israel o gaethiwed yr Aifft a'u dwyn i wlad yr addewid, yn "cyflawni y drugaredd i Abraham," ac yn ddolen bwysig yn nghadwyn bwriadau trugaredd i ddwyn Iachawdwr ac iachawdwriaeth i'r byd. Safodd Pharaoh yn hir ar y ffordd i ymladd yn erbyn trugaredd yn yr oruchwyliaeth hono; o'r diwedd, ymaflodd y llaw Hollalluog yn ngwddf y gelyn, ac ysgytiodd ef a'i lu yn y Môr Coch, "O herwydd ei drugaredd" (Salm cxxxvi. 15). Rhuthrodd Sehon, brenin yr Amoriaid, ac Og, brenin Basan, bob un â'i gleddyf yn ei law, a byddinoedd cryfion i'w canlyn, i ymladd yn ei herbyn hi, a dyna y cawri hyny, a'u byddinoedd, yn gelaneddau meirwon ar unwaith, heb un yn ngweddill, "O herwydd ei drugaredd" (*ib.* xix. 20). Penderfynodd penaethiaid yr Iuddewon, a Pontius Pilat, i gadw Iachawdwr y byd yn ddiogel yn y bedd, a drysu ac atal bwriadau trugaredd; gwnaed y bedd yn ddiogel o'r fath sicraf; dodwyd maen ar ei ddrws, a sêl yr awdurdod Rufeinig ar hwnw, a gosodwyd gwyliadwriaeth gyda hyny, i wneyd sicrwydd yn sicrach, ond "Hwn a gyfododd Duw, gan ryddhau gofidiau angeu, canys nid oedd bosibl ei atal ef ganddo." (Act. ii. 24.) "A pheth yw rhagorol fawredd ei nerth Ef tuag atom ni y rhai ydym yn credu, yn ol gweithrediad nerth ei gadernid Ef; yr hon a weithredodd Efe yn Nghrist, pan y cyfododd Efe Ef o feirw, ac a'i gosododd i eistedd ar ei ddeheulaw ei hun yn y nefolion leoedd, goruwch pob tywysogaeth, ac awdurdod, a gallu, ac arglwyddiaeth, a phob enw a enwir, nid yn unig yn y byd hwn, ond hefyd yn yr hwn a ddaw." (Ephes. i. 19–22.) Rhoddwyd iddo bob awdurdod yn y nef, ac ar y ddaear, i weinyddu trugaredd a maddeuant, "Preswylia pob cyflawnder"—holl gyflawnder y Duwdod yn ei holl briodoliaethau,

yn bersonol ynddo Ef, i gyd-weinyddu yn nygiad goruchwyliaeth trugaredd yn mlaen; â sancteiddrwydd ar ei lŵ i gyflawni ei haddewidion hi; cymer doethineb ofal i oruwchlywodraethu pob peth i gydweithio er daioni i'w hetifeddion hi, a

"Cyfiawnder a'r gyfraith sy'n awr,
Yn edrych i lawr yn ddi-lid,
A'r priodoliaethau mewn hedd,
O ochr Trugaredd i gyd."

7. *Trugaredd yw yr unig briodoledd yn Nuw y gall pechadur ar ei ddychweliad ato ymaflyd a gobeithio ynddi.* "Os soniaf am gadernid, wele Ef yn gadarn; ac os am farn, pwy a ddadleu trosof fi?" (Job ix. 19.) Y mae yn darfod am danaf yn wyneb cadernid a chyfiawnder Duw, "Canys os perffaith y dywedaf fy mod, Efe a'm barn yn gildyn," (adn. 20.) Y mae Duw yn ei gadernid, a'i gyfiawnder, a'i holl briodoliaethau gogoneddus, yn ddychryn i'r enaid euog. "Unwaith y dywedodd Duw, clywais hyny ddwywaith; mai eiddo Duw yw cadernid. Trugaredd hefyd sydd eiddot Ti, O Arglwydd." (Salm lvii. 11, 12.) Yn y fan yna y mae pechadur yn cael ei anadl ger bron Duw; dyna a'i cadarnha ef a nerth yn ei enaid o flaen gorsedd ei Farnwr. At drugaredd yn unig y gall y truan a'r tlawd apelio. "O Dduw, bydd drugarog wrthyf fi bechadur" yw ei weddi gyntaf ef; a rhaid i Gristion dirywiedig, ar ei adferiad, ail ddechreu gyda Duw yn ei drugaredd, fel y tro cyntaf erioed. "Trugarha wrthyf, O Dduw, yn ol dy drugarowgrwydd: yn ol lluaws dy dosturiaethau, dilea fy anwireddau" (Salm li. 1), llefai Dafydd, o waelodion calon ddrylliog ac yspryd cystuddiedig o herwydd ei gwymp. Wedi gwneyd i fyny gyda Duw yn ei drugaredd, gall yr enaid ymhyfrydu yn ei holl briodoliaethau Ef. "Achub fi, O Dduw, yn dy enw; a barn fi yn dy gadernid," medd y Salmydd (Salm liv. 1). "*Achub fi yn*

*dy enw,*" sef yr enw datguddiedig i Moses, yn Horeb—"*Y Duw Trugarog a graslawn;*" wedi hyny, "*Barn fi yn dy gadernid,*" fe ddeil fy achos i farn dy gyfiawnder wedi ym hachuber yn dy enw; gallaf sefyll yn ddi-gryn o flaen y mellt, y taranau, y lleisiau sydd yn dyfod allan o orseddfainc cadernid a chyfiawnder y Llywydd tragwyddol yn y gadwedigaeth hono.

8. *Ei Drugaredd yw cyfoeth Duw.* "Eiddo fi yr aur, ac eiddof fi yr arian, medd Arglwydd y Lluoedd" (Hag. ii. 8); ond nid yr aur a'r arian, a'r "anifeiliaid ar fil o fynyddoedd" yw ei gyfoeth Ef, ond ei drugaredd, yr hon sydd yn cyfoethogi tlodion ysprydol—yr hon sydd "yn codi y tlawd o'r llwch, a'r anghenus o'r domen, i'w osod i eistedd gyda phendefigion ei bobl Ef;" yr hon sydd yn gwneyd etifeddion euogrwydd, trueni, a marwolaeth, yn frenhinoedd ac yn offeiriaid i deyrnasu ac offeiriadu mewn bywyd a gogoniant yn oes oesoedd. "*Duw, yr hwn sydd gyfoethog o drugaredd,*" yn "cadw trugaredd i filoedd."

9. *Trugaredd yw y briodoledd y mae Duw, yn ei air, yn ymhoffi ac yn ymogoneddu yn benaf ynddi*—"Am fod yn hoff ganddo drugaredd." (Mica vii. 19.) Y mae yn arbed byd llawn o elyniaeth a gwrthryfel, oes ar ol oes, "am fod yn hoff ganddo drugaredd." "Ni ddeil efe ddig byth, am fod yn hoff ganddo drugaredd." Anfonodd ei "Unig-anedig Fab i'r byd, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo Ef," "am fod yn hoff ganddo drugaredd." Efe a faddeu y "deg a deugain, y pum can ceiniog, a'r deng mil o dalentau," fel eu gilydd, "am fod yn hoff ganddo drugaredd."

"Mae'n maddeu i'r aflan oes y sy',
*Fe* faddeu i'r oes a ddaw,"

"am fod yn hoff ganddo drugaredd." Y mae yr ymadrodd melus hwn yn esponiad ar bob goruchwyliaeth ddwyfol tuag

at y byd hwn. "Mil a ffŷ wrth gerydd un, ac wrth gerydd pump y ffowch, hyd oni'ch gadawer megis hwylbren ar ben mynydd, ac fel baner ar fryn. Ac am hyny y disgwyl yr Arglwydd i drugarhau wrthych, ïe, am hyny yr ymddyrchafaf i dosturio wrthych." (Esa. xxx. 17, 18.) Ni ddywed yn un man yn ei air, ei fod yn disgwyl, yn chwilio, am gyfleusdra i ddangos ei gyfiawnder a'i soriant yn ninystr ei elynion: "Hwyrfrydig i lid" yw Efe; ond y mae yn *disgwyl*, yn *edrych*, ac yn *chwilio* am le i drugarhau—yn *ymddyrchafu* ac yn ymogoneddu mewn tosturio. Y mae clust ei drugaredd bob amser yn agored i lêf y tlawd, a gweddi y gwael: "Efe a edrych ar weddi y gwael, ac ni ddiystyrodd eu dymuniad. Hyn a ysgrifenir i'r genhedlaeth a ddêl; a'r bobl a grëir a folianant yr Arglwydd." (Salm cii. 17, 18.)

10. *Prif destyn holl ganiadau mawl yw Trugaredd.* Ni ddyrchafasai cân o fawl i Dduw oddiar y ddaear oedd wedi ei hanrheithio gan bechod byth, oni buasai i drugaredd ymweled â hi, "Mawl a'th erys di yn Sïon, O Dduw, ac i ti y telir yr adduned. Ti, yr Hwn a wrandewi weddi" (Salm lxv. 42), dyna y rheswm. Baich cân y ddaear ydyw, "Am fod ei drugaredd yn parhau yn dragywydd." "Ewch i mewn i'w byrth Ef â diolch, ac i'w gynteddau â mawl; diolchwch iddo, a bendithiwch ei enw; canys da yw'r Arglwydd, a'i *drugaredd sydd yn dragywydd*." (Salm c. 4, 5.) "Fel y byddai i'r cenhedloedd ogoneddu Duw am ei *drugaredd*." (Rhuf. xv. 9.) Fe gluda trugaredd fawl y ddaear iddi ei hun yn mynwes ei gwaredigion i'r nefoedd. Yno cyd-gyferfydd mawl holl daleithiau ymerodraeth Duw, ac y cydymchwydda fwyfwy yn oes oesoedd—mawl ei allu, ei ddoethineb, ei ddaioni, ei gariad a'i raslonrwydd; ond bydd yno un gân o fawl na all neb ei dysgu, ond y rhai a brynwyd oddiar y ddaear, a chân mawl trugaredd—cân bereiddiaf y nefoedd, fydd hono.

Wel, y mae ein pregeth yn myned yn hir, ond nid cyhyd a'i thestyn, canys y mae hwnw yn "Parhau yn dragywydd." Ni allwn derfynu heb wneyd ychydig nodiadau fel casgliadau.

1. *Y rhaid fod dyn dan fwy o rwymau i'w Greawdwr nac un creadur arall.* Aeth ei Dad nefol i fwy o draul yn ei achos ef nac un arall o'i blant. "Pan ymddangosodd daioni (dynserch, neu ddyngarwch) a chariad Duw, ein Hachubwr tuag at ddyn" (Titus iii. 4), fe ymddangosodd y benaf o'i ryfeddodau; daeth i lawr at ddyn ei Hunan i'w godi o'i drueni. Yn nhrefn achubiaeth ei hoff greadur hwn y datguddiodd Efe ei hoff briodoledd—ei drugaredd. Dyrchafa hwn yn nes ato ei Hun yn mynwes ei drugaredd nac un creadur arall. Yn ngweledigaeth Ioan o'r nefoedd (Dat. iv.), saif y prynedigion oddiar y ddaear yn nes i'r Oen a laddwyd a'r orseddfainc na'r angelion lawer a welai efe yno. O ddyn! pa faint o ddyled sydd arnat ti i'th Arglwydd? Cymer dy ysgrifen, ac ysgrifena ar frys, ond ni elli ysgrifenu y swm byth, "canys er gwerth y'th brynwyd —gwerthfawr waed Crist; am hyny, gogonedda Dduw yn dy gorff, ac yn dy yspryd, y rhai ydynt eiddo Ef." Saf gyferbyn a'i groes Ef, a gofyn, "Beth a dalaf i'r Arglwydd am ei holl ddaioni?" Cymer phiol iachawdwriaeth o law ei drugaredd, a galw ar ei enw Ef, a galw ar dy enaid, a'r cwbl sydd ynot, i'w fendithio a'i folianu. Y mae Duw yn Dad i'r angel, ond y mae Efe yn "Dad a Phrynwr dyn," ac y mae y rhwymedigaethau i'w garu a'i foliannu sydd yn codi o'r Brynedigaeth yn fwy ac yn gryfach na'r rhai sydd yn codi o'r greadigaeth. Gogoneddodd ei allu a'i ddoethineb yn nghreadigaeth dyn ar y cyntaf; ond wrth ei "grëu o'r newydd yn Nghrist Iesu" y mae Efe hefyd yn gogoneddu ei gariad, ei drugaredd, a'i ras.

2. *Gocheled dyn gamddeall a chamddefnyddio y datguddiad hwn o drugaredd Duw tuag ato.* Y mae llawer yn gwneyd

hyny, yn cymeryd trugaredd Duw megis yn obenydd dan eu penau i gysgu mewn pechod. Gan fod Duw yn anfeidrol drugarog, gallant hwy fyw yn eu pechodau, y bydd pob peth yn dda yn y diwedd, y maddeua Efe iddynt. "Heddwch, heddwch fydd i mi, er i mi rodio yn nghyndynrwydd fy nghalon, i ychwanegu meddwdod at syched," ydyw iaith calon llawer pechadur erioed. "Ni fyn yr Arglwydd faddeu iddo, canys yna y myga digllonedd yr Arglwydd a'i eiddigedd yn erbyn y gŵr hwnw, a'r holl felldithion sydd ysgrifenedig yn y llyfr hwn a orwedd arno ef, a'r Arglwydd a ddilea ei enw oddi dan y nefoedd." (Deut. xxix. 19, 20.) "Na thwyller chwi, ni watworir Duw." (Gal. vi. 7.) Ni oddef Efe i bechaduriaid droi ei drugaredd a'i ras yn drythyllwch yn anad dim. I fod yn galondid ac anogaeth i bechaduriaid droi a dychwelyd ato mewn edifeirwch y mae Efe yn datguddio ac yn canmol mawredd ei drugaredd wrthynt yn ei air, ac nid i'w cryfhau a'u cysuro yn eu pechodau. "Y rhai a gadwant oferedd y celwydd hwn, a wrthodant eu trugaredd eu hun." (Jona ii. 8.) Trugaredd wedi ei gwrthod, ei dibrisio, a'i chamddefnyddio fydd yr un fwyaf ofnadwy o bawb i'w chyfarfod, wedi i oruchwyliaeth ei gras fyned heibio.

3. *Megis y mae y Duw mawr ei Hun yn hoffi Trugaredd a thrugarhau, y mae Efe am i ninau hefyd wneyd hyny.* "Dangosodd Efe it, ddyn, beth sydd dda; a pha beth a gais yr Arglwydd genyt, ond gwneuthur barn, a *hoffi trugaredd*, ac ymostwng i rodio gyda'th Dduw." (Mica vi. 8.) Effaith profiad o drugaredd faddeuol Duw ydyw tyneru yr enaid i dymer drugarog a maddeugar: "Byddwch gan hyny drugarogion, megys y mae eich Tad yn drugarog." (Luc vi. 36.)

# PREGETH VIII.

## DOETHINEB DUW MEWN DIRGELWCH.

"Eithr yr ydym ni yn llefaru doethineb Duw mewn dirgelwch, sef y ddoethineb guddiedig, yr hon a ragordeiniodd Duw cyn yr oesoedd i'n gogoniant ni."—1 *Cor.* ii. 7.

"Yr ydym ni yn llefaru"—yn llefaru wrth ein swydd; wedi ein danfon i lefaru gan yr awdurdod uchaf; y mae yn *rhaid i ni lefaru*—gwae fydd i ni oni lefarwn. Y mae ereill yn llefaru y byddai dda iddynt hwy eu hunain, ac i bawb a wrandawant arnynt, pe tawent, "Canys y mae eu hymadroddion drwg yn llygru moesau da." "Yr ydym ni yn llefaru doethineb." Cymerant hwythau arnynt eu bod yn llefaru doethineb; ond "doethineb y byd hwn" ydyw, yspryd y byd sydd ynddi, delw y byd hwn sydd arni, ac fel y byd hwn y mae hi yn diflanu. "Eithr yr ydym ni yn llefaru doethineb Duw"—y mae Yspryd Duw yn hon, a delw Duw ar hon; y mae gwirionedd a sylwedd dwyfol ynddi, a hi a bâr i'r sawl a'i medda etifeddu y sylwedd dwyfol hwnw. Gesyd yr apostol y ddoethineb ddwyfol yr oedd efe yn ei llefaru, a doethineb y byd hwn—doethineb doethion Groeg—ar gyfer eu gilydd. Aethai ef i Corinth, a dinasoedd ereill Groeg, i ymosod ar y ddoethineb hono ar ei thir ei hun. Ffolineb oedd y ddoethineb a lefarai yr apostol, meddai y Groegwr doeth. Y mae hi yn ddoethach na dynion, ac yn gwneyd

doethineb y byd hwn yn ynfydrwydd, meddai yr apostol. Ffwl oedd yr apostol yn ngolwg y doethyn, ac ynfytyn oedd y doethwr yn nghyfrif yr apostol. Ymffrostiai athrawon doethineb y byd hwn yn y dirgelwch cyfriniol a honent fod yn perthyn i'w hathrawiaeth—cyfrinion nad oeddynt i gael eu datguddio i'r cyffredin bobl, ond yn unig i rai yn perthyn i urdd neillduol, ac yr oedd anwybodaeth y bobl yn fantais iddynt hwy, y doethion a'r offeiriaid, i'w cadw dan eu dylanwad; a gwaith mawr oedd dileu y parch dwfn oedd yn meddyliau y dychweledigion at Gristionogaeth i'r dirgelion cuddiedig hyny y credasent hwy erioed eu bod yn perthyn i ddysgeidiaeth y doethion. "Yr ydym ni yn llefaru doethineb mewn dirgelwch," medd yr apostol; y mae dirgelwch gwirioneddol yn y ddoethineb hon; ond nid ydym ni, megys y maent hwy, "yn rhodio mewn cyfrwysder. Ni a ymwrthodasom â chuddiedig bethau cywilydd, heb drin gair Duw yn dwyllodrus; ond trwy eglurhad y gwirionedd, yr ydym yn ein canmol ein hunain wrth bob cydwybod dynion yn ngolwg Duw." Nid ydym yn ceisio cuddio, na darnguddio dim a berthyn i'r ddysgeidiaeth; ond yr ydym yn gwahodd pawb i ddyfod âg wyneb agored i'w chwilio a'i phrofi trostynt eu hunain. Y mae *dirgelwch* ynddi, er hyny; po fwyaf yr edrycher i mewn iddi, mwyaf oll yr ymddengys dyfnderoedd ei dirgelwch. Bu yn ddirgelwch yn Nuw cyn yr oesau, na wyddai neb ond Efe ei Hun ddim am dani; ond nid yw yn ddirgelwch yn yr ystyr hwnw mwy, y mae yn awr yn ddatguddiedig, yn Nghrist, drwy yr efengyl, ond y mae dirgelwch eto yn y datguddiad —dyfnderau o ddoethineb a gras, nad ellir plymio i'w gwaelodion byth.

Cyfeiria yr apostol yn yr adnodau blaenorol, at ei ddyfodiad cyntaf i Corinth i bregethu yr efengyl. Dywed "na ddaethai efe atynt gyda godidawgrwydd ymadrodd i fynegi

iddynt dystiolaeth Duw," na buasai "ei ymadrodd a'i bregeth mewn geiriau denu o ddoethineb ddynol, ond yn eglurhad yr Yspryd a nerth; fel na byddai eu ffydd hwy mewn doethineb dynion, ond yn nerth Duw." Cymerasai ofal i ochelyd ceisio gwisgo ei efengyl yn ngwisgoedd doethineb y byd hwn—geiriau clasurol, iaith flodeuog, arddull aruchel, a brawddegau caboledig; ond yn ei symledd noeth ei hun. Ni chymerasai arno "wybod dim yn eu plith, ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio," er ei fod yn gwybod, cystal a neb, am ddoethineb y doethion a chaniadau y beirdd, ac y gallasai lefaru yn eu hiaith a'u harddull hwy; a phrofwyd doethineb y pregethwr yn y llwyddiant mawr a fu ar ei weinidogaeth; gwnaeth fwy o'i hol yn Corinth, mewn ychydig fisoedd, nag a wnaethai doethineb y doethion mewn llawer o gannoedd o flynyddoedd—rhoddodd wêdd newydd ar foesau a bucheddau cannoedd o'r dinasyddion, y rhai a godasai hi o byllau dyfnaf llygredigaeth, a olchasai, ac a wisgasai "â newid dillad."

Ond eto, medd efe, yr ydym ni yn llefaru "doethineb yn mysg y rhai perffaith;" yn rhoddi bwyd cryf "dirgelwch yr efengyl" i'r rhai hyddysg, "y rhai, o herwydd cynefindra, sydd ganddynt synwyr i fedru dosbarthu drwg a da;" cam a'r rhai bach, babanod mewn gwybodaeth, fyddai gosod pethau mawrion, dyfnion, dysgeidiaeth o'u blaen i ddechreu —rhoddi bwyd cryf i rai yn gofyn llaeth i'w porthi—hyd nes y cynyddont i allu derbyn, deall, a defnyddio pethau mwy. Cyfaddasai yr apostol, fel y dengys mewn lle arall, ei ddysgeidiaeth at ystâd ag ansawdd feddyliol ei ddysgyblion, "fel rhai bach yn Nghrist," a llefarai y pethau trymach a dyfnach wrth y rhai a gynyddasent mewn gwybodaeth a deall i allu dirnad ac amgyffred rhywbeth am danynt. "Yn mysg y rhai hyn," y rhai perffaith, "yr ydym ni yn llefaru doethineb, ond nid doethineb y byd hwn, na thywysogion y byd hwn, y rhai

sydd yn diflanu; eithr yr ydym ni yn llefaru doethineb Duw mewn dirgelwch." Doethineb nad adnabu neb o dywysogion y byd hwn:. "Canys pes adnabuasent, ni chroeshoeliasent Arglwydd y gogoniant;" canys, Efe yw sylwedd a thrysorfa y ddoethineb oruchel hon; ynddo Ef y mae ei holl drysorau hi yn guddiedig. Nid adnabu y tywysogion a'r dysgedigion yn Judea, y rhai a'i croeshoeliasent Ef, mo'r ddoethineb hon, ac nid edwyn neb o'ch tywysogion a'ch doethion chwithau, y Groegiaid, y rhai sydd yn cyfrif pregethu Crist croeshoeliedig yn ynfydrwydd, mo honi; canys Iesu Grist wedi ei groeshoelio yw doethineb Duw, a gallu Duw.

I. Doethineb Duw. Doethineb, yn ei pherthynas â dyn, ydyw y gallu i'w adnabod ei hun, ei le, ei gymwysderau, ei waith, a'i ddyledswyddau; a'i fod yn llenwi ei le, ac yn cyflawni ei waith. Neu, y dyn doeth yw hwnw sydd yn gosod nôd a dyben teilwng o flaen ei feddwl i gyrchu ato, ac yn dewis ac yn arfer y moddion goreu i gyrchu at y nôd a'r dyben hwnw; yn ymddwyn yn weddus bob amser, dan bob amgylchiadau. "Calon y doeth a reola ei enau ef yn synwyrol." (Diar. xvi. 23.) Y mae ganddo y gallu i wybod yr "amser i dewi, a'r amser i ddywedyd," a beth i'w ddywedyd—i reoli ei yspryd, ei dymer, ei eiriau, a'i ymddygiadau; y gallu sydd yn rheoli ac yn prydferthu ei fywyd ydyw y ddoethineb hon.

Yn Nuw y mae y briodoledd hon, fel pob un arall, yn berffaith, yn annherfynol, yn anfeidrol: "Y Duw unig ddoeth"—ffynon wreiddiol pob doethineb. Ffrydiau o'r ffynon hon ydyw pob doethineb a fedd dynion ac angelion. "Canys yr Arglwydd sydd yn rhoi doethineb: allan o'i enau Ef y mae gwybodaeth a deall yn dyfod." (Diar. ii. 6.) "O bydd ar neb o honoch eisieu doethineb, gofyned gan Dduw, yr hwn sydd yn rhoi yn haelionus i bawb, ac heb ddanod; a hi a roddir iddo ef." (Iago i. 5.)

Y briodoledd lywodraethol yn Nuw ydyw ei ddoethineb, yr hon sydd yn gwisgo ei holl weithredoedd a'i oruchwyliaethau â gogoniant, harddwch, a chysondeb. "Mor lluosog yw dy weithredoedd, O Arglwydd; gwnaethost hwynt oll mewn doethineb." (Salm cvi. 24.) "Yr Arglwydd trwy ddoethineb a seiliodd y ddaear; trwy ddeall y sicrhaodd Efe y nefoedd. Trwy ei wybodaeth Ef yr holltodd y dyfnderau, ac y defnyna yr wybrenau wlith." (Diar. iii. 19, 20.) "Efe a wnaeth bob peth yn dêg yn ei amser" (Preg. iii. 11) —pob peth i ddyben teilwng o hono Ef ei Hun; a phob peth yn berffaith gymwys i ateb y dyben hwnw. Dyna fel y mae y ddoethineb a ysprydolodd ddynion sanctaidd Duw yn eu dysgu hwy i edrych ar a llefaru am dani yn ngweithredoedd ei ddwylaw Ef, a dyna fel y rhaid i bob un "a ddoeth ystyrio ei waith Ef" lefaru am dano, pe na buasai yr Ysgrythyr wedi llefaru dim ar y mater.

II. Doethineb Duw mewn Dirgelwch. Doethineb Duw yn nhrefn fawr iachawdwriaeth y byd trwy "Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio," yw hon yr ydym ni yn ei llefaru. Yr oedd y ddoethineb hon yn ddirgelwch yn natguddiad yr Hên Destament, mewn aberthau, defodau, a seremonïau cyfrinol. Rhodio mewn cysgodau yr oedd hi dan yr oruchwyliaeth hono; llefaru mewn damhegion ac arwyddion yr oedd hi trwy y tymor hwnw. Yr oedd hi dan gyfraith Moses, megis Moses ei hun, yn gwisgo gorchudd ar ei hwyneb pan lefarai wrth y bobl; ei thu ôl hi a gaent hwy weled, ond nid ei hwyneb. Yr oedd ei gorchudd yn deneuach, o beth, pan lefarodd trwy y proffwydi; ond eto, yr oedd gorchudd, o angenrheidrwydd, dros y proffwydoliaethau. Yn "ymddangosiad Crist," gwawriodd y dydd a chiliodd y cysgodau, daeth i ymddangos a llefaru yn fwy eglur: nid gweinidogaeth dan orchudd cyfrinion yw gweinidogaeth y Testament Newydd, fel yr oedd un yr Hên

Destament—"Nyni oll âg wyneb agored, yn edrych ar ogoniant yr Arglwydd megis mewn drŷch," medd yr apostol, (2 Cor. iii. 18); ond eto, "O ran y gwyddom, ac o ran yr ydym yn proffwydo" (2 Cor. xiii. 9); y mae hi yn ddoethineb Duw mewn dirgelwch fyth; y mae ei goludoedd yn aros yn anchwiliadwy o hyd. "O ddyfnder golud doethineb Duw! mor anchwiliadwy yw ei farnau Ef! a'i ffyrdd mor anolrheinadwy ydynt!" (Rhuf. xi. 33.) Ond, "O na lefarai Duw,—a mynegi i ti ddirgeledigaethau doethineb, eu bod yn ddau cymaint a'r hyn sydd" (Job xi. 5, 6), medd Sophar. Doethineb mewn dirgelwch yw doethineb Duw yn natur o hyd; wedi yr elo y meddwl i mewn i gyfrinach un dirgelwch, y mae hwnw yn agor i fil o ddirgeledigaethau mwy a dyfnach fyth: felly hefyd y mae ei ddoethineb yn nhrefn iachawdwriaeth, yn yr efengyl—"Yr hwn sydd uwchlaw gwybodaeth."

III. Yr hon a rag-ordeiniodd Duw cyn yr oesau—A rag-ordeiniodd, a drefnodd, a barotodd Efe. "Fel y byddai yr awrhon yn hysbys i'r tywysogaethau a'r awdurdodau yn y nefolion leoedd, trwy yr eglwys, fawr amryw ddoethineb Duw, yn ol yr arfaeth dragwyddol, yr hon a wnaeth Efe yn Nghrist Iesu ein Harglwydd ni." (Ephes. iii. 10, 11.) Y mae y "tywysogaethau a'r awdurdodau yn y nefolion leoedd," yr awrhon, yn ngoleuni y datguddiad o honi i'r eglwys trwy yr efengyl, yn gallu dirnad mwy am dani nag oeddynt erioed o'r blaen! ond yr oedd hi yn nghyfrinach mynwes Duw "cyn yr oesau"—yn fwriad ac amcan yn ei arfaeth dragwyddol Ef—yn "ddirgelwch ei ewyllus, yn ol ei foddlonrwydd ei Hun, yr hon a arfaethasai Efe ynddo ei Hun," (Ephes. i. 9, 10.)

IV. I'n gogoniant ni. "Er mawl gogoniant ei ras" ei Hun, a hyny drwy ein dyrchafu ni, yn y drefn hon o ras, o ddyfnderau trueni ein cwymp a'n colledigaeth, i anrhyd-

edd a gogoniant tragwyddol. Dyma y ddoethineb ydym ni yn ei llefaru, yn son am dani, medd yr apostol. Mor wael ac ofer yr aeth y doethion yn rhesymau eu doethineb hwy, mewn cydmariaeth i'r ddoethineb hon yr ydym ni yn ei llefaru! Gellid gofyn iddi hi, doethineb y byd hwn, "Pa fodd y cynghoraist ti yr annoeth? pwy a gynorthwyaist ti? pa fraich heb gadernid a achubaist ti? pa dlawd a godaist ti o'r llwch erioed? pa anghenus a ddyrchefaist ti o'r domen? adrodd, fel y'th gyfiawnhaer; dwg yn mlaen dy dystion, fel y gwybyddom ac y dywedom, gwir yw; ond ni feddi gymaint ag un tyst a elli ei alw i'r llŷs barn." Ond fy nhystion i, i'r ddoethineb yr wyf fi yn ei llefaru, "Ydych chwi," o Gorinthiaid, medd yr apostol: "Gan fod yn eglur mai llythyr Crist ydych chwi, wedi ei weini genym ni, wedi ei ysgrifenu nid âg ingc, ond âg Yspryd y Duw byw; nid mewn llechau cerig, eithr mewn llechau cnawdol y galon." (2 Cor. iii. 2, 3.) Wedi enwi y pyllau ffieiddiaf a fedd pechod, "Hyn fu i rai o honoch chwi," medd ef wrthynt; "eithr chwi a olchwyd; eithr chwi a sancteiddiwyd; eithr chwi a gyfiawnhawyd, yn enw yr Arglwydd Iesu, a thrwy Yspryd ein Duw ni." (1 Cor. vi. 11.) Yr ydym ni yn llefaru doethineb sydd yn gwneyd peth fel yna—peth nad all dim llai na doethineb Duw ei wneyd.

Gelwir yr efengyl yn ei pherthynas a ni, yn "Efengyl *y tangnefedd*," "*Efengyl ein hiachawdwriaeth*," a "*Gair yr iachawdwriaeth hon;*" ac yn ei pherthynas â Duw, yn "*Efengyl gras Duw*," "*Efengyl gallu Duw*," "*Efengyl gogoniant* y bendigedig Dduw," ac yn y testyn yn "Ddoethineb Duw *mewn dirgelwch*," fel y mae hi yn cynwys yr amlygiad penaf o ras, gallu, gogoniant, a doethineb Jehofa. Fel y cyfryw ddatguddiad uchaf a phenaf o'i ddoethineb Ef y ceisir ei dangos yn mhellach.

1. *Y ddoethineb guddiedig*, fel y gelwir hi yn y testyn, *yr*

*lion a rag-ordeiniodd Duw cyn yr oesau i'n gogoniant ni*—yr hon a ddatguddir yn yr efengyl—*sydd yn rhoddi yr amlygiad cyflawnaf o Dduw yn ei natur a'i briodoliaethau.* "Pa ddawn sydd yn y Duwdod mawr, nad yw e'n 'sgrifen yma i lawr." Y mae y priodoliaethau oedd wedi eu datguddio a'u gogoneddu o'r blaen yn nhrefn Creadigaeth a Rhagluniaeth, yn cael eu datguddio yn helaethach ar faes newydd, ac mewn goleuni newydd, yn nhrefn y Brynedigaeth *rag-ordeiniedig cyn yr oesau.* Llewyrcha galluog nerth Duw, doethineb a gwybodaeth Duw, yn ogoneddus yn ei weithredoedd; yr un modd ei gyfiawnder, ei wirionedd, a'i sancteiddrwydd, yn ei ddeddfau a'i farnedigaethau; ond y maent oll yn cydlewyrchu mewn gogoniant yn nhrefn yr efengyl. "Allan o Sïon, *perffeithrwydd tegwch*, y llewyrchodd Duw." (Salm l. 5.) *Allan o Sïon*—yn ngweinidogaeth ei ras a ddelir allan yn Sïon, drwy yr aberthau a'r ordinhadau a osododd Efe yn ei dŷ dan yr Hên Destament, yn yr hyn a arwyddoceir yn yr Arch a'r Drugareddfa yno—y mae *perffeithrwydd tegwch* priodoliaethau a *character* Duw yn llewyrchu allan yn fwy gogoneddus a chyflawn nac yn un man arall; y mae Efe am i bawb weled y "*perffeithrwydd tegwch*" hwn—"Duw y duwiau, sef yr Arglwydd a lefarodd, ac a alwodd y ddaear, o godiad haul hyd ei fachludiad" (adn. 1). I beth? paham y mae "Duw y duwiau" yn galw sylw y ddaear fel hyn, o godiad haul hyd fachludiad haul? ond am ei fod yn ewyllysio i bawb ddyfod i weled ac edrych ar *berffeithrwydd y tegwch* y mae Efe yn ei ddatguddio drwy weinidogaeth ei ras yn Sïon. "Wele fi yn creu nefoedd newydd, a daear newydd (medd Efe), a'r rhai cyntaf ni chofir, ac ni feddylir am danynt. Eithr llawenhewch a gorfoleddwch yn dragywydd yn y pethau a grewyf fi: canys wele fi yn creu Jerusalem yn orfoledd, a'i phobl yn llawenydd. Gorfoleddaf hefyd yn Jerusalem, a llawenychaf yn fy mhobl: ac ni

chlywir ynddi mwyach lais wylofain, na llef gwaedd." (Esa. lxv. 17–19.) Dyna fel y mae Efe ei Hun yn edrych ar weithredoedd ei allu yn y greadigaeth gyntaf, â'r greadigaeth newydd, gan fawrhau yr olaf uwchlaw y gyntaf. Os dadleuir mai yr oruchwyliaeth newydd mewn cyferbyniad i'r hên osodir allan yn y geiriau yna, dyma eiriau eraill ynte: "Dyrchefwch eich llygaid tua'r nefoedd, ac edrychwch ar y ddaear isod: canys y nefoedd a ddarfyddant fel mŵg, a'r ddaear a heneiddia fel dilledyn, a'i phreswylwyr yr un modd a fyddant meirw; ond fy iachawdwriaeth I a fydd byth, a'm cyfiawnder ni dderfydd." (Esa. li. 6.) Ond heblaw hyny, y mae doethineb Duw yn y drefn hon yn datguddio priodoliaethau nad oeddynt wedi eu datguddio erioed o'r blaen—ei drugaredd a'i raslonrwydd. Daeth y Duw mawr yn adnabyddus dan enwau newydd yn natguddiad y drefn o iachawdwriaeth dyn—Duw'r *amynedd*, Duw'r *dyddanwch* a'r *gobaith*, Duw *trugarog a graslawn*. Doethineb a drefnodd y ffordd a'r moddion i wneyd hyn. Yn y ffurfafen hon hefyd y cyfododd haul ei gariad yn ei lawn ogoniant: "Yn hyn y mae cariad,"—"Yn hyn yr eglurwyd cariad Duw"—yn hyn, "am iddo ein caru ni, ac anfon ei Fab i fod yn iawn dros ein pechodau ni." (1 Ioan iv. 10.)

2. *Y mae doethineb, yn nhrefn yr efengyl, yn cysoni ac yn cadarnhau hawliau deddf a chyfiawnder â gwaith trugaredd a gras yn achubiaeth yr euog.* Nid yw y priodoliaethau newyddion a ddatguddir ynddi yn milwrio yn erbyn y rhai oedd yn ddatguddiedig o'r blaen; nid yw trugaredd yn diddymu hawliau cyfiawnder wrth gyfiawnhau yr annuwiol, fel y crybwyllwyd eisoes; ond y mae ei holl hawliau yn cael eu cydnabod a'u cadarnhau. "Wrth hyny, a ydym ni yn gwneuthur y ddeddf yn ddirym trwy ffydd? Na ato Duw: eithr yr ydym yn cadarnhau y ddeddf." (Rhuf iii. 3.) *Wrth hyny*—wrth gyhoeddi mai "trwy ffydd y cyfiawn-

heir dyn," ac nid "trwy weithredoedd y ddeddf." Pregethu cyfiawnhad pechadur trwy weithredoedd y ddeddf fuasai yn ddirymiad ar y ddeddf mewn gwirionedd; gofyna hi natur bur a dilwgr; ufudd-dod cyflawn a digoll i'w holl orchymynion; mwy na hyny ni fyn ofyn, a llai na hyny ni all dderbyn. Lle y caffo hyny gan ei deiliaid, y maent yn gyfiawn wirioneddol ger ei bron; ond cynyg iddi ufudd-dod anmherffaith troseddwr yn sail ei gyfiawnhad, ydyw y sarhad mwyaf ellir ei daflu arni; byddai y fath gyfiawnhad yn ddirymiad hollol iddi. *Problem* fawr ein hiachawdwriaeth ni ydoedd cael trefn—modd i gadw y gyfraith yn ei grym a'i bri wrth gyfiawnhau yr annuwiol, diogelu anrhydedd cyfiawnder a gwirionedd wrth faddeu i'r euog—a'r drefn hono a gafodd doethineb allan ac a ddatguddia hi yn yr efengyl. "Yr hwn a osododd Duw yn iawn, trwy ffydd yn ei waed Ef, i ddangos ei gyfiawnder Ef, trwy faddeuant y pechodau a wnaethid o'r blaen, trwy ddioddefgarwch Duw; i ddangos ei gyfiawnder Ef y pryd hwn; fel y byddai Efe yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu." (Rhuf. iii. 25, 26.) Yn ngosodiad Crist yn iawn dros bechod, ac yn ngweinyddiad maddeuant pechodau trwy yr iawn hwnw—yn ngwneyd "yr hwn nid adnabu bechod, yn bechod trosom ni," a'n "gwneyd ni yn gyfiawnder Duw ynddo Ef" (2 Cor. v. 21), y mae deddf a chyfiawnder, yn gystal â thrugaredd a gras, yn cael eu cyfiawnhau a'u gogoneddu. Yn nghyfiawnhad pechadur "trwy ffydd yn ei waed Ef," nid yw llythyren y gyfraith yn cael ei chadw, y mae yn wir, canys cosp ei throseddwr ei hun y mae hi yn ofyn; ond os caiff beth a etyb cystal dyben i arddangos ac amddiffyn ei hawdurdod a'i hanrhydedd, y mae hi yn berffaith foddlawn i ryddhau yr euog trwy faddeuant; a hyny a gafodd hi, a mwy na hyny, yn "Yr Hwn a osododd Duw yn iawn"—cafodd ufudd-dod a marwolaeth person o urddas a gwerth anfeidrol

yn y llywodraeth, "Y cyfiawn dros yr anghyfiawn:" a rhagor na hyny hefyd, adferu ei throseddwyr yn ol i ufudd-dod iddi, cyflawni ei "chyfiawnder hi ynddynt," fel y rhoddont berffaith ufudd-dod iddi byth, wedi eu cwbl sanct-eiddier drwy oruchwyliaethau y drefn. Ni buasai ei chosp a'i melldith hi byth yn eu hadferu yn ol i ufudd-dod; "Yr hyn ni allai y ddeddf" hono, y mae "deddf ysbryd y bywyd yn Nghrist Iesu" yn ei wneyd. Yr amlygiad uchaf oll o ddoethineb Duw ydyw y drefn sydd yn gwneyd hyn.

3. *Yn y drefn hon, y mae Duw ei Hun wedi ei lawn foddloni am byth.* Yn yr olwg ar ei WAS CYFIAWN oedd i weithio allan y drefn—y ddoethineb oedd yn ddirgelwch cuddiedig yn ei fynwes cyn yr oesau—saith can mlynedd cyn iddo ymddangos, dywedodd am dano, "Fy anwylyd, yn yr Hwn y mae fy enaid yn foddlawn" (Esa. xlii. 1); a phan oedd Efe ar y ddaear yn ei gweithio, llefodd ddwy-waith o'r nefoedd, "Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd." Y mae yn drefn sydd yn llawn foddloni daioni a charedigrwydd anfeidrol ei natur Ef: "Boddlon-rwydd ei ewyllys"—ei ewyllys da Ef. Nid oedd Efe megis wedi llawn foddloni ei Hun ar ddim a ddatguddiasai Efe o hono ei Hun, nes datguddio y ddoethineb hon. Yn nat-guddiedigaethau daeareg, canfyddir ei fod wedi bod yn gweithio drwy feithion gyfnodau dirif, ac yn dwyn cyfnewid-iadau mawrion, y naill ar ol y llall, ar y ddaear; graddau o greaduriaid yn codi yn uwch uwch mewn bodoliaeth ar ol eu gilydd, ac yn cael eu dodi heibio megis o'r neilldu, y naill ar ol y llall, fel pe na buasent yn werth eu cynal a'u parhau. Nid oedd ynddynt y gallu i fwynhau bodoliaeth a bywyd ond i fesur bychan iawn, ac felly, nid oedd colli eu bywyd a'u bodoliaeth yn un golled iddynt: erys eu hesgyrn yn domenydd yn nghellau y creigiau, yn dystiolaeth o'u bodoliaeth rywbryd. O'r diwedd, dyma goron creadigaeth y

ddaear yn cael ei dwyn allan yn y *dyn.* Yr oedd pob peth yn *dda* o'r blaen, yn ngolwg y Creawdwr; ond yn awr, "Wele, *da iawn* oedd." Dyma greadur all fwynhau daioni, ac a all fwynhau a chymdeithasu a'r Daioni anfeidrol ei Hun. Darparodd yn rhyfedd ar gyfer angenrheidiau a dymuniadau y creadur hwn; gwisgasai Eden â phob prydferthwch a gogoniant i'w dderbyn a'i groesawi ar ei ddeffroad cyntaf mewn bodoliaeth a bywyd; gwnaethai i "bob pren dymunol i'r golwg a daionus yn fwyd" dyfu o'r ddaear, yn llwythog o bob danteithion i'w ddiwallu a'i foddhau; ac i "Bren y bywyd, yn nghanol yr ardd," yn llawn o ffrwyth anfarwoldeb, iddo i fwyta o hono a byw yn dragwyddol, a pharhau yn oes oesoedd yn harddwch a hoewder ieuenctyd ei greadigaeth. Dyma lestr ar ei fwrdd yn awr, i'r hwn y gall Efe dywallt iddo o'i haelioni, fendithion ei natur Ysprydol ei Hun. Ond, och! syrthiodd y llestr ardderchog dros y bwrdd, a drylliodd y ddelw ogoneddus a gerfiasid arno yn chwilfriw yn y cwymp, a'r Hwn a'i gwnaeth yn edifarhau uwch ei ben ddarfod iddo ei lunio; ond yn lle taflu ei ddarnau i domen celaneddau y creaduriaid a drengasent yn ystod y cyfnodau blaenorol, daeth "y ddoethineb guddiedig" allan, i gymeryd y llestr drylliedig i fyny i'w ail doddi a'i ad-lunio i fod yn "llestr Trugaredd" eto; tywalltodd hi ei maddeuant i'w archollion i'w meddyginiaethu. Ni redasai diferyn o'i holew hi (trugaredd) allan erioed cyn hyny; yn Eden y maddeuodd hi bechod y waith gyntaf erioed, ac ni roddes heibio y gwaith byth o hyny hyd yn awr; y mae wedi bod yn maddeu aneirif feiau bob dydd, o'r dydd hwnw hyd y dydd heddyw. Yn y drefn i faddeu y gogoneddodd Duw ei "Fawr amryw ddoethineb," yn fwy nac mewn un datguddiad arall a wnaeth o honi erioed: "Efe a lonydda yn ei gariad"—yn ei garedigrwydd a ddatguddia Efe yn y drefn hon o ras. Ni chawsai le i ymlonyddu ynddo mewn dim a

wnaethai o'r blaen. Ni buasai yn canu wrth wneyd dim a wnaethai, nes y daeth allan mewn trugaredd i achub yn ffordd ei ras; a doethineb a bia'r goron a'r clod am chwilio allan a darparu y drefn hon. Y mae daioni a haelfrydedd Duw ein creawdwr yn ei ragluniaeth i'w greaduriaid yn ogoneddus, pan feddyliom am y byrddau mawrion aneirif a osododd Efe yn eangder annherfynol y gwagle, ac y taena Efe trostynt y goleuni megis llian gwỳn a glân, a'r miliynau na ddichon neb eu rhifo sydd yn ymborthi bob dydd ar arlwyadau ei garedigrwydd ar y byrddau hyny. "Y rhai hyn oll a ddisgwyliant wrthyt; am roddi iddynt eu bwyd yn ei bryd. A roddech iddynt, a gasglant; agori dy law, a diwellir hwynt â daioni." (Salm civ. 27, 28.) "Llygad pob peth byw a ddisgwyliant wrthyt; ac yr ydwyt yn rhoddi eu bwyd iddynt yn ei bryd; gan agoryd dy law, a diwallu pob peth byw a'th ewyllys da." (Salm cxlv. 15, 16.) I foddlonrwydd ei *ewyllys da* y creodd Efe hwynt yn greaduriaid, megis llestri gweigion iddo i dywallt iddynt o gyflawnder ei ddaioni i'w diwallu a'u lloni. Ond edrycher ar ddyn; y mae angenrheidiau ei natur ef yn fwy, ac yn fwy amrywiol nac angenrheidiau natur un creadur arall y gwyddom am dano; a'r fath ddarpariadau lluosog sydd wedi eu trefnu ar ei gyfer ef! y mae y ddaear fel pe byddai ar ei goreu bob blwyddyn i gynyrchu pob rhyw odidog ffrwythau i'w gynal a'i loni! y maes, yr ardd, a'r winllan fel yn ymryson â'u gilydd i ddarparu ymborth a danteithion iddo! Y fath olwg a welir ar ei fwrdd ef pan fyddo wedi ei hulio ger ei fron! y mae yr eidion o'r beudy, y ddafad o'r gorlan, yr adar dofion o'r buarth, a'r adar gwylltion o'r awyr, y pysg o'r môr ac o'r afon, yn cydgyfarfod arno; a ffrwythau peraidd coed yr ardd a'r winllan yn bentyrau o'i flaen: y mae ei fywyd ef megis yn sugno bywyd pob creadur arall iddo ei hun. O ddyn! "Ymenyn gwartheg, a llaeth defaid, yn nghyd a brasder wŷn, a hyrddod o rywogaeth

Basan, a bychod, yn nghyd a brasder grawn gwenith, a phur-waed grawnwin a yfaist." (Deut. xxxii. 14.) Wele, dyma fwytawr ac yfwr heb ei ail! Y fath amrywiaeth sydd ar ei fwrdd! rhaid iddo gael goreuon bethau y ddaear a'i chreaduriaid i'w ddiwallu; hufena frasder y byd—brasder wŷn, brasder hyrddyd a bychod, brasder ymenyn gwartheg a llaeth defaid, brasder grawn gwenith, a brasder grawn y winwydden a'r coed ffrwythlawn, i wneyd ei fwrdd ei hun yn fras. A sonia ef am fwystfilod rheibus a gwancus? pa greadur mor rheibus ag ef ei hun? Yr un peth fuasai i allu ein Creawdwr ein llunio yn greaduriaid i fyw heb angen am ymborth i gynal ein natur, neu ddarparu elfenau ein cynaliaeth yn yr awyr a anadlwn, fel y gallasem ei sugno i'n cyfansoddiad yn ddiarwybod i ni ein hunain; neu beri y buasai fod un pryd o fwyd yn ddigon o gynaliaeth i'n natur am flwyddyn, neu am ein hoes. Yn lle hyny, rhaid i ni gael tri neu bedwar pryd o ymborth bob dydd. Paham felly? Dim, ond am fod ein Tad nefol yn caru gweled ei blant yn cnoi ar ei fwrdd yn barhaus; am ei fod yn hoffi gweini arnynt, i "lenwi eu calonau â lluniaeth ac â llawenydd" lawer gwaith bob dydd. "Rhoddi iddynt yn helaeth —rhoddi iddynt yn helaeth *bob peth*, a rhoddi iddynt yn helaeth bob peth i'w fwynhau." Y mae Efe ei Hunan megis yn sefyll ar ben y bwrdd i dori atynt ac i'w cymell, gan ddywedyd, "Bwytewch ger bron yr Arglwydd eich Duw, a llawenhewch yn mhob dim y gosodwch eich llaw arno." (Deut. xii. 7.) "Ti a gai ladd a bwyta cig yn ol holl ddymuniant dy galon, yn ol bendith yr Arglwydd dy Dduw, yr hon a rydd Efe i ti, yn dy holl byrth" (adn. 15). "Dod yr arian am yr hyn oll a chwenycho dy galon; am wartheg, neu am ddefaid, neu am win, neu am ddiod gref, neu am yr hyn oll a ddymuno dy galon: a bwyta yno ger bron yr Arglwydd dy Dduw, a llawenycha di, a'th deulu." (Deut.

xiv. 26.) Dyma groesaw calon Tad i'w blant wrth ei fwrdd; ond rhaid iddynt ofalu na "fwytaont hyd lythineb, ac na yfont hyd feddwdod;" os felly, tynant ei anfoddlonrwydd arnynt a niweidiant eu hunain, gan droi y bendithion yn felldithion yr un pryd. Dyma fwrdd rhagluniaeth—darpariadau doethineb a daioni Duw i ddiwallu anghenion a dymuniadau natur dyn. Ond, y mae yspryd mewn dyn, ac mae anghenion hwn o natur uwch ac yn fwy fyth. Enaid euog, newynog, sychedig, a noeth: fe drenga hwn o angen ac eisiau yn nghanol y darpariadau yna; ni all efe ymborthi ar frasder wŷn, na brasder gwenith, na thori ei syched ar bur-waed y grawnwin. I ddarparu ac arlwyo er cyflawni a diwallu anghenion ysprydol dyn, fel pechadur, daeth y "ddoethineb guddiedig" allan o'i dirgelwch: "Adeiladodd ei thŷ, hi a naddodd ei saith golofn. Hi a laddodd ei hanifeiliaid; hi a gymysgodd ei gwin, ac a huliodd ei bwrdd. Hi a yrodd ei llawforwynion; y mae hi yn llefain ar fanau uchel y ddinas; Pwy bynag sydd annichellgar, troed i mewn yma: ac wrth yr annoeth y mae hi yn dywedyd, Deuwch, a bwytewch o'm bara, ac yfwch o'r gwin a gymysgais." (Diar. ix. 1–5.) "Ac y mae yr Yspryd a'r briodasferch yn dywedyd, Tyred. A'r hwn sydd yn clywed, dyweded, Tyred. A'r hwn sydd a syched arno, deued: a'r hwn sydd yn ewyllysio, cymered ddwfr y bywyd yn rhad." (Dat. xxii. 17.) Edrycher ar bechadur wrth fwrdd doethineb—bwrdd y wledd a "wnaeth Arglwydd y lluoedd i'r holl bobloedd yn y mynydd hwn" (Esa. xxv. 6); yma y mae efe yn "Bwyta cnawd ac yn yfed gwaed Mab y dyn" (Ioan vii. 58); yma y mae efe yn sugno bywyd ysprydol a thragwyddol i'w enaid tlawd a newynog, o fywyd a marwolaeth Mab Duw ei Hun! Yma y gwelir doethineb ar ei goreu yn darparu. Ar ei bwrdd hwn y mae hi yn agor costrelau ei gwinoedd goreu, oedd wedi eu cadw yn nghellau cuddiedig ei bwriadau "cyn yr oesau,"

ac yn y ddarpariaeth hon y mae y Duw mawr wedi boddloni, a llawn foddloni daioni a haelfrydedd ei natur gariad lawn.

4. *Y mae datguddiad y ddoethineb hon, yn iachawdwriaeth a gogoneddiad pechadur, yn rhoddi llawn foddlonrwydd i holl ddeiliaid ufudd llywodraeth Duw.* Ac nid hyny yn unig, y mae wedi agor ffynon newydd o ddedwyddwch iddynt. Er

"Erioed na cha'dd angelion flas
O'i gariad, trwy faddeuol ras,"

cawsant ryw flas a mwynhad newydd, na phrofasent o'r blaen, trwy y datguddiad hwn i ddyn: "Ar yr hyn bethau y mae yr angelion yn chwenychu edrych" (1 Petr i. 12), ac yn parhau i edrych byth. Yr oedd hyn yn cael ei bortreiadu mewn arwyddluniau yn Nghysegr Sancteiddiolaf y Babell a'r Deml. Yno portreiadwyd Duw wrth ei fodd ar y drugareddfa, yn derbyn pechadur ac yn maddeu bai. Am y lle hwnw y dywedodd Efe, "Dyma fy ngorphwysfa yn dragywydd: yma y trigaf; canys chwenychais hi. Gan fendithio y bendithiaf ei lluniaeth: diwallaf ei thlodion â bara. Ei hoffeiriaid hefyd a wisgaf âg iachawdwriaeth." (Salm cxxxii. 14–16.) Dyma lais Duw wrth ei fodd am byth, ar y drugareddfa; ond pa fodd y mae y rhai sydd o flaen y drugareddfa, deiliaid ei gweinidogaeth hi, yn teimlo? wrth eu bodd o angenrheidrwydd: "A'i saint dan ganu a ganant," a dim rhyfedd, pan y mae hedd a maddeuant yn llifeirio i'w heneidiau o honi. Y mae y ddeddf, ar y llechau o dan y drugareddfa, yn ddistaw, dawel, wrth ei bodd yn sŵn y maddeuant a gyhoeddir i'w throseddwyr uwch ei phen; y ddau gerub, y portreiad o'r angelion, yn sefyll un ar bob pen i'r drugareddfa, yn edrych i lawr arni gyda syndod a mwynhad nad yw yn darfod nac yn lleihau byth!

"Wedi iddo wneuthur heddwch trwy waed ei groes Ef, trwyddo Ef gymodi pob peth âg Ef ei Hun, trwyddo Ef, meddaf, pa un bynag ai pethau ar y ddaear, ai pethau yn y nefoedd." (Col. i. 20.) Y mae Efe ei Hun, a'r pethau ar y ddaear, a'r pethau yn y nefoedd, dynion euog ac angelion sanctaidd, yn cyd-gyfarfod ac yn cyd-drigo mewn cymod a chariad yn nghysegr yr iachawdwriaeth, a Thywysog ac Awdwr yr iachawdwriaeth dragwyddol hono, yr hwn a berffeithiwyd drwy ddioddefiadau ac angeu i'w phwrcasu, wrth ei fodd, ac yn cael ei ddiwallu yn ffrwyth llafur ei enaid.

"Boddloni 'n llawen y mae 'r Tad,
Wel'd ffrwyth ei fythol gariad rhad:
A'r Mab yn llon a edrych lawr,
Ar bwrcas ei ddioddefaint mawr.

"A hoffi gwel'd mae Yspryd Duw
Yr enaid marw wnaeth E'n fyw:
A seintiau ac angelion glân,
Am gynydd teyrnas Dduw a gân."

Pawb trwy holl lywodraeth Duw yn cyd-lawenhau ac yn cyd-ymhyfrydu yn "Mawr amryw ddoethineb Duw" yn y drefn, ond y diafol a'i angelion. Eu gelyniaeth hwy yn erbyn Duw a'i lywodraeth, a'u cenfigen at adferiad dyn o'r trueni y dygasant ef iddo, a methiant eu hamcan i lwyr ddinystrio y ddynoliaeth am byth, sydd yn peri eu bod yn anfoddlawn i'r drefn; ni chawsant ddim, ni wnaed dim, anghyfiawnder â hwy. Edrychant ar y dyrfa fawr o gleifion dynol wedi eu cwbl iachau, yn canu ger bron yr orsedd, yn llawn anfoddlonrwydd a chenfigen, fel yr edrychai yr arch-offeiriaid a blaenoriaid yr Iuddewon gynt ar y cloff a iach-esid yn mhorth y deml, "Yn rhodio ac yn neidio, ac yn moli Duw;" ond "Nid oedd ganddynt ddim i'w ddywedyd

yn erbyn hyny." (Act. iv. 14.) Na, nid oedd ganddynt ddim i'w ddywedyd yn erbyn hyny, canys nid oedd iachad y cloff wedi gwneyd un niwed na cholled iddynt hwy, nac i neb arall. Ni bydd gan ddiafol a'i angelion ddim i'w ddywedyd yn erbyn iachawdwriaeth y dyrfa fawr a brynwyd oddiar y ddaear, canys ni wnaed na thrais na cham â hwy wrth eu gwaredu. Dysgwn—

1. Fod yr ystyriaeth mai yn nhrefn ei ras er ein hachubiaeth—"*I'n gogoniant ni*"—y gwelodd Duw yn dda ogoneddu ei ddoethineb yn fwy nac mewn dim arall a wnaeth Efe erioed, yn ein gosod ni dan fwy o rwymedigaethau i'w garu, ei fawrhau, a'i ogoneddu, na neb creaduriaid eraill yn ei lywodraeth, Geilw y Salmydd, "Molwch yr Arglwydd. Molwch yr Arglwydd o'r nefoedd: molwch Ef yn yr uchelderau. Molwch Ef, ei holl angelion; molwch Ef, ei holl luoedd. Molwch Ef, haul a lleuad: molwch Ef, yr holl sêr goleuni," &c. (Salm cxlviii. 1–3.) Wedi galw heibio i'r nefoedd a'r ffurfafen, i gymell pawb a phob peth i foli yr Arglwydd, disgyna i'r ddaear, gan alw y dreigiau a'r dyfnderau, tân a chenllysg, eira a tharth, y gwynt ystormus, y mynyddoedd a'r bryniau oll, y coed ffrwythlawn a'r cedrwydd, bwystfilod, yr ymlusgiaid, a'r adar asgellog, i uno yn y mawl; yn olaf ac yn benaf, "Breninoedd y ddaear, a'r holl bobloedd; tywysogion, a holl farnwyr y byd: gwyr ieuainc, a gwyryfon hefyd: henafgwyr a llanciau," (adn. 7–12.)

"Ond dyn yn enwedigol, ië, dyn molianed Ef,
Mewn Haleliwia ddyblyg, o'r ddaear gron i'r nef;
Can's dros y dyn 'mestynodd Ef ar y croesbren mawr.
A thros y dyn gorweddodd yn ngwaelod bedd i lawr.

"O! foroedd o ddoethineb oedd yn y Duwdod mawr!
Fel hyn gyfranu ei gariad i bryfaid gwael y llawr,
A gwneuthur i'w drugaredd ai dostur maith ynghyd,
I redeg megis afon lifeiriol tros y byd."

Wel, rheded yr afon lifeiriol o foliant dros y byd a thros y nefoedd byth am hyn—

"Byth yn anwyl, meibion dynion mwy a'th gâr."

2. Mai yn wyneb y drefn y datguddiodd Duw ei ddoethineb yn benaf ynddi, yr amlyga dyn, yntau, fwyaf o ynfydrwydd a drwg ei galon yn ei wrthodiad o honi. Gwrandewch beth a ddywed doethineb ei hun ar hyn. Wedi canmol a chymell trysorau ei gras ar feibion dynion, llefa, gan ddywedyd: "Yr awr hon gan hyny, O feibion, gwrandewch arnaf; canys gwŷn eu byd a gadwant fy ffyrdd i. Gwrandewch addysg, a byddwch ddoethion; nac ymwrthodwch â hi. Gwŷn ei fyd y dyn a wrandawo arnaf, ac a wylio yn ddyfal beunydd wrth fy nrysau, gan warchod wrth byst fy mhyrth i. Canys y neb a'm caffo a gaiff fywyd, ac a feddiana ewyllys da gan yr Arglwydd. Ond y neb a becho yn fy erbyn, a wna gam a'i enaid ei hun: fy holl gaseion a garant angau." (Diar. viii. 32–36.) Paham, paham y gwnai y dyn y fath gam a'i enaid ei hun, drwy wrthod y bywyd, yr iachawdwriaeth, a'r gogoniant a gynygir iddo yn rhad o law y ddoethineb anfeidrol a'i trefnodd ar ei gyfer? Pa ynfydrwydd a chreulondeb cyffelyb i'r ynfydrwydd a'r creulondeb yma? Nid oes un creadur yn llywodraeth Duw a all dynu arno ei hun y fath euogrwydd a dinystr a'r dyn a wrthoda, neu a esgeulusa yr iachawdwriaeth a gynygir iddo. Gynifer sydd yn troi ymaith, yn ddiystyr ganddynt, bob Sabboth, "un i'w faes, ac arall i'w fasnach," o sŵn gwahoddiadau yr efengyl i'r wledd a arlwyodd doethineb iddynt! ond ni phery fel hyn yn hir; ni ddeil doethineb i alw a gwahodd o hyd; dywed hithau, o'r diwedd, "Yn gymaint ag i mi eich gwahodd, ac i chwithau wrthod; i mi estyn fy llaw, a neb heb ystyried: ond diystyrasoch fy holl

gyngor i, ac ni fynech ddim o'm cerydd. Minau hefyd a chwarddaf yn eich dialedd chwi, mi a wawdiaf pan syrthio arnoch yr hyn yr ydych yn ei ofni; pan ddel arnoch yr hyn yr ydych yn ei ofni megis distryw, ac y del eich dialedd arnoch megis corwynt; a dyfod arnoch wasgfa a chaledi. Yna y galwant arnaf, ond ni wrandawaf; yn fore y'm ceisiant, ond ni'm cant: canys câs fu ganddynt wybodaeth, ac ofn yr Arglwydd ni ddewisasant. Ni chymerent ddim o'm cyngor i; dirmygasant fy holl gerydd. Am hyny hwy a gant fwyta ffrwyth eu ffordd eu hunain, a'u llenwi a'u cynghorion eu hunain. Canys esmwythdra y rhai anghall a'u lladd; a llwyddiant y rhai ffol a'u difetha." (Diar. i. 24–32.) Nid oes yn yr holl Fibl dymhestl o gorwynt a tharanau mwy ofnadwy nac a glywir yn rhuo yn y geiriau yna; doethineb wedi digio yn tynu ei llaw yn ol, ac yn troi ei chefn am byth ar ei gwrthodwyr a'i dirmygwyr, ac yn eu rhoi i fwyta a byw ar ffrwyth marwol eu cynghorion eu hun. "Er hyny y sawl a wrandawo arnaf fi, a gaiff aros yn ddiogel, ac a gaiff lonyddwch oddi wrth ofn drwg." (adn. 33.)

"I'r unig ddoeth Dduw, ein Hiachawdwr ni, y byddo gogoniant a mawredd, gallu ac awdurdod, yr awr hon ac yn dragywydd. Amen." (Judas, 25.)

# PREGETH IX.

## LLYWODRAETH DUW.

"Yr Arglwydd a barotodd ei orseddfa yn y nefoedd; a'i freniniaeth Ef sydd yn llywodraethu ar bob peth."—*Salm* ciii. 19.

Y gwirionedd cyntaf yn nghrefydd natur, ac yn nghrefydd y Bibl yw, Bod Duw; hwn yw colofn a sylfaen crefydd: "Canys rhaid i'r hwn sydd yn dyfod at Dduw, gredu ei fod Ef," (Heb. xi. 6.) Hwn, gan hyny, yw y cyntaf a'r gwirionedd mawr; a'r ail sydd gyflelyb iddo, *Bod Duw yn llywodraethu y byd*—"Bod ei freniniaeth Ef ar bob peth"—bod yr Hwn a greodd ac sydd yn cynal bob peth, yn goruwchlywyddu arnynt. Ceisiodd llawer gynt, a cheisia llawer eto, wadu y gwirionedd cyntaf—Bodoliaeth Duw personol, gan wneyd natur yn dduw, a phob peth yn natur yn rhanau o'r duw hwn; hwy eu hunain, a hwn a hwnacw—pawb; ond bu mwy a wadent, ac y mae mwy yn awr a wadant, yr ail wirionedd. Caniatant ei *Fodoliaeth* i'r anfeidrol, ond dygant ei *Lywodraeth* oddiarno; os oedd angen am dano i greu, nad oes dim o'i eisieu i gynal a llywodraethu; y gwna deddfau natur hyny yn ddigon rhwydd, heb iddo Ef ofalu nac ymyraeth dim â'r achos. "Gadawodd yr Arglwydd y ddaear," meddai henuriaid tŷ Israel yn amser Eseciel gynt, ac y mae i'r hên athrawiaeth hono lawer o ddysgyblion yn

y byd yn mhob oes. Nid oes un gwirionedd yn cael ei dystio yn amlach yn yr Ysgrythyr na'r gwirionedd hwn, "Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu;" gorchmynir ei gyhoeddi i'r byd, "Dywedwch yn mysg y cenhedloedd, yr Arglwydd sydd yn teyrnasu" (Salm xcvi. 10), a'i efengylu i Sïon, gan ddywedyd, "Dy Dduw sydd yn teyrnasu" (Esa. lii. 7). O herwydd y myn dynion wadu y gwirionedd hwn yn anad nemawr un gwirionedd, mynai Duw ei ardystio wrthynt yn ei air mor bendant ac mor fynych. Y mae calon lygredig dyn erioed yn awyddus i gadw Duw draw yn mhell oddi wrtho; caiff fod yn rhywle "yn uchelder y nefoedd, y tu hwnt i'r ser," neu "yn y cwmwl tywyll" (Job xxii. 12, 13), ond iddo gadw draw o'r ddaear yn ddigon pell, fel na allo Efe weled a barnu dim a wneir yma. Hon oedd yr "Hên ffordd a sathrodd y gwŷr enwir (y cyn-ddiluwiaid), y rhai a dorwyd pan nad oedd amser, ac y tywalltwyd afon ar eu sylfaen hwynt. Hwy a ddywedasant wrth Dduw, Cilia oddi wrthym: a pha beth a wna yr Hollalluog iddynt hwy?" (*ib.* 15–17.) Dyma a wnaeth yr Hollalluog iddynt o'r diwedd, wedi iddynt ei herio am gannoedd o flynyddoedd, Efe a dderbyniodd eu hèr, ac a'u llwyr argyhoeddodd ei fod Ef yn gweled, yn barnu, ac yn teyrnasu ar y ddaear, drwy weinidogaeth nerthol ac effeithiol y diluw.

Oddiwrth y testyn, sylwn yn

1. Y Brenin—"*Yr Arglwydd a barotodd ei orseddfa yn y nefoedd.*" Wrth orseddfa—gorseddfainc Duw, yr ydym i ddeall ei hawl oruchaf a'i awdurdod gyfiawn i drefnu, llywodraethu, a barnu holl achosion y nef a'r ddaear. Wrth orsedd Prydain yr ydym yn deall awdurdod llywodraeth y wlad, yr hon a gynrychiolir yn yr eisteddfa o'r hon y gweinyddda y penadur, neu swyddog apwyntiedig ganddo, raith a barn ar achosion y wladwriaeth. Nid ydym i feddwl fod rhyw eisteddfa oruchel, weledig felly, yn perthyn i'r

Brenin mawr—ei fod Ef yn gwisgo ffurf, a choron, ac yn dal teyrnwialen yn ei law, fel y mae breninoedd y ddaear—ymadroddion ffugyrol ydyw yr ymadroddion yn eu perthynas âg Ef.

Priodola yr ysgrythyr yr hawl wreiddiol, dragwyddol i lywodraethu a barnu y byd, bob amser,. i'r Tad, y person cyntaf yn yr Hanfod ddwyfol; nid ddarfod iddo ei chael drwy drosglwyddiad o honi iddo, ond ei bod ynddo o angenrheidrydd, fel achos cyntaf a meddianydd pob peth. Y mae yr ysgrythyr hefyd yn dysgu yr un mor eglur a phendant, ddarfod i'r Tad, "wrth gyngor ei ewyllys ei Hun," drosglwyddo y llywodraeth ddwyfol i law y Mab, fel Duw-ddyn "a chyfryngwr rhwng Duw a dynion." Yn nghân Hanna y cawn yr awgrymiad cyntaf oll yn yr ysgrythyr, hwyrach, o'r dirgelwch mawr hwn. "Yr Arglwydd a farn derfynau y ddaear; yr Arglwydd a ddyry nerth i'w frenin, ac a ddyrchafa gorn ei eneiniog." (1 Sam. ii. 10.) Yr ydym yn synu cael yr ymadroddion hyn yn y fan hon o'r ysgrythyr. Ni buasai frenin yn Israel erioed eto, ac nid oedd y genedl erioed wedi son na meddwl am gael brenin i deyrnasu arni, ac felly, nid oedd gan Jehofa frenin ac eneiniog yn yr ystyr hono i son am dano. Nis gellir, gan hyny, ddeall geiriau Hanna ond yn unig fel proffwydoliaeth am y Messia, faint bynag oedd hi ei hun yn allu ddirnad o'r hyn a lefarai, nid yw o bwys; rhaid i ni gredu fod Yspryd Duw yn llefaru ynddi, ac mai ei ymadrodd Ef oedd ar ei thafod hi; a hyny yn unig a rydd gyfrif pa fodd y gallasai lefaru y fath ymadroddion y pryd hwnw. Y nesaf o'r ysgrifenwyr sanctaidd a lefara am freniniaeth y Mab—y Messia, yw Dafydd, y brenin cyntaf yn Israel a gyfodwyd fel cysgod o'r Messia a'i freniniaeth; canys nid oedd Saul, a'i freniniaeth frau ef, yn cysgodi Crist a'i freniniaeth mewn un modd. Yr oedd megis yn naturiol disgwyl

y buasai yr Yspryd Glân trwy enau Dafydd yn llefaru ar y mater hwn, gan ei fod fel brenin wedi ei eneinio i fod yn gysgod o'r Eneiniog mawr oedd i gael ei gyfodi o'i hâd ef; ac felly y mae efe yn ei eiriau diweddaf (2 Sam. xxiii. 1–7), ac yn ei Salmau (ii, xliv, lxxiii, a cx), ac yn achlysurol mewn llawer ereill o'r Salmau. A thrachefn, y mae Esaias yn ymhyfau ac yn dywedyd, "Bachgen a aned i ni, Mab a roddwyd i ni, a bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd Ef; a gelwir ei enw Ef, Rhyfeddol, Cynghorwr, y Duw cadarn, Tad tragwyddoldeb, Tywysog tangnefedd. Ar helaethrwydd ei lywodraeth a'i dangnefedd ni bydd diwedd, ar orseddfa Dafydd, ac ar ei freniniaeth Ef, i'w threfnu hi, ac i'w chadarnhau â barn ac â chyfiawnder, o'r pryd hwn, a hyd byth. Zêl Arglwydd y lluoedd a wnaeth hyn. Esa. ix. 6, 7.) Cyfeiria y proffwydi ereill, Jeremia ac Eseciel, yn achlysurol, at y Messia fel Brenin. Cafodd Daniel ddatguddiad mewn gweledigaeth ogoneddus o roddiad y freniniaeth a'r llywodraeth gan y Tad i'r Messia. "Edrychais hyd oni fwriwyd i lawr y gorseddfeydd, a'r Hên ddienydd a eisteddodd: ei wisg oedd cyn wŷned a'r eira, a gwallt ei ben fel gwlan pur; ei orseddfa yn fflam dân, a'i olwynion yn dân poeth. Afon danllyd oedd yn rhedeg ac yn dyfod allan ger ei fron Ef: mil o filoedd a'i gwasanaethent, a myrdd fyrddiwn a safent ger ei fron: y farn a eisteddodd, ac agorwyd y llyfrau. Mi a welwn mewn gweledigaethau nos, ac wele, megis Mab y dyn oedd yn dyfod gyda chymylau y nefoedd; ac at yr Hên ddienydd y daeth, a hwy a'i dygasant ger ei fron Ef. *Ac Efe a roddes iddo lywodraeth, a gogoniant, a breniniaeth, fel y byddai i'r holl bobloedd, cenhedloedd, a ieithoedd ei wesanaethu Ef; ei lywodraeth sydd lywodraeth dragwyddol, yr hon nid â ymaith, a'i freniniaeth ni ddifethir.*" (Dan. vii. 9–14.) Y mae y portreiad yn y weledigaeth, a hanes y ffaith o esgyniad y Gwaredwr i'r nefoedd gan yr efengylwyr, yn cyfateb

yn union i'w gilydd. "Ac wedi iddo ddywedyd y pethau hyn, a hwynthwy yn edrych, Efe a ddyrchafwyd i fyny, a chwmwl a'i derbyniodd Ef allan o'u golwg hwynt." (Act. i. 9.) Y mae gweledigaeth Ioan (Dat. iv. 5,) yn ychwanegiad at weledigaeth Daniel, yn yr hon yr ydym yn cael Mab y dyn, yr Hwn a ddygwyd at yr Hên ddienydd, yn sefyll yn yn nghanol yr orseddfainc, "megis Oen wedi ei ladd;" a'r Hwn oedd yn eistedd ar yr orseddfainc yn cyflwyno y llyfr seliedig iddo Ef, fel yr unig un "teilwng i ddatod ei seliau ac edrych arno," a hyny yn ngŵydd yr holl nefoedd—y dyrfa ogoneddus o saint ac angelion, y rhai sydd yn syrthio ar eu hwynebau ger ei fron, ac yn cyd-lefain â llef uchel, "Teilwng wyt Ti i gymeryd y llyfr, ac i agoryd ei seliau ef." (Dat. v. 9–12.) Arwyddai cyflwyniad y llyfr seliedig i'r Oen a laddwyd, drosglwyddiad gofal yr holl lywodraeth Ddwyfol gan y Tad i'w law Ef, ar gyfrif teilyngdod anfeidrol ei ufudd-dod a'i aberth — gosodiad holl bwys gweinyddiad a gogoniant "y llywodraeth ar ei ysgwydd Ef."

Ond beth a ddywed Mab y dyn ei Hun ar y mater? Efe a ddywed lawer; Efe a ddywed fel hyn: "Canys y Tad nid yw yn barnu neb; eithr Efe a roddes bob barn i'r Mab; fel yr anrhydeddai pawb y Mab, fel y maent yn anrhydeddu y Tad. Yr hwn nid yw yn anrhydeddu y Mab, nid yw yn anrhydeddu y Tad yr hwn a'i hanfonodd Ef." (Ioan v. 22, 23.) Ac fel hyn: "Canys megis y mae gan y Tad fywyd ynddo ei Hunan, felly y rhoddes Efe i'r Mab hefyd fod ganddo fywyd ynddo ei Hun; ac a roddes iddo awdurdod i wneuthur barn hefyd, o herwydd ei fod yn Fab dyn." (*ib.* 26, 27.) A thrachefn y mae Efe yn dywedyd: "Megis y rhoddaist iddo awdurdod ar bob cnawd, fel am y cwbl a roddaist iddo, y rhoddai Efe iddynt fywyd tragwyddol." (Ioan xvii. 2.) A thrachefn eto: "Rhoddwyd

i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear." (Matt. xxvii. 18.) Y mae bysedd yr apostolion hwythau, yn chwareu llawer ar dant yr athrawiaeth ogoneddus hon. "Pan y cyfododd Ef o feirw, ac a'i gosododd i eistedd ar ei ddeheulaw ei Hun yn y nefolion leoedd, goruwch pob tywysogaeth, ac awdurdod, a gallu, ac arglwyddiaeth, a phob enw a enwir, nid yn unig yn y byd hwn, ond hefyd yn yr hwn a ddaw: Ac a ddarostyngodd bob peth dan ei draed Ef, ac a'i rhoddes Ef yn ben uwchlaw pob peth i'r eglwys," medd Paul, (Ephes. i. 20–22.) Eto, "O herwydd paham, Duw a'i tra-dyrchafodd yntau, ac a roddes iddo enw yr hwn sydd goruwch pob enw; fel yn enw Iesu y plygai bob glin, o'r nefolion, a'r daearolion, a than-ddaearolion bethau; ac y cyffesai pob tafod fod Iesu Grist yn Arglwydd, er gogoniant Duw Dad." (Phil. ii. 9, 10.) Dengys Paul mai geiriau y Tad wrth y Mab yw yr ymadroddion yn Salm xlv. 6, 7: "Dy orseddfainc di, O Dduw, sydd yn oes oesoedd: teyrnwialen uniondeb yw teyrnwialen dy deyrnas di. Ti a geraist gyfiawnder, ac a gaseaist anwiredd: am hyny y'th eneiniodd Duw, sef dy Dduw di, âg olew gorfoledd tu hwnt i'th gyfeillion"; a'r ymadroddion hyn yn Salm cii. 25, 26: "Ac, Tydi yn y dechreuad, Arglwydd, a sylfaenaist y ddaear: a gwaith dy ddwylaw di yw y nefoedd. Hwynt-hwy a ddarfyddant: ond tydi sydd yn parhau: a hwynt-hwy oll fel dilledyn a heneiddiant: ond tydi yr un ydwyt, a'th flynyddoedd ni phallant." (Heb. i. 8–12.) Felly y tystiolaetha Petr yntau; "Yr hwn sydd ar ddeheulaw Duw, wedi myned i'r nef; a'r angelion, a'r awdurdodau, a'r galluoedd wedi eu darostwng iddo." (1 Petr iii. 22.) Fel hyn ni a welwn y fesen a blanodd Hanna yn Silo, wedi tyfu yn dderwen fawr, yn taflu ei changenau trwy yr holl broffwydoliaethau am y Messia a'i freniniaeth ar ol hyny, a thrwy dystiolaethau y Testament Newydd yr un modd. Felly, yr Hwn y dywedir yn y

testyn ddarfod iddo barotoi ei "Orseddfa yn y nefoedd," yw y Messia, Mab y dyn.

II. EI FRENINIAETH A'I DDEILIAID—"*Llywodraethu ar bob peth.*" "*Pob peth.*" Y mae y ddau air bychan hyn yn amgylchu, yn gwregysu, yn *graspio* y nefoedd a'r ddaear, a'u holl luoedd hwynt. Dyma freniniaeth a llywodraeth Mab y dyn, "yr Hwn a barotodd ei orseddfa yn y nefoedd."

"Y mae Ef heddyw 'n eistedd ar orsedd ddisglaer fawr,
Yn gweled gylch o gwmpas y cyfan ar y llawr;
Ei Hun yn llywodraethu Gehena fawr a'r Nef,
A therfyn eitha'r ddaear sydd tan ei ofal Ef."

"*Pob peth*" yn llywodraeth y byd anianyddol; "*pob peth*" yn y llywodraeth foesol ar greaduriaid rhesymol a chyfrifol; a "phob peth" yn llywodraeth gras, yn yr Eglwys, ac ar galonau ei bobl. "Fel y byddai Efe yn blaenori yn mhob peth." (Col. i. 18.)

1. *Pob peth yn natur—y byd anianyddol.* Y mae y pethau hyn yn aneirif—y bydoedd oll; a phwy a ŵyr eu nifer ond Efe ei Hun? "Y mae Efe yn rhifo rhifedi y sêr, geilw hwynt oll wrth eu henwau." (Salm cxlvii. 4.) Y mae yn llywodraethu eu symudiadau yn eu gyrfaoedd yn yr eangderau, drwy y cyfryngau a alwn ni, deddfau natur; rhyw briodoleddau cuddiedig a osododd Efe yn eu cyfansoddiad i'w rhwymo yn nghyd a'u diogelu yn eu cylchoedd rheolaidd—yn eu cyd-fantoli yn erbyn eu gilydd, fel nad ydynt byth yn dyrysu y naill y llall, ond yn gwasanaethu eu gilydd. Nid yw y deddfau hyn yn ddim amgen na "Gair ei nerth Ef," fel y dywed yr apostol (Heb. i. 3), neu y moddion drwy ba rai y mae ei ewyllys, neu ei air yn cael ei ddatguddio yn eu llywodraethiad a'u trefn. Holl elfenau y bydoedd, a'r holl greaduriaid a gyfaneddant ynddynt, bob

un dan ddeddf iddo Ef, a'u holl amgylchiadau dan ei ofal a'i lywodraeth. *Pob peth* y ddaear yn gystal a phob peth y nefoedd; pob peth, pob elfen a phob creadur, ac yn neillduol dyn, fel y penaf a'r gwerthfawrocaf, a'r un pryd y goreu a'r gwaethaf o'i greaduriaid. Pob peth yn amgylchiadau bywyd pob dyn: "Efe a benodd yr amserau rhagosodedig, a therfynau eu preswylfod hwynt," (Act. xvii. 26,) a therfynau eu bywyd, eu sefyllfaoedd, a'u hamgylchiadau. Y mae Efe yn llywodraethu yn mreniniaethau y ddaear: "Efe sydd yn datod rhwym breninoedd, ac yn rhwymo gwregys am eu llwynau hwynt. Efe sydd yn gwneuthur i dywysogion fyned yn anrhaith; ac a blyga y rhai cedyrn." (Job xii. 18, 19.) Y mae Efe newydd blygu a nyddu rhai o gedyrn a breninoedd y ddaear, a gwneyd iddynt fyned yn anrhaith yn awr: Efe a blygodd y gŵr cadarn oedd yn llywodraethu yn Ffrainc i'r llwch, ac a wnaeth i'r cablwr anffaeledig yn Rhufain fyned yn anrhaeth gyda ei fod yn cael ei osod i eistedd yn nghadair ei anffaeledigaeth. Bu rhyw ŵr anffaeledig, fel yntau, yn ymfalchïo yn ei gryfder a'i ogoniant yn yr hên Fabilon gynt. "Llefarodd y brenin a dywedodd, Onid hon yw Babilon fawr, yr hon a adeiledais i yn frenindy yn nghryfder fy nerth, ac er gogoniant fy mawrhydi? A'r gair eto yn ngenau y brenin, syrthiodd llef o'r nefoedd, yn dywedyd, Wrthyt ti, frenin Nebuchodonosor, y dywedir, Aeth y freniniaeth oddi wrthyt. A thi a yrir oddiwrth ddynion, a'th drigfa fydd gyda bwystfilod y maes; â gwellt y'th borthant fel eidionau; a chyfnewidir saith amser arnat; hyd oni wypech mai y Goruchaf sydd yn llywodraethu yn mreniniaeth dynion, ac yn ei rhoddi i'r neb y myno." (Dan. iv. 30–32.) Y fendith fwyaf a gafodd y gŵr balch hwnw erioed oedd cael ei droi yn eidion i bori gwellt. Erbyn dyfod ato ei hun, yr oedd wedi dysgu ei wers yn rhagorol yn athrofa y Rhydychain hono; yn well ysgolaig

fil o weithiau na llaweroedd a drowyd allan o brif ysgol ein Rhydychain ni, y rhai a fynant freniniaeth a llywodraeth y Goruchaf. Gwrandewch arno yn adrodd y wers a ddysgasai. "Ac yn niwedd y dyddiau, myfi Nebuchodonosor a ddyrchefais fy llygaid tua'r nefoedd, a'm gwybodaeth a ddychwelodd ataf, a bendithiais y Goruchaf, a molienais a gogoneddais yr Hwn sydd yn byw byth, am fod ei lywodraeth Ef yn llywodraeth dragwyddol, a'i freniniaeth hyd genhedlaeth a chenhedlaeth. A holl drigolion y ddaear a gyfrifir megis yn ddiddim: ac yn ol ei ewyllys ei Hun y mae yn gwneuthur â llu y nefoedd a thrigolion y ddaear; ac nid oes a atalio ei law Ef, neu a ddywedo wrtho, Beth yr wyt yn ei wneuthur? Yr awr hon myfi Nebuchodonosor ydwyf yn molianu, ac yn mawrygu, ac yn gogoneddu brenin y nefoedd, yr hwn y mae ei holl weithredoedd yn wirionedd, a'i lwybrau yn farn, ac a ddichon ddarostwng y rhai a rodiant mewn balchder." (Dan. iv. 34, 35, 37.) Onid yw efe yn llefaru mor ardderchog a hyawdl a'r proffwyd Esaia ei hun!

Dywedwn ei fod yn llywodraethu trwy ddeddfau gosodedig a sefydlog; ydyw, ond y mae Efe yn Arglwydd ar y deddfau hyny hefyd; gall weithio uwchlaw iddynt, atal eu dylanwad fel y myno, a phan y myno; ar achlysuron, "Try'r greadigaeth ol a gwrthol wrth ei air." "Arglwydd ar y Sabbath hefyd yw Mab y dyn" (Matt. xii. 8), ac ar natur a'i deddfau hefyd, fel y profodd Efe lawer gwaith pan oedd ar y ddaear.

"Mae'n eistedd ar ddeheulaw 'r Tad,
  Ar orsedd fawr y nef,
Ac y mae 'r cyfan sydd mewn bod,
  Dan ei awdurdod Ef."

2. *Pob peth yn y llywodraeth foesol ar greaduriaid rhesymol,*

*rhydd, a chyfrifol.* Efe yw Deddf-roddwr y llywodraeth hon, ac sydd yn gweinyddu ei hordeiniadau, ei gwobrwyon, a'i chospau. Llywodraeth yn cael ei gweinyddu mewn gorchymynion, rhybuddion, anogaethau, cymelliadau, gwaharddiadau, bygythion, ac addewidion, ar ddeiliaid yn meddu galluoedd a chymwysderau, a rhyddid ewyllys i ufuddhau neu i anufuddhau, ydyw hon. I'r gangen hon o'r llywodraeth ddwyfol yn unig y gallasai anufudd-dod a gwrthryfel dori i mewn; deiliaid hon yn unig sydd yn gyfrifol i'r orsedd "a barotowyd yn y nefoedd" am eu gweithredoedd. Prif-weinidog y llywodraeth hon yw cyfiawnder, "Yr hwn a dâl i bob un yn ol ei weithred." Yr Hwn "y rhoddes y Tad iddo awdurdod ar bob cnawd," a ordeiniodd Efe hefyd "yn Farnwr byw a meirw" yn y dydd olaf: "Efe a roddes bob barn i'r Mab." Efe, yr Hwn "yw Arglwydd pawb oll," a fydd yn Farnwr pawb oll yn y dydd hwnw.

3. *Pob peth yn llywodraeth gras yn yr Eglwys ar gydwybodau a chalonau ei bobl.* Efe ei Hun yn bersonol, yn nyddiau ei gnawd, a osododd y deyrnas hon i fyny, a drefnodd ei chyfansoddiad, a gyhoeddodd ei hegwyddorion, ei deddfau, a'i llywodraeth; Efe yw ei hunig Ddeddfwr, ei Brenin, a'i Barnwr. "Y mae bydol-lywiawdwyr, tywyllwch y byd hwn," mewn gwrthryfel o'r dechreuad yn erbyn yr orsedd hon, ac am ei thraws-feddianu iddynt eu hunain; rhwymo yr Eglwys, gorff ac enaid, gydwybod a chalon, athrawiaeth a llywodraeth, wrth orsedd eu hawdurdod fydol eu hunain; ac oddi yma y cododd pob erledigaeth oblegid crefydd a fu erioed: llosgodd tân yr eiddigedd hwn fyrddiynau ar fyrddiynau o saint Duw, a merthyron Iesu, am na fynent ymostwng i un awdurdod ond ei awdurdod Ef yn ei air—addef neb ond Efe yn Arglwydd eu cydwybod a Deddfwr eu crefydd. Cynaliodd yr arch-wrthryfelwr, yn

Rhufain, ryfel am gannoedd o flynyddau yn erbyn gorsedd yr Hwn a osododd y Tad yn "Frenin ar Sïon ei fynydd sanctaidd." Gwelir arwyddion amlwg y dyddiau hyn y dygir y rhyfel hir hwnw i ben yn fuan bellach. Y mae "*pob* pendefigaeth, a phob awdurdod, a nerth" gwrthryfelgar yn erbyn ei awdurdod Ef, i gael ei dileu: "Canys rhaid iddo deyrnasu, hyd oni osodo ei holl elynion dan ei draed." (1 Cor. xv. 24, 25.) Y mae llawer o honynt wedi eu dryllio yn falurion, "fel llestri pridd," dan ergydion hên "wialen haiarn" yr ail Salm, yn y blynyddau diweddaf hyn. Y mae gorseddfainc dymorol "*Yr Anwir hwnw*," yr hwn sydd wedi bod er's oesau yn gwrthwynebu ac yn "ymddyrchafu goruwch pob peth a elwir yn Dduw, neu a addolir; hyd onid yw efe megis Duw, yn eistedd yn nheml Duw, ac yn ei ddangos ei hun mai Duw ydyw," wedi ei dymchwelyd yn nghorff y flwyddyn 1870, fel y crybwyllwyd eisoes. Gyda ei fod yn cyraedd uchder eithaf ei falchder a'i ryfyg, drwy fynu ei gyhoeddi ei hun yn anffaeledig, disgynodd ergyd y wialen haiarn ar ei orsedd, a drylliodd hi yn chwilfriw. Y mae oes eglwysi sefydledig yn mhob gwlad ar ben; y maent oll yn "weiniaid a *llesg*, a llawer yn huno," ac yn eu mysg y mae Eglwys Sefydledig ein gwlad ni ein hunain yn mhangfeydd ei thrancedigaeth, fel sefydliad gwladol. Y mae Efe "yn gwneyd byr waith ar y ddaear" yn y ffordd hon y dyddiau hyn; "Yr awr ddiweddaf ydyw" ar y pendefigaethau a'r awdurdodau hyn.

Mae gwirionedd y testyn yn gyfoethog, yn

1. *O orfoledd i'r ddaear*—dynolryw yn gyffredinol. "Gorfoledded y ddaear," medd y Salmydd wrth ei gyhoeddi, (Salm xcvii. 1); "Gorfoledded y ddaear" yn anad un dalaeth o lywodraeth y Brenin. Y mae ganddi hi fwy o *interest* ynddo nac sydd gan un o'r lleill; y mae Efe yn frodor genedigol o honi hi; Efe a ddisgynodd i barthau

isaf y ddaear; bu yn rhodio oddiamgylch ar hyd-ddi, yn anadlu yn ei hawyr, yn ymborthi ar ei bara; cysegrodd hi a'i chwys, a'i ddagrau, a'i waed; gorweddodd dridiau a theirnos yn ei chalon; oddiar un o'i mynyddoedd hi yr esgynodd Efe i'w orseddfainc yn y nef; ar y ddaear yr enillodd Efe yr hawl i'w orsedd a'r llywodraeth. Y fath urddas a gogoniant a roddwyd ar natur isel dyn fel hyn uwchlaw pob naturiaeth arall, yn ei hundeb â pherson y Mab tragwyddol! O'r fath drueni fod y natur hon yn cael ei darostwng i wasanaeth ffiaidd pechod ac anwiredd! fod un gelyn a gwrthryfelwr yn erbyn y Brenin i'w gael yn mysg dynion ar y ddaear; ond beth bynag a wna dynion yn gyffredinol,

2. Dyma destyn gorfoledd i Sïon, beth bynag—un o'r gwirioneddau llawnaf o ddiddanwch iddi. "Gorfoledded meibion Sïon yn eu brenin" (Salm cxlix. 2); "Sïon a glyw odd ac a lawenychodd; a merched Juda a orfoleddasant o herwydd dy farnedigaethau di, O Arglwydd," (Salm xcvii. 8.) Y mae Sïon yn ddiogel, beth bynag a ddigwyddo; y mae ei hachos hi yn sicr o fuddugoliaethu a llwyddo, "Y mae Efe wedi ei osod yn ben uwchlaw pob peth" iddi hi (Ephes. i. 22), i lywodraethu pob peth, a'u gwneyd yn wasanaethgar i'w lles a'i llwyddiant. Beth pe'r elai yr Eglwys i mewn i'r gwirionedd gogoneddus hwn, a chymeryd llawn feddiant o hono trwy ffydd—ei fod yn cael ei sylweddoli yn enaid pob credadyn? Byddai gwedd arall ar wyneb Eglwys Dduw; llenwid eneidiau y saint, a phyrth merch Sïon, â llawenydd a gorfoledd; gwisgai wisg moliant yn lle yspryd cystuddiedig, a gogoniant yn lle lludw. Aeth yn dybiaeth, rywfodd, yn meddyliau dynion fod crefydd a gwasanaeth Duw yn gofyn wynebpryd pruddaidd ac athrist i'w gyflawni, ar pruddaf ei wedd, a'r amlaf ei ocheneidiau a gyfrifid yn fwyaf sanctaidd a duwiol, pan y mae lleferydd y Bibl, yn yr

Hên Destament a'r Newydd, yn dysgu yn hollol wahanol. Edrycher ar grefyddwyr yn gyffredin gyda galwedigaethau y bywyd hwn. Yn eu masnachdai, yn y ffeiriau, a'r marchnadoedd, y maent yn fywiog a siriol; ond yn nghynteddau yr Arglwydd, nid oes na gwawr na llewyrch ar eu gwedd. Y mae sirioldeb a llawenydd yn ngwasanaeth Duw yn ei dŷ, yn ddyledswydd sydd yn cael ei gorchymyn lawer gwaith yn y Bibl; y mae holl wirioneddau ac addewidion y gair yn llawnion o ddefnyddiau llawenydd, a'r gwirionedd a fu dan ein sylw yn arbenig felly. Gwŷn fyd na ellid perswadio credinwyr i gredu y gwirionedd hwn hefyd, sef fod prudd-der wyneb, a surni gwedd, yn sarhau Duw yn ei gyssegr, ac yn warthruddiad ar yr efengyl—"Y newydd da o lawenydd mawr." "Hyn hefyd eilwaith a wnaethoch, (medd yr Arglwydd wrth ei bobl gynt,) gan orchuddio â dagrau allor yr Arglwydd trwy wylofain a gweiddi; fel nad edrych Efe mwyach ar yr offrwm, ac na chymer ef yn foddlawn o'ch llaw chwi." (Mal. ii. 13.) Yr oedd yn berygl bywyd i un o weision breninoedd y dwyrain gynt, ymddangos ger eu bron yn brudd ac yn athrist, a hyny a barai i Nehemia "ofni yn ddirfawr" pan ofynai brenin Persia iddo un diwrnod, "Paham y mae dy wynebpryd yn drist, a thithau heb fod yn glaf?" (Neh. ii. 2.) Yr oedd y gwasanaeth a gyflawnai eu gweision yn anghymeradwy ganddynt os edrychent yn drist ac yn bruddaidd wrth ei gyflawni. Felly dywedai yr Arglwydd wrth ei bobl yntau, drwy y proffwyd Malachi. "Gwasanaethwch yr Arglwydd mewn llawenydd: deuwch o'i flaen Ef â chân." (Salm c. 2.) "Llawenydd yr Arglwydd yw eich nerth chwi." (Nehem. viii. 10.)

Eto: "Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu; cryned y bobloedd." (Salm xcix. 1.) Cryned ac arswyded gelynion y Brenin: "Dy law a gaiff afael ar ei holl elynion: dy

ddeheulaw a gaiff afael ar dy gaseion." (Salm xxi. 8.) Y mae gair llŵ yr Hwn a'i gosododd Ef yn frenin, wedi myned allan mewn cyfiawnder, "Y rhaid i bob glîn blygu iddo, a phob tafod ei gyffesu," rywbryd. Y mae pob glîn a phob tafod yn y nefoedd, yn plygu iddo ac yn ei gyffesu o'u bodd.

# PREGETH X.

## HOLLWYBODAETH A HOLLBRESENOLDEB DUW.

"ARGLWYDD, chwiliaist, ac adnabuost fi. Ti a adwaenost fy eisteddiad a'm cyfodiad: dealli fy meddwl o bell. Amgylchyni fy llwybr a'm gorweddfa; a hysbys wyt yn fy holl ffyrdd. Canys nid oes air ar fy nhafod, ond wele, Arglwydd, ti a'i gwyddost oll. Amgylchynaist fi yn ol ac yn mlaen, a gosodaist dy law arnaf. Dyma wybodaeth rŷ ryfedd i mi, uchel yw, ni fedraf oddi wrthi. I ba le yr âf oddi wrth dy yspryd? ac i ba le y ffoaf o'th ŵydd? Os dringaf i'r nefoedd, yno yr wyt ti: os cyweiriaf fy ngwely yn uffern, wele di yno. Pe cymerwn adenydd y wawr, a pho trigwn yn eithafoedd y môr; Yno hefyd y'm tywysau dy law, ac y'm daliai dy ddeheulaw. Pe dywedwn, Dïau y tywyllwch a'm cuddiai; yna y byddai y nos yn oleuni o'm hamgylch. Ni thywylla y tywyllwch rhagot ti; ond y nos a oleua fel dydd: un ffunud yw tywyllwch a goleuni i ti."—*Salm* cxxxix. 1–12.

Y MAE yn rhai rhanau o air Duw, megis y mae yn ei weithredoedd, ogoniant mwy rhagorol nag sydd mewn rhanau eraill; ac y mae y gyfran hon, yn neillduol, yn rhagori mewn gogoniant, ar gyfrif gwychedd y cyfansoddiad a'r syniadau goruchel a gynwysa. Ystyriai yr hên ddysgawdwyr Iuddewig y Salm hon yr odidocaf o holl Salmau Dafydd, ac feallai, ar rai ystyriaethau, ei bod felly. Y mae

ei thestyn yn oruchel a gogoneddus; ac y mae y modd yr ymdrinia âg ef felly. Y testyn yw HOLLWYBODAETH a HOLLBRESENOLDEB DUW! Llefara y Salmydd am Dduw wrth Dduw ei Hun! ac y mae efe yn addoli wrth lefaru. Llais enaid ystyriol a chrediniol—enaid wedi ei lawn feddianu, ei lyncu i fyny yn y gwirioneddau a'r syniadau a draethir ganddo, a glywir yma. Pe argreffid y gwirioneddau hyn ar lech calon y byd, fel eu sylweddolid yn ystyriaeth a chrediniaeth fyw yn mhob meddwl, arefid olwynion cerbydau pechod ac annuwioldeb yn y fan; rhoddai wedd newydd ar fucheddau a moesau dynion ar unwaith.

Gadewch i ni edrych dros yr ymadroddion o un i un:

"*Arglwydd, chwiliaist ac adnabuost fi.*" Cymwysa y Salmydd yr ystyriaeth ato ei hun, yn bersonol; nid ei gymeryd i fyny fel gwirionedd cyffredinol, yn ei berthynas a phawb fel eu gilydd, y mae efe yma; y mae yn wirionedd felly, ac yn wirionedd neillduol yn ei berthynas a phob un yn bersonol hefyd; ac y mae y Salmydd yn ei gymeryd adref, ac yn ei droi ato ei hunan. Ni ddwg un gwirionedd ei ddylanwad priodol ar y meddwl hyd nes y delo megis afael yn ngafael âg ef. Gellir arddel y gwirioneddau hyn, a gwirioneddau eraill, am Dduw fel erthyglau o gredo, eu credu fel yr oedd Paul yn cymeryd yn ganiataol fod Agrippa yn credu i'r proffwydi, heb iddynt wneyd unrhyw argraff ar y galon a'r fuchedd, ac y mae myrddiynau o gredinwyr felly yn y byd, eto yn byw fel pe na chlywsent erioed son am y pethau y proffesant eu bod yn eu credu. Calon yn credu, ac am hyny yn llefaru, sydd yn y Salm hon. "*Chwiliaist ac adnabuost fi,*" neu *nithiaist* fi; chwiliaist fi yn drwyadl, fy holl ddirgelion mewnol; nithiaist fy meddyliau, fy myfyrdodau, fy mwriadau, a'm hamcanion; faint bynag o fanus meddyliau ofer, gwamal a gwibiog, o nwydau llygredig a blysiau anianol a llygredig sydd ynof, yr wyt Ti yn eu gogrynu ac

yn eu nithio, ac yn gwybod am danynt bob un; ac os oes puredd ynof tuag atat, yn nghanol y manus a'r gwehilion lawer, Ti a weli ac a adwaenost hwnw hefyd. Chwiliodd a nithiodd Laban babell Jacob a phebyll ei wragedd, wrth ymofyn am y delwau a gollasai; ond methodd eu cael, er eu bod yn mhabell Rahel, wedi eu cuddio yn offer y Camel. Ond nid chwiliwr fel Laban sydd yma. Pa mor ddwfn bynag y cuddio yr enaid ei eilunod: "Oni chwilia Duw hyn allan, canys Efe a ŵyr ddirgeloedd y galon." (Salm xliv. 21.) "*Chwiliaist ac andabuost fi.*"

"*Ti a adwaenost fy eisteddiad a'm cyfodiad.*" Fy holl ysgogiadau a'm symudiadau, fel pe na byddai genyt neb ond myfi i edrych ar ei ol ac i'w wylio. I ba le bynag yr elwyf, a pha beth bynag a wnelwyf, y mae dy lygad Di arnaf; canys nid "llygad o gnawd sydd i Ti; ac nid fel y gwel dyn y gweli Di." (Job x. 4.)

"*Dealli fy meddwl o bell.*" Cyn i'r meddwl gael ei genhedlu ynof. Yr wyt Ti nid yn unig yn adnabod pob meddwl a fu ynof erioed, a phob meddwl y sydd ynof yn awr, ond pob meddwl a ddaw ac a ymgyfyd ynof eto; holl feddyliau fy nghalon mewn amser, a'r holl feddyliau a godant ynddi byth yn oesau tragwyddol y byd a ddaw, y maent oll yn bresenol ger dy fron Di yn awr, ac yr oeddynt felly er tragwyddoldeb, cyn i fy meddwl gael ei hanfodiad. Y mae llawer o'm meddyliau yn ddieithr iawn i mi, na allaf wybod a rhoi cyfrif am danynt, o ba le a pha fodd y daethant; ond yr wyt Ti yn deall yr holl ddirgelion cuddiedig hyn. "Myfi a wn y gelli Di bob peth, ac na atelir un meddwl oddi wrthyt." (Job xlii. 2.)

"*Amgylchyni fy llwybr a'm gorweddfa,*" &c. Yn ol ac yn mlaen, ar ddeheu ac ar aswy. Ynot yr wyf "yn byw, symud, ac yn bod," ar fy llwybrau y dydd gyda galwedigaethau bywyd, a'm gorweddfa y nos, yn chwilio, nithio, ac

yn profi fy mreuddwydion. Dim ond Un a fu ar y ddaear erioed a allai ddal yr ymsyniaeth ofnadwy hon heb arswydo na chywilyddio—a allasai edrych megis yn llygad Hollwybodaeth a dywedyd: "Profaist fy nghalon, gofwyaist fi y nos; chwiliaist fi, ac ni chei ddim anwiredd ynof" (Salm xvii. 3)—neb ond y Messia mawr ei Hun allasai lefaru fel yna. Bu yntau yn nyddiau ei gnawd yn cael ei chwilio a'i nithio; amgylchynwyd ei "lwybr a'i orweddfa" yntau hefyd; bu Satan yn ei chwilio ac yn ei nithio, "ond nid oedd iddo ddim ynddo Ef" (Ioan xiv. 30); bu gwyntyll yr awdurdodau yn y llŷs barn yn ei brofi, ond gorfu i'r barnwr ddywedyd, "Nid wyf fi yn cael dim bai ar y dyn hwn" (Luc xxiii. 4); a dyma Hollwybodaeth ei Hun yn profi ei galon, yn chwilio ei feddyliau, ac yn ëi "ofwyo y nos," ac yn nithio ei freiddwydion, heb gael cymaint ag un usyn o lygredigaeth ynddo —gronyn noeth, pur o wenith oedd Efe: "*Ni chei ddim anwiredd ynof fi.*" Ond deued a safed y pechadur uwch ben y geiriau hyn; aed gyda hwynt o'r neilldu ger bron Duw, a dyweded, "Hysbys wyt yn fy holl ffyrdd;" fe derfysga ei gydwybod o'i fewn, ac a ddwg ar gôf iddo y ffyrdd gwyrgam a'r llwybrau anwir a rodiodd ef, a'r meddyliau aflan a halogedig a feithrinodd yn ei galon, yr anwireddau a ddychymygodd ac a "freuddwydiodd efe ar ei wely" y nos, nes y byddai yn barod i ddywedyd fel Jacob, "Mor ofnadwy yw y lle hwn," (Gen. xxviii. 17.) Ie, pan ddelo y sant puraf i'r fan yma, y mae yntau hefyd "yn ofni ac yn crynu," ac yn llefain, "Crëa galon lân ynof, O Dduw; ac adnewydda yspryd uniawn o'm mewn. Golch fi yn llwyr ddwys oddi wrth fy anwiredd, a glanha fi oddi wrth fy mhechod" (Salm li. 2, 10); "Pwy a ddeall ei gamweddau? glanha fi oddi wrth fy meiau cuddiedig" (Salm xix. 12).

"*Canys nid oes air ar fy nhafod, ond wele, Arglwydd, Ti a'i gwyddost oll.* Trwy y glust a'r llygad—trwy glywed a

gweled—yr ydym ni yn casglu ac yn cael hyny o wybodaeth a feddwn. Defnyddir y ddau aelod hyn o'r corff yn fynych yn y Bibl, yn enwau ar Hollwybodaeth Duw—llygad yr Arglwydd, a chlust yr Arglwydd—fel y defnyddir y llaw a'r fraich, yn enwau ar ei Hollalluowgrwydd. "*Nid oes air ar fy nhafod, ond wele, Arglwydd, Ti a'i gwyddost oll.*" Beth pe dodid y ffrwyn hon yn ngenau pob tafod? Dofid yr "aelod bychan" aflywodraethus hwnw yn fuan; darostyngid "y byd hwnw o anghyfiawnder" dan lywodraeth gwirionedd a phwyll; ni osodai "droell naturiaeth yn fflam, wedi ei wneuthur yn fflam gan uffern" mwy, fel y gwna yn fynych. Arswydai pechaduriaid annuwiol lefaru eu geiriau caledion, a'u llwon a'u cableddau yn ei erbyn Ef, pe cofient yn wastad fod pob gair a ddaw allan oddiar eu tafodau hwy yn esgyn i'w glustiau sanctaidd Ef, ac y geilw Efe hwy i roddi cyfrif am danynt, ac am bob gair segur a ddywedo dynion, yn y farn olaf (Matt. xii. 13). Pe gosodai pob un o honom yr ymadrodd hwn yn ei galon, byddai ein geiriau yn llawer anamlach; gwnai y tafod prysuraf yn "ddiog i lefaru." "Na chwanegwch lefaru yn uchel uchel; na ddeued allan ddim balch o'ch genau: canys Duw gwybodaeth yw yr Arglwydd." (1 Sam. ii. 3.)

"*Amgylchynaist fi yn ol ac yn mlaen, a gosodaist dy law arnaf.*" Y mae y syniad hwn wedi ei grybwyll o'r blaen yn yr ymadrodd, "*Amgylchyni fy llwybr a'm gorweddfa.*" Ychwanegir eto yma yr ymadrodd, "*A gosodaist dy law arnaf.*" Nid yr "wyt yn amgylchynu fy llwybr a'm gorweddfa," yn ol ac yn mlaen, ac o bob tu i mi, draw yn mhell oddi wrthyf; ond yr wyt yn wastad ger llaw, yn fy ymyl—"yn gosod dy law arnaf;" âf lle yr elwyf, y mae dy law Di arnaf mewn trugaredd, i'm cynal a'm noddi bob dydd—weithiau mewn cystuddiau a profedigaethau, yn geryddon am fy meiau, er llesad i mi; weithiau i'm gwaredu

a'm dyrchafu o gystuddiau a pheryglon. Nis gallaf fyned, ac nis mynwn fyned, oddiwrth ac heb fod dan dy law Di.

"*Dyma wybodaeth ry ryfedd i mi, uchel yw, ni fedraf oddi wrthi.*" Mi a wn y ffaith dy fod Di yn gwybod pob peth, ond nis gwn pa fodd. Neu, "Y mae Dy Hollwybodaeth Di yn rhy ryfedd, ac yn anfeidrol ry uchel i mi allu ei dirnad; canys beth yw hyny o wybodaeth a dealltwriaeth sydd genyf fi ond llai na dim, mewn cydmariaeth â'r wybodaeth sy'n annherfynol, a'r ddealltwriaeth sy'n aneirif?" Nid oes genyf ddim ond tewi a rhyfeddu wrth feddwl am danynt, neu ynte ofyn yn fy syndod, "*I ba le yr af oddiwrth Dy ysbryd, ac i ba le y ffoaf o'th wydd?*"—o'th bresenoldeb, o gyrhaedd cylch dy wybodaeth? Dygir y briodoledd Ddwyfol o Hollbresenoldeb i mewn i'r cyfrif yma: "I ba le?" "A ddringaf fi i'r nefoedd," i uchelderau y ffurfafen, uwchlaw gororau haul a lleuad a sêr? "*Yno yr wyt Ti,*" yn llenwi y gwagle annherfynol y tu hwnt i derfynau eithaf y cread; nid oes un loches i'w chael yno i ymguddio o ŵydd presenoldeb a gwybodaeth Duw. "*A gyweiriaf fi fy ngwely yn uffern?*" yn eithafion y dyfnderau obry? Gallwn gloddio yn fy nychymyg yn ddyfnach na'r bedd—yn ddyfnach nag y cloddiodd y mŵnwr erioed—yn ddyfnach na bedd celaneddau yr hên greaduriaid fu yn cyfaneddu y ddaear ddirif oesau cyn creu dyn, i ddyfnder na allodd angeu ei hun ddisgyn iddo erioed; ond "*Wele Di yno!*" Y mae dy lygad yn treiddio i a thrwy y dyfnder hwnw, a'th bresenoldeb Di yn llenwi pob cell o hono!

"*Pe cymerwn adenydd y wawr, a phe trigwn yn eithafoedd y môr.*" "*Adenydd y wawr*" yw yr adenydd cryfaf yn natur. Y goleuni yw yr aderyn a hêd gyflymaf o un a grewyd. Ond i ba ddiben yr ehedwn ar yr adenydd hyny, ac yr ymgladdwn yn eithafoedd y môr, yn nghilfachau y dyfnder dan fynyddau o rew oesol? canys "*Yno hefyd y'm tywysai*

*dy law, ac y'm daliai dy ddeheulaw.*" Byddai "dy law Di arnaf," ac yn dal gafael ynof yn y fan anhygyrch hono! Byddai y morfil mawr yn dyst i mi o'th bresenoldeb yn y lle hwnw! Ni waeth i mi aros lle yr ydwyf ynte.

Eto; "*Pe dywedwn, Dïau y tywyllwch a'm cuddiai; yna byddai y nos yn oleuni o'm hamgylch. Yr un ffunud yw tywyllwch a goleuni i Ti.*" Cyflawna dynion weithredoedd yn y tywyllwch na fynent, er dim, eu cyflawni yn ngoleuni dydd, gan dybio, yn nhywyllwch eu calonau, fod tywyllwch y nos yn eu cuddio o olwg pawb, heb ystyried na chofio na thywylla y tywyllwch rhag golygon Hollwybodaeth, ac mai yr un ffunud yw y tywyllwch a'r goleuni iddynt hwy.

Cynygir rhai nodiadau yn mhellach ar y priodoliaethau gogoneddus hyn—HOLLWYBODATH A HOLLBRESENOLDEB DUW. Er bod y wybodaeth hon yn "rhy ryfedd i ni;" eto, y mae wedi ei datguddio i ni ganddo Ef ei Hun yn ei air, fel y byddai i ni wybod a deall rhyw gymaint am dani, ac y byddai iddi ddwyn ei dylanwad ar ein calonau a'n buchedda u.

Cymerir y ddwy briodoledd hon dan sylw gyda'u gilydd, am fod cyd-berthynas neillduol rhyngddynt; y mae y naill yn rhag-dybio y llall. Y mae Hollwybodaeth yn arwain i'r meddwl y dybiaeth am Hollbresenoldeb, ac felly yr olaf i'r flaenaf. Yr Hwn sydd yn Hollwybodol, sydd o angenrheidrwydd yn Hollbresenol, a'r Hwn sydd Hollbresenol sydd raid ei fod yn Hollwybodol. Gallem feddwl am Fôd pur, cyfiawn, a sanctaidd, trugarog, a graslawn, yn annibynol ar y priodoliaethau hyn; hyny yw, nid yw y priodoliaethau eraill hyny, o angenrheidrwydd, yn eu cynwys hwy, fel y maent hwy, y naill o angenrheidrwydd yn cynwys y llall. Fel hyn y llefara y Brenin mawr am dano ei Hun: "A lecha un mewn dirgel-leoedd, fel nas gwelwyf Fi ef? medd yr Arglwydd;" dyna Hollwybodaeth. "Onid wyf Fi

yn llenwi y nefoedd a'r ddaear? medd yr Arglwydd." (Jer. xxiii. 24.) Dyma Hollbresenoldeb.

1. *Hollbresenoldeb Duw.* Y mae presenoldeb Dwyfol arall yn cael son am dano yn y Bibl—presenoldeb grasol Duw yn ei eglwys gyda'i bobl. Y mae y presenoldeb Dwyfol hwnw yn ras a addewir gan Dduw i'r eglwys yn cael ei roddi, neu ei atal, fel y gwelo anfeidrol ddoethineb yn oreu. Rhywbeth, rhyw ddylanwad annisgrifiadwy ydyw, yn yr hwn "Y mae Duw yn ofnadwy iawn yn nghynulleidfa y saint" (Salm lxxix. 9) ar amserau; y peth sydd yn peri i'w bobl Ef "ragori ar yr holl bobl sydd ar wyneb y ddaear" (Exod. xxxiii. 16). Y peth a bâr i'r anystyriol a'r digred a ddelo i'w cynulleidfa i syrthio ar ei wyneb ac addoli Duw, gan ddywedyd, "Yn wir, y mae Duw ynoch" (1 Cor. xiv. 25); y peth sydd yn plygu y cyndynaf, yn tyneru ac yn toddi y caletaf; ac yn absenoldeb hwn y mae holl ogoniant eglwys Dduw yn tywyllu, ei grasau yn gwywo, ei nerth ysprydol yn pallu, a'i gelynion yn gorfoleddu arni, ac "megis â chleddyf yn ei hesgyrn yn ei gwaradwyddo, pan ddywedant, Pa le mae dy Dduw?" (Salm xlii. 10.) Gall y gelynion, yn absenoldeb yr amlygiadau o'r presenoldeb Dwyfol hwn yn yr Eglwys, ei wawdio fel peth yn bodoli yn unig yn nychymyg penboethiaid; ond pan "lewyrcho Duw allan o Sïon," y mae "pob cnawd yn tewi ger ei fron"—pob rhyw elyn yn cilio draw, a rhyw arswyd yn cerdded trwy y greadigaeth pan fyddo Efe gerllaw.

Ond Hollbresenoldeb—presenoldeb hanfodol y Duwdod yn mhob man a phob amser fel eu gilydd, ydyw yr un y mae a wnelom ni yn awr âg ef; am hwnw y llefara y testyn. "Llenwi y nefoedd a'r ddaear"—llon'd bodoliaeth o Dduw ydyw; Hanfod a'i chanolbwnc yn mhob man ar yr un pryd, heb derfynau nac amgylchoedd iddi. Llon'd bodoliaeth? ie, anfeidrol fwy na hyny! canys y mae i fodoliaeth ei

therfynau, ond nid oes derfynau i'r eangder. Y mae y gwagle yn anfeidrol yn yr ystyr o annherfynol; a beth a wyddom ni nad yw y Creawdwr anfeidrol yn eangu terfynau bodoliaeth yn barhaus yn y gwagle hwnw—yn dodrefnu ffurfafenau newyddion â chysawdiau a heuliau o hyd, canys y mae Efe yn bresenol yno yn ei allu a'i awdurdod, ei wybodaeth a'i ddoethineb, "*yn preswylio tragwyddoldeb.*"

Eto, gan hyny, Hanfod ddiysgog, nad yw symud a chilio yn perthyn iddi, yw yr Hanfod Hollbresenol. Y mae pob peth a phob bôd arall yn ysgogi yn barhaus, ac yn newid eu lleoedd beunydd, "Nid oes graig ddiysgog dragwyddol, ond ein Duw ni." (1 Sam. ii. 2.) Y mae'r angel yn rhy fychan o fôd i lenwi ond un lle ar unwaith, y mae efe yn esgyn ac yn disgyn o'r ddaear i'r nefoedd, ac o'r nefoedd i'r ddaear, ond nis gall fod yn y naill a'r llall ar yr un pryd; pan y mae efe yn bresenol yn un y mae yn absenol o'r llall; ond y mae yr HOLLBRESENOL yn llenwi y ddwy; nid yn llenwi fel y mae corff materol yn llenwi y fan ý byddo efe —nid yw Duw yn llenwi un lle yn yr ystyr yma, canys "Yspryd yw Duw;" ond y mae Efe yn bresenol, ac yn Hollbresenol yn ei hanfod, ei allu, ei awdurdod, ei wybodaeth, a'i oruwchlywodraeth. Yspryd yw angel, nid yw yntau chwaith yn llenwi, yn cymeryd i fyny y lle y byddo ynddo, fel y mae y bodau sydd ganddynt gyrff anianol yn gwneyd hyny. "Y mae corff anianol, ac y mae corff ysprydol" (1 Cor. xv. 44); ond arall yw gogoniant, neu briodoleddau, y naill a'r llall, a phriodoledd yspryd ydyw bod yn ddim yn ei berthynas â lle, o ran ei lenwi a'i gau i fyny. Gallai deng miliwn o angelion fod yn y tŷ hwn yn awr heb fyned a lle yr un o honom ni; er hyny, byddent yn dal cysylltiad a pherthynas a'r lle hwn, ac a'r lle hwn yn unig, o ran eu personau a'u presenoldeb, tra fyddent yma; ni allent weinyddu eu nerth a'u dylanwad yn rhyw gŵr

arall o'r greadigaeth tra fyddent gyda ni, o angenrheidrwydd eu natur fel creaduriaid meidrol.

Yr elfenau tebycaf yn natur i yspryd, yw y goleuni, a'r awyr yn neillduol. Nid yw yr elfenau hyn, er eu bod yn faterol, yn cymeryd lle neb na dim arall; cydlanwant ein tai a'n hystafelloedd, ond nid ânt a dim o le yr un o'r teulu ar yr aelwyd, wrth y bwrdd, neu yn y gwely; ac y mae yr awyr, gyda hyny, yn anweledig. Mae y gwahaniaeth hwn rhyngddynt âg ysprydion, heblaw eu bod yn bethau, neu elfenau, ac angelion yn fodau personol; sef y gellir eu dal a'u caethiwo; gellir dal gronyn y goleuni, a'u gadw mewn costrel am oesau, a'r awyr yr un modd; ond ni ellir dal a chaethiwo yspryd felly. Eto, y mae y gwahaniaeth rhwng yspryd crëedig a'r yspryd tragwyddol rywbeth yn gyffelyb i'r gwahaniaeth sydd rhwng yr haul â phelydron ei oleuni; y mae yr haul ei hun yn llenwi ei holl gysawd mawr â'i oleuni ar unwaith, yn bresenol yn mhob man o hono ar yr un pryd, tra nad yw y pelydryn yn bresenol ac yn goleuo ond yn y lle hwnw y disgyno arno. Pelydron, megis, o'r Duwdod yw ei angelion, y rhai a wna Efe "yn ysprydion," yn wynt, ac megis "fflam dân."

Yn nesaf, nid yw'r Hanfod Anfeidrol yn dal un berthynas ag un lle mwy na'u gilydd, gan ei bod yn llenwi pob lle fel ei gilydd ar unwaith bob amser. Bu ganddo ei leoedd dewisedig i osod coffadwriaeth o'i enw ynddynt, i wneyd amlygiadau o'i bresenoldeb grasol i'w bobl gynt, ac y mae Efe yn gwneyd hyny eto, yn unrhyw le a ddewisont hwy i ymgynull yn nghyd yn ei enw. Dewisodd Jerusalem, a'r deml yn Jerusalem, yn lle i osod ei enw ynddo, i dderbyn aberthau ac addoliad ei bobl, i ddatguddio ei hun iddynt, ac i'w bendithio. Yn yr olwg ar ymostyngiad grasol y mawredd anfeidrol yn hyn, tarawyd meddwl Solomon â syndod ar ei weddi wrth gysegru y deml, "Ai gwir yw y

preswylia Duw gyda dyn ar y ddaear; wele, y nefoedd, a nefoedd y nefoedd, ni allant dy gynwys di; pa faint llai y dichon y tŷ hwn a adeiledais i." (1 Bren. viii. 27.) Yn gyffelyb y dywed Efe ei Hun wrth y bobl oedd yn meddwl yn fawr am eu teml, megis pe buasai hi yn rhyw fantais iddo Ef. Fel hyn y dywed yr Arglwydd, "Y nef yw fy ngorseddfainc, a'r ddaear yw lleithig fy nhraed: mae y tŷ a adeiledwch i mi? ac mae y fan y gorphwysaf? Canys y pethau hyn oll a wnaeth fy llaw, a thrwof y mae hyn oll, medd yr Arglwydd: ond ar hwn yr edrychaf, sef ar y truan a'r cystuddiedig o yspryd, ac sydd yn crynu wrth fy ngair." (Esa. lxvi. 1, 2.)

II. Hollwybodaeth Duw. Ni chwanegir ond ychydig o sylwadau eto, at y rhai a wnaed o'r blaen, yn

1. *Y mae Hollwybodaeth yn cynwys rhagwybodaeth, neu ragweledïad Duw am bob peth.* "Hysbys i Dduw ei weithredoedd oll erioed." (Act. xv. 18.) Yr oll a wnai Efe ei Hun o fydoedd ac o fodau i'w cyfaneddu; un meddwl, un bwriad tragwyddol am ei weithredoedd, a hwnw yn feddwl ac yn fwriad digyfnewid byth, heb ychwanegu dim ato, na thynu dim oddiwrtho, na bod lle i ddiwygio dim arno. Y mae dyn ar ol arfaethu a chynllunio ei waith yn gweled achos i newid, ac yn gweled lle i ddiwygio ei gynlluniau yn aml erbyn y delo i weithio allan ei arfaethau; ond nid cynllunydd felly yw Hollwybodaeth. Y mae ei gynlluniau Ef yn berffaith, a'i waith yn berffaith, yn ol y cynlluniau, "Fy nghyngor a saif, a'm holl ewyllys a wnaf." (Esa. xlvi. 10.)

2. *Rhagwybodaeth o bob peth a ddigwyddai mewn amser yn ei holl lywodraeth.* Nid gyru'r bydoedd allan i'r gwagle ar antur a damwain, heb wybod beth a ddeuai o honynt, pa un a wnai y deddfau a osodasai Efe iddynt gadw a diogelu llywodraeth a threfn arnynt a'i peidio, a wnaeth Efe; pe

felly, gallasent fyned ar chwalfa dragwyddol oddiwrth eu gilydd yn yr eangder, neu ruthro ar draws ac yn erbyn eu gilydd, a dryllio y naill y llall yn chwilfriw ger bron ei wyneb. Gwyddai erioed cyn eu creu beth a ddeuai o bob un o honynt, pa ddigwyddiadau a gymerent, ac a allasai gymeryd lle yn mhob un, beth a wnai pob creadur, a beth a fyddai ei dynged. Buasai creu y bydoedd a'r creaduriaid yn anturiaeth ry fawr i Hollwybodolrwydd ymaflyd ynddi heb fod Hollwybodaeth mewn Rhagwybodaeth yn gyfarwyddwr iddo; buasai y Gweithiwr mawr yn dangos diffyg doethineb ar y dybiaeth hono.

3. *Adnabyddiaeth berffaith o bob peth ac o bawb.* Gellir gosod ymadrodd cyntaf y testyn yn ngeneu pob byd, pob elfen, a phob creadur, o'r Archangel hyd y trychfilyn gwaelaf. "Arglwydd, chwiliaist ac adnabuost fi." Adnabyddiaeth berffaith drwyadl o natur, amgylchiadau, sefyllfaoedd, ac angenrheidiau pob un, canys Efe a'u gwnaeth, "Ac y mae, ïe, holl wallt eich pen wedi eu cyfrif," meddai y Gwaredwr wrth ei ddisgyblion. (Matt. x. 30.) Ni fu un dyn erioed a feddai wallt ar ei ben a wyddai y nifer; ac ni feddyliodd un erioed am geisio eu cyfrif; ond y mae pob blewyn o wallt a dyfodd erioed, ac a dŷf byth, ar benau dynion wedi eu cyfrif yn yr Hollwybodaeth Ddwyfol. Ni ddigwyddodd dim erioed, ac ni ddigwydda dim byth, yn annisgwyliadwy iddo na wyddai Efe am dano erioed; "Yn mynegi'r diwedd o'r dechreuad, ac er cynt yr hyn ni wnaed eto." (Esa. xlvi. 10.) Y mae holl broffwydoliaeth gair Duw yn dystion ac yn brofion o'i Hollwybodaeth Ef.

III. Tuedd Ymarferol yr Athrawiaeth.

1. *Y mae yn dangos nad oes i bechadur y gobaith lleiaf iddo allu dianc yn ei anwiredd.* I ba le y ffŷ ac y dianga allan o gylch Hollbresenoldeb? Allan o olwg a sylw Hollwybodaeth? Y mae pob drws gobaith yn gauedig yn ei

erbyn byth. Nid oes dywyllwch na chysgod angeu lle y gall efe ymguddio rhag ei Farnwr Cyfiawn; mewn dihanfodiad yn unig y byddai diahangfa iddo, ond y mae porth hwnw wedi ei gloi a'i folltio rhagddo.

2. *Er nad oes i'r pechadur obaith ymwared drwy ffoi* ODDIWRTH DDUW, *ac ymguddio o'i wydd, y mae iddo noddfa* YN NUW *trwy ddychwelyd ato;* ac y mae y Duw mawr yn defnyddio ei Hollwybodaeth fel dadl i gymell y truan i droi ato. "Mi a'i mynegais i ti er y pryd hwnw, adroddais i ti cyn ei ddyfod; rhag dywedyd o honot, Fy nelw a'u gwnaeth, fy ngherf-ddelw a'm tawdd-ddelw a'u gorchymynodd. Ti a glywaist, gwel hyn oll; ac oni fynegwch chwithau ef? adroddais i ti bethau newyddion o'r pryd hyn, a phethau cuddiedig, y rhai ni wyddit oddi wrthynt. Yn awr y crewyd hwynt, ac nid er y dechreuad, cyn y dydd ni chlywaist son am danynt: rhag dywedyd o honot, Wele, gwyddwn hwynt. Ië, ni's clywsit, ac ni's gwyddit chwaith, nid agorasid dy glust y pryd hyny: canys gwyddwn y byddit lwyr anffyddlawn, a'th alw o'r groth yn droseddwr." (Esa. xlviii. 5–8.) Fel hyn y mynai Efe argyhoeddi y troseddwr y llefara Efe wrtho o'i Hollwybodaeth, drwy gyfeirio ei sylw at gyflawniad rhagfynegiadau a wnaethai am bethau a digwyddiadau na allasai neb ond Efe ei Hun wybod y daethent i ben cyn eu tarddu allan, a'i fod yn gwybod yn berffaith pa fath a fyddai y troseddwr ei hun cyn ei eni. "Mi a wyddwn y byddit lwyr anffyddlawn, a'th alw o'r groth yn droseddwr." Ond er hyny, "Er mwyn fy enw, yr oedaf fy llid; ac er fy mawl yr ymataliaf oddi wrthyt, rhag dy ddifetha." (Adn. 9.) Er mai dy unig haeddiant yw dy ddifetha, ac i ti fy anog i wneyd hyny bob dydd, eto "Mi a ymataliaf;" y mae genyf fodd, a threfn, a chalon i'th arbed, ac i gael gogoniant a mawl i'm henw wrth wneyd hyny.

3. *Y mae yn athrawiaeth sydd yn llawn o gysur a dyddan-*

*wch i blant Duw yn nhrallodion y byd a'r bywyd hwn.* "Ni thyn Efe ei olwg oddiar y cyfiawn." (Job xxxvi. 7.) Ni ddichon i un trallod na gwasgfa ei ddal heb fod llygad ei Dad arno; "Ond yr awr hon fel hyn y dywed yr Arglwydd, dy Greawdwr di, Jacob, a'th Luniwr di, Israel, Nac ofna; canys gwaredais di: gelwais di erbyn dy enw; eiddof fi ydwyt. Pan elych trwy y dyfroedd, myfi a fyddaf gyda thi; a thrwy yr afonydd, fel na lifant drosot: pan rodiech trwy y tân, ni'th losgir; ac ni enyn y fflam arnat." (Esa. xliii. 1, 2.) "Ymlawenhaf ac ymhyfrydaf yn dy drugaredd di," medd y Salmydd, "canys gwelaist fy adfyd, adnabuost fy enaid mewn cyfyngderau." (Salm xxxi. 7.) Y mae dy fod di yn gwybod ac yn adnabod pob adfyd a chyfyngder a thrallod a'm cyferfydd, yn ddigon i droi yr holl drallodion yn ffrydiau o lawenydd a hyfrydwch i mi, "Ti a adwaenost fy ngwarthrudd, a'm cywilydd, a'm gwaradwydd," medd efe dro arall, "fy holl elynion ydynt ger dy fron." (Salm lxix. 19.)

"Ti dy Hun sy'n gwel'd fy ngwarthrudd—
  Ti adwaenost trwyddo draw,
Bob rhyw g'wilydd, bob rhyw w'radwydd,
  Basiodd, neu y sydd gerllaw;
Mae holl falais fy ngelynion,
  Mae eu dyfais, mae eu llid,
Megis haul ganol-ddydd tanbaid,
  O dy flaen yn gryno i gyd."

"Mae yma fôr o gysur yn llifo i fy rhan,
Er bod holl rwydau Satan yn erbyn f'enaid gwan;
Bwriadwyd oll eu tori, a'r bwriad ddaw i ben,
Mor siwr a'r bwriad hwnw o farw ar y pren."

Ydyw, y mae Hollbresenoldeb a Hollwybodaeth Duw, yr hyn sydd yn peri anesmwythder a braw i'r annuwiol yn

aml, yn "Fôr o gysur" i blant Duw. Y mae eu bod hwy a'u holl amgylchiadau, eu gelynion, a'u profedigaethau, ïe, a'u gwendidau a'u pechodau oll, yn berffaith adnabyddus iddo Ef, yn dwyn cysur a hedd iddynt.

4. *Y mae yr athrawiaeth yn llawn dyddanwch i'r Saint gyda golwg ar y gobaith a roddwyd i gadw iddynt yn y nefoedd.* Meddylier fod enaid yn myned i'r nefoedd i sefyll ac ymddangos ger bron yr orsedd bur, dan amheuaeth meddwl pa un a oedd Duw wedi gweled a gwybod am ei holl bechodau, y gallasai ddarfod i filoedd o'i feiau cuddiedig ddianc sylw. Gwnai hyny ei feddwl yn anesmwyth yno; teimlai fod gwendid yn ei hawl ef i'r sefyllfa ogoneddus hono. Dywedai ynddo ei hun, "Pe buasai Efe yn gwybod pob peth am danaf, am fy holl anwireddau a'm trueni, dichon na edrychasai Efe byth arnaf, ond yn ei anghymeradwyaeth a'i soriant; ac os daw i wybod eto, mai fy ngwrthod a'm bwrw ymaith a wna Ef." Ni bydd un lle i feddyliau o'r fath yma godi yn y fynwes byth yno. "Dyma fi yma ger bron gorseddfainc Duw," dywed yr enaid, "yn bur a difai, yn teimlo bod genyf gystal hawl i'r gogoniant a'r dedwyddwch hwn ag sydd gan yr angel acw na phechodd erioed; pob anwiredd wedi ei faddeu, pob pechod wedi ei ddileu. Chwiliodd llygad Hollwybodaeth allan bob bai a gyflawnais erioed, mewn meddwl, gair, a gweithred; aeth i bob cell o'm natur lygredig, nithiodd ymaith bob gronyn o anwiredd âg awelon ei ras maddeuol; maddeuodd hyd nas cafodd ynof ddim yn ychwaneg i faddeu, ac

> "Nid oes yma gofio beiau,
> Dim ond llawn faddeuant rhâd."

Bydd hon yn elfen o ddedwyddwch yn nghwpan y saint yn y nefoedd byth.

5. *Y mae yr athrawiaeth hefyd yn gymelliad i addoli.* Felly y teimlai y Salmydd hi. "Clodforaf di, O Arglwydd" medd ef. Clodforaf di am dy fod yn fy chwilio ac yn fy adnabod, am dy fod yn adnabod fy sylwedd, yn adnabod fy "anelwig ddefnydd, y dydd y lluniwyd hwynt, pan nad oedd yr un o honynt." Dengys yr athrawiaeth na thâl twyll a rhagrith i fyned ger bron Duw, yr hwn sydd yn chwilio ac yn adnabod calonau ei addolwyr.

6. Defnydd arall a wna y Salmydd o'r gwirionedd hwn ydyw, Gosod ei hun yn agored ger bron Duw i'w chwilio. Drachefn try'r ymadrodd cyntaf yn y Salm yn weddi ar ei diwedd—"Arglwydd, chwiliaist ac adnabuost fi." "Chwilia fi, O Dduw, gwybydd fy nghalon," medd efe wrth derfynu. Chwilia fi eto, nithia fi drachefn, chwilia a nithia fi bob dydd. "Gwybydd fy nghalon;" dyma hi, yr wyf yn ei gosod yn agored o'th flaen, "Gwel a oes ffordd annuwiol genyf." Gallaf fi dwyllo fy hun; yr wyf wedi bod yn ei chwilio, ac yn meddwl ei bod yn gywir tuag atat; ond rhag ofn fy mod yn camgymeryd, a bod genyf ffordd annuwiol, yr wyf yn ei thraddodi i'th ofal di, "A thywys fi yn y ffordd dragwyddol." Calon gywir yn unig a all anturio myned fel hyn at Dduw. Dyma wrolder moesol mewn gwirionedd, a dyma le i bob un i brofi ei grefydd. A ydyw efe yn foddlawn i'r meddwl fod Duw yn ei chwilio, ac yn ei adnabod? A all efe, ac a hoffa efe agor ei fynwes fel hyn ger bron Duw, a gofyn i lygad ei Hollwybodaeth Ef edrych i mewn i'w ddirgeloedd, ei chwilio a'i brofi.

7. Mai dydd ofnadwy fydd y dydd hwnw "Yn yr hwn y barna Duw ddirgeloedd dynion. (Rhuf. ii. 16.) "Canys Duw a ddŵg bob gweithred i farn, a phob peth dirgel, pa un bynag fyddo ai da ai drwg." (Preg. xii. 14.) Gwell i ni gael ein chwilio a'n datguddio yn awr, yn nydd ei ras, na chael ein gadael hyd y dydd hwnw heb ein dangos i ni ein

hunain. Datguddio ei galon i'r pechadur, i guddio ei holl ddrwg o'r golwg byth, y mae Duw yn nydd gras; ond ei datguddio i'w gadael yn noeth yn y golwg fydd datguddiad y dydd hwnw.

# PREGETH XI.

## LLYFR DUW.

"Ceisiwch allan o lyfr yr Arglwydd, a darllenwch: ni phalla un o hyn, ac ni fydd un heb ei gymar; canys fy ngenau, Efe a orchymynodd, a'i Yspryd, Efe a'u casglodd hwynt."—*Esaia* xxxiv. 16.

Llyfr yr Arglwydd. Y llyfr hwn sydd yn awr yn agored o'n blaen, yw y llyfr hwnw. Lle bynag y byddo y llyfr hwn yn cael ei agor, a'i eiriau yn cael eu darllen, y mae y lle hwnw yn ddaear sanctaidd; a gweddai i bawb a fyddo yn bresenol megis ddiosg eu hesgidiau, agor a gogwyddo eu clustiau i wrando a dal ar ei eiriau Ef. "*Llyfr yr Arglwydd.*" Felly y tystiolaetha y llyfr hwn am dano ei hun lawer gwaith. Y mae yn dyfod atom ni, ac yn llefaru wrthym ni, gan ddywedyd, "Fel hyn y dywed yr Arglwydd." Os yw ei honiad hwn am dano ei hun yn wirionedd, y mae mawredd, ac urddas, a phwysigrwydd Dwyfol yn ei eiriau, gan ei fod megis yn cynrychioli Duw yn mysg dynion. Os nad yw efe yr hyn y cymer arno ei fod, y llyfr mwyaf cableddus ac ysgymun o bob llyfr ar y ddaear ydyw; canys y mae yn dywedyd mwy o gelwyddau yn enw yr Arglwydd na'r un arall. Credodd myrddiynau o'r dynion goreu a challaf yn mhob oes a gwlad y bu y llyfr yn adnabyddus

ynddynt, wirionedd tystiolaeth y testyn am y llyfr, ac y mae myrddiynau yn fyw heddyw yn ei chredu, a rhoddent eu bywydau i lawr i selio eu cred gyda'r parodrwydd mwyaf, pe byddai galwad am hyny. Bu iddo hefyd, yn mhob cenhedlaeth ac oes, gaseion lawer, y rhai a'i gwadent ac a'i dirmygent a'u holl galon; ac felly y mae llaweroedd y pryd hwn. Y mae gyrfa y llyfr drwy y byd yn gyffelyb i yrfa bywyd yr Hwn y mae efe yn "dwyn tystiolaeth iddo" ac am dano, pan oedd Efe er y ddaear. "A murmur mawr oedd am dano Ef yn mysg y bobl; canys rhai a ddywedent, Gŵr da yw Efe: eraill a ddywedent, nagê, eithr twyllo y bobl y mae." (Ioan vii. 12.) Felly hefyd y llyfr, y mae "murmur" mawr am dano yntau yn mysg y bobl, bob amser; a dichon na bu cymaint o furmur am dano yn mysg y bobl erioed ac y sydd wedi bod y blynyddau diweddaf hyn, ond nid ydym yn cŵyno dim oblegid hyn. Gall y "murmur" hwn am dano yn mysg y bobl droi yn foddion achlysurol o godi awydd mewn llawer or murmurwyr i ddyfod i chwilio a darllen y llyfr, ac y gwelant achos i newid eu meddyliau am dano.

Os nad "Llyfr yr Arglwydd" ydyw, gallwn ofyn, Yn enw yr Arglwydd, o ba le y daeth? Ni bu erioed, nid oes, ac ni bydd chwaith, un llyfr tebyg iddo. Y mae nifer y llyfrau sydd yn y byd yn llawer amlach na nifer y dynion sydd ynddo, ac y maent yn amlhau yn ddirfawr hob dydd, ond

"Ymhlith a fu neu eto ddaw,
'Does debyg iddo fe."

Y llyfr sydd yn dal tynged y byd drwy yr holl oesau yn ei law, a'i dynged dragwyddol yn y byd a ddaw, ac yn hòni mai "Haws yw i'r nef a'r ddaear fyned heibio, nac i un iòd, nac un tipyn" o'i eiriau ef fyned heibio. Y llyfr y cymerwyd

pymtheg cant o flynyddau o amser i'w gyfansoddi â'i ysgrifenu, gan wahanol bersonau yn ystod y canrifoedd hyny, dynion dysgedig ac an-nysgedig, rhai o wahanol alluoedd a thalentau, ac o bob gwahanol fath ac amgylchiadau a galwedigaethau; ac ysgrifeniadau yr oll yn ymgorffori yn yr un llyfr hwn, yr un dystiolaeth ac athrawiaeth ganddo o'r dechreu i'r diwedd—y cwbl mewn perffaith gysondeb y naill â'r llall, o Moses yn yr anialwch hyd Ioan yn Ynys Patmos. Wadwyr gwyrthiau, sefwch wrth ben y llyfr hwn! Y mae ei fodoliaeth yn weledig o flaen eich llygaid, yn gymaint gwyrth a'r un y rhydd efe hanes am danynt, y rhai y mynwch chwi eu gwadu fel pethau nad yw yn bosibl ddarfod iddynt erioed gael eu cyflawni. Edrychwch ar y llyfr ei hun; y mae hwn yn ei gynwysiad a'i hanes, o ba le bynag y daeth efe, yn wyrth weledig o flaen llygaid y byd. Os o Dduw y mae efe, y mae hyny yn wyrth; os nad yw o Dduw, y mae yn rhywbeth rhyfeddach a mwy cyfriniol hyd yn oed nac un wyrth y clywsom son am dani.

Y mae y bennod hon fel wedi ei bwriadu i sefyll yn golofn tystiolaeth arbenig i'r holl oesau a ddeuent, o Ddwyfol Ysbrydoliaeth y llyfr hwn—llyfr proffwydoliaeth Esaia; ond yn arbenig y gytran hon o'i broffwydoliaeth ef. Ond gellir yn eithaf priodol gymmwyso geiriau y testyn at "Yr holl ysgrythyr a roddwyd trwy ysbrydoliaeth Duw," yr Hên Destament a'r Newydd.

Y mae y broffwydoliaeth yn agor mewn dull cyffrous a mawreddus iawn, teilwng o'r pwysigrwydd arbenig a berthyn iddi. "Nesewch, genhedloedd, i glywed, a gwrandewch bobloedd: gwrandawed y ddaear, ac oll y sydd ynddi, y byd a'i holl gnwd." (adn. 1.) Dyma udgorn-floedd fel taran gref yn tori uwch ben y byd, yn galw ar y "ddaear, a'r oll sydd ynddi"—ei chenhedloedd a'i phobloedd, yr holl gnwd o ddynoliaeth dros yr holl fyd, i ddeffro i wrando ar genadwri

bwysig sydd i gael ei thraddodi; cenadwri o bwys a dyddordeb o'r mwyaf i'r holl oesau a'r cenhedlaethau a ddeuant.

Cyhoeddiad barnedigaethau ofnadwy sydd yn dilyn yr alwad gyffrous hon, a hyny yn erbyn yr holl genhedloedd yn gyffredinol, ond ar un genedl yn arbenig, a hono yw Edom. Ni chyhoeddir barnedigaeth mor drom, a dinystr mor drylwyr, ar un wlad na chenedl yn yr holl air Sanctaidd ag a fygythir yma ar genedl a gwlad Edom. Y mae Ioan mewn gwahanol fanau yn y Datguddiad, wrth ddisgrifio "Barnedigaeth y butain fawr," yn defnyddio amryw o'r ymadroddion yn y bennod hon am y farnedigaeth ar Edom, gan eu cymmwyso at hono.

Yr oedd Edom ac Israel yn ddwy chwaer-genedl, yn hanu o ddau frawd o efeilliaid, Jacob ac Esau. Y mae hanes bywyd y ddau frawd hyny yn hynod, fel y mae yn dechreu cyn eu geni i'r byd, yn ymryson â'u gilydd yn y groth; ac ar agwedd dau mewn ymryson y daethant o'r groth, ac ymryson â'u gilydd y buont gartref nes eu dyfod i oedran gwŷr; ac aeth yr ymryson rhyngddynt mor boeth, o'r diwedd, fel gorfu i Jacob ffoi am ei einioes i Mesopotamia rhag llid Esau ei frawd oedd wedi penderfynu ei ladd ef. Yr oedd yr hên surdoes yn aros ac yn lefeinio megis, yn nghelwrn y ddwy genedl o oes i oes. "Yr hên gas," a'r "Câs mawr," y geilw yr Ysgrythyr eiddigedd llidus meibion Esau tuag at feibion Jacob, yr hwn a dorai allan yn fflam ar bob achlysur a roddai gyfleusdra iddo. Ac yn ngwaith Edom yn gorfoleddu yn ninystr Jerusalem gan Nebuchodonosor, pan y gwaeddai ar y gelyn, gan ddywedyd, "Dynoethwch, dynoethwch hi hyd ei sylfaen," cyflawnodd fesur ei hanwiredd, fel yr oedd yn aeddfed i'r farn ofnadwy a gyhoeddir yn ei herbyn yma, fel y dengys y proffwyd Obadiah iddi yn mhen tua chwech ugain mlynedd wedi traddodiad y broffwydoliaeth yn y bennod hon.

Rhoddir ar ddeall i Edom, ac i'r holl genhedloedd y lleferir wrthynt yma, y rheswm paham y cyhoeddir y farnedigaeth ofnadwy hon arni fel gwlad a chenedl, "Canys dydd dïal yr Arglwydd, blwyddyn taledigaeth yn achos Sïon yw." (Adn. 8.) Dyma yr esboniad ar holl oruchwyliaethau anghyffredinol y Brenin mawr mewn trugaredd a barn, erioed a byth, "*Taledigaeth yn achos Sïon yw.*"

Disgrifir cyflwr truenus gwlad Edom wedi y disgynai y farn fygythiedig arni, yn fanwl iawn; y tröid "ei hafonydd yn bŷg, ei llwch yn frwmstan, a'i daear yn bŷg llosgedig;" mai ei phreswylwyr fyddent y "pelican a'r ddraenog, y ddalluan a'r gigfran, yr wŷll a'r ellyll, y cathod a'r fwlturiaid, y dreigiau a chywion yr estrys;" ac y tyfai "drain yn ei phalasau, a danadl ac ysgall o fewn ei cheurydd," ac nad elai "cyniweirydd trwyddi byth bythoedd," h.y., am oesau a chenhedlaethau lawer.

Daw geiriau ein testyn i mewn fel her-feiddiad i anffyddiaeth ac anffyddwyr yr oesau a ddeuant i wneyd ymchwiliad i'r mater, i gymeryd llyfr y broffwydoliaeth hon gyda hwy i wlad Edom, a chymaru cyflwr y wlad â'r disgrifiad o hono yn y llyfr, ac y caent y naill yn ateb i'r llall i'r llythyren —y byddai y pelican a'r ddraenog, y ddalluan a'r gigfran, yr wŷll a'r ellyll, cywion yr estrys a'r dreigiau, a'r oll a nodir yn y llyfr, i'w cael yno, yn unig breswylwyr y wlad anrheithiedig. "Ni phalla un o hyn, canys fy ngenau, Efe a orchymynodd," &c.; dyna ddigon i sicrhau mai felly y bydd.

Yr oedd Edom yn gref, yn gyfoethog, a llwyddanus pan lefarodd ac yr ysgrifenodd Esaia y farn hon yn ei herbyn; a bu mewn cyflwr llwyddianus felly am rai cenedlaethau wedi hyny; megis yr oedasid y farn ar yr hên fyd yn hir, yn amser Noa; ond "Daeth y duliw" bygythiedig arno o'r diwedd, ac felly y farn hon ar Edom hithau. Collwyd y wlad o olwg y byd am o leiaf fil o flynyddoedd. Tua deng mlynedd a thrigain

yn ol, digwyddodd i anffyddiwr hynod o Loegr, o'r enw Volney, glywed gan yr Arabiaid fod gwlad anrheithiedig, yr hon yr oedd pob hanes am dani wedi colli, yn gorwedd ar y Ddêddwyrain i'r Môr Coch, a bod adfeilion deg-ar-hugain o ddinasoedd anghyfanedd i'w gweled o fewn taith tri diwrnod. Anogodd hyny y teithydd enwog Burckhardt, yn 1812, i wneyd ymchwiliad, a llwyddodd i ddarganfod adfeilion yr hên ddinas enwog Petra, neu Bozra, na buasai gair o sôn, na dim gwybodaeth am dani yn y byd er ys mil neu ddeuddeg cant o flynyddau cyn hyny. Cafodd y teithiwr gyflwr hên wlad Edom yn union fel y disgrifir ef yn y broffwydoliaeth am dano yn y benod hon, a dywed, "Pe na buasai dim arall yn dwyn tystiolaeth i ddwyfol ysprydoliaeth y Bibl, y buasai yr hyn a welodd efe â'i lygaid yn y wlad anghyfanedd hono yn ddigon i argyhoeddi ei feddwl ef am byth ar y mater hwnw." Aeth amryw deithwyr ereill yno ar ol Burckhardt, ac a ddygasant gyffelyb dystiolaethau am gyflwr y wlad, ac meddai un o honynt, o'r enw Stephens, "Mi a ddymunwn fyned o bob amheuwr (*sceptic*) a sefyll yn nghanol adfeilion yr hên ddinas hono (Bozra), fel y bu'm i, gan ddarllen geiriau yr ysgrifenydd ysprydoledig—geiriau a ysgrifenwyd pan oedd y lle anrheithiedig yma yn un o'r dinasoedd penaf yn y byd—gwelaf ei wyneb (yr anffyddiwr) yn delwi, ei wefus yn glasu, a'i galon yn crynu gan ofn, gan fel y mae adfeilion yr hên ddinas, mewn llais croch a nerthol, fel megis yn codi oddiwrth y meirw i lefaru wrtho. Er na chred efe Moses a'r prophwydi, rhaid iddo gredu llaw-ysgrifen Duw ei Hun yn y dinystr anaele sydd yn ei amgylchynu."

"Ar ffeithiau eglur anwadadwy yn unig y gall credíniaeth dawel ymorphwys, a'r casgliadau anocheladwy oddiwrth y cyfryw ffeithiau yn unig a roddant lawn foddlonrwydd i'r meddwl ymofyngar," medd un awdwr. At

ffeithiau felly y mae y testyn, a'r holl bennod hon, yn galw sylw "yr holl genhedloedd. Wel, yn

1. Mae yn ffaith anwadadwy fod awdwr y llyfr hwn yn hòni lawer gwaith, yn y modd mwyaf penderfynol, mai Efe ei Hun yn unig a all ragwybod a rhagfynegi digwyddiadau yr amser dyfodol. Heria holl dduwiau y cenhedloedd i wneyd hyny os gallant. Geilw arnynt gan ddywedyd, "Deuwch yn nes a'ch cŵyn; dygwch eich rhesymau cadarnaf." Ond pa rai ydynt y "*rhesymau cadarnaf*" hyny i brofi gwirionedd y ddwyfoldeb a hònai y cenhedloedd hyny i'w duwiau? Dyma hwynt: "Mynegant i ni y pethau a ddigwyddant: mynegwch y pethau gynt beth ydynt, fel yr ystyriom, ac y gwypom eu diwedd hwynt; neu traethwch i ni y pethau a ddaw. Mynegwch y pethau a ddaw ar ol hyn, fel y gwypom *mai duwiau ydych chwi;* gwnewch hefyd dda neu ddrwg, fel y syno arnom, ac y gwelom yn nghyd. Wele, peth heb ddim ydych, ffiaidd yw y gŵr a'ch dewiso chwi. * * * Pwy a fynegodd o'r dechreuad, fel y gwybyddom? ac yn mlaen llaw, fel y dywedom, Gwir yw? Nid oes a fynega, nid oes a draetha chwaith; ac nid oes a glyw eich ymadroddion." (Esa. xli. 21–26.) Eto, "Pwy hefyd, fel fi, a eilw, a fynega, ac a esyd hyn yn drefnus i mi, er pan osodais yr hên bobl? neu mynegant iddynt y pethau sydd ar ddyfod, a'r pethau a ddaw. Nac ofnwch, ac nac arswydwch; onid er hyny o amser y traethais i ti, ac y mynegais? a'm tystion ydych chwi. A oes Duw ond myfi? ïe, nid oes Duw: nid adwaen I yr un. Oferedd ydynt hwy oll y rhai a luniant ddelw gerfiedig, ni wna eu pethau dymunol lesâd: tystion ydynt iddynt eu hun, na welant, ac na wyddant; fel y byddo cywilydd arnynt." (Esa. xliv. 7–9.) Drachefn, "Cofiwch y pethau gynt erioed; canys myfi ydwyf Dduw, ac nid neb arall; Duw ydwyf, ac heb fy math; yn mynegi y diwedd

o'r dechreuad, ac er cynt yr hyn ni wnaed eto, yn dywedyd, Fy nghyngor a saif, a'm holl ewyllys a wnaf." (Pen. xlvi. 9, 10.) Gellid lluosogi llawer o ymadroddion cyffelyb allan o'r ysgrythyr.

2. Ffaith anwadadwy arall ydyw, Fod y llyfr hwn yn cynwys rhagfynegiadau lawer am ddigwyddiadau dyfodol; y maent yn frithion ger ein bron ar ei dudalenau, o'r dechreu i'r diwedd. Y mae y rhagfynegiadau, neu y proffwydoliaethau yn y llyfr hwn, nid fel dewiniaeth hên oraclau y paganiaid, yn dywyll, cyfriniol, ac amwys, fel y gellir eu deongli fel hyn neu fel arall, a'u cymwyso fel hyn neu fel acw, ond y maent hwy oll yn eglur, penodol, a phendant, modd nas gellir camgymeryd eu cyfeiriadau, a'u hystyr, y rhan fwyaf o lawer o honynt. Rhagfynegir am bersonau neillduol dan eu henwau priodol, megis Josia, Cyrus, Ioan Fedyddiwr, a'r Messia; y ddau flaenaf fwy na dau can' mlynedd cyn eu geni, a'r ddau olaf cyn ymddwyn arnynt yn y bru. Rhagfynegai Jacob wrth farw y pethau a ddigwyddent i'w feibion a'u llwythau "yn y dyddiau diweddaf;" cyhoeddai Moses, cyn marw, helyntion y genedl trwy ei holl genhedlaethau; rhagfynega y proffwydi helyntion gwahanol genhedloedd, ymerodraethau, a dinasoedd—eu codiad a'u cwymp, eu llwyddiant a'u dinystr, megis yr Aifft a'i dinasoedd, Assyria a Ninefe, Caldea a Babilon, Edom a Bozra, Ephraim a Samaria, Juda a Jerusalem, a llawer ereill, a hyny wrth eu henwau, pan oedd y gwledydd hyny yn anterth eu nerth a'u gogoniant.

3. Eto; Y mae yn ffaith anwadadwy ddarfod i'r proffwydoliaethau hyny, ac ereill, megis y rhagfynegwyd am godiad a chwymp ymerodraethau Persia, a Groeg, a Rhufain, gael eu cyflawni oll i'r llythyren o honynt, fel y tystiolaetha hanesyddiaeth henafol y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, a ysgrifenid gan ddynion na wyddent ddim oll am yr ysgrythyr, ac yn

gystal â hyny, gan hanesyddiaeth ddiweddarach a ysgrifenid gan awdwyr oeddynt, rai o honynt, yn wadwyr a dirmygwyr yr ysgrythyrau sanctaidd, fel datguddiad Dwyfol; a chyda'r cwbl a gadarnheir gan dystiolaethau hên golofnau a gloddiwyd o feddau adfeilion Ninefe a Babilon, a hên ddinasoedd ereill gan anturiaethwyr diweddar, ar y rhai y ceir cŷn-gerfiadau sydd yn cyd-daro yn hollol â hanesiaeth a phroffwydoliaethau yr ysgrythyr.

Yn awr, y casgliadau *anocheladwy* oddiwrth y ffeithiau *anwadadwy* fu dan sylw ydynt:—

1. Fod y ffeithiau gyda'u gilydd, yn nghyd a'u profion sicr, yn arwain yn anocheladwy i'r gred yn modoliaeth Un Bôd anfeidrol, personol, Hollwybodol, Hollalluog, a thragwyddol, yn ol fel y tystiolaetha y llyfr hwn am dano, yr hyn yw sylfaen gyntaf y grefydd a ddysgir ganddo.

2. Bod y llyfr hwn o angenrheidrwydd natur a sylwedd ei gynwysiad, wedi ei roddi trwy Ysprydoliaeth y Bôd Anfeidrol hwnw.

3. Nad oes un wybodaeth a ellir ei chael allan byth drwy ymholiad athronyddol, nac mewn un ffordd arall, a ddichon newid dim, na gwanhau dim ar sicrwydd tystiolaeth ffeithiau eglur ac anwadadwy; gan hyny, o angenrheidrwydd, fod seiliau y grefydd ddatguddiedig yn yr ysgrythyrau yn dragwyddol sicr a diysgog.

Terfynaf gydag ychydig gymwysiadau ymarferol. Ond dylwn grybwyll fod y pwnc fu dan ein sylw yn fwy priodol i'w drafod mewn traethawd maith nac mewn pregeth fer, lle nad ellir dim yn amgen na gwneyd byr grybwyllion yn unig.

1. Bobl ieuainc, "goddefwch air y cyngor," y mae eich coelbren chwi wedi disgyn i ddechreu gyrfa bywyd mewn "amseroedd enbyd," "gwatwarwyr y dyddiau diweddaf," yn lluosogi, ac felly mae eich profedigaethau a'ch peryglon

chwithau yn amlhau. Y mae llawer o gorsydd a lleoedd lleidiog ar bob llaw i chwi, y ceisir eich hudo iddynt, yn y rhai y suddodd llaweroedd o gyfoedion i chwi i ddinystr a cholledigaeth.

Wrth wŷr ieuainc o Gymru, a symudasant i fyw a dilyn galwedigaethau bywyd yn un o drefi Lloegr, ac ereill a fwriadant wneyd hyny, dywedwn, Edrychwch ati, cymerwch ofal ar eich bywyd yn y cyfnod pwysig hwn o'ch oes, "Sefwch ar y ffyrdd, ac ymofynwch am yr hên lwybrau, lle mae ffordd dda, a rhodiwch ynddi, fel y caffoch orphwysdra i'ch eneidiau." (Jer. vi. 16.) "Os pechaduriaid a'ch denant, na chytunwch." Dichon y tarewch wrth gymdeithion ieuainc a hudwyd eu hunain, a geisiant eich hudo chwithau i "eisteddfa'r gwatwarwyr," i ddirmygu yr hên lyfr y dysgwyd chwi i'w barchu fel llyfr yr Arglwydd pan oeddych yn blant ar aelwydydd eich rhieni, ac i edrych arno fel twyll a ffug, hollol annheilwng o gred a derbyniad yr oes oleuedig hon. Bod ymchwiliadau gwyddonol, a'r darganfyddiadau diweddar, yn dangos ac yn profi bod y Bibl yn gamsyniol a chyfeiliornus mewn llawer o bethau, ac felly fod ei ddydd ef wedi myned heibio, a bod o bwys i wŷr ieuainc fyned yn mlaen gyda goleuni cynyddol yr oes, &c. Y mae yn brofedigaeth gref i ddynion ieuainc gymeryd eu llithio i ddilyn hudioliaethau o'r fath yna, er cael mantais i ddangos eu hunain, a chael eu cyfrif fel rhai gwybodus, darllengar, a deallgar uwchlaw y cyffredin. Cododd anffyddiaeth broffesedig llawer gŵr ieuanc fel ffrwyth balchder ei galon, ac nid fel ffrwyth darllen, myfyrio, a dyfal chwilio am y gwirionedd, fel yr honent hwy. A pheth arall, y mae iau y Bibl yn gwasgu yn drom ar war tueddiadau natur lygredig, fel y gwna y gŵr ieuanc yn anesmwyth yn ei gydwybod i rodio yn "ffyrdd ei galon, ac yn ngolwg ei lygaid," fel y mae dan brofedigaeth yn aml i redeg at

anffyddiaeth am ryddhad ac ymwared oddiwrtho.' Y mae y daran rybuddiol, "Gwybydd y geilw Duw di i'r farn am hyn oll," yn ei gythryblu, ac yn chwerwi cwpan ei bleserau, fel y dymunai yn fawr gael y llonyddwch a'r ymwared o'i ofnau a addawa anffyddiaeth iddo. Yn awr, wŷr ieuainc, ar ddechreuad gyrfa bywyd, a hono yn yrfa ddiddiwedd ei pharhad, er yn fer a therfynol, breuol ac ansicr iawn yn ei pherthynas â'r byd a'r bywyd hwn; meddyliwch, a gadael y galw i'r farn a byd arall o'r cyfrif, pa un ai ffordd anffyddiaeth ai ffordd y Bibl yw yr oreu, y ddiogelaf a'r esmwythaf, a mwyaf manteisiol i'w rhodio, yn eu perthynas a'r byd a'r bywyd presenol hwn. A wyddoch chwi, neu a glywsoch chwi son am un gŵr ieuanc erioed, a gymerodd y Bibl yn "llusern i'w draed, a llewyrch i'w lwybr," a gollodd drwy hyny ei enw da, a pharch ac ymddiried pawb a'i hadwaenai, ac a dynodd warth a dinystr arno ei hun, ac a barodd gywilydd wyneb a gofid calon i'w rieni a'i berthynasau? a fu yn ochain wedi i'w gnawd a'i gorff gurio yn mlodau ei oes, gan felldithio addysg y Bibl, ac y bu gwrando arni yn foddion i ddwyn arno yr holl drueni hwn, a thrwy y trueni hwn i'w fedd cyn haner ei ddyddiau? Na ddo, erioed. Oni wyddoch, oni chlywsoch am aml ŵr ieuanc a dröes yn wadwr a chablwr yr hên lyfr, ac aethant i rodio "Yn ffordd pechaduriaid, ac eistedd yn eisteddfa'r gwatwarwyr," wedi dwyn arnynt eu hunain mewn canlyniad i hyny y trueni a'r dinystr ofnadwy a ddisgrifiwyd, a mwy nac a ellir ei ddisgrifio byth? Y mae yr ateb a ddyry yr hên lyfr i'r gofyniad pwysig, "Pa fodd y glanha llanc ei lwybr?" sef, "Wrth ymgadw yn ol dy air Di," yn wirionedd byw yn hanes y gwŷr ieuainc a wnaethant felly, yn mhob cenhedlaeth ac oes; a'r trueni y mae gwrthod a diystyru ei addysg yn ei ddwyn yr ochr arall yr un modd. "*Yr hwn a ddirmygo y gair a ddifethir.*" Gwrandewch, wŷr ieuainc, ar y

modd caredig y mae yr ysprydoliaeth sydd yn llefaru ynddo yn eich anerch: "Fy mab, na ollwng fy nghyfraith dros gôf; ond cadwed dy galon fy ngorchymynion: canys hir ddyddiau, a blynyddoedd bywyd, a heddwch, a chwanegant hwy i ti. Na âd i drugaredd a gwirionedd ymadael a thi; cylyma hwy am dy wddf, ysgrifena hwy ar lech dy galon. Felly cei di ras a deall da ger bron Duw a dynion. Na fydd ddoeth yn dy olwg dy hun; ofna'r Arglwydd, a thŷn ymaith oddiwrth ddrygioni. Hyny a fydd iechyd i'th fogail, a mêr i'th esgyrn." (Diar. iii. 1, 4, a 7, 8.) Eto: "Fy mab, na ollwng hwynt allan o'th olwg; cadw ddoethineb a phwyll. Yna byddant yn fywyd i'th enaid, ac yn ras i'th wddf. Yna y cei rodio dy ffordd yn ddiofal, a'th droed ni thramgwydda. Pan orweddych nid ofni; ti a orweddi a'th gwsg fydd melus. (Diar. iii. 21–24.) Eto: "Penaf peth yw doethineb; cais ddoethineb, ac â'th holl gyfoeth cais ddeall. Dyrchafa di hi, a hi a'th ddyrchafa di; hi a'th ddwg di i anrhydedd os cofleidi hi. Hi a rydd ychwaneg o ras i'th ben di; ïe, hi a rydd i ti goron gogoniant. Gwrando fy mab, a derbyn fy ngeiriau, a blynyddoedd dy fywyd a amlheir. Yr ydwyf yn dy ddysgu yn ffordd doethineb; ac yn dy dywys yn llwybrau uniondeb. Pan rodiech, dy gerddediad ni bydd cyfyng, a phan redech, ni thramgwyddi. Ymafael mewn addysg, ac na ollwng hi; cadw hi, canys dy fywyd yw hi." (Diar. iv. 7–13.) Oni raid fod y galon hono a all ddal heb dyneru a thoddi o flaen gwres y caredigrwydd Dwyfol, yn yr ymadroddion yna, "yn galed fel y graig, ac fel maen isaf y felin?" Gwelwch mor awyddus yw y Duw mawr i'ch bendithio â holl fendithion goreu y byd a'r bywyd hwn, yn gystal ac â phob bendith ysprydol, wrth fel y mae Efe yn eich anerch mor gariadlawn, yn eich cyfarwyddo mor raslawn, ac yn eich anog mor daer i wrando a dilyn addysg ei air Ef, fel y galloch etifeddu a mwynhau yr holl fendithion hyn. "Profwch

Ef" yr awrhon yn hyn, drwy "ddal ar ei orchymynion, eu trysori yn eich côf, eu clymu am eich gwddf, eu hysgrifenu ar lech eich calon." Gwnewch y Bibl yn athraw, cynghorwr, a chyfarwyddwr eich bywyd, "fel y profoch beth yw daionus, a pherffaith, a chymeradwy ewyllys Duw." Cafodd pob un a wnaeth y prawf, y *profiad* mai peth "peraidd yw eu cadw hwy yn y galon. Bod ei ffyrdd hi yn ffyrdd hyfrydwch, a'i holl lwybrau yn heddwch." Y mae y peth *peraidd* hwnw, a'r hyfrydwch, a'r *heddwch* i chwithau i'w meddu a'u mwynhau, os mynwch chwi ddal ar a dilyn cyfarwyddiadau yr hên lyfr. Llefara Job yn ardderchog am y modd y gwnaethai efe â Llyfr yr Arglwydd, pe cawsai ef, pryd nad oedd gair o hono wedi ei ysgrifenu, fe ddichon. "Fy nymuniad yw i'r Hollalluog fy ateb," medd ef, "ac ysgrifenu o'm gwrthwynebwyr lyfr. Diau y dygwn ef ar fy ysgwydd; a rhwymwn ef yn lle coron i mi. Mynegwn iddo rifedi fy nghamrau, fel tywysog y nesawn ato." (Job xxxi. 35-37.) Gwnewch felly ag ef, bobl- ieuainc; ewch ato, a dywedwch wrtho, "Fy nhad, ti yw tywysog fy ieuenctyd" (Jer. iii. 19); cenwch uwch ei ben:

"Gad i'm brofi rhin dy eiriau,
Awdurdodol eiriau'r nef,
Oll o mewn yn creu hyfrydwch,
Nad oes mo'i gyffelyb ef."

Chwychwi, y rhai a'i derbyniasoch ac a'i credasoch, cawsoch chwi eich bywyd tragwyddol trwyddo, byddwch fyw arno, a byw wrtho; trwythwch eich eneidiau a'ch myfyrdodau ynddo bob dydd. Onid oes lle i ofni fod crefyddwyr yr oes hon yn rhy ddieithr o lawer i air Duw; yn mhell yn ol i'r hyn oedd ein tadau yn Nghymru haner càn mlynedd yn ol, a chyn hyny? Yr oeddynt hwy, lawer o honynt, "yn gedyrn yn yr ysgrythyrau," ac felly yn efengylaidd a

nefolaidd yn eu profiadau. Nid oes byth fawr o lewyrch ar brofiad na buchedd proffeswr esgeulus, ac felly anghyfarwydd yn ngair Duw. "Chwenychwch ddidwyll laeth y gair, fel y cynyddoch drwyddo ef." Gwelwch y fath bwys a esyd y Gwaredwr ar fod ei ddysgyblion ef yn caru ac yn cadw ei air Ef. "Yr hwn sydd a'm gorchymynion i ganddo, ac yn eu cadw hwynt, efe yw yr hwn sydd yn fy ngharu I; a'r hwn sydd yn fy ngharu I, a gerir gan fy nhad I; a minau a'i caraf ef; ac a'm hegluraf fy hun iddo." (Ioan xiv. 21.) Cawn ymadroddion cyffelyb ganddo drachefn a thrachefn yn ei weddi olaf trostynt at y Tad; Efe a ddywed, "Myfi a roddais iddynt hwy Dy air Di; a'r geiriau a roddaist i mi a roddais iddynt hwy, a hwy a'u derbyniasant," &c. (Ioan xvii. 8–14.) "O achos cadw o honot ti air fy amynedd I, minau a'th gadwaf di oddiwrth awr y brofedigaeth, yr hon a ddaw ar yr holl fyd, i brofi y rhai sydd yn trigo ar y ddaear," medd Efe wrth yr eglwys yn Philadelphia (Dat. iii. 10.) Gwasanaethed hynyna fel ychydig engreifftiau allan o lawer ellid eu crybwyll.

Gyfeillion crefyddol, "Preswylied gair Crist ynoch yn helaeth," (Phil. ix. 16)—yn wastadol, fel gŵr y tŷ, arglwydd a llywodraethwr y galon. Preswylied yn eich myfyrdodau a'ch calonau, yn eich deall, a'ch serchiadau; a hyny o wir werth, ac o wir nerth sydd yn nghrefydd un, ydyw hyny o air Crist sydd ynddi. Efe yw moddion ei chynyrchiad yn yr enaid. "Wedi eich ail-eni, nid o hâd llygredig, eithr anllygredig, trwy air Duw." (1 Petr i. 23.) A thrwy y gair y maethir ac y cynydda yr enaid ynddi yn mhob gras a rhinwedd, "Fel rhai bychain newydd eni, chwenychwch ddidwyll laeth y gair, fel y cynyddoch trwyddo ef," (1 Petr ii. 2.) Trwy y gair y sancteiddir ac y perffeithir yr enaid ar ddelw Duw, "Sancteiddi hwynt yn dy wirionedd, dy air sydd wirionedd," (Ioan xvii. 17.) Mewn gair, efe yw yr oll yn oll,

y pob peth yn mhob peth a berthyn iddi, mewn cred a buchedd. Mawrhewch y gair, "Mawrhaodd Duw ef uwchlaw ei enw oll." (Salm cxxxviii. 2.) Eu cydnabyddiaeth drwyadl â gair Duw, a'u dwfn barch iddo, a hynododd grefydd yr hên buritaniaid ac anghydffurfwyr yn yr ail ganrif ar bymtheg, mor fawr; ni fynent ymostwng i un awdurdod arall mewn dim a berthyn i grefydd, y pethau lleiaf yn gystal a'r pethau mwyaf eu pwys, ac o herwydd hyny yr oedd y byd yn eu casau ac yn eu dirmygu; megis y dywed y Gwaredwr am ei ddysgyblion, "Myfi a roddais iddynt hwy dy air di; a'r byd a'u casaodd hwynt, oblegid nad ydynt o'r byd, megis nad wyf finau o'r byd." (Ioan xvii. 14.) "Cawri oedd ar y ddaear yn y dyddiau hyny;" llanwer ein heglwysi â'u cyffelyb. Amen.

# PREGETH XII.

## LLYFR DUW.

"Ceisiwch allan o lyfr yr Arglwydd, a darllenwch; ni phalla un o hyn, ni bydd un heb ei gymar; canys fy ngenau, efe a orchymynodd, a'i yspryd, efe a'u casglodd hwynt."—*Esaiah* xxxiv. 16.

DYMA y peth cyntaf oll a gais Awdwr y llyfr gan y rhai oll y mae ei lyfr ganddynt i wneyd âg ef, *ceisio allan o hono, a'i ddarllen*, "A'r neb a ddarlleno, ystyried." Y mae y genadwri hon at yr holl genhedloedd—"y ddaear a'r oll sydd ynddo, y byd a'i holl gnwd" o ddynion. Y mae Efe wedi amcanu i'w lyfr fod yn feddiant cyffredinol pawb oll. Ai i'r Iuddewon y mae efe yn llyfr yn unig? Onid yw i'r Cenhedloedd hefyd? "Yn wir, y mae efe i'r Cenhedloedd hefyd." Megis nad yw Efe ei hun yn Dduw "i'r Iuddewon yn unig, ond i'r Cenhedloedd hefyd;" felly ei lyfr yr un modd. "I'r Iuddew yn gyntaf, ac i'r Groegwr hefyd." Nid ychwaith i ryw ddosbarth nac urdd neillduol o ddynion ar wahan oddiwrth ereill, fel y myn y dwyll-offeiriadaeth Rufeinig ei gadw iddi hi ei hun, a'i guddio a'i gadw oddiwrth y werin. Y mae lleferydd awdwr y llyfr yn gryf ac yn groch yn erbyn y syniad yna, felly y testyn, "Ceisiwch allan o lyfr yr Arglwydd, a darllenwch," medd efe wrth yr holl genhedloedd, pawb oll yn gyffredinol, a phob dyn yn neillduol. Yn gystal gwreng a boneddwr, cyfoethog a thlawd, hen ac ieuanc, llên a lleyg, "Ceisiwch allan o lyfr yr Arglwydd, a darllenwch."

Y tro o'r blaen, ceisiwyd sylwi ar un yn arbeng o'r profion sicr o ddwyfoldeb y llyfr, mai llyfr yr Arglwydd mewn gwirionedd ydyw—sef y rhagfynegiadau lawer am ddigwyddiadau a ddeuent yn yr amser dyfodol a geir ynddo, a'r tystiolaethau sicr a gawn mewn hanesyddiaeth, hên a diweddar, am gyflawniad eglur, llythyrenol, lluaws mawr o'r rhagfynegiadau hyny; fod y ffeithiau sicr ac anwadadwy hyn yn arwain yn anocheladwy i'r gred yn modoliaeth unig wir, bywiol, personol, Hollwybodol, a thragwyddol Dduw, a bod y llyfr sydd yn cynwys y rhagfynegiadau wedi dyfod trwy ei ysprydoliaeth Ef. Rhaid y rhydd y cyfryw ffeithiau lawn sicrwydd deall i'r ymofynydd gonest am y gwirionedd ar y mater hwn; prawf er argyhoeddiad rheswm a deall dyn yw hwn. Gall yr argyhoeddiad hwn, yn y rheswm a'r deall, adael ei galon heb wneyd fawr o effaith nac argraff arni, a'r fuchedd yr un modd. Y mae profion i'w cael o'i ddwyfol ysprydoliaeth yn y llyfr ei hun, yn annibynol ar bob peth tu allan iddo, megis cyflawniad ei broffwydoliaethau, &c.; profion o'i ysprydoliaeth Ef yn yspryd a chalon y dyn, y goleuni sydd yn "goleuo llygaid" y meddwl, "yn troi yr enaid," ac "yn llawenhau y galon," ac yn ei sancteiddio. "Ceisiwch allan o lyfr yr Arglwydd," darllenwch a chwiliwch am yr adnabyddiaeth a'r profion hyn. Ond ni chaf fyned yn mhellach yn y ffordd yna yn awr, ond cynygiaf ychydig sylwadau cyffredinol ar y llyfr:

I. Llyfr yr Arglwydd i Ddyn yw. Ni anrhegodd y Duw mawr un creadur, y gwyddom ni am dano, â llyfr ond dyn; ac y mae hon yn ystyriaeth y dylai dyn ei chymeryd at ei galon; a'r caredigrwydd mwyaf, ond rhoddi ei Fab drosto, oedd rhoddi y llyfr sydd yn tystiolaethu am ei Fab iddo. Y mae yn wir nad allai un creadur, yn mysg yr holl amrywiaethau o greaduriaid sydd o'n hamgylch, wneyd dim â llyfr, pe rhoddasid llyfr iddynt. "Ni fedraf

ar lyfr," ydyw iaith natur pob creadur sydd yn ehedeg yn yr awyr, sydd yn byw ac yn rhodio ar y ddaear, ac ar y sydd yn cartrefu yn ei phriddellau, neu yn nofio yn ei moroedd a'i hafonydd, "pob natur gwylltfilod, ac adar, ac ymlusgiaid, a'r pethau yn y môr, a ddofir ac a ddofwyd gan natur ddynol." (Iago iii. 7.) Ac y mae dyn yn gallu dysgu llawer o ryw bethau i'r gwylltfilod a'r anifeiliaid, a rhai pysgod hefyd, y mae efe yn eu dal a'u dofi; ond ni allodd ddysgu dim i'r un o honynt erioed drwy gyfrwng llyfr. Gall ef gymeryd ei lyfr yn ei law, a'i agor o'u blaen, a darllen o hono, a'u cyfarch hwy âg un o ymadroddion ei lyfr, gan ddywedyd, "Rhyngoch chwi a minau y sicrhawyd gagendor mawr." Ni elli di, y mwnci, y myn rhai ddarfod i ni, ddynion, hanu o honot, dramwy yma ataf fi, na minau dramwy yna atat ti. Na, y mae fy llyfr i yn llyfr bythol seliedig i ti.

Nid oes angen llyfr ar angelion, y maent hwy yn byw yn ngoleuni yr orsedd dragwyddol, "yn gwrando ar leferydd ei air Ef," yn uniongyrchol o'i enau Ef ei Hun. Bu rhai o honynt yn wasanaethgar iawn fel cenadau i hysbysu dirgelwch yr ewyllys ddwyfol i rai o'r dynion sanctaidd pan oeddynt hwy yn llefaru ac yn ysgrifenu y gair dadguddiedig, megis Daniel a Zecharia ac Ioan; ond cawsant dâl da am eu gwaith, canys "Ar yr hyn bethau y mae'r angelion yn chwenych edrych," ac y mae iddynt gyflawn groesaw i edrych ar, a rhyfeddu a mwynhau pethau ein llyfr ni; gallant sugno cymaint ag a allo eu hamgyffredion cryfion allan o hono, y mae ynddo ddigon i ni ac iddynt hwythau; ond ein llyfr ni ydyw.

II. Llyfr yr Argwydd i ddyn, yn yr hwn y mae Efe yn cyfarfod ac yn ateb yr holl ymofynion sydd yn ymgyfodi o ddyfnderau natur dyn fel creadur rhesymol a meddylgar.

1. Yr ymofyniad am Dduw sydd ynddo fel elfen wreiddiol a hanfodol. "Ar lun a delw Duw y crewyd ef," medd tystiolaeth y llyfr am dano; ac y mae holl hanes y creadur yn profi gwirionedd y dystiolaeth hono. Byth wedi iddo golli y wybodaeth a'r adnabyddiaeth o'r Hwn a'i gwnaeth, hanes creadur yn llafurio, yn ymboeni, ac yn ymbalfalu i geisio cael gafael ar Dduw ydyw ei hanes ef yn benaf drwy yr holl genhedlaethau. Tybiwch am fôd rhesymol o un o dalaethau llywodraeth y Brenin mawr, un anadnabyddus o hanes dyn, yn dyfod gydag angel adnabyddus o'i hanes ef, a bod y ddau yn sefyll uwchben y ddaear, ac yn edrych ar y "llafur blin y mae meibion dynion yn ymguro ynddo;" gofynai y bôd dieithr i'w angel-arweinydd, "Y mae y creadur acw, a elwch chwi 'Y dyn,' yn ymddangos i mi yn anesmwyth a phryderus iawn, fel pe byddai wedi colli rhywbeth, yn chwilio am dano ac yn methu ei gael; yn edrych weithiau i fyny i'r nef uwch ei ben, ac weithiau ar y ddaear dan ei draed; yn troi ei olygon ar y ddê ac ar yr aswy, yn ol ac yn mlaen; beth yw ei hanes a'i sefyllfa ef?" "Wel," atebai yr angel, "creadur wedi cael colled fawr yn wir yw hwnacw, wedi colli Duw y mae efe! Crewyd ef ar ddelw Duw, i gymdeithasu ag Ef, a'i fwynhau ac ymhyfrydu ynddo. Hudodd gelyn ef i droseddu, digiodd ei Greawdwr, ac aeth yntau ar gyfeiliorn oddiwrth Dduw, a theimla eisieu o'i fewn nad oes dim a ddichon ei ddiwallu ond y Duw a gollodd, ac ymbalfalu am dano Ef y mae'r truan, ac yn methu ei gael Ef."

Do, ymbalfalodd am dano Ef o genhedlaeth i genhedlaeth, am filoedd o flynyddoedd; ymbalfalodd am dano Ef drwy y ffurfafen, yn mysg heuliau a sêr; gwnaeth dduw o bob un o honynt; disgynodd yn ol i'r ddaear, a cheisiodd wneyd duw o bob gwrthddrych o'i amgylch, ac wedi'r cwbl, y mae efe "heb Dduw yn y byd:" cyneuodd ei dân, a

thoddodd yr aur, yr arian, a'r pres, i wneyd duw toddedig o bob un o'r meteloedd hyny; gwnaeth dduwiau cerfiedig yn ddirif, o'r graig a'r mynor, aeth i'r goedwig gyda'i fwyell i "geisio iddo bren ni phydra," i wneyd duw o hono: ac wedi yspeilio y nefoedd a'r ddaear o'u holl wrthddrychau, a gweithio allan holl adnoddau ei ddyfais, a'i ddychymyg, a'i gelfyddyd er diwallu ei angen a'i awyddfryd am Dduw, "Sychedig yw ei enaid am Dduw" wedi'r cwbl. Y mae y rhywbeth byw hwnw, a elwir yn yspryd, sydd o'i fewn, "Yn gwaeddi am Dduw byw" o hyd: y mae y galluoedd a'r cymwysderau sydd ynddo i ymwneyd â Duw, i'w addoli a'i fwynhau, o hyd yn ymofyn am wrthddrych cyfaddas i'r galluoedd hyny i weithredu arno, ac y mae ei holl ymchwiliadau drwy yr oesau, am hwnw, wedi troi yn fethiant. Yr ateb a rydd "y nefoedd a'r ddaear, a'u holl lu hwynt" iddo ydyw, "Nid nyni, a dodi yr oll o honom yn nghyd, yw Efe, yr hwn wyt yn ymofyn am dano." Trödd yr holl ymchwilio a'r "ymbalfalu am dano Ef" drwy yr oesau, yn fethiant a siomedigaeth. "Ofer fuant yn eu rhesymau, a'u calon anneallus hwynt a dywyllwyd." (Rhuf. i. 21.) Edrychwch ar y dyn yn y portreiad a rydd Esaia o hono. "Pwy a luniai dduw, neu a fwriai ddelw gerfiedig, heb wneuthur dim llês? Y gôf â'r efail a weithia yn y glô, ac a'i llunia â morthwylion; ac â nerth ei fraich y gweithia efe hi; newynog yw hefyd, a'i nerth a balla; nid ŷf ddwfr, ac y mae yn diffygio. Y saer pren a estyn linyn; efe a'i llunia hi wrth linyn coch; efe a'i cymwysa hi â bwyill, ac a'i gweithia hi wrth gwmpas, ac a'i gwna yn ol delw dyn, fel prydferthwch dyn, i aros mewn tŷ. Efe a dŷr iddo gedrwydd, ac a gymer y cypreswydden a'r dderwen, ac a ymegnïa yn mysg prenau y coed; efe a blana onen, a'r gwlaw a'i maetha. Yna bydd i ddyn gyneu tân: canys efe a gymer o honi, ac a ymdwymna; ïe, efe a'i llysg, ac a boba fara; gwna hefyd dduw, ac a'i

haddola ef; gwna ef yn ddelw gerfiedig, ac a ymgryma iddo. Rhan o hono a lysg efe yn tân; wrth ran o hono y bwyty gîg, y rhostia rost, fel y diwaller ef: efe a ymdwymna hefyd, ac a ddywed, Aha, ymdwymnais, gwelais dân. A'r rhan arall yn dduw y gwna, yn ddelw gerfiedig iddo; efe a ymgryma iddo, ac a'i haddola, ac a weddia arno, ac a ddywed, Gwared fi, canys fy nuw ydwyt. Ni wyddant, ac ni ddeallant; canys Duw a gauodd eu llygaid rhag gweled, a'u calonau rhag deall. Ie, ni feddwl neb yn ei galon, ïe, nid oes wybodaeth na deall i ddywedyd, Llosgais ran o hono yn tân, ac ar ei farwor y pobais fara, y rhostiais gîg, ac y bwyteais; ac a wnaf fi y rhan arall yn ffieidd-beth? a ymgrymaf i foncyff o bren? Ymborth ar ludw y mae; calon siomedig a'i gŵyr-drödd ef, fel na waredo ei enaid, ac na ddywedo, Onid oes celwydd yn fy neheulaw?" (Esa. xliv. 10–20.)

Ie, "Ymborthi ar ludw" yr oedd holl genhedloedd y byd, ond un genedl, yn nyddiau y proffwyd; ac "ymborthi ar ludw" y mae llawer o genhedloedd eto yn y dyddiau hyn, ac y buasem ninau hefyd, pe buasem wedi ein gadael i ni ein hunain. Goleuni ac addysg yr hên lyfr a wnaeth y rhagor rhyngom ni ac ereill; ac eto, nid oedd Duw wedi "Gadael ei hun yn ddi-dyst" yn mhlith y cenhedloedd hyny ychwaith, "Gan wneuthur daioni iddynt, a rhoddi gwlaw o'r nefoedd, a thymorau ffrwythlawn, a llenwi eu calonau â lluniaeth ac a llawenydd," fel nad oedd "Efe yn ddiau nebpell oddiwrth bob un o honynt." (Act. xiv. 7, a xvii. 19.) Tra yr oedd Efe yn "mynegi ei eiriau i Jacob, ei ddeddfau a'i farnedigaethau i Israel" (Salm cxlvii. 19,), yn llefaru wrthynt hwy am dano ei Hun, yn ei air trwy Moses a'r prophwydi, yr oedd yn llefaru wrth y cenhedloedd hefyd yn ngweinidogaeth ei ragluniaeth gyffredinol, fel yr oedd Efe ei Hun yn agos atynt, yn eu hymyl, pan oeddynt "yn ymbalfalu am dano Ef." Ac nid hyny yn unig, yr oedd y

cenhedloedd, i fesur, yn gyd-gyfranogion âg Israel o fanteision gwybodaeth am dano, drwy weinidogaeth oruwchnaturiol y gwyrthiau a'r rhyfeddodau gogoneddus ac ofnadwy yr oedd Efe yn eu gwneuthur, "yn ngwydd yr holl genhedloedd." "Canys y mae'r ysgrythyr yn dywedyd wrth Pharaoh, I hyn yma y'th gyfodais di, fel y dangoswn fy ngallu ynot ti, ac fel y dadgenid fy enw trwy yr holl ddaear." (Rhuf. ix. 17.) Nid yn unig er mwyn gwaredu ei bobl allan o'r Aifft y dangosodd Duw ei allu yn Pharaoh, ond gyda hyny, er datguddio ei enw mawr i'r cenhedloedd o amgylch. "Y bobloedd a glywant ac a ofnant; dolur a ddeil breswylwyr Palestina. Yna syna ar dduciaid Edom; cedyrn hyrddod Moab, dychryn a'u deil hwynt: holl breswylwyr Canaan a doddant ymaith." (Exod. xv. 14, 15.) Aeth hanes rhyfeddodau yr Aifft, "Y pethau mawrion yn nhir Ham," y pethau ofnadwy yn y Môr Coch ac yn yr anialwch, trwy yr holl fyd adnabyddus, er argyhoeddiad i'r cenhedloedd mai Duw Israel oedd yr unig wir Dduw, ac y dygid hwynt i ofni ger ei fron ac i'w addoli. Effeithiodd y weinidogaeth hon ar Rahab y butain, yn Jerico, er ei dychweliad at Dduw Israel, ac y daeth yn bendefiges yn mysg "pendefigion ei bobl Ef." Felly, nid oedd y cenhedloedd yn yr oesau hyny, wedi eu gadael yn hollol i "ymbalfalu am dano Ef" dan weinidogaeth natur a rhagluniaeth; yr oedd fflachiadau o oleuni goruwchnaturiol yn tywynu yn fynych arnynt "Allan o Sïon, perffeithrwydd tegwch;" ac â hyn y cytuna geiriau Solomon yn ei weddi ar gysegriad y deml: "Ac am y dieithr-ddyn hefyd, ni byddo o'th bobl Israel, ond dyfod o hono o wlad bell, er mwyn dy enw; canys clywant am dy enw mawr Di, a'th law gref, a'th fraich estynedig, pan ddel a gweddio tua'r tŷ hwn: Gwrando Di yn y nefoedd, mangre dy breswylfod, a gwna yn ol yr hyn oll ar a lefo y dieithr-ddyn arnat am dano: *fel yr*

*adwaeno holl bobl y ddaear dy enw, fel y mae dy bobl Israel, ac y gwypont mai ar dy enw Di y gelwir y ty hwn a adeiledais i.*" (1 Bren. viii. 41–43.) Yr oedd cenedl Israel yn neillduedig o bwrpas i gael ei dysgu yn athrawiaeth y gair dadguddiedig am Dduw, i fod yn dyst drosto Ef yn erbyn eilunod, ac eilun-addoliaeth y cenhedloedd ereill; a gweinidogaeth y gwyrthiau a'r rhyfeddodau oedd yn cael eu cyflawni ynddi hi yn cael eu taenu yn y sôn am danynt yn mysg yr holl genhedloedd, fel y delent ati i gael eu dysgu ganddi, yn neddfau a barnedigaethau ei Duw yn ei air ysgrifenedig. Felly, nid i'r Iuddewon yn unig yr oedd Efe yn Dduw dan oruchwyliaeth yr hên gyfamod, ond i'r cenhedloedd hefyd. Y dieithr-ddyn a ddelai o wlad bell, wedi clywed am enw mawr Duw Israel, i ymofyn am ei adnabod Ef, ac i weddïo arno, yr oedd hwnw i gael ei dderbyn a'i groesawi i fod yn gyd-gyfranog yn holl ragorfreintiau y genedl etholedig. Yr oedd y cenhedloedd, felly, yn yr oesau hyny, yn ddeiliaid gweinidogaeth yr adferiad, yn gystal â'r Iuddewon, ond nid i'r un graddau; ac mae y geiriau a goffawyd o weddi Solomon yn dangos ei fod ef wedi deall hyny; dan lewyrch goleuni yr ysprydoliaeth a dywynai ar ei feddwl ar y pryd; peth nad oedd yr apostol Petr ei hun wedi ei ddeall, nes y canfu ac y dysgodd ef yn ngoleuni yr un yspryd yn nhŷ Cornelius (Act. x. 34); a rhaid i mi addef wrthych, fy ngwrandawyr, na welais inau mo'r gwirionedd mawr hwn yn y goleuni y ceisiais ei ddangos i chwi hyd o fewn ychydig ddyddiau yn ol; ac yr oeddwn, yn yr olwg gyntaf a gefais arno, yn synu ataf fy hun fy mod wedi byw yn agos i bedwar ugain mlynedd heb weled gwirionedd mor syml, ac eglur, a gogoneddus yn yr ysgrythyrau fel yr ymddengys i mi yn awr ei fod. Teimlwn fel y pregethwr, pan y dywed iddo weled y "doethineb hyn dan haul, a'i bod yn fawr ganddo ef, sef y ddinas fechan ac

13

ynddi ychydig wŷr, y daethai brenin mawr yn ei herbyn hi, ond y caed ynddi ŵr tlawd doeth, yr hwn a waredodd y ddinas hono â'i ddoethineb, ond na chofiodd neb y gŵr tlawd hwnw. Yna dywedais," medd ef, "Gwell yw doethineb na nerth; er hyny, dirmygir doethineb y tlawd." (Preg. ix. 13–16.) Felly yr oedd yr olwg yma ar oruchwyliaethau y Brenin mawr tuag at y cenhedloedd gynt, yn eu gwisgo â gwedd newydd a hawddgarach nac y gwelsom hwynt erioed o'r blaen, ac yn peri i mi feithrin gobaith cryfach fod tyrfa fawr o'r cenhedloedd hyny wedi eu dychwelyd a'u hachub drwy y weinidogaeth y cyfeiriwyd ati, o'r hon yr oedd Rahab y butain yn ysgub y blaenffrwyth.

Yn ymgnawdoliad y Mab, yr "Emanuel, Duw gyda ni," y daeth Duw atom ni yn bersonol i'w ddadguddio ei Hun i ni. "Ni welodd neb Dduw erioed; yr Unig-anedig Fab, yr hwn sydd yn mynwes y Tad, hwnw a'i hysbysodd Ef," mewn modd nad oedd wedi ei hysbysu cyn hyny. "Disgleirdeb gogoniant" y Tad, "Gwir lun ei berson Ef," a "holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorfforol ynddo," wedi dyfod i "drigo yn ein plith ni." Y neb a'i gwelodd Ef, "a welodd y Tad." Y mae holl ymofynion natur dyn am Dduw byw, tragwyddol, fel gwrthddrych addoliad, yn cael eu hateb yn gyflawn am byth ynddo Ef. "Gogoniant Duw yn wyneb Iesu Grist" ydyw, a gair y llyfr ydyw y drych i weled y gogoniant hwnw ynddo.

Ond y mae ymofyniad arall yn codi o ddyfnder trueni *cyflwr* dyn yn ei berthynas â Duw. Mae'r dyn yn euog dan gollfarn y ddeddf gyfiawn a droseddodd, a, "Pa fodd y cyfiawnheir dyn gyda Duw?" Os na ellir ateb y gofyniad yna, trugaredd â'r truan ddyn fyddai ei adael yn ei dywyllwch am Dduw, tra y caffo fyw. Dwyn y creadur euog i adnabod y Duw cyfiawn, fyddai bwrw y soflyn sŷch i'r llosgfeydd tragwyddol. Gofyner y cwestiwn yna i'r nefoedd

"sydd yn datgan gogoniant Duw, a'r ffurfafen sydd yn mynegi gwaith ei ddwylaw Ef," ac y maent yn fudion byth uwch ei ben. Os gofynir i'r ddaear, yr hon sydd ganddi lawer o wybodaeth am Dduw i'w dysgu i ddyn, ni fedd hithau un gair i'w ddywedyd mewn atebiad i'r cwestiwn mawr. Ond trowch i'r hên lyfr, i weled a oes ganddo ef ddim i'w ddywedyd ar bwnc mawr bywyd y byd? Oes y mae, a dyma fater mawr ei ddadguddiad; a dyma ei dystiolaeth eglur a phendant ef ar y mater hwnw, pan y mae "pob genau wedi ei gau, a'r holl fyd dan farn Duw—a thrwy weithredoedd y ddeddf ni chyfiawnheir un cnawd yn ei olwg Ef." Y mae genau y llyfr yn agor ac yn llefaru gan ddywedyd: "Ac yr awr hon yr eglurwyd cyfiawnder Duw heb y ddeddf, wrth gael tystiolaeth gan y ddeddf a'r proffwydi; sef cyfiawnder Duw, yr hwn sydd trwy ffydd Iesu Grist i bawb, ac ar bawb a gredant, canys nid oes gwahaniaeth; canys pawb a bechasant ac ydynt yn ol am ogoniant Duw. A hwy wedi eu cyfiawnhau yn rhad trwy ei ras Ef, trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu: Yr hwn a osododd Duw yn Iawn, trwy ffydd yn ei waed Ef, i ddangos ei gyfiawnder Ef trwy faddeuant y pechodau a wnaethid o'r blaen, trwy ddioddefgarwch Duw. I ddangos ei gyfiawnder Ef y pryd hwn; fel y byddai Efe yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu." (Rhuf. iii. 21–26.) Drachefn, y mae y llyfr yn dywedyd fel hyn: "Na ddywed yn dy galon, Pwy a esgyn i'r nef? (hyny yw, dwyn Crist i waered oddi uchod) Neu, pwy a ddisgyn i'r dyfnder? (hyny yw, dwyn Crist drachefn i fynu oddiwrth y meirw) Eithr pa beth y mae Efe yn ei ddywedyd? Mae y gair yn agos atat, yn dy enau ac yn dy galon: hwn yw gair y ffydd, yr hwn yr ydym ni yn ei bregethu; Mai os cyffesi â'th enau yr Arglwydd Iesu, a chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi Ef o feirw, cadwedig fyddi. Canys â'r galon y credir i gyfiawnder, ac

â'r genau y cyffesir i iachawdwriaeth. Oblegid y mae yr ysgrythyr yn dywedyd, Pwy bynag sydd yn credu ynddo Ef, ni chywilyddir." (Rhuf. x. 6–11.) Dyna fel "y mae yr ysgrythyr yn dywedyd" ar y mater pwysfawrocaf hwn; "A'r ysgrythyr nis gellir ei thori." Y mae hi yn dywedyd ei meddwl mewn geiriau pendant ac eglur, na ellir camgymeryd eu hystyr, ac nid fel y mae geiriau Actau Seneddol yn fynych, yn garnedd o dermau dieithr, fel pe byddent wedi eu gosod wrth eu gilydd o bwrpas i "dywyllu cyngor â geiriau heb wybodaeth." Y mae yr ysgrythyr yn dwyn y drefn fawr i'w gyfiawnhau at yr euog, yn nyfnder ei drueni, fel y mae, gan ei gosod yn "agos iawn ato," fel y gall "gymeryd gafael ar y bywyd tragwyddol;" fel, os bydd efe marw yn y pwll, y bydd ei waed ar ei ben ei hun, oherwydd iddo wrthod bywyd. Y mae llawer o ymofynion yn codi yn meddwl dyn yn fynych, oddiar ysfa am wybod y pa fodd a'r paham y bu fel hyn ac fel arall; ymofynion na welodd doethineb anfeidrol yn ddoeth ac yn dda eu hateb. Bu llawer o ddadleu ac ymholi, ac ysgrifenu, yn nghylch cwymp dyn. Pa fodd, paham, y goddefwyd i Satan ei demtio o gwbl? Pa fodd y darfu i ddyn cyfiawn, dilwgr, gydsynio â'r demtasiwn, ac yntau wedi cael ei rybuddio o'r canlyniadau? &c., a llawer o'r cyffelyb; ac wedi yr holi a'r chwilio, yr ysgrifenu a'r dadleu, y mae y mater yn aros yn yr un dirgelwch ag yr oedd y dydd y cwympodd Adda, ac ni wiw myned i chwilio i Lyfr yr Arglwydd am atebion i'r fath gwestiynau. Dywed y llyfr i'r gelyn dwyllo y dyn cyntaf, ac iddo syrthio dan farn marwolaeth; bod y farwolaeth hono a ddaeth drwy drosedd un dyn, wedi dyfod i deyrnasu *ar bob dyn;* "Mai yn Adda y mae pawb yn meirw," &c. Dyna sylwedd yr hyn a ddywed efe ar y mater—y modd yr aeth y dyn "a wnaeth Duw yn uniawn" i lawr i drueni a marwolaeth drwy bechod. Ond os gofynir pa fodd yr

adferir ef o'i drueni, "Pa fodd y cyfiawnheir dyn gyda Duw?" efe a ddywed hyny yn eglur a llawn. Os gofynir pa fodd yr aeth dyn pur a sanctaidd ar ei ben i bwll halogrwydd ac aflendid o flaen yr awel gyntaf o brofedigaeth a anadlodd arno, ni rydd un ateb i'r cwestiwn, ond mai felly y bu; ond os gofynir "Pa fodd y bydd yr hwn a aned o wraig yn lân? efe a ddywed hyny, gan ddangos y "Ffynon a agorwyd i bechod ac aflendid"—bod "gwaed Iesu Grist, ei Fab Ef, yn glanhau oddiwrth bob pechod."

> "Mae ffynon ar y bryn
> A ylch yn wỳn a glân,
> Bechodau o ryw ffieiddia erioed,
> Rifedi'r tywod mân."

Eto; Y mae "Llyfr yr Arglwydd" yn cyfarfod ac yn ateb cwestiwn mawr dynoliaeth am dani ei hun—y cwestiwn hwnw, "*Beth fydd i ni?*" A ydyw gyrfa bodoliaeth dyn yn terfynu yn nherfyniad gyrfa ei fywyd ar y ddaear? Am oleuni ar y mater pwysig hwn hefyd, "yr ymofynodd ac y manwl chwiliodd" y meddwl dynol yn yr hên oesau. Y mae holl natur dyn mewn gwrthryfel erioed yn erbyn y syniad o ddihanfodiad. Wedi i'r meddwl unwaith gael gafael ar y Myfi hwnw o'i fewn, nid yw am golli ei afael arno byth. Y mae yn wir ddarfod i rai o'r hên athrawon paganaidd lafurio i geisio dysgu yr athrawiaeth o ddihanfodiad bodoliaeth dyn yn angeu, a bod rhai athrawon Cristionogol, yn Lloegr ac America, a gwledydd ereill, yn y dyddiau hyn, yn dysgu y bydd i'r annuwiol gael ei ddileu o fodoliaeth wedi yr elo drwy ryw dymor o gosp yn y byd arall, a llafuriant yn galed i geisio cael gan yr ysgrythyr i gefnogi eu pwnc; ond yn hollol ofer, dybiwn ni. Ac nid hyny yn unig; dywed ein hathronwyr, yn gyffredin, bod holl naturiaeth yn wrthwynebus i'r syniad angenfilaidd hwn

—nad oes un ithin o fater a ddygwyd i fodoliaeth wedi ei ddifodi erioed, er myned drwy lawer o gyfnewidiadau; ac a ydyw y *Myfi*, yr uchaf a'r penaf yn ngraddfa bodoliaeth, i gael ei ddileu, neu i ymgolli mewn diddymdra? "Nag ydyw," yw lleferydd natur a dadguddiad, er na ddywed natur, yn wir, ddim yn bendant ac eglur ar y mater. Bu llawer o ddoethion Groeg a Rhufain, a gwledydd y Dwyrain o'u blaen hwy, megis yn curo lawer gwaith wrth byrth marwolaeth, ac fel yn gofyn i'r anweledig o'r tu draw iddynt, "A oes yna bobol?" ac fel yn gwrando am ateb; ond yn gorfod troi yn ol heb ei gael. Pan y gofynai ei ddisgyblion pryderus i'w doethwr, "A agorwyd pyrth marwolaeth i ti? ac a welaist ti byrth cysgod angeu? a oes byd a bywyd y tu draw i'r pyrth hyny? a oes gobaith i ni gael gweled eto ein perthynasau anwyl a'n cyfeillion hoff a gollasom?" Nid oedd gan y doethwr ddim i'w ddywedyd ond yn unig y gallent obeithio fod y cyfryw sefyllfa yr ochr draw i angeu, a bod eu hanwyliaid yn aros am danynt yn y sefyllfa hono. Ond beth a ddywed y llyfr, yr ysgrythyr, ar y pwnc? Hi a lefara arno yn eglur a phenderfynol, heb nac os nac fe ddichon, bod y dyn i fyw byth, bod byd yn ei aros, lle nas gall ei breswylwyr farw mwyach. Awgrymu ac arwyddo y peth yn "llin ar lin, ychydig yma ac ychydig acw," y mae hi am dymor. Nid oes yn Moses a'r proffwydi "weledigaeth eglur" iawn ar y mater, ond digon i ffydd ymaflyd ynddo, ac y mae yn eithaf amlwg fod anfarwoldeb yn bwnc credo yr hên batriarchiaid a'r proffwydi. Cyfeiria yr apostol, yn yr unfed bennod ar ddeg o'r epistol at yr Hebreaid, at ryw ymadroddion a ddywedasai Abraham a Jacob, eu bod yn "dangos yn eglur" eu bod hwy yn "ceisio gwlad well, hyny ydyw, un nefol," ac o herwydd hyny nad oedd "cywilydd gan Dduw ei alw yn Dduw iddynt," gan ei fod wedi parotoi y gyfryw sefyllfa ar eu cyfer ag oeddynt yn

ddymuno. Ond yn "nghyflawnder yr amser," cyfododd "haul y cyfiawnder" ar y byd, a "dygodd fywyd ac anllygredigaeth i oleuni trwy yr efengyl." Gwelodd Ef "byrth cysgod angeu;" agorwyd "pyrth marwolaeth" iddo; aeth trwyddynt, a dychwelodd trwyddynt yn ol ag agoriadau y pyrth yn ei law. Rhoddodd Ef, nid yn unig oleuni a sicrwydd am anfarwoldeb yr enaid a byd arall, ac ar sefyllfa o wobr a chosp yn y byd hwnw, "yn ol yr hyn a wnaethpwyd yn y corff, pa un bynag fyddo ai da ai drwg," ond hefyd sicrhaodd y bydd i "bawb a'r sydd yn y beddau glywed ei leferydd Ef" ryw ddiwrnod, ac y "deuant allan, y rhai a wnaethant dda i adgyfodiad bywyd, ond y rhai a wnaethant ddrwg i adgyfodiad barn;" peth nad oedd dynoliaeth erioed, o honi ei hun, wedi meddwl na dychymygu am dano, ac na wnaethai byth. Yr hên lyfr sydd "yn gosod terfyn ar dywyllwch, ac yn chwilio allan bob perffeithrwydd; hyd yn nod meini tywyllwch a chysgod angeu;" ïe, un rhyfedd wyt ti, yr hên lyfr, "Rhyfedd yw dy dystiolaethau," "Dyfnder mawr yw dy farnedigaethau," "Fel mynyddoedd cedyrn mae dy gyfiawnder," "Mawr iawn a gwerthfawr yw dy addewidion." "Haws yw i'r nef a'r ddaear fyned heibio, nac i un iòd nac un tipyn o honot ti ballu;" ïe, "Y nef a'r ddaear a ânt heibio, ond dy eiriau di nid ânt heibio ddim." Ni lwyddodd, ac ni lwydda, un "offeryn a luniwyd, nac a lunier i'th erbyn." Bu dyfais dynion a chythreuliaid ar eu heithaf drwy yr oesau yn llunio pob math o offerynau i'th erbyn, ond yn ofer; ti a wnaethost yn "euog bob tafod a gyfododd i'th erbyn mewn barn," ac a wnei eto. Daethost allan "yn gorchfygu ac i orchfygu," a thi a orchfygu eto, hyd oni syrth y gelyn olaf wrth dy draed: "Holl freninoedd y ddaear a'th glodforant pan glywant eiriau dy enau," a'r "holl genhedloedd a ymfendithiant ynot pan lenwir y ddaear â gwybodaeth yr iachawdwriaeth a ddatguddir ynot ti." Yn

"dy oleuni di y gwelwn ni oleuni;" hebot, buasai afagddu dragwyddol yn gorchuddio y ddaear, a'i chyflwr mor ddiobaith ag uffern ei hun. Brysia, llwydda, "llanw'r ddaear fawr â'th ras."

Wrth derfynu, goddefwch i mi ofyn, fy narllenwyr, Pa fodd y mae yr achos yn sefyll rhyngoch chwi a Llyfr yr Arglwydd? y mae efe genych, bob un o honoch gartref, yn ddiau; Pa faint o ddarllen a "cheisio allan" o hono sydd yn y tŷ a'r teulu? Pa faint o barch ac ufudd-dod sydd yn cael eu talu i'w orchymynion a'i reolau? Y mae efe yn llefaru yn awdurdod ei awdwr wrth bawb yn y teulu—y gwŷr a'r gwragedd, y tâd a'r fam a'r plant, meistriaid, meistresi, a gweinidogion — hòna awdurdod i lywodraethu calonau, tymherau, geiriau, ac ymddygiadau pob un. Dengys "y ffordd dda," a dywed, "Dyma y ffordd, rhodiwch ynddi, a chwi a gewch orphwysdra i'ch eneidiau."

Eto; Cofiwn nad yw mynych ddarllen y llyfr, a thrysori ei eiriau yn y côf, a rhyw gydsynio difater mai Llyfr yr Arglwydd ydyw; rhyw gred farw, fel y dywed Paul fod Agrippa yn credu i'r proffwydi, y ffydd hono heb weithredoedd y dywed Iago am dani mai "ffydd farw ydyw," ni wna y ffydd a'r broffes hono un lles i'r dyn ei hun nac i neb arall. Mae y ffydd a ofyna y llyfr yn cynwys credu â'r galon, derbyn ei eiriau i'r galon, fel y genont ac y gwreiddiont ynddi, y tyfont ac y dygont ffrwyth da, fel y dengys y Gwaredwr yn nameg yr hauwr. Onid oes llaweroedd yn ein gwlad yn proffesu ffydd yn ngair Duw, "Ac ar weithredoedd yn ei wadu?" yn ddynion celwyddog, dichellgar, ac anonest yn eu masnach; yn gwisgo proffes o grefydd fel "crys o rawn i dwyllo," yn tybied mai "elw yw duwioldeb?" "Gweithredoedd meirwon" ydyw y ffrwythau gwenwynig a gynyrcha y ffydd farw hon. Y mae ffydd fywiol yn ngair y gwirionedd, o'r tu arall, yn dwyn "ffrwythau cyfiawnder,

y rhai sydd trwy Iesu Grist, er gogoniant a moliant i Dduw;" yn puro y galon; yn bwrw ymaith gelwydd o'r genau, a dichell o'r yspryd; yn dwyn ei meddianwyr i "ddarpar pethau onest ger bron pob dyn," ac i ymgyrhaedd at "pa bethau bynag sydd wir, pa bethau bynag sydd onest, pa bethau bynag sydd gyfiawn, pa bethau bynag sydd bur, pa bethau bynag sydd hawddgar, pa bethau bynag sydd ganmoladwy," &c. (Phil. iv. 8.); y mae y ffydd sydd yn cyfiawnhau y pechadur gyda Duw, yn ei wneyd fel hyn yn gyfiawn tuag at ddynion. "Os gwyddoch ei fod Ef yn gyfiawn, chwi a wyddoch fod pob un a'r sydd yn gwneuthur cyfiawnder, wedi ei eni o hono Ef. Yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder sydd gyfiawn, megis y mae yntau yn gyfiawn." (Ioan ii. 29, a iii. 7.)

# PREGETH XIII.

## CYSEGR DUW.

"Gorsedd ogoneddus ddyrchafedig o'r dechreuad, yw lle ein cysegr ni. O Arglwydd, gobaith Israel, y rhai oll a'th wrthodant a waradwyddir, ysgrifenir yn y ddaear y rhai a giliant oddi wrthyf, am iddynt adael yr Arglwydd, ffynon y dyfroedd byw."—*Jeremia* xvii. 12, 13.

FFLACHIAD disymwth, fel tywyniad mellten ar feddwl y proffwyd sydd yma: digwyddiad hynod yn hanes meddwl dyn ydyw y cyfryw ymweliadau; nid oes un cyfrif i'w roddi am danynt yn ol un ddeddf adnabyddus a berthyn i'r meddwl; y maent fel yn tori ar draws pob deddf, ac yn ddeddf iddynt eu hunain; yn bwrw ymaith bob peth oedd yn y meddwl ar y pryd, ac yn ei lwyr feddianu iddynt eu hunain, gan roddi cyfeiriad newydd i'w fyfyrdodau. Yn nghanol ei fyfyrdodau ar y mater oedd yn gorphwys benaf ar ei feddwl yn wastadol yr oedd Jeremia ar yr adeg hon; "Pechod Juda;" dyna oedd baich mawr ei fywyd, yr hwn a barai iddo ochain ac wylo beunydd o'i herwydd. "Pechod Juda." Nid oedd pechod ar y ddaear i'w gyffelybu â phechod Juda. Yr oedd Juda yn wahanol i'r cenhedloedd ereill, yr oedd ef yn pechu yn y goleuni; yr oedd cyfraith yr Arglwydd yn ei law ef; proffwydi Duw yn ei ddysgu a'i rybuddio; er hyny, yn ffordd y cenhedloedd ereill y mynai efe rodio, a myned ar ol eu heilunod, gan adael ei Dduw

cyfamodol ei hun. Geilw y proffwyd, neu yr Arglwydd trwyddo, "ar y nefoedd i synu ac ofni yn aruthrol" uwchben pechod Juda (Jer. ii. 9–13), fel pechod nad oedd ei gyffelyb i'w gael ar y ddaear. Y mae pechodau Cymru yn awr yn dwyn llawer o gyffelybrwydd i bechodau Juda gynt—pechodau yn erbyn goleuni a manteision gwybodaeth mwy a helaethach nac oedd Juda y pryd hwnw yn eu mwynhau.

Fel yr oedd pechod Juda bob amser ger bron y proffwyd, y mae yntau yn ei ddal o hyd ger bron Juda, gan ei alw a'i gymell i edifarhau, a dychwelyd oddiwrth ei bechod, cyn i'r farn fygythiedig ddisgyn arno. Nodir ganddo yma luaws o bechodau ereill, heblaw ei eilun-addoliaeth, yr oedd Juda yn euog o honynt, megis cybydd-dod, trais, gorthrymu'r tlodion, trawswyro barn a chyfiawnder yn llysoedd y wlad. Dilyna y proffwyd yr afonydd llygredigaethau hyn i ffynonell eu tarddiad—y galon; "Y galon sydd fwy ei thwyll na dim, a drwg ddiobaith ydyw; pwy a'i hedwyn?" (Adn. 9.) Tra yr oedd efe fel hyn yn sefyll uwch ben y pydew du, dwfn, ac aruthrol hwn, dyma weledigaeth y cysegr yn ymagor o flaen ei feddwl, ac megis yn taflu "pechod Juda," a'r cwbl allan o'r golwg, ac yn llenwi ei enaid âg edmygedd, gan ryfeddol ogoniant yr olygfa oedd o'i flaen, fel y mae yn tori allan yn iaith gref, gyffrous y testyn, gan ddywedyd, "*Gorsedd ogoneddus, ddyrchafedig o'r dechreuad yw lle ein cysegr ni!*" a thyr allan eto megis ffrwd ferwedig o fawl—"O Jehofa, gobaith Israel."

Caf alw eich sylw yn

I. AT Y GOGONIANT A RODDODD YR ARGLWYDD AR EI GYSEGR, A GWEINIDOGAETH EI GYSEGR "O'R DECHREUAD."

II. YR HYN YW DUW, FEL Y MAE YN DADGUDDIO EI HUN YN NGWEINIDOGAETH EI GYSEGR I DDEILIAID Y WEINIDOGAETH HONO—"GOBAITH ISRAEL."

III. MAWR YNFYDRWYDD A THRUENI Y RHAI A WRTH-

ODANT AC A DDIYSTYRANT WEINIDOGAETH Y CYSEGR—"Y RHAI OLL A'TH WRTHODANT A WARADWYDDIR," &c.

I. *Y gogoniant a roddes Duw ar ei gysegr, a gweinidogaeth y cysegr, dan bob goruchwyliaeth.* Bu yr eglwys yn hir heb un cysegr i Dduw—"cysegr o waith llaw" ynddi; ond yr oedd hi o hyd, er hyny, o dan ryw fath neu gilydd o oruchwyliad dwyfol a goruwchnaturiol. Dechreuodd goruchwyliaeth newydd yn hanes yr eglwys, a gwaith mawr prynedigaeth y byd, yn ngalwad Abraham i fyned allan o'i wlad (Gen. xii. 1–3). Gellid galw yr oruchwyliaeth hon yn oruchwyliaeth yr ymweliadau dwyfol, hwyrach. Am yr amgylchiad hwn yn hanes Abraham, dywed Stephan, "Duw y gogoniant a ymddangosodd i'n tad Abraham, pan oedd efe yn Mesopotamia, cyn iddo drigo yn Charan." (Act. vii. 2.) Ymddangosodd yr Arglwydd iddo amryw weithiau drachefn, wedi iddo fyned i wlad Canaan, a gwnaeth gyfamod âg Ef, gan ei gyfryngu, trwy lŵ, i'w gadarnhau, a rhoddi addewid o hâd iddo yn yr hwn y bendithid holl genhedloedd y ddaear. Ymddangosodd i Isaac wedi hyny, gan sicrhau yr un cyfamod ac addewid iddo yntau; a thrachefn i Jacob amryw weithiau yr un modd. Yr oedd dadguddiadau o'r Prynwr mawr, a phrynedigaeth y byd trwyddo, yn nawsio allan yn yr holl ymweliadau dwyfol hyny, "Fel y delai bendith Abraham ar y cenhedloedd trwy Grist Iesu." (Gal. iii. 14.) Fel hyn yr oedd y cenhedloedd, yr holl genhedloedd, yn cael megis eu rhagfachu wrth drefn y brynedigaeth trwy Grist Iesu, yn y cyfamod a'r addewid i Abraham, Isaac, a Jacob; ac yn y commisiwn a roddodd Efe, Hâd Abraham, i'w ddisgyblion ar ei esgyniad i'r nefoedd, daeth y fendith hono, yn ei holl gyflawnder, ar y cenhedloedd, "Ewch, gan hyny, a dysgwch yr holl genhedloedd." (Matt. xxviii. 19.) "Ewch i'r holl fyd a phregethwch yr efengyl i bob creadur." (Marc xiv. 15.)

Yn Jacob y mae goruchwyliaeth yr ymweliadau dwyfol yn terfynu; ond yn Moses, yn agos i ddau can mlynedd wedi marwolaeth Jacob, wele yr Hwn a ymddangosai i'r tadau o'r blaen, ar ffurf a gwedd ddynol, yn ymddangos iddo ef, ar wedd arall, yn y berth oedd yn llosgi gan dân, ond heb ei difa, yn Horeb. Yma dechreuai goruchwyliaeth newydd o'r drefn ddwyfol, gwaith yr hon oedd gwaredu y genedl etholedig o gaethiwed yr Aifft, i'w dwyn i feddianu y wlad addawedig iddynt yn y cyfamod a wnaethai Duw â'u tadau. Gallem alw hon yn *oruchwyliaeth y ffon*, hwyrach; canys ffon Moses oedd y prif offeryn yn ngweinyddiad ei gweinidogaeth. Troisid y ffon hono yn gyntaf yn sarff, a thrachefn yn ffon, fel yr oedd cyn hyny, ger llaw y berth yn Horeb; ac archai yr Arglwydd i Moses ei chymeryd yn ei law, a myned at Pharaoh, a gorchymyn iddo ollwng ei bobl Ef o'u caethiwed; ac os gwrthodai, parai i Moses roddi y ffon hono ar ei war. Dyma'r ffon a darawodd yr Aifft, a'r holl ryfeddodau mawrion hyny; a "wnaeth bethau rhyfedd yn nhir Ham; pethau ofnadwy wrth y Môr Coch; a ddrylliodd y creigiau yn yr anialwch." Ni allasai Pharaoh, a holl gadernid yr Aifft, nac afon, na môr yr Aifft, na chreigiau'r anialwch, sefyll o flaen y ffon ofnadwy hono. Aeth Moses yn falch o honi o'r diwedd, tarawodd y graig dair gwaith â hi yn Cades, yn lle ei dangos iddi, a llefaru wrthi, fel y gorchymynasai yr Arglwydd iddo; digiodd Duw, ac yno terfynodd goruchwyliaeth y ffon.

Y nesaf, a'r benaf o'r holl oruchwyliaethau dwyfol, hyd hyny, ydyw yr un sydd i ddyfod dan ein sylw yn awr—*Goruchwyliaeth y Cysegr.* Taflodd gogoniant mwy rhagorol yr oruchwyliaeth hon yr holl oruchwyliaethau blaenorol i'r cysgod, "Gorsedd ogoneddus ddyrchafedig o'r dechreuad" ydoedd hon; ac i barhau yn ei gogoniant am oesau lawer.

1. Rhoddodd Jehofa fawredd a gogoniant arbenig ar gysegr yr hên gyfamod wrth roddi y portreiad o hono i ofal Moses i'w adeiladu. Cawn grynodeb o hanes adeiladaeth teml fawr y bydysawd, "Y nefoedd a'r ddaear, a'u holl luoedd hwynt," mewn un bennod fer yn nechreuad y llyfr sanctaidd, ond cymer un-ar-bymtheg o bennodau meithion (o Exodus xxv. i xli.) i gynwys hanes portreiad adeiladaeth a chysegriad y babell fechan hon, mewn cymhariaeth, yn nghyd â chysegriad Aaron a'i feibion i weini ger bron yr Arglwydd ynddi. Yr oedd yr adeiladaeth fechan hono, gan hyny, yn rhyw beth mawr yn ngolwg y Duw mawr ei Hun. Yr oedd ei chyfodiad hi yn ddechreuad cyfnod newydd yn hanes crefydd ac eglwys Dduw ar y ddaear; yn rhoddi ffurf a gwedd newydd ar wasanaeth ac addoliad Duw, ac yn dwyn allan ddadguddiad helaethach na dim a roddasid o'r blaen o'r dirgelwch cuddiedig yn Nuw cyn yr oesau am brynedigaeth y byd.

Fel y crybwyllais o'r blaen, ni buasai gan y Duw mawr babell i breswylio ynddi gyda dyn ar y ddaear cyn hyn, ond ymddangosai ar achlysuron i'r patriarchiaid yn null dyn, ar wedd ddynol. Pan ddisgynodd Efe ar Fynydd Sinai i gyhoeddi ei danllyd gyfraith, "Galwodd yr Arglwydd Moses i ben y mynydd, a gorchymynodd iddo fyned i waered a rhybuddio'r bobl, rhag iddynt ruthro at yr Arglwydd i hylldremu, a chwympo llawer o honynt." Ymddangosai hyny i Moses fel peth afreidiol. "A dywedodd Moses wrth yr Arglwydd, Ni ddichon y bobl ddyfod i fyny i Fynydd Sinai, oblegid Ti a dystiolaethaist wrthym, gan ddywedyd, Gosod derfyn yn nghylch y mynydd, a sancteiddia ef. A'r Arglwydd a ddywedodd wrtho, Dos, cerdda i waered," &c. (Exod. xix. 21–23.) Buasem ninau yn meddwl, fel Moses, nad oedd dim angen rhybuddio'r bobl i ochelyd rhuthro at y tân ysol, a'r llosgfeydd tragwyddol oedd wedi disgyn ar y

mynydd, y buasai eu braw a'u dychryn yn ddigon i beri iddynt gadw draw, a cheisio dianc i rywle o olwg Sinai, pe y gallent; ond tröai yr Arglwydd reswm Moses heibio drwy orchymyn iddo, gan ddywedyd, "*Dos, cerdda i waered.*" Y mae y byr hanes hwn yn un o gilfachau yr ysgrythyr, lle y mae gwirionedd mawr a phwysig megis yn guddiedig mewn awgrymiad; yr hyn a awgrymir yma ydyw, mai ynfydrwydd a rhyfyg o'r mwyaf ydyw i droseddwr euog anturio agoshau at ei Farnwr cyfiawn yn ffordd y ddeddf. Fel Deddfwr a Barnwr yr ymddangosai y Brenin mawr ar Sinai y pryd hwnw, a chynulleidfa o droseddwyr euog yn ngwyneb y gyfraith yr oedd Efe yn awr yn ei chyhoeddi iddynt, oedd ger ei fron, a rhoddai ar ddeall iddynt nad oedd na chymod na chymundeb yn bosibl i fod rhyngddo Ef a hwythau yn y ffordd hono; ac mai marwolaeth sicr fyddai iddynt gynyg arni. Ystyr y gwaharddiad dan sylw, mewn geiriau ereill, ydyw, "Trwy weithredoedd y ddeddf ni chyfiawnheir un cnawd yn ei olwg Ef." (Rhuf. iii. 20.)

Fel hyn, yn y gwaharddiad a'r rhybudd bygythiol hwnw, cydgauodd y Deddfwr mawr dan bechod: dan farn a melldith deddf gyfiawn, yr holl gynulleidfa hono o droseddwyr euog a safent ger ei fron, a'r holl fyd euog yn gystal a hwythau; ond ar yr un pryd, yr oedd yn eu cyd-gau i'r ffydd oedd i gael ei dadguddio yn mhen ychydig ddyddiau wedi hyny, yn y portreiad o'r cysegr a roddid i Moses yn y mynydd, ac yn ngweinidogaeth y cysegr hwnw. Yr oedd hwn yn ddirgelwch cuddiedig yn Nuw na wyddai Moses ddim am dano, hyd nes y dadguddiwyd ef iddo wedi i'r Deddfwr mawr gyhoeddi y deng air o ganol y tân ar ddydd y gymanfa. Yr oedd y gorchymyn i Moses fyned i rybuddio y bobl na ryfygent fyned i fynu at Dduw i'r mynydd, a holl weinidogaeth y dydd ofnadwy hwnw, yn rhagbarotoad i ddwyn i mewn weinidogaeth fwy rhagorol—gweinidogaeth

y cysegr. "Hysbysodd ei ffyrdd i Moses"—ffordd ei gyfiawnder fel Barnwr cyfiawn, a ffordd ei ras fel Duw trugarog; y gyntaf yn ngweinidogaeth rhoddiad y ddeddf, a'r olaf yn ngweinidogaeth y cysegr. Cauodd ddrws gobaith yn erbyn yr euog yn ngwyneb y ddeddf, ac agorodd ddrws "gobaith gwell" o'i flaen yn y cysegr. "Dy ffordd, o Dduw, sydd yn y cysegr," medd y Salmydd, sef ffordd ei ras a'i drugaredd i ymgeleddu pechadur. Wedi gorchymyn i Moses rybuddio y bobl na ddeuent i fynu ato Ef i'r mynydd, rhag eu difetha, Efe a ddywedodd, megis pan roddai y portreiad o'r cysegr iddo, "Er na all y bobl ddyfod i fynu ataf Fi," gallaf Fi ddyfod i waered atynt hwy. Gwna i mi babell a thrugareddfa, "A mi a gyfarfyddaf â'r euog yno, ac a'i bendithiaf." Felly, Efe a roddodd ogoniant mawr ragorol ar ei gysegr yn y dechreuad.

2. Fe roddodd fawredd a gogoniant ar y cysegr hwnw, trwy ddyfod ei Hunan i breswylio ac aros ynddo. "Felly gorphenodd Moses y gwaith," medd yr hanes. "Yna cwmwl a orchuddiodd babell y cyfarfod; a gogoniant yr Arglwydd a lanwodd y tabernacl. Ac ni allai Moses fyned i babell y cyfarfod, am fod y cwmwl yn aros arni, a gogoniant yr Arglwydd yn llenwi y tabernacl." (Exod. xi. 33–35.)

Dydd mawr oedd hwnw yn Israel, pan oedd Moses yn codi y tabernacl, ac yn ei adolygu, gan ei gymharu â'r portreiad, ac yn teimlo yn ddedwydd yn ei feddwl wrth gael ei fod yn ateb yn gyflawn yn mhob peth i'r portreiad hwnw, wedi ei osod i fyny, pob peth yn ei le, "Ar y dydd cyntaf, o'r mis cyntaf, yn yr ail flwyddyn wedi eu gwaredigaeth o'r Aifft," daeth Brenin Israel mewn cerbyd o oleuni disglaer, o ganol y tywyllwch oedd yn gorchuddio Mynydd Sinai, gan ddisgyn i lawr dros ei lechweddau yn ngolwg yr holl wersyll, a'r holl bobl yn syrthio ar eu hwynebau ac yn addoli, tra yr elai y cerbyd dwyfol yn mlaen i gyntedd y

palas, a thrwy y cysegr nesaf allan i'r sanctaidd sancteiddiolaf, lle y disgynodd o'r cerbyd, ac yr esgynodd i'w orseddfainc "ddyrchafedig a gogoneddus"—y drugareddfa rhwng y cherubiaid, ac y dywedodd, "Dyma fy ngorphwysfa yn dragywydd; yma y trigaf, canys chwenychais hi." (Salm cxxxii. 14.)

"Dyma fy ngorpwysfa; yma y trigaf yn dragywydd." "Yma, yn fy nghysegr, ar fy ngorseddfainc, y drugareddfa, i dderbyn aberth cymod, i fendithio trueiniaid â lluniaeth, i ddiwallu y tlodion â bara, i wisgo ei hoffeiriaid âg iachawdwriaeth, fel y byddo i'w saint ganu a gorfoleddu, ac y trigwyf yn moliant Israel." Mwy o ogoniant na hyn ar ei gysegr ni allasai yr Anfeidrol ei Hunan ei roddi! "I weled dy nerth a'th ogoniant, fel y'th welais yn y cysegr," meddai y Salmydd. (Salm lxiii. 2.) Yr oedd ef yn gweled nerth a gogoniant Duw yn "y nefoedd a'r ffurfafen," ac yn canu yn ardderchog ar y gogoniant hwnw yn aml; ond yn y cysegr yr oedd efe yn gweled nerth a gogoniant Duw yn benaf; "Allan o Sïon, *perffeithrwydd* tegwch," yr oedd y gogoniant dwyfol yn tywynu ar ei enaid, nes y gwresogai ac yr enynai tân ynddo, a ferwai foliant allan o hono, megis yn yr ymadroddion hyny, a llawer o'u cyffelyb, "Yna yr af at allor Duw, at Dduw hyfrydwch fy ngorfoledd: canaf i ti ar y delyn, O Dduw, fy Nuw." (Salm xliii. 4.)

3. Yn yr amddiffyn oedd ar yr holl ogoniant hefyd, rhoddodd Duw fawredd arbenig ar ei gysegr—y cwmwl goleu oedd yn ei amdoi, yn cysgodi drosto, y dydd, y llewyrch tân fflamllyd y nos. Y cysegr hwnw oedd canolbwnc dyddordeb y nef a'r ddaear wedi iddo gael ei berffeithio, ac i Dduw ddyfod i breswylio ynddo. Ar ol dyddiau goruchwyliaeth y ffon, y cysegr a'r arch oedd pob peth Israel. Y cysegr a'r arch oedd eu harweinydd yn eu holl deithiau a'u symudiadau yn yr anialwch. Yr oedd arch cyfamod

yr Arglwydd yn myned o'u blaen hwynt, i chwilio am orphwysfa iddynt—"A hefyd, pan gychwynai'r arch, Moses a ddywedai, Cyfod, Arglwydd, a gwasgarer dy elynion, a fföed dy gaseion o'th flaen di. A phan orphwysai hi, y dywedai efe, Dychwel, Arglwydd, at fyrddiwn miloedd Israel." (Num. x. 33–36.) Yr oedd y nefoedd a'r ddaear yn teimlo oddiwrth symudiadau y cysegr a'r arch. "Pan aethost, O Dduw, o flaen dy bobl, pan gerddaist trwy'r anialwch, y ddaear a grynodd, a'r nefoedd a ddiferasant o flaen Duw, sef Duw Israel." (Salm lxviii. 7, 8.) Ac medd y Salmydd yn mhellach, "Teyrnasoedd y ddaear, cenwch i Dduw; canmolwch yr Arglwydd. Yr hwn a ferchyg ar nef y nefoedd, y rhai oedd erioed: wele Efe yn anfon ei lef, a hono yn llef nerthol. Rhoddwch i Dduw gadernid: ei oruchelder sydd ar Israel, a'i nerth yn yr wybrenau." Ond, "Ofnadwy wyt, O Dduw, o'th gysegr: Duw Israel yw Efe sydd yn rhoddi nerth a chadernid i'r bobl. Bendigedig fyddo Duw." (*Ib* adn. 32–35.)

Rhoddodd Duw Israel ogoniant ar ei gysegr ac arch ei gyfamod, yn ngolwg yr holl wersyll, ac yn ngolwg y Canaaneaid hefyd: Pan ddaeth y genedl i lan yr Iorddonen, yr oedd yr arch ar ysgwyddau y Lefiaid, yn myned o'i blaen i gŵr y dyfroedd, a phan ddisgynodd ei chysgod hi ar yr afon, teimlodd yr hên Iorddonen rywbeth na phrofasai erioed o'r blaen; holltodd ac ymwahanodd ei dyfroedd, troes un ran o honi yn ei ol tua lle ei tharddiad, a phrysurai y rhan arall yn ei flaen tua'r môr. Beth a welaist ti, hên Iorddonen? Pa ham y tröaist yn ol heddyw, peth na wnaethost erioed o'r blaen? Gweled Arch Duw Israel a wnaethai'r afon. Yr oedd holl natur yn talu gwarogaeth i fawrhydi yr arch. Dyna gaerau Jericho, yn fuan ar ol hyny, yn syrthio i lawr i'r ddaear ger ei bron. Wedi i feibion annuwiol Eli ddigio Duw, drwy halogi ei gysegr yn

Shilo, ac iddo roddi Israel yn llaw y Philistiaid, ac iddynt ddal a dwyn yr arch yn fuddugoliaethus adref o'r frwydr—"Y gogoniant a ymadawodd o Israel." Dyna y diwrnod tywyllaf a welsai Israel erioed, a diwrnod llawenydd penaf y Philistiaid, gan y tybient fod Dagon, eu duw hwy, wedi llwyr orchfygu Duw Israel. Dodasant yr arch wrth draed Dagon, eu duw, yn ei deml yn Ashdod y noson hono, ac "Yna," medd y Salmydd, "deffrödd yr Arglwydd fel un o gysgu, fel cadarn yn bloeddio gwedi gwin." (Salm lxxviii. 65.) Agorodd ei lygad ar Dagon, a chwympodd y ddelw ar ei hwyneb ger bron yr arch. Gosododd offeiriaid Dagon ef drachefn yn ei le y boreu dranoeth, gan ei hoelio yno, fel na syflai; ond och! erbyn y boreu nesaf, yr oedd golwg druenus ar Dagon, "Wedi syrthio i lawr ar ei wyneb ger bron arch yr Arglwydd, a phen Dagon, a dwy gledr ei ddwylaw, oedd wedi tori ar y trothwy; corff Dagon yn unig a adawyd iddo." (Sam. v. 4.) A dyna arch Duw Israel wedi ei ddryllio a'i andwyo ef druan am byth! "Ac Efe a darawodd ei elynion (y Philistiaid) o'r tu ol; rhoddes iddynt warth tragwyddol." Rhyddhaodd arch Duw ei hun o ddwylaw y Philistiaid yn fuan. Yr oedd pethau ofnadwy yn ei chanlyn yn mhob man lle yr elai, fel yr oedd y gelynion fuasent yn gorfoleddu wrth ei derbyn i'w gwlad, a gwaedd eu dychryn rhagddi, yn dyrchafu hyd y nefoedd, ac am ei hanfon yn ol i dir Israel. Gadawodd ei choffadwriaeth ar ei hol yn nhir y Philistiaid am byth. Ond heb ymhelaethu, fel yna y rhoddes y Duw mawr ogoniant ar ei gysegr a'i arch o'r dechreuad, yn yr holl bethau mawrion ac ofnadwy oedd yn canlyn ei holl symudiadau—goruchwyliaethau yr oedd yr holl genedloedd cylchynol, yn gystal ag Israel, yn teimlo oddiwrthynt.

4. Y pethau mawrion tragwyddol yr oedd y cysegr a'r arch yn eu portreiadu oedd dirgelwch ac enaid y gogoniant

hwnw—"Cysgodau y daionus bethau a fyddent, ac nid gwir ddelw y pethau hyny oeddynt." (Heb. x. 1.) A dyna lle mae y rheswm am fanyldra mawr y portreiad o'r cysegr a roddwyd i Moses ar y mynydd, a'r gorchymyn caeth a roddwyd iddo i ofalu gwneyd y cwbl yn ol y portreiad hwnw; heb roddi dim ato, na thynu dim oddiwrtho, na chyfnewid dim arno. Yr oedd pob astell a hoel, pob dodrefnyn, pob mortais, pob cnap a phomgranad, pob peth ynddo, yn cynrychioli yn ffigyrol ryw *idea* yn y drefn dragwyddol o ras yn Nghrist Iesu; felly nid oedd dim o'r dynol i fod yn y cysegr—dwyfol oedd y cwbl, fel yr oedd y drefn o ras a arfaethasai Efe ynddo ei Hun, cyn bod y byd, yn ol boddlonrwydd ei ewyllys Ef, a bortreiadid ynddo. Felly y dywed yr apostol am dano. (Heb. ix. 1–9).

5. Yn nghysegr y cyfamod newydd—"y gwir gysegr"—y mae cysegr yr hên gyfamod yn diflanu o'r golwg am byth; a'r pethau nefol a thragwyddol a gysgodid ac a bortreiedid yn hwnw, yn dyfod yn sylweddau—yn "wir ddelw" —y pethau hyny. Yn hwn, y pethau nefol eu hunain ydynt. Y mae hwn a'i weinidogaeth i aros yn ddigyfnewid byth—"Ac os bu yr hyn a ddilëid yn ogoneddus, mwy o lawer y bydd yr hyn sydd yn aros yn ogoneddus, canys hefyd ni ogoneddwyd yr hyn a ogoneddwyd yn y rhan hon, o herwydd y gogoniant tra rhagorol." (2 Cor. iii. 10, 11.) Dydd y Pentecost oedd dydd mawr cysegriad goruchwyliaeth cysegr y cyfamod newydd, a gwnaed "rhyfeddodau yn y nefoedd uchod, ac arwyddion ar y ddaear isod." (Act. ii. 19.) Nerthoedd y ddwy yn cael eu hysgwyd i roddi gogoniant yn y dechreuad, ar y cysegr, yn ngwydd yr Iuddewon, "a gwŷr bucheddol o bob cenedl dan y nef," oedd yn bresenol yn Jerusalem ar y pryd; a phawb yn synu, ac yn gofyn, "Beth a all hyn fod?" (*Ib.* adn. 5 a 12.)

Wedi hyn, dyna weinidogion y cysegr—yr apostolion—yn cymeryd arch y cyfamod newydd megis ar eu hysgwyddau, ac yn troi allan i'r holl fyd, yn ol y *commisiwn* a gawsent—"A Duw hefyd yn cyd-dystiolaethu trwy arwyddion a rhyfeddodau, ac amryw nerthoedd a doniau yr Yspryd Glân, yn ol ei ewyllys ei Hun." (Heb. ii. 4.) Oedd, yr oedd nerthoedd a rhyfeddodau yn canlyn holl symudiadau arch y cyfamod newydd, sef gweinidogaeth yr efengyl, megis y buasai gyda chysegr ac arch yr hên gyfamod, ac yn rhoddi gogoniant mwy rhagorol arni hefyd. Syrthiai cestyll annuwioldeb y gwledydd yn mhob man i lawr o'i blaen, megis y syrthiasai caerau Jericho o flaen yr hên arch. Syrthiai eilunod y cenhedloedd drwy'r gwledydd yn ddrylliau ger ei bron, fel y cwympasai Dagon ger bron hono—"Canys arfau ein milwriaeth ni nid ydynt gnawdol, ond nerthol trwy Dduw, i fwrw cestyll i'r llawr (medd yr apostol), gan fwrw dychymygion i lawr, a phob uchder a'r sydd yn ymgodi yn erbyn gwybodaeth Duw, a chan gaethiwo pob meddwl i ufudd-dod Crist." (2 Cor. x. 4, 5.)

II. *Yr hyn yw Duw, fel y mae yn dadguddio ei Hun yn ngweinidogaeth ei gysegr i ddeiliaid y weinidogaeth hono—"Gobaith Israel."* 1. Felly yr oedd i Israel dan yr hên gyfamod. Os edrychent i Sinai, dan weinidogaeth "dydd y gymanfa," mynydd yn cael ei amgylchynu â chwmwl a thymestl, â thân a mellt a tharanau, â sain udgorn a llef geiriau—"Gweinidogaeth angeu a damnedigaeth" y geilw yr apostol hi (2 Cor. iii. 7–9)—nid oedd un wreichionen o obaith yn pelydru ar gyflwr y gynulleidfa euog o'r weinidogaeth hono; barnwr cyfiawn ar orsedd cyfiawnder oedd yn llefaru yno, a'i fys Ef ysgrifenodd eiriau ei danllyd gyfraith ar y llechau, a lladd yr euog â marwolaeth dragwyddol yr oedd pob llythyren o honi hi; ond, wele yn y cysegr obaith yn cael ei osod o flaen y gwersyll; y Deddfwr a'r

Barnwr mawr ei Hun yn dyfod i'w gysegr, yn nghanol y gwersyll, dan yr enw newydd a ddatguddiasai i Moses pan oedd efe yn agen y graig ar y mynydd, sef yr enw "Duw TRUGAROG A GRASLAWN." Yr oedd y cysegr, a phob peth a berthynai iddo, yn gosod gobaith o flaen yr euog—yr allor a'r aberth, yr archoffeiriad a'r gwaed, yr arch a'r drugareddfa, oll yn cyd-bregethu gobaith bywyd a heddwch i'r truan condemniedig. Pan elai yn gyfyng a gwasgedig arnynt dan geryddon Duw am eu hanwireddau, y cysegr oedd yr unig fan i droi am ymwared: "Os pechant i'th erbyn, (canys nid oes dyn ni phecha,) a diglloni o honot i'w herbyn hwynt, a'u rhoddi o flaen eu gelynion, ac iddynt eu caethgludo yn gaethion i wlad bell neu agos; os dychwelant at eu calon, yn y wlad y caethgludwyd hwynt iddi, gan ddywedyd, pechasom, troseddasom, a gwnaethom yn annuwiol. Os dychwelant atat ti a'u holl galon, ac a'u holl enaid yn ngwlad eu caethiwed, lle y caethgludasant hwynt, a gweddïo tu a'u gwlad a roddaist i'w tadau hwynt, a'r ddinas a ddetholaist, a'r tŷ a adeiledais i'th enw di: yna gwrando di o'r nefoedd, o fangre dy breswylfod, eu gweddi hwynt a'u deisyfiadau, a gwna farn iddynt, a maddeu i'th bobl a bechasant i'th erbyn. Yn awr, O fy Nuw, bydded atolwg dy lygaid yn agored, a'th glustiau yn ymwrando â'r weddi a wneir tua'r lle yma." (2 Cron. vi. 36–40.) Y cysegr, a Duw yn preswylio ar ei "Orsedd ogoneddus" ynddo, oedd "gobaith Israel" am nawdd, a diogelwch, ac ymwared, a phob bendith dymhorol ac ysprydol.

2. Felly yr un modd yn yr efengyl, cysegr y cyfamod newydd, y mae gobaith, a "gobaith gwell," "gobaith bywiol," "gobaith da trwy ras," "gobaith gwynfydedig," yn cael ei osod o'n blaen ni: "Duw yn Nghrist yn cymodi y byd ag Ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau" (2 Cor. v. 19), "Trwy obaith y'n hiachawyd." (Rhuf. viii. 24.) Y

peth cyntaf oll er iachau a dychwelyd enaid argyhoeddedig, wedi iddo golli y gobaith gau, twyllodrus, oedd ganddo o'r blaen, ydyw cenedlu gobaith newydd—"gobaith ni chywilyddia"—ynddo; a hwnw esyd yr efengyl o'i flaen ef: "Yr Arglwydd Iesu ein gobaith" (1 Tim. ii. 1), sylwedd mawr y cysegr a'r drugareddfa dan yr hên gyfamod. Y mae defnydd gobaith i bechadur am ei fywyd yn holl ffeithiau ac athrawiaethau yr efengyl, ond eu hiawn ddeall; nid oes ynddi ddim i darfu a digaloni yr enaid edifeiriol, ond pob peth yn anogaethol iddo i ffoi i gymeryd gafael yn y gobaith a esyd hi o'i flaen, "Fel trwy ddau beth dianwadal, (sef ei addewid a'i lŵ,) yn y rhai yr oedd yn anmhosibl i Dduw fod yn gelwyddog, y gallem ni gael cysur cryf, y rhai a ffoisom i gymeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'n blaen. Yr hwn sydd genym ni megis angor yr enaid, yn ddiogel ac yn sicr, ac yn myned i mewn at yr hyn sydd o'r tu fewn i'r llen; i'r man yr aeth y rhagflaenor drosom ni, sef Iesu, yr hwn a wnaethpwyd yn Archoffeiriad yn dragwyddol, yn ol urdd Melchisedec." (Heb. vi. 18–20.)

III. *Mawr ynfydrwydd a thrueni y rhai a wrthodant ac a ddiystyrant weinidogaeth y cysegr.* "*Y rhai oll a'th wrthodant a waradwyddir,*" &c. Achwyna Duw yn drwm ar Israel a Juda yn ei air, lawer o weithiau, o herwydd eu pechod hwn, y mwyaf ynfyd ac ysgeler o'u holl bechodau.

1. Halogent a diystyrent gysegr Duw drwy esgeuluso a diystyru ei wasanaeth. Pan anfonodd Hesecia, brenin Juda, redegwyr i gyhoeddi drwy holl Israel, a'u gwahodd i ddyfod i gynal Pasg i'r Arglwydd yn Jerusalem, gan ddywedyd, "O, meibion Israel, dychwelwch at Arglwydd Dduw Abraham, Isaac, ac Israel; ac na chaledwch eich gwar, fel eich tadau, rhoddwch law i'r Arglwydd, a deuwch i'w gysegr a gysegrodd Efe yn dragywydd, a gwasanaethwch yr Arglwydd eich Duw, &c. Felly y rhedegwyr a aethant o ddinas i ddinas,

trwy wlad Ephraim a Manasse, hyd Zabulon; *ond hwy a wawdiasant, ac a'u gwatwarasant hwy.* (2 Cron. xxx. 5–10.)

2. Drwy ymddangos ger bron Duw yn ei gysegr fel ei addolwyr, pan ar yr un pryd yr oeddynt yn ymdroi yn y pechodau mwyaf ysgeler a gwaradwyddus. "Ai yn lladrata, yn lladd, ac yn godinebu, a thyngu anudon, ac arogl-darthu i Baal, a rhodio ar ol duwiau dieithr, y rhai nid adwaenoch, y deuwch ac y sefwch ger fy mron yn y tŷ hwn, ar yr hwn y gelwir fy enw arno, ac y dywedwch, Rhyddhawyd ni i wneuthur y ffieidd-dra hyn oll? Ai yn lloches lladron yr aeth y tŷ yma, ar yr hwn y gelwir fy enw i, ger bron eich llygaid? Wele, minau a welais hyn, medd yr Arglwydd." (Jer. vii. 9–11.) Rhagorodd dau o freninoedd Juda, Ahas a Manasse, ar y lleill yn eu hyfdra rhyfygus yn halogi cysegr Duw, y cyntaf drwy "ddarnio llestri tŷ Dduw, a chau drysau y tŷ, a gwneyd iddo allorau yn mhob congl yn Jerusalem. Ac yn mhob dinas yn Juda y gwnaeth efe uchelfeydd i arogldarthu i dduwiau dieithr, ac a ddigllonodd Arglwydd Dduw ei dadau," (2 Cron. xxviii. 24, 25,) a'r olaf, Manasse, eto yn waeth, "Canys efe a adeiladodd drachefn yr uchelfeydd, y rhai a ddinystriasai Hesecia ei dad ef, ac a gyfododd allorau i Baalim, ac a wnaeth lwyni, ac a addolodd holl lu y nefoedd, ac a'u gwasanaethodd hwynt. Adeiladodd hefyd allorau yn nhŷ yr Arglwydd, am yr hwn y dywedasai yr Arglwydd, Yn Jerusalem y bydd fy enw i yn dragywydd. Ac efe a adeiladodd allorau i holl lu y nefoedd yn nau gyntedd tŷ yr Arglwydd. Ac efe a osododd y ddelw gerfiedig (y ddelw a wnelsai efe) yn nhŷ Dduw, am yr hwn y dywedasai Duw wrth Dafydd, ac wrth Solomon ei fab, yn y tŷ hwn, ac yn Jerusalem, yr hon a ddewisais i o holl lwythau Israel, y gosodaf fy enw yn dragywydd." (2 Cron. xxxiii. 3–7.) Ymostyngodd Manasse yn "ddirfawr ger bron yr Arglwydd" wedi hyny, y mae yn wir, a gwnaeth ei oreu i

ddadwneyd y drwg a wnaethai, ond yn rhy ddiweddar i atal barn Duw ar y wlad. Gadawodd gogoniant yr Arglwydd y cysegr, bwriodd Juda ymaith o'i olwg, "Oherwydd Manasse, mab Hesecia, brenin Juda, am yr hyn a wnaeth efe yn Jerusalem." (Jer. xv. 4.) Ad-goffeir pechodau Manasse lawer gwaith, fel yr achos paham y digiodd Duw, ac y bwriodd Juda allan o'i olwg, fel y bwriasai Israel cyn hyny o achos pechodau Jeroboam mab Nebat, er i Manasse ei hun ymostwng ac edifarhau, a chael maddeuant. Ni allasai ef, na Josia dduwiol chwaith, droi yn ol y cenllif o lygredigaethau yr agorasai efe y llif-ddorau i'w gollwng ar y wlad. Yr oedd pob dosbarth o'r bobl wedi cydymollwng i bob rhusedd a drygioni. "Holl dywysogion, yr offeiriaid hefyd, a'r bobl, â chwanegasant gam-fucheddu, yn ol holl ffieidddra y cenhedloedd*; a hwy a halogasant dy yr Arglwydd, yr hwn a sancteiddiasai Efe yn Jerusalem.* Am hyny, Arglwydd Dduw eu tadau a anfonodd atynt, trwy law ei genadau, gan fore-godi ac anfon, am ei fod Ef yn tosturio wrth ei bobl, ac wrth ei breswylfod. Ond yr oeddynt hwy yn gwatwar cenadau Duw, ac yn tremygu ei eiriau Ef, ac yn gwawdio ei broffwydi Ef; nes cyfodi o ddigofaint yr Arglwydd yn erbyn ei bobl, fel nad oedd iachad." (2 Cron. xxxvi. 14–16.) Gwrthod eu Duw, halogi ei gysegr Ef, tremygu ei eiriau, a gwawdio ei broffwydi, a barodd, o'r diwedd, i ddigofaint yr Arglwydd gyfodi yn erbyn y bobl hyny, "fel nad oedd iachad," ac y daeth yr holl aflwydd a'r dinystr hir-fygythiedig arnynt hwy a'u dinas a'u teml. "Y pethau hyn oll a ddigwyddasant yn siamplau iddynt hwy, ac a ysgrifenwyd yn rhybudd i ninau, ar y rhai y daeth terfynau yr oesoedd." (1 Cor. x. 11.) "*Yn rhybudd i ni.*" Y mae a wnelo *y pethau hyn* â ni, a ninau â hwythau, a llawer iawn mwy nag ydym yn feddwl ac nac ydym yn ei wneyd o honynt. Y mae cysegr Duw—a chysegr gwell a pherffeith-

iach na'r "cysegr bydol" hwnw genym ni—yn cynwys nid "cysgodau o'r daionus bethau" fel hwnw, ond "y pethau nefol" eu hunain, ac os oedd diystyru a halogi cysegr Duw dan yr hên gyfamod yn bechod mor fawr yn ei olwg Ef, ac yn dwyn cospedigaeth mor fawr ar yr halogwyr, "Pa fodd y diangwn ni, os esgeuluswn iachawdwriaeth gymaint?" (Heb. ii. 3), a "Pa faint mwy cospedigaeth, debygech chwi, y bernir haeddu o'r hwn a fathrodd Fab Duw, ac a farnodd yn aflan waed y cyfamod, trwy yr hwn y sancteiddiwyd ef, ac a ddifenwodd Yspryd y gras?" (Heb. x. 29.) Ai onid oes yn ein mysg ninau, yn Nghymru, laweroedd o esgeuluswyr cysegr ac ordinhadau Duw? Oes, lawer eto i'w cael ynddi, pe eid i chwilio, nad ydynt byth yn dyfod i sŵn gweinidogaeth y gair, a llawer o'r rhai sydd yn mynychu dyfod i ymarfer ag ordinhadau yr efengyl ar adegau neillduol, eto yn esgeuluswyr ymarferol yr un pryd; ni welir hwynt ond anfynych yn eu lle ar fore dydd Duw yn ei gysegr; anaml iawn y gwelir mwg yr aberth boreuol yn codi oddiar eu hallor hwy; ond dodant aberth cloff ac anafus yn yr hwyr, wedi aberthu goreuon y dydd i'r cnawd a'i flysiau ef. Ac yn mhellach, onid oes llawer i'w cael yn ein mysg fel y rhai hyny yr achwyna Duw arnynt trwy Jeremia —dynion yn byw ac yn ymdroi yn y pechodau ffieiddiaf ar hyd yr wythnos, yn dwyllwyr a chelwyddwyr, yn feddwon a phuteinwyr, yn dyfod ac yn sefyll ger bron Duw yn ei dŷ ar y Sabboth; ïe, yn nesau at ei fwrdd i gyfranogi o'r Swper Sanctaidd? Wrth grefyddwyr o'r fath yma, dywed yr apostol, "Ni ellwch yfed o phiol yr Arglwydd a phiol y cythreuliaid. Ni ellwch fod yn gyfranogion o fwrdd yr Arglwydd, a bord y cythreuliaid." (1 Cor. x. 21.) Ydyw, yn ddiau, y mae y pethau yr achwynid o'u herwydd ar Israel a Juda, yn eu perthynas â chysegr Duw gynt—y pethau yr enynodd digofaint Duw yn eu herbyn hwynt, ac y gadaw-

odd Efe ei gysegr, ac y bwriodd hwythau allan o'i olwg o'u plegid—i'w cael eto yn ein hamser ninau. "A'r pethau hyny, ynddynt hwy, a wnaed yn siamplau i ni, fel na chwenychem ddrygioni, megis ag y chwenychasant hwy." (1 Cor. x. 6.)

Dyna y pechod a osodir yn ein testyn ar gyfer yr "orsedd ogoneddus a dyrchafedig o'r dechreuad," ac yn ngoleuni yr "orsedd ogoneddus a dyrchafedig" hono y mae yn ddu ac ofnadwy iawn. Ar yr orsedd hono, yn y cysegr, y dadguddiodd y Duw mawr fwyaf o'i gariad, a'i ras, a'i ddaioni, a ddadguddiodd erioed; ac yn ei waith yn diystyru yr orsedd hono, yn dibrisio ac yn halogi cysegr Duw, y mae gwaethaf dyn yntau yn dyfod i'r golwg. Yr oedd eilunaddoliaeth Israel gyda'r llo aur o flaen Sinai, wrth droed gorsedd cyfiawnder y Brenin mawr, yn gampwaith o ddrygioni; ond yr oedd eu gwaith yn diystyru gorseddfainc ei ras yn y cysegr yn fwy ysgeler na hwnw. O holl bechodau ein gwlad ninau, y penaf oll yw hwn—gwrthod a dibrisio cynygiadau gras Duw yn yr efengyl, a halogi ei bethau sanctaidd Ef; ac eto, dyma y pechod y meddylia dynion leiaf o hono, ac y cywilyddiant ac y gofidiant leiaf o'i herwydd o'r un o'u pechodau. Y mae miloedd o wrandawyr efengyl yn Nghymru yn treulio blynyddoedd eu bywyd dan wrando yn unig, ac yn ddiystyr ganddynt yn myned un i'w faes, ac arall i'w fasnach, yn eithaf tawel; ond y mae "*Gwr y ty yn digio.*" O!.ai nid oes achos i ofni ei fod ar "dyngu yn ei lid," na chaiff llawer o hên wrandawyr Cymru "brofi o'i swper Ef." Beth pe rhifid gwrthgilwyr Cymru? Dynion a fuont unwaith yn gyhoeddus gyda chrefydd, ac yn ymwneyd â phethau sanctaidd cysegr Duw, ond a giliasant yn ol, a adawsant "ffynon y dyfroedd byw," ag ydynt yn ymdroi yn mhydewau ffieiddiaf anwiredd a phechod, byddai y nifer yn llu mawr iawn!

Ond beth fydd y canlyniad? Beth fydd y diwedd? Dyma yr ateb a rydd y testyn, "Y rhai oll a'th wrthodant a waradwyddir. Ysgrifenir yn y ddaear y rhai a giliant oddiwrthyf, am iddynt adael yr Arglwydd, ffynon y dyfroedd byw." Ond beth yw cynwysiad y fath ymadroddion? Hawdd yw gofyn y cwestiwn, ond pwy a ddichon ei ateb? "Canys os o'n gwirfodd y pechwn, wedi derbyn gwybodaeth y gwirionedd, nid oes aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach; eithr rhyw ddisgwyl ofnadwy am farnedigaeth, ac angerdd tân, yr hwn a ddifa y gwrthwynebwyr." (Heb. x. 26, 27.) "Ysgrifenir yn y ddaear," bydd eu henwau a'u coffadwriaethau dan draed, yn cael eu mathru gan ddynion. Buasai eu henwau yn llyfr y bywyd yn y cysegr. Yr oedd bywyd—"*Ffynon y dyfroedd byw*"—yn agored yno o'u blaen, a hwythau yn cael eu gwahodd i yfed bywyd o honi, ond ni fynent—gwrthodasant bob cynygiad a gwahoddiad; dilewyd eu henwau o lyfr y bywyd yn y cysegr, yn y ddaear i bydru byth y mae eu henwau yn ysgrifenedig bellach; "Ac felly (medd y Pregethwr) mi a welais gladdu y rhai annuwiol, y rhai a ddaethant ac a aethant o le y Sanctaidd; a hwy a ebargofiwyd yn y ddinas lle y gwnaethent felly." (Preg. viii. 10.) Wel, fy narllenwyr, gwrandewch beth a ddywed yr Arglwydd—fel y dywedai Efe wrth Israel gynt y dywed wrthym ninau—"Perchwch fy nghysegr, yr ARGLWYDD ydwyf Fi." (Lef. xix. 30.) Perchwch ef drwy ymddangos ger bron yr Arglwydd ynddo "gyda gwylder a pharchedig ofn;" drwy werthfawrogi ei ordinhadau, heb eu hesgeuluso, "fel y mae arfer rhai," a thrwy fucheddu yn deilwng o'ch rhagorfreintiau.

Wrth y rhai sydd yn aros oddiallan, yn y cynteddau megis, dywedwn yn ngeiriau Hesecia wrth wŷr Israel, y rhai a goffawyd o'r blaen—"Ac yn awr, na chaledwch eich gwar, fel eich tadau; rhoddwch law i'r Arglwydd, a deuwch

i'w gysegr a gysegrodd Efe yn dragywydd, a gwasanaethwch yr Arglwydd." Y mae pyrth y cysegr yn agored i chwi; y mae llaw Duw oddiar y drugareddfa yn estynedig tuag atoch am gymod—rhoddwch chwithau law i'r Arglwydd. Amen.

# RHAGLUNIAETH DUW.

## RHAGDRAITH.

CYNYGIR yma rai nodiadau ar Ragluniaeth y Goruchaf, fel Rhagdraith i'r Bregeth ganlynol ar y pwnc.

Wrth Ragluniaeth Duw golygir, Arolygiaeth a goruwchlywodraeth wastadol y Brenin mawr ar holl amgylchiadau ei greadigaeth a'i greaduriaid yn gyffredinol, er dwyn i ben, a chyflawni ynddynt a thrwyddynt, ei holl amcanion gogoneddus yn eu creadigaeth. Fel Creawdwr pob peth, a phawb oll, y mae ganddo Ef, nid yn unig *hawl* i drefnu a llywodraethu y cyfan, ond, heblaw hyny, y mae Efe dan rwymedigaeth i wneyd—rhwymedigaeth i ogoniant ei enw mawr ei Hun yn gyntaf ac yn benaf oll; canys ni allasai fod yn gyson âg urddas ac anrhydedd Bôd Anfeidrol ddoeth i ddwyn i fodoliaeth gyfansawdd o fydoedd a chreaduriaid, a throi ei gefn arnynt, a'u gádael i ddigwyddo iddynt fel y damweiniai, heb fod ganddo Ef ddim a wnelai â hwynt, na chyfrif o honynt; rhaid y buasai hyny yn ddinystriol i hunan-barch y Bôd tragwyddol. Ni allasai Efe fod dan rwymedigaeth i greu dim oll, na neb oll. Dybynai y creu yn gwbl ar foddlonrwydd ei ewyllys ei Hun—gwneyd neu beidio gwneyd; ond gan iddo ewyllysio creu, y mae Efe dan rwymedigaeth iddo ei Hun, fel creawdwr, ac i'r fodoliaeth a greasai, fod iddo wylio a gofalu am, a llywodraethu holl amgylchiadau y pethau a'r personau a ddygasai Efe i fodoliaeth.

Athrawiaeth rhai o'r hên ddoethion paganaidd am gyn-

tefigaeth y bydysawd oedd, fod mater—y defnyddiau—yn anghrëedig; hyny yw, bod eu hanfodaeth yn dragwyddol annechreuol; a dyna oedd cred anffyddwyr deistaidd hên a diweddar, gan mwyaf (am y gwrth-dduwiaid—atheistiaid—y maent hwy allan o'r cwestiwn, ac nid oes a wnelom â hwynt). Dangosodd rhai athronwyr ac athrawon Cristionogol o bryd i bryd, os nad cymeradwyaeth, o leiaf duedd, i ganiatai y gallai mai fel y dysgai yr hên ddoethion paganaidd yr oedd yn bod. Yr hyn a wnaeth Duw yn ol y ddysgeidiaeth hon oedd, gosod ei allu a'i ddoethineb i actio ar beth oedd yn hanfodi eisoes, i'w trefni, eu dosbarthu, eu ffurfio, a'u dwyn i'r cyflwr a'r wedd a welir arnynt yn awr. Gan hyny, nid yw Efe yn *Greawdwr* y byd, yn mhriodol ystyr y gair, eithr yn hytrach, *Lluniwr* a Threfnydd cyntaf pob peth, o'r defnyddiau oedd yn barod wrth law—yn hanfodi erioed. Y mae cwestiynau Elihu yn darawiadol iawn ar yr achos hwn: "Pwy a roddes iddo Ef lywodraethu y ddaear? a phwy a osododd (a wnaeth) yr holl fyd?" (ar ymyl y ddalen) "Yr oll o hono." (Job xxxiv. 13.) Os nad Efe a wnaeth yr holl fyd—"*Yr oll o hono*"—ei ddefnyddiau yn gystal a'i drefniadau, Pwy a roddes iddo Ef hawl ac awdurdod i'w lywodraethu, nac i ymyraeth dim oll â phethau oeddynt yn hanfodi erioed yn gwbl annibynol ar ei allu a'i ewyllys Ef? Y mae y syniad o hanfodiad tragwyddol mater yn myned dan wraidd hawliau Duw i gyffwrdd mewn un modd a'r peth tragwyddol hwnw—mater, na allasai fod ganddo feddiant personol a chyfreithlawn o hono. Yn nghylch goruchwyliaethau Duw yn ei ragluniaeth tuag at blant dynion yr oedd y ddadl rhwng Job a'i gyfeillion. Nid oedd yr un o'r patriarchiaid hyny yn gwadu y ffaith ei fod Ef yn llywodraethu y ddaear, na bod ganddo hawl i lywodraethu, er yn gwahaniaethu mewn rhyw bethau yn eu golygiadau mewn perthynas i'r gweinyddiadau dwyfol. Y

mae Elihu, yn y cwestiynau a goffawyd, yn myned at wreiddyn y mater—yn dangos fod hawl Duw i lywodraethu y ddaear yn hanfodol anaralladwy, gan mai Efe a *osododd*, a *wnaeth* y byd—"yr oll o hono;" gan hyny, ni "roddes neb iddo Ef lywodraethu y ddaear." Nid llywodraeth gyfansoddiadol (*constitutional government*) yw ei lywodraeth Ef, ond unbenaethol (*absolute*). Llefarodd y pagan, Nebuchodonosor, yn ardderchog ar y mater ar ol iddo ddychwelyd o'i Rydychain, lle y buasai dan addysg am saith mlynedd. "Bendithiais a moliennais," medd efe, "yr Hwn sydd yn byw byth, am fod ei lywodraeth Ef yn llywodraeth dragwyddol, a'i freniniaeth o genhedlaeth i genhedlaeth. A holl drigolion y ddaear a gyfrifir yn ddiddim, ac yn ol ei ewyllys ei Hun y mae Efe yn gwneuthur â llu y nefoedd, ac â thrigolion y ddaear, ac nid oes a atalio ei law Ef, neu a ddywedo wrtho, Beth yr wyt ti yn ei wneuthur;" a thrachefn, "Yr Hwn y mae ei holl weithredoedd yn wirionedd, a'i lwybrau yn farn, ac a ddichon ddarostwng y rhai a rodiant mewn balchder." (Dan. x. 34–37.) Y mae Paul, apostol Iesu Grist, a Nebuchodonosor, y pagan frenin, yn un a chytun ar y mater hwn, "Canys pwy a wybu feddwl yr Arglwydd, neu pwy a fu gynghorwr iddo Ef? Neu pwy a roddes iddo Ef yn gyntaf, ac fe a delir iddo drachefn? Canys o hono Ef, a thrwyddo Ef, ac iddo Ef, y mae pob peth. Iddo Ef y byddo gogoniant yn dragywydd, Amen." (Rhuf. xi. 34–36.) Y mae hên driad Cymreig, mewn tri ymadrodd, yn y geiriad mwyaf hapus a tharawiadol, yn gosod allan y syniad sydd dan sylw, "Tair prif rhagorgamp Duw; rhoddi bôd o ddihanfod; treiglo y ceugant; a dodi gwell ac adfer ar a waethygodd:" sef, creu pob peth yn y dechreuad o ddim, cynal a llywodraethu pob peth, ac adfer i'w iawn-drefn gyntefig, yr hyn a waethygasai—Creadigaeth, Rhagluniaeth, ag Iachawdwriaeth.

Soniwn am Ragluniaeth dan ddau ben, cyffredinol, ac arbenigol. Wrth Ragluniaeth gyffredinol, golygir goruwchlywodraeth wastadol Duw dros amgylchiadau pawb a phob peth yn y nef a'r ddaear. Wrth Ragluniaeth neillduol, neu arbenigol, golygir goruchwyliaeth y Brenin mawr tuag at ddynion fel creaduriaid a gynysgaethodd Efe â rheswm, deall, ewyllys, a rhyddid, yr hyn a'u cyfansodda yn ddeiliaid cyfrifol iddo fel Brenin cyfiawnder yn ei lywodraeth foesol; ac felly yn ddeiliaid gwobr a chosp yn ol yr hyn a wnelont yn y cnawd, da neu ddrwg: ac yn fwy neillduol ei oruchwyliaethau tuag at, dros, ac yn achos ei eglwys a'i bobl yn eu holl bersonau a'u hamgylchiadau.

Y mae hanes goruchwyliaethau y gangen hon o'r rhagluniaeth ddwyfol, gyda golwg ar helyntion gwledydd a chenedloedd, dinasoedd a theuluoedd, a phersonau neillduol, da a drwg, ac yn enwedig gyda golwg ar helyntion ac amgylchiadau yr eglwys a dynion duwiol, yn cael lle mawr iawn yn yr ysgrythyrau.

"Ein Duw ni sydd Dduw Iachawdwriaeth" (Salm lxviii. 20), ac i ddynion yn unig, hyd y gwyddom ni, y mae Efe yn Dduw iachawdwriaeth; felly, yn ein hachos ni y rhyngodd bodd yn ei olwg Ef arddangos ei brif "ragorgamp" o "ddodi gwell ag adfer ar a waethygodd." Gwaethygodd myrddiynau o angelion "y rhai ni chadwasant eu dechreuad," ond ni ddododd Efe "well ag adfer" ar eu cyflwr hwy, eithr gadawodd hwynt i waethygu fwyfwy hyd byth; "Canys ni chymerodd Efe (yr Adferwr) naturiaeth angelion, eithr hâd Abraham a gymerodd Efe." (Heb. ii. 16.)

Dadguddio ei Hun i ni fel Duw ein hiachawdwriaeth yn Nghrist Iesu ydyw prif ddyben y dadguddiad a roddes Efe i ni yn ei air, a phrif bwnc gweinidogaeth yr efengyl yn y pregethiad o honi i'r byd, "Sef, bod Duw yn Nghrist, yn cymodi y byd ag Ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau."

(2 Cor. v. 20.) Ond eto, y mae Efe yn Dduw rhagluniaeth yn ogystal a hyny; ac y mae y gwirionedd hwn hefyd yn cyd-redeg â'r llall trwy ysgrythyrau yr Hên Destament a'r Newydd; ac yn cael ei ddal allan yn barhaus ynddynt. Rhagluniaeth, neu lywodraeth y Goruchaf ar bob peth yn gyffredinol, ac ar helyntion ag amgylchiadau plant dynion yn neillduol, ydyw y mater y traethir arno yn llyfr Job o'r dechreu i'r diwedd. Canodd y Salmydd yntau lawer iawn arno; ac y mae yr holl broffwydi hefyd yn dwyn tystiolaeth iddo, ac yn traethu llawer iawn arno, bob un. Mae athrawiaeth Moses, a'r proffwydi, a'r Salmau ar y pwnc, yn cael ei chadarnhau, lawer gwaith, yn nysgeidiaeth yr Athraw mawr ei Hun. Hònai Ef fod "Gweinidogaeth y swydd hon"—llywodraethu pob peth yn y nefoedd a'r ddaear, wedi ei hymddiried gan y Tad i'w ofal Ef, fel ei Fab anfonedig. "Megis y rhoddaist iddo awdurdod ar bob cnawd, fel am y cwbl a roddaist iddo, y rhoddai Efe iddynt fywyd tragwyddol," medd Ef wrth y Tad yn ei weddi dros ei ddysgyblion cyn eu gadael. (Ioan xvii. 2.) Ewyllysiai Efe roddi llawn sicrwydd ffydd i'w ddysgyblion hyny, ac i'w ddysgyblion yn mhob cenhedlaeth ac oes wedi hyny, fod eu personau a'u holl amgylchiadau tymhorol ac ysprydol, amserol a thragwyddol, yn berffaith ddiogel yn ei law Ef, yr hwn y rhoddasai y Tad awdurdod ar bob cnawd, ac ar bob peth yn y nef a'r ddaear iddo, i'r pwrpas arbenig o'u defnyddio a'u trefnu er eu lles a'u diogelwch hwy. Rhagddywedai iddynt y caent lawer o orthrymderau; y casëid ac yr erlidid hwynt er mwyn ei enw Ef, ond na chollid cymaint ag un blewyn o wallt eu penau, y rhai oeddynt oll wedi eu cyfrif ganddo; na allai un ci trwy'r greadigaeth symud ei dafod i gyfarth arnynt heb ei oddefiad a'i oruwchlywodraethiad Ef, mwy nag y gallasai cŵn yr Aifft gyfarth a chwyrnu ar ei bobl Israel gynt, y dydd yr oedd Efe yn eu dwyn o dŷ y caethiwed. Rhoddasai

Efe yn ngwydd ei ddysgyblion lawer o engreifftiau oedd yn profi iddynt wirionedd y dystiolaeth uchod am dano ei Hun. Gwelsent Ef lawer tro megis yn plygu ac yn plethu deddfau ac elfenau cryfion natur yn ol ei ewyllys, fel y plyga ac y pletha dyn ferhelyg y dyffryn. Cadarnheid felly eu ffydd a'u hymddiried ynddo, fel y galluogid hwy i anturio yn ddiarswyd a llawen, yn ei enw ac er ei fwyn Ef, i wyneb cynddaredd awdurdodau y byd a galluoedd y tywyllwch, ac yn y "pethau hyny oll, yn fwy na choncwerwyr," trwy yr Hwn a'u carodd. Yr oeddynt "Yn ddrych i'r byd, i angelion, ac i ddynion." Yr oedd pob cam a gerddent ar y ddaear yn cyffwrdd â thànau a adseinient hyd eithafoedd y byd a ddaw; yn peri i'r nefoedd wynfydu, ac i uffern ddirgrynu, a hyny trwy nerth eu ffydd yn eu Harglwydd, nid yn unig fel yr oedd Efe yn "Dywysog eu hiachawdwriaeth dragwyddol" hwy, ond yn gystal â hyny, fel yr oedd Efe yn "Dywysog breninoedd y ddaear," ac yn Arglwydd ei harglwyddi" hi, a holl "Awdurdodau a thywysogaethau y nefoedd ac uffern hefyd wedi eu darostwng iddo, at wasanaeth dybenion goruchwyliaeth fawr ei gyfryngdod, yn llwyddiant a diogelwch ei eglwys, i'r hon y gwnaethpwyd Ef gan y Tad, "yn Ben uwchlaw pob peth." Da y gallasai yr apostol Ioan ddywedyd, "Hon yw yr oruchafiaeth sydd yn gorchfygu y byd, sef ein ffydd ni." (Ioan v. 9.)

Y mae yn ddigon posibl fod ffydd creadyn yn Nghrist, fel Gwaredwr holl ddigonol, mor gref, fel y gallai efe ddywedyd, yn ngeiriau'r apostol, "Mi a wn i bwy y credais, ac y mae yn ddiamheu genyf ei fod Ef yn abl i gadw yr hyn a roddais ato erbyn y dydd hwnw" (2 Tim. i. 12); tra nad yw ei ffydd ar un pryd ond gwan a methedig yn ei berthynas âg amgylchiadau tymhorol y byd a'r bywyd hwn. Gyda golwg ar ffydd ei ddysgyblion, yn yr agweddiad hwn o honi, y dywedai eu Hathraw wrthynt unwaith ag

eilwaith, "O chwi, o ychydig ffydd." (Mat. vi. 25–30; a pen. xvi. 8; ac wrth Petr, pen. xiv. 31.) Ewyllysiai Efe iddynt gredu fod hyd nod gwallt eu penau mor ddiogel dan nawdd ei gadwriaeth ragluniaethol Ef ag oedd eu heneidiau yn nghadwedigaeth ei iachawdwriaeth Ef; ac mae y ffydd hon yn ngwyliadwriaeth fanol a goruwchlywodraeth wastadol ei phen mawr ar a thros holl amgylchiadau ei eglwys a'i bobl yn y byd, yn un o brif elfenau, yn wir, y benaf oll o elfenau cysur a dyddanwch y saint yn eu trallodau. Dywedodd yr Arglwydd Iesu wrth y deg a thrigain, wrth eu hanfon i bregethu yr efengyl, "Wele, yr wyf fi yn rhoddi i chwi awdurdod i sathru ar seirff ac yscorpionau, ac ar holl gryfder y gelyn, ac nid oes dim a wna ddim niwed i chwi." (Luc x. 19.) Nid barddoniaeth yw yr ymadroddion, nac i'w deall yn ffigyrol yn unig; ni lefarodd yr Athraw mawr ddim ar farddoniaeth; ond gellir cymeryd y geiriau seirff ac ysgorpionau yn eu hystyr lythyrenol, a naturiol, a ffigyrol hefyd; a phrofwyd eu gwirionedd yn yr ystyr lythyrenol yn Paul yn Melita, pan ysgydwodd efe y wiber wenwynig a lynasai wrth ei law i'r tân heb gael dim niwed oddiwrth ei brathiad, yr hyn, pan welodd trigolion yr ynys oeddynt yn gwybod am effeithiau marwol brathiad y gyfryw wiber, "Hwy a ddywedasant mai Duw oedd efe." (Act. xxviii. 6.) Cyferia yr apostol at amgylchiad arall yn ei hanes (1 Cor. xv. 32), lle y dywed, "Os yn ol dull dyn yr ymleddais âg anifeiliaid yn Ephesus, pa leshad fydd i mi oni chyfodir y meirw?" Traddodwyd ef gan yr awdurdodau, yn achos yr efengyl, fel yr arferent draddodi drwgweithredwyr yn fynych, i ymladd â'r gwylltfilod yn y chwareulys yn y ddinas hono, er difyrwch i'r edrychwyr. Cafodd y gwylltfilod hyny deimlo y tro hwnw bod ganddynt *gustomer* peryglus i ymdrafod âg ef, canys cai pob un a gynygiai ymosod arno ddyrnod ar ei fochgern a barai iddo "gofio y rhyfel fel na

wnelai hyny mwy." Nerth ei ffydd yn awdurdod ei Arglwydd a rymusai ewynau ei fraich i roddi ergyd â'i ddwrn i lew neu deigr nes ei ddiddarbodi a'i syfrdanu.

Nid i'r apostolion a chenadau cyntaf yr efengyl ar eu hanfoniad allan i fysg cenhedloedd barbaraidd, a bwystfilod rheibus, yn unig y rhoddwyd y cyfryw addewidion, ond gall pob cenadwr i Grist ymaflyd ynddynt, trwy ffydd, gan hyderu yn yr Hwn a addawodd, y bydd iddo eu cyflawnu iddynt; ac y mae enghreifftiau hynod o'r amddiffyn dwyfol mewn gwaredigaethau rhyfedd o'r cyffelyb beryglon i'w cael yn fynych yn hanes bywyd cenadon diweddar. Nid yw Efe, yr Hwn a dderbyniodd bob awdurdod yn y nef a'r ddaear i'w law, wedi rhoddi yr awdurdod hono *o'i* law eto; na rhoddi heibio ei gweinyddu chwaith, ac ni wna hyny hyd oni roddo "y Deyrnas i fyny i Dduw a'r Tad," ac yna bydd y diwedd.

Y mae rhai adegau yn hanes y byd ac amgylchiadau eglwys Dduw yn y byd, yn galw ar fod i ddysgeidiaeth y gair ar y mater sydd dan sylw gael cyhoeddusrwydd neillduol yn mhregethiad y gair, megis pan y mae dynion yn gyffredinol yn dangos tuedd amheu a gwadu llywodraeth y Brenin mawr ar y byd a'i amgylchiadau; ac eglwys Dduw, mewn cyflwr isel ac adfydus, yn myned yn ddigalon a phryderus, ac yn barod i ddywedyd, "Cuddiwyd fy ffordd oddiwrth yr Arglwydd, a'm barn a aeth heibio i'm Duw;" a, "Yr Arglwydd a'm gwrthododd, a'm Harglwydd a'm hanghofiodd." (Esa. xl. 27; a pen. xlix. 14.)

Nid oes un gwirionedd yn yr ysgrythyr ag y mae plant dynion wedi ymladd mwy yn ei erbyn na'r gwirionedd sydd dan ein sylw. Dywedai henuriaid Israel, yn amser Esceiel, "Gadawodd yr Arglwydd y ddaear," ac, "Nid yw yr Arglwydd yn gweled" (Esec. viii. 12; a ix. 9); ac yn amser Zephania, dywedent yn eu calon, "Ni wna yr Arglwydd

dda, ac ni wna ddrwg." (Zeph. i. 12.) Addefai y bobl hyny y gallasai ddarfod i'r Arglwydd gynt ymyraeth âg achosion y ddaear ac amgylchiadau dynion, ond ei fod, erbyn hyny, wedi troi ei gefn ar y byd, a gadael i blant dynion wneyd fel y mynent, heb wneyd un sylw o honynt. Dyna ydyw syniad nid ychydig o Gristionogion yn y dyddiau hyn; credant fod yr Arglwydd gynt, dan yr hên gyfamod, yn cyfryngu drwy oruchwyliaethau neillduol yn achosion a helyntion y byd, ond ei fod yn awr, dan oruchwyliaeth yr efengyl, wedi gadael y ddaear yn yr ystyr hono. Ond nid felly y golyga y Testament Newydd ei hun ar y mater, fel y dangoswyd o'r blaen.

Yr ydym yn dystion weled o honom lawer gwaith yn ein dyddiau ein hunain, yr un pethau yn digwydd ar y ddaear ag y sonia y proffwydi am danynt, fel ymweliadau neillduol y Brenin mawr yn ei ragluniaeth â phlant dynion; newyn a heintiau, weithiau sychder, yn gwneyd y nefoedd fel prês uwch ein penau, a'r ddaear megis yn haiarn dan ein traed; bryd arall, gwlybaniaeth yn mallu ac yn pydru cnwd y maes, a llifeiriant ac ystormydd yn ysgubo ymaith ran helaeth o hono ger bron ein llygaid. Weithiau y lindys, y locust, a phryf y rhwd yn difa cnwd y ddaear yn ngwleddydd y dwyrain eto, fel cynt; ac yn ol athrawiaeth yr hên lyfr, Efe oedd, yr amserau hyny, yn dywedyd wrth yr eira, Bydd ar y ddaear; ac wrth gawod o wlaw, ac wrth wlaw mawr ei nerth Ef; "Hefyd Efe a flinai gwmwl yn dyfrhau; ac a wasgarai ei gwmwl goleu; ac yr oedd hwnw yn ymdroi oddi amgylch wrth ei lywodraeth Ef, fel y gwnelent hwy beth bynag a orchymynai Efe iddynt, ar hyd wyneb y byd ar y ddaear. Pa un bynag ai yn *gospedigaeth*, ai i'w ddaear, ai er *daioni*, Efe a barai iddo ddyfod." (Job xxxvii. 6–11–13.) Ond erbyn hyn, nid oes ganddo Ef ddim oll a wnelo â phethau o'r fath—deddfau sefydlog natur sydd yn peri y

cwbl; caiff yr eira a'r gwlaw ddyfod neu beidio a dyfod; a'r cwmwl ymdroi oddiamgylch neu aros yn llonydd yn ei unfan, fel y byddo deddfau natur yn trefnu, ac ynfydrwydd yw gweddïo am wlaw, neu am hîn deg, neu am symud pla na haint, medd y ddysg hon, angenrheidrwydd deddfau natur yw'r cwbl.

Y mae yn syndod y gall un dyn a broffesa grediniaeth yn nwyfol ysprydoliaeth yr ysgrythyr, gredu a phroffesu yr athrawiaeth wrth-ysgrythyrol hon hefyd, a saif fel hyn megis ellyll wrth borth y deml, gan wgu a dwrdio, a chadw draw drueiniaid amddifaid rhag traethu eu cwynion a'u deisyfiadau wrth eu Tad yn y nefoedd, pan y mae Efe ei Hun yn eu gwahodd i ddyfod ato, gan addaw eu gwrando "Yn mhob dim y galwont arno."

# PREGETH XIV.

## RHAGLUNIAETH DUW.

"Fel hyn y dangosodd yr Arglwydd i mi, ac wele Ef yn ffurfio ceiliogod rhedyn pan ddechreuodd yr adladd godi; ac wele, adladd wedi lladd gwair y brenin oedd. A phan ddarfu iddynt ddifa glaswellt y tir, yna y dywedais, Arbed, Arglwydd, atolwg: pwy a gyfyd Jacob? canys bychan yw. Edifarhaodd yr Arglwydd am hyn: Ni bydd hyn, eb yr Arglwydd. Fel hyn y dangosodd yr Arglwydd Dduw i mi: ac wele yr ARGLWYDD DDUW yn galw am farn trwy dân; a difaodd y tân y dyfnder mawr, ac a ysodd beth. Yna y dywedais, ARGLWYDD DDUW, paid, atolwg: pwy a gyfyd Jacob? canys bychan yw. Edifarhaodd yr ARGLWYDD am hyn: Ni bydd hyn chwaith, eb yr ARGLWYDD DDUW."—*Amos* vii. 1–6.

YR OEDD AMOS yn gydoeswr, am dymor, â Hosea, a'r ddau yn gweinidogaethu i'r un bobl, sef y dêg llwyth; y rhai oeddynt wedi ymwrthod â breniniaeth tŷ Dafydd, ac wedi sefydlu breniniaeth annibynol dan "Jeroboam mab Nebat, yr hwn a wnaeth i Israel bechu." Dan arweiniad a dylanwad y Jeroboam hwnw, gwyrodd y dêg llwyth i eilunaddoliaeth; gadawsant allor ag addoliad Duw eu tadau, a gwnaethant dduwiau ac allorau iddynt eu hunain: "Ymgysylltodd Ephraim âg eilunod," ac amlhaodd allorau i bechu, fel "carneddau yn rhychau y meusydd," medd Hosea. Ond er i Ephraim adael Duw, ni adawodd Duw

mo hono ef am dymor hir; cododd ac anfonodd broffwydi amryw, yn olynol ato, i'w alw i ddychwelyd yn ol ato ei Hun. Cawsant weinidogaeth daranllyd, nerthol, ac ofnadwy Elias y Thesbiad; a gweinidogaeth dyner ac effeithiol Eliseus; a gweinidogaethau Hosea ac Amos, a rhai ereill ar eu hol hwy—a gweinidogaethau ceryddol Duw yn ei ragluniaeth hefyd yn cydweithio â gweinidogaeth ei weision y proffwydi; ond "llosgodd meginau, a thoddodd plwm" pob gweinidogaeth: "Yn ofer y toddodd y toddwyr, canys ni thynwyd y drygionus ymaith oddiwrth eu drygioni." Ymlynu wrth eu heilunod a'u llygredigaethau fynent er pobpeth, nes o'r diwedd i Dduw eu bwrw o'i olwg fel "Arian gwrthodedig;" ac fël "arian gwrthodedig" y maent yn mysg yr holl genhedloedd y danfonwyd hwynt atynt hyd y dydd hwn, "O herwydd pechodau Jeroboam, mab Nebat." Gwnaeth yr un Jeroboam hwnw fwy o ddrwg nag a allodd holl broffwydi Duw a ddanfonwyd atynt wneyd o ddaioni iddynt.

Nid oedd Amos yn broffwyd, "na mab i broffwyd," medd ef (pen. vii. 14), h.y., ni buasai efe yn fyfyriwr yn Ysgol y Proffwydi, fel y rhan fwyaf o'r proffwydi ereill; eithr dysgybl natur ydoedd—"Bugail a chasglydd ffigys gwylltion," nes i'r Arglwydd ei alw a'i orchymyn i "fyned oddiar ol y praidd i fugeilio ei bobl Israel," oeddynt wedi myned ar gyfeiliorn. Egyr ei broffwydoliaeth gyda rhag-rybuddion difrifol i amryw wledydd a dinasoedd cylchynol, am y barnedigaethau Dwyfol oedd ar ddyfod arnynt am eu pechodau gwaeddfawr. Enwir Syria a Philistia, Tyrus ac Edom, a Moab a Juda; yna daw at Israel a Samaria, ac yno yr erys o pennod ii., adnod 6, hyd ddiwedd ei broffwydoliaeth.

Prif fater gweinidogaeth Amos ydoedd coffâu a dangos eu hanwireddau i dŷ Israel; ac fel yr oedd Duw, yn ngoruchwyliaethau ei ragluniaeth wedi ac yn eu ceryddu oherwydd eu pechodau, lawer gwaith, ac mewn llawer modd; ac yr

ymwelai Efe â hwynt a cheryddon trymach eto, nes eu llwyr ddinystrio fel gwladwriaeth a chenedl, os dalient i ymgyndynu dan ei oruchwyliaethau, a chyflawnwyd ei eiriau i'r llythyren, fel y gwelir heddyw.

Yn yr adran ddiweddaf o'i broffwydoliaeth, y mae telyn Amos yn newid ei chywair o'r lleddf i'r llon; o'r pruddaidd a'r galarus, i'r llawen a'r gorfoleddus: wedi canu "Galarnad i dŷ Israel," fel y dywed ef (pen. v. 1). Diwedd yr alarnad hono ydyw, "Holl bechaduriaid fy mhobl fyddant feirw gan y cleddyf, y rhai a ddywedant, Ni oddiwes drwg ni, ac ni achub ein blaen" (pen. viii. 11). Ar unwaith dyma dôn y delyn yn newid, a'r acenion melusaf yn dyhidlo oddiar ei thanau oddirhwng bysedd y telynor sydd yn chwareu arnynt. Ymgyfyd gweledigaeth ogoneddus o lwyddiant a dedwyddwch Seion Duw yn y dyddiau diweddaf o flaen meddwl y proffwyd: Pabell Dafydd yn cael ei chodi, ei bylchau yn cael eu cau, yr eglwys yn meddianu gweddill Edom a'r holl genhedloedd—"Y mynyddoedd yn defnynu meluswin, a'r holl fryniau yn toddi"—caethiwed Israel yn cael ei ddychwelyd, a hwythau yn cael eu planu yn eu tir, byth i gael eu gwrthod a'u diwreiddio mwy. Coffâ Iago yr ymadroddion hyn fel proffwydoliaethau am lwyddiant yr efengyl a galwedigaeth y cenhedloedd yn y dyddiau diweddaf, yn y cyngor yn Jerusalem y cawn ei hanes yn Actau xv.

Yn y gyfran a ddarllenwyd yn destyn, hysbysa y proffwyd i'r bobl yr hyn a ddadguddiasau yr Arglwydd iddo ef mewn perthynas iddynt hwy—"*Fel hyn y dangosodd yr Arglwydd i mi.*" "Ni wna yr Arglwydd ddim a'r nas dengys ei gyfrinach i'w weision y proffwydi" (pen. iii. 7), ac ni ddangosai yr Arglwydd ddim iddynt hwy a'r nas dangosent hwythau ef i'r bobl. Galwent eu cenadwri yn aml dan yr enw "*Baich gair yr Arglwydd;*" a gwasgai y baich hwnw yn aml mor drwm ar eu hysgwyddau, nes peri iddynt riddfan dano.

"Gweledigaeth galed a fynegwyd i mi," medd Esaia (pen. xxi. 2), "yr anffyddlawn sydd yn anffyddloni, a'r dinystrydd sydd yn dinystrio. Am hyny llanwyd fy llwynau o ddolur; gwewyr a'm daliasant megis gwewyr gwraig yn esgor; syrthiais wrth ei glywed, brawychais wrth ei weled," &c.

Ond beth a welodd y proffwyd yma? Y mae yma ddwy weledigaeth y cynygiaf wneyd ychydig nodiadau arnynt.

I. Gweledigaeth y ceiliogod rhedyn.

Arweinid y proffwyd (mewn gweledigaeth) megis i swyddfa goruchwyliaethau rhagluniaeth y Brenin mawr, i ddangos iddo pa beth yr oedd Efe yn ac ar fedr ei wneuthur yn mhellach â'i bobl wrthnysig ac anufudd. Yr oedd wedi eu ceryddu a'u cystuddio â llawer o oruchwyliaethau ceryddol eisoes, yn awr y mae yn cymeryd gwialen arall yn ei law—"Ac wele Ef yn ffurfio ceilogod rhedyn." Nid ydym i feddwl fod ffurfiad y ceiliogod rhedyn hyn yn cynwys dim yn wyrthiol neu oruwchnaturiol, ond fod y Llywydd mawr yn trefnu ansawdd naturiol tywydd y tymor y fath fel y cynyrchai luosogrwydd diderfyn o'r pryfynod hyny. Gwelsom dymorau haf cyffelyb ein hunain lawer gwaith, y byddai amledd y pryfaid a gynyrchid yn difwyno ac yn difa llawer o ffrwyth y coed a chnwd y maes, ac yn peri llawer o flinder i ddyn ac anifail. Priodolir digwyddiadau o'r fath bob amser yn yr ysgrythyr i weithrediad gallu ac ewyllys Duw, a bod ganddo Ef lais a chenadwri neillduol at blant dynion trwyddynt; ond ymddengys fod plant dynion erbyn hyn yn llawer callach na phrophwydi yr ysgrythyr, ac yn gwybod amgen pethau, fel y gallont ysgwyd eu penau mewn dirmyg ar hên dybiau ofergoelus o'r fath; ond nid awn i geisio dadleu â'r doethion hyny yn awr, ond ni a gymerwn "air sicrach y proffwydi" ar y mater, yr hwn, ni a gredwn, mai "Da y gwnawn fod yn dal arno."

1. Yn nrych gweledigaeth y ceiliogod rhedyn gwelwn fel

y gall y Duw mawr ddarostwng gwlad a chenedl o bobl i wasgfa a chyfyngder, drwy offerynoliaeth y creaduriaid gwanaf a distadlaf. Gallasem feddwl na fuasai raid i Israel ofni llawer oddiwrth geiliog y rhedyn. Pe dywedasai y proffwyd wrthynt iddo weled yr Arglwydd yn ffurfio llewod, a bleiddiaid, neu seirff tanllyd ac yscorpionau i'w hanfon i'w plith, gallasent frawychu; ond ceiliogod rhedyn, ni allai fod dim yn arswydus iawn yn hyny; ond "Cryf yw yr hwn sydd yn gwneuthur ei air Ef," pe ond ceiliog rhedyn, gall Ef wneyd hwnw yn "faich digon trwm ar wlad i'w gwasgu hi i'r llwch." Sonir yn Eseciel (pen. xiv. adn. 13–21) am bedair drygfarn Duw, a fygythiai Efe ddwyn ar Jerusalem am ei phechodau, "cleddyf, a newyn, y bwystfil niweidiol, a'r haint;" dyna y barnedigaethau a'r ceryddon trymaf; ond y mae llaweroedd o saethau barnedigaethol ereill yn ei gawell Ef i'w defnyddio fel y gwelo Efe ei Hun yn dda, "y lindys a'r locust, pryf y rhwd, a'r ceiliog rhedyn," &c.

"Mae deng mil o ddychryniadau'n
  Gorwedd yn ei enw pur;
Ac aneirif at ei feddwl,
  Yn y môr ac yn y tir:
Mil sydd ganddo o bethau i'n drygu,
  Eilwaith myrddiwn a'n hiachâ,
Dyna'r achos pa'm y creodd
  G'nifer rhyw o ddrwg a da."

Wel, ynte, "Ai dysgeidiaeth yw ymryson â'r Hollalluog?"

2. *Amser y weledigaeth.* "Pan ddechreuodd yr adladd godi, ac wele adladd wedi lladd gwair y brenin oedd." Yr oeddynt yn cael dau gnwd o wair yn y flwyddyn yn y dwyrain; telid y cnwd cyntaf gan y deiliaid yn Israel, fel rhan o'u teyrnged, i'w brenin; wedi ei gynhauafu, cludent ef i'r lleoedd penodedig gan y llywodraeth at wasanaeth y

penadur; yr oedd yr ail gnwd yn eiddo iddynt hwy eu hunain; a phan oedd gobaith dymunol am ail gnwd da o wair yn ymddangos, anfonodd y Brenin mawr ei bladurwyr i'w maesydd i godi ei deyrnged yntau oddi arnynt. Gwelodd y proffwyd hwynt yn troi allan yn finteioedd dirif, ac yn troi meusydd cnydfawr o adladd mewn parth o'r wlad yn anial anrheithiedig, megis wedi eu goddeitho gan dân.

3. *Eiriolaeth y proffwyd dros y bobl.* Yna dywedais, "Arbed, Arglwydd, atolwg, pwy a gyfyd Jacob? canys bychan yw." Amos oedd y cyntaf un, os nad yr unig un, i deimlo dros gyflwr y wlad wrth ei gweled yn cael ei thlodi a'i darostwng dan law geryddol Duw; wedi eu dwrdio a'u bwgwth am eu pechodau nes peri iddynt ei gasâu, a'i ddirmygu, a'i anmharchu; y mae efe, er hyny, yn teimlo drostynt, wrth weled gwasgfa a chaledi yn dyfod arnynt, ac yn prysuro at Dduw i eiriol drostynt am arbediad iddynt. Cwynai Jeremia yn chwerwedd ei enaid o herwydd bod y bobl yr oedd efe yn llafurio i'w gwasanaethu a'u llesâu yn ei erlid a'i faeddu, "Ystyria di wrthyf, O Arglwydd," medd efe, "a chlyw lais y rhai sydd yn ymryson â mi. A delir drwg dros dda? canys cloddiasant ffôs i'm henaid; cofia i mi sefyll ger dy fron di i ddywedyd daioni drostynt, ac i droi dy ddig oddiwrthynt." (Jer. xviii. 19–26.) Felly Amos, a'r proffwydi ereill yr un modd; ei gymwynaswyr penaf a driniodd y byd anniolchgar a drwg fryntaf a gwaethaf bob amser. Yr oedd "y byd yn eu casâu," am eu bod yn tystiolaethu am dano, bod ei weithredoedd ef yn ddrwg; ac felly, am yr un rheswm, y casaodd y byd y Gwaredwr mawr ei Hun. (Ioan vii. 7.)

Meddyliwch, fy narllenwyr, beth oedd gwerth un gweddïwr fel Amos i'w wlad ar amgylchiadau o'r fath yma—un i fyned ag achos ei wlad at Dduw i ddadleu ac eiriol drosti, pan yr oedd Efe yn dyfod allan ar lwybr ei farnedigaethau, i ymweled

â hi o herwydd ei phechodau? Oedd, yr oedd un Amos yn fwy o werth i'r genedl na deng mil o oreuon y bobl ddiweddi oedd ynddi. Mor ddyfal ac egnïol mae y proffwyd yn ymbil ar Dduw yn eu hachos? "Arbed, Arglwydd, atolwg"—y maent yn cyfiawn haeddu y cerydd, nes eu llwyr ddifrodi, er hyny, "Arbed, atolwg;" Ti a'u harbedaist lawer gwaith, yn ol dy nosturiaethau, Arbed eto. Gair cyfarwydd iawn â'r ffordd i'r nefoedd yw y gair hwn, "Arbed." Y mae sain ei aceniad i'w glywed yn ngweddïau y saint byth er y dydd y bu Abraham yn eiriol dros Sodoma hyd heddyw, ac nid yw y nefoedd byth yn blino arno. Cwynai y Duw mawr, unwaith, pan oedd yn ceryddu Israel, ac yn eu gwasgu i gyfyngder mawr am eu phechodau, am nad oedd neb yn dyfod ato i eiriol dros y bobl, fel y gwna Amos yma: "Ceisiais hefyd ŵr o honynt i gau y cae, ac i sefyll ar yr adwy o'm blaen, dros y wlad, rhag ei dinystrio, ac nis cefais. Am hyny," am na ddaeth neb i sefyll ar yr adwy, "Am hyny y tywelltais fy nigofaint arnynt, â thân fy llidiowgrwydd y difethais hwynt; eu ffyrdd eu hun a roddais ar eu penau hwynt, medd yr ARGLWYDD DDUW." (Esec. xxii. 30–31.)

Nid oes un athrawiaeth groesach i athrawiaeth yr ysgrythyr na'r athrawiaeth oer hono a fyn haeru nad yw gweddi yn effeithio dim ar Dduw, y gall ddwyn effaith lesol ar yspryd y gweddïwr ei hun, a bod yn burion ei harfer ar y cyfrif hwnw; ond nid yw o nemawr bwys, debygid. Cystal a dweyd nad yw Duw byth yn ateb nac yn gwrando gweddi y truan, nac yn teimlo nac yn gofalu dim am dano. Y mae y fath syniad yn rhedeg yn y gwddf i'r hyn a ddywed y Duw mawr am dano ei Hun yn ei air, a'r hyn a dystiolaetha patriarchiaid a phroffwydi yr Hên Destament, a Christ a'i apostolion yn y Testament Newydd am dano. Y mae sŵn y tosturiaethau Dwyfol, fel sŵn dyfroedd lawer, i'w clywed drwy yr holl ysgrythyr, ac yn Nghrist Iesu, "Yr

Hwn yw delw y Duw anweledig, a gwir lun ei berson Ef," pan yn trigo yn ein plith ni, yn ein natur ni ein hunain—yn dosturi ymgnawdoledig—yn gollwng ei dosturiaethau allan fel afon yn yr olwg ar bob truan a welai, gan estyn ymwared iddo, ei gynorthwyo, a'i ddyddanu. Ocheneidiau a dagrau tosturi oedd ei ocheneidiau a'i ddagrau Ef, ac yr oeddynt yn ocheneidiau a dagrau Dwyfol. "Od oes dim dyddanwch yn Nghrist, od oes dim cysur cariad, od oes dim cymdeithas yr yspryd, od oes dim ymysgaroedd a thosturiaethau." (Phil. ii. 1.) Oes, yn gyflawnder diderfyn; ond nid oedd, ac nid oes dim yn Nghrist nad oedd yn hanfodol i'r Duwdod erioed. "Cofia dy dosturiaethau a'th drugareddau, canys erioed y maent hwy," medd y Salmydd. Haerer nad oes dim gwres na goleuni yn yr haul, dim dwfr yn y môr, a phrofer hyny, cyn dechreu haeru nad oes dim teimladau tosturiol yn ymysgaroedd "Tad y tosturiaethau" ei Hun. Dim dylanwâd gan weddi y truan ar Dduw! "ond er hyny y gall beri dylanwad ar galon y gweddïwr ei hun!" Meddylier am druan yn ei gyfyngder, yn ceisio troi at Dduw mewn gweddi am ymwared, dan ddylanwad y dybiaeth hon; tagai y fath athrawiaeth ei weddi yn y fan; dechreuai ymsynio ynddo ei hun, "I ba ddyben y ceisiaf draethu fy nghŵyn wrth Dduw na fedd galon i deimlo? Ni fedd gweddi un dylanwad arno Ef; pa fudd fydd i mi os gweddïaf arno? Colli amser i ddim pwrpas fyddai i mi geisio gweddïo arno." Caledu a dieithrio y galon oddiwrth Dduw, yn hytrach na'i thyneru a'i llesau fyddai effaith naturiol a sicr y gyfryw gred. Ymaith a hi am byth o dduwinyddiaeth yr eglwys ac o'r byd!

2. *Dadl Amos dros ei ddeisyfiad am arbediad y wlad.* "Pwy a gyfyd Jacob? canys bychan yw." Dwg ar gof i Dduw pwy oedd y bobl oedd dan y farnedigaeth—Jacob, plant y tadau, y gwnaethai Efe gyfamod â hwynt—"bychan

yw," yr oeddynt wedi eu gwasgu eisoes i wendid ac iselder mawr, ac os na atelid y farn hon yn fuan, buasai y ceiliogod rhedyn wedi llwyr fwyta Jacob i fyny. Yr oedd eto yn aros rai ffyddloniaid yn mysg y genedl. Cofiai Amos yn dda fel y buasai Elias, ychydig dros gan mlynedd cyn hyny, yn erfyn ar Dduw yn erbyn tadau y bobl hyn, pan y tybiai nad oedd o honynt, ond efe ei hun, yn ffyddlon ymlynu wrth Dduw a'i wasanaeth. A pha beth y mae ateb Duw yn ei ddywedyd wrtho? "Mi a adewais i mi fy hun saith mil o ŵyr, y rhai ni phlygasant eu gluniau i Baal." Credai Amos fod nifer o ffyddloniaid dirgel yn aros yn Israel yn ei amser ef, ac y mae yn dadleu am arbediad y genedl yn gyffredinol, er eu mwyn hwy. Felly yr eiriolai Abraham am arbediad Sodoma, ar y dybiaeth y gallasai fod deg a deugain o rai cyfiawn o'i mewn; tynodd i lawr o'r deg a deugain i'r deg, a llwyddodd bob ergyd; a llwyddasai, yn ddiau, pe tynasai i lawr o'r deg i un. Gwelwch, gan hyny, faint o werth i wlad ydyw ond nifer fechan o ddynion "yn ofni'r ARGLWYDD, ac yn gwrando ar lais ei was Ef," a fyddo ynddi. Ychydig y mae annuwiolion y tir yn ei feddwl gymaint y maent hwy yn gael megis yn nghysgod y dynion hyny. Hyny o wir nerth sydd mewn gwlad ydyw hyny o ddynion yn ofni Duw fyddo ynddi, "Bwriaist heibio holl annuwiolion y tir fel sothach." (Salm cxix 119.)

4. *Llwyddiant eiriolaeth y proffwyd.* Edifarhaodd yr ARGLWYDD am hyn—"Ni bydd hyn," ebe'r ARGLWYDD, "Edifarhaodd;" ataliodd y farn, galwodd ar y fyddin fawr i encilio o'r maes, a dychwelodd y milwyr—y ceiliogod rhedyn—bob un i'w babell yn ddioed.

II. GWELEDIGAETH Y TAN. "Wele'r ARGLWYDD DDUW yn galw am farn trwy dân." Gyda golwg ar hon, sylwn yn

1. Fel y mae y proffwyd yn amrywio geiriadaeth yr adroddiad, "Wele'r ARGLWYDD DDUW; dywedais, ARGLWYDD

Dduw, paid, atolwg—Ni bydd hyn chwaith, eb yr Arglwydd Dduw." Dichon mai amcan y proffwyd yn hyn oedd deffro sylw a dwfnhau argraff ei genadwri ar feddyliau y bobl, ei fod am iddynt ystyried nad rhyw ddigwyddiadau damweiniol oedd y goruchwyliaethau hyn; ond mai ymweliadau neillduol oddiwrth yr Arglwydd Dduw ei Hun oeddynt. Mynai iddynt ystyried â phwy yr oeddynt yn ymryson.

2. "*Galw i farn trwy dân.*" Y wialen geryddol yn cael ei newid—tân; gwres angerddol, fe dybir, oedd megis yn yfed i fyny fôr y canoldir ar derfynau y wlad, ac yn goddeithio y tir. Daliai y bobl i lynu yn eu pechodau, a daliai Duw i'w ceryddu, a'r naill gerydd yn drymach na'r un blaenorol. Nid yw Efe byth yn galw i farn ar wlad neu bobl, ond pan fyddo rhyw beth neu bethau neillduol ynddynt hwy yn galw am dani, "canys nid o'i fodd y blina ac y cystuddia Efe blant dynion;" ac y mae Efe bob amser am i ddynion wybod a deall yr achos pa ham y mae Efe yn eu cystuddio felly. "Pan ddangosech i'r bobl hyn yr holl eiriau hyn," medd yr Arglwydd wrth Jeremia, "ac iddynt hwythau ddywedyd wrthyt, Am ba beth y llefarodd yr Arglwydd yr holl fawr ddrwg hwn yn ein herbyn ni? neu, Pa beth yw ein hanwiredd? neu, Beth yw ein pechod a bechasom yn erbyn yr Arglwydd ein Duw? Yna y dywedi wrthynt, O herwydd i'ch tadau fy ngadael I, medd yr Arglwydd, a myned ar ol duwiau dieithr, a'u gwasanaethu hwynt, ac ymgrymu iddynt, a'm gwrthod I, a bod heb gadw fy nghyfraith, a chwithau a wnaethoch yn waeth na'ch tadau," &c. (Jer. xxiii. 33.) "A chewch wybod nad heb achos y gwnaethum yr hyn a wnaethum i'w herbyn hi (Jerusalem), medd yr Arglwydd Dduw." (Esec. xiv. 23.)

"Edrychasom am lawer, ac wele yr oedd yn ychydig; a phan ddygasoch adref, chwythais arno (neu chwythais ef

ymaith), Am ba beth? medd ARGLWYDD y lluoedd." Nid rhyw ddigwyddiad damweiniol, fel y tybiwch chwi, oedd peth felly; na, "Am fy nhy I, yr hwn sydd yn anghyfanedd, a chwithau yn rhedeg bawb i'w dŷ ei hun. *Am hyny* y gwaharddwyd i'r nefoedd oddi arnoch wlitho, a gwaharddwyd i'r ddaear roddi ei ffrwyth. Gelwais hefyd am sychder ar y ddaear, ac ar y mynyddoedd, ac ar y meusydd, ac ar y gwin, ac ar yr olew, ac ar yr hyn oll a ddwg y ddaear allan, ac ar holl lafur dwylaw." (Hag. i. 9–11.) "*Am hyny*"—nid heb achos. Y mae y Brenin mawr yn ymweled â gwledydd a chenhedloedd yn y cyffelyb fodd yn fynych eto; a rhan o waith gweinidogion y gair, megis yr oedd y proffwydi, a'r apostolion hefyd, ar achlysuron (megis y gwna Paul yn 1 Cor. xi. 35), ydyw galw sylw deiliaid eu gweinidogaeth at y goruchwyliaethau hyn, a'u hegluro yn eu hachosion a'u dyben, yn ngoleuni yr ysgrythyrau. Y mae y blynyddoedd diweddaf wedi eu hynodi yn arbenig yn ymweliadau ceryddol Duw â llawer o wledydd a chenhedloedd y ddaear. Nid oes hanes yn ein hoes ni am gynifer o ddynion wedi marw trwy newyn ag a fu yn ystod y tair neu bedair blynedd ddiweddaf. Trengodd llawer o filiynau o eisiau bara yn India, China, a gwledydd ereill yn Asia, a rhai cannoedd o filoedd yn nwyrainbarth Ewrop. Ysgubodd llifeiriant ymaith amryw drefi cyfain yn Hungary a Hispaen, a gwnaethant ddifrodiadau arswydus ar dda a meddiannau, a chnwd y ddaear mewn llawer o wledydd. Bydd y flwyddyn 1879 yn aros yn hynod ei choffadwriaeth mwy yn y wlad hon; blwyddyn y proffwydai doethion y tywydd yma ac yn America am dani, y byddai angerddolder gwres ei haf yn annioddefol, ac y lladdai fyrddiynau o honom; yn lle hyny blwyddyn o oerder gwlybyrog o'i chalan-gauaf hyd ei Hydref ydoedd; yr oedd ei Mehefin a'i Gorphenaf, a'i Hawst a'i Medi, yn debycach

i Ragfyr a Ionawr, a Chwefror a Mawrth, o ran ansawdd y tywydd. Gwasgwyd y wlad â chaledi, bob dosbarth yn mron, yn ystod y tair neu bedair blynedd diweddaf, nes oedd ei hwyneb megis yn casglu parddu, a llaweroedd yn cwyno fod hyfrydwch Prydain wedi mudo ymaith—a'i dyddiau goreu a llwyddiannus wedi myned heibio am byth; ei hamaethyddiaeth wedi pallu, ei marsiandaeth a'i masnach wedi cilio, a'i gogoniant wedi ymadael. Y mae yn llawn bryd gofyn, "Am ba beth?" Nid wyf yn gwybod ddarfod i'r un o ddoethion gwyddor ac athroniaeth gael allan, na hòni y gellid rhoddi cyfrif am dywydd gauafaidd y flwyddyn hono, ar dir gwyddoniaeth, fod y peth yn effaith naturiol gweithrediad deddfau sefydlog a digyfnewid natur; na, proffwydo yr oeddynt hwy, rai o honynt o leiaf, fel y crybwyllwyd, y byddai yn flwyddyn o wres na theimlasid ei gyffelyb yn y wlad hon o'r blaen; ond diddymodd y flwyddyn holl "arwyddion" y gwŷr hyny, "trodd y doethion yn eu hol, gan wneuthur eu gwybodaeth yn ynfyd." (Esa. xliv. 25.) "Am ba beth, ynte?" "Ai ni ellid cael gafael ar y peth" hwnw, yn herwydd yr hwn y dygwyd ein gwlad dan y wasgfa y cyfeiriwn ati? Onid oedd hi wedi myned yn ddiarebol mewn annuwioldeb a phob llygredigaeth yn ystod y blynyddoedd o lwyddiant mawr a gawsai yn y blynyddau blaenorol? Pob dosbarth o gymdeithas, o'r uchelaf hyd yr iselaf yn y tir, yn "cydredeg i'r unrhyw ormod rhusedd." "*Na fydd ry annuwiol.*" Y mae fel pe byddai rhyw reswm ar fyw yn annuwiol; pe rheswm hefyd, pan y mae dyn, neu wlad o ddynion, wedi myned yn "*rhy annuwiol*," fe ddaw rhagluniaeth â rhyw oruchwyliaeth i roi atalfa arnynt; onid oedd dynion fel wedi ynfydu mewn balchder, gwastraff, ac afradlonedd, meddwdod, llwon a chableddau, a phob math o halogrwydd? Lleoedd ofnadwy fyddai gorsafoedd y rheilffyrdd ar hwyr

dydd ffair yn un o'n trefi ni yn Nghymru, lle y gwelech luaws o feibion a merched ieuainc megis wedi "diddarbodi," yn ymroi i bob anweddeidd-dra mewn geiriau ac ymddygiadau, nes peri arswyd ar bob meddwl ystyriol a fyddai yn bresenol. Dywedir i'r brawd gonest, Robert Jones, Llanllyfni, ddigwydd bod yn cyd-deithio yn y *train* gyda lluaws o'r cyfryw gymdeithion un tro, ac wedi goddef yn hir, pan na allai ymatal yn hwy, iddo godi ar ei draed yn eu canol, a thori allan mewn tôn gyffröus a difrifol, gan ddywedyd, "Diolch i ti, O Arglwydd, am fod genyt uffern i gau creaduriaid o'r fath yma ynddi!" Synodd a dychrynodd hyny rywfaint arnynt am y pryd hwnw; ond daeth llais a sŵn arall i synu a sobri y wlad yn gyffredinol yn fuan ar ol hyny—sŵn banciau yn tori; gweithfeydd mawrion yn cau i fyny; miloedd o weithwyr yn cael eu troi allan heb ddim ond angen a thlodi yn tremio yn eu hwynebau;" "sŵn cwynfan yn mhob heol" yn y trefi o herwydd marweidd-dra masnach; ac yn mhob prif ffordd a maes a gwinllan drwy y wlad, fel y desgrifia Amos gyflwr gwlad Israel yn ei amser ef, ar un tymor o hono.

Eto. Eiriolaeth Amos am ataliad y farn hon drachefn. Yr un deisyfiad a dadl, yn yr un geiriau, yn mron, sydd ganddo yma; gesyd Jacob eto ar yr adwy o flaen yr ARGLWYDD DDUW, i'w atal i fyned rhagddo yn mhellach yn llwybr y farnedigaeth hon, a llwyddodd yn yr un modd; "Ni bydd hyn chwaith, medd yr ARGLWYDD DDUW." Nid yw y weddi ond bèr iawn, ond y mae yn afaelgar a thaer iawn; a "Llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn;" yn wir, nid oes derfyn ar ei dichon hi. Meddyliwch pa ddyben fuasai i frenin Israel anfon ei fyddinoedd allan yn erbyn y ceiliogod rhedyn, "llu mawr Duw;" buasai byddin Duw yn goresgyn ac yn difrodi yr holl wlad er dim a allasai byddin y brenin ei wneyd i'w hatal; ond wele weddi Amos, megis

ag un anadliad, yn ysgubo ymaith y ceiliogod hyny o'r wlad bob un; ac yn atal y farn drwy dân drachefn yr un modd. Aeth y weddi i'r nefoedd mewn eiliad, a daeth yr atebiad i lawr mewn llai o amser na hyny.

"Y wybr faith sy'n llawn o fydoedd,
Eto seren un ni fedd,
Er mor fuan maent yn hedeg,
Hed mor gyflym â dy hedd!"
Myrdd weddïau a wrandewaist,
Can's mor barod yw dy ras,
Yn y foment gynta'u lluniwyd,
Cyn eu d'od o'r genau i maes."

Mae llawer o ffeithiau yn ngwybodaeth a chof lluaws sydd yn fyw yn ein gwlad ein hunain yn awr ydynt yn engreifftiau hynod o atebiad uniongyrchol i weddïau dynion duwiol; nodaf un yn unig. Yn y flwyddyn 1832, yr oedd y geri marwol (*cholera*) yn cymeryd dynion "ymaith megis â llifeiriant," yn y wlad hon; ac yn mysg manau ereill yn Nghymru, talodd ymweliad â Dinbych, gan ladd y trigolion yn nghwr uchaf y dref ar ei gyfer, ac yn gweithio ei ffordd tuag at ranau ereill o'r dref yn gyflym; ac ar ddydd Sabbath, yn mis Mai y flwyddyn hono, tarawodd lawer i lawr megis âg un ddyrnod. Yr oedd gwaedd dychryn trwy heolydd y dref. Yn hwyr y Sabboth, cytunodd Ymneillduwyr y gwahanol enwadau i ddyfod at eu gilydd am bump yn y bore tranoeth i gyd-weddïo am ataliad y pla; a daethant yn nghyd yn dyrfa fawr. Clywsid am bersonau fuasent feirw y nos o'r blaen a'r bore hwnw; ond wedi y cyfarfod gweddi ni bu farw un o'r pla, ac ni chyffyrddodd chwaith â neb un o'r bobl yno; ac hyd yr wyf yn cofio yn awr, ni ymwelodd y pla hwnw o gwbl â Dinbych yn yr un o'i ymweliadau a'r fro wedi hyny. Gofynid i'r diweddar Dr. Lloyd Williams, prif feddyg y dref, beth oedd ei feddwl ef am y

digwyddiad; "Rhaid ei briodoli i weddïau pobl y capeli, ac nid i ddim arall; y mae y peth yn rhy amlwg i'w wadu," oedd ei ateb. Nid oedd neb yn Dinbych yr amser hwnw yn amheu hyny; ac nid oes neb o'r rhai sydd eto yn fyw yno, ac yn cofio y digwyddiad, yn amheu hyny yn awr.

Dwy weledigaeth a gafodd Amos ar ol y rhai hyn—gweledigaeth y llinyn mesur a gweledigaeth y cawellaid o ffrwythydd haf; y ddwy yn arwyddo bod yr Arglwydd am eu rhoddi i fyny a'u bwrw ymaith o'i olwg; "Nid af heibio iddynt mwyach," medd Efe ddwywaith, wrth egluro ystyr y gweledigaethau hyny i Amos; a dyma y gair trymaf o'r cwbl, "Ni cheryddaf hwynt mwyach," fel moddion i'w dychwelyd a'u meddyginiaethu; ac ni anfonaf broffwyd atynt i'w rhybuddio a'u dysgu; ni ddywedaf air wrthynt ond hyny. Gweinidogaeth brenin Assyria i'w diwreiddio a'u caethgludo o'u gwlad, ac i'w gwasgaru, a'u "gogrynu yn mysg yr holl genhedloedd, fydd y weinidogaeth olaf iddynt." "Nid ymryson fy yspryd â dyn yn dragywydd." Yr oedd wedi ymryson âg Ephraim genhedlaeth a chenhedlaeth, dros ddau can mlynedd, drwy weinidogaeth ceryddon yn ei ragluniaeth, a gweinidogaeth ei air drwy ei weision y proffwydi, a'r cwbl yn aneffeithiol; bellach, y mae yr ymryson ar ben, "Nid af heibio iddynt mwyach." Yr wyf yn ymwrthod â hwynt fel fy mhobl; yn rhoddi Ephraim i fyny, "*A'r Assyriad fydd ei frenin am iddo wrthod troi.*" "A'r pethau hyn oll a ddigwyddasant yn siamplau iddynt hwy, ac a ysgrifenwyd yn rhybudd i ninau, ar y rhai y daeth terfynau yr oesoedd." (1 Cor. x. 17.) "Er rhybudd i ni." Nid er difyrwch i ni fel hanesiaeth gyffredin, ond er rhybudd i ni i ochelyd ei ffyrdd hwy, na byddom "eilunaddolwyr, na godinebwyr, na themtiom Grist, ac na rwgnachom, megis y gwnaeth rhai o honynt hwy," medd yr apostol. Yr ydym ninau yn ddeiliaid yr un gweinidog-

aethau dwyfol ag oeddynt hwy, ïe, cawsom ni "weinidogaeth mwy rhagorol" nac a gawsant hwy. Llefarodd Duw wrth y tadau hyny trwy y proffwydi; ond y mae Efe yn y "dyddiau diweddaf hyn yn llefaru wrthym ni yn ei Fab;" ac os derbyniodd pob trosedd ac anufudd-dod dan y weinidogaeth hono "gyfiawn daledigaeth, Pa fodd y diangwn ni os esgeuluswn iachawdwriaeth gymaint?"

Yn ngoleuni dysgeidiaeth ei air yr ydym yn gweled fod holl oruchwyliaethau ceryddol y Brenin mawr tuag at blant dynion yn foddion gras iddynt, tra y maent yn amlygiadau o'i soriant at bechod, ac o'i anfoddlonrwydd tuag atynt o herwydd eu pechodau, y maent ar yr un pryd yn amlygiadau o'i raslonrwydd a'i garedigrwydd; oll wedi eu hamcanu ac yn tueddu i ddwyn a dychwelyd dynion ato ei Hun, "Rhoddais i chwi lendid dannedd yn eich holl ddinasoedd, ac eisieu bara yn eich holl leoedd; *eto, ni ddychwelasoch ataf Fi*, medd yr Arglwydd. Myfi hefyd a atelais y gwlaw rhagoch, pan oedd eto dri mis hyd y cynauaf, gwlawiais hefyd ar un ddinas, ac ni wlawiais ar ddinas arall; un rhan a gafodd wlaw, a'r rhan ni chafodd wlaw a wywodd. Gwibodd dwy ddinas neu dair i un ddinas i yfed dwfr, ond nis diwallwyd; eto, ni ddychwelasoch ataf Fi, medd yr ARGLWYDD. Anfonais yr haint yn eich mysg, megis yn ffordd yr Aifft; eich gwŷr ieuainc a leddais â'r cleddyf, gyda chaethgludo eich meirch; a chodais ddrewi eich gwersylloedd i'ch ffroen; eto, ni throisoch ataf Fi, medd yr ARGLWYDD. Tarewais chwi â diflaniad, ac â mallder, pan amlhaodd eich gerddi a'ch gwinllanoedd, a'ch ffigiswydd a'ch olewydd, y lindys a'u hysodd; eto, ni throisoch ataf Fi, medd yr ARGLWYDD. Mi a ymchwelais rai o honoch, fel yr ymchwelodd Duw Sodoma a Gomora; ac yr oeddych fel pentewyn wedi ei achub o'r gyneu dân; eto, ni throisoch ataf Fi, medd yr ARGLWYDD." (Pen. iv. 6–11.) Dyna restr hir o'r

ceryddon trymion lawer a weinyddasai'r ARGLWYDD ar Israel. Mynai i'r bobl ddeall mai Efe oedd yn dwyn yr holl bethau hyny arnynt, ac mai ei amcan grasol ynddynt oll oedd eu dychwelyd oddiwrth eu heulunod a'u pechodau ato ei Hun, i'w meddyginiaethu a'u bendithio. Unwaith eto, cyn rhoddi Israel i fyny i farn llwyr ddifrodiad, mae yr Arglwydd, trwy y proffwydi, yn galw yn daer arnynt i droi a dychwelyd ato—"Ceisiwch yr Arglwydd, a byw fyddwch, rhag iddo dori allan yn nhŷ Joseph fel tân a'i ddifa. Ceisiwch yr Hwn a wnaeth y saith seren ac Orion; ceisiwch ddaioni ac nid drygioni, fel y byddoch fyw, ac felly yr ARGLWYDD, DUW y lluoedd, a fydd gyda chwi, fel y dywedasoch. Eto, Casewch ddrygioni, a hoffwch ddaioni, a gosodwch farn yn y porth; ac fe allai y bydd ARGLWYDD DDUW y lluoedd yn raslawn i weddill Joseph." (Pen. v. 6–8, 14, 15.)

Gwelsom oruchwyliaethau cyffelyb i'r rhai a nodwyd o'r blaen aml waith yn ein gwlad a'n hoes ein hunain. Yr un Duw sydd yn llywodraethu'r ddaear a holl amgylchiadau gwledydd a chenhedloedd y ddaear eto; a'r un amcanion doeth a grasol sydd ganddo yn ei oruchwyliaethau yn awr ag oedd ganddo gynt; "Hyn oll a wna Duw ddwywaith neu dair," drachefn a thrachefn, "â dyn, i ddwyn ei enaid ef o'r pwll, i'w oleuo â goleuni y rhai byw." (Job xxxvi. 1.)

## PREGETH XV.

## EFENGYL DUW.

"Eithr yr ydwyf yn hysbysu i chwi, frodyr, am yr efengyl a bregethais i chwi, nad yw hi ddynol; canys nid gan ddyn y derbyniais i hi, nac y'm dysgwyd; eithr trwy ddadguddiad Iesu Grist."—*Gal.* i. 11, 12.

Yn y bregeth ragflaenol i hon, ceisid dangos allan athrawiaeth gair Duw am ei oruchwyliaethau neillduol Ef yn ei ragluniaeth tuag at blant dynion yn eu hamrywiaethau a'u dybenion.

Y mae y testyn a ddarllenwyd yn awr yn gosod o'n blaen fater pwysicach hyd yn nod na hwnw—"*Yr efengyl a bregethir i ni.*" O ba le y mae hono? O ba ffynonell y tardda hi—ai o'r nef ynte o'r ddaear? O Dduw ai o ddynion? Mater o'r pwys mwyaf i bob un sydd yn cymeryd arno ei phregethu hi, ac i bawb sydd yn ei phroffesu, ac yn ei gwrando.

Y mae y mater hwn o ddechreuad gyrfa gweinidogaeth yr efengyl ar y ddaear, wedi bod yn bwnc y dadleuwyd mwy yn ei gylch nac yr un arall yn y byd, a mwy yn y blynyddau diweddaf hyn nag erioed o'r blaen, fel y mae mewn modd arbenig yn *brif bwnc* y dydd.

Un o amcanion proffesedig yr Hwn a ddechreuodd ei thraethu ydoedd, "Bwrw y tân dadleuol hwn ar y ddaear;"

ac y mae y tân hwnw yn parhau yn anniffoddedig, ac yn anniffoddadwy arni trwy yr oesau. Bu holl beirianau daear ac uffern ar lawn waith yn ceisio ei roi allan am yn agos i ddwy fil o flynyddoedd; ond "y dyfroedd lawer" a dywalltwyd arno nis gallasant ei ddiffoddi, na'r "afonydd" cryfion a lifasant drosto ei "foddi." Tybiodd y *Fire Brigade* lawer tro, eu bod wedi llwyddo i'w anhuddo; ond tori allan i fflamio yn fwy angherddol a wnai drachefn a thrachefn. O ba le y daeth y tân rhyfedd hwn, gan hyny? Ai tân a ddisgynodd o'r nef, ynte ai tân a enynodd yn nghorsleoedd lleidiog y ddaear yw? Yn y testyn, cawn atebiad Paul i'r cwestiwn. Nid fel un yn dweyd ei feddwl a'i farn bersonol ei hun ar y mater, y llefara yr apostol, eithr fel tyst yn llŷs brawd, yn rhoddi tystiolaeth sicr, benderfynol, oddiar wybodaeth sicr a diamheuol o'r mater—"*Nid yw hi ddynol.*"

I. *Ystyriwn fawr bwysigrwydd y cwestiwn sydd o'n blaen, pa un ai dynol ai dwyfol yw yr efengyl a bregethir i ni.*

1. Y mae yn dyfod atom yn *enw* Duw, gan ymwisgo âg *awdurdod* Duw. Gelwir hi "Efengyl Duw am ei Fab Ef, Iesu Grist," "Efengyl gogoniant y bendigedig Dduw," a'i bod i gael ei phregethu,—"Yn ol gorchymyn y tragwyddol Dduw yn mhlith yr holl genhedloedd, er mwyn ufudd-dod ffydd." (Rhuf. xvi. 26.) Os yw yr honiadau hyn yn wirionedd, rhaid fod pwysfawredd annhraethol fwy yn perthyn i'w gweinidogaeth hi nac a ddichon fod yn perthyn i ddim arall dan haul. Ac o'r tu arall, tybier mai twyll a ffughoniadau dynol ydyw'r cwbl, y mae o bwys i chwilio, a chael allan, a phrofi hyny, fel yr ymwrthoder â hi, yr hwtier ac y ffieiddier hi fel y twyll a'r cabledd mwyaf rhyfygus ac ofnadwy. Teimlai Paul yn angerddol yn yr achos hwn, "Pe byddai i ni (ddynion), neu i angel o'r nef, efengylu yn amgen nac yr efengylasom i chwi, bydded Anathema," medd efe; a thrachefn, "Megis y rhagddywedasom, felly yr ydwyf

yr awrhon drachefn yn dywedyd, Os efengyla neb i chwi amgen na'r hyn a dderbyniasoch, bydded Anathema, canys yr awrhon ai peri credu dynion yr ydwyf, ynte Duw?" Pe buasai Paul yn byw yn ein dyddiau ni, cyfrifasid ef yn ddyn penboeth, cul, a rhagfarnllyd iawn gan rai athrawon eangfrydig yn y dyddiau hyn, y rhai a fynant ddryllio rhwymau, a thaflu rheffynau pob credo a chyffes, a chatecism, a ffurf o athrawiaeth oedd gan y tadau gynt oddiwrthynt. "Pethau bachgenaidd" oedd pethau felly, a bechgyn oeddynt hwy, y tadau; ond y mae dynion yr oes hon yn ŵyr, a rhaid i'w hathrawon hi yn awr edrych ar "roddi heibio bethau bachgenaidd," &c. Ceisir ein perswadio nad yw credo ac athrawiaeth, pa fath bynag fyddont, o nemawr bwys, mai nid cyfundrefn o athrawiaeth yw yr efengyl a Christionogaeth, ond yspryd a bywyd—"Yspryd a bywyd o hunanberthiad er llesau ereill." Ië, yspryd a bywyd ydyw hanfod Cristionogaeth yn ddiau. "Y meddwl yma," o hunan-ymwadu er lles ereill, "Yr hwn oedd hefyd yn Nghrist Iesu," y mae hi yn ei gymell yn gyntaf ac yn benaf peth ar bob un a fyno fod yn ddysgybl iddi hi; ond rhaid i'r yspryd Dwyfoledd hwn gael corff cyfaddas i drigo ynddo, a gweithio trwyddo; "*Ffurf ac ymadroddion iachus*," a, "*Yr athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb*," yw yr enwau a rydd yr apostol ar y *corff* hwn. Os na fydd y corff—y ffurf o ymadroddion—yr athrawiaeth—yn "iachus," ni bydd yr yspryd yn hir heb fyned yn nychlyd a heintus ynddo. Archai yr apostol Ioan i'r credinwyr "Na dderbynient i dŷ, ac na ddywedent 'Duw yn rhwydd' wrth un athraw na fyddai yn dwyn dysgeidiaeth Crist" ganddo. Yr oedd Paul ac Ioan yn gymaint dros fywyd a buchedd iach a neb fu erioed ar y ddaear, ac yr oeddynt yn gymaint a hyny hefyd dros "*Athrawiaeth iachus*." Od oes yspryd dwyfol ynddi hi, yr efengyl, rhaid iddi gael ffurf corff dwyfol

am dano; ond os dynol yw ei hyspryd, gwna corff dynol o ryw ffurf, neu heb ffurf, y tro iddi, nid yw o bwys pa beth fyddo; ond medd y testyn, "Nid yw hi ddynol."

2. Y mae yn ffaith yn hanesyddiaeth Cristionogaeth o'i dechreuad, fel y rhag-grybwyllwyd, ei bod wedi bod yn fater dadleuon ac ymrafaelion mwy na dim arall a ymddangosodd ar y ddaear erioed. "Y rhai sydd yn aflonyddu y byd" (yn troi y byd a'i wyneb yn isaf), y gelwid ei chenadau cyntaf, ac aflonyddu a throi y byd a'i wyneb yn isaf y mae hi byth o hyny hyd yn awr. Yr ydym yn gweled fel y mae hi yn ysgwyd, yn cynyrfu, ac yn berwi y byd drwyddo y dyddiau hyn. Yr ydym yn gweled y geiriau a lefarodd "Tywysog a Pherffeithydd ffydd" yr efengyl ychydig cyn dyoddef o hono, yn cael eu cyflawnu yn llythyrenol ger ein bron, "A minau, os dyrchefir fi oddiar y ddaear, a dynaf bawb ataf fy hun." Ffrwyth y dyrchafu hwnw oddiar y ddaear i'r groes yw yr holl ddadleu hwn yn nghylch ei berson a'i efengyl Ef. Camgymerodd archoffeiriaid a llywodraethwyr yr Iuddewn yn ddirfawr pan ddywedent, "Os gadawn ni ef fel hyn, fe â y byd ar ei ol ef." Tybient ond ei gael i'r groes unwaith, y darfyddai am ei enw a'i achos yn fuan; na, druain, gadewch chwi Ef fel yna, derfydd y sôn am ei enw a'i athrawiaeth o'r byd cyn pen hir; ond os dyrchefwch chwi ef i'r groes, fe grëa *bower* newydd mwy nerthol ac effeithiol nac un *power* y teimlwyd ei ddylanwad erioed cyn hyny yn llywodraeth Duw; *power* a dŷn sylw a chalonau holl fodau deallol y bydysawd, yn angelion, dynion, a chythreuliaid at y groes hono fel canolbwnc mawr, o'r hwn y tardd eu gwynfyd neu eu gwae tragwyddol, yn ol fel y byddo ystâd ansawdd eu calonau tuag ato.

O amgylch Person, a chroes, a chrefydd y Gwaredwr y saif yn awr dyrfa fwy nac a fu erioed o'r blaen; ac yn

gyffelyb i'r dyrfa hono yn Jerusalem, rhai yn cablu, yn gwawdio, yn ysgwyd pen, ac yn llaesu gweflau; a rhai, fel Mair ei fam Ef, a Mair Magdalen, a'r dysgybl yr oedd Efe yn ei garu; tra yr oedd y cleddyf yn myned trwy eu heneidiau oeddynt yn ymlynu wrtho, ac yn ei garu yn fwy nac erioed.

Ymddengys fod y frwydr fawr benderfynol rhwng y dyrfa dau lu o gyfeillion a gelynion "ei groes Ef" ydynt yn sefyll o'i hamgylch hi, yn myned yn boethach, boethach bob dydd. Y mae llu y gelynion yn chwyddo yn gyflym, yn cynwys gwreng a boneddig, cyfoethog a thlawd, dysgedig ac annysgedig, yn annuwiaid a phandduwiaid, yn *agnostiaid*, yn wyddonwyr ac anffyddwyr o bob math ac enw; oll "yn myned allan i'r gâd," ac yn bloeddio i'r frwydr. Y mae y wasg annuwiaidd, fel y ddraig a welodd Ioan, yn bwrw allan o'i safn aneirif "ysprydion aflan tebyg i lyffaint," mewn traethodau ac erthyglau yn ei newyddiaduron dyddiol ac wythnosol, a chyhoeddiadau misol a chwarterol; a thrwy areithiau a darlithiau trwy drefydd Lloegr yn gyffredinol—rhai fel yn ysgyrnygu danedd gan gynddaredd yn erbyn yr efengyl—rhai yn ceisio ymresymu yn fwy pwyllog—rhai megis yn dyweyd yn deg wrthi, ac yn tynu llaw dros ei phen, ac megis dan wenu yn ceisio gwthio dagr i'w chalon yr un pryd. Daw Gwyddonwr annuwiaidd yn mlaen yn fawreddog a hamddenol, a chais wthio ei drosol cryf dan sail "Tŵr y praidd, castell merch Seion"—Cenhedliad goruwchnaturiol dynoliaeth y Gwaredwr, a dyna athraw* arall, Athraw Cristionogol, medd efe, yn dyfod i gynorthwyo y llall, a chydhaera y ddau, yn benderfynol iawn, bod y fath genhedliad yn beth nad oedd yn bosibl iddo ddigwyddo erioed, ac na bydd byth.

* Stopford Brookes.

Tybiwn weled y proffwyd Esaia yn sefyll ar fynydd Seion, ac yn edrych ar y cyngreiriaid hyn, ac yn eu hanerch, gan lefain, "Ymgyfeillechwch, bobloedd, a chwi a ddryllir; gwrandewch, holl belledigion y gwledydd; ymwregyswch, a chwi a ddryllir; ymwregyswch, a chwi a ddryllir. Ymgynghorwch gynghor, ac fe a ddidymir; dywedwch y gair, ac ni saif; canys y mae Duw (Emmanuel) gyda ni." (Esa. viii. 9, 10.) Yna yn troi at y rhai y mae eu calonau yn crynu dros arch Duw, ac yn dywedyd wrthynt hwythau—"Fel hyn y dywed yr Arglwydd, Nac ofnwch waradwydd dynion, ac nac arswydwch rhag eu difenwad hwynt, canys y pryf a'i bwyty fel dilledyn, a'r gwyfyn a'u hysa fel gwlân, eithr fy nghyfiawnder a fydd yn dragywydd; a'm hiachawdwriaeth o genhedlaeth i genhedlaeth." (*Ib* vi. 7, 8.)

Wel, y mae llef Esaia megis wedi fy nhaflu oddiar y llinell y ceisiwn gyrchu ar hyd iddi, ond dyna ydoedd; nad yw gwersylloedd Seion chwaith yn ysgafala fel yr oedd gwersyll y Midianiaid pan ruthrodd Gedon arno; ond y maent hwythau hefyd yn gwisgo eu harfogaeth, ac yn ymbarotoi i'r frwydr. Udaganodd archesgob Caergaint yn gryf ac yn groew i alw ei filwyr yn nghyd; a'r un modd y gwnaeth y Bedyddwyr a'r Annibynwyr yn nghyfarfodydd blynyddol eu hundebau yn mis Hydref diweddaf. Udganodd *Conference* y Wesleyaid hefyd ei udgorn cryf yntau i'r un perwyl; felly y mae y llwythau efengylaidd yn dyrchafu eu banerau "yn enw eu Duw." Ni roddir "Tŵr y praidd" i fyny i'r gelyn, heb ymdrech benderfynol i'w ddiogelu.

Rhaid i'r dòn gref annuwiaidd ac anffyddol hon eto gael ei chwrs; aeth llawer tòn gyffelyb iddi, ond nid mor gref â hi, heibio o'r blaen, ac fe â hon heibio hefyd. Nid ydym ni yn Nghymru allan o berygl derbyn niweidiau oddiwrth y cenllif annuwiaidd hwn fel y gallwn ymdawelu ac ymgysuro, gan ddywedyd, "Pan ddel y ffrewyll lifeiriol, ni

ddaw atom ni." Y mae Cymru yn fwy noeth ac agored i ymosodiadau o'r fath yn awr nac y bu erioed o'r blaen, fel y mae ein pobl yn dyfod yn fwy cydnabyddus â'r Seison, ac a'r llenyddiaeth Seisnig; ac y mae mwy nac a dybiai llawer o bapyrau a thraethodau annuwiaidd Lloegr yn cael eu derbyn a'u darllen gan ieuenctyd ein gwlad. Ah! nid amser i grefyddwyr Cymru i gweryla y naill a'r llall ydyw yr amser hwn yn anad un amser, pan y mae y cleddyf yn dyfod ar y wlad, ac o fwy nac un cyfeiriad. Heblaw annuwiaeth ac anffyddiaeth, dyna y goegffyddiaeth Rufeinig hithau gyda'i gwagddefodau a'i ffurfiau ar waith yn hudo ac yn ceisio pawb a allo lyncu; heidiau o Jesuitiaid wedi dyfod trosodd i nythu yn ein plith, a "thrwy ymadrodd têg a gweniaith yn ceisio llithio eneidiau anwadal." "Deffrown yn gyfiawn, ac na phechwn," canys nid oes gan rai, yn Nghymru eto, y wybodaeth hono o Dduw a'r gwirionedd, i allu gwrthsefyll ymosodiadau y gelynion hyn arnom.

Ymddengys pwysigrwydd y cwestiwn dan sylw yn y lle nesaf, os meddyliwn beth fyddai canlyniadau llwyddiant gelynion yr efengyl a Christionogaeth; ond pwy a ddichon eu dirnad a'u traethu? Ond tybiwch eu bod yn llwyddo i ymlid yr efengyl allan o'r byd, ac i'w lenwi ag egwyddorion annuwiaeth. Wel, dyna fyd! byddai ei ddiwedd yn waeth na'i ddechreuad, "Da fuasai i'r byd hwnw pe nas ganesid ef"—byd o dywyllwch, byd o felldith, byd o wae, a thrueni, a marwolaeth. Beth am yr ychydig gredinwyr allasent fod wedi eu gadael ynddo? Ië, druain, y truanaf o'r holl drueiniaid fyddent hwy, "Y seiliau wedi eu dinystrio," eu gobaith wedi ei ddiffodd; holl ffynonau eu cysur wedi sychu, "Heb Grist, heb obaith, heb nefoedd—heb Dduw, heb ddim!" Collasant eu holl feddiannau a werthfawrogent yn llawer mwy na'u bywydau; ni werthasent eu hawl mewn ond un addewid o'u hen lyfr am holl gyfoeth y bydysawd, pe cawsent y cynyg;

ond dyna'r hên lyfr hwnw wedi darfod am dano, a'i holl addewidion yn gorwedd yn gelaneddau meirwon ar wyneb ei ddalenau. Nid oes bellach ddim i'w wneyd ond claddu y gelain allan o'r golwg, a chau i fyny yr holl demlau drudfawr a gyfodwyd i'w bregethu, neu eu troi yn dai masnach, neu yn demlau rhusedd a thrythyllwch. Gwerthu allan swyddfäau y Feibl Gymdeithas a'r cymdeithasau cenadol, a galw adref yr holl genadau anfonedig i'r byd paganaidd. Casglu yn nghyd yr holl lyfrau crefyddol a gyhoeddwyd o ddyddiau yr apostolion hyd yr adeg pan gyflawnir hyn; i wneyd un goelcerth fawr o honynt oll, fel na adawer o honynt un oll, na dim oll yn ngweddill; a dyma fyd glân, heb ynddo na theml na phregeth, na mawl na gweddi, na sôn am Dduw ac addoli o'i fewn; byd, a'r goleuni fel y tywyllwch, a chysgod angeu heb drefn ynddo—byd lle nad oes mwyach na rhinwedd, na phechod, na chydwybod, na gwirionedd, na chyfiawnder, o'i fewn i fod—byd nad oes iddo na Chreawdwr na Chynaliwr, na Thad, na Barnwr—na barn, na byd i ddyfod; na nef, nac uffern, yn ei aros!

Ond wele ferch Seion (yr ychydig weddill credinwyr) yn eistedd ei hunan, yn weddw ymddifad, yn galaru, gan ddywedyd, "Am hyn yr ydwyf yn wylo; y mae fy llygad—fy llygad yn rhedeg gan ddwfr, o herwydd pellau oddiwrthyf ddyddanwr a ddadebrai fy enaid; fy meibion sydd anrheithiedig, am i'r gelyn orchfygu." (Galar. i. 16.) Do, dygasai y gelyn oddiarni ei hên lyfr; y dyddanwr a ddadebrai ei henaid yn mhob cyfyngder, a sychasai ei dagrau yn mhob trallod, ac a barasai iddi orfoleddu yn mhob gorthrymderau—o'r blaen; am hyn y mae ei "hocheneidiau yn aml, a'i chalon yn ofidus," ond nac ofna, "Ti, ferch Seion," canys "byddi bell oddiwrth y gorthrymder" yna, "ac ni nesa atat." "Ni lwydda un offeryn a lunier i'th erbyn." Beth bynag a â ar goll, ni cholli di byth y "Dyddanwr a ddad-

ebrai dy enaid." Y mae galluoedd y byd hwn, a galluoedd uffern obry, wedi bod ar eu llawn egni am filoedd o flynyddoedd bellach yn ceisio dwyn dy Ddyddanwr oddi arnat, ac wedi methu—"Gair dy Dduw di a saif byth."

Unwaith eto, ar y dybiaeth i'r gelynion hyn i'r efengyl lwyddo yn eu hamcan. Wel, yn ddiau, byddai yn eu gwersyll "Lawenydd a gorfoledd, gan ladd gwartheg a lladd defaid, gan fwyta cig, ac yfed gwin; bwytawn ac yfwn, canys y fory," meddant, "byddwn feirw." (Esa. xxii. 13.) "Gwnawn y goreu a allom o honi bellach, tra gelwir hi heddyw; nid oes genym ond y byd a'r bywyd hwn am dani, rhodiwn a rhedwn bob un yn ffyrdd ei galon a'i dueddiadau, tra parhao ein heddyw, ac y fory, wedi y darfyddo ef, byddwn ninau wedi darfod a byw a bod!"

Gwnai, druan, fe rodiai ac fe redai dynoliaeth i ben ei gyrfa ar y ddaear yn fuan iawn dan lywodraeth a dylanwad annuwiaeth; neu yn hytrach, hi a nofiai yn ei gwaed ei hun i rywle—i rywle oddi yma. Cafodd y byd un enghraifft ofnadwy o'i gallu hi i "deyrnasu i farwolaeth" yn y Chwyldroad yn Ffrainc, yn 1798. Dyna wlad wedi ymddiddarbodi yn ymroddi i hunan-lofruddiaeth dan ei dylanwad. Yn pasio Actau yn ei chymdeithasfa wladwriaethol i ddiddymu Duw—a'i enw a'i addoliad, ei air a'i ddydd—a diddymu angeu, a barn, a byd tragwyddol allan o fodoliaeth a chof; ac yn gwneyd annuwiaeth yn ei gwedd erchyllaf yn gyfraith y wlad, gan ddarbod fod i'r bobl addoli rheswm yn mherson putain, os mynent addoli o gwbl. Ar ol cyflawni yr orchest fawr, dyna lle yr oedd "Lladd gwartheg a defaid, bwyta cig, ac yfed gwin;" a chanu clychau, a thanio magnelau, a chyneu coelcerthau a phob rhialtwch. Erioed yn hanes y byd, ni chyrhaeddasai ynfydrwydd a rhyfyg dyn i'r fath raddau a hyny, ac nid yw yn debyg y gwna yn y ffurf hono byth mwy.

Ond byr fu y gorfoledd a'r llawenydd hwnw, "Megis dros enyd awr." Dyna long y llywodraeth annuwiaidd

"Yn lledu 'i hwyliau i'r damweiniol wynt,
Ac yn ymollwng i'r trochionog fôr,
A'r tònau certh cynddeiriog o bob tu,
Yn curo arni, gan ei 'sgytian hi.
Esgyna weithiau i'r uchelder fry,
Ar frig y gwyllt wanegau, yna i lawr,
Disgyna i'r dyfnderau dig—cyffrous.
Ger llaw mae traethell ar yr hon ymdyr,
Y feisdòn frigwen yn lafoerion troch.

"Y llong a hyrddia'r gwynt a'r tònau mlaen
Yn uniongyrchol rhyngddi â'r graig gerllaw;
Teyrnasa dychryn weithian ar y bwrdd,
Mae'r dwylaw oll mewn penbleth flin a braw,
Gwallgofant, cynddeiriogant yn fwy-fwy,
A rhed a rhuthra'r naill i wddf y llall.

"Yr olwg welir arnynt sydd fel pe
Buasai wyneb annwn wedi ei droi
I lawr goruwch eu penau, a'i chwerwddig
Waddodion yn ymdywallt yn orlif
O losgfal tanllyd i'w hysprydoedd, nes
Y maent yn fflamio yn uffernol dân;
A mwg a gwreichion o'r ufelion poeth,
Yn torchi i fyny o geudod ddig y ffwrn,
Fel Etna neu Vesuvius, pan y bydd
Y tân gnofeydd trwy'u hymysgaroedd dwfn,
Yn creu cyfogfa erchyll er gwaghau,
Eu cylla gorlawn o elfenau gwrth.
Tros dridiau a haner bu y llong a'r llwyth,
Yn ymladd â rhyferthwy y dymhestl gref.

"O'r diwedd tery'r llestr wrth y graig,
A neidia'n ol i enill nerth drachefn,
Ail gyrcha tua'r graig fel tarw gwyllt,
Ac ail darawa arni gyda rhuthr,
A nerth anorfod, ac ofnadwy drwst—

Nerth y gwrthdrawiad eto a'i teifl 'n ol,
A thòn ymchwyddog gyda dirfawr rym,
A'i hyrddia hi drachefn 'ngwrth y graig.

"Yn nghanol twrf arswydus tònau a gwynt,
A chrïau, llefau, cablau, a rhegfeydd
Y gweddill dwylaw, ymagora'r llong,
Ymddryllia, chwala, yn ysgyrion mân,
A'r dyfnder mawr agora 'i erchyll safn,
A llyncа iddo 'i hun y llong a'r llwyth,
A'r tònau gwyrddion ddawnsiant ar ei bedd." *

Nid yw y desgrifiad yna ond gwanaidd o'i gydmaru â ffeithiau hanes echryslonderau y llywodraeth annuwiaidd yn Ffrainc yn ystod y tair blynedd a haner y bu hi mewn awdurdod yno. Trywanodd ei hunan i farwolaeth yn yr ystod byr hwnw, yr hwn yn briodol iawn a elwir "Teyrnasiad Dychryn" *(the Reign of Terror)*. "Y rhai a ddel ar ei ol, a syna arnynt o herwydd ei dydd ef; a'r rhai o'r blaen a gawsant fraw." (Job xviii. 20.) Ar ben y tair blynedd a haner hyny, gwelodd y rhai a ddiangasent yn fyw drwy gyflafanau ofnadwy y "teyrnasiad dychryn" hwnw, fod cydnabyddiaeth o hanfodaeth Bôd Goruchaf yn hanfodol i fywyd cymdeithas a gwladwriaeth; a dyna yr un gymdeithasfa wladwriaethol a drwyddedasai yr *Act* i ddihanfodi y Bôd hwnw, yn darbod ac yn trwyddedu *Act* i'w wahodd yn ol i fodoliaeth, gan benodi dydd gŵyl gyhoeddus i'w dderbyn a'i groesawi, i'w alw yn "DDYDD GŴYL Y BÔD GORUCHAF!"

Dyna a wnaeth hi, annuwiaeth, pan gafodd yr awdurdod wladol i'w dwylaw, a dyna a wnai hi eto, pe adferid yr awdurdod hono iddi; a dyna yr hyn a ddymunai calonau ei chyfeillion lluosog yn y wlad hon ac ar y Cyfandir ei weled, ac yr ymegnïant i'w ddwyn oddiamgylch.

* Emmanuel, Cyf. I., tud. 56, 57.

Unwaith eto. Y mae pwysigrwydd y cwestiwn dan ein sylw yn ymddangos yn wyneb yr ystyriaeth, Os nad yw Cristionogaeth o Dduw—os mai dynol yw hi—mai ofer fyddai treulio dim amser i ystyried a chwilio hawliau un grefydd arall ar y ddaear, er cael allan pa un a oes unrhyw grefydd oruwch-ddynol ei tharddiad yn bod neu beidio. Y mae pob un o honynt a fu yn adnabyddus yn y byd erioed, neu y sydd ynddo yn awr—yn baganiaeth yn ei holl wahanol ffurfiau ac agweddau, yn Fahometaniaeth, ac Iuddewiaeth, fel y mae Iuddewiaeth yn awr, fel yn cyd-ateb y cwestiwn—"Pa le y ceir y ddoethineb oruwch-ddynol hono?"—gan ddywedyd, bob un, "Nid yw ynof fi." A dyma ni wedi ein gadael "yn mro tywyllwch a chysgod angeu; os edrychwn tua'r nefoedd, nid oes oleuni; os ar y ddaear, wele dralloḍ a thywyllwch, a niwl cyfyngder;" a byddwn felly wedi ein gwthio i dywyllwch, ac wedi ein cau i fyny ynddo, a "Gwae ni, darfu am danom." "Edrychasom am oleuni, ac wele dywyllwch; am ddisgleirdeb, ac yn y fagddu yr ydym yn rhodio."

Ond pa beth a gynygia y rhai a fynent ddwyn yr efengyl oddiarnom yn ei lle hi? Wel, y mae ganddynt hwythau iechydwriaeth i'w chynyg a'i chymeradwyo i ni yn lle y llall. Nid "Iachawdwriaeth a fydd byth, a chyfiawnder ni dderfydd," chwaith; iechydwriaeth drwy *science*, iechydwriaeth dymhorol; a dyna yn unig sydd ar ddyn eisieu, meddant. Trefn ac amodau yr iechydwriaeth hon ydynt, dysgu adnabod a deall natur i ddyn, a'i ddwyn i fyw yn ol y deddfau hyny—mewn ufudd-dod gwastadol iddynt; yna, fe ddaw y byd yn iach, yn foesol, rhinweddol, a dedwydd; felly lleiheir ei drallodion, ac yr amlheir ei gysuron a'i fanteision. Drwy gydymffurfio â deddfau natur, fe ddaw dyn yn arglwydd ac yn feistr ar natur, fel y gall wneyd paradwys iddo ei hun o honi. Nid oes arno angen am ddim goruwch-naturiol er ei

ddedwyddwch, ac nid oes dim o'r fath beth iddo i'w gael, nac yn bosibl iddo gael chwaith pe buasai angen am dano, &c. Nid oes genym ddim yn erbyn yr iechydwriaeth *scientifical* hon, cyn belled ag y mae hi yn myned; pob llwyddiant iddi i leddfu trallodion, ac amlhau manteision a chysuron bywyd dyn—dymunem bob llwyddiant i'w hathrawon i addysgu a chynyddu eu gwybodaeth, ond y mae arnom ni eisieu rhywbeth mwy a gwell na'i hiachawdwriaeth hi, rhywbeth a fydd byth; oes, y mae rhyw grefu am rywbeth a fydd byth yn aros o hyd yn nghalon dynoliaeth, na allodd athrawon y wyddoniaeth hon ei pherswadio i'w roddi i fyny; a'r crefu hwnw yn codi o'r hyn sydd anfarwol—yr "Yspryd sydd mewn dyn"—peth na allodd efe erioed ysgwyd ymaith a llwyr ryddhau ei hun oddiwrtho. Ceir llaweroedd o engreifftiau yn hanes oriau olaf annuwiaid ac anffyddwyr, fel yr ymgodai y peth hwnw i'w hwynebau, ac y llwyr ddifethai, mewn un awr, holl lafur blynyddoedd eu bywyd, i'w ddileu.*

Nid yw "ein hefengyl ni" yn diystyru un addysg foesol a buddiol a dyno gwyddoneg allan o ddeddfau natur, ond yn eu cymeradwyo a'u cadarnhau. Cyfeiria llyfr ei dadguddiad hi yn fynych at ddysgeidiaeth natur, gan anog pawb i wneyd y goreu a allont o honi; ond, y mae gyda hyny, yn dyrchafu ei ddysgyblion i dir uwch na deddfau natur, at Awdwr natur a'i deddfau, ac yn seilio ei athrawiaeth o foesoldeb ar berthynas y dyn âg Ef. Dechreuad, a sylwedd, a swm y ddysgeidiaeth hon ydyw, "Ofn yr Arglwydd, hyny ydyw doethineb; a chilio oddiwrth ddrwg sydd ddeall" (Job xxviii. 28), a "Swm y cwbl a glybuwyd yw, Ofna Dduw, a chadw ei orchymynion Ef, canys hyn yw holl ddyled dyn"—hyn yw yr holl ddyn, ei lonaid a'i ddigonedd. Gwesgir hyn at ei galon â'r ystyriaeth o'i gyfrifoleb i Dduw mewn barn a byd i ddyfod, "Canys Duw a ddwg bob gweithred i farn, a phob peth dirgel, pa un bynag a fyddo ai da ai drwg." (Preg. xii. 12, 13.)

Ond dylwn grybwyll yn y fan yma, mai nid drwy y moesoldeb a ddysga y mae yr efengyl yn cyfiawnhau ac yn cadw, er nad heb y moesoldeb hwnw, chwaith; ond trwy y peth goruwch-naturiol hwnw sydd ganddi, iawn dros bechod —y "Brynedigaeth sydd drwy ei waed Ef"—a thrwy hwnw y "Cyflawnir cyfiawnder y ddeddf" yn mhob un sydd yn credu.

Yn awr, cyn terfynu, "Beth a ddywedwn ni wrth y pethau hyn?" Pa ateb a roddwch chwi i'r gofyniad fu dan ein sylw? O ba le y deilliodd ac y daeth yr efengyl hon? Yr ydych, lawer o honoch, yn gydnabyddus â hi, drwy ei gwrando, er ys llawer o flynyddoedd, ac y mae genych ryw farn benodol am dani bellach. Clywsoch beth yw tybiau annuwiaid ac anffyddwyr, a llawer o ddoethion y byd hwn am dani; twyll dynol, twyll yr offeiriadaeth i hudo a gŵyrdroi y bobl ydyw, meddant hwy; ond beth a debygwch chwi am dani? Gwn na fynech gael eich cyfrif yn mhlith ei gwadwyr a'i chablwyr; chwi a addefwch ei dwyfolder; paham, gan hyny, nad ydych yn ufuddhau iddi? Meddyliwch am y cwestiwn arall hwnw, "Beth fydd diwedd y rhai nid ydynt yn ufuddhau i efengyl Duw"? Y mae diwedd i fod ar ei gwrando cyn hir; a beth fydd y diwedd hwnw i wrandawyr anghrediniol ac anufudd? Y mae ymddygiad annuwiaid ac anffyddiaid proffesedig yn gyson â'u proffes hwy; ond y mae ymddygiad a phroffes y rhai a gydnabyddant ddwyfoldeb yr efengyl heb ufuddhau iddi, yn hollol anghyson â'u gilydd.

Beth a debygwch chwi, y rhai sydd yn ei chredu, am dani? Y mae genych chwi "y dystiolaeth ynoch eich hunain" o'i dwyfoldeb—tystiolaeth eich profiad o honi, fel "efengyl gallu Duw," tystiolaeth na ddichon neb ei dwyn oddiarnoch. "I chwi, y rhai ydych yn credu, y mae Efe," yr hwn y credasoch ynddo, "yn urddas"—yn werthfawr, yn

anwyl. Ai nid eich profiad yw, ei fod Ef a'i efengyl yn myned yn fwy-fwy anwyl genych wrth weled a chlywed fel y mae y gelynion yn myned yn fwy hŷf a beiddgar i'w gwadu a'i chablu? Gwraig garuaidd, unwaith, pan oedd ei phriod mewn dryswch yn ei amgylchiadau, ac yn cael ei feio a'i farnu yn drwm gan ei gymydogion, yr hyn, pan wybu hi, a barodd iddi deimlo yn ofidus iawn. Un diwrnod, pan oedd yn ei swyddfa, ac yn athrist uwchben ei gyfrifon, aeth ato ac a'i cofleidiodd, gan dori allan mewn llef wylofus, a dywedyd, "O! fy anwylyd, ni feddyliais erioed fy mod yn eich caru mor fawr hyd oni chlywais fel y mae tafodau enllibus yn eich rhedeg i lawr!" "Wel, fy anwylyd," atebai yntau, "y mae eich ffyddlondeb a'ch cariad chwi bob amser yn werthfawr iawn genyf, ond yn fwy felly nag erioed dan yr amgylchiadau gofidus presenol." Yn gyffelyb y teimla "Y briodasferch, gwraig yr Oen," pan fyddo y gelynion yn cablu ac yn gwaradwyddo enw ei phriod; dyna yr amser y teimla ei chariad ato gryfaf yn ei henaid. Y mae yntau, yn y nefoedd, yn gwerthfawrogi ffyddlondeb a chariad ei eglwys tuag ato, pan y mae hi yn nghanol ei gablwyr a'i elynion yn y byd. "Y mae genyt ychydig nerth, a thi a gedwaist fy ngair, ac ni wedaist fy enw. Wele, mi a wnaf iddynt hwy o synagog Satan (gelynion ei enw Ef); wele, meddaf, gwnaf iddynt ddyfod ac addoli o flaen dy draed, a gwybod fy mod i yn dy garu di," medd Efe wrth yr eglwys yn Philadelphia. (Dat. iii. 3, 9.) Pa le bynag y mae eglwys fel hono i'w chael eto, dyna'r eglwys y mae ei lygad Ef yn edrych arni gyda chymeradwyaeth a hoffder, ac y mae ei nawdd a'i amddiffyn trosti; a chaiff pawb o'i hamgylch, a'r holl eglwysi, wybod ei fod yn ei charu ac yn ei hanrhydeddu a'i bresenoldeb grasol ynddi.

## NODIAD I'R BREGETH FLAENOROL.

[Amcan y seren-nôd (*) ar tudalen 261 ydyw galw sylw y darllenydd at yr hyn sydd yn canlyn. Tua pen deufis wedi i mi barotoi y bregeth flaenorol i'r wasg, a chyn ei hanfon i swyddfa'r argraffydd, daeth y *Nonconformist a'r Independent* am Ionawr 6ed, 1881, i law, yn cynwys hanes claddedigaeth y nofelyddes fydenwog "Ceorge Eliot," gan y Parch. Edward White. Wrth ei ddarllen tarewid fi â syndod i gael tystiolaeth mor ddyddorol a phwrpasol, ac mor fuan hefyd, i wirionedd yr haeriad yn yr adran o'r bregeth y dodwyd y seren-nod wrtho. Credaf nad annyddorol, ond yn hytrach mai dyddorol iawn fydd gan ddarllenwyr y gyfrol hon, ac yn enwedig y rhai na chawsant y cyfleusdra i'w weled o'r blaen, ei weled ef yn gyfieithiedig yma. Gan ei fod mor hynod darawiadol ac effeithiol o'r dechreu i'r diwedd, dodir ef yn gyflawn heb ddim talfyriad.]

"*At Olygydd y Nonconformist a'r Independent.*

"SYR,—Fel tyst oedd yn bresenol ar achlysur claddedigaeth 'George Eliot,' yn Nghladdfa Highgate, dydd Mercher diweddaf, ymddengys i mi fod yr achlysur yn rhoddi mantais i wneyd sylw calonogol arno, fel tystiolaeth o du y ffydd Gristionogol, yn ychwanegol at eich sylwadau chwi yn eich erthygl ragorol yn eich rhifyn am ddydd Iau diweddaf. Y mae beirniadaeth, hyd yn nod o natur gydymdeimladol, megis allan o le yn mherthynas â chladdedigaethau yn gyffred-

inol, yn mron; ond yr oedd digwyddiadau yn perthyn i'r un y cyfeirir ato, ydynt, nid yn unig yn esgusodi, ond agos yn ein gorfodi i wneyd cydnabyddiaeth ddiolchus o'r ymadroddion a draethwyd uwchben yr anrhydeddus ymadawedig.

"Nid oes un cwestiwn am ffydd Gristionogol llawer o'r personau parchus oedd yn bresenol ar yr amgylchiad galarus; nac ychwaith, o'r tu arall, fod y blaid fawr agnosticaidd yn ei nerth, ac yn gyhoeddus bresenol yno—hên gymdeithion a chydweithwyr bywyd yr ymadawedig; y dynion a fuont yn dysgu y genedl Seisnig er ys dros ddeng mlynedd ar hugain, fel ffrwyth eu hymchwiliadau i gyfrinion mater a meddwl, nas gallwn wybod dim am hanfodaeth Duw personol neu am fyd i ddyfod; fod gwyrthiau, yn enwedig y gwyrthiau a briodolir i Grist, yn bethau anghredadwy; a'r rhai a roddasant eu holl dylanwad drwy ystod y tymor hwnw o blaid annuwiaeth gyhoeddus, o Brydain i Japan. Crybwylla Miss Isabella Bird, yn hanes ei theithiau diweddar, bod gweithiau y *very* dynion oedd yn bresenol yn Highgate y dydd hwnw, wedi eu cyfieithu i'r Japanaeg, ac y defnyddir hwynt yn hyf a hyderus gan y bobl yno yn erbyn y cenadau efengylaidd sydd yn eu gwlad, fel tystiolaeth a phrawf nad oes gan y dynion galluocaf yn Lloegr ddim ffydd mewn Duw personol, neu Lywodraethwr moesol, nac mewn byd a bywyd dyfodol i ddynolryw.

"Yn wybyddus i fesur o opiniynau cyhoeddedig y blaid hon, o'r hon yr oedd y foneddiges ymadawedig yn addurn urddasol, aethum i Highgate, nid yn unig fel un yn teimlo dyddordeb yn ei gweithiau hi, ond hefyd yn ddwfn-bruddaidd gan y meddwl y byddai i'w lluaws cyfeillion athronyddol a fyddent yn sefyll o gylch ei bedd—os safent wrth y dystiolaeth a ddygasent drwy eu bywyd—os ymgadwent yn gyson â hono uwch ben bedd yr athrawes enwog—y byddent, meddaf, dan orfod i ymgadw yn ddistaw, heb yngan gair am Dduw a byd arall; ac na chaniatäent ddim gwrthddadleuaeth yn erbyn yr hyn a ddysgasent dros ddyddiau cenhedlaeth gyfan.

"Erioed yn fy holl fywyd ni'm synwyd ac y'm llawenychwyd yn fwy drwy gael ar ddeall fod fy ofnau hyny yn ddi-sail. Yn lle distawrwydd y rhai "*na wyddant ddim*," yr oedd yno lefaru; a sicrha y *Daily News*, golygydd yr hwn sydd yn nghyfrinach y blaid, fod yr hyn a lefarwyd yn *cyd-gordio yn drwyadl â theimladau pawb oedd yn bresenol.* Dewiswyd i lefaru ar yr achlysur foneddwr sydd yn adnabyddus fel un nad yw yn credu, ond gan lleied sydd yn bosibl, yn nwyfoldeb Cristionogaeth, ond sydd yn gyfaill ddiffuant i'r gwyddonwyr oedd yn gydgynulledig yno, ac yn nodedig felly i awdures y

'Ffugchwedl Jubal,' yn yr hon y mae hi, medd y *Spectator*, yn ceisio profi fod marwolaeth, lle y collir pob ymwybyddiaeth o fodoliaeth, yn elw moesol, gan fod pob hunanolrwydd yn darfod gyda darfyddiad y meddwl. Wel, fe anerchodd Dr. Sadleir ei gydalarwyr fel hyn—(ac y mae, fel y tybiaf fi, yn bur gysurlawn i wybod, nid oddiar gasgliad, ond ar awdurdod bendant, fod ei eiriau yn dderbyniol a chymeradwy gan ei gydalarwyr)—yn nghlywedigaeth y dynion galluog ac ymroddgar hyny, a fuasent bob amser yn wadwyr o'r Duwdod, a safent yn ben-noethion o amgylch y bedd. Gwnaeth Dr. Sadleir, nid yn unig gyfarchiad i'r gwir a'r personol Duw, gan adolygu arno i noddi a choleddu yr yspryd ymadawedig, a gofalu yn ei Ragluniaeth dyner am y rhai sydd yn aros ar ol, hyd nes y byddai iddynt hwythau gael eu dwyn i baradwys, ond aeth yn mlaen gan eu hanerch fel hyn:—'Fy nghydalarwyr, boed i ni gyflawnu y ddyledswydd hon a osodwyd arnom, nid gyda syniadau a serchiadau daearol yn unig, ond hefyd gyda gobeithion nefol. . . . Byddai yn chwith i feddwl nad oedd hi a greodd bethau anfarwol, ddim yn anfarwol ei hun. Byddai yn chwith i dybied fod enwau a dylanwadau yn anfarwol, a'r eneidiau a roddasant anfarwoldeb ynddynt yn farwol a therfynol. Na, y mae y serch a'r galar a deimlir ar eu hymadawiad megis yn broffwydoliaethau, a'r ymlyniad sydd ynom wrth eu coffadwriaethau, yn wystlon parhaus i ni o fyd a bywyd gwell i ddyfod. Felly, gan hyny, gallwn gymeryd gyda ni adref eiriau Crist—"Na thralloder eich calon, *yr ydych yn credu yn Nuw, credwch ynof finau hefyd, Yn nhy fy Nhad y mae llawer o drigfanau.*"' Gan gyfarch yr ymadawedig, dywedai yn mhellach, 'Ardderchog ac anwyl gyfaill, yr ydym yn canu yn iach i ti, ond am ychydig bach o amser, hyd nes delo angeu eto, ac uno â'u gilydd, y rhai a wahanodd efe, byth i ymadael mwy.'

"Yna adroddai weddi yr Arglwydd, gyda'r deisyfiad, 'Bydded i ni, pan ddelo awr ein ymddatodiad, allu ymdawelu ynot Ti, a chael rhan yn nghydgynulliad mawr dy weision ffyddlon a'th blant yn Dy dragwyddol deyrnas.' Dybenodd y gwasanaeth gyda'r fendith-wers—'Yn awr, boed iddo Ef, yr Hwn a roddes i ni *ddyddanwch tragwyddol, a gobaith da trwy ras*, gysuro ein calonau, a'n cadarnhau i bob gair a gweithred dda.'

"Wrth wrando ar y geiriau yna, ac edrych ar y lluaws ysgrifenwyr *agnosticaidd*, yn wyddonwyr, celfyddwyr, beirdd, nofelwyr, a meddylwyr, y rhai a lafuriasent mor ddiwyd am hir amser i geisio dymchwelyd 'y ffydd yn Nghrist a byd i ddyfod,' yn ein plith, ymddangosai un o ddau beth yn gasgliad anocheladwy i'm meddwl i, sef, naill na

feddai y gwŷr hyn mo'r gwroldeb i arddel eu credo ar y fath amgylchiad, a'u bod wedi dyfod yma i gyflawnu rhith o seremoni a ddirmygant ynddynt eu hunain tra yn ei chyflawni (ond y mae'r dybiaeth yn annyoddefol), neu ynte, y maent yn cael eu llethu dan y teimlad o wir alar, nes y maent uwch ben, ac megis ar fin y bedd tywyll yn ymgilio oddiwrth eu damcaniaethau gwyddonol, mai nyni, y rhai ydym yn ymlynu wrth y 'dyddanwch tragwyddol a'r gobaith da,' yr hwn a rydd yr efengyl yn unig i ni, sydd yn gwneyd yn iawn. Yr wyf yn credu mai y dybiaeth olaf yw yr un gywir, a bod terfyniad disymwth bywyd un mor alluog—un o athrylith mor gref, mor eang, mor swynol—un a enillasai ein calonau oll, yn gymaint drwy ei thynerwch, a thrwy ei grymusder, wedi agor ffynonau o deimlad yn y dynion mawrion hyn, na chyffroisid erioed o'u mewn drwy eu myfyrdodau gwyddonol, a'u henill yn ddychweledigion gwirfoddol, am yr adeg hono o leiaf, i ffydd y bobl gyffredin yn Nuw fel Tad ein Harglwydd Iesu Grist, ac mewn bywyd anfarwol tu draw i'r bedd. Bydded i'r profiad dwys effeithiol hwn o hyn allan lywodraethu gwaith a llafur dyfodol yr ysgrifbinau hyny, y rhai, hyd yma, a fallasant y gobaith gwynfydedig hwn yn meddyliau miloedd lawer o ddynion.—Yr eiddoch, &c.,

"EDWARD WHITE."

---

Wel, dyna fintai o Sauliaid yn mysg y proffwydi! A rhyfeddach o lawer oedd gweled y Sauliaid hyny yn mysg y proffwydi efengylaidd, nac oedd gweled y Saul hwnw gynt yn mysg y proffwydi Hebrëaidd. Ni buasai hwnw erioed yn Dduw-wadwr, nac eilunaddolwr, nac anffyddiwr chwaith; ond, wele, uwchben bedd "George Eliot," fintai o athrawon annuwiaeth ac anffyddiaeth y byd yn yr oes hon, ac yn gyffelyb i'r Saul hwnw gynt, yn mysg meibion y proffwydi yn Rama, yn diosg eu dillad annuwiaidd oddi am danynt, ac yn proffwydo yn rhagorol, fel efengylwyr, yn gyffelyb i'r Saul arall yn y Testament Newydd, "Yn pregethu y ffydd yr hon gynt a anrheithiasent." Gwyn fyd na allem obeithio y gwnant barhau i lyny wrth y ffydd hono o hyn

allan, fel y gwnaeth y Saul o Tarsis; ond ofnwn y digwydda iddynt yn ol y wir ddiareb, "Hwch wedi ei golchi, a ddychwel i'w hymdreiglfa yn y dom!" Un lofr a gwan ydyw annuwiaeth, er ei holl fost; y mae gweinidogaeth angeu, pan nesao ati, yn peri iddi welwi a chrynu. Ni allai hi sefyll yn dalgref uwchben y bedd y dodid y rhan farwol o "George Eliot" i lawr ynddo heb droi ei golwg draw, a rhedeg i geisio cipio gafael yn nghobaith yr efengyl, am yr adeg hono, beth bynag; a gobeithio y daliant eu gafael ynddo wedi cael prawf felly ynddynt eu hunain, mai "Megis tŷ pryf copyn" ydyw y gobaith a ddyry eu gwyddoniaeth hwy; yn eu gollwng pan bwysont arno, ac yn darfod pan ymaflont ynddo. Ni chaed yr un grefydd, nac un trefniant o wyddoniaeth, na dysgeidiaeth eto a allodd ddal a dyddanu meddwl dyn pan yn gyfyng arno, ond y gobaith a osodwyd o'n blaen yn yr efengyl," am yr hwn y dywed yr apostol, "Hwn sydd genym ni, megis angor yr enaid, yn ddiogel ac yn sicr, ac yn myned i mewn at yr hyn sydd o'r tu fewn i'r llen." (Heb. vi. 19.)

# PREGETH XVI.

## EFENGYL DUW, ETO.

"Eithr yr ydwyf yn hysbysu i chwi, frodyr, am yr efengyl a bregethais i chwi, nad yw hi ddynol, canys nid gan ddyn y derbyniais i hi, nac y'm dysgwyd, eithr trwy ddadguddiad Iesu Grist."—*Gal.* i. 12.

Ni a brofasom o'r blaen fod y cwestiwn pa un ai o Dduw ai o ddynion y mae yr efengyl a bregethir i ni, y cwestiwn penaf a phwysicaf oll yn ei berthynas â phob un sydd yn ei phregethu, yn ei phroffesu, ac yn ei gwrando. Os o ddynion y mae hi, "Ofer yn wir yw y bregeth;" ac fe geir y pregethwyr "yn gau-dystion i Dduw." Ofer, hefyd, yw ffydd ei chredinwyr, y maent "eto yn eu pechodau;" ac ofer, yr un modd ydyw ei gwrando. Ni all na phregethwr na chrediniwr, na gwrandawr, gael un budd na lleshad ysprydol a sylweddol oddiwrthi. O'r tu arall, os o Dduw y mae hi, angenrhaid yw ei phregethu i'r bobl—i'r holl bobl, trwy yr holl fyd. Os o Dduw y mae hi, y rwymedigaeth benaf a phwysicaf a'r bob un a'i gwrandawo ydyw ei chredu a'i derbyn fel efengyl Duw, fel y byddo cadwedig; a'r pechod mwyaf, yr hwn sydd yn dwyn yr euogrwydd trymaf, a'r gosb benaf, ydyw anghrediniaeth o honi, ac anufudd-dod iddi; "Pa fodd y diangwn ni, y rhai ydym yn troi ymaith oddiwrth yr Hwn sydd yn llefaru o'r nef?"

Fel hyn y dywed pregethwr cyntaf yr efengyl hon i'r Iuddewon, ac i'r Cenhedloedd hefyd, am dani, wrth y rhai yr ysgrifenai efe atynt—"Byddwch barod bob amser i ateb i bob un a ofyno i chwi reswm am y gobaith sydd ynoch, gydag addfwynder ac ofn." (1 Petr iii. 15.) I roddi rheswm am y gobaith, yr hyder yn nwyfoldeb eich crefydd yr ydych yn proffesu ei feddu.

Yn y testyn cawn dystiolaeth y dyn mwyaf, a phregethwr penaf yr oes Gristionogol, ar y mater; un nad oedd yn gwneyd cyfrif o ddim, ac nad oedd ei einioes ei hun yn werthfawr ganddo, os gallai orphen ei yrfa trwy lawenydd, a'r weinidogaeth a dderbyniasai gan yr Arglwydd Iesu, i dystiolaethu efengyl gras Duw (Act. xx. 24), ac y mae ei dystiolaeth ef yn un o bwys arbenig ar y mater, fel caf ddangos eto.

Ceisiaf alw eich sylw yn awr at un gangen yn unig o brofion dwyfoldeb yr efengyl, mor belled ac y caniata terfynau cyfyng pregeth i wneyd hyny, gyda chrybwyll bod gan yr apostolion a'r dysgyblion cyntaf brofion neillduol iddynt hwy eu hunain o'i tharddiad dwyfol hi, na chafodd, ac na chaiff neb ar eu hol byth mo honynt. Tystiolaethent hwy, gan ddywedyd, "Yr hyn a welsom, yr hyn a glywsom, yr hyn a edrychasom arno, ac a deimlodd ein dwylaw am Air y bywyd, canys y bywyd a eglurhâwyd, ac ni a welsom, ac yr ydym yn tystiolaethu i chwi y bywyd tragwyddol, yr hwn oedd gyda'r Tad, ac a eglurhawyd i ni. Yr hyn a welsom ac a glywsom yr ydym yn ei fynegu i chwi, fel y caffoch chwithau hefyd, y rhai na chawsoch erioed y cyfleusdra i weled â'ch llygaid, a chlywed â'ch clustiau, a theimlo â'ch dwylaw, Air y bywyd, fel y cawsom ni, y tystion etholedig"—fel y caffoch chwithau, trwy gredu ein tystiolaeth ni, "gymdeithas gyda ni, a'n cymdeithas ni, yn wir, sydd gyda'r Tad, a chyda ei Fab Ef, Iesu Grist."

(1 Ioan i. 1–3.) Ac yn gyffelyb y llefara Petr, un arall o'r tystion hyny, gan ddywedyd, "Hwn a gyfododd Duw y trydydd dydd, ac a'i rhoddes Ef i'w wneuthur yn amlwg, nid i'r bobl oll, eithr i'r tystion etholedig o'r blaen gan Dduw, sef i ni, y rhai a fwytasom ac a yfasom gydag Ef, wedi ei adgyfodi Ef o feirw. Ac Efe orchymynodd i ni bregethu i'r bobl, mai Efe yw yr Hwn a ordeiniwyd gan Dduw yn Farnwr byw a meirw." (Act. x. 40–42.)

Dengys yr apostolion, yn eu holl epistolau, yr awydd mwyaf am ddyrchafu yr eglwysi—yr holl gredinwyr, i'r un tir uchel o "lawn sicrwydd ffydd a gobaith yn yr efengyl" ag yr oeddynt hwy, yr apostolion eu hunain, yn sefyll arno, "Fel y caffoch chwithau hefyd gymdeithas gyda ni;" fel y profoch ac y mwynhâoch yr un dyddanwch ag ydym ni yn ei fwynhâu; fel y galloch, "wedi eich gwreiddio a'ch seilio mewn cariad, amgyffred gyda'r holl saint, beth yw y lled, a'r hyd, a'r dyfnder, a'r uchder; a gwybod cariad Crist, yr hwn sydd uwchlaw gwybodaeth, fel y'ch cyflawner â holl gyflawnder Duw." (Ephes. iii. 18, 19.) Ac na byddoch mwyach yn blantos yn bwhwman, yn agored i gymeryd eich cylcharwain gan bob awel dysgeidiaeth a anadlo arnoch, ond yn sefydlog, sicr, a diymod yn ffydd yr efengyl, modd y galloch fwynhâu ei thangnefedd a'i gorfoledd hi yn eich eineidiau.

Ond awn at y cwestiwn, Y profion o Ddwyfoldeb yr efengyl, a'r gangen arbenig o'r profion hyny y cyfeiriwyd ati, gan fyned heibio i'r proffwydoliaethau am y Messia yn yr Hên Destament, a'u cyflawniad ynddo Ef, "Tywysog a pherffeithydd ffydd" yr efengyl yn hanes y Testament Newydd, a'r gwyrthiau a gyflawnodd Ef ei Hun, a'r apostolion wedi hyny yn ei enw Ef, fel seiliau i'r gwirionedd dwyfol, &c.; awn, gan fyned ati hi ei hun, yn annibynol ar bob peth amgylchiadol ac oddiallan iddi, fel y mae hi yn

cael ei dadlenu o'n blaen yn yr efengylau a'r epistolau, yn nghyd â'i dylanwad a'i heffeithiau ar y byd. Ei chynwysiad, mewn gair, ydyw, "Crist Iesu, yr Arglwydd." Efe yw ei sylwedd a'i chyflawnder, y sydd "yn cyflawni yr oll yn oll," yn "bob peth yn mhob peth" ynddi, fel na fedd ac na fyn hi neb ond Efe, neb na dim gydag Ef. Yn y drefn o ras ac iachawdwriaeth a ddadguddia hi i'r byd, cauir allan bob enw a haeddiant ond ei enw a'i haeddiant Ef ei Hun. Ni sonia am enw a theilyngdod, na dim oll, a wnaeth un patriarch na phroffwyd, na brenin nac offeiriad, nac efengylwr nac apostol, na merthyr na sant, nac angel chwaith. Ei thystiolaeth bendant hi ydyw, "Nid oes iachawdwriaeth yn neb arall; canys nid oes enw arall dan y nef wedi ei roddi yn mhlith dynion, trwy yr hwn y mae yn rhaid i ni fod yn gadwedig." (Act. iv. 12.) Ymdrechodd gau apostolion, yn nyddiau Paul, ddwyn efengyl arall i mewn i'r eglwysi, i "ddatroi efengyl Crist," fel y dywed ef; ac y mae olynwyr i'r gau apostolion hyny yn aros ac yn parhau yn y byd hyd y dyddiau hyn. Yr efengyl a fyn osod Mair yn gyfartal a'r Gwaredwr yn ei swydd fel "Cyfryngwr rhwng Duw a dynion," ac a ychwanega seintiau o bob rhyw a math, da a drwg, gyda hyny; a phregethu iachawdwriaeth trwy offeiriadaeth dwyllodrus "y dyn pechod," a seremonïau a defodau cnawdol yn lle yr iachawdwriaeth "trwy ffydd yn ei waed Ef," a bregethai Paul a'i gyd-apostolion. Y mae y ddelw ddynol mor amlwg ar wedd "yr efengyl arall" hon, ag yw yr un ddwyfol ar wedd yr efengyl apostolaidd hono. Wrth eu hyspryd ac "wrth eu ffrwythau yr adnabyddir hwynt."

Ond edrychwn yn awr ar yr efengyl hon, y dywed yr apostol yn y testyn, nad "yw hi ddynol," ond a ddysgasai efe gan Dduw' trwy ddadguddiad goruwchnaturiol o honi iddo. Nid oedd efe yn ddyledwr i neb un o'r rhai "oeddynt o'i flaen ef yn apostolion" am ddim oll o'i ddysgeidiaeth

efengylaidd; "Y rhai cyfrifol, ni chwanegasant ddim i mi," medd efe. Yr un efengyl oedd gan Paul ag oedd gan yr apostolion ereill; derbyniasent hwy hi gan eu Harglwydd a'u Hathraw, pan oedd Efe yn bresenol yn y corff gyda hwynt, yn y ffordd naturiol o gyfranu a derbyn addysg; derbyniodd Paul yntau yr un efengyl trwy ddadguddiad goruwchnaturiol o honi o'r nefoedd iddo. Edrychwn arni, ynte, yn y profion a ddwg hi ei hun o'i dwyfoldeb. Yn

I. Ei thystiolaeth am berson ei Hawdwr fel Duw-ddyn.

II. Yn hanes ei fywyd, ei ddioddefiadau, a'i farwolaeth, ei adgyfodiad o'r bedd, a'i esgyniad i'r nefoedd.

III. Yn ei hathrawiaeth, yn seiliedig ar y ffeithiau am ei berson, a'i fywyd, a'i angeu.

IV. Ei buddugoliaethau, a'i dylanwad ar y byd.

I. *Person ei Hawdwr.* Rhaid i ni ddechreu gyda gwyrth, a'r wyrth benaf o'r holl wyrthiau, "Mawr ddirgelwch," neu fawr wyrth "duwioldeb"—"Colofn a sylfaen Cristionogaeth"—"Duw a ymddangosodd yn y cnawd." (1 Tim. iii. 16.) Hon yw tystiolaeth "y dysgybl yr oedd Efe yn ei garu," ar y mater hwn, "Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyda Duw, a Duw oedd y Gair." (Ioan i. 1.) Dyna dystiolaeth bendant—mor bendant ag y dichon geiriau osod allan—am ddwyfoldeb y person y lleferir am dano. Eto, "A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni; ac ni a welsom ei ogoniant Ef, gogoniant megis yr Unig-anedig oddiwrth y Tad, yn llawn gras a gwirionedd." (*Ib* adn. 14.) Dyna y wyrth—y wyrth a wnaeth yr Anfeidrol arno Ef ei Hun yn Mherson y Gair tragwyddol, trwy ei ddarostwng ei Hun i gymeryd arno natur dyn ac "Agwedd gwas," er mwyn dyn; y mae holl wyrthiau a'r rhyfeddodau ar ddynion, ac ar elfenau natur, y rhydd yr ysgrythyr

hanes am danynt, fel yn diflanu o'r golwg yn ymyl hon. Ofer yw cynyg tystiolaethau o'r fath hyn i athrawon anffyddiaeth; gwawdiant a dirmygant hwy bob peth o'r fath fel breuddwydion neu ddychmygion athrawon twyllodrus i ddallu a hudo meddyliau hygoelus. Ond gallem ninau ofyn iddynt, Pa le, pa bryd, pa un, yn holl hanes oes dynoliaeth ar y ddaear, a freuddwydodd neu a ddychmygodd am ddim oll yn debyg i'r wyrth o ymgnawdoliad y Duwdod? O ba feddwl, ond y meddwl Anfeidrol ei Hun, y gallasai y fath *idea* ddeilliaw? Fel y dywedodd Swynwyr yr Aifft uwch ben un o wyrthiau Moses yno, "Bys Duw yw hyn," y gallwn ninau ddywedyd uwch ben y dystiolaeth am ymgnawdoliad y Gair, Meddwl Duw yw hwn. Y mae hwn, "fel y mae y nefoedd yn uwch na'r ddaear," yn uwch nac un meddwl a ddaeth i galon dyn, nac un creadur arall erioed, "Yn ddiddadl, mawr yw dirgelwch Duwioldeb."

Ond daw athraw y wyddoneg annuwiaidd yn mlaen, a llefara gydag awdurdod oracl anffaeledig, gan ddywedyd uwch ben tystiolaeth yr efengyl am genhedliad goruwchnaturiol dynoliaeth y Gwaredwr, "Anmhosibl!" Y mae gwyddoneg yn cau allan o gylch dichonedigaeth y syniad o wyrth, neu ddigwyddiad goruwchnaturiol. Dengys hi fod pob digwyddiad a fu erioed, neu a fydd byth, yn gynyrch neu effaith gweithrediad naturiol anian a'i deddfau, ac ni chynyrchant hwy byth ddim a fyddo uwchlaw iddynt eu hunain. Natur yn ymddadblygu drwy weithrediadau rheolaidd ei deddfau ydyw yr holl ddigwyddiadau, y trefniadau, a'r bodau a'r sydd yn hanfodi. Ni ddengys gwyddoneg i mi un prawf o fodoliaeth y peth a elwir yn Fôd Goruchaf, yn Greawdwr, Lluniwr, a Llywodraethwr y byd. Nid oes ganddi hi ddim a wnelo "â'r gyfryw dyb." Ai rhyfyg ynom fyddai gofyn i athrawon a dysgawdwyr y wyddoneg hon, O ba le y daeth y meddwl yna sydd ynoch chwi eich hun-

ain, yr hwn sydd yn gallu chwilio i mewn i gyfrinion natur a'i deddfau, a dadansoddi ei helfenau hi drwy osod y naill i *actio* ar y llall? Y meddwl sydd megis "yn gosod terfyn ar dywyllwch, ac yn chwilio allan bob perffeithrwydd, hyd yn nod meini tywyllwch, a chysgod angeu." (Job xxviii. 3.) Y mae efe yn feistr, ac yn meistrioli anian a'i deddfau, i raddau helaeth. O ba le y daeth y rheswm hwn? A ymgenhedlodd efe o hono ei hun yn mru oer a marw naturiaeth, ac ymweithio allan o honi, gan ymddangos megis drychiolaeth ger ei bron? "Y mae efe yn estyn ei law at y gallestr," ac yn ei dryllio yn chwilfriw; yn peri i afonydd dori drwy y creigiau, ac yn dymchwelyd mynyddoedd o'r gwraidd; yn cloddio allan eu mwnau a'u metaloedd o'r dyfnderoedd, "Ac y mae ei lygaid Ef yn gweled pob peth gwerthfawr a chuddiedig." (*Ib* 9, 10.) Try ei olwg i'r ffurfafen fry, mesura bwysau a phellderau heuliau a phlanedau, ac olrheinia eu rhodau a'u gyrfaoedd; hola hanes a helynt y comedau gwylltion a wibiant heibio iddo ar eu gyrfaoedd drwy y ceugant annherfynol. Pwy yw hwn sydd yn dwyn y nef a'r ddaear megis dan warogaeth iddo ei hun? Y mae hanfodaeth bywyd yn natur, yn wyrth ynddi; yn beth goruwchnaturiol—yn wir, y mae pob bywyd yn wyrth. A chaniatau, mewn ffordd o ymresymu, fod natur a'i deddfau yn hanfodi erioed, fel y maent yn awr, fel y myn athronwyr annuwiaidd haeru, dyma *fywyd* yn aros eto i roddi cyfrif am dano. Y mae ein gwyddonwyr eu hunain yn gorfod sefyll a synu uwch ben y dirgelwch hwn. Ffurfiant ddamcaniaeth ar ol damcaniaeth i geisio rhoddi cyfrif am dano, ond methant foddloni eu hunain â'r un ddamcaniaeth, a gorfodir hwynt i addef y dichon fod rhywbeth, rhyw *power* yn bodoli o'r tu draw, os nid uwch law i natur a'i deddfau; rhyw "*agnostic*" anadnabyddus ac anadnabyddadwy, na allodd, hyd yn nod eu gwyddoniaeth hwy,

gael gafael arno hyd yma, ond y gobeithiant ei chwilio allan rywbryd; ond, beth bynag, nid Bôd Anfeidrol, yn Greawdwr a Llywodraethwr natur a'i deddfau ydyw.

Y mae bywyd, gan hyny, bywyd o bob math a gradd sydd yn hanfodi yn natur, yn ddeilliadaeth oruwch natur, yn beth y methodd dyfeisiau ei gwyddonwyr hi drwy osod ei helfenau i *actio* ar eu gilydd, gael ganddi gynyrchu un rhyw na math o hono, "Eu holl ddoethineb a ballodd." A chaniatau, fel y sylwyd, ei bod hi a'i deddfau yn hanfodion annechreuol, yr oedd dyfodiad y bywyd hwn i hanfodi ynddi, yn wyrth—yn beth uwchlaw iddi hi. Gellir dywedyd am bob hanfod o hono, o bob gradd a math, fod "ei hâd ef yn aros ynddo," i'w drosglwyddo a'i barhau o genhedlaeth i genhedlaeth, fel nad yw yr olyniaeth ddidor o hono, fel yr oedd ei ddechreuad, yn wyrth. Y mae yr impyn estronol a goruwchnaturiol hwn ar bren naturiaeth wedi ei naturioli megis, a'i wneyd fel un o gynyrchion priodol natur ei hun; er hyny, y mae pob bywyd is-raddol yn aros byth yn y fan y dechreuodd, heb gynyddu dim; yr un a'r unrhyw ydyw pob bwystfil ac anifail, pob aderyn a physgodyn, pob coed a llysiau oll, yn aros ac yn parhau megis yr oeddynt yn y dechreuad; ond am y bywyd, yr yspryd, sydd yn y dyn, nid oes diwedd ar ei dyfiant a'i gynydd ef mewn gwybodaeth, dyfais, a chelfyddyd—y mae rhyw ymestyn ac ymeangu di-ddiwedd ynddo ef. Yn y dyn, gan hyny, y cawn wyrth benaf y cread ar y ddaear; ynddo ef, wele fywyd ysprydol ac anfarwol wedi ei briodi â'r bywyd anifeilaidd a marwol; bywyd nad yw natur a'i deddfau yn adnabod dim o hono, nac yn meddu llywodraeth na dylanwad arno, ond yn unig ar y tŷ o bridd y mae efe yn preswylio ynddo, a phan dyner hwnw i lawr, fe "ddychwel y pridd hwnw i'r ddaear fel y bu," a disgyna y bywyd anifeilaidd oedd ynddo fel "chwythiad yr anifail i'r ddaear;" ond eheda y bywyd

ysprydol hwn ymaith trwy ganol holl ddeddfau natur, heb ei gyffwrdd gan yr un o honynt, gan esgyn i fyny i'w fro gynhenid ei hun, "at Dduw, yr Hwn a'i rhoes ef." Rhyfedd ddarfod i'r yspryd hwn erioed syrthio i'r amryfusedd ofnadwy o geisio gwadu ei Dad, "Tad yr ysprydoedd a byw!"

Dyma wyrth, un "ofnadwy a rhyfedd" hefyd, yn bresenol ynom ni ein hunain, un y mae "Tragwyddol allu a Duwdod" ei Hawdwr i'w "gweled yn amlwg" ynddi, wrth ei hystyried hi. "Yr Hwn sydd alluog a wnaeth i mi fawredd," meddai Mair, mam yr Iesu, wedi iddi gael datguddiad o'r ffaith—y wyrth benaf o'r holl wyrthiau—Cenhedliad goruwchnaturiol dynoliaeth y Gair Tragwyddol yn ei bru hi. Y mae haeriad hyf, rhyfygus, yr athrawon gwyddonol, fod gwyrthiau yn anmhosibl, yn diflanu ar unwaith ger bron y wyrth ydym yn gael ynom ein hunain. "Yr hwn sydd yn llunio yspryd dyn ynddo," a allai hefyd lunio y wyrth fwy na hono yn "Y Bachgen a anwyd, a'r Mab a roddwyd i ni, yr Hwn y gelwir ei enw, Rhyfeddol, Cynghorwr, y Duw Cadarn, Tad Tragwyddoldeb, Tywysog Tangnefedd." (Esa. ix. 6.) Ond y mae athrawon ereill, ac athrawiaeth arall, yn ein cyfarfod eto, fwy anghyson a gwrthun na'r llall. Proffesa hon gred yn Nuw fel Bôd personol a thragwyddol, ac mewn Cristionogaeth hefyd, fel crefydd, a'r grefydd oreu sydd i'w chael, am a ŵyr hi; yna â ei hathraw ac a eistedd i lawr, a chymer ei bin yn ei law, a thyn ef drwy holl wyrthiau yr efengyl, o'r ymgnawdoliad hyd yr adgyfodiad o feirw y trydydd dydd, fel chwedlau gweigion am bethau, medd ef, y mae yn anmhosibl ddarfod iddynt erioed gymeryd lle; dymchwela, felly, yn ei fryd ei hun, deml Cristionogaeth i'r llwch, gan ei dynoethi hyd ei sylfaen; ac eto, y mae efe, os coeliwn ef, yn Gristion trwyadl a da iawn. Wel, ni a'i gadawn ef yn y fan yna, i fwynhau ei hun yn nhawelwch ei gydwybod, fel y dywed ef.

Y mae athrawon ereill drachefn a geisiant esponio ymaith y gwyrthiau o'r efengyl, drwy eu priodoli, naill ai i amryfusedd neu gamgymeriad yr efengylwyr, neu eu gor-awydd i ychwanegu at fawredd a gogoniant eu hathraw a'u Harglwydd, yn ngrym eu sêl drosto, &c.; ac hefyd, nad oes ond dau efengylwr, Matthew a Luc, yn son gair am y cenhedliad goruwchnaturiol; na ddarfu iddo Ef, yr Iesu ei hun, hòni hyny erioed, na'r apostolion yn eu hepistolau chwaith. Chwenycha y rhai hyn, fel Joseph ei gŵr hi, unwaith, cyn iddo gael datguddiad o'r nefoedd, "fwrw Mair ymaith yn ddirgel," er yn wahanol iawn i'r gŵr cyfiawn hwnw yn eu hyspryd â'u hamcan.

Gwir yw nad yw yr efengylwyr Marc ac Ioan yn rhoddi tystiolaeth uniongyrchol am genhedliad goruwchnaturiol dynoliaeth y Gwaredwr; ni ddywedant hwy ddim y naill ffordd na'r llall ar yr achos cyfriniol hwnw; pethau amlwg bywyd cyhoeddus y Gwaredwr oedd y pethau y traethent hwy am danynt. Gwelai yr Yspryd Glân, yr Hwn oedd yn dysgu ac yn cyfarwyddo yr ysgrifenwyr sanctaidd, yn angenrheidiol cofnodi y ffaith o wyrth fawr y cenhedliad goruwchnaturiol, y "mawr ddirgelwch," yn nechreuad yr efengyl, ac etholodd y ddau dyst, Matthew a Luc, yn unig, i ddwyn tystiolaeth iddi, fel drwy y ddau dyst hyny, y byddai safadwy a chredadwy y dystiolaeth hono, yr hon yw "colofn a sylfaen" yr oruwch-adeiladaeth Gristionogol; ac wedi gosod y sylfaen hono i lawr yn eu tystiolaeth hwy, yr oedd yr adeiladwyr ereill, yn yr efengylau a'r epistolau, i fyned yn mlaen gyda gwaith yr oruwch-adeiladaeth. Ond, a ydym i ganiatau na soniodd, na honodd, ac na chyfeiriodd y Gwaredwr mawr ei Hun ddim unwaith at genhedliad goruwchnaturiol ei ddynoliaeth? Gyda gwylder mawr, a'r "parchedig ofn" sydd yn gweddu, yn neillduol i ŵr o'm bath i, y dymunwn gynyg syniad ar y mater hwn, nad wyf yn gwybod ddarfod

i neb arall o'r blaen ei grybwyll; os gwnaed, da fyddai genyf gael gwybod hyny, rhoddai foddlonrwydd i'm meddwl gael ar ddeall fod rhywun arall wedi syniaw yr un peth. Fodd bynag, anturiaf yn wylaidd ei gynyg i sylw, dan y ddau benawd hyn: yn

1. Nad yw y Gwaredwr unwaith, ar un achlysur, yn cydnabod Joseph fel ei dad Ef. "Mab y dyn" ydyw ei hoff enw arno ei Hun, ac fel "Mab y dyn," cyfeiria yn wastad at Dduw fel ei Dad, (nid wyf yn cyffwrdd yn awr a'r pwnc o Dragwyddol Faboliaeth ei Berson Dwyfol.) Arddelwa ei Hun lawer gwaith yn Fab Duw, fel yr oedd Efe yn Fab y dyn. Derbyniodd, gyda chymeradwyaeth arbenig, gyffes Petr am dano mewn atebiad i'w ofyniad, "Pwy y mae dynion yn dywedyd fy mod I, Mab y dyn?" a "Phwy meddwch chwi, ydwyf fi?" "A Simon Petr a atebodd ac a ddywedodd, Ti yw Crist, Mab y Duw byw"—Ti, "Mab y dyn," ydwyt y Crist, y Messia, "Mab y Duw byw." "A'r Iesu, gan ateb, a ddywedodd wrtho, Gwŷn dy fyd di, Simon mab Jona; canys nid cig a gwaed a ddatguddiodd hyn i ti, ond fy Nhad, yr Hwn sydd yn y nefoedd." (Mat. xvi. 13–17.) Na, "Nid cig a gwaed a ddatguddiodd hyn" am Fab y dyn. "Ti yw Elias," neu "Ti yw Jeremias," neu "Ti yw Iesu o Nazareth, mab Joseph," fuasai atebiad cig a gwaed. Ond,

2. At y gair a lefarodd Efe wrth ei fam, pan nad oedd Efe ond deuddeng mlwydd oed, pan gollasai ei rieni Ef, a'i gael yn y Deml, yn nghanol y Doctoriaid, "yn gwrando arnynt, ac yn eu holi hwynt," yr oeddwn am gyfeirio yn neillduol. Anturiodd ei fam ymliwio âg Ef yn dyner ar yr amgylchiad hwnw, gan ddywedyd wrtho, "Fy mab, paham y gwnaethost hyn â ni? Wele, dy dad a minau, yn ofidus a'th geisiasom di. Ac Efe a ddywedodd wrthynt, *Paham y ceisiech fi? Oni wyddech chwi fod yn rhaid i mi fod yn nghylch y pethau a berthyn i'm Tad?*" (Luc ii. 48, 49.)

Neu, fel y cytuna ein beirniaid yn gyffredin yn awr, "Oni wyddech chwi fod yn rhaid i mi fod *yn nhy fy Nhad?*" Cystal a dweyd, "Nid eich tŷ chwi, yn Nazareth, yw tŷ fy Nhad—fy nghartref I; y tŷ hwn (y Deml) a ddewisodd fy Nhad yn y nefoedd i osod ei enw ynddo, i ddwyn yn mlaen ei wasanaeth a'i addoliad, yw fy nghartref priodol I; oni wyddech chwi hyny? chwi a ddylasech ei wybod. Y mae anwybodaeth pawb arall o hyn yn esgusodol, ond nid felly chwi. Tydi, fy mam, a wyddost, pe na ddywedasai neb wrthyt, nad oes i mi dad dynol; a thithau, Joseph, a wyddost nad ydwyt dad i mi, a chefaist ddatguddiad o'r nef nad oes un dyn, mwy na thithau, yn dad i mi." Ond "Hwy ni ddeallasant y gair a ddywedasai Efe wrthynt. A'i fam Ef a gadwodd yr holl eiriau hyn yn ei chalon." (Luc ii. 50, a 19.) Parodd y geiriau syndod a phetrusder mawr i'w meddyliau yn ddiau; beth allasai fod meddwl y bachgen ynddynt! Ymddengys yn debygol iawn ddarfod iddynt holi y naill y llall yn eu cylch—i Joseph ofyn i Mair, a oedd hi wedi datguddio cyfrinach ei genhedliad iddo? ac iddi hithau ofyn yr un peth iddo yntau. Gwyddent nad oedd neb ond un o honynt hwy eu dau ar y ddaear a allasai fynegi iddo y cyfryw beth. Wedi i'r naill gael sicrwydd gan y llall na ddatguddiasai yr un o honynt y dirgelwch iddo, gorphwysai y peth yn ddwys iawn ar feddwl Mair, "Cadwodd y gair yn ei chalon," gan ymholi ynddi ei hun, a oedd y plentyn yn deall eisoes, o hono ei hun, ddirgelwch goruwchnaturiol ei genhedliad? Rhaid y llanwai yr ystyriaeth ei henaid â "Gwylder a pharchedig ofn" yn ei bresenoldeb byth wedi hyny. "Yr oedd Joseph, a'i fam Ef, yn rhyfeddu am y pethau a ddywedwyd am dano Ef" gan Simeon ac Anna yn y deml, pan ddygasant Ef yno yn faban i'w gyflwyno i'r Arglwydd, agos i ddeuddeng mlynedd cyn hyny; ond yr oeddynt yn rhyfeddu mwy o lawer wedi clywed y fath eiriau ganddo Ef ei hun.

Ond rhaid ymatal, canys yr amser a ballai, i sylwi ar ymadroddion ereill o eiddo y Gwaredwr ydynt yn taflu awgrymiadau at y mawr ddirgelwch hwn, a geiriau Paul (Heb. ix. 11), y rhai a ystyrid bob amser gan feirniaid ac esponwyr uniongred, eu bod yn dwyn tystiolaeth benodol i genhedliad goruwchnaturiol dynoliaeth y Ceidwad. Swm y cwbl yw hyn, Bod mawredd yr *idea* o ymgnawdoliad y Gair Tragwyddol, symledd, cysondeb, a phrydferthwch digyffelyb yr hanes a rydd y ddau efengylwr am genhedliad goruwchnaturiol ei ddynoliaeth Ef, yn annibynol ar bob peth arall, yn dwyn y fath dystiolaeth i ddwyfoldeb yr efengyl ag sydd raid iddi rwymo pob meddwl ystyriol a diragfarn, i'w derbyn a'i chredu, "nid fel gair dyn, ond fel y mae hi yn wir, yn air Duw."

II. *Y profion o'i dwyfoldeb y mae yr efengyl yn eu dwyn yn ei hanes am fywyd, dioddefiadau, marwolaeth, ac adgyfodiad ei Hawdwr.* Hanes ydyw hwn na fu erioed, nad oes, ac na fydd byth chwaith, ddim dynol cyffelyb iddo; "A bydded ein gelynion yn farnwyr." Hanes bywyd a buchedd person difai, difrycheulyd, heb nam, na gwendid, na methiant, na lithrodd yn ngwyneb un brofedigaeth, mewn na gair na gweithred, na thymer nac ymddygiad. Ni ddaethai i galon un dyn erioed, cyn y dyn Crist Iesu, nac ar ei ol Ef chwaith, i hòni perffeithrwydd difrycheulyd ei fywyd; ond y mae Efe yn gosod ei hun ar y tir uchel hwnw, ac yn herio ei elynion maleisus yn eu hwynebau, gan ddywedyd, "Pwy o honoch a'm hargyhoedda I o bechod." Ni cheisiodd, ac ni feiddiodd neb o ddysgyblion un athraw, a fawrheid ganddynt ar gyfrif ei ddoethineb a'i rinweddau, ei bortreiadu yn eu hanes am dano, fel dyn perffaith a difai. Ond y mae dysgyblion a haneswyr bywyd yr Iesu, oll yn gytun, yn tystiolaethu felly am dano Ef. "Yr Hwn ni wnaeth bechod, ac nid oedd twyll yn ei enau," meddai un; "Yr hwn nid adnabu bechod,"

medd y llall; "Y cyfryw arch-offeiriad, diddrwg, dihalog, a didoledig oddiwrth bechaduriaid," ac "Oen difeius a difrycheulyd," ac a'r cyfryw ymadroddion y llefarent bob un am dano Ef.

Edrychwch arno yn y portread a gawn o hono yn yr efengylau a'r epistolau, ac ar ddynion sanctaidd Duw, yn batriarchiaid, proffwydi, ac apostolion, fel y maent hwythau yn cael eu portreiadu yn yr ysgrythyrau, rhaid dywedyd wrtho yn ngeiriau y Salmydd, "Tecach ydwyt na meibion dynion" (Salm xlv. 2). Ië,

"Fy Iesu yw tegwch pena'r byd
A thegwch nef y nef;
Ac mae y cwbl sydd o werth,
Yn gyfan ynddo Ef."

Ond gwrandewch dystiolaeth gelyn, un o brif athrawon anffyddiäeth yn Ffrainc, James Jaques Rosseau, yr hwn oedd yn ei flodau ychydig cyn toriad allan y Chwildröad ofnadwy yn 1798. Mewn llythyr at gyfaill, efe a ddywed:

"Yr wyf yn addef fod mawrhydi yr ysgrythyrau yn fy llenwi âg edmygedd, fel y mae purdeb yr efengyl yn effeithio ar fy nghalon. Darllenwch weithiau ein hathronwyr, gyda holl orwychedd eu rheitheg; pa mor isel, mor ddirmygus ydynt, mewn cydmariaeth a'r ysgrythyr! A ydyw yn bosibl nad yw y llyfr, sydd mor syml, ar yr un pryd mor oruchel, yn ddim amgen *na gwaith dynol?* A ydyw yn bosibl nad yw y person rhyfedd, hanes yr hwn y mae y llyfr yn gynwys, yn neb amgenach na dyn yn unig? A gawn ni ef byth yn ymddangos yn debyg i benboethyn, neu sectariad uchelgeisiol? Y fath fwyneidd-dra, a'r fath burdeb yn ei foes a'i ymddygiad! Y fath raslonrwydd effeithiol yn ei ymddangosiad? Y fath arucheledd yn ei wirebau! Y fath ddoeth-

ineb ddofn yn ei ddysgeidiaeth! Y fath bresenoldeb meddwl, a'r fath graffineb a gwirionedd yn ei atebion! Mor gyflawn oedd ei lywodraeth ar ei dymer a'i nwydau! Pa le y mae y dyn—yr athronydd, a allai fyw a marw fel y bu efe fyw a marw, heb fethiant na ffaeledd, heb wneyd dim arddangosiad o hono ei hun? Pan ddarlunia Plato ei ddyn rhinweddol dychymygol, yn cael ei lwytho â holl waradwydd euogrwydd, eto yn teilyngu gwobrwyon uchaf rhinwedd, y mae yn desgrifio *character* Iesu Grist i'r dim; y mae y tebygolrwydd mor ddynodol, fel y darfu i'r hên dadau oll sylwi arno. Pa ragfarn a dallineb a raid fod, i gydmaru mab Sophroniscus â Mab Mair? Y fath anfeidrol anghyfartaledd y sydd rhyngddynt! Socrates yn marw yn ddiboen a diwaradwydd, a allai yn hawdd gynal a chadw ei *garacter* hyd y diwedd; a phe na buasai i'w farwolaeth, er mor esmwyth ydoedd, goroni ei fywyd, gallesid ameu pa un a oedd Socrates, gyda ei holl ddoethineb, yn ddim amgen na gwâg-ymhonydd. Efe a ddyfeisiodd drefniant o foes-ddysg, meddir; ond yr oedd ereill o'i flaen wedi gosod y moesoldeb hwnw allan mewn ymarferiad o hono. Nid oedd ganddo ef, gan hyny, ddim i'w wneyd ond adrodd yr hyn a wnaethent hwy, a gosod allan eu hesiamplau mewn gwersi. Buasai Aristocles yn gyfiawn cyn i Socrates ddeffinio cyfiawnder; rhoddasai Leonidas ei fywyd dros ei wlad cyn i Socrates ddysgu gwladgarwch fel dyledswydd; yr oedd y Spartiaid yn ddynion sobr cyn i Socrates arganmol sobrwydd; yr oedd llaweroedd o ddynion rhinweddol yn ngwlad Groeg cyn iddo ef egluro ac arganmol rhinwedd. Ond pa le y dysgodd Iesu, yn mysg ei gydwladwyr ef, y moesoldeb pur a goruchel i'r hwn y rhoddai efe ei hun yn unig y fath ddeffiniad ac esiampl o hono? Gwnaeth y ddoethineb uchaf yn adnabyddus yn nghanol y penboethiaid mwyaf rhagfarnllyd. Ymddengys marwolaeth Socrates, yn athronyddu gyda'i gyfeillion, yr un

fwyaf dewisol a ellid ddymuno; ac angeu Iesu, yn trengu yn y dirdyniadau mwyaf poenus, yn cael ei wawdio a'i sarhau â'r edliwiadau bryntaf gan genedl gyfan o bobl, yr un mwyaf dychrynllyd a ellid meddwl am dano. Derbyniai Socrates, yn wir, y cwpan gwenwyn dan fendithio y rhai a'i cyflwynent iddo dan wylo; ond Iesu, yn nyfnder gwasgfeuon y poenau llymaf, a weddïai dros ei boenydwyr creulon a maleisus. Ië, os oedd marwolaeth Socrates yn deilwng o athronydd, y mae bywyd a marwolaeth Iesu, yn deilwng o DDUW! A dybiwn ni nad yw yr hanes yn yr efengyl yn ddim ond ffug-chwedl? Yn wir, fy nghyfaill, nid yw yn dwyn dim o nodau ffug; yn y gwrthwyneb, nid yw hanes Socrates, yr hwn nid oes neb yn cymeryd arnynt ei ameu, yn cael ei ardystio a'i ategu mor gryf a hanes Iesu Grist. Nid yw y gyfryw dybiaeth yn gwneyd dim ond symud ychydig ar yr anhawsdra, heb ei symud ymaith. Y mae yn fwy annichonadwy i feddwl y gallasai nifer o bersonau ddyfeisio ac ysgrifenu y fath hanes, na chredu y gallai *un* fyw a marw fel y desgrifir ynddi. Nid oedd y llenorion Iuddewig yn alluog i gynyrchu dim cyffelyb iddi; ac yr oedd y moesoldeb cynwysedig yn yr efengyl yn beth hollol estronol ac anadnabyddus iddynt hwy. Y mae nodau gwirioneddolrwydd yr holl hanes mor ddynodol ac anefelychadwy, fel y byddai ei dyfeisydd yn un mwy rhyfeddol na'r arwr penaf."

Dyna fel yr ysgrifenodd un o ben-campwyr anffyddiaeth ei hun yn y ganrif ddiweddaf. "Beth, gan hyny, a ddywedwn ni wrth y pethau hyn?" Ni a ddywedwn nad oes angen i mi ddywedyd un gair yn ychwaneg ar y pen hwn; ond eto, ni a ddywedwn fod y dystiolaeth yn brawf nerthol o allu dwyfol yr efengyl, pan wasgai y fath gyffesiad o'i dwyfolder o galon un o'i gelynion penaf a mwyaf galluog. Do, fe wasgodd ei grym dwyfol hi mor galed arno, pan ysgrifenai y dernyn hyawdl uchod, nes peri iddo ef, y Balaam

diweddar, droi i fendithio a mawrhau yr efengyl a Christionogaeth, yn lle eu dirmygu a'u melldithio, fel y gwnaeth i'r Balaam hwnw gynt, fendithio Israel Duw, pan yr amcanasai eu melldithio a'u rhegu.

Ond cyn gadael y pen hwn, rhaid ychwanegu ychydig eiriau ar y prawf mawr, yr olaf a'r penaf o'r profion oll—"*Yr adgyfodiad oddiwrth y meirw y trydydd dydd.*" Os safadwy yw y dystiolaeth a ddygir i'r wyrth hon, safadwy yw pob gair o'r tystiolaethau ereill am wyrthiau y Gwaredwr; os gwrthbrofir hon, y mae yr oruwch-adeiladaeth yn syrthio yn garnedd. "Os Crist ni chyfodwyd, ofer, yn wir, yw ein pregeth ni; ofer hefyd yw eich ffydd chwithau," medd Paul. (1 Cor. xv. 24.) Ar y ddwy wyrth, gwyrth y cenhedliad, a gwyrth yr adgyfodiad, y mae holl alluoedd y gwrthwynebwyr yn cael eu crynhoi i wneyd eu hymosodiad mwyaf egnïol a phenderfynol yn awr. Y mae yr olaf yn bwysicach na'r cyntaf; oblegid, pe caniateid y dichon mai trwy genhedliad naturiol y ganwyd y Gwaredwr, ni byddai hyny yn peri un angenrheidrwydd arnom i roddi fyny ei ddwyfoldeb personol, a phurdeb difrycheulyd ei natur; ond os rhoddir i fyny y ffaith o'i adgyfodiad, y mae yr holl efengyl yn cydymollwng ac yn cydsyrthio.

1. Gofalodd yr Ysbryd Glân am fod i'r ffaith fawr hon gael ei chadarnhau â thystiolaeth o'r fath sicraf; nid oes un ffaith hanesyddol wedi ei hategu â phrofion eglurach a chadarnach, ïe, mor eglur a chadarn â hon; os gwrthodir profion hon, yn iach i bob hanesyddiaeth, ni ellir pwyso na hyderu ar ddim fel gwirionedd dilys a ddysgir ganddi, a theflir y byd i dywyllwch a phetrusder am bob peth y tystiolaetha hi ddarfod iddo ddigwydd erioed ar y ddaear.

2. Dechreuodd yr apostolion gyhoeddi y ffaith am Adgyfodiad eu Harglwydd ar ben y degfed dydd a deugain wedi hyny, pan gyflawnwyd "Addewid yr Yspryd" arnynt; a

hyny yn Jerusalem, yn wynebau yr archoffeiriaid, a'r henuriaid, a'r bobl a'u croeshoeliasent Ef, gan eu cyhuddo yn y modd cryfaf a mwyaf diarswyd, o "wadu y Sanct a'r Cyfiawn," a lladd "Tywysog y Bywyd," "yr hwn a gyfododd Duw," meddynt, "O'r hyn yr ydym ni oll yn dystion." Yr oedd yr un-ar-ddeg yn un a chytun yn dwyn y dystiolaeth hon, ac ni chynygiodd yr archoffeiriaid a'r henuriaid hyny unwaith wrthateb eu tystiolaeth, ond eu bygwth, a'u curo, a gorchymyn iddynt "na lefarent mwyach yn yr enw hwn." A dyna yr amser, os byth, i wadu a gwrthbrofi tystiolaeth yr apostolion.

3. Fe gredodd miloedd lawer o'r Iuddewon yn Jerusalem a Judea dystiolaeth yr apostolion, y rhai, gan mwyaf, yn ddiau, a welsent ac a glywsent yr Iesu ei hun, ag a fuasent yn dystion o lawer o'i weithredoedd nerthol Ef, yn ystod tymor ei fywyd cyhoeddus yn eu mysg.

4. Y mae yr hanesydd Iuddewig, Josephus, yr hwn oedd yn gydoeswr â'r apostolion, er nad yn Gristion, yn cydnabod fel gwirionedd ddarfod i'r Iesu "ymddangos yn fyw i'w ddysgyblion wedi iddo adgyfodi o feirw;" y mae efe hefyd yn petruso pa un a oedd yn gyfreithlon a phriodol i alw Crist Iesu yn ddyn; ac yn tystiolaethu am dano mai Efe oedd y Crist y rhagddywedasai y proffwydi am dano. Ni chyffesodd efe ei hun yn ddysgybl iddo, y mae yn wir; ac y mae ei dystiolaeth ef, ar y cyfrif hwnw, yn gryfach ar yr achos, gan ei fod ef, un o ddynion anrhydeddusaf a dysgedicaf o'i genedl, yr hwn nad oedd yn arddel ei hun yn Gristion, yn cadarnhau tystiolaeth yr apostolion yr amser yr oeddynt hwy yn ei chyhoeddi i'r byd.

Yn olaf, ac yn benaf o'r tystion, wele, Saul, o Tarsis; ei dröedigaeth ef ydyw y graig fawr y mae anffyddiaid yr oesau wedi bod yn curo ac yn dryllio eu penau yn ei herbyn. Prin y meiddiodd yr un o honynt haeru nad efe oedd

awdwr yr epistolau sydd â'i enw wrthynt; ac nad oedd efe yn ddyn dysgedig a galluog iawn, mewn gwirionedd; rhaid yw iddynt gydnabod hefyd y buasai efe y gelyn a'r erlidiwr penaf i ddysgyblion ac enw yr Iesu am dymhor o'i fywyd, ac iddo ddyfod wedi hyny y blaenaf a'r penaf o'r apostolion. Beth i'w wneyd o'r hanes a rydd y dyn hynod hwn am ei dröedigaeth a'i ddychweliad i'r "ffydd, yr hon gynt a anrheithiasai?" Adrodda hi drachefn a thrachefn, yn y synagog, o flaen y cyngor, a cher bron "Llywiawdwyr a breninoedd." Cyn ei dröedigaeth, efe a ddywed ddarfod iddo "allan o fesur erlid eglwys Dduw, a'i hanrheithio hi, gan lusgo gwŷr a gwragedd, a'u cau mewn carcharau," am eu bod yn galw eu hunain ar enw yr Iesu; "a chan ynfydu yn fwy yn eu herbyn," iddo eu "herlid hyd ddinasoedd dieithr hefyd;" a hwn ar unwaith

"Pan oedd y byd yn agor ei ddorau i'w dderbyn,
Gan addaw pob mwyniant os unai âg ef,
Yn cofleidio y groes, gan gyfrif yn elyn,
Bob un a geisiai fyn'd rhyngddo â'r nef;"

gan orfoleddu yn ei holl ddioddefiadau dros yr hwn gynt a erlidiasai; a phe buasai ganddo fil o fywydau, aberthasai hwynt yn llawen "ar allor a gwasanaeth ei ffydd Ef." Cyfrifa bob peth yn dom ac yn golled er mwyn "ardderchowgrwydd gwybodaeth Crist Iesu ei Arglwydd." Taerai yn wyneb y byd "ei fod Ef (yr Iesu) yn fyw," a'i fod ef wedi "gweled y Cyfiawn hwnw, a chlywed lleferydd ei enau Ef." Nid oedd ganddo ddim i'w ddysgwyl, ac nid oedd *yn* dysgwyl dim, ond "rhwymau, blinderau, carchar a chyffion, newyn a noethni, ac enbydrwydd, ac angeu" merthyr yn y diwedd, yn dâl am ei lafur; ond nid oedd "yn gwneyd cyfrif o ddim!" Y fath oedd y dyn rhyfeddol hwn; un o'r dynion cryfaf ei synwyr a'i alluoedd y teimlodd

y ddaear ei draed yn rhodio arni erioed—yr ymresymydd mwyaf craff a gafaelgar ei feddwl, cyflawnaf a chyflymaf ei ddealldwriaeth a'i athrylith a welwyd mewn un oes. Erys yn y Testament Newydd fel "maen tramgwydd a chraig rhwystr" ar ffordd annuwiaid ac anffyddiaid yr oesau, y methodd eu holl ymdrechion ei symud ymaith—safant wrth y maen, a llefarant fel ynfydion uwch ei ben. Ydyw, y mae tröedigaeth a thystiolaeth Paul wedi eu gwneuthur, fel y dywedir am Jerusalem (Zech. xii. 3), "Yn faen trwm i'r holl bobloedd, pawb a ymlwytho âg ef, yn ddiau, a rwygir, er ymgasglu o holl genhedloedd y ddaear yn ei erbyn ef." Golwg rwygedig druenus sydd ar Strauss a Renan, dau brif athraw yr Annuwiaeth Bantheistaidd ddiweddar, pan yn ymlwytho â'r maen hwn. Wrth geisio ei dreiglo ymaith o'r ffordd, cafodd pendefig ieuanc, Arglwydd Lyttleton, yn y ganrif o'r blaen, ei lethu dano, a'i lwyr argyhoeddi o wirionedd dwyfol yr efengyl, a dygodd allan draethawd galluog iawn o'i phlaid. Da y gallasai Paul lefaru am dani fel y gwna yn y testyn—"*Nid yw hi ddynol,*" &c.

Yn ddiweddaf oll, y ffaith o'i esgyniad a'i ogoneddiad yn y nefoedd. Coron a phen ar y cwbl yw hyn—"Yr Hwn a ddisgynodd, yw yr Hwn a esgynodd goruwch yr holl nefoedd, fel y cyflawnai bob peth." Dyma y ffeithiau mwyaf rhyfedd a gogoneddus a welwyd erioed yn llywodraeth y Brenin mawr; y ffeithiau am Berson, bywyd, dioddefiadau, marwolaeth, adgyfodiad, ac esgyniad a gogoneddiad yr Iesu yn y nefoedd; ac dyna hi yn dechreu yn ngwyrth y darostyngiad yn Bethlehem, yn rhedeg yn afon o wyrthiau drwy yr angeu ar y groes, ac i'r bedd, i wyrth fawr yr adgyfodiad y trydydd dydd, yna i'r "tra-dyrchafiad ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwchleoedd." Yn ddwyfol oll o'r dechreu i'r diwedd; yn "efengyl gogoniant Crist, yr Hwn

yw delw Duw." "Ar yr hyn bethau y mae yr angelion yn chwenych edrych;" yr hyn bethau na ddaethant byth i galon dyn nac angel i feddwl am danynt, nes eu dad-guddio yn yr efengyl.

III. *Yn ei hathrawiaeth seiliedig ar y ffeithiau am ei Berson a'i fywyd.* Heb ddysgeidiaeth yr efengyl yn ei hathrawiaeth buasai ei ffeithiau yn ddirgelwch cuddiedig i ni byth. Gallasem ddyfalu ac ymbalfalu dan ein dwylaw yn nghylch eu hystyr, a'u hamcan, a'u dybenion, heb ddyfod byth i feddu sicrwydd gwybodaeth o'r gwirionedd; ond yn yr efengyl y mae Duw ei hun yn "hysbysu i ni ddirgelwch ei ewyllys yn ol ei foddlonrwydd ei hun, yr hon a arfaethasai efe ynddo ei hun" (Eph. i. 9). Yn egluro i bawb beth yw "cymdeithas y dirgelwch, yr hwn oedd guddiedig yn Nuw o ddechreuad y byd, yr hwn a greodd bob peth trwy Iesu Grist" (*ib* iii. 9). Yn awr gallwn ni ateb gofyniad Eliphas i Job, "A glywaist ti gyfrinach Duw?" (Job xv. 8) gan ddywedyd, Do, ni a glywsom y gyfrinach dragwyddol oedd "yn guddiedig ynddo Ef o ddechreuad y byd!" Y mae Efe, yn yr efengyl, yn gwahodd pawb i gymdeithas y dirgelwch gogoneddus hwnw; fel, os safwn uwch ben dirgelwch yr ymgnawdoliad, a gofyn, "Ai gwir yw y preswylia Duw gyda dyn ar y ddaear?" y gallwn ateb yn ei eiriau Ef ei hun, gan ddywedyd, gwir yw, "Canys felly y carodd Duw y byd, fel yr anfonodd Efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo Ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol." (Ioan iii. 16.) Pa ham y daeth Efe, "Etifedd pob peth," i fod yn dlawd, "heb le i roddi ei ben i lawr," yn "Wr gofidus a chynefin â dolur?" "Fel y'n cyfoethogid ni trwy ei dlodi Ef, ac fel trwy ei gleisiau Ef yr iacheid ni." Pa ham yr aeth Efe trwy y fath ddioddefiadau poenus, ac angeu gwaradwyddus? "Y Cyfiawn yn lle yr anghyfiawn, fel y dygid ni at Dduw." Pa ham y

cystuddiwyd ac y drylliwyd ei enaid cyfiawn, "Yr Hwn nid adnabu bechod?" "Am iddo gael ei wneuthur yn bechod drosom ni, fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo Ef." "Efe a archollwyd am ein camweddau ni, Efe a ddrylliwyd am ein camweddau ni; cospedigaeth ein heddwch ni oedd arno Ef." Tywalltodd ei waed a'i enaid i farwolaeth fel y byddai i ni "Brynedigaeth trwy ei waed Ef, sef maddeuant pechodau." Adgyfododd o'r bedd i'n cyfiawnhau ni; esgynodd i'r nef i eiriol drosom ni, ac "fel y cyflawnai bob peth." Fel hyn y mae dysgeidiaeth yr efengyl yn agor ac yn egluro holl gyfrinion dyfnion ymgnawdoliad a bywyd, dioddefiadau ac angeu, adgyfodiad a gogoneddiad y Gwaredwr, ac yn ein harwain i "gymdeithas y dirgelwch oedd yn guddiedig yn Nuw cyn yr oesau."

Ond "nid adnabu neb o dywysogion y byd hwn" y ddoethineb hon. Pan oedd Paul yn ei phregethu, yr oedd yr Iuddew deddfol yn tramgwyddo, a'r Groegwr doeth yn ei dirmygu fel "ynfydrwydd." Ac y mae Iuddewon a Groegwyr y dyddiau presenol yn union yr un fath â'u tadau hyny. Fel ynfydrwydd yr edrycha ein doethion gwyddonol gan mwyaf ar yr efengyl yn awr. Y mae ei hathrawiaeth a'i hyspryd hi yn ffolineb yn ngolwg "y dyn anianol." "Cyfiawnhad trwy ffydd, cadwedigaeth trwy ras, iachawdwriaeth a bywyd tragwyddol drwy haeddiant ufudd-dod a marwolaeth y Cyfiawn dros yr anghyfiawn," ydynt syniadau na all ei ddoethineb ef mo'u goddef; ond, "i chwi, y rhai a alwyd, Iuddewon a Groegwyr y mae Efe," medd yr apostol, "yn Grist gallu Duw, a doethineb Duw;" ac felly trwyddi hi, y mae Efe yn gwneyd "doethineb y byd hwn yn yn fyd-rwydd."

Dyma'r efengyl a bregethir i ni, ac y mae hi ei hunan yn dyst iddi ei hunan ei bod yn ddwyfol drwyddi draw. Ni allasai un Iuddew deddfol, na Groegwr doeth, na barbariad,

na Scythiad, un dyn nac angel chwaith, feddwl byth am drefn fel hon, i "roi gwell ac adfer" ar fyd o ddynion wedi gwaethygu a dinystrio ei hun; a sylwedd

"Yr efengyl a bregethir, nid yw ef ddim ond hyn,
Mynegi'r weithred ryfedd wnaed ar Galfaria fryn,
Cyhoeddi rhad faddeuant yn haeddiant marwol glwy',
A diwedd llygredigaeth i'r sawl a gredo mwy."

IV. *Ei buddugoliaethau a'i dylanwad ar y byd.*

Os ydyw hi yn hòni ei bod o Dduw, rhesymol fyddai disgwyl a gofyn iddi, "Pa arwydd yr wyt ti yn ei wneuthur fel y gwelom ac y credom i ti?" Wel, edrychwch arni yn ei babandod, yn troi allan i'r byd ar ddydd y Pentecost, yr ieuengaf a'r wanaf o holl grefyddau y byd—yn troi allan i ymladd yn eu herbyn oll—yn erbyn eu hegwyddorion, eu hyspryd, eu defodau, a'u harferion llygredig, a holl ragfarnau cryfion y byd o'u plaid, ni fyn hi wneyd heddwch na chyflafareddiad â'r un o honynt; deil ei chleddyf, "Cleddyf yr yspryd, yr hwn yw gair Duw," yn ei llaw, ac ni fyn ei ddychwelyd i'r wain, hyd oni osodo ei holl elynion dan ei thraed. Ar ddydd y Pentecost, yn Jerusalem, dyna hi ar ei phrawf: un-ar-ddeg o ddynion tlawd, dinôd yw nifer ei byddin, i wynebu ar yr awdurdodau, yn offeiriaid, ac yn ysgrifenyddion, a Phariseaid dysgedig a gelynol, â'r werin ragfarnllyd ac anystyriol yn fyrddiynau. "Y mae'r dynion yn ynfydu," medd rhai; "Llawn o wîn melus ydynt," medd ereill. Ust! dyna y fagnel fawr yn taro ar y gelyn, "Chwi a wadasoch y Sant a'r Cyfiawn, a Thywysog y bywyd a laddasoch—Edifarhewch, gan hyny"—ac yn y fan, dyna dair mil o'r gelynion yn syrthio yn archolledig, ac yn cael eu cymeryd yn garcharorion i'r ffydd newydd! Rhaid ei bod hi o Dduw, ni wnaeth dim dynol beth fel hyn erioed.

"Aeth y gyfraith allan o Seion, a gair yr Arglwydd o Jerusalem." Aeth allan "yn gorchfygu ac i orchfygu," "Gan fwrw cestyll i'r llawr, a phob uchder sydd yn ymgodi yn erbyn gwybodaeth Dduw;" a chaethiwio meddyliau dynion wrth y myrddiynau yn mhob man i "ufudd-dod Crist." Yn yr olwg ar y buddugoliaethau hyny, torai prif arwr y fyddin allan, mewn llef gorfoledd, gan ddywedyd, "I Dduw y byddo y diolch, yr hwn yn wastad sydd yn peri i ni oruchafiaeth yn Nghrist, ac sydd yn eglurhau arogledd ei wybodaeth trwom ni yn mhob lle." (2 Cor. ii. 14.)

Cyngor doeth a roddodd Gamaliel i erlidwyr cyntaf yr efengyl yn Jerusalem—"Ciliwch oddiwrth y dynion hyn, canys os o ddynion y mae y weithred hon, neu y cyngor hwn, fe a ddiddymir; eithr os o Dduw y mae, ni ellwch chwi, rhag eich cael yn ymladd yn erbyn Crist." (Act v. 38, 39.) Ond ymladd yn erbyn Duw a fynent hwy, a'u holynwyr yr un modd, am oesau, drwy ladd a llosgi, a difetha y saint, a'r efengyl dan eu hewinedd, yn profi ei dwyfoldeb, drwy wneyd "gwaed ei saint yn hadyd i'r eglwys," fel, po fwyaf a leddid mwyaf oll fyddai i'w lladd. Nid yn nyddiau yr apostolion yn unig y profodd hi ei dwyfolder felly, ond yn mhob cenhedlaeth ac oes ar ol hyny hyd y dydd hwn. O un man yr aeth iddo "ni throdd ei chleddyf yn ol, ac ni ddychwelodd ei bwa yn wag." Cododd gofgolofnau o'i buddugoliaethau yn mhob un o'i brwydrau; ac "ni phalla, ac ni ddigalona, hyd oni osodo farn ar y ddaear," ac y cyhoedda yr angel, yn ei udgorn mawr, nes dadseinio yr holl nefoedd, "Aeth teyrnasoedd y byd yn eiddo ein HARGLWYDD ni, a'i Grist Ef!"

Wrth derfynu, dywedwn, yn

1. "Efengylwyr Seion, dringwch rhagoch i fynydd uchel," i fynyddoedd uchel "ffydd yr efengyl;" i awyr iachus adfywiol hyder diysgog yn ei dwyfolder; mai "Gallu Duw

yw hi, er iachawdwriaeth i bob un sydd yn ei chredu;" ac yn y pregethiad o honi, fel moddion ordeiniedig gan Dduw i ddwyn dynion i'w chredu. Oddi ar fynyddoedd uchel y ffydd hon y gellwch "ddyrchafu eich llef trwy nerth." Dyna un elfen fawr yn nerth ac effeithioldeb pregethiad Paul, a'r apostolion ereill, o honi, "yn ol yr hyn a ysgrifenwyd, credais, am hyny y llefarais; yr ydym ninau hefyd yn credu, ac am hyny yn llefaru.

2. Chwychwi sydd yn ei phroffesu, "Glynwch yn eich proffes;" ac, "yn unig," yn arbenigol, "ymddygwch yn addas i Efengyl Crist, fel y byddoch ddiargyhoedd a diniwed, yn blant difeuis yn nghanol cenhedlaeth ddrygionus a throfaus, yn mhlith y rhai yr ydych yn dysgleirio fel goleuadau yn y byd." Na fydded arnoch gywilydd o efengyl Crist, ac na fydded i efengyl Crist achos cywilydd o honoch chwithau. Y prydferthaf ar y ddaear ydyw y Cristion sydd yn rhodio yn weddus i'r alwedigaeth y galwyd ef iddi; a'r gwrthunaf o bechaduriaid yw hwnw sydd yn proffesu yr efengyl ac yn ei bradychu drwy ei fywyd anaddas iddi.

3. Wrandawyr y Gair, dywedwn yn ngeiriau Iago, yr apostol, "Byddwch wneuthurwyr y Gair, ac nid gwrandawyr yn unig, gan eich twyllo eich hunain; canys os yw neb yn wrandawr, ac heb fod yn wneuthurwr, y mae hwn yn debyg i ŵr yn edrych ei wynebpryd naturiol mewn drych, ac a aeth ymaith, ac yn y fan efe a anghofiodd pa fath ydoedd." (Iago i. 22–24.) Ydyw, medd y gair tragwyddol ei hun, "Y mae hwn yn gyffelyb i ŵr ffol, yr hwn a adeiladodd ei dŷ ar y tywod, a'r gwlaw a ddisgynodd, a'r llifddyfroedd a ddaethant, a'r gwyntoedd a chwythasant, ac a gurasant ar y tŷ hwnw, ac efe a syrthiodd, a'i gwymp a fu fawr." (Mat. vii. 26, 27.) Eneidiau gwerthfawr, Gochelwch y cwymp *mawr* hwnw.

# PREGETH XVII.

## GWAITH DUW.

"Gweddi Habacuc y proffwyd, ar Sigionoth, Clywais, O Arglwydd, dy air, ac ofnais: O Arglwydd, bywhâ dy waith yn nghanol y blynyddoedd; yn dy lid, cofia drugaredd."—*Habacuc* iii. 1, 2.

Y BAICH a welodd Habacuc y proffwyd yw yr ymadrodd cyntaf yn llyfr y broffwydoliaeth hon; ac yma y mae y proffwyd yn bwrw i lawr y baich hwnw mewn gweddi ger bron Duw, ac wedi hyny yn canu y gân ogoneddus a ganlyn, hyd ddiwedd ei broffwydoliaeth.

Un hynod a dieithr megis, yn mysg y proffwydi, ydyw Habacuc. Nid oes un crybwylliad am ei enw yn yr ysgrythyr cyn nac wedi iddo ymddangos a chyflawni ei weinidogaeth. Ni ddywedir o bwy yr hanodd, nac yn mha le a pha bryd yr oedd yn byw, fel yr hysbysir am bob un, yn mron, o'r proffwydi ereill. Nid yw yntau chwaith yn crybwyll enw un dyn, na phatriarch, na phroffwyd, na brenin, nac offeiriad a fuasent o'i flaen, nac oedd yn byw yr un amser âg ef; nac yn crybwyll enw un wlad na dinas oedd ar y ddaear; ni sonia unwaith am Juda, nac Israel, nac Ephraim wrth eu henwau, nac ond un ġenedl yn unig, y Caldeaid, a hyny ond unwaith yn unig, o herwydd bod y ġenedl hono yn rhan neillduol o "faich" ei broffwydoliaeth;

rhydd y crybwylliad hwnw ar ddeall i ni ei fod yn byw cyn caethgludiad Juda i Babilon, felly yn gydoeswr â Jeremia, neu ychydig o'i flaen ef, fe ddichon.

Dywedasai yr Arglwydd wrth y proffwyd bod ganddo gyfrinach i'w dangos iddo drwy weledigaeth, ac archai iddo wylio a disgwyl yn amyneddus am y weledigaeth hono. Y mae yntau yn penderfynu gwneyd hyny, "Safaf ar fy nisgwylfa, ac ymsefydlaf ar y tŵr," medd ef, "i edrych beth a ddywed Efe wrthyf, a pha beth a atebaf pan y'm cerydder." Cyn agor y weledigaeth o'i flaen, archai yr Arglwydd i'r proffwyd barotoi llechau, ac iddo ysgrifenu ar y llechau yn eglur holl eiriau y weledigaeth, i'w gosod ger bron y bobl ar byst eu pyrth, i roddi rhybudd prydlon iddynt o'r hyn oedd ar ddyfod arnynt, fel y rhedent—y prysurent i ddychwelyd at Dduw, ac ymostwng ger ei fron mewn edifeirwch am eu pechodau, cyn i sylwedd y weledigaeth ymaflyd ynddynt, a'u hanrheithio fel gwlad a chenedl o herwydd eu drygioni.

Wedi i'r proffwyd wneyd fel y gorchymynasid iddo—ysgrifenu y weledigaeth, a gosod y llechau i fyny mewn lle cyhoeddus, fel y darllenai y bobl hi, ciliai ef o'r neilldu i edrych a gwylio beth fyddai'r effaith arnynt—a redent hwy gan brysuro i ymostwng ger bron Duw i ymbil am arbediad, ynte ymgaledu ac ymgyndynu fwy-fwy a wnaent. Yr olwg a welai ar y rhan fwyaf o honynt, pan yn darllen geiriau y weledigaeth ar y llechau, oedd, "yn ymchwyddo," yn ymhyfhau, yn ymgaledu mewn annystyriaeth; yn digio wrth y proffwyd, ac "yn ddiystyr ganddynt, yn troi un i'w faes ac arall i'w fasnach," ac i'w ffyrdd drygionus fel o'r blaen. Felly hefyd yr oedd llawer o'r un bobl drachefn, wedi i eiriau y weledigaeth hon gael eu cyflawni arnynt, ac iddynt gael eu hanfon i Babilon, a gosod Eseciel yn Wyliedydd arnynt. Achwyna ef yn drwm ar ei wrandawyr hyny wrth

Dduw, gan ddywedyd, "O ARGLWYDD DDUW, y maent hwy yn dywedyd am danaf, Onid damegion y mae hwn yn eu traethu?" (Esec. xx. 49.) Bryd arall, cawn yr ARGLWYDD yn achwyn arnynt wrth y proffwyd, gan ddywedyd, "Tithau, fab dyn, meibion dy bobl sydd yn siarad i'th erbyn wrth y paradwydd, ac o fewn y drysau, ac yn dywedyd naill wrth y llall, gan ddywedyd, Deuwch, atolwg, a gwrandewch beth yw y gair sydd yn dyfod oddiwrth yr Arglwydd, Deuant hefyd atat, fel y daw y bobl, ac eisteddant o'th flaen fel fy mhobl; gwrandawant hefyd dy eiriau, ond nis gwnant hwy; canys â'u geneuau y dangosant gariad, a'u calon sydd yn myned ar ol eu cybydd-dod. Wele di, hefyd, iddynt fel cân cariad un hyfrydlais, ac yn canu yn dda, canys gwrandawant dy eiriau ond ni's gwnant hwy." (Pen. xxviii. 30–33.) Desgrifiadau byw, i'r llythyren, o filoedd o wrandawyr y gair yn Nghymru yn awr—dyfod i wrando yn rheolaidd, ac hwyrach yn canmol llais a dawn y pregethwr, a dyna'r cwbl—"ni's gwnant." Ond yr oedd ambell un o wrandawyr a darllenwyr geiriau gweledigaeth Habacuc yn darllen ac yn ystyried, yn credu ac yn rhedeg hefyd—"Y cyfiawn a fydd byw trwy ei ffydd." Yn y fan hono yn unig y cawn y gair ffydd yn ein cyfieithiad Cymreig, a'r un Seisnig yr un modd, o'r Hên Destament. Gwna yr apostol Paul ddefnydd arbenig o hono, fel tystiolaeth bendant o'r Hên Destament, i'r athrawiaeth o gyfiawnhad trwy ffydd heb weithredoedd y ddeddf. (Rhuf. i. 17; Gal. iii. 11; a Heb. x. 28.)

Dywed Paul, pan y cyfeiria at ymweliadau ceryddol a barnol Duw â'i bobl Israel gynt, i'r pethau hyny oll ddigwydd yn siamplau iddynt hwy, a'u bod wedi eu hysgrifenu er addysg i ninau, ar y rhai y daeth terfynau yr oesau. (1 Cor. x. 11.) Myn llawer ein perswadio i gredu nad oes dim a wnelo y pethau "a ddigwyddasant iddynt hwy" oedd yn

byw dan oruchwyliaeth yr Hên Destament â ni sydd yn byw dan oruchwyliaeth y Testament Newydd. A phan y byddo pethau felly yn digwydd i ni dan yr oruchwyliaeth hon, nad ydynt i'w golygu fel ceryddon dwyfol arnom, o herwydd ein pechodau mewn un modd; ond mai pethau yn digwydd yn ol trefn reolaidd natur ydynt. Nid felly, pa fodd bynag, y credai yr ysgrifenydd ysprydoledig penaf yn y Testament Newydd, "*Er addysg i ni*," medd efe, yr ysgrifenwyd yn yr ysgrythyr y pethau a ddigwyddasant iddynt hwy, fel na chwenychem ddrygioni, fel na themtiem Grist, fel na odinebem, na rwgnachem, &c., megis y gwnaethant hwy; a thrwy hyny dwyn arnom ein hunain yr un cyffelyb geryddon ac a gawsant hwy. Da y gwnaem wrando yn hytrach ar lais apostol ysprydoledig nac ar lais yr athrawon hyny a ddysgant athrawiaeth hollol wahanol a chroes i'r eiddo ef. Ein doethineb a'n dyledswydd ni, gan hyny, yn ol cyfarwyddyd yr apostol, wrth ddarllen eu hanes hwy, a hanes ymweliadau ceryddol Duw â hwynt am eu pechodau, ydyw edrych ein hwynebau ein hunain yn y drych a esyd yr hanes hwnw o'n blaen, i weled pa un a ydym ni a'n gwlad yn awr, a goruchwyliaethau y Brenin mawr tuag atom, ddim yn dwyn llawer o gyffelybrwydd iddynt hwy, a'r goruchwyliaethau dwyfol tuag atynt hwy.

Ond beth oedd cyflwr gwlad Judea, a beth oedd goruchwyliaethau ceryddol Duw ar y wlad o herwydd eu pechodau, yr hyn a barai i Habacuc a Jeremia, a'r proffwydi, ofni a chrynu fel yr oeddynt yn achos y genedl? Gan ddarfod i mi gyffwrdd â'r pethau hyn dro o'r blaen, ac y daw yn ein ffordd eto i wneyd yr un peth cyn cymeryd cenad ymadawol â'r testyn, ni chaf y waith hon ond gwneyd ychydig gyfeiriadau at rai pethau.

1. Yr oedd Juda a Jerusalem wedi bod yn hir dan weinidogaeth Rhagluniaeth a phroffwydi Duw, er eu dychwelyd

a'u diwygio oddiwrth eu pechodau, a hwythau wedi ymgaledu ac ymlygru fwy-fwy yn eu hanwireddau dan y gweinidogaethau hyny, fel y gwelwn y proffwydi, Jeremia yn neillduol, yn achwyn llawer, ac yn ymofidio yn ddirfawr o'r herwydd. Ai nid yw y pechodau y cyhuddir hwy o honynt i'w cael yn doraeth cnydfawr yn ein gwlad ein hunain yn awr? ac ai nid yw goruchwyliaethau Duw yn ei ragluniaeth tuag at Brydain Fawr yn bur gyffelyb i'r goruchwyliaethau a weinyddodd Efe tuag at Juda a Jerusalem gynt? Gwasgodd arnynt hwy yn eu hamgylchiadau tymorol lawer gwaith, nes eu dwyn i "gyfyngder a drygfyd, a chyni," drwy ddifwyno ffrwyth y maes, ac anfon haint ar eu hanifeiliaid, eu defaid, a'u gwartheg; gwnaeth felly â ninau yn y blynyddau diweddaf. Cyfrifir fod colled y wlad hon, drwy fethiant cynhauafau dwy flynedd (1878–9), yn gant a deg-a-deugain o filiynau o bunau, yr hyn a ddarostyngodd ei hamaethyddiaeth a'i masnach i gyflwr isel iawn; ond a ydym ni yn "ystyried y wialen hon, a phwy a'i hordeiniodd," a beth yw ei dyben?

2. Aeth Juda a Jerusalem, drwy hir ymgaledu ac ymgyndynu felly dan oruchwyliaethau Duw, i'r fath ystâd a chyflwr o'r diwedd, fel y rhoddodd yr Arglwydd hwynt i fyny yn ei soriant, ac y dygodd arnynt weinidogaeth galetach nac un a brofasent o'r blaen, er y dydd y daethai eu tadau dros yr Iorddonen hyd y dydd hwn, pan y caethgludwyd hwy o honi i Babilon. Yr oedd yn anhawdd iawn ganddo Ef wneuthur hyn—rhoddi "anwylyd ei enaid" yn llaw eu gelynion, a bwrw "hâd Abraham ei anwylyd" ymaith o'i olwg. Y mae sŵn ymysgaroedd ei dosturiaethau i'w glywed yn rhuo yn ei leferydd wrthynt drwy y proffwydi yn fynych. "Cymer addysg, O Jerusalem! rhag i'm henaid ymadaw oddi wrthyt, rhag i mi dy osod yn anrhaith, yn dir anghyfaneddol." (Jer. vi. 8.) Ond ni fynai dderbyn cerydd, na

chymeryd addysg, fel yr achwynir arni drachefn: "Eithr ni wrandawsant, ac ni ogwyddasant eu clust; ond rhodiasant yn ol cynghorion a childynrwydd eu calon ddrygionus, ac aethant yn ol ac nid yn mlaen (yn waeth ac nid yn well). O'r dydd y daeth eich tadau chwi allan o wlad yr Aifft hyd y dydd hwn, mi a ddanfonais atoch fy holl weision, y proffwydi, bob dydd gan fore-godi ac anfon: Er hyny, ni wrandawsant arnaf fi, ac ni ostyngasant eu clust, eithr caledasant eu gwarau; gwnaethant yn waeth na'u tadau. Am hyny, ti a ddywedi y geiriau hyn oll wrthynt, ond ni wrandawant arnat; gelwi hefyd arnynt, ond ni wrandawant di." (Pen. vii. 24–27.) A'r cyffelyb ymadroddion lawer iawn, a llawer o weithiau, y llefarodd yr Arglwydd wrthynt ac am danynt drwy ei holl weision y proffwydi; ond llosgodd holl feginau ei ragluniaeth a'i air, "a chan dân y darfu'r plwm; yn ofer y toddodd y toddydd: canys ni thynwyd y rhai drygionus ymaith. Yn arian gwrthodedig y gelwir hwynt bellach; am wrthod o'r Arglwydd hwynt" (pen. vi. 29, 30), ac wedi i'w Duw eu gwrthod, i ba le yr ânt, a beth a ddaw o honynt? I law Nebuchodonozer, i'w caethgludo i Babilon am ddeng mlynedd a thriugain; ac er y cânt eu gwaredu oddiyno, a'u dwyn yn ol i'w gwlad eu hunain, eto, ni adferir hwy byth i'w hurddas gwladwriaethol yn ngolwg y cenhedloedd, fel y buasent o'r blaen; ni bydd iddynt byth frenin o hâd Dafydd i eistedd ar ei orseddfainc ef mwy; bydd creithiau eu hên bechodau, a cheryddon Duw arnynt o herwydd eu pechodau hyny, yn aros ar wyneb eu sefyllfa a'u cyflwr fel cenedl a gwladwriaeth o hyny allan; dan warogaeth i'r cenhedloedd —y Persiaid, y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid, y naill ar ol y llall—y byddant mwy, hyd oni ddêl Crist i "eistedd ar orseddfa Dafydd," mewn ystyr ysprydol, "ac i'w chadarnhau hi â barn ac â chyfiawnder, o hyn allan byth." (Esa. ix. 9.)

Dyna y pethau a ddigwyddasant iddynt hwy, ac "a

ysgrifenwyd er addysg i ni;" dyna fel y terfynodd yr hîr ymryson a fuasai rhwng Duw a'r bobl hyny, trwy weinidogaethau ei ragluniaeth, ei air, a'i yspryd er eu dychwelyd oddiwrth eu pechodau, fel y gallasai Efe eu harbed a'u bendithio, ac y mynent hwythau wrthod gwrando, a thrwy y cwbl fyned yn mlaen yn ffyrdd eu calon gildynus. Ond beth yw yr addysg i ni yn y pethau hyn? Yr addysg ydyw, Os yw yr un pechodau yn ffynu yn ein gwlad, y rhai y cyhuddid hwy o honynt, ac os ydym yn gweled fod y Brenin mawr yn ceryddu Prydain yn y blynyddau hyn, drwy yr un cyffelyb oruchwyliaethau yn awr, ag y ceryddodd Efe y bobl gynt; ac os ydyw hithau yn parhau i fyned yn mlaen, gan ymgaledu fwy-fwy yn ei phechodau, fod genym achos mawr i ofni a chrynu, rhag y bydd yr un cyffelyb ddiwedd i Brydain Fawr, â'i Llundain fawr, ac a fu i Juda enwog, â'i Jerusalem ardderchog. Mae miloedd yn y deyrnas hon, pe y traethid pethau fel hyn yn eu clywedigaeth, a chwarddent yn ddirmygus am ben y fath hygoeledd penboeth; na, nid oes dim perygl y darostyngir Prydain byth i'r cyflwr hwnw. Felly hefyd y meddyliai ac y dywedai Babilon, gan ddywedyd, "Byth y byddaf yn arglwyddes. Myfi sydd, ac nid neb ond myfi. Nid eisteddaf yn weddw, ac ni chaf wybod beth yw diepiledd," &c. (Esa. xlvii. 7, 8.) Ond pa le y mae Babilon heddyw? Rhybuddiai y proffwyd hi pan oedd hi yn uchder ei gogoniant yn llefaru felly yn ei chalon, gan ddywedyd, "Ond y ddau beth hyn a ddaw i ti yn ddisymwth yr un dydd, diepiledd a gweddwdod; yn gwbl y deuant arnat" (adn. 9); ac felly y daethant, a gwnaed hi yn anghyfanedd-dra tragwyddol, fel y gwelir heddyw. Felly Jerusalem hithau yr un modd, a lefarai heddwch iddi ei hun yn ei chalon. Ymddiriedai yn ei rhagorfreintiau crefyddol, ei theml, a chadernid ei muriau, gan wawdio a dirmygu rhybuddion proffwydi Duw, a'u herlid a'u lladd

hwynt; ond cyflawnwyd eu geiriau arni i'r llythyren. Yr *addysg* i Brydain oddiwrth hyn ydyw, "Na fydd uchelfryd, eithr ofna." Felly y cymhwysai Paul hanes cwymp yr hên Eglwys Iuddewig yn Jerusalem at ystyriaeth yr eglwys efengylaidd yn Rhufain; "Canys onid arbedodd Duw y cangenau naturiol; gwylia nad arbedo dithau chwaith." (Rhuf. xi. 21.)

Achwynai amryw o'r hên dadau puritanaidd yn Lloegr, fel hên broffwydi Israel a Juda, yn drwm iawn yn herwydd yr un pechodau a dirywiadau yn eu hamser hwy. Dygodd Dr. Owen y pethau hyn i sylw ei wrandawyr yn aml, ac yn amryw o'i bregethau o flaen y Senedd, gan daer gymell pob dosbarth, yn llywodraethwyr a deiliaid, yn wreng a bonedd, i ddychwelyd a diwygio oddiwrth eu ffydd drygionus, rhag y digwyddai i Brydain hithau, fel y digwyddasai i lawer o wledydd a dinasoedd o'i blaen. Cedwid rhybuddion o'r fath yn nglustiau Llundain yn barhaus yn y dyddiau hyny. O'r diwedd, ar ol y rhybuddion hyny, ymwelodd yr Arglwydd â'r ddinas hono yn ngweinidogaeth y plâ ofnadwy a dorodd allan ynddi yn 1665, dair blynedd wedi dydd du Bartholomëus, yr hwn a ysgubodd ymaith megis â chorwynt ugeiniau lawer o filoedd o'r trigolion. Yn fuan ar ol y plâ, drachefn, torodd y tân mawr allan, yr hwn a losgodd ran fawr o'r ddinas. Yr oedd pob dosbarth, o'r llys i'r bwthyn yn y ddinas, cyn yr ymweliadau hyny wedi myned yn ddiarebol yn mhob rhusedd a thrythyllwch, a'r llygredigaeth hwnw yn rhedeg fel llifeiriant dyfroedd cryfion o'r llys a'r brif ddinas trwy yr holl wlad.

Mewn anerchiad i ddinasyddion Llundain, o flaen ei esponiad rhagorol ar Eseciel, mae yr hên buritan enwog, William Greenhill, yn udganu ei udgorn cryf yn groch i ddeffro a rhybuddio Llundain ryw bum mlynedd cyn i'r ymweliadau arswydlawn y cyfeiriwyd atynt ddyfod arni. Gan

na chafodd ond ychydig, yn ddiau, o'r rhai y daw y llyfryn hwn i'w dwylaw gyfleusdra i ddarllen yr anerchiad hwn yn yr iaith yr ysgrifenwyd ef, gan nad yw yr esponiad hwnw ond lled anadnabyddus i'r rhan fwyaf o'n darllenwyr, a'i fod mor bwrpasol i'r mater mewn llaw, dodaf gyfieithiad o hono yma.

"Yr ydym yn cael yn yr ysgrythyr," medd ef, "am lawer o ddinasoedd, y rhai, ar gyfrif gwychder eu hadeiladau, cadernid eu hamgaerau, cyflawnder eu cyfoeth a'u marsiandiaeth, oeddynt yn fawrion ac enwog iawn; megis 'No dylwythog' (Nahum. iii. 8); 'Ninefe fawr,' 'Babilon, y dref aur,' 'Tyrus ododog' (Esec. xxvi. 17); 'Jerusalem, dinas y Brenin mawr' (Salm xlviii. 1), yr hon oedd yn rhagori ar y lleill oll. Yno y preswyliai Duw, ei oraclau, ei ordinhadau, a'i broffwydi, yr hyn a'i gwnelai hi yn ogoniant yr holl ddaear. A oedd gan ddinasoedd y cenhedloedd dyrau ac amddiffynfeydd cedyrn? Adwaenid Duw yn amddiffynfa yn ei phalasau a'i thyrau hi. A oedd ganddynt hwy dduwiau o aur ac o arian, o feini ac o goed? Yr oedd ganddi hi Jerusalem, Jehofa, y Duw byw yn trigo ynddi. A oedd ganddynt hwy gynghorwyr doethion? felly yr oedd gan Jerusalem. A oedd ganddynt hwy gyfreithiau a deddfau i'w llywodraethu? Yr oedd gan Jerusalem gyfreithiau a barnedigaethau dwyfol; y fath na feddai un ddinas na phobl eu cyffelyb. (Deut. iv. 8.) A oedd mawredd a gogoniant bydol tymhorol ganddynt hwy? Yr oedd urddas a gogoniant nefol a dwyfol gan Jerusalem, 'canys allan o'i Seion hi y llewyrchai Duw." (Salm l. 2.) Ond beth a ddaeth o'r dinasoedd hyny, ac o Jerusalem ei hun hefyd? Ai nid ydynt wedi eu gwneyd yn ddiffaethwch anghyfaneddol, a'u celaneddau wedi eu claddu yn nghroth y ddaear? Y mae i ddinasoedd, fel y mae i bersonau, eu dydd terfynedig ar y ddaear. Cafodd Babilon ei hamser

i'w geni, a'i hamser i farw. Cafodd Ninefe ei dydd i ymddyrchafu, a'i dydd i syrthio. Tyrus ei dydd o lwyddiant, a'i dydd o ddrygfyd, a "disgynodd i ystlysau y ffôs" (Esec. xxvi. 18–20); a Jerusalem hithau, ddydd ei sylfaeniad a dydd ei llosgiad. Gofidus yw meddwl ddarfod i'r fath ddinasoedd, yn enwedig Jerusalem, ddyfod i'r fath ddiwedd. Yr achos o'r cyfryw ddiwedd arswydus, a'r unig achos, fel y dengys yr ysgrythyr, ydoedd pechod, yr hwn sydd o'r fath natur a dylanwad andwyol fel y mae yn dinystrio y cenhedloedd cryfaf, ac yn dryllio'r dinasoedd cadarnaf. Creulondeb, twyll, a thrawster, a'r cyffelyb, oedd y pechodau a wnaethant Ninefe yn anrheithiedig (Nahum. iii). Balchder a seguryd, a phob aflendid a halogrwydd a dynasant eu distryw ar Sodoma a Gomora (Esec. vi. 49, 50). Anghyfiawnder, balchder, a thwyll, a thrais, a rwygasant Babilon yn ddrylliau. (Jer. lil. 1.) Ceir rhestr o'r pechodau a gyneuasant y tân a losgodd Jerusalem yn lludw yn Eseciel (yr ail benod ar hugain), a manau ereill, y rhan fwyaf o ba rai sydd i'w cael yn y ddinas hon (Llundain) heddyw. Ai nid yw y rhai a ddiystyrant dad a mam i'w cael ynddi? Ai ni orthrymir y weddw a'r amddifad yma? Ai nid oes yma laweroedd yn cymeryd ocraeth ac usuriaeth er mwyn ymgyfoethogi, a rhai yn byw ar dwyll a chelwydd? (Esec. xxii. 12.) Ai nid oes yma filoedd yn diystyru ac yn dirmygu pethau sanctaidd Duw, yn halogi ei Sabbothau a'i ddeddfau; llawer yn proffesu crefydd, ac ar weithredoedd yn ei gwadu—yn ddynion bydol, cybyddlyd, traws, a halogedig? Ai ni allai yr Arglwydd ddywedyd am y ddinas hon fel y dywedodd Efe am Jerusalem, "Canys i'm digofaint a'm llid y bu y ddinas hon i mi er y dydd yr adeiladasant hi hyd y dydd hwn, i beri ei symud oddi ger bron fy wyneb." (Jer. xxxii. 34.) Drachefn, "Yn dy aflendid y mae ysgelerder, o herwydd glanhau o honof di, ac nid wyt lân; o'th

aflendid ni'th lanhëir mwy, hyd oni pharwyf i'm llid orphwys arnat." (Esec. xxiv. 13.) Yn sicr, nid yw Llundain yn haeddu dim yn amgenach oddiar law yr Arglwydd nad oedd Jerusalem a'r dinasoedd ereill hyny, yn enwedig Jerusalem; a chan fod pechodau Jerusalem i'w cael yn Llundain, ofned rhag y cyffelyb ddiwedd â hithau. Cymer addysg, gan hyny, O Lundain, rhag i enaid Jehofa ymado â thi, a'th wneyd yn anghyfanedd; oblegid y mae ganddo Ef ei ddydd i ymweled â gwledydd a dinasoedd am eu pechodau. . . . Yr oedd Jerusalem wedi ei hamddiffyn mor gadarn gan natur a chelfyddyd—mynyddoedd o'i hamgylch, a muriau ac amddiffynfeydd a thyrau fel 'na choeliasai breninoedd y ddaear, na holl drigolion y byd, y daethai un gwrthwynebwr na gelyn i mewn i'w phyrth hi.' (Gal. x. 12.) Ond gan fod ei hanwireddau ynddi, a'i Duw wedi ei gadael, a throi yn ei herbyn, ni allasai dim ei diogelu. Rhybuddiasid hi laweroedd o weithiau gan broffwydi, a thrwy geryddon Duw yn ei ragluniaeth, er ei dwyn i edifeirwch, fel y rhagflaenid ei haflwydd. Yr oedd fel crochan yn berwi ar y tân yn aml, ond nid aeth ei hyscum mawr allan o honi, a hyny a barai ei dinystr. Na feddylied neb mai y tlodion ydyw *scum* dinas. 'Yr Arglwydd yw Gwneuthurwr y tlawd yn gystal â'r cyfoethog.' (Diar. xx. 3.) Ac nid yw Efe yn diystyru gwaith ei ddwylaw; pechod y tlawd a'r cyfoethog, eu drygioni, ydyw y *scum*. Y mae pechodau mawrion o bob math mewn egwyddorion ac ymarferion, mewn dinasoedd mawrion; felly yr oedd yn Jerusalem, a hithau yn myned yn waeth-waeth o hyd, dan bob goruchwyliaeth. Y mae gair Duw yn gosod allan y pethau hyn am dani hi, 'er addysg i ni,' ar y rhai y daeth terfynau yr oesoedd. Boed i'n dinas fawr ni, a'i dinasyddion, edrych ati. Y mae *scum* yn y ddinas, nid ychydig; a ydyw yn berwi allan, ynte i mewn? Ai ni fu y cleddyf wrth

ei phyrth yn ddiweddar? Ai ni fu ynddi afiechyd mawr a marwol dro yn ol? Ai ni thorodd tânau arswydus yn eich aneddau? Ai nid yw masnach yn y ddinas fel yn methu ac yn pallu? Oni luniwyd cydfwriad yn ddiweddar i danio a llosgi y ddinas i'r llawr? Ac oni chyflawnwyd ynddi lofruddiaethau ysgeler ac ofnadwy lawer? Y mae Duw wedi bod yn eich rhybuddio drwy y digwyddiadau hyn, ond a ydych chwi yn well erddynt? Os felly, da fydd i chwi; a da fydd i'ch plant a'ch ŵyrion, ac i'ch amgylchiadau tymhorol; ond os ymgaledu a gwaethygu eto, wedi yr holl rybuddion a gawsoch, gwybyddwch y bydd i ryw drychineb mwy ofnadwy eto, os nid llwyr ddinystr ddyfod arnoch chwi a'ch dinas, os na ragflaenir ef drwy edifeirwch dioed. Hyd yma arbedwyd chwi yn raslawn, a cheryddwyd chwi yn dyner, os na lwydda hyn i'ch dwyn i edifeirwch, y mae toster Duw yn eich aros, ac Efe ddywed, fel y dywedodd Efe wrth Jerusalem gynt, gan ddywedyd, 'Fel hyn y dywedodd Arglwydd y lluoedd, Yn y modd hwn y drylliaf y bobl hyn, a'r ddinas hon, fel y dryllia un lestr pridd, yr hwn ni ellir ei gyfanu mwyach.' (Jer. xix. 11.) Ni all nac amddiffynfeydd cedyrn, na thrysorau llawnion, na chynghorwyr doethion, na galluoedd milwrol, eich diogelu, os bydd *scum* eich dinas yn aros heb ei lanhau. Yr ydych yn ofalus am fod budreddi eich heolydd yn cael ei garthu allan, pa ham na ofalech yn hytrach o lawer ar fod i fudreddi eich calonau a'ch teuluoedd gael ei lanhau? O! ai ni lanheir Llundain! Pa bryd bellach? Yn awr! yn awr, heb oedi dim yn hwy, rhag i'r plâ a fawr ofnir genych dori allan, a pheri gwae a dychryn yn eich heolydd, ac yn eich tai. Ymolchwch, ymlanhewch; bwriwch heibio eich drwg-weithredoedd; dysgwch wneuthur daioni; ceisiwch farn; gwnewch gyfiawnder i'r gorthrymedig; dadleuwch dros y weddw a'r amddifad."

Ychydig oedd yn cymeryd y pethau hyn at eu calonau, pan oedd yr hên buritan yn eu traethu wrthynt. Ychydig, fe ddichon, oedd yntau ei hun yn feddwl fod yr amser mor agos pryd y cyflawnid geiriau ei weledigaeth, yn y rhan olaf o'i gyfarchiad, yn llythyrenol ar y ddinas. Nid oedd yr afiechyd, y tânau a dorasent allan yn y ddinas ychydig cyn hyny, at y rhai y cyfeiria efe, ond megis dafnau blaen y gawod fawr a ragfynegai efe ei bod yn dyfod arni; a'r hon a ddaeth, gyda rhuthr ofnadwy, yn y plâ mawr a dorodd allan ynddi yn fuan wedi hyny, fel y drylliwyd ac y gwanhawyd y ddinas yn dra mawr, drwy y difrodiadau ofnadwy a wnaeth y plâ a'r tân ar fywydau a meddiannau ynddi. Yr oedd gwaedd anwiredd wedi dyrchafu hyd y nefoedd, ond troes y plâ mawr, a'r tân mawr a dorodd allan yn fuan ar ei ol, floedd eu gloddest yn waedd dychryn ac wylofain. Ffodd y brenin annuwiol Charles II., a phendefigion a phendefigesau ei lŷs halogedig, i Rydychain rhag y plâ. Galwodd y Senedd i ymgynull yno, ac aethant ati yno, i lunio deddfau anwir a chreulon i orthrymu y puritaniaid yn fwy nac o'r blaen.

Yr ydym yn cael dynoliaeth, yn ei hanes yn y byd, ac yn yr eglwys hefyd, megis yn adgynyrchu, yn *repeatio* ei hun, y naill oes ol ar y llall. "Megis mewn dwfr, y mae wyneb yn ateb i wyneb, felly y mae calon dyn i ddyn." (Diar. xxvii. 9.) Felly y gwelir wyneb a chalon dynoliaeth gyffredinol yn adlewyrchu yr un wedd â delweddau ar wyneb dyfroedd ei hanes yn mhob cenedl, cenhedlaeth, ac oes. "Y peth a fu a fydd; a'r peth a wnaed a wneir; ac nid oes dim newydd dan yr haul. A oes dim y gellir dywedyd am dano, Edrych ar hwn, dyma beth newydd? efe a fu eisoes yn yr hên amser o'n blaen ni." (Preg. i. 9, 10.) Yr un yw hi o hyd yn ei delweddau allanol, meddyliol, a moesol.

Felly Eglwys Dduw hithau, dan bob goruchwyliaethau, yn mhob cenhedlaeth ac oes. Yma, lle y mae gwaith y greadigaeth newydd yn cael ei ddwyn yn mlaen; y creadur newydd yn Nghrist Iesu yn cael ei ffurfio;—Beth a welir "yn y Sulamees" hon? yr hyn a welwyd bob amser o'r blaen, "Megis tyrfa dau lu." (Can. vi. 13.) "Y cnawd yn chwenychu yn erbyn yr yspryd, a'r yspryd yn erbyn y cnawd." (Gal. iii. 17.) "Deddf yn yr aelodau yn gwrthryfela yn erbyn deddf y meddwl." (Rhuf. vii. 21.) "Gwreiddiau chwerwon yn tyfu i fyny, ac yn peri blinder, a thrwy hyny llygru llawer." (Heb. xii. 15.) Dynion anhywaith a drygionus, yn peri cynhenau ac ymrysonau ynddi —"Canaaneaid yn nhŷ Arglwydd y lluoedd," yn ddrain yn ei hystlysau; Diotrephesiaid anesmwyth yn ei phoeni oddi fewn, ac olynwyr Demetrius, y gôf arian, ac Alexander, y gôf copr, oddi allan, yn gwneyd iddi "ddrygau lawer." Tymhorau o lwyddiant, a chynydd, a llawenydd; a thymhorau o ddirywiad, marweidd-dra, ac iselder, yn olynu eu gilydd yn barhaus; dyna sylwedd ei hanes o'r dechreuad hyd yn awr. Yn un o'r tymhorau mwyaf cymylog a dirywiedig ar gyflwr achos ac eglwys Dduw yn Judea y buasent ynddo erioed, y gweddïodd Habacuc y weddi yn y testyn; ac ar ol hanes a helynt rhyfedd y weddi hono y cynygiaf fyned y tro nesaf; a hanes hynod yw ei hanes hi hefyd; hi a ysgydwodd megis y nefoedd a'r ddaear; parodd i Babilon fawr sefyll a synu, ac i'r holl genhedloedd oddiamgylch arswydo, pan oedd Duw yn ateb y weddi hono, fel y rhagfynegasai y proffwyd, gan ddywedyd, "Y cenhedloedd a welant, ac a gywilyddiant, gan eu holl gryfder hwynt; rhoddant eu llaw ar eu genau, eu clustiau a fyddarant. Llyfant y llwch fel sarff; fel pryfed y ddaear a symudant o'u llochesau; arswydant rhag yr Arglwydd ein Duw ni, ac o'th achos di yr ofnant." (Mic. vii. 16, 17.)

# PREGETH XVIII.

## GWAITH DUW.

"Clywais, O Arglwydd, dy air, ac ofnais: O Arglwydd, bywha dy waith yn nghanol y blynyddoedd, par wybod yn nghanol y blynyddoedd; yn dy lid cofia drugaredd."—*Habacuc* iii. 2.

Dyna y ddeddf wedi myned allan, ac ar esgor. Nid oes arbediad nac oediad i fod bellach; proffwydi Duw wedi cael eu gwahardd gan Dduw i weddïo dros Juda a Jerusalem am estyniad ar eu heddwch nac oediad ar eu cosp (Jer. vii. 16), ac nid yw Habacuc yma yn cynyg gwneyd hyny. Yr oedd pob moddion, pob gweinidogaeth, wedi troi yn aneffeithiol i'w dychwelyd a'u diwygio; ac y maent wedi eu rhoddi i fyny gan eu Duw i ddwylaw Nebuchodonosor i'w caethgludo i Babilon am ddeng mlynedd a thrigain. "Y rhandir dirion," gwlad yr addewid, i gael ei gwneyd yn ddiffaethwch, i ddwyn drain a mïeri, a Jerusalem, dinas y Brenin mawr, i gael ei gwneyd yn garnedd; a thŷ Jehofa i gael ei losgi â thân; dyna y ddeddf ddialw yn ol bellach, sydd wedi myned allan, fel na thyciasai gweddi nac eiriolaeth un proffwyd, na'r holl broffwydi gyda'u gilydd mwyach, er atal y ddeddf hono rhag esgor ar ei chyflawniad; ac yn yr olwg ar hyny yr oedd y proffwyd yma yn ofni, ac yn crynu yn ei le, fel y dywed. Yn ei ofn

try y proffwyd at Dduw mewn gweddi; ond nid am i'r Arglwydd dynu y ddeddf yn ol, neu oedi ei chyflawniad am ryw dymhor yn mhellach. Gwyddai fod y tymhor i weddïo am y pethau hyny wedi myned heibio; ond gweddïa am i'r Arglwydd ofalu am gadw a diogelu bywyd ei waith er mwyn gogoniant ei enw mawr ei Hun, yn ystod blynyddau meithion a thywyllion caethiwed ei bobl yn Babilon.

Gallem gymeryd geiriau y proffwyd yn y testyn fel drych i ddangos dechreuad, cynydd, a pherffeithiad crefydd, neu waith Duw yn yr enaid. "Clywais, O Arglwydd, dy *air;*" dyna y moddion. "Ffydd sydd trwy glywed, a chlywed trwy air Duw"—y gair dadguddiedig. Nid oes dim arall a gynyrcha ffydd efengylaidd yn yr enaid ond gair yr efengyl ei hun; pe clywai y dyn bob peth arall sydd i'w glywed yn y nefoedd a'r ddaear, ni allai hyny gynyrchu y ffydd hon ynddo; trwy y gair hwn yr ail-enir ef; hwn "sydd yn goleuo y llygaid," ac yn "troi yr enaid;" a thrwy hwn y dygir y gwaith da ar gynydd ynddo, ac y sancteiddir ef. "*Ac ofnais;*" dyna'r arwydd gyntaf o ddechreuad y gwaith da trwy y gair yn yr enaid. "Crynu wrth y gair;" pan y mae yr enaid yn dechreu crynu wrth y gair, y mae y gair yn dechreu gèni ynddo. Y mae miloedd yn gwrando y gair am flynyddoedd, oes, heb grynu erioed. Am, fel y dywed yr Athraw mawr ei Hun am ei wrandawyr ef, nad yw y gair yn gèni ynddynt. Am yr effaith hwn ar y gair a anfonodd efe, y mae yr Hwn sydd yn preswylio y goruchelder a'r cysegr yn edrych—"Ond ar hwn yr edrychaf, sef ar y truan a'r cystuddiedig o yspryd, ac sydd yn crynu wrth fy ngair i." (Es. lxvi. 2.) Ar hwn, pwy bynag fyddo, a pha le bynag y bo yn trigo, ar hwn, ac nid ar neb arall, y bydd golwg yr "Hwn a breswylia dragwyddoldeb," i fywhau yr yspryd isel a'r galon gystuddiedig.

Y peth nesaf yw troi at a chwympo ger bron Duw mewn

gweddi, fel y cawn y proffwyd yn ei ofn yma—gwrando, clywed y gair; crynu *wrth* y gair, a dychwelyd at yr Hwn a lefarodd y gair, a dyna y gair gyda golwg ar yr enaid hwnw, wedi cyrhaedd ei nôd a'i amcan. Felly Saul o Tarsis, wedi clywed y gair ar y ffordd i Damascus, "yntau dan grynu ac â braw arno," ydyw'r agwedd welir arno mewn canlyniad; a'r peth nesaf a ddywedir am dano ydyw—"Wele, y mae efe yn gweddïo" (Act. ix. 6 a 11); ac yn olaf, fel y gwelir yma, y gweddïo yn terfynu mewn cân o foliant.

Ond nid pechadur yn ofni ac yn crynu wrth y gair dan argyhoeddiad o'i gyflwr euog ger bron Duw sydd yma, ond proffwyd, un o ddynion sanctaidd Duw. Sylwn yn

I. Natur yr ofn hwn.

II. Gweddi y proffwyd yn ei ofn.

*Yr hyn a barai yr ofn.* Clywai y proffwyd, yn y weledigaeth, fod yr Arglwydd, fel yr awgrymwyd eisoes, yn myned i fwrw Juda a Jerusalem megis ymaith o'i olwg. Ar yr un amser, yr oedd Jeremia yntau yn cwyno yn chwerwder ei enaid, gan ddywedyd, "Gan wrthod a wrthodaist ti Juda? neu a ffieiddiodd dy enaid di Seion? pa ham y tarewaist ni, ac nad oes i ni feddyginiaeth?" (Jer. xiv. 19.) Ofni mae y proffwyd wrth weled fod yr Arglwydd yn rhoi ei bobl yn nwylaw eu gelynion i'w dwyn yn gaethion i Babilon; Jerusalem, eu dinas, a thŷ eu gogoniant a'u harddwch, lle y molianai eu tadau eu Duw, i gael eu llosgi megis â thân ei soriant cyfiawn Ef, o achos eu pechodau; ofnai y proffwyd y llwyr ddarfyddai am waith ac achos Duw oddi ar y ddaear, fel na byddai gan Jehofa bobl y gelwid ei enw Ef arnynt yn y byd mwy. Yr oedd y meddwl fod y Duw mawr yn myned i adael y ddaear, rhoddi gwaith ei ras heibio, cau swyddfa ei drugaredd (y deml), a gadael ei bobl a'r byd iddynt eu hunain, gyda'u heilunod a'u llygredig-

aethau, yn peri iddo ofni a chrynu, fel y daeth "pydredd i'w esgyrn," medd ef. Gwelai fod crefydd wedi myned yn ddirywedig ac isel iawn yn mysg ei bobl, tra yr oeddynt, hyd hyny, yn mwynhau pob rhyddid a rhagorfreintiau crefyddol yn eu gwlad eu hun, lle yr oedd ganddynt eu teml, a'u hallor, a'u hoffeiriaid, a chyfraith yr Arglwydd yn eu dwylaw, a phroffwydi Duw i'w dysgu a'u rhybuddio; ond er yr holl ragorfreintiau hyn, yr oedd holl gyfansoddiad moesol y wladwriaeth wedi myned yn bwdr drwyddo; ychydig o ffyddloniaid oedd i'w cael yn y tir, a rheini wedi myned yn nychlyd a gwywedig yn eu heneidiau. Yr olwg yna ar bethau a barai i'r proffwyd ofni, mai y canlyniad o'r caethgludiad i Babilon fyddai marwolaeth gwaith Duw—darfodedigaeth derfynol ar wir grefydd.

II. *Ei weddi.* "O Arglwydd, bywha dy waith," &c. Cynwysa y weddi ddau ddeisyfiad; un penodol, "*Bywha dy waith;*" ac un anmhenodol, "*Pâr wybod yn nghanol y blynyddoedd.*"

"*Bywha dy waith,*" neu *cadw* dy waith yn fyw yn ystod blynyddoedd meithion caethiwed dy bobl yn Babilon. Y mae yn wan eisoes, ac fel yn barod i farw. Y mae dirywiadau a llygredigaethau dy bobl, tra y maent gartref, yn nghanol eu manteision, yn mron wedi ei ladd ef; beth a ddaw o hono yn Babilon, wedi iddynt golli y rhagorfreintiau hyny, ac yn nghanol gelynion dy enw mawr? eilunod ac eilunaddolwyr, a phob llygredigaeth ac halogrwydd fel afonydd yn ysgubo ymaith o'u blaen bob daioni a rhinwedd; O Arglwydd, cadw dy waith yn fyw; cadw ef yn fyw, onide fe fydd marw yn fuan iawn; cadw ef yn fyw, y mae gelynion cryfion lawer yn awyddus i'w ladd; cadw ef yn fyw, nid oes neb arall a all wneyd hyn; cadw ef yn fyw, dy waith di ydyw; Tydi a roddaist fodoliaeth iddo a bywyd ynddo ar y cyntaf, a Thydi yn unig a all ddiogelu a phar-

hau y bywyd hwn rhag marw a darfod am dano. Cadw dy waith yn fyw, y mae gogoniant dy enw mawr yn glymedig wrth ei fywyd ef. O! na âd iddo farw yn Babilon, na chaed addolwyr Bel a Nebo orfoleddu ar ei fedd ef yno.

Eto; "*Pâr wybod*," ar ol hwn y mae fy mryd ar fyned o hyn allan, gyda chrybwyll wrth gychwyn, nad oes odid weddi yn yr ysgrythyr a gafodd gynifer o atebion hynod iddi â'r weddi hon, fel y gwelir yn yr hanes am "*y blynyddoedd*" hyny yn Babilon, a gawn yn llyfr Daniel. Ac hefyd, nad oes un weddi mwy priodol i eglwys Dduw i'w thaer weddïo yn y *blynyddoedd* hyn na hi, "*Bywha dy waith*"—"*Pâr wybod.*" Y mae'r nefoedd yn ei hadnabod yn dda, ac yn barod ac awyddus i'w gwrando a'i hateb eto, pan gyflwynir hi yn yr yspryd a'r teimlad yr oedd Habacuc yn ei gweddïo. Dyna ferch Seion yn Babilon, yn eistedd yn y llwch, a phridd ar ei phen, a'i chalon yn drom, a'i hucheneidiau yn aml; a merch Babilon yn ei gwaradwyddo, gan ddywedyd wrthi bob dydd, "Pa le y mae dy Dduw? Dy Dduw yr ymffrostid gymaint ynddo bob amser, fel un uwchlaw ac yn rhagori ar bob duw arall? Ti a weli yn awr fod Bel a Nebo, ein duwiau ni, wedi ei orchfygu, anrheithio ei ddinas, llosgi ei deml Ef, a'th roddi dithau yn ein dwylaw ni." A merch Seion yn galaru yn y llwch, gan ddywedyd, "Yr Arglwydd a'm gwrthododd, a'm Harglwydd a'm hanghofiodd, cuddiwyd fy ffordd oddiwrth yr Arglwydd, a'm barn a aeth heibio i'm Duw." Y mae yn amser erbyn hyn i ateb gweddi y testyn, a pheri gwybod rhywbeth i ferch Seion, ac i ferch Babilon hefyd, nad ydynt yn ei wybod yn awr; a pha fodd y gwneir hyny? Tua phen dwy flynedd wedi llosgiad Jerusalem a'r deml, a chaethgludiad Juda i Babilon, pan oedd y Babilon hono yn prysur ymddyrchafu i uwchder ei mawredd a'i hawdurdod ei balchder, a'i thrawsder, a'i thraha, daeth yr adeg gyntaf i

"beri gwybod" iddi rywbeth na wyddai hi mo hono cyn hyny. A'r modd y gwneir hyny fydd peri i freuddwyd rhyfedd godi yn mhen y brenin Nebuchodonosor ryw noson, a'i gymeryd ymaith o'i ben cyn y bore, fel nad oedd dim o hono ar gael ond yr argraff ddofn a adawsai ar feddwl y brenin, yr hyn a'i gwnelai yn flin ac anesmwyth iawn am gaffaeliad y breuddwyd a'i ddeongliad; nid oedd dim arall allesid ei gynyg iddo a wnai y tro iddo ef; na, y breuddwyd a'i ddeongliad a fynai ef. Galwodd ato holl ddoethion Babilon a Chaldea, yn ddewiniaid, swynwyr, brudwyr, a hudolion, yn dyrfa fawr. Gwaith y rhai, yn ol eu proffes, oedd datod cylymau tynion, dwyn pethau cuddiedig allan i oleuni, ac egluro dirgeledigaethau dyfnion a dyrus. Dyma'r dydd mwyaf difrifol a welsai y gwŷr hyny yn eu hoes; cânt hwythau hefyd wybod rhywbeth yn awr nas gwyddent cyn hyn. Dyma'r adeg i gyfarch Nebuchodonosor a'i Fabilon fawr, yn ngeiriau Esaia, gan ddywedyd, "Saf yn awr gyda'th swynion, a chydag amlder dy hudoliaethau yn y rhai yr ymflinaist o'th ieuenctyd; i edrych a elli wneuthur lles, i edrych a fyddi grymus. Safed yn awr astronomyddion y nefoedd, y rhai a dremiant ar y sêr, y rhai a hyspysant am y misoedd, ac achubant di oddiwrth y pethau a ddeuant arnat. Wele, hwy a fyddant fel sofl; y tân a'u llysg hwynt; ni waredant eu heinioes o feddiant y fflam: ni bydd marworyn i ymdwymno, na thân i eistedd ar ei gyfer." (Es. xlvii. 12–14.) Ië, dyma'r adeg i ddiddymu arwyddion y rhai celwyddog, i ynfydu dewiniaid, i droi y doethion yn eu hol, ac i wneuthur eu gwybodaeth yn ynfyd." (Pen. xliv. 28.) Dywedodd y brenin wrth ei ddoethion "Breuddwydiais freuddwyd, a thrallodwyd fy yspryd am wybod y breuddwyd." (Dan. ii. 3.) Darllenwch yr hanes, a chewch weled fel y tröwyd y doethion yn eu hol, ac ynfydwyd y dewiniaid. Gorfu iddynt gyfaddef na allent fynegi ei

freuddwyd a gollasai i'r brenin, ond y dangosent ei ddeongliad os mynegai efe ei freuddwyd iddynt. Digiodd a chreulonodd y brenin yn ddirfawr wrth hyny, "Oni fynegwch y breuddwyd i mi a'i ddeongliad, gwneir chwi yn ddrylliau, a'ch tai yn domenau," &c. Dyna y gyfraith, a gorchymyn i'r pen distain ei chario allan i'r llythyren. Lle yr oedd gair y brenin, yr oedd gallu i gyflawni y gair, nid oedd gwiw i neb ddadleu nac eiriol o'u plaid, hyd nes y daeth Daniel yn mlaen, ac yr addewai fynegi ei freuddwyd a'i ddeongliad i'r brenin. Ni welwyd gwrandawr mwy astud erioed na Nebuchodonosor tra yr oedd Daniel yn dadguddio ei freuddwyd a'i ddeongliad iddo; ymnewidiai gwedd ei wyneb, gan wrido a gwelwi bob yn ail, fel y gwelai ei freuddwyd megis yn codi yn fyw o'i flaen, fel yr oedd Daniel yn ei adrodd iddo, ac yn dangos ei ddeongliad; a breuddwyd am byth oedd y breuddwyd hwnw am y ddelw fawr, fel y dywed Daniel am dano, "Hysbysodd y Duw mawr i'r brenin beth a fydd wedi hyn; felly y breuddwyd sydd wir, a'i ddeongliad yn ffyddlawn." (Dan. ii. 45.) Ond beth eto? dyma'r effaith! "Yna y syrthiodd Nebuchodonosor y brenin ar ei wyneb, ac a addolodd Ddaniel: gorchymynodd hefyd am offrymu iddo offrwm ac arogldarth. (O druan!) Atebodd y brenin a dywedodd wrth Ddaniel, Mewn gwirionedd y *gwn:*" dyna hi, hên weddi Habacuc yn cael ei hateb a'i chyflawni, "*Pâr wybod,*" meddai gweddi y proffwyd; "Mewn gwirionedd y *gwn,*" medd y Pagan frenin, "y gwn mai eich Duw chwi yw Duw y duwiau, ac Arglwydd y breninoedd, a dadguddydd dirgeledigaethau, o herwydd medru o honot ddadguddio y dirgelwch hwn." (Dan. ii. 45, 46.) Dyna beri gwybod i bwrpas, peri gwybod i gaethion Seion, oeddynt megis yn mro tywyllwch a chysgod angeu yn nhir y gelyn, nad oedd eu Duw ddim wedi eu llwyr adael a'u hanghofio. Yr oedd hyn megis bywyd o farw iddynt, yn

fywhad i'w ffydd a'u gobaith yn eu Duw, pan oeddynt ar lewygu a threngu yn eu heneidiau; a pheri gwybod i'r brenin balch, uchelfrydig, a ddygasai Seion i gaethiwed, "Mai ei Duw hi oedd Duw y duwiau, ac ARGLWYDD y breninoedd," nes peri iddo syrthio ar ei wyneb ar y ddaear a chyffesu hyny. Dyna'r *edition* cyntaf yn Babilon o gyflawniad gweddi Habacuc yn y testyn; a mawr fu y darllen arno, a'r synu uwch ei ben yn y ddinas hono, tröwyd galar caethion Seion yn ganu, a'u tristwch yn orfoledd. Lleyrchodd eu Duw arnynt, a bywhaodd ei waith ynddynt, pan oeddynt yn rhodio yn y fagddu, fel y dywedent.

Ond nid yn hir y bu Nebuchodonosor a Babilon heb anghofio y cwbl a dychwelyd i'w hên ffyrdd a'u harferion fel o'r blaen, ac ymfalchïo ac ymgaledu yn fwy nac erioed; ac i gaethion Israel hwythau lwfrhau ac ymollwng yn eu heneidiau drachefn. Yr oedd gweddi Habacuc eto yn sibrwd o hyd yn nghlustiau y nefoedd, "*Pâr wybod, pâr wybod.*" A'r achlysur nesaf i "beri gwybod" iddynt oedd i'r brenin gymeryd yn ei ben i wneyd duw newydd, duw o aur; nid rhyw lo bach o dduw, fel yr un a wnaethai Aaron, ac a wnaeth Jeroboam, mab Nebat, wedi hyny, ond cawr anferth o dduw, yn driugain cyfudd ei uchder, a chwechyfudd o lêd, gan daled â dêg Goliath yn sefyll y naill ar ysgwydd y llall; ni wnaethid duw tebyg iddo ar y ddaear erioed o'r blaen. Penodid diwrnod arbenig yn ddydd gwyl cysegriad y duw mawr newydd hwn, a gwysid tywysogion a phendefigion o holl daleithiau ymerodraeth Babilon, pell ac agos; Yna y tywysogion, y dugiaid, a phendefigion, rhaglawiaid, y trysorwyr, y cyfreithwyr, y trethwyr, a holl lywodraethwyr y taleithiau a ymgasglasant yn nghyd wrth gysegru y ddelw a gyfodasai Nebuchodonosor. Yna darllenid *programme* gwasanaeth y dydd yn nghlywedigaeth y dyrfa ddirfawr o addolwyr urddasol o wahanol genhedloedd ac

ieithoedd a safai ar wastadedd Dura, a dyna ydoedd, "Pan glywoch sŵn y cornet, y chwibanogl, y delyn, y dulsimer, y psaltring, y sýmphon, a phob rhyw gerdd, y syrthiwch ac yr addolwch y ddelw aur a gyfododd Nebuchodonosor y brenin. A'r hwn ni syrthio ac ni addolo, yr awr hono a fwrir i ganol ffwrn o dân poeth." (Dan. iii. 3, 6.) Dyna y gerddoriaeth yn tori allan, a'r dyrfa fawr lonaid gwastadedd Dura yn gelanedd ar ei hwyneb yn addoli wrth draed y duw newydd. Yr oedd yno rai yn y dyrfa, fel y mae i'w cael yn mhob tyrfa, oeddynt yn awyddus iawn am weled rhyw rai yn sefyll ar eu traed, pan oedd y dyrfa ar ei hwyneb ar lawr yn addoli, fel y gallent redeg i achwyn arnynt wrth y brenin; codai y rhai hyny wrth eu penelinoedd, ac edrychent yn awyddus a oedd neb ar eu traed, ac er eu llawenydd, hwy a welent dri o ŵyr yn sefyll i fyny yn sythion yn nghanol y dyrfa, a chan gynted y gallent godi ar eu traed, rhedasant i achwyn wrth y brenin. Yr oedd ef o'r neilldu, gallem feddwl, yn derbyn adroddion a ddygid iddo gan genadau am yr amgylchiadau. A phwy oedd y tri a safent felly ar eu traed, ond Shadrach, Mesach, ac Abednego, o feibion caethglud Juda, a osodai y brenin ar oruchwyliaeth talaeth Babilon, y rhai a ddylasent, gan hyny, dybiai ef, fod y rhai blaenaf o bawb i syrthio ac addoli ei ddelw, o herwydd eu bod dan fwyaf o rwymau iddo o bawb. Archai eu dwyn ger ei fron; ac wedi cael eu bod yn euog, ac iddo eu dwrdio mewn digter llidiog, addawodd edrych dros y tro hwnw, os ufuddhaent y tro nesaf; safai y tri eto ger bron y brenin yn anhyblyg, fel y safasent ger bron ei ddelw aur. Gorchymynodd boethi y ffwrn yn saith poethach nac yr arferid, a'u rhwymo hwythau yn eu peisiau a'u llodrau fel yr oeddynt, a'u bwrw i ganol yr eirias ofnadwy, i'w llosgi yn boeth offrwm i'r ddelw aur a gyfodasai. "A pha Dduw yw efe a'ch gwared chwi o'm dwylaw i?" Shadrach, Mesach, ac

Abednego a atebasant ac a ddywedasant wrth y brenin Nebuchodonosor, "Nid ydym ni yn gofalu am ateb i ti yn y peth hyn, Wele, y mae ein Duw ni, yr hwn yr ydym ni yn ei addoli, yn abl i'n gwared ni allan o'r ffwrn danllyd boeth; ac Efe a'n gwared ni o'th law di, O frenin. Ac onide, bydded hysbys i ti, frenin, na addolwn dy dduwiau, ac nad ymgrymwn i'th ddelw aur a gyfodaist." (Adn. 16–18.) Yr oedd hyn yn annioddefol i ŵr fel efe; cochai ei wedd gan lidiowgrwydd wrth weled y tri llanc yn sefyll yn ddigyffro o'i flaen, fel yn herio ei waethaf ef a Bel a Nebo, a'i ddelw aur; gorchymynodd i wŷr cryfion yn ei lu eu rhwymo a'u bwrw i'r ffwrn, ac yntau yn edrych arnynt, a chynddaredd ei lid yn llosgi o'i fewn yn fwy angerddol na thân y ffwrn. Ond, wele! y mae y tri yn codi ar eu traed, ac yn rhodio yn hamddenol yn nghanol yr eirias, a rhywun arall gyda hwynt, a'r "Angel a welsai Moses yn y berth, yn llosgi gan dân yn Horeb, a'r berth heb ei difa" oedd hwnw. Yna synodd ar Nebuchodonosor y brenin, ac y cyfododd ar frys, atebodd hefyd, a dywedodd wrth ei gynghoriaid, "Onid tri o wŷr a fwriasom ni i ganol y tân yn rhwym? Gwir yw, O frenin, atebent. Atebodd a dywedodd yntau, Wele, fi yn gweled pedwar gwŷr rhyddion yn rhodio yn nghanol y tân, a dull y pedwerydd sydd yn debyg i Fab Duw!" (Dan. iii. 24, 25.) Wedi hyny, y mae yn nesau at enau y ffwrn, ac yn galw arnynt, "O, Shadrach, Mesach, ac Abednego, gwasanaethwyr y Duw Goruchaf, deuwch allan, a deuwch yma." (Dan. iii. 26.) Ac wedi eu dyfod allan, dyna lle yr oedd y tywysogion, dugaid, a phendefigion, a chynghoriaid y brenin, yn eu chwilio ac yn eu sawrio, "ac ni finiasai y tân ar eu cyrff, ac ni ddeifiasai flewyn o'u pen, ni newidiasai eu peisiau chwaith, ac nid aethai sawyr y tân arnynt." (Dan. iii. 27.) Atebodd Nebuchodonosor, a dywedodd, ond pa beth a ddywedodd ef

yn awr? Efe a ddywedodd fel hyn, "Bendigedig yw Duw Shadrach, Mesach, ac Abednego, yr hwn a anfonodd ei angel, ac a waredodd ei weision a ymddiriedasant ynddo, ac a dorsant orchymyn y brenin, ac a roddasant eu cyrff rhag gwasanaethu nac ymgrymu y honynt i un duw ond eu Duw eu hun." (Dan. iii. 28.) Da iawn; dyna "*Beri gwybod*" eto; a dyna ddrysu gŵyl cysegriad y ddelw fawr, a'i handwyo hi, fel na bu sôn am dani byth ar ol y diwrnod hwnw. Gadawyd hi iddi ei hun ar wastadedd Dura, a throes ei holl addolwyr a'r brenin ei hun ymaith oddiwrthi hi dan ryfeddu a mawrhau Duw Shadrach, Mesach, ac Abednego, "Nid oes Duw arall a ddichon waredu fel hyn," meddai y brenin; nid oedd sôn am neb arall yn Babilon, o'r llŷs i'r bwthyn, ond am Dduw Shadrach, Mesach, ac Abednego; a dyna oedd holl ymddyddanion y tywysogion, y dugiaid, a'r pendefigion o'r taleithiau pellenig ar y ffyrdd wrth ddychwelyd o'r ŵyl, ac â'u cyfeillion ar ol dychwelyd yn eu hol. Sefydlwyd cymdeithas genadol ar wastadedd Dura y diwrnod hwnw, ac anfonwyd cenadau i bregethu i luaws o genhedloedd eilunaddolgar y ddaear, nid i bregethu y ddelw fawr a gyfodasai Nebuchodonosor, ni soniodd neb air am hono byth, ond i bregethu mawredd Duw Shadrach, Mesach, ac Abednego, fel y gwnaed ei enw mawr Ef, a'i law gadarn, yn hysbys i genhedloedd na chlywsent am dano o'r blaen. Dyna "*Beri gwybod*," dyna "*fywhau* y gwaith," adgyfnerthu ffydd a gobaith yn eneidiau ffyddloniaid y gaethglud. Nid am ddim yr anfonwyd meibion Seion i Babilon, heblaw y lles ysprydol a gawsant hwy eu hunain, nid oes neb a ŵyr faint o les a gafodd y Babilonaid, a llawer o fysg cenhedloedd ereill hefyd oddiwrtho; ac y mae lle i obeithio ddarfod i Nebuchodonosor ei hun gael lles tragwyddol oddiwrtho. Dyna'r ail *edition* o weddi y testyn yn Babilon.

Ond yn mhen deng mlynedd drachefn, yr oedd Nebuchodonosor a'r Babiloniaid wedi gollwng y cwbl dros gôf, i raddau helaeth. Yn ystod y blynyddau hyny tyfodd Babilon i uchder eithaf ei mawredd a'i gogoniant; a Nebuchodonosor yntau i uchder eithaf ei falchder; ac ymddangosai cyflwr Seion yno mor dywyll a thrallodus arno ag erioed. Rhaid "*Peri gwybod*" unwaith eto. Rhaid i Nebuchodonosor freuddwydio eto, a chofio ei freuddwyd y tro hwn. Sicrhâi y doethion a'r dewiniaid pe mynegasai efe ei freuddwyd cyntaf iddynt, y dangosent hwythau ei ddeongliad iddo ef. Yn lle galw am Daniel galwodd am y dewiniaid, fel y cai weled beth a allent wneyd, yr oedd yn bur amheus o honynt; ac erbyn i'r brenin adrodd iddynt ei freuddiwyd, nid oedd un o honynt a allai ateb gair, dim ond ysgwyd eu penau ar eu gilydd. Gyrwyd hwynt o ŵydd y brenin dan eu gwarth, a gelwid Daniel i mewn. Dangosodd ddeongliad ei freuddwyd hwnw hefyd i'r brenin; a chan fod rhan bwysig o'r breuddwyd hwnw yn dal perthynas arbenig â'r breuddwydiwr ei hun, cafodd Daniel fantais oddi wrtho i draddodi pregeth ddifrifol iddo ar gyfiawnder a barn; fel y gwnaeth Paul ar ol hyny o flaen Ffelix y rhaglaw, dywedai fod y breuddwyd yn dangos os na byddai i'r brenin "dori ymaith ei bechodau trwy gyfiawnder," y gyrid ef oddiwrth ddynion i bori gwellt fel eidionau, hyd oni chyfnewidid saith amser arno;" hyny yw, mewn geiriau ereill, yr anfonid ef i Rydychain am saith mlynedd i fyw ar ymborth bustych, a bustych fyddent ei athrawon; a meddai Daniel, "*Hyd oni wypech*," "*Pâr wybod*," eto, "Hyd oni wypech mai y Goruchaf sydd yn llywodraethu yn mhreniniaeth dynion, ac yn ei rhoddi i'r neb a fyno." (Dan. iv. 25.) A thrachefn, "Dy freniniaeth fydd sicr i ti, wedi i ti wybod (pâr wybod), mai y nefoedd sydd yn llywodraethu." (Adn. 26.) Yn mhen deuddeng mis wedi hyny

"daeth hyn oll ar Nebuchodonosor, y brenin" (adn. 28); ond a ddysgodd efe y wers i wybod y gwirionedd mai y nefoedd sydd yn llywodraethu? Do, gwrandewch arno yn ei hadrodd wedi iddo ddychwelyd adref o Rydychain. Fel hyn y llefara, "Ac yn niwedd y dyddiau, myfi, Nebuchodonosor, a ddyrchefais fy llygaid tua'r nefoedd, a'm gwybodaeth a ddychwelodd ataf, a bendithiais y Goruchaf; a molienais a gogoneddais yr Hwn sydd yn byw byth, am fod ei lywodraeth Ef yn llywodraeth dragwyddol, a'i frenin-iaeth hyd genhedlaeth a chenhedlaeth. A holl drigolion y ddaear a gyfrifir megis yn ddiddim; ac yn ol ei ewyllys ei hun y mae yn gwneuthur â llu y nefoedd, ac â thrigolion y ddaear, ac nid oes a atalio ei law, neu a ddywed wrtho, Beth yr wyt yn ei wneuthur? Yn yr amser hwnw y dychwelodd fy synwyr ataf fi, a daethum i ogoniant fy mreniniaeth, fy harddwch a'm hoewder a ddychwelodd ataf fi, a'm cynghoriaid a'm tywysogion a'm ceisiasant, felly y'm sicrhawyd yn fy nheyrnas, a chwanegwyd i mi fawredd rhagorol. Yr awr hon, myfi, Nebuchodonosor, ydwyf yn molianu, ac yn mawrygu, ac yn gogoneddu Brenin y nefoedd, yr hwn y mae ei holl weithredoedd yn wirionedd, a'i lwybrau yn farn, ac a ddichon ddarostwng y rhai a rodiant mewn balchder." (Adn. 34–37.)

Ardderchog! ni allasai Esaia ei hun lefaru dim yn well! Dyna "beri gwybod" i bwrpas iawn. Daeth Nebuchodonosor adref o'i Rydychain yn fil gwell ysgolhaig na llaweroedd a dynwyd trwy ein Rhydychain ni; y doethion dysgedig hyny sydd yn y dyddiau hyn yn gwadu hanfodaeth a llywodraeth y Brenin mawr.

Dyma lle terfyna hanes y dyn rhyfedd hwn yn yr ysgrythyr. Os daliodd ar ei gôf, ac yn ei galon, y wers a ddysgodd ac a adroddodd efe mor rhagorol, fel y gobeithiwn ddarfod iddo wneyd o hyny allan, y mae Nebuchod-

onosor yn mawrygu ac yn molianu Duw yn y nefoedd heddyw. Dyna y trydydd argraffiad.

Ar fachludiad haul bywyd Nebuchodonosor, machludodd dydd mawredd a gogoniant Babilon fawr hefyd. Aeth pum mlynedd-ar-hugain heibio eto heb i ddim neillduol i "beri gwybod" ddigwydd; yr oedd hi yn prysur gyflawni mesur ei hanwiredd, a llenwi cwpan ei gofwy yn y tymor hwnw, a Jerusalem hithau bellach yn sugno "gwaddod y cwpan erchyll a dderbyniasai o law yr Arglwydd." (Es. li. 17.) Y mae ei gwaredwr eneiniedig (Cyrus), yr hwn a alwesid wrth ei enw ddau can mlynedd cyn ei eni, wedi dyfod allan a gwarchae ar Babilon. Y mae hithau, a'i brenin, a'i thywysogion wedi ynfydu yn eu rhusedd a'u hanystyriaeth, yn gwledda ac yn gloddesta, gan ymddiried yn nghadernid ei muriau, a'r pyrth prês, a'r dorau haiarn, a'i hafon fawr, pan y mae ei gelyn wedi troi dyfroedd ei hafon oddiwrthi yn ddiarwybod iddi, tra yr oedd hi yn canu ac yn dawnsio, yn "yfed gwin, ac yn molianu y duwiau o aur ac o arian, o brês, o haiarn, o goed, ac o faen." (Dan. v. 4.) Yn y wledd hono y llanwodd hi gwpan ei hanwiredd hyd ei hymylon, pan alwodd Belsassar, ac y dygwyd llestri teml Duw, fel yr yfai y brenin a'i dywysogion, ei wragedd a'i ordderchadon o honynt. Yr oedd llef gweddi y testyn, "*Pair wybod*," yn swnio yn uwch yn y nefoedd yn awr nac erioed, a dyna y *darn llaw* rhyfedd hwnw yn ysgrifenu rhywbeth ar galchiad y pared ar gyfer y canwyllbren, i beri gwybod rhywbeth ofnadwy iawn. "Tröwyd doethion Babilon yn eu hol, ac ynfydwyd eu dewiniaid" unwaith eto; methasant ddarllen yr ysgrifen ar galchiad y pared, fel y methasent o'r blaen ddadguddio a deongli breuddwydion Nebuchodonosor. Cyrchwyd Daniel i'r llŷs eto, yr hwn a ddarllenodd yr ysgrifen ar y pared, ac a ddangosodd ei hystyr. "Ar noson hono y lladdwyd Bel-

sassar, brenin y Caldeaid. A Darïus y Mediad a gymerodd y freniniaeth, ac efe yn ddwy flwydd a thri ugain oed." (Dan. v. 30, 31.) Dyna Babilon fawr wedi syrthio na chyfodai hi byth wedi hyn. Beth oedd raid fod y llawenydd dwfn, ond distaw, a brofai caethion Seion ar yr achlysur hwnw, wedi i'w Duw "beri gwybod"—peri adnabod ei fawredd a'i ogoniant yn achos llestri ei deml, a gwisgo duwiau, a doethion, a dewiniaid Babilon â gwarth ac â gwaradwydd? felly yn nghwymp a marwolaeth Babilon, cafodd gwaith Duw yn eneidiau ei bobl ei fywhau a'i gadarnhau yn fawr unwaith drachefn; a dyna y pedwerydd argraffiad o'r weddi yn y testyn.

Unwaith eto. Tua blwyddyn wedi y pethau hyn, pan oedd Darïus y Mediad wedi dyrchafu Daniel, drwy ei osod yn brif weinidog ei lywodraeth, ac yn benaeth ei dywysogion, yr hyn a barai iddynt genfigenu wrtho, a chynllwyn am ei fywyd; ond methent gael un achlysur yn ei erbyn ef, "o ran y freniniaeth, o herwydd ffyddlawn oedd efe, fel na chaed ynddo nac amryfusedd na bai." (Dan. vi. 4.) O herwydd hyny, aethant at y brenin diniwed druan, a dywedasant, "Holl raglawiaid y deyrnas, y swyddogion, y tywysogion, y cynghoriaid, a'r dugiaid, a ymgynghorasant am osod deddf freninol, a chadarnhau gorchymyn, fod bwrw i ffau y llewod pwy bynag a archai arch gan un Duw na dyn dros ddeng niwrnod-ar-hugain, ond genyt ti, O frenin." (Adn. 7.) Collasent eu hymddiried yn y tân, wedi i'r methiant yn achos Shadrach, Mesach, ac Abednego, a gobeithient nad oedd gan Dduw y caethion yr un awdurdod ar y llewod ag oedd ganddo ar y tân; nad oedd Duw y ffwrn ddim yn Dduw y ffau hefyd. Pasiwyd a seliwyd y ddeddf; troseddodd Daniel. Do, a mynodd ei elynion, o anfodd calon y brenin, ei fwrw ef i ffau y llewod, a chau arno; a'r boreu dranoeth daeth y brenin yn drist iawn at y ffau, a

galwai mewn llais wylofus, "Daniel, gwasanaethwr y Duw byw, a all dy Dduw di, yr Hwn yr wyt yn ei wasanaethu yn wastad, dy gadw di rhag y llewod?" (Adn. 20.) Atebai Daniel mewn llais lloniach, "O frenin, bydd byw byth. Fy Nuw a anfonodd ei angel, ac a gauodd safnau y llewod, fel na wnaethant i mi niwed," &c. (Adn. 23.) Mawr oedd llawenydd y brenin, a mawr oedd syndod a dychryn bradwyr Daniel, a mawr oedd y wledd a gafodd y llewod wrth eu dryllio a'u bwyta hwy, pan eu bwriwyd i'w ffau wrth orchymyn y brenin, ar ol codi Daniel allan o honi yn iach a dianaf. Beth wedi hyn? "Yna yr ysgrifenodd y brenin Darius at y bobloedd, at y cenhedloedd a'r ieithoedd oll y rhai oedd yn trigo yn yr holl ddaear, Heddwch a amlhaer i chwi. Genyf fi y gosodwyd cyfraith, ar fod trwy holl lywodraeth fy nheyrnas, i bawb grynu ac ofni rhag Duw Daniel: o herwydd Efe sydd Dduw byw, ac yn parhau byth; a'i freniniaeth Ef yw yr hon ni ddifethir, a'i lywodraeth fydd hyd y diwedd. Y mae yn gwaredu ac yn achub, ac yn gwneuthur arwyddion a rhyfeddodau yn y nefoedd ac ar y ddaear; yr Hwn a waredodd Ddaniel o feddiant y llewod." (Adn. 25–27.) Dyna "*beri gwybod*" i'r holl bobloedd, y cenhedloedd, a'r ieithoedd, trwy yr holl fyd adnabyddus. Dadgan mawredd gogoniant a chlôd Duw Israel hyd eithaf y ddaear. Dyna fywhau y gwaith ar derfyn olaf "y blynyddoedd"—blynyddoedd y caethiwed yn Babilon. Yr oedd y blynyddoedd hyny yn un o'r cyfnodau hynotaf erioed yn hanes gwaith ac eglwys Dduw yn y byd, ac yn hanes y byd hefyd, ond, rywfodd, ni chafodd erioed hyd yma y cyfryw sylw yn llenyddiaeth yr eglwys a'r byd ag y mae yn ei deilyngu, hyd yr wyf fi yn gwybod.

Dyna y pumed argraffiad, a'r nesaf fydd yr olaf. Daeth y deng mlynedd a thriugain i ben, ddwy flynedd wedi'r amgylchiadau a goffawyd. Yn y flwyddyn gyntaf o deyrnas-

iad Cyrus, daeth cyhoeddiad rhydd-did i gaethion Seion i ddychwelyd adref i'w gwlad i ail-adeiladu eu dinas Jerusalem a'r deml, ac y maent yn cychwyn allan yn "dorf gariadus" o gaethiwed Babel fawr, wedi meddwi gan lawenydd a gorfoledd, fel na wyddent ddim pa un ai cysgu a breuddwydio yr oeddynt, ynte a oedd y peth yn ffaith eu bod yn rhyddion ac ar y ffordd i Seion mewn gwirionedd. Torasant allan i ganu ar y ffordd hên benill a ragwnaethai Micha, y proffwyd, ddau can mlynedd cyn hyny, i fod yn barod erbyn y deuai yr amgylchiad, "Pa Dduw fel Tydi, yn maddeu anwiredd," &c. Treiddiodd sain eu canu trwy yr holl ororau oddi amgylch. Clywodd a gwelodd y cenhedloedd o amgylch, synent ac ofnent, a dywedent, "Yr Arglwydd a wnaeth bethau mawrion i'r rhai hyn." "Do," atebent hwythau, "Yr Arglwydd a wnaeth i ni bethau mawrion; am hyny yr ydym yn llawen." Dyna "beri gwybod" eto iddynt hwy, ac i'r holl genhedloedd o'u hamgylch, a'r peri gwybod y chweched tro, a'r tro olaf, yn ngweinidogaeth ryfedd blynyddoedd y caethiwed yn Babilon. Nid oeddwn, wrth ddechreu, yn amcanu ymdroi cyhyd ar y ffordd gyda'r amgylchiadau yr ymdriniwyd â hwy; ond un rhyfedd yw yr Hên Lyfr unwaith yr eler i'w afael, gwaith anhawdd yw ymryddhau oddiwrtho yn fuan.

Gweddi berthynol i amgylchiadau y blynyddau hyny—blynyddoedd y caethiwed yn Babilon, yn arbenig felly—yw y weddi yn y testyn; ond y mae hi mor gyfaddas i'w harfer yn y blynyddoedd hyn ag oedd hi yn y blynyddoedd hyny; ac y mae yr Hwn a'i gwrandawodd y pryd hwnw, ac a wnaeth bethau mor fawrion a rhyfedd mewn atebiad iddi yn Babilon, mor barod i'w gwrando a'i hateb y pryd hwn. Pa bryd y daw eglwys Dduw i ymaflyd ynddi o ddifrif, fel na ddistawo, ac na adawo lonydd i'r nefoedd, hyd oni chyfodo a thrugarhau wrth Seion, a'i gwneuthur hi eto yn

foliant ar y ddaear—*bywhau ei waith, a pheri gwybod?* Nid oes dim arall a feddyginiaetha yr eglwys ei hun, ac a ddwg y byd i drefn ond hyn; y mae pob dyfais a moddion dynol wedi methu. "Cyfododd oes arall" i fyny yn Nghymru erbyn hyn, yr hon nid adnabu yr adfywiadau nerthol ar grefydd, a brofodd ac a adnabu ein tadau; oes galed iawn—oes y *concerts* a'r difyrwch; oes y cyfarfodydd llenyddol a'r coeg-feirniadu; oes y *nofelau* a'r rhamantau; oes y newyddiaduron a'r cecru; y mae y pethau hyn ond nithio eu manus a'u gwehilion oddiwrthynt yn burion yn eu lle eu hunain, ond pan y maent yn dyfod yn brif nodweddion yr oes a'r amser, ac yn cymeryd y lle a berthyn i'r Beibl a'r efengyl yn meddyliau cenhedlaeth o bobl, fel y maent yn awr, y mae lle mawr i ofni, y maent yn peri llawer mwy o niwed nac o les. Eto, gyda golwg ar yr eglwysi efengylaidd yn gyffredinol, fel y crybwyllwyd o'r blaen, a dylid ei grybwyll drachefn a thrachefn; blynyddoedd o farweidd-dra a dirywiad mawr mewn crefydd fu blynyddoedd lawer bellach—blynyddoedd na bu "Deheulaw y Goruchaf ddim yn cael ei dadguddio yn amlwg ynddynt." Amser y ceir llawer sydd yn proffesu y gwirionedd yn ei amheu, a lluaws yn troi oddiwrtho, ac yn ei wadu. Meddyliau dynion wedi eu meddianu gan yspryd anfoddog, anesmwyth, ac anhydrin; eisieu rhywbeth newydd yn lle yr hên wirionedd —pethau newyddion, termau newyddion; ni wnai y pethau hyny y tro ychwaith, ond am y foment pan eu cynygir iddynt. Oes y cynenau a'r ymddadleu yn nghylch pethau bychain; y "prif gadeiriau yn y synagogau," a phwy sydd i fod "yn benaf," &c. Nid oes dim a iacha yr eglwys, a'r byd hefyd, oddiwrth yr heintiau hyn, hyd nes y delo yr Hwn a biau y gwaith trwy ei yspryd eto i *fywhau ei waith, ac i beri gwybod;* pan ddelo y gelyn i mewn fel afon, Yspryd yr Arglwydd, ac nid neb na dim arall, a'i hymlid ef ymaith.

"Cyfyd drain a mïeri ar dir fy mobl (medd y proffwyd), ïe, ar bob tŷ llawenydd yn y ddinas hyfryd. Canys y palasau a wrthodir, lluosogrwydd y ddinas a adewir, yr amddiffynfeydd a'r tyrau fyddant yn ogofeydd hyd byth, yn hyfrydwch asynod gwylltion, yn borfa diadellau; Hyd oni thywallter arnom yr Yspryd o'r uchelder, a bod yr anialwch yn ddol-dir, a chyfrif y dol-dir yn goed-tir. Yna y trig barn yn yr anialwch, a chyfiawnder a erys yn y dol-dir. A gwaith cyfiawnder fydd heddwch; ïe, gweithred cyfiawnder fydd llonyddwch, a diogelwch, hyd byth. A'm pobl a drîg mewn preswylfa heddychlawn, ac mewn aneddau diogel, ac mewn gorphwysfaoedd llonydd." (Es. xxxii. 13–18.) "Tywalltiad yr Yspryd o'r uchelder" a wna beth fel hyn; ni allasai Esaia ei hun ei wneyd, na Hesecia, y "Brenin a deyrnasai mewn cyfiawnder, a'i dywysogion a lywodraethent mewn barn," na phroffwydi penaf yr Hên Destament gyda'u gilydd, wneuthur hyn; yr oedd raid cael yr Yspryd o'r uchelder at y gwaith, neu fe arosai pob peth yn anialwch ac anhrefn "hyd byth."

Eto, er hyny, y mae ei hiechydwriaeth hi ei hun, ac iechydwriaeth y byd, wedi ei rhoddi, mewn un golygiad, i ofal yr eglwys; rhoddodd ei Duw yn ei llaw hi allwedd a drefnodd Efe i agor y nefoedd, a thynu yr Yspryd o'r uchelder i lawr. Mewn atebiad i'w gweddi hi y tywalltwyd Ef o'r uchelder ar ddydd y Pentecost; ei gweddi ddyfal hi a dynodd angel o'r nefoedd i ryddhau Petr o'r carchar, ac o ddwylaw Herod, oedd yn ewyllysio ei ladd ef. Gadawyd Paul yn y carchar am ddwy flynedd, am nad oedd yr eglwysi, fel yr oedd yr eglwys gyntaf yn Jerusalem yn achos Petr, yn gweddïo drosto, hyd nes yr aeth Paul ei hun i ddeisyf arnynt i wneyd. "Gweddïwch drosom ni," medd efe, "canys yr ydym yn credu fod genym gydwybod dda, gan ewyllysio byw yn onest yn mhob peth. *Ond yr wyf yn*

*helaethach yn dymuno gwneuthur o honoch hyn, i gael fy rhoddi i chwi drachefn yn gynt.*" (Heb. xiii. 18, 19.) Credai Paul, gan hyny, fod yr allwedd i agor drws ei garchar ef, nid yn llaw Nero, a'r awdurdodau yn Rhufain, ond yn llaw a meddiant yr eglwys. Y mae holl ddysgeidiaeth yr ysgrythyrau yn dangos fod y Brenin mawr wedi trefnu gweddi yr eglwys i fod yn *factor* bwysig iawn yn ngweinyddiad goruchwyliaethau ei ragluniaeth a'i ras. Rhoddodd iddi lawer o addewidion mawr iawn a gwerthfawr, megis o bwrpas i'w hanog hi i ddyfod ato mewn gweddi am y bendithion cynwysedig ynddynt; megis hon, yn un o lawer o'r cyffelyb: "Felly y cenhedloedd, y rhai a weddillir o'ch amgylch, a gânt wybod (dyma *beri gwybod* eto) mai Myfi yr Arglwydd sydd yn adeiladu y lleoedd dinystriol, ac yn planu eich manau anrheithiedig; Myfi, yr Arglwydd, a'i lleferais, ac a'i gwnaf." Ond pa bryd? "Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw (ar y mater yna eto); Ymofynir â Myfi eto gan dŷ Israel i wneuthur hyn iddynt, amlhaf hwynt â dynion fel praidd. Fel y praidd sanctaidd, fel praidd Jerusalem yn ei huchelwyliau, felly y dinasoedd anghyfanedd fyddant lawn o finteioedd o ddynion, fel y *gwypont* (eto) mai Myfi yw yr Arglwydd." (Esec. xxxvi. 16–18.) Dyma'r pryd y cyflawna Efe ei addewidion i'w bobl, pan y delont i ymofyn âg Ef am wneuthur o hono hyn iddynt. Ië, "Ymofyn âg Ef," am wneuthur o hono hyn—ni all neb ond Efe wneuthur hyn. Yr oedd tuedd gref yn ei bobl Israel gynt i fyned at ereill i ymofyn am gymhorth ac ymwared yn eu trallodau, er cael eu siomi yn eu disgwyliadau lawer gwaith; "Pan welodd Ephraim ei lesgedd, a Juda ei archoll, yna aeth Ephraim at yr Assyriad, ac a hebryngodd at frenin Jareb: eto ni allai efe eich meddyginiaethu, na'ch iachau o'ch archoll." (Hos. v. 13.) Felly Juda yntau, i'r Aifft yr ai efe bob amser am *help.* Achwynai yr Arglwydd yn drwm ar ei bobl am hyn

lawer gwaith, a cherydda hwynt yn llym, "Gwae y meibion cyndyn, medd yr ARGLWYDD, a gymerant gyngor, ond nid genyf fi; ac a orchuddiant â gorchudd, ac nid o'm hyspryd i, i chwanegu pechod ar bechod: y rhai sydd yn myned i ddisgyn i'r Aifft (heb ymofyn â mi) i ymnerthu yn nerth Pharao, ac i ymddiried yn nghysgod yr Aifft. Am hyny y bydd nerth Pharao yn gywilydd i chwi, a'r ymddiried yn nghysgod yr Aifft yn waradwydd." (Es. xxx. 1–3.)

Yn awr, a ydyw yr eglwys wedi ymiachau oddiwrth yr haint hwn, y cwynir o'i herwydd ei fod yn nychdod a gwendid yn yr eglwys dan yr Hên Destament gynt? Onid ydym yn y peth hwn yn debyg i hono yn myned i Assyria a'r Aifft am gymhorth ac ymwared, gan esgeuluso myned i ymofyn â Duw, ac ymddiried ynddo Ef yn unig am y pethau hyn? Llawer iawn a glywid yn y blynyddau diweddaf, mai addysg ysgolion oedd eisieu i wneyd iawn drefn ar y byd; a sefydlu ysgolion dyddiol, ar draul a than nawdd y llywodraeth, oedd y peth mawr oedd yn eisieu i wneyd yr holl waith, a gwnaed hyny; ond caed digon o brawf erbyn hyn na all addysg fydol, nac addysg foesol, y ddwy gyda'u gilydd, gyflawni i gyraedd yr amcan. Y mae addysg o'r fath yn werthfawr iawn, y mae yn wir, yn ei le priodol ei hun; a goreu po fwyaf fyddo yn y wlad o hono, ond ni all feddyginiaethu ac iachau y byd o'i archoll, na'r eglwys chwaith. Ffurfiwyd llawer o gymdeithasau a threfniadau, o bryd i bryd, a disgwylid wrth y naill ar ol y llall mai hi fyddai y feddyginiaeth effeithiol i wella y byd; ond yn fethiant y troisant allan. Do, anfonwyd lawer tro i America am *Revivalist* ar ol *Revivalist* i ddyfod trosodd i'r wlad hon i gynyrchu *Revival* yn Lloegr ac yn Scotland, a daethant, un ar ol y llall, a chyhoeddid eu dyfodiad yn y newyddiaduron, ac mewn hysbysleni mawrion ar furiau a pharwydydd tai a themlau y dinasoedd. a'r trefi; offrymid

miloedd ar filoedd o bunau yn y naill dref a'r llall i adeiladu temlau anferth o faintioli, o goed, i aros ond am ryw fis neu ddau; cyrchai dynion iddynt wrth y miloedd, dair a phedair gwaith yn y dydd, am ystod wythnosau yn olynol, a mawr oedd yr effeithiau; rhifid y dychweledigion wrth yr ugeiniau ar ddiwedd pob cyfarfod; a hon oedd y ffordd a'r drefn i wneyd iawn drefn ar yr eglwys a'r byd. Ond elai tymor y *Revival* heibio, a dychwelai pob peth i'w hên le fel o'r blaen; tröai y dychweledigion yn eu hol wrth yr ugeiniau eto yn fuan iawn, yn galetach eu calonau a'u teimladau nac oeddynt o'r blaen. Diau, er hyny, i lawer o ddaioni parhaol gael ei effeithio trwy y moddion hyny; ond pell, a phell iawn yn ol i'r disgwyliadau; ac y mae hyn yn dechreu cael ei gydnabod gan ddynion cyhoeddus yn Lloegr ac yn America, a fuasent yn cymeryd rhan arbenig yn y cyfarfodydd hyny.

Onid oes yn hyn rywbeth yn bur debyg i'r desgrifiad yn Esaia o ddynion yn cyneu tân, ac yn eu hamgylchu eu hunain â gwreichion? (Es. l. 11.) Pa bryd y dysgwn mai fel hyn y bydd yn parhau "hyd byth," er pob moddion o'r fath, "Hyd oni thywallter arnom yr yspryd o'r uchelder," ac ni "thywelltir arnom yr yspryd o'r uchelder" hyd nes y delo yr eglwys i arfer y moddion symlion a ordeiniodd Efe ei Hun iddi i'w hymarfer, ac i'w geisio Ef a'i holl galon i fendithio a llwyddo y moddion hyny. Ni ddaw Ef allan o'i drefn ei Hun i gyflawni y pethau mawrion a addawodd Efe iddi, rhaid iddi hi ddyfod ato Ef yn y drefn hono. Nid trwy ddyrchafu ei llef yn yr heol, a hysbysiadau cyhoeddus, gwneyd arddangosiadau trystfawr y gwnaeth yr eglwys yn Jerusalem ei gwaith cyn dydd y Pentecost, ond trwy ymneillduo i'w goruwch-ystafell, o olwg y byd, a dyrchafu eu llef ddistaw fain mewn gweddi ddyfal, megis o un galon ac o un genau, oddiyno at Dduw, a thywalltwyd yr Yspryd o'r uchelder arni yn llifeiriant y dydd hwnw.

Dyna oedd ffordd yr Yspryd y pryd hwnw, a dyna yw ei ffordd yn awr, canys y mae ei ffordd a'i drefn Ef yn anghyfnewidiol fel Efe ei hun. "Ceisiwn a chwiliwn ein ffyrdd, a dychwelwn at yr Arglwydd," gan gymeryd yn ein geneuau y geiriau a roddodd ei ysprydoliaeth Ef ei Hun i ni yn ei air ysgrifenedig, "O Arglwydd, bywhâ dy waith. Oni throi di a'n bywhau ni, fel y llawenycho dy bobl ynot Ti? Bywhâ ni, a ni a alwn ar dy enw." Gyda bod Ephraim yn dechreu dywedyd, "Beth sydd i mi mwyach a wnelwyf âg eilunod?" clywn lais Duw yn union yn ateb gan ddywedyd, "Gwrandewais ac edrychais arno, Myfi sydd fel ffinidwydden ir, o honof Fi y ceir dy ffrwyth di, a byddaf fel gwlith i Israel, ac efe a flodeua fel y lili," &c. "Profwn ninau Ef yr awrhon yn hyn, fel yr agoro Efe i ni ffenestri y nefoedd, a thywallt arnom fendithion fel na byddo digon o le i'w derbyn." Amen.

# PREGETH XIX.

## DYN DUW.

"Ac ymarfer dy hun i dduwioldeb."—*Timotheus* v. 7.

Yr ydym yn cyfarfod a'r gair *duwioldeb* yn fynych yn yr epistol hwn; megis, "Mawr yw dirgelwch duwioldeb;" "Elw mawr yw duwioldeb;" "Duwioldeb sydd fuddiol i bob peth;" ac, "Ymarfer dy hun i dduwioldeb." Nid yr un meddwl yn hollol sydd i'r gair yn mhob un o'r engreifftiau uchod. Wrth "*Ddirgelwch duwioldeb*," golygir gwirionedd mawr sylfaenol yr athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb; yr athrawiaeth sydd yn cynyrchu duwioldeb, sef ymddangosiad Duw yn y cnawd, "Colofn a sylfaen" yr holl efengyl. Ni buasai modd i adferu dyn euog a llygredig yn ol i gymod a chymdeithas a delw Duw, heb wneyd Duw ar ddelw dyn. Drwy ymddarostyngiad Duw at ddyn ar y ddaear, y dyrchefir dyn at Dduw yn y nefoedd, a dyma fawr "ddirgelwch duwioldeb." Eto, "*Elw mawr yw duwioldeb*." Y mae adferiad dyn syrthiedig ac euog yn ol i heddwch, delw, a chymdeithas Duw trwy yr efengyl, yn beth mawr—*yn elw mawr* i'r enaid ei hun, yn enill mawr yn llywodraeth Duw—mor fawr, fel y gwelodd anfeidrol ddoethineb ef yn ddyben teilwng i'r Duwdod, yn mherson y Mab, ymddangos yn y cnawd er ei gyraedd a'i

ddiogelu. Tybiai y "*dynion llygredig eu meddwl*," y cyfeiria yr apostol atynt, mai moddion i wneyd elw bydol o honi oedd duwioldeb, neu grefydd yr efengyl, ac archa i Timotheus gilio oddiwrth y cyfryw; a dengys mai elw ac enill ysprydol yw duwioldeb—yn cyfoethogi yr enaid tuag at Dduw, ac yn dwyn tawelwch a boddlonrwydd i'r meddwl, yr hyn na all elw a chyfoeth bydol ei ddwyn. A thrachefn, "*Duwioldeb sydd fuddiol i bob peth, a chanddi addewid o'r bywyd sydd yr awrhon, a'r hwn a fydd.*" "Gan fod yn foddlawn i'r hyn sydd genych, canys Efe a ddywedodd, Ni'th roddaf i fyny, ac ni'th lwyr adawaf chwaith;" dyna ei haddewid hi am bethau y bywyd hwn; ac y mae ffydd yn yr addewid hon yn gwneyd y meddwl yn dawel a boddlawn gyda golwg ar angenrheidiau ac amgylchiadau tymhorol bywyd: ond y mae ganddi addewid, oes, "addewidion mawr iawn a gwerthfawr" lawer am y bywyd a fydd—y bywyd tragwyddol, "Y gobaith a roddwyd i gadw iddi yn y nefoedd." Y mae yr hyn oll a ddywedwyd am dduwioldeb yn flaenorol megis yn cyweirio gwely i ymadrodd y testyn yn y meddwl, "*Ymarfer dy hun i dduwioldeb.*" Y mae "dirgelwch mawr" yn perthyn iddi; y mae "elw mawr" ynddi; y mae hi "yn fuddiol i bob peth;" y mae y "bywyd hwn, a'r hwn a fydd," mewn addewid ganddi, "*Ymarfer dy hun*" iddi.

Cyngor hên weinidog profiadol i weinidog ieuanc ydyw y geiriau, yr hwn oedd wedi ymarfer ei hun i dduwioldeb er yn fachgen; eto, gwelai Paul yn briodol ei anog i barhau yn ei ymarferion duwiol. Mewn cysylltiad ag anogaeth y testyn, gesyd yr hên weinidog y gweinidog ieuanc ar ei ocheliad rhag "Ysprydion cyfeiliornus, ac athrawiaethau cythreuliaid," oedd yn cael eu cyhoeddi a'u taenu, ac yn cael eu derbyn gan lawer; geilw hwynt yn "wrachïaidd chwedlau halogedig." Gâd y pethau hyny heibio, a glŷn wrth y ffurf o athrawiaeth iachus a dderbyniaist genyf fi.

Pregetha'r athrawiaeth iachus—yr athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb; ymarfer a hi; ymarfer dy hun ynddi fel gweinidog a phregethwr, ac fel Cristion:—pregetha yr athrawiaeth i'r byd, a bydd fyw yn ol yr athrawiaeth ger bron y byd; bydded dy bregethiad a'th ymarweddiad yn gyson a'u gilydd, "Heb roddi dim achos tramgwydd mewn dim, fel na feier ar y weinidogaeth."

Golyga y gair *duwioldeb* weithiau, *addoli* Duw—addoliad, neu addoli Duw "mewn yspryd a gwirionedd"—drwy gyflwyniad aberthau ysprydol o weddi a mawl iddo: weithiau, golyga yn fwy neillduol, Tebygolrwydd, neu ymdebygoli i Dduw; dilyn Duw yn holl ymarferion bywyd a buchedd—"rhodio a boddloni Duw," drwy fod y dyn yn gwneyd *character* datguddiedig Duw yn ei air yn gynllun ei fywyd. "Byddwch gan hyny yn ddilynwyr Duw, fel plant anwyl;" fel yr efelycha plant eu rhieni, neu yr ysgolor y copi a rodder yn gynllun iddo ysgrifenu wrtho. Ar ymarfer duwioldeb yn yr ystyr yna y cynygir ychydig sylwadau yn mhellach.

"Ar ei lun a'i ddelw ei Hun" y creodd Duw ddyn ar y cyntaf; ac adfer dyn syrthiedig i'r llun a'r ddelw hono yn ol ydyw y "Greadigaeth newydd yn Nghrist Iesu" a gwblha Efe arno trwy ei ras a'i Yspryd; "Yr hwn" (sef y dyn newydd) "yn ol Duw a grëir mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd." Ei waith Ef, y Creawdwr, ydyw y creu o newydd hwn, ac y mae gwaith y greadigaeth newydd hon yn rhagori mewn gogoniant hyd yn nod ar waith creadigaeth bodoliaeth dyn ar y cyntaf. Ië, gwaith y Creawdwr yw y dyn newydd; ond y mae gwaith i'r dyn ei hun, yntau, i'w gyflawni: "Ei waith Ef, i weithredoedd da," ydyw y rhai a rag-ordeiniodd ei Greawdwr, "fel y rhodiai efe ynddynt." Cafodd y dyn, yn y greadigaeth newydd hon, megis fodoliaeth a bywyd newydd, fel y rhodiai "mewn newydd-deb buchedd." "Ymarfer dy hun i dduwioldeb;"

dwg a gweithia allan yr anian dduwiol a dderbyniaist mewn ymarferiad o dduwioldeb, dy waith di ydyw hyn. Duwioldeb, yn yr ystyr fydd o dan ein sylw, gan hyny, ydyw Dilyn Duw, yn ol Duw, efelychu Duw, ymdebygoli iddo. Pa fodd, yn mha bethau, ynte, y gallwn ni efelychu Duw ac ymdebygoli iddo? Yr ydym yn ateb, Yn ei *garacter* cyhoeddus, datguddiedig i ni yn ei air. Yn

1. *Gwirionedd Duw.* Y mae gwirionedd yn briodoledd hanfodol o angenrheidrwydd yn natur foesol Jehofa. "Nis gall Efe fod yn gelwyddog;" y mae y fath beth yn anmhosibl iddo Ef—"Cadernid Israel ni ddywed gelwydd;" "Duw gwirionedd ac heb anwiredd;" "Nid dyn yw Duw i ddywedyd celwydd, na mab dyn i edifarhau;" â'r cyfryw ymadroddion lawer y lleferir am dano yn yr ysgrythyrau. Un o berlau disgleiriaf a gwerthfawrocaf coron gogoniant yr Anfeidrol yw ei wirionedd, ac "nas gall fod yn gelwyddog." Y dybiaeth fwyaf ofnadwy y gellir dychmygu am dani fyddai y dybiaeth o Dduw celwyddog—Duw nad allai neb ymddiried ynddo, ei garu, na'i barchu; ïe, Duw y byddai pob bôd rhinweddol yn rhwym o deimlo dirmyg tuag ato. Ond y Gwirionedd tragwyddol yw Efe; y mae pob gwirionedd yn hanfodol ac yn dragwyddol ynddo: "Gwirionedd o'r dechreuad yw ei dystiolaethau;" "Yn dragywydd y mae ei air wedi ei sicrhau yn y nefoedd; a phob un o'i gyfiawn farnedigaethau a bery yn dragywydd." Yn awr, fel y mae gwirionedd yn briodoledd hanfodol yn Nuw, y mae yr un modd yn elfen hanfodol mewn duwioldeb. Y fath le mawr a roddir i eirwiredd yn y dduwioldeb ymarferol a ddysga gair Duw! Sonia am dano fel un o nodau hanfodol ei bobl Ef: "Diau fy mhobl ydynt hwy, meibion ni ddywedant gelwydd" (Esay lxiii. 8); dyna un o'r nodau i'w hadnabod "fel fy mhobl I." Beth bynag a broffeso ac a gymero dynion arnynt fod, os ydynt yn arfer celwydd a thwyll, nid fy

mhobl i ydynt. Yr oedd rhyw bobl grefyddol iawn yn amser Zecharia yn ymofyn â'r proffwyd yn nghylch gwyliau ac ymprydiau a defodau. Dyna ddywedai y proffwyd wrthynt, "Dyma y peth wnewch chwi, Dywedwch y gwir bob un wrth ei gymydog!" y mae dywedyd y gwir yn fwy ei bwys a'i werth mewn crefydd nac ymprydiau a gwyliau, a defodau seremonïol. Gofynir y cwestiwn pwysig yn y bymthegfed Salm, "Arglwydd, pwy a drig yn dy babell, ac a breswylia yn mynydd dy sancteiddrwydd? Yr hwn a ddywed wir yn ei galon" ydyw rhan o'r ateb. Gofynir yr un cwestiwn, a rhoddir yr unrhyw ateb iddo, o ran sylwedd, yn Esay xxxi. 14, 15.

Yr un yw dysgeidiaeth y Testament Newydd eto ar y mater: "O herwydd paham, gan fwrw ymaith gelwydd, dywedwch y gwir bob un wrth ei gymodog, canys aelodau ydym i'n gilydd." "O herwydd paham," sef o herwydd eich bod chwi sy'n enwi enw Crist, yn proffesu eich bod wedi "dodi heibio yr hên ddyn, a gwisgo y dyn newydd," byddwch gyson â'r broffes hono—bwriwch heibio weithredoedd drwg ac arferion llygredig yr hên ddyn, o ba rai y mae celwydd yn neillduol yn un. Edrychwch na haloger genau y dyn newydd byth â chelwyddau a geiriau twyllodrus yr hên ddyn; bydded geirwiredd mwyach yn gyfraith eich tafodau a'ch gwefusau. A ydyw proffeswyr yr efengyl yn Nghymru, ac yn Lloegr hefyd, uwchlaw bod angen dwyn ar gôf iddynt y wers bwysig hon o'u crefydd? Onid yw gwirionedd yn cwympo yn yr heolydd yn ein ffeiriau a'n marchnadoedd? Onid yw masnach a galwedigaethau bywyd yn cael eu trwytho mewn anwireddau i raddau helaeth yn ein gwlad? Ac ai ni cheir proffeswyr y gwirionedd yn euog o gydffurfio â'r byd hwn yn fynych yn y peth yma? "Deffrowch yn gyfiawn, ac na phechwch." "Gweddill Israel ni wna anwiredd, ac ni ddywedant gelwydd, ac ni cheir yn eu genau dafod twyllodrus." Prysured y dydd.

2. *Cyfiawnder.* "*Duw* cyfiawnder yw'r Arglwydd;" "Os gwyddoch ei fod Ef yn gyfiawn, chwi a wyddoch fod pob un a'r sydd yn gwneuthur cyfiawnder wedi ei eni o hono Ef." (1 Ioan ii. 29.) "Yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder sydd gyfiawn, megis y mae yntau yn gyfiawn." (1 Ioan iii. 7.) Y mae y ddwy briodoledd, Gwirionedd a Chyfiawnder, o'r un natur—yn canlyn eu gilydd bob amser. Ni all cyfiawnder hanfodi ond mewn gwirionedd, na gwirionedd ond mewn cyfiawnder; fel y dywed doethineb ei bod hi yn trigo gyda challineb (Diar. viii. 12), felly gellir dweyd fod gwirionedd a chyfiawnder yn cyd-drigo. Barnu, gweithredu, a gweinyddu yn ol gwirionedd ydyw gwaith cyfiawnder. Dyn Duw, yn ol tystiolaeth ei air Ef, yw yr hwn sydd "yn gwneuthur cyfiawnder," "Yn darparu pethau onest yn ngolwg pob dyn" (Rhuf. xii. 17), "Y rhai ydym yn rhag-ddarpar pethau onest, nid yn unig yn ngolwg yr Arglwydd, ond hefyd yn ngolwg dynion," medd yr apostol (2 Cor. viii. 2.) Mor fanwl ac mor fynych y mae Duw yn ei air yn gorchymyn ac yn dysgu ei bobl i fod yn gyfiawn; i'w efelychu Ef ei hun mewn gwneuthur cyfiawnder. "Na wnewch gam ar farn, ar lathen, ar bwys, nac ar fesur. Bydded i chwi glorianau cyfiawn, cerig cyfiawn, epha gyfiawn, a hin gyfiawn, yr Arglwydd ydwyf fi." (Lef. xix. 35, 36.) Eto, "Na fydded genyt yn dy gôd amryw bwys, mawr a bychan; na fydded genyt yn dy dŷ amryw fesur, mawr a bychan. Bydded genyt gareg uniawn a chyfiawn; bydded genyt epha uniawn a chyfiawn; canys ffiaidd gan yr Arglwydd dy Dduw bob un a wnelo hyn, sef pawb ar a wnel anghyfiawnder." (Deut. xxv. 13-16.) Ofnwn mai ychydig iawn o sylw y mae hên gyfreithiau Moses yn gael yn awr; yr edrychir ar y barnedigaethau gwladol hyny, fel ar ddeddf y seremoniau, fel pethau wedi eu dodi heibio; ond deddf dragwyddol drwy yr holl genhedlaethau ydyw deddf cyfiawnder

ymarferol; y mae llygad byw y ddeddf hon yn craffu ar y pwysau bychain, "a'r pwysau prin, y peth sydd ffiaidd," eto, fel cynt. Y mae athrawiaeth y cyfiawnder hwn yn rhedeg fel ffrwd gref drwy holl ysgrythyrau yr Hên Destament a'r Newydd. Y mae y Brenin Mawr yn caru cyfiawnder a barn, ac yn hoffi y rhai cyfiawn—y cyfiawn yw etifedd holl bethau dymunol addewidion ei air Ef. "Efe," yr hwn a wnel gyfiawnder, "a breswylia yr uchelderau," ac y "bydd cestyll creigiau" yr ysgrythyrau "yn noddfa iddo. Efe a etifedda bob peth, Canys yr Arglwydd cyfiawn a gâr gyfiawnder: ei wyneb Ef a edrych ar yr uniawn." (Salm xi. 7.)

3. *Tangnefedd.* Duw'r heddwch—Gwir Dduw y Tangnefedd

> "Ydyw yr enwau garodd Ef,
> I'w dodi arno'i Hun."

"Tywysog tangnefedd," ac "Arglwydd y tangnefedd ei Hun," sydd enwau ar y Gwaredwr. Y mae dyn Duw i efelychu ei Dduw a'i Waredwr yn hyn hefyd. Beth a ddywed yr ysgrythyr ar y mater? ei geiriau hi yw y goreu ar bob pwnc. Hi a ddywed fel hyn, "Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, canys hwy a elwir yn blant i Dduw." (Mat. v. 9.) Ac fel hyn, "Os yw bosibl, hyd y mae ynoch chwi, byddwch heddychlon â phob dyn." (Rhuf. xii. 18.) "Dilynwch heddwch â phawb." (Heb. xiii. 14.) "Eithr y doethineb sydd oddi uchod; yn gyntaf pur ydyw, wedi hyny, heddychlawn, boneddigaidd, hawdd ei thrin, llawn trugaredd a ffrwythau da, diduedd, a diragrith. A ffrwyth cyfiawnder a heuir mewn heddwch i'r rhai sydd yn gwneuthur heddwch." (Iago iii. 17, 18.) Sonia'r apostol yn flaenorol am ryw ddoethineb arall dra gwahanol i'r ddoethineb hon sydd oddi uchod—un oddi isod yw hono—"Eithr od oes genych genfigen chwerw ac ymryson yn eich calon, na fyddwch ffrostwyr a chelwyddog yn

erbyn y gwirionedd; nid yw y ddoethineb hon (y grefydd hon) oddi uchod, eithr daearol, anianol, a chythreulig yw." (Adn. 14, 15.) Un ofnadwy yw y ddoethineb hon, a dynion ofnadwy ydyw y dynion y mae ei hegwyddorion hi yn llywodraethu yn eu calonau—pla cymdeithas ydynt pa le bynag y byddont, ac yn enwedig yn eglwys Dduw; ar ymrysonau a chynenau y maent yn byw; cecru ac ymddadlu ydyw hyfrydwch eu bywyd; gosod tröell naturiaeth yn fflam yw eu hoff waith. Gwnaethant lawer gwinllan dêg i Grist yn anialwch anrheithiedig. "Syniwch yr un peth, byddwch heddychol, a Duw y cariad a'r heddwch fydd gyda chwi." (2 Cor. xiii. 11.) Cariad a heddwch yw cyfraith Tŷ Duw y cariad a'r heddwch; a chydymffurfiad ei bobl â'r gyfraith hono ydyw amod ei breswyliad Ef yn eu plith. Beth pe cesglid yr holl rai sydd yn casau tangnefedd, ac yn caru cynen ac ymryson, yn nghyd yn un gynulleidfa, holl ddysgyblion y "ddoethineb ddaearol, anianol, a chythreulig" y sonia Iago am dani? Oni fyddai hono yn uffern fechan ar y ddaear? Tangnefeddwyr, rhai yn dilyn heddwch, yn "gwisgo cariad, yr hwn yw rhwymyn perffeithrwydd," ydyw plant Duw.

3. *Cymwynasgarwch* sydd yn elfen arall eto mewn duwioldeb—mewn ymdebygoliad i Dduw. Pa Gymwynaswr fel Efe? "Ei gymwynasgarwch i ni yn Nghrist Iesu." (Eph. ii. 7.) "Gwr da sydd gymwynasgar." (Salm cxii. 5.) "Ffrwyth yr yspryd yw cymwynasgarwch." "Byddwch gymwynasgar i'ch gilydd."

5. *Trugarogrwydd, tosturi,. a maddeugarwch.* Duw trugarog, graslawn, a maddeugar yw ei enw mawr, ei brif enw dadguddiedig Ef yn ei air; dyma gloch aur fawr yr ysgrythyrau. Byth wedi y dadguddiad cyntaf o'r enw hwn i Moses, pan oedd Efe yn agen y graig yn Horeb, y mae ei sŵn peraidd i'w glywed yn adseinio drwy yr holl Feibl. Yr

oedd Dafydd a'r proffwydi yn tynu beunydd yn rhaff y gloch hon yn eu gweddïau a'u caniadau. Y mae y Duw trugarog, tosturiol, a maddeugar, am i'w bobl ymdebygoli iddo yn hyn, mewn modd neillduol: "Eithr cerwch eich gelynion, a gwnewch dda, a rhoddwch echwyn, heb obeithio dim drachefn; a'ch gwobr fydd mawr, a phlant fyddwch i'r Goruchaf; canys daionus yw Efe i'r rhai anniolchgar a drwg. Byddwch gan hyny drugarogion, fel y mae eich Tad yn drugarog" (Luc vi. 35, 36); "Yn dosturiol, yn maddeu i'ch gilydd, megis y maddeuodd Duw er mwyn Crist i chwithau" (Eph. iv. 32).

6. *Amynedd a dioddefgarwch.* Un arall o enwau datguddiedig Duw yn ei air ydyw, "Duw yr Amynedd" (Rhuf. xv. 4). "Eithr os, a chwi yn gwneuthur yn dda, ac yn dioddef, y byddwch dda eich amynedd, hyn sydd rasol ger bron Duw. Canys i hyn y'ch galwyd hefyd; oblegid Crist yntau a ddioddefodd trosom ni, gan adael i ni esiampl, fel y canlynech ei ol Ef. Yr Hwn ni wnaeth bechod, ac ni chaed twyll yn ei enau; yr Hwn pan ddifenwyd, ni ddifenwodd drachefn; pan ddioddefodd, ni fygythiodd; eithr rhoddodd ar y neb sydd yn barnu yn gyfiawn." (1 Petr ii. 21–23.) Pa mor annhebyg i Dduw—i Grist—ac mor anghyson a'i broffes, ydyw crefyddwr annioddefgar, byrbwyll, a drwg-anwydus? "Gwell yw y neb a reola ei yspryd ei hun, na'r hwn a enillo ddinas" (Diar. xvi. 32); "A'r neb ni byddo ganddo atal ar ei yspryd ei hun, sydd megis dinas ddrylliog heb gaer" (pen. xxv. 28), yn agored i bob profedigaeth i wneyd yspail ac anrhaith o hono. "Yn eich amynedd, meddienwch eich eneidiau."

7. *Sancteiddrwydd—purdeb.* "Eithr megis y mae y neb a'ch galwodd chwi yn sanctaidd, byddwch chwithau hefyd sanctaidd yn mhob ymarweddiad. Oblegid y mae yn ysgrifenedig, Byddwch sanctaidd, canys sanctaidd ydwyf Fi."

(1 Petr i. 15, 16.) Cyfeiria yr apostol at yr ymadrodd sydd yn ysgrifenedig lawer gwaith yn nghyfraith Moses, lle y golyga sancteiddrwydd yn ei ystyr seremonïol, bob amser; sef fod i bobl yr Arglwydd ofalu ar ymgadw rhag bwyta cîg y creaduriaid a waherddid gan y gyfraith, yn ol arfer y cenhedloedd dienwaededig o'u hamgylch. Yr oeddynt drwy ymgadw felly, i fod yn genedl neillduedig, neu sanctaidd, o ran ymarferion corfforol a phethau angenrheidiol bywyd. Mewn amser, daeth y geiriau, sanctaidd a sancteiddrwydd, i gymeryd i mewn ystyriaeth foesol ac ysprydol, sef purdeb calon a buchedd—ymwrthodiad a phob egwyddorion ac ymarferion pechadurus—a dyna yr ystyr sydd iddynt yn y Testament Newydd. Sancteiddrwydd Duw ydyw ei burdeb anfeidrol, "Yn lanach ei lygaid nag y gall edrych ar anwiredd a drygioni." Ac y mae yr hwn sydd yn casau anwiredd, yn cilio oddiwrth ddrygioni, ac yn ymestyn at rinwedd, yn ddyn Duw—yn ol Duw, yn tebygoli i Dduw.

Yn y ddwy Salm (cxi a cxii), gosodir Duw, a dyn Duw, ar gyfer eu gilydd. Yn y flaenaf fe ddywedir am Dduw: "Gogoniant a harddwch yw ei waith Ef; a'i *gyfiawnder sydd yn parhau byth.* Gwnaeth gofio ei ryfeddodau; *graslawn* a *thrugarog* yw yr Arglwydd." Yn yr olaf, dywedir am ddyn Duw: "Gwyn ei fyd y gŵr sydd yn ofni yr Arglwydd, ac yn hoffi ei orchymynion Ef yn ddirfawr. Golud a chyfoeth fydd yn ei dŷ ef; a'i *gyfiawnder sydd yn parhau byth.* Cyfyd goleuni i'r rhai uniawn yn y tywyllwch; *trugarog* a thosturiol, a chyfiawn yw efe." Arferir yr un ymadroddion am y ddau. Y mae dyn Duw yn y Salm olaf o'r ddwy, yn ol delw Duw, fel y gosodir Ef allan yn y flaenaf.

Dyna yw y dduwioldeb y gelwir arnom i'w hymarfer: "*Dywedyd y gwir bob amser; gwneuthur cyfiawnder; darpar pethau onest yn ngolwg pob dyn, yn holl ymarferion bywyd; dilyn tangnefedd a heddwch â phob dyn;* meithrin *yspryd tru-*

*garog, a maddeugar, a chymwynasgar;* dysgu *amynedd a dioddefgarwch* dan *brofedigaethau a thrallodau;* a *sancteiddrwydd,* heb yr hwn ni chaiff neb weled yr Arglwydd." Y mae holl elfenau y dduwioldeb hon yn berffeithiau anfeidrol ogoneddus yn natur Jehofah; a'r hwn sydd yn gwasanaethu Crist yn y pethau hyn, sydd hoff gan Dduw a chymeradwy gan ddynion (Rhuf. xiv. 18). Onid yw hi yn brydferth? ac oni fyddai y byd hwn yn brydferth a dedwydd pe byddai hi wedi ei feddianu ai ddwýn dan ei dylanwad? Annuwioldeb ac annuwiolion sydd wedi anrheithio ac andwyo y byd—wedi chwerwi a gwenwyno pob ffynon a ffrwd, difwyno a gwywo pob dim hyfryd i'r golwg sydd o'i fewn. O ffynon annuwioldeb a phechod y tarddodd holl afiechyd a phläau moesol a chymdeithasol y byd. "Eithr nefoedd newydd, a daear newydd, yr ydym ni, yn ol ei addewid Ef, yn eu disgwyl, yn y rhai y mae cyfiawnder yn cartrefu" (2 Petr iii. 13), ac yna bydd y nefoedd a'r ddaear yn un; y ddaear mor brydferth ac mor ddedwydd a'r nefoedd.

Rhoddodd ein Gwaredwr esiampl berffaith o'r dduwioldeb hon o'n blaen. Ynddo Ef cawn Dduw ei Hun yn natur dyn, ar faes dyledswydd dyn, yn ei hymarfer yn ei holl fywyd i'r perffeithrwydd uchaf. "*Y Tyst ffyddlawn a chywir; Y Cyfiawn hwnw; Tywysog tangnefedd; Ymysgaroedd a Thosturiaethau; Y Sanctaidd a Chywir.*" "O herwydd paham, frodyr sanctaidd, cyfranogion o'r alwedigaeth nefol, ystyriwch Apostol ac Archoffeiriad ein cyffes ni, Crist Iesu. (Heb. iii. 1.) "Rhedwn yr yrfa a osodwyd o'n blaen ni, gan edrych ar Iesu, Pentywysog a Pherffeithydd ein ffydd ni." (Pen. xii. 1.) Drwy edrych arno y deuwn yn debyg iddo. "A nyni oll, âg wyneb agored, yn edrych ar ogoniant yr Arglwydd megis mewn drych, a newidir i'r unrhyw ddelw, megis o ogoniant i ogoniant, megis gan Ysbryd yr Arglwydd." (2 Cor- iii. 18.)

# PREGETH XX.

## GWAS DUW.

*(Traddodwyd y Bregeth hon ar achlysur marwolaeth y diweddar* BARCHEDIG HENRY REES, *Liverpool.)*

"Ac ni chododd proffwyd eto yn Israel megis Moses, yr hwn a adnabu yr Arglwydd wyneb yn wyneb. Yn mhob rhyw arwyddion a rhyfeddodau, y rhai yr anfonodd yr Arglwydd ef i'w gwneuthur yn nhir yr Aifft, ar Pharao, ac ar ei holl weision, ac ar ei holl dir Ef; ac yn yr holl law gadarn, ac yn yr holl ofn mawr, y rhai a wnaeth Moses yn ngolwg holl Israel."—*Deut.* xxxiv. 10–12.

GWAITH anhawdd a chaled ydyw i mi sefyll i fyny yma heno ar yr achlysur a'n dygodd yn nghyd. Y mae toriad y berthynas, yn ol y cnawd, oedd rhyngof â'r un sydd newydd ein gadael, a hyny braidd yn annisgwyliedig ar y pryd, yn peri bod "y cnawd yn wan," a'r "fron braidd yn rhy lawn i'r tafod lefaru." Teimlwn ei bod yn anhawdd i mi ddarllen y testyn a ddewisais at y gwasanaeth hwn; ond wedi meddwl a chwilio llawer, er mewn maes lle y mae digonedd o destynau i'w cael, yr oedd yr un a ddarllenais megis yn cymhell ei hun i'm meddwl yn fwy ac yn daerach na'r un arall; ac felly yn fy ngosod dan fath o orfod i roddi y ffordd

iddo. Ni fynwn, fy ngwrandawyr, i chwi dybied fod genyf amcan i gymharu y gwrthddrych y cyfeiriwn ato â Moses, ac i'w osod ef yn ei berthynas â'i frodyr yn y weinidogaeth, fel yn tra-ragori arnynt oll, fel y gosodir Moses allan yma, yn ei berthynas ef â'r proffwydi. Dim, o gwbl. Ceisiaf ddefnyddio y geiriau yn sail i ychydig nodiadau cyffredinol, ac wedi hyny i gymhwysiadau mwy neillduol.

Maes cyfoethog o addysg ac athroniaeth, a llawn o ddyddordeb byw, ydyw yr hanes a rydd yr ysgrythyr am rai o'i dynion sanctaidd hi; y rhai "lefarasant, megis y cynhyrfwyd hwynt gan yr Yspryd Glân." "Dynion oeddynt, yn gorfod goddef fel ninau;" dynion wedi eu hamgylchu â gwendid ac anmherffeithrwydd.

Y mae helyntion bywyd Moses yn hawlio sylw neillduol darllenydd yr ysgrythyrau. Yn y benod flaenorol, cawn ei *eiriau* olaf; ac yn hon, ei *waith* olaf. Yn hono y mae yn gorphen ei dystiolaeth; ac yn hon yn gorphen taith hirfaith a llafurfawr ei fywyd. Yno yr ydym yn gwrando arno yn canu ac yn bendithio Duw Israel ac Israel Duw; ac yma yr ydym yn edrych arno yn marw. Yr oedd wedi byw dan weddïo, ac nid rhyfedd yw ei fod yn marw dan fendithio. Yr oedd yn marw yn ngolwg gwlad yr addewid—marw ger bron yr Arglwydd, yn ymyl Duw, wrth enau Jehofa. Duw ei Hun a'i claddodd ef. Ni wahoddwyd neb i'r angladd hwnw; nid oedd un dyn o Israel, nac hwyrach un angel o'r nefoedd, yn bresenol yn dilyn y corff i'r bedd, ac yn dyst o'r amgylchiad; a chadwyd y diafol a'i angelion yn mhell draw; ac felly "Nid edwyn neb ei fedd ef hyd y dydd hwn." Nacawyd iddo ei ddymuniad o gael myned i mewn i wlad yr addewid, y Ganaan ddaearol, o herwydd ei amryfusedd wrth y graig yn Cades; ond cafodd helaeth fynediad i mewn i'r Ganaan well, yr un nefol.

Samuel neu Ezra a ysgrifenodd y benod hon, debygir; a

thystiolaeth un o'r ddau hyny am Moses yw geiriau ein testyn. Os Ezra oedd yr ysgrifenydd, yr oedd ef yn gydoeswr â Haggai a Zacharia, y ddau olaf ond un o broffwydi yr Hên Destament. Fel y mae yr Hên Destament yn dechreu yn Moses, y mae yn dybenu hefyd ynddo, "Cofiwch gyfraith Moses, fy ngwas," ydyw y geiriau olaf yn mron ynddo. (Mal. iv.) Os geiriau Ezra yw geiriau y testyn, y maent yn cymeryd i mewn yr holl broffwydi, ac yn gosod Moses fel y seren fwyaf a disgleiriaf o honynt oll; ac yn wir, y mae efe, mewn ystyr, yn haul a chanolbwnc iddynt oll, a hwythau fel planedau yn troi o'i amgylch, ac ef â hwythau yn cyd-droi o amgylch Haul Mawr y Cyfiawnder, canolbwnc holl arfaethau a gweithredoddd Duw.

"*Ni chododd proffwyd eto yn Israel megis Moses,*" &c.

Cawn sylwi yn

I. Hynodrwydd y proffwyd.

II. Rhai proffwydi yn fwy hynod na'r lleill.

III. Moses, yr hynotaf a'r penaf o'r proffwydi.

IV. Cymwysiadau.

I. *Hynodrwydd y proffwyd.* Yr oedd y proffwyd yn ddyn anghyffredin yn mysg dynion. Nid fel yr oedd yn rhagori mewn duwioldeb a rhinwedd ar ddynion duwiol a rhinweddol ereill yn unig, nac yn benaf, ond fel dyn ysprydoledig gan Dduw yn genad drosto at ddynion; i lefaru geiriau Duw *wrth* ddynion, ac i ddadguddio meddwl ac ewyllwys Duw *i* ddynion—"Yspryd Duw a lefarai ynddo, a'i ymadrodd Ef oedd ar ei dafod."

Yr oedd hyn yn gwisgo y proffwyd âg urddas dwyfol—"*gwr Duw*" oedd efe, ac yr oedd arswyd dwyfol yn cydgerdded âg ef i bob man; yr oedd yn cynrychioli Duw yn mysg dynion. Ni adwaenai efe y goludog o flaen y tlawd, na'r brenin o flaen y gwaelaf o'i ddeiliaid; yr hyn a'i gwnelai i raddau megis Duw ei Hun, "Yn ofnadwy i frenin-

oedd y ddaear," felly yr oedd Moses i Pharao; Samuel i Saul; Elïas i Ahab; a Ioan Fedyddiwr i Herod.

1. Y radd uchaf a berthynai i'r proffwyd oedd "y *gweledydd;*" un yn gweled yn mhellach na dynion ereill; ac nac y gallasai efe ei hun weled heb iddo gael dadguddiad drwy Ysprydoliaeth Ddwyfol. Dan ddylanwad yr ysprydoliaeth hono llefarai am bethau i ddyfod, mewn amserau pell neu agos, gyda'r sicrwydd mwyaf pendant am eu cyflawniad.

2. Yr oedd gweithredoedd goruwchnaturiol yn canlyn gweinidogaeth y proffwyd, yn achlysurol, fel seliau dwyfol wrthi, "Hyn fydd arwydd y gwna'r Arglwydd y gair a lefarodd." Y rhai hynotaf yn eu perthynas â gwyrthiau, o broffwydi yr Hên Destament, oedd Moses, ac Elïas, ac Elisëus. Ni chyflawnodd yr un o'r lleill lawer "o *weithredoedd* nerthol."

3. Yr oedd y proffwyd yn ddysgawdwr i'r bobl hefyd; yn bregethwr i egluro cyfraith a gair Duw i ddynion; a gosod hawliau ac awdurdod y gair a'r gyfraith ddwyfol arnynt, a'u dysgu i'w parchu ac ufuddhau iddynt.

II. *Rhai proffwydi yn fwy hynod nâ'r lleill.* Y mae hanes y proffwydi yn dangos hyn. "Y mae rhagor rhwng seren a seren mewn gogoniant" yn ffurfafen yr ysgrythyr, megis yn y ffurfafen naturiol. Gwelir yn y gyntaf, megis ag yn yr olaf, ambell i seren lwyd-wan, fel ar ymddiflanu yn y gorwelion pell. Felly yr ydoedd yr holl amser maith rhwng Moses a Samuel, ar ol dyddiau Joshua. "Nid oedd weledigaeth eglur," a "Gair yr Arglwydd oedd werthfawr yn y dyddiau hyny," o herwydd ei brinder a'i aneglurder. Deuai ambell "ŵr i Dduw," gyda chenadwri fèr oddiwrtho at Israel, ar achlysuron, yna ciliai o'r golwg, na welid mo hono mwy. Ni welodd yr Yspryd Glân yn dda roddi i ni enwau rhai o honynt. Ond yn Samuel, dyna seren o'r maintioli

mwyaf yn codi. "Gair Samuel a ddaeth i holl Israel," a "gwybu holl Israel, o Dan hyd Beersheba, mai proffwyd ffyddlon yr Arglwydd oedd Samuel." (1 Sam. iii. 20.) Wele, o'r diwedd, un hynod ac arbenig fel "Gŵr Duw" yn mysg y proffwydi, un a daflodd oleuni, nerth, a dylanwad, fel trydan drwy yr holl wlad, o'i chanolbwnc hyd ei hamgylchoedd pellaf. "Hwy a gânt wybod fod proffwyd yn eu mysg," medd yr Arglwydd wrth Ezeciel, pa un bynag a wnant hwy wrando ai peidio; "Cânt wybod, cânt deimlo fod proffwyd yn eu mysg." Cafodd Cymru hithau, wybod a theimlo hyn yn nyddiau ein tadau gynt, ac yn nyddiau boreuol tadau sydd yn fyw yn awr hefyd. O, fel y gwybu yr holl Dywysogaeth, o Gaergybi i Gaerdydd, am y rhywbeth dwyfol hwnw a gerddai trwy weinidogaeth y proffwydi hynod a anfonai Duw ati—y rhywbeth na allasai y dynion hyny eu hunain mo'i gynyrchu pan y mynent hwy; ac yr oeddynt yn synu ato, fel dynion ereill—y rhywbeth hwnw a'u gwnelai, ar brydiau, yn llawer mwy na hwy eu hunain, ac a barai i gynulleidfaoedd cyfain dyneru a thoddi ar eiliad weithiau, "fel y tawdd y cwyr o flaen y tân." Y peth hwnw y gweddïai y proffwyd Habacuc am dano, na cheisiai ei ddesgrifio, pan ddywedai, "Pâr wybod." Pa beth? Ni ddywed; ond *rhywbeth* er bywhau a llwyddo gwaith Duw —a barai i ddynion wybod a theimlo pethau na wybuasent o'r blaen. Y mae un o'r rhai y cerddai y rhywbeth hwnw, ar achlysuron, drwy ei weinidogaeth newydd dewi, a myned o'r golwg yn awr. Os bydd y lamp hon (sef y nerth a'r goleuni anghyffredin y soniwn am dano) ddiffodd yn nheml yr Arglwydd, hi â yn nos ar grefydd yn Nghymru eto, a "chyfyd oes arall" o broffeswyr a gwrandawyr nad adwaenant yr Arglwydd, a'i fawr-waith a wnaeth Efe yn y dyddiau yr oedd y nerthoedd hyny yn cael eu datguddio. Ni wna athrawiaeth iachus ac efengylaidd yn unig, na phob modd-

ion addysg a gwybodaeth grefyddol gyda'u gilydd, y tro er cynyrchu a maethu bywyd crefydd ysprydol, heb y rhywbeth dwyfol hwnw i'w harddel a'u heffeithioli. Fe â y weinidogaeth yn sech, diafael, a dieffaith ar ei gwrandawyr; crefyddwyr yn ddaearol ac anianol a chynhenus, hebddo; daw y gelyn i mewn fel afon o ymbleidiau ac ymrysonau a llygredigaethau i mewn i'r eglwysi, ac nid oes dim ond "Yspryd yr Arglwydd a'i hymlid ef ymaith."

Pan fyddo Duw yn myned i wneyd gwaith mawr, ei drefn ydyw codi a donio dynion anghyffredin yn offerynau i'w gyflawni. Gallai wneyd y gwaith heb offerynoliaeth y cyfryw ddynion, ond nid felly y rhyngodd bodd iddo wneyd. Gallasai waredu Israel o'r Aifft heb Moses, na neb arall; ond cymwyso ac anfon Moses a wnaeth Efe; felly Samuel a'r proffwydi, at waith eu dydd hwythau. Pan ddaeth yr amser apwyntiedig i'r efengyl gael ei phregethu i'r cenhedloedd, "Dywedodd yr Yspryd Glan, Neillduwch i mi Barnabas a Saul i'r gwaith y gelwais hwy iddo;" felly Luther a'r Diwygwyr Protestanaidd, a thadau y diwygiad efengylaidd yn Nghymru yr un modd—dynion anghyffredin at waith anghyffredin oeddynt. Pen Mawr yr eglwys ei Hun sydd yn dewis ac yn cymwyso y neb a fyno Efe at ei waith. "I bob un o honom y rhoddwyd gras yn ol mesur dawn Crist," medd yr apostol; Efe sydd yn mesur ac yn cyfranu ei ddawn a'i ras yn gyfran neillduol i bob un o'i weision; ac fel y mae aelodau y corff naturiol, a'r rhai a dybir eu bod yn wanaf ac amharchedicaf, yn angenrheidiol i wasanaeth y corff, felly y mae y gwahanol a'r amrywiol raddeu o ddoniau a chymwysderau yn y weinidogaeth, yn angenrheidiol i wasanaeth yr eglwys. Gwyliwn ddiystyru y gwanaf ei dalentau o weision Crist, sydd ffyddlon a diwyd "ar ei ychydig" yn ei wasanaeth Ef; y mae y gwaelaf a'r gwanaf hwnw, yn was i Grist yn gystal a'r cryfaf ei alluoedd a'r cryfaf ei dalentau, ac mor

gymeradwy ganddo Ef. Yr oedd Obadia yn broffwyd i Dduw yn gystal ag Esaia, er y gwahaniaeth mawr oedd rhyngddynt. Felly hefyd yr apostolion; yr oedd Simon Zelotes mor wirioneddol apostol i Grist ag oedd Simon Petr, er nad oes fawr iawn o son am y Zelotes, a bod llawer iawn o son am y Cephas: "Pob un a dderbyn ei briod wobr ei hun, yn ol ei lafur ei hun."

III. *Moses, yr hynotaf a'r penaf o'r proffwydi.*

1. Moses oedd y cyntaf o'r proffwydi. Traddododd Noa, Isaac, a Jacob, bob un broffwydoliaeth "am bethau a fyddent," ond ni elwir yr un o honynt hwy yn broffwyd; yn Moses y dechreuodd oes y broffwydoliaeth, yn swyddol.

2. Yr oedd Moses yr hynotaf a'r penaf o'r proffwydi ar gyfrif agosrwydd ei gymundeb â Duw, "Yr hwn a adnabu yr Arglwydd wyneb yn wyneb." Pan gynenodd Miriam ac Aaron yn erbyn Moses, o achos y wraig o Ethiopia, galwodd yr Arglwydd yn ddisymwth ar y tri i ddyfod i babell y cyfarfod, a llefarodd wrth Aaron a Miriam gan ddywedyd, "Gwrandewch yr awr hon fy ngeiriau, Os bydd proffwyd i'r Arglwydd yn eich mysg, mewn gweledigaeth yr ymddangosaf iddo; neu mewn breuddwyd y llefaraf wrtho; Nid felly y mae fy ngwas Moses, yr hwn sydd ffyddlawn yn fy holl dŷ. Wyneb yn wyneb y llefaraf wrtho, mewn gwelediad, nid mewn damegion; ond caiff edrych ar wêdd yr Arglwydd," &c. (Num. xii. 6–8.) A dyna yr anrhydedd penaf a roddwyd ar ddyn ar y ddaear erioed. Cafodd Moses fyned yn nes at Dduw—i agosach cyfrinach â Duw, nac un proffwyd arall; bu am ddeugain niwrnod gyda Duw ar y mynydd, a phan ddisgynodd at y bobl, yr oedd ei wyneb yn disgleirio fel na allent edrych arno. Y mae yn gyffelyb i hyn eto; y rhai hyny o'i weision sydd yn dal y cymundeb agosaf â Duw yn y mynydd—yn y dirgel—ydyw y rhai y mae eu

hwynebau yn disgleirio fwyaf yn yr amlwg. Hên bennill dedwydd yw hwnw:

"Gâd i ni ddôd i'r mynydd fry,
I'r cwmwl goleu atat Ti,
Fel y disgleirio'n hwyneb-pryd,
Nes synu Israel oll i gyd."

3. Yn y gwaith mawr a wnaeth efe dros Dduw. Yn hyn hefyd yr oedd Moses y penaf a'r hynotaf o'r proffwydi. Yr oedd efe yn ddeddfwr i Israel, yn gyfryngwr cyfamod, ac yn sylfaenydd goruchwyliaeth o grefydd. Galw y bobl at gyfraith, barnedigaethau, a defodau Moses oedd rhan fawr o waith yr holl broffwydi ar ei ol.

4. Yn yr holl arwyddion a'r rhyfeddodau a wnaeth Duw trwyddo yn yr Aifft, y Môr Coch, ac yn yr anialwch. "Ni chododd proffwyd eto yn Israel megis Moses."

CYMWYSIADAU.

1. Mae un o'r bendithion penaf a gwerthfawrocaf i'r eglwys ac i'r byd, yw y dynion anghyffredin y mae Duw yn eu codi ac yn eu hanfon atynt o bryd i bryd. Felly yr oedd Moses a'r proffwydi i Israel. Felly yr oedd Duw ei hun yn edrych arnynt. "Mi a'th waredais o'r Aifft, ac a'th ryddheais o dŷ y caethiwed, ac a anfonais o'th flaen Moses, ac Aaron, a Miriam," medd Efe wrth Israel (Mica vi. 4); a thrachefn, "Mi a anfonais atynt fy holl weision y proffwydi, gan fore godi ac anfon." Y mae Efe yn edliw yr un peth hwn i Israel drwy Jeremiah, lawer gwaith trosodd, fel y ragorfraint benaf a gwerthfawrocaf a allasai Efe ei rhoddi iddynt. "Ac oherwydd (yr un) paham y mae Efe yn dywedyd, Pan ddyrchafodd i'r uchelder, Efe a gaethiwodd gaethiwed, ac a roddes roddion i ddynion." (Eph. iv. 8.).) Ond beth a

olygir wrth y rhoddion hyn? Y maent yn cynwys yn ddiau bob "rhoddiad daionus a phob rhodd berffaith," ond yn benaf oll, "Efe a roddes rai yn apostolion, a rhai yn broffwydi, a rhai yn efengylwyr, a rhai yn fugeiliaid ac yn athrawon." (Adn. 11.) "Apostolion, proffwydi, ac efengylwyr," &c.,—dynion anghyffredin gweinidogaeth y Testament Newydd. Derbyniodd yr Hwn "a ddyrchafodd i'r uchelder awdurdod ar bob peth"—"pob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear;" ond ni wyddai Efe ei Hun am roddion ac anrhegion mor werthfawr ag oedd apostolion a phroffwydi, efengylwyr ac athrawon; dynion wedi eu gwisgo â nerth o'r uchelder i fod yn genhadau dros Dduw, megis pe buasai Duw yn deisyf trwyddynt ar y byd i dderbyn y cymod. A beth fuasai y byd heddyw oni buasai iddo Ef anfon y dynion hyny ato? Buasai oll yn yr un sefyllfa druenus ag y mae y rhanau hyny o hono sydd heb yr efengyl ynddo heddyw. Ië, beth fuasai cyflwr Cymru yn awr, pe na anfonasid y dynion anghyffredin hyn ati yn ystod y ddwy ganrif ddiweddaf? yr hyn ydoedd cyn hyny a fuasai hi eto y dydd hwn, yn dir drain a mieri, tywyllwch ac anwybodaeth, nythle pob math o ysprydion aflan, ofergoelion a llygredigaethau, a phob anfoes ac anrhefn; ïe, y dynion hyny wedi eu codi a'u hanfon, a'u harddel mewn modd arbenig gan Dduw ei Hun, oedd y bendithion penaf a gwerthfawrocaf a gafodd ein gwlad a'n cenedl erioed, gyda'r eithriad o air Duw yn ei hiaith ei hun.

2. Y mae y cyfryw ddynion anghyffredin a anfonir gan Dduw, yn teilyngu derbyniad a pharch anghyffredin gan eglwys Dduw, a chan ddynion yn gyffredin hefyd. Archa Paul i'r eglwys "wneuthur cyfrif mawr o honynt, mewn cariad, er mwyn eu gwaith" (1 Thes. v. 13). Yn wahanol iawn i hyny yr ymddygodd y byd, a'r eglwysi hefyd, at lawer o honynt. Grwgnachai gwersyll Israel yn erbyn Moses ei

hun, ac ewyllysient ei labyddio lawer tro; cyhuddent ef ac Aaron o ffurfio dichell offeiriadol, i awdurdodi arnynt a'u hyspeilio o'u rhyddid a'u hiawnderau; o herwydd paham, yr agorodd y ddaear ei safn, ac y llyncodd "i uffern yn fyw" luaws o honynt, un tro. Y trymaf o'r cyhuddiadau a ddygai y Gwaredwr yn erbyn Jerusalem, pan yn ei chyfarch y waith olaf, drwy ei ddagrau, oddiar fynydd yr Olewydd, ydoedd, "Yr hon wyt yn lladd y proffwydi, ac yn lladyddio y rhai a anfonir atat" (Mat. xxiii. 35); a hyny a dynodd arni farn a digofaint Duw hyd yr eithaf, o'r diwedd. Ni phetrusai Paul ddywedyd wrth y Corinthiaid a'r Galatiaid, y dylasai efe gael ei barchu a'i fawrygu ganddynt yn amgenach nag yr oeddynt hwy yn gwneyd. Cafodd rhai o'r dynion penaf a anfonodd Duw y triniaethau chwerwaf a chreulonaf gan y byd, a llawer o angharedigrwydd a dirmyg oddiwrth yr eglwysi hefyd, lawer o honynt. Cafodd yr hên dadau Anghydffurfiol yn yr ail-ganrif-ar-bymtheg, a thadau y diwygiad Methodistaidd yn Nghymru, driniaethau blinion lawer iawn; mewn enbydrwydd am eu heinioes y bu llawer o honynt, "yn myned rhagddynt ac yn wylo" wrth ddwyn a hau yr "hâd gwerthfawr" yn y Dywysogaeth, hyd nes gorthrechwyd gelyniaeth y bobl gan y nerthoedd dwyfol a gerddai drwy weinidogaeth y proffwydi hynod hyny. Yr oedd y bobl yn mhob man yn mawrygu cedyrn yr ail dô o gedyrn y diwygiad hwnw; cyrchent yn lluoedd i'w gwrando yn mhob lle yr elent; yr oedd yr anifeiliaid a farchogent fel yn greaduriaid cysegredig yn ngolwg y bobl.

Wythnos yn ol, buom yn anfon gweddillion marwol un o'r cedyrn hyny i'r bedd, un o'r rhai olaf oll; dichon fod un neu ddau eto yn aros o'r tô hwnw. Un anghyffredin mewn amgylchiadau cyffredin bywyd ydoedd ef; nid oedd dim yn neillduol yn helyntion ei oes i son am danynt; ni bu ef, fel y tadau y cyfeiriwyd atynt, mewn perygl ac enbydrwydd,

mewn carchar na than erlid, a gŵg a gwaradwydd y byd, yn achos yr efengyl; yr oedd y "gauaf wedi myned heibio, y gwlaw wedi pasio," y gwynt a'r dymhestl wedi gostegu, cyn iddo ef ymddangos ar y maes. Pan yr aeth ef allan gyntaf, yr oedd y "blodau ar y ddaear, a chlywid llais y durtur yn y wlad." Yr oedd hynodrwydd y proffwyd hwn yn hollol annibynol ar amgylchiadau ei fywyd; yn yr hyn a weithiodd gras Duw *ynddo*, a'r hyn a weithiodd yntau *allan* dan ddylanwad ac yn nerth y gras hwnw, hyny a'i gwnaeth ef yn fawr fel gŵr a chenad Duw.

Rhoddwch gymdeithas eich meddyliau yn awr am enyd fach—deuwch trosodd i ardal neillduedig Llansanan; yno, mewn hên Amaethdy, sydd yn llechu dan gesail hên fynydd Hiraethog, ar y 18fed o Chwefror, 1798, fe anwyd bachgen, bachgen hynaf i rieni crefyddol a duwiol oedd yn byw yno, rhan o hên dreftadaeth y teulu er's cannoedd lawer o flynyddoedd. Ganesid aml i fachgen hynod yn ei ddydd o'r teulu hwnw, yn yr hên anedd hono, o'i flaen ef; un a fu yn swyddog milwraidd yn un o Ryfeloedd y Groes; un arall a fu yn gadben yn ngwarchodlu Edward IV; un arall a fu yn rhyfelgar iawn fel swyddog yn myddin Duc Lancaster, yn rhyfel y Rhosynau, sef y rhyfeloedd gwladol rhwng y teuluoedd York a Lancaster am goron Lloegr; un arall eto a fu yn hynod fel gwrthryfelwr yn erbyn awdurdod orthrymus un o freninoedd Lloegr; ac un arall hefyd a fu yn orthrymwr blin ar ei denantiaid, gan eu troi allan o'u tiroedd, fel y gwnaed rhanau o ddau gwmwd—Archwedlog ac Isaled—yn anialwch gwyllt dros dymor, yr hyn a barai i hên brydydd yn y dyddiau hyny osod "Y fran ar ben clochdy Llansanan," i felldithio y dydd y ganwyd y gorthrymwr. O gyff garw o'r fath yna, y tarddodd y planhigyn tyner hwn, yn y fan y tarddasai allan amryw, os nid yr oll, o'r planhigion geirwon hyny.

Yn Dafydd Rees, o Chwibren Isaf, yr ieuengaf o feibion ei rieni, Henry a Gwen Rees (Llwyd, yn ol ei henw morwynig), y daeth crefydd gyntaf i'r teulu henafol hwn, yn ol dim a allwn gasglu; ac yn Henry, yr hynaf o feibion y Dafydd Rees hwnw, y cyfododd yr *efengylwr* cyntaf o'r teulu, â'r hwn a lanwodd y wlad a'i boblogrwydd a'i ddylanwad, ac a ystyrid yn un o'r pregethwyr penaf a galluocaf, a choethaf, a welodd llygaid ac a glywodd clustiau Cymru erioed.

Nid oedd neb o'i gymydogion yn canfod dim yn hynod yn y bachgen Harri, yn ei ddyddiau boreuaf, ragor hyw fachgen arall o'i gyfoedion; ond dichon mai diffyg craffineb ynddynt hwy a barai hyny. Yr oedd o duedd wylaidd a distaw, a chwareus, fel bachgen arall. Pan oedd tua deuddeg oed, torodd adfywiad grymus ar grefydd allan yn Llansanan, mewn cyfarfod gweddi a gynhelid yn y capel ar nos Sabboth; cerddodd y tân yn fuan i leoedd ereill, pell ac agos, a dychwelwyd llaweroedd at grefydd, yn hên ac ieuainc, mewn llawer o fanau. Cyfranogodd yntau yn helaeth o'r dylanwad; ymunodd a'r eglwys Fethodistaidd, yn Llansanan, yn ddioed, dan deimladau dwysion iawn. Ar ben ei hun y carai fod bron yn wastad wedi hyny. Yn yr ysgubor, yn y maes, neu ar y mynydd gyda'r praidd, myfyrio, gweddïo, pregethu, oedd ei waith beunyddiol; pregethodd lawer i'w gyfoedion ieuainc ar y ffordd y nos wrth ddychwelyd adref o'r cyfarfodydd crefyddol, a chredent nad oedd y fath bregethwr ag ef yn y byd. Deallodd yr eglwys yn Llansanan cyn hir, fod defnydd dyn yn y bachgen hwnw.

Ar symudiad y diweddar Barch. T. Jones, o Ddinbych i Sirhior-fawr, gerllaw Abergele, teimlai yn awyddus iawn am gael myned ato i'w wasanaeth. Galwodd ei dad gyda Mr. Jones, ac amlygodd awydd ei fachgen iddo; chwenychai

Mr. Jones ei weled; aeth yntau i Ddinbych dranoeth; hoffodd Mr. Jones y bachgen, a chytunasant a'u gilydd yn y fan. Bu yn gweinyddu gyda Mr. Jones am y ddwy flynedd y bu yn byw yn Sirhior. Cafodd yno le yn ol dymuniad ei galon—byw bron yn hollol ar ben ei hunan bob dydd, a digon o lyfrau i'w darllen bob nos. Ei fwriad oedd dychwelyd adref atom ar ei ymadawiad oddiyno; ond erfyniai yr ychydig gyfeillion crefyddol oedd yn weiniaid a digalon yn y Bettws, ger Abergele, yn daerion iawn arno aros yn y gymydogaeth hono am dymor; efe oedd llywydd yr Ysgol Sabbothol, y cyfarfod eglwysig, a'r cyfarfod gweddi er pan ddaethai i'r Sirhior, ac ni wyddent beth a wnaent os ymadawai o'r ardal, a theimlai yntau ymlyniad mawr yn y lle. Cynygiodd Mr. D. Lloyd, o'r Cefn, amaethwr parchus gerllaw y Bettws, le iddo yn ei wasanaeth, a chytunodd i fyned yno. Blwyddyn fu ei arosiad yn y lle, ac yn nghorff y flwyddyn hono (1818) y dechreuodd bregethu. Ar ben y tymor hwnw, dychwelodd adref at ei rieni, y rhai oeddynt erbyn hyny wedi symud i fyw i'r Caedu, y tŷ y cyfieithodd William Salesbury y Testament Newydd ynddo, yn amser y frenines Elizabeth. Byr fu ei arosiad gartref; aeth i Abergele, i'r ysgol, at y diweddar Barch. T. Lloyd, a bu yno flwyddyn, neu ragor. Yr oedd ganddo y parch dyfnaf i enw a choffadwriaeth Mr. Lloyd, fel y dengys ei erthygl ddyddorol arno a ymddangosodd yn y "*Traethodydd*."

O Abergele, aeth i'r Amwythig, i ddysgu y gelfyddyd o rwymo llyfrau, ond ychydig wnaeth o honi gyda'r gorchwyl hwnw; canys yr oedd holl feddylfryd calon y llanc wedi ei osod ar bregethu. Yn lle iddo ef rwymo llyfrau, rhwymodd y llyfrau ef. Treiliodd tua deuddeng mlynedd o amser yn yr Amwythig, yn gweinyddu fel bugail i'r eglwys Fethodistaidd Gymreig yno, a rhoddai deithiau i bregethu, yn achlysurol, drwy Ogledd a Deheudir Cymru. Yno y daeth i gydnabydd-

iaeth gyntaf â gweithiau Dr. Owen, darlleniad y rhai, yn enwedig y traethodau ar "Bechod Preswyliedig, a Marweiddiad pechod mewn credinwyr," yn nghyd ag esponiad y Doctor ar y cxxx Salm, a gynyrchasant megis chwyldroad yn ei enaid. Cwynai Mr. a Mrs. Griffiths, ei leteion caredig, mai gwaith mawr fyddai ei gael oddiwrth Dr. Owen at ei brydiau bwyd, ac i'w wely. "Wel," meddai, wedi darllen cyfran o'r gwaith, un tro, "Chwiliaist ac adnabuost fi, megis pe buasai dy lygaid yn gwylio ysgogiadau a gweithrediadau fy meddwl i, pan ysgrifenaist y pethau hyn."

Yr oedd tôn newydd yn ei weinidogaeth o hyn allan. Yr oedd yn bregethwr poblogaidd ac effeithiol iawn cyn hyn; ond yn awr, y mae megis yn gwthio i'r dwfn, ac y mae ei bregethau fel "cleddyf dau-finiog, yn cyrhaeddyd trwodd hyd wahaniad yr enaid a'r yspryd, y cymalau a'r mêr, ac yn barnu meddyliau a bwriadau y galon." Yn hyn, dichon nad gormod dywedyd, na bu o'i flaen, ac na chododd neb ar ei ol, hyd yma, a ragorodd arno, a dyweyd y lleiaf. Cymedrolodd gryn lawer yn ei olygiadau ar rai cangenau o'r athrawiaeth yn ei flynyddau diweddaf, fel y daeth ei bregethau yn fwy ymarferol, yn eu perthynas â gwrandawyr yn gyffredinol, nag oeddynt yn mlynyddau boreuaf ei weinidogaeth.

Tra yn yr Amwythig, ymunodd mewn priodas â'n hanwyl chwaer* sydd yma heno, yn weddw alarus ar ei ol. Bu iddo yn "ymgeledd gymwys," yn llawn ystyr yr ymadrodd, am tua deugain mlynedd.

Yn 1836, symudodd i Liverpool, lle y treuliodd y 33 o

* Y mae hithau, erbyn hyn, wedi myned ar ei ol. Bu farw yn Treborth, Mawrth 20fed, 1879, yn yr 84 flwyddyn o'i hoedran, felly, "Yn hên ac yn gyflawn o ddyddiau," parch, ac anrhydedd.

flynyddau olaf ei oes, mewn parch, dylanwad, a defnyddioldeb mawr. Parhaodd i fyned rhagddo a chynyddu fwy-fwy mewn gras, doethineb, poblogrwydd, a defnyddioldeb hyd derfyn ei oes faith. O ran ei feddwl a'i yspryd, yr oedd megis Moses, "Ni chiliasai ei ireidd-dra," ac ni phallasai ei weithgarwch.

Cafodd, mewn cydmariaeth, fynediad esmwyth drwy y byd. Ni wybu, yn brofiadol, ond ychydig am helbulon a thrallodion bywyd—dim gofidiau teuluaidd drwy gystuddiau a marwolaethau. Bu ei unig blentyn, fel ei mam, yn ffynonell cysur iddo, yn mhob ystyr. O ran ei amgylchiadau, yr oedd uwchlaw pryder yn nghylch y pethau a berthynent i'r bywyd hwn. Yr oedd ei holl bryder a'i ryfel ef yn rhyfel ysprydol, yn ei fynwes ei hun—i "farweiddio pechod, croeshoelio yr hên ddyn," i gadw ei galon, ei dymer, ei eiriau, a'i ymddygiadau yn ddiesgeulus, er diogelu mwynhad gwastadol o gydwybod ddirwystr rhyngddo â Duw. Y mae ambell i lysieuyn gardd, fel y *Camomile*, y rhaid ei sathru cyn y rhydd ei bêr-arogl, wedi y gwneler hyny, efe a leinw yr holl le a'i bêrsawr; y mae llysieuyn arall yn rhoddi ei bêr-arogl allan o hono ei hun, heb ei gymell—yn ei ollwng ar aden yr awel a eheda heibio iddo, heb drais na gwasgiad arno. Y mae cyffelyb lysiau yn ngardd yr Arglwydd; rhaid i'r byd neu'r diafol osod eu traed ar rai cyn y daw eu pêr-arogl allan, ac y mae y Garddwr mawr yn goddef iddynt wneyd hyny, fel yn achos Job a Dafydd, er engraifft. Llysieuyn yn arogli yn esmwyth, o hono ei hun, oedd Henry Rees; ni ddaliasai ond ychydig wasgiad, a gofalodd ei Dad nefol na chafodd na byd, na chnawd, na Satan osod troed arno, fel y cai lonydd i bêr-arogli yn ei ardd, yr hyn a wnaeth am flynyddau lawer, nes llenwi Cymru drwyddi oll â'i arogl pêr.

Yn awr, fy nghyfeillion, "Meddyliwch am eich blaenor".

hwn, a "draethodd i chwi air Duw." Ni chewch mwyach weled ei wedd na chlywed ei lais; ond gellwch feddwl am dano, a galw i gôf yr hên brofiadau a fwynhawyd genych wrth ei wrando lawer gwaith. "Cymerodd Arglwydd y lluoedd oddiarnoch, yr hên ŵr a'r anrhydeddus, y brawdwr a'r cynghorwr doeth, a'r areithiwr hyawdl;" gadawodd adwy fawr ar ei ol, ond y mae yr Hwn a addawodd godi "Pabell Dafydd, cau ei bylchau, a chodi ei hadwyau, a'i hadeiladu eilchwyl fel yn y dyddiau gynt" (Amos ix. 11), eto yn fyw; a chwi, "y rhai ydych yn cofio yr Arglwydd, na ddistewch, ac na adewch ddistawrwydd iddo," hyd nes y cyflawno yr hyn a addawodd.

"Ystyriwch ddiwedd ei ymarweddiad" ef. Dyma y diwedd hwnw wedi dyfod. Cawsoch ef am hir dymor—dim llai na haner càn mlynedd. "Efe oedd ganwyll yn llosgi ac yn goleuo, a chwithau oeddych ewyllysgar i orfoleddu dros amser yn ei oleuni ef" (Ioan v. 34); ond wele y ganwyll a fu yn llosgi ac yn goleuo mor danbaid a di-ball am haner càn mlynedd, wedi llosgi allan a diffodd, yn ei pherthynas â ni; ond, pa fath ddiwedd a fu i'r fath ymarweddiad? Yr oedd efe wedi meddwl a son llawer am y "diwedd" hwnw yn ystod ei fywyd, yn ei bregethau a'i ymddyddanion, ïe, yr oedd "yn marw beunydd." Yr oedd rhywbeth yn arswydlawn iddo, bob amser, yn y meddwl am fyned i'r byd mawr, dieithr, ac ofnadwy, er yn meddu hyder cryf yn niogelwch ei gyflwr. Côf genyf ei fod yn aros yn fy nhŷ, yn Dinbych, ar adeg Cymanfa Chwarterol y Methodistiaid yno, yn mis Mawrth, 1837; bore dydd y Gymanfa, derbyniwyd y newydd am farwolaeth y Parch. Ebenezer Richards, Tregaron, yr hyn a effeithiodd yn ddwys iawn arno; bu yn fud am enyd, dywedai yn y man, "Wel, y mae efe, erbyn hyn, wedi ymuno â chymanfa 'Ysprydoedd y rhai cyfiawn, y rhai a berffeithiwyd;' y mae rhywbeth sydd

yn ofnadwy yn y meddwl." "Beth," meddwn, "rhywbeth yn ofnadwy yn y meddwl o fyned i'r nefoedd?" "Ië," meddai yntau, "'Mor ofnadwy oedd y golwg, ac y dywedodd Moses, yr wyf yn ofni ac yn crynu.' Os oedd y datguddiad a wnaeth y Brenin mawr o hono ei hun ar Sinai, yn peri i Moses ofni a chrynu, beth fydd ef i rai fel nyni, pan elom i oleuni dadguddiad llawer helaethach o'i fawredd Ef yn y byd hwnw?" Am ddeg o'r gloch y bore hwnw, pregethodd yn Nghapel yr Annibynwyr, ar y testyn, "Paham y crëaist holl blant dynion yn ofer?" gyda nerth a dylanwad anarferol. Ond pa fodd yr ymdarawodd efe yn y diwedd? Yr ateb mwyaf priodol ellir roddi i'r cwestiwn, fyddai geiriau y proffwyd (Esa. xxvi. 3); "Mewn tangnefedd heddychol." Mae yn amheus a oedd efe yn gwybod ei fod yn marw, er fod ei ymwybyddiaeth ganddo ar y pryd. Ni chafodd y "gelyn diweddaf" ddangos ei wyneb iddo; yr oedd megis pe tybiem ddarfod i angel o'r nef roddi dogn o *Chloroform* y wlad fry iddo, nes oedd yn gyffelyb i ddyn dan ddylanwad y cyffyr daearol hwnw, pan torir aelod iddo ymaith, yn synu wedi y delo ato ei hun, weled fod ei aelod wedi ei dori ymaith, ac yntau heb deimlo dim oddiwrth yr oruchwyliaeth a gyflawnesid arno. Yn y nefoedd y gwybu yntau ei fod wedi rhodio trwy lŷn cysgod angeu, fod ei holl gysylltiadau daearol wedi eu tori; synodd yntau ddarfod iddo groesi yr afon yn ddiarwybod iddo ei hun.

Sylwai cyfaill wrth Whitfield, un tro, ei fod yn disgwyl y ceid clywed rhyw bethau gogoneddus ganddo ef, Mr. Whitfield, ar ei wely angeu. "Nid wyf fi yn disgwyl hyny o gwbl," oedd yr ateb. "Pa fodd felly?" gofynai y cyfaill. "Yr wyf fi, drwy ras Duw," atebai yr efengylwr, "wedi dwyn fy nhystiolaeth yn fy mywyd, fel nad oes angen am beth felly yn dystiolaeth ar fy ol." Ac felly y bu; ni ddywedodd Mr. Whitfield ddim oedd yn hynod wrth farw. Felly hefyd

y bu Henry Rees farw. Yr oedd ei holl fywyd yn dystiolaeth gref, eglur, a difwlch o'i burdeb duwiol, fel nad oedd angen am dystiolaeth oddiar ei wely angeu ef er sicrhau diogelwch ei gyflwr yn meddyliau pawb a'i hadwaenent. "Pe buasai y nefoedd wedi ei llenwi, fel na allesid derbyn un yn ychwaneg i mewn iddi, buasai raid crëu nefoedd newydd, o bwrpas, i wneyd lle i Mr. Rees," ebai y *Principal* Edwards (Aberystwyth yn awr, Liverpool y pryd hwnw), wrth gyfeirio at ei farwolaeth mewn cyfarfod cyhoeddus yno. A gwên siriol yn gwisgo ei wedd y gwelsom ef yr olwg olaf a gawsom arno, yn ei arch, cyn ei gychwyn i'w fedd. Yr oedd y wên hono megis yn llongyfarch y bedd fel gwely tawel i orphwys ynddo mewn tangnefedd, hyd

> "Wawr y dydd mawr ymâd
> A'u lleoedd haul a lleuad."

# AN ELEGY

On the death of the late

# REV. H. REES, LIVERPOOL.

---

HYSBYSIAD,

Mewn llyfryn bychan a gyhoeddwyd ryw dair blynedd yn ol, dan y teitl "CATHLAU HENAINT," ymddangosodd yr Alareg a ganlyn, gyda'r dyheurawd a ganlyn:—"Os gofynir paham y cyfansoddwn yr Alareg hon yn Saesoneg, rhaid i mi ateb na wn i ddim yn wir. Dichon fod genyf ryw reswm y pryd hwnw; os oedd, nid wyf yn awr yn cofio beth oedd; fodd bynag, felly fu." Rhoddir lle iddi yn y "KOHELETH," i ddilyn y bregeth flaenorol, ar ddymuniad amryw gyfeillion a glywsent am dani, ond oeddynt heb erioed ei gweled, felly, dyma hi.

"CAN this be death—that 'king of terrors?' No—
Death hath a sting, this hath no sting," he said,
In deep soliloquy within himself:
"From early youth the hideous form of death
Has been familiar to my timid mind,
But this steals o'er my senses like a charm;
I feel even happy in its strange embrace,
And yet, I feel it quietly absorbs
My strength, my breath, my life—it may be death."

Invisible to the weeping friends around,
Close by his side, his guardian angel stood,

Who, whispering in his ear, said, "Fear not,
Beloved sister spirit, 'tis not death,
'Tis but a sleep, a sweet refreshing sleep,
From which thou shalt awake one blessed morn,
Refresh'd, renew'd, in blooming vigorous youth,
To wear a crown of immortality."
The angel took a feather from his side,
Dipp'd in ambrosial nectar from on high,
And with it touch'd his lips; thereon he smil'd;
And such a smile it was, so heavenly sweet,
As seldom seen on mortal lips before;
And from that smile, the angel kissed away
The ransom'd soul, and set it as a gem
Upon his breast, and fled away to heaven.

The radiant smile upon the lifeless lips,
Remained to indicate the bliss, the joy,
Which fill'd the soul on its departure hence
To heavenly rest, and as a mild rebuke
To sorrowing friends who wept around the scene;
As if the spirit through it said, "My friends,
Think ye that this is death? Well, be it so,
I look on death, indeed, not as a foe,
But as to me a kind, a tender friend.
To you, my dear ones, I leave this smile
As token of affection for you all;
When you shall come to die, may you enjoy
That taste of bliss which makes me thus serene—
And when the appointed day is come to lay
This mortal body in the dust—commit
It to the grave, in sure and certain hope,
And let this smile light up the dismal gloom."

O, sainted Spirit! we have followed thee
In fond imagination thro' the skies,
As thou went smiling, 'pon the angel's breast,
Away from earth, this land of sorrow and pain,
To heaven, that land of life, of love, of joy—
That state of sinless purity for which,
Like panting hart, thy pious soul did thirst
For many, many years. In thought, we saw
The approving smile of Him who loved thee—
Whom thou did'st love,—just as He welcomed thee,
As true and faithful servant, to thy rest,
Where joys and pleasures reign for evermore.

Do'st thou retain in thine exalted state,
Some recollections of thy boyish days,
When on thy native mount thou there did'st watch
Thy father's flock among the barren heath?
Like Jesse's son of old, on Bethlehem hills,
Who there attun'd his harp, and exercis'd
His noble gifts of poetry and song;
So thou on mount Hiraethog in thy youth
Dids't spend the precious days, training thy gifts,
In silent meditations and in prayer.
That mountain was to thee a sacred spot—
The Mount of God, as Horeb was to him
Who led the captive host of Israel free
From bondage, to the land of promised rest.

We fancy thou do'st sometimes call to mind
Rhydloew's ancient barn, Sirhior's stall,
Wherein those days thou did'st begin to school
Thy talents as a preacher, for the work—

The great, the sacred work on which thy heart
Was bent from infancy to consecrate
Thy life, thy time, thy powers, all to serve.
We picture thee as saint in glory now,
Revolving in thy mind those past events,
Modestly blushing, casting now and then
A timid glance toward the Great High Priest,
Who sitteth on the Throne, and He on thee
His gracious smile bestowing, as if to say,
"I know, my well beloved one, thy thoughts,—
Which, working in thy mind, did cause that blush.
I saw thee on the mountain, in the barn—
Those childish efforts of thy tender youth
To train and fit thyself to preach My Name,—
I witnessed at the time, and smil'd upon them
A smile of approbation; and I heard
Thy prayers then, and granted thy desire.
I smile upon thee now, thy work is done,
Be happy in my love for evermore."

We, thy bereaved, longing friends on earth,
Endeavour to appease our sorrowing hearts
With thoughts of thy felicity in heaven,
Where neither sin nor sorrow shall disturb
Thy happiness again—no dismal cloud
Shall ever pass between thee and the face
Of thy beloved Saviour. Thou hast had
Abundant entrance to the realms of bliss—
Surrounded by the great and glorious host
Of angels, patriarchs, prophets, and apostles;
"The noble army of martyrs," all the saints,
Foremost of all, we venture to presume,
Thy sainted parents welcomed thee, their son—

(That was their son), to join the company
Of blessed spirits; and a host of them
Who were thy friends and fellow labourers
But had gone before thee to their heavenly rest;
All hastened forth to meet thee. We conceive,
Our fancy tells us so, that thou did'st ask
Thy guardian angel to direct thine eye
To Doctor Owen, and to introduce
Thee unto him. Ac os mai felly fu,
Adroddaist iddo'n ddiau, gyda blâs,
Hên 'stori'r 'Mwythyg—y gyfrinach ddofn
Fu rhwng dy yspryd di a'i yspryd ef,
Yn yr ystafell dawel hono, pan
Yn dwys fyfyrio yno uwchben ei waith
Ar "Bechod preswyliedig yn y saint,"
Pryd yr arweiniai di i ddieithr fyd
Anadnabyddus, ond mewn rhan o'r blaen;
Y byd o lygredd a thrueni dwfn
Hanfoda 'nghudd yn nyfnder natur dyn,
Nes peri iti synu a thristau—
Oh'neidio, wylo, ac anobeithio 'mron,
A gwaeddi, "Pwy a'm gwared! Pwy'm rhyddha!
O dŷn gadwynau'r llygredigaeth hwn?"
Ac fel y gwnai dy arwain yn ei law
I wel'd byd newydd arall, byd o ras—
Rhyw olwg newydd ar ogoniant mawr
Person a gwaith cyfryngol Iesu Grist;
Anfeidrol rîn ei angeu drud a'i waed;
Which did create, as thou hast often said,
A new, a blessed era in thy life
As Christian and a preacher, and the light
Became more strong, and clearer every day,

Until, at last, thy soul was swallowed up
In that eternal day of glory in heaven!

Thrice blessed, happy spirit! now adieu;
We leave thee in that glory, not alone,
But there among innumerable hosts,
Out of all nations, kindreds, peoples, tongues,
Who stand before the Throne—before the Lamb,
All who have washed their robes, and made them white
From all pollution, in His precious blood.

We love to go to that secluded spot
Sometimes, wherein thy mortal body rests,
To pay a willing tribute of respect
To thy revered name, thereon to drop
A silent tear on thy silent tomb.

Sleep on, thou Prince of Preachers, sleep in peace,
Thy work on earth is done, sleep on, sleep on;
Thy course is finish'd, and the battle won;
Sleep on until that blessed morn shall dawn,
When oe'r thy tomb th' Archangel's trump shall sound
To awake thy precious dust to life again!

## PREGETH XXI.

## YR YSPRYD A'R BRIODASFERCH:

NEU

## GWEINIDOGAETH YSPRYD AC EGLWYS DDUW.

"Ac y mae yr Yspryd a'r briodasferch yn dywedyd, Tyred. A'r hwn sydd yn clywed, dyweded, Tyred. A'r hwn sydd a syched arno, deued: a'r hwn sydd yn ewyllysio, cymered ddwfr y bywyd yn rhad."—*Dat.* xxii. 17.

Y MAE y testyn yn rhan o ddiweddglöad y Datguddiad Dwyfol; yn cynwys arganmoliaeth ragorol iddo, yn eglurhâd o'r hyn sydd gynwysedig ynddo, ac yn daer wahoddiad ar fyd tlawd ac angenus i ddyfod i gyfranogi o fendithion grasol yr iachawdwriaeth gyflawn a ddadguddia. Llefarwyd ei eiriau gan wahanol dafodau; ysgrifenwyd ei gynwysiad gan wahanol ddwylaw; ond yr un a'r unrhyw Yspryd a'u cyfarwyddodd oll: "Megis ag y rhoddes yr Yspryd iddynt ymadrodd" y llefarent. "Pan gynhyrfid hwynt gan yr Yspryd Glân" y *gwnaent* lefaru, ac "Megis y cynhyrfid hwynt" hefyd, y llefarent. Moses, yr hwn a anrhydeddwyd fwyaf gan Dduw dan oruchwyliaeth yr Hên Destament, a ysgrifenodd y rhan gyntaf o hono; ac Ioan, y dysgybl anwyl, yr

hwn a anrhydeddwyd fwyaf gan Dduw mewn cnawd, a ysgrifenodd y rhan olaf o hono. Yr hwn y llefarodd Duw wrtho "wyneb yn wyneb, fel y llefara gŵr wrth ei gyfaill," a'i dechreuodd; a'r hwn a bwysodd ei ben ar fynwes yr Iesu ar y Swper, a'i gorphenodd. Y mae yr holl Lyfr i gael ei adael yn agored ger bron y byd: gorchymynir peidio cau na selio ar y geiriau. Nid oes dim o'i fewn ag sydd yn annheilwng o'i Awdwr; nid oes arno ofn iddo gael ei chwilio. Y mae croesaw i gyfeillion a gelynion edrych i mewn iddo; ïe, gwahodda hwynt ato, a hèria yr ymchwil manylaf i nodi allan *un* gwyrni na thrawsedd, twyll neu anghysonder o'i fewn. Y mae llawer o'i ragfynegiadau *wedi* eu cyflawni, ereill yn cael eu prysur gyflawni y dyddiau hyn, a llawer *heb* eu cyflawni eto; ond "nid â un iòd, nac un tipyn o hono heibio, hyd oni chwblhaer oll." Yr holl ragfynegiadau am helaethiad a llwyddiant teyrnas y Messia; pregethiad o efengyl y deyrnas drwy yr holl fyd; darostyngiad yr holl genhedloedd a'r Iuddewon i lywodraeth ei hyspryd a' hegwyddorion; llwyr ddymchweliad a dinystr ei holl elyni ion; gwaredigaeth a rhyddhad y "briodasferch, gwraig yr Oen," o byrth angeu yn y dydd diweddaf, a'i llawn ogoneddiad gyda'i Phriod yn y nefolion leoedd; a gwisgiad ei holl elynion â gwarth a dirmyg tragwyddol, &c.; a gyflawnir oll, hyd ystyr eithaf pob un o honynt, mor sicr a bod ei ragfynegiadau am Grist a'r genedl Iuddewig wedi eu cyflawni yn barod.

Cyhoeddir yn wynfydedig "bob un sydd yn darllen ac yn cadw geiriau llyfr y broffwydoliaeth hon," a chyhoeddir bygythion trymion uwchben y neb a ryfygo ychwanegu ato, tynu dim oddiwrtho, neu gyfnewid dim arno; rhaid ei adael byth fel ag y gadawodd Duw ef.

Llef olaf y Beibl, megis, ar y byd yw y testyn. Y mae yma "ddrws mawr a helaeth" yn cael ei agoryd ger bron y

byd, "yr hwn ni ddichon neb ei gau." Agorwyd cil drws gobaith yn nechreu y llyfr, yn yr addewid o "Hâd y wraig" yn Eden; ac y mae yn deilwng o sylw mai yr un allwedd ag a ddatododd y clo oedd ar gyflwr *dyn* syrthiedig, a roddodd glo bythol ar *angel* syrthiedig. Yr oedd y geiriau hyny fel y golofn oedd rhwng llu yr Aifftiaid a llu Israel, yn oleuni i'r naill ac yn dywyllwch i'r llall. Yr oedd y drws yn cael ei agoryd letach letach yn barhaus; mwy o oleuni trefn iachawdwriaeth yn tywynu ar y byd o oes i oes; o Adda hyd Moses, ac o Moses hyd Grist; ac o Grist hyd derfyniad y rhôl ysprydoledig; ac yn ngeiriau y testyn, teflir drws iachawdwriaeth yn llydan agored o flaen pob math a phob gradd o bechaduriaid, a gadewir ef felly heb ei gau na'i gyfyngu.

Y mae llawer o daerion wahoddiadau yma a thraw ar hyd-ddo. *Bu* rhagflaenoriaid a gweision y Priodfab yn gwahodd ac yn galw: Esaia efengylaidd a lefai, "O! deuwch i'r dyfroedd bob un y mae syched arno, ïe, yr hwn nid oes arian ganddo," &c. "Trowch eich wynebau ataf fi holl gyrau y ddaear," &c. *Bu* "cyfaill y Priodfab, yr hwn oedd yn sefyll yn ei ymyl ef," yn cymhell ac yn gwahodd, gan ddywedyd, "Wele Oen Duw, yr hwn sydd yn tynu ymaith bechodau y byd." *Bu* y Priodfab ei hun yn taer alw, "Deuwch ataf fi, bawb ag sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythaf arnoch;" "Od oes ar neb syched, deued ataf fi ac yfed." Anfonodd weision hefyd allan, a gorchymynodd iddynt gymhell cynifer oll ag a gaffent i ddyfod i mewn, a chyfranogi o'r wledd a baratoasai. Yn awr, cyn tewi, cynulla y Beibl ei holl nerth, a thywallta ei holl enaid i'r alwad ddiweddaf hon; er llwyr argyhoeddi pob pechadur, yn mhob man, o'r pob croesaw sydd iddo ddyfod yn mlaen a chyfranogi o'r iachawdwriaeth y mae yn ei ddadguddio. Hysbysa iddo bod yr Yspryd, yr hwn a

lefarodd yr ysgrythyrau, yr hwn y mae gofal holl ddarpariadau trefn gras yn ei law, yn galw arno i ddyfod; bod y briodasferch, yr eglwys, yr hon sydd eisoes wedi cyfranogi o'i bendithion, yn cyduno â'r Yspryd i'w wahodd; ac yn mhellach, awdurdoda bob un sydd yn clywed llais yr Yspryd a'r briodasferch, i gyd-wahodd; a geilw ar bob un sydd â syched arno i ddyfod yn mlaen yn ddibetrusder i dori ei angen. A rhag y buasai rhyw bechadur gwan-galon yn gwneuthur camgymwysiad o'i ymadrodd, gan feddwl mai pechadur â rhyw gymmwysder ynddo a olygid, sef un calon-ddrylliog a gwir edifeiriol, ychwanega, "A'r hwn sydd yn ewyllysio, cymered ddwfr y bywyd yn rhad." Y mae pob esgus yn cael ei lwyr dori i lawr, cipir holl wrthresymau y pechadur o'i enau, fel ag y rhaid iddo naill ai dyfod yn mlaen a derbyn iachawdwriaeth, neu orwedd i lawr i farw heb un glustog dan ei ben, heb un gorchudd o esgus drosto i'w gysgodi; marw am y *myn* farw. "Fy holl gaseuon a garant angeu."

Sylfeinir y sylwadau a gynygir oddiwrth y testyn ar y ddau beth canlynol:—

I. Bod yr Yspryd Glan a'r Eglwys mewn undeb a chydweithrediad a'u gilydd yn y gwaith mawr o ddychwelyd y byd at Grist.—"*Y mae yr Yspryd a'r briodasferch yn dywedyd, Tyred.*"

II. Seiliau eu gweinidogaeth at y byd.

I. *Bod yr Yspryd Glân ac Eglwys Crist mewn undeb, ac yn cydweithredu â'u gilydd yn nygiad yn mlaen y gwaith mawr o ddychwelyd y byd at y Gwaredwr, a'i ddwyn i afael a mwynhad o'r iachawdwriaeth a ddadguddir yn yr efengyl.* Y mae yr Yspryd a'r briodasferch yn gydweithredyddion yn y gorchwyl; ni *all* y briodasferch ddwyn y gwaith yn mlaen heb yr Yspryd, ac ni *fyn* yr Yspryd fyned âg ef yn mlaen heb y briodasferch. Cyflawnodd y Priodfab ei waith

ef ei hunan, heb gynorthwy neb; "O'r bobl nid oedd neb gydag Ef." Aeth i waered i Edom, a daeth i fyny o Bozra; sathrodd y gwinwryf ei hunan, heb ofyn na cheisio cymorth neb. Yr oedd natur ei waith Ef y fath na allasai neb, dynion nac angelion, roddi cynorthwy iddo yn y cyflawniad o hono. Yr oedd rhoi "Iawn dros bechodau yr holl fyd;" dwyn i mewn "gyfiawnder tragwyddol;" parotoi "iachawdwriaeth ger bron wyneb yr holl genedloedd," &c., yn waith ag oedd raid iddo ei gyflawni trwy nerth "ei fraich ei hun." Dwyn y byd i gyflwr achubadwy oedd ei waith Ef; a dwyn y byd i gyflwr achubedig yw gwaith yr Yspryd. A chan fod lle i'r briodasferch weithio ac ymegnïo yn nygiad hyn oddiamgylch, cymer yr Yspryd hi i fod yn gydgyfranog âg ef ynddo. Dyma ei drefn ef, ac ni ddaw allan o honi; nid â yn groes iddi. Nid â i un man heb y briodasferch gydag ef; ni wna y gwaith heb ei chydweithrediad mewn rhyw fodd neu gilydd. Anfonodd y Priodfab y briodasferch allan i'r holl fyd i ddywedyd wrth y byd, ac i ddangos i'r byd ragoriaethau ei Hanwylyd, a sicrhaodd y byddai i'r Yspryd, y Dyddanydd bendigedig, gydrodio â hi bob cam, tra y rhodiai hi yn ol ei gyfarwyddiadau ef. Yr un weinidogaeth sydd gan yr Yspryd a'r briodasferch; yr un peth sydd ganddynt i'w ddywedyd wrth y byd; a'r un dyben ac amcan sydd ganddynt mewn golwg.

Sylwn, yn mlaenaf, ar y weinidogaeth fel gweinidogaeth yr Yspryd.

1. *Ei chynwysiad, neu ei sylwedd, "Tyred."* Dyma swm holl leferydd yr Yspryd yn yr ysgrythyrau. Ei feddwl ef yw y Beibl; y mae yn llefaru ynddo mewn llawer dull a llawer modd. Y mae yn dynoethi truenus gyflwr moesol y byd trwy bechod; ei hollol lygredigaeth a'i dlodi; ei gwbl analluogrwydd i'w waredu ei hunan byth; yn ei "gyd-gau dan bechod;" yn ei osod allan fel wedi ei "ddamnio

eisoes;" ac yn dwyn ei ymffrost a'i obaith yn llwyr oddi arno. Ger bron byd tlawd, euog, truenus, a cholledig fel hyn, y dadguddia Waredwr a gwaredigaeth. Gosodai ef allan mewn addewidion, cysgodau, a phroffwydoliaethau, cyn iddo ddyfod i'r byd; codai y proffwydi, yr offeiriaid, a'r aberthau, fel mynegfysedd i gyfeirio ato o oesau boreuaf amser. Am dano ef yr ysgrifenai Moses; iddo ef y dygai "yr holl broffwydi dystiolaeth y derbyniai pawb a gredai ynddo ef faddeuant pechodau." Cyfeiriai a gwahoddai ato drwy yr holl ebyrth; ceidw olwg y byd at y Gwaredwr trwy holl gylchgyfnewidiadau yr oesau, nes ei arwain i Bethlehem Juda, ac y dengys "yr hwn yr ysgrifenai Moses a'r proffwydi am dano," yn y dyn bach a orweddai gyda Mair ei fam yn y preseb. Gesyd hanes ei fywyd pur, ei athrawiaeth ysprydol a sancteiddiol, ei wyrthiau nerthol a rhyfeddol; ei ddioddefiadau, ei ing, a'i angeu, ei gladdedigaeth, ei adgyfodiad a'i esgyniad i'r nef; ei eisteddiad ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwchleoedd, yn nghyd â dybenion moesol y cwbl ger bron y byd.

Yr Arglwydd Iesu Grist, yn mawredd ei berson, ei osodiad i fod yn Gyfryngwr rhwng Duw a dynion, yn rhinwedd ei ufudd-dod perffaith hyd angeu y groes, ei anfeidrol addasrwydd a'i ddigonolrwydd fel Gwaredwr, a esyd yr Yspryd yn ganolbwynt yr ysgrythyrau; a Moses a'r proffwydi, y Salmau, a'r efengylwyr, a'r apostolion, fel gosgordd-sêr yn troi o'i amgylch, ac yn derbyn eu goleu a'u gwres oddiwrtho. Y dyben mawr yn hyn oll yw gogoneddu Crist, fel Gwaredwr, yn ngolwg y byd. Dynoetha gyflwr truenus y byd er ei argyhoeddi o'i angen am Waredwr; a dengys, yn Nghrist, yr unig Waredwr addas a digonol iddo; a'r amcan yn y cwbl ydyw cael y byd ato. Y mae yr Yspryd trwy yr holl bethau hyn "yn dywedyd, Tyred." Gellid crynhoi ei holl leferydd yn y Beibl, sŵn y bibell a'r alarnad, y bygythion

a'r addewidion, yr holl resymau a'r anogaethau, a sylwedd holl gangenau yr athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb, i'r un gair hwn—"TYRED."

Nid oes dim yn holl leferydd yr Yspryd, fel y maent yn y Beibl, i darfu un pechadur a'i ddal draw; un athrawiaeth wedi ei bwriadu i fod yn faen tramgwydd rhwng byd colledig a Cheidwad; un graig rhwystr yn cael ei gosod o'i flaen; ond yn ei holl leferydd, y mae yn "codi y rhwystrau," ac yn "digaregu y ffordd." Nid yw yr Yspryd sanctaidd yn dywedyd un peth yma, a pheth arall draw; na byth yn dywedyd un peth ac yn meddwl peth arall; y mae ei holl leferydd mewn perffaith gysondeb â'i gilydd, ac yn gyson â'i feddwl yntau; a dyma sylwedd y cwbl yn ei gyfarchiad diweddaf i'r byd, "TYRED."

2. *Y mae yr Yspryd yn ddiffuant yn ei weinidogaeth.* Y mae yn teimlo fel y mae yn dywedyd. Y mae mor ddiffuant ag oedd Iesu Grist, yr hwn a dristäai ac a wylai o herwydd calon-galedwch pechaduriaid. Nid yw yn gwahodd ac yn cymhell, heb fod yn waeth ganddo pa un a ddelo dynion ai peidio. Y mae yr ymadroddion mwyaf cynhyrfus yn cael eu defnyddio i osod allan ddidwylledd a diffuantrwydd yr Yspryd bendigedig, yn ei holl ymwneyd â gwrthddrychau ei weinidogaeth. Gosodwn rai o honynt ger bron, gan adael iddynt lefaru drostynt eu hunain. "O! na byddai ynddynt gyfryw galon i wrando ar fy llais, ac i'm hofni byth, fel y byddai da iddynt," &c. "O! na wrandawsai fy mhobl arnaf, na rodiasai Israel yn fy ffordd," &c. "Hwythau oeddynt wrthryfelgar, ac a ofidiasant ei Yspryd sanctaidd Ef." "Pa fodd y'th roddaf i fyny, Ephraim? y'th roddaf heibio, Juda? Trôdd fy nghalon ynof." "Ac na thristewch lân Yspryd Duw," &c. Pa beth, mewn difrif, a arwydda y fath ymadroddion grymus? Naill ai y didwylledd a'r difrifoldeb cywiraf—gwir awyddfryd i lesau a ded-

wyddu pechaduriaid truenus—neu y gellweiriaith fwyaf twyllodrus, dan rith y difrif-ddwysedd mwyaf a ellir ei osod allan mewn iaith; ond "Na ato Duw! eithr bydded Duw yn eirwir, a phob dyn yn gelwyddog." Na, na, bechadur, y mae yr Yspryd yn ddidwyll a diffuant uwch ben dy gyflwr, yn ei air, ac yn ei ymrysoniadau â'th feddwl trwy y gwirionedd. Tra yr wyt ti yn cellwair â dy ddamnedigaeth dy hun, ac â'r weinidogaeth, y mae y Golomen addfwyn yn tristau o herwydd dy ymddygiad. Y mae dy barhaus anufudd-dod i'r efengyl, dy wrthodiad o'i chynygiadau grasol a thaerion, yn ei ofidio Ef. Ehedodd ar adenydd cariad a chymwynasgarwch, o'i gysegr sancteiddiolaf, pan gafodd y ffordd yn rhydd yn rhwygiad y llen, sef ei gnawd Ef, a disgynodd wrth riniog dy ddrws i guro, a dadleu dros Grist, am dderbyniad iddo yn dy galon. Y mae wedi dy ddilyn am flynyddau, mynychu ei gynhyrfiadau, gan ymryson yn dirion, a chymhell yn daer, gan ddywedyd, "Heddyw, os gwrandewi ar ei leferydd Ef, na chaleda dy galon;" ac y mae dy waith yn myned ymaith yn ddiystyr genyt bob tro, yn "difenwi Yspryd y gras," ac yn ei dristau. Y mae yr Yspryd yn dywedyd "*Tyred*," ac y mae yn ddiffuant yn teimlo fel y mae yn dywedyd.

3. *Natur y weinidogaeth.* Sylwasom o'r blaen ar ei chynwysiad, ei symledd, a'i didwylledd; ac yn mhellach, mewn perthynas i'w natur, gallwn sylwi mai moesol ydyw, ac nid anianyddol, neu naturiaethol. Cyfnewidiad moesol yw y cyfnewidiad a weithredir gan yr Yspryd Glân ar yr enaid, ac nid cyfnewidiad naturiol. Yr un yw y dyn yn hollol, fel creadur, wedi ei ail-eni a'i ddychwelyd, ag oedd o'r blaen; ond mewn ystyr foesol ac ysprydol, y mae yn greadur newydd. Yr un oedd Adda fel creadur, mewn ystyr anianyddol, neu naturiol, wedi pechu ag ydoedd cyn pechu; ond mewn ystyr foesol yr oedd yn greadur newydd. Felly, yr

un yn hollol yw dyn wedi ei gyfnewid gan Yspryd Dduw, o ran ei alluoedd a'i gyneddfau, ag oedd cyn hyny; ni roddwyd dim ato, ac ni thynwyd dim oddiwrtho, yn yr ystyr yma.

Ymddengys, mai os drwg moesol yw pechod, ac os, o ganlyniad, mai llygredigaeth moesol yw llygredigaeth dynolryw, mai meddyginiaeth neu ddylanwad o natur foesol, yn unig, sydd gyfaddas ac angenrheidiol er ei symud. Tebygwn fod hyn yn ymddangos yn eglur ar unwaith. Os meddyliwn, o'r tu arall, fod y pechadur yn ddiffygiol o alluoedd a chymwysderau i garu Duw, a chadw ei orchymynion; yna y mae arfer moddion moesol tuag ato yn hollol ofer; y maent yn ddiffygiol ac anmhriodol i'w gyflwr. Y mae yn rhaid cael rhyw waith anianyddol, neu naturiol, arno, adferiad o'r galluoedd a'r cymwysderau ag y mae yn fyr o honynt, cyn y gall fod yn wrthddrych addas i weinidogaeth moddion moesol ymwneyd âg ef; ac felly y mae yn wrthddrych teilwng o dosturi, yn hytrach nag i'w feio. Ond y mae yr holl Feibl yn cytuno i'w feio a'i ddiesgusodi, yn priodoli ei holl drueni i elyniaeth ei galon at Dduw a'r hyn sydd dda, ei gyndynrwydd a'i wrthryfelgarwch, ei benderfynol ymroddiad i wasanaethu ei chwantau, ei fod yn gwirfoddol ddewis pechod a drygioni, ac felly yn troi i'w ffordd ei hun; ac os felly, nid oes dim a wnelo Yspryd Duw, mewn modd naturiol ac uniongyrchol, âg ef. Yr hyn sydd yn angenrheidiol yw, dylanwad i ladd gelyniaeth ei galon, maeddu ei gyndynrwydd, enill ei ewyllys, ei droi o feddiant satan at Dduw, &c.

Diau fod llawer o'r dyryswch a'r dadleu yn nghylch y mater hwn yn codi oddiar olygu ymadroddion y Beibl pan yn llefaru am dano, yn yr un ystyr a phan eu cymwysir at fater neu ddefnydd. Arferir yr un geiriau ac ymadroddion gan yr Yspryd Glân, trwy yr ysgrifeniadau sanctaidd, i osod

allan bethau naturiol a phethau ysprydol; pethau anianyddol a phethau moesol; a'u golygu yn yr un ystyr, gyda golwg ar y naill a'r llall, sydd yn sicr o arwain i ddyryswch a chamsyniad. Y mae golygu yr ymadroddion *creu, bywhau, adgyfodi*, &c., fel yn arwyddo yr unrhyw weithrediad a dylanwad o allu yn ngwaith yr Yspryd yn nghadwedigaeth pechadur, ag yn nghreadigaeth a bywhad anianyddol y byd defnyddiol (*material world*), yn ein harwain ar unwaith i ddyryswch ac anghysonderau. Mae dylanwad, nerth, a gallu anianyddol, neu naturiol, yr un mor amhriodol i greu, bywhau, ac adgyfodi, mewn ystyr foesol ac ysprydol, âg a fyddai dylanwad moesol i greu, bywhau, ac adgyfodi pethau neu ddefnyddiau naturiol. Felly, pan sonir am greu, &c., mewn ystyr anianyddol, yr ydym i ddeall fod gallu anianyddol neu naturiol y Duwdod yn gweithredu; a phan gymwysir yr un ymadroddion at waith Yspryd Duw yn achubiaeth pechadur, megis ei "greu o newydd yn Nghrist Iesu i weithredoedd da;" ei fywhau trwy ras, ei adgyfodi o fedd camwedd a phechod—geiriau a ddefnyddir i osod allan gyfnewidiad moesol ei gyflwr ysprydol—golygir nerth a dylanwad o'r un natur â'r cyfnewidiad ei hun.

Buom yn arfer dywedyd bod mwy o nerth a gallu y Duwdod yn cael ei amlygu yn achubiaeth un pechadur nag sydd wedi ei amlygu yn nghreadigaeth y bydoedd, yn gymaint ag nad oedd un gwrthwynebiad iddo yn y gwaith hwnw; ond bod holl alluoedd uffern, a llygredigaeth calon dyn yn ei wrthsefyll i gyflawni y gwaith hwn; fel pe buasai gwrthwynebiad creaduriaid, y rhai nad ydynt oll ond llai na dim ger ei fron Ef, yn rhyw gymaint o atalfa i'r Hollalluog ei hunan i ddwyn ei amcanion i ben. A golygu nerth anianyddol y Duwdod, yn effeithio cyfnewidiad pechadur, y mae yn amhosibl fod hwnw yn cael ei amlygu a'i ogoneddu yn yr amgylchiad hwn i'r fath raddau ag y mae yn nghreadig-

aeth a chynaliaeth yr aneirif fydoedd mawrion sydd wedi eu gosod i grogi a throi yn y gwagle annherfynol fry. "Beth yw dyn, yr hwn sydd brŷf, na mab dyn, yr hwn sydd abwydyn," o flaen nerth a gallu yr Hwn a gymer i fyny yr "ynysoedd fel brycheuyn;" o flaen yr Hwn nid yw yr "holl genhedloedd" ond fel "defnyn o gelwrn, neu fân lwch y clorianau?" Ië, "yn ddiddim, yn llai na dim, ac na gwagedd y cyfrifwyd hwynt ganddo." Yn sicr, ynte, pan y mae y Beibl yn sôn am "ragorol fawredd ei nerth Ef yn y rhai sydd yn credu, yn ol gweithrediad nerth ei gadernid Ef," &c., rhaid i ni olygu rhyw allu, nerth, a chadernid gwahanol i allu a nerth anianyddol, neu naturiol, y Duwdod, cyn y gallwn weled priodoldeb a chysondeb y fath ymadroddion. Creadigaeth a chynaliaeth y bydoedd a ddengys, ac a ogonedda, "dragwyddol allu" y Duwdod, ïe, "*amlder* ei rym a'i *gadarn* allu" anianyddol, uwchlaw dim arall; ond yn nghyfnewidiad ac achubiaeth pechadur, y dygir i'r golwg ac y gogoneddir nerth arall; sef nerthoedd cariad a gras, amynedd a thosturiaethau Duw, "rhagorol fawredd golud ei nerth Ef," nid yn unig yn goddef y pechadur cyndyn a gwrthryfelgar heb ei ddistrywio pan yn "sarnu ffyrdd ei ddinystr;" yn "gosod ei enau yn erbyn y nefoedd," ac yn "rhedeg iddo yn y gwddf, trwy dewdwr tôrau ei darianau Ef;" ond yn ei ddilyn â daioni; yn diferu brasder ar ei lwybrau; yn tywallt olew ei gymwynasgarwch ar ei ben; a mwy na hyny, yn "estyn ei law" tuag ato "ar hyd y dydd" am gymod" yn erfyn ac yn deisyf arno dderbyn ei heddwch a'i ras; yn myned ar ei lŵ, gan dyngu ar ei fywyd, nad oes ganddo ewyllys yn ei farwolaeth; yn parhau flwyddyn ar ol blwyddyn i ymryson yn dirion âg ef fel hyn; Mab Duw yn sefyll wrth ddrws yr adyn calon-galed i guro ac erfyn am dderbyniad i mewn; Yspryd y gras yn parhau i wresog ddadleu â phryfyn drewedig y domen am ddeugain

mlynedd, fe allai; nes o'r diwedd ei gael i lawr, toddi ei galon adamantaidd mewn edifeirwch, a pheri i'r hên wrthryfelwr bradwrus ollwng ei arfau i syrthio o'i ddwylaw, ac ymdreiglo wrth draed trugaredd; hyn oll hefyd er atal peth na buasai yn golled i neb, ond i'r pechadur gwallgof ei hun, sef ei ddamnedigaeth. Yma meddaf, y gorddisgleiria ac y gogoneddir "rhagorol fawredd nerth," amynedd, gras, cariad, a thrugaredd Duw! Pan oedd Moses yn dadleu â Duw dros Israel yn achos y llô aur, "Mawrhäer atolwg nerth yr Arglwydd," meddai, "a maddeu i'r bobl hyn." Y mae yn amlwg na feddyliai Moses wrth "nerth yr Arglwydd," ei allu naturiol Ef, ond nerth ei faddeugarwch Ef, nerth ei amynedd a'i hunan-lywodraeth, i beidio ymddwyn fel y gwnaethai dyn yn y cyffelyb amgylchiad. A chyffelyb i hyn y llefara Duw am dano ei hun yn Hosea pan y dywed, "Ni chyflawnaf angerdd fy llid, ac ni ddychwelaf i ddinystrio Ephraim, canys Duw ydwyf fi, ac nid dyn, y Sanct yn dy ganol di."

Y mae un sylw pellach yn angenrheidiol yn y fan hon, mewn trefn i geisio dangos cysondeb y golygiad uchod â'r hyn a ddywed yr apostol mewn cysylltiad â'r ymadroddion a nodwyd, sef, "A pheth yw rhagorol fawredd ei nerth ef tuag atom ni y rhai y'm yn credu, yn ol gweithrediad nerth ei gadernid Ef; yr hon a weithredodd Efe yn Nghrist pan y cyfododd Ef o feirw," &c. Yr wrthddadl a gyfyd yma yn erbyn y golygiad o allu moesol yw, Mai nid y gallu hwn, ond gweithrediad nerth anianyddol a gyfododd Grist o feirw; ac mai gweithrediad yr *un gallu*, a briodola yr apostol yn nygiad dynion i gredu.

Yn awr, y mae yn ddiddadl mai yr amlygiad helaethaf a mwyaf gogoneddus o nerthoedd a goludoedd cariad a gras Duw, oedd anfoniad ei Fab i'r byd, "nid i ddamnio y byd, ond fel yr achubid y byd trwyddo Ef;" "Felly y carodd

Duw y byd," &c. "Ac y mae Duw yn canmol ei gariad tuag atom ni, oblegid a ni eto yn bechaduriaid i Grist farw trosom." A rhaid fod anfeidrol nerth yn y cariad hwnw, nad "arbedai" anwyl ac "uniganedig Fab, ond ai traddodai trosom ni oll," "a ni eto yn bechaduriaid," yn annuwiol, yn elynion a gwrthryfelwyr, ei draddodi yn lle a thros y cyfryw rai i angeu, ïe, angeu y groes; yma y mae nerth, meddaf, nad oes byth gymhar iddo ond efe ei hun! Yn mhellach eto, golyga yr apostol mai y ffaith o adgyfodiad Crist oddiwrth y meirw, yw y prawf mawr a phenderfynol o Fessiäaeth yr Arglwydd Iesu. "Ac a eglurwyd yn Fab Duw mewn gallu, yn ol Yspryd sancteiddiad, trwy yr adgyfodiad oddiwrth y meirw." Heb yr adgyfodiad o feirw y trydydd dydd, buasai yr holl oruchwyliaeth, holl hanesyddiaeth Crist, â niwl a thywyllwch o'i amgylch yn dragywydd; ni buasai genym seiliau digonol i'n ffydd i gredu ynddo fel Mab Duw, ac i bwyso arno am fywyd ac iachawdwriaeth; ond yn ngoruchwyliaeth yr adgyfodiad, symudwyd pob amheuaeth. "Eglurwyd ef yn Fab Duw." Un o brif erthyglau Cristionogaeth yw adgyfodiad Iesu Grist; pe tynid hon ymaith, dinystrid y sail, a syrthiai yr holl oruwchadeiladaeth bendramwnwgl i lawr. "Mai os cyffesi â'th enau yr Arglwydd Iesu, a chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi Ef o feirw, cadwedig a fyddi." Gan hyny, yr oedd yn angenrheidiol cael y dystiolaeth gysonaf ac egluraf o'r ffaith hon i'w chyhoeddi i'r byd; y fath dystiolaeth na allai yr holl wrthwynebwyr na'i gwrthsefyll na dywedyd yn ei herbyn; ac felly yr ydym yn cael ddarfod i'r apostolion, drwy "nerth mawr, roddi tystiolaeth am adgyfodiad Crist." Yn awr sylwer, anfoniad Crist *i'r* byd, a'i draddodiad i angeu *dros* y byd, yw yr amlygiad mawr o ragorol fawredd nerth cariad a gras y Duwdod; adgyfodiad Crist o feirw yw yr amlygiad mawr o wirionedd y dystiolaeth am dano fel

Mab Duw; a grym a chadernid y dystiolaeth am ei adgyfodiad yw sylfaen fawr ein ffydd i gredu ynddo er ein hiachawdwriaeth. Felly, trwy waith yr Yspryd Sanctaidd yn enill meddyliau dynion i weithredu ar y nerthoedd hyn, y deuant i deimlo eu grymus ddylanwadau, ac y dygir hwynt i gredu "yn ol gweithrediad nerth ei gadernid Ef." Felly, nerth gras a chariad Duw yn anfoniad ei Fab i'r byd, a nerth y dystiolaeth a dystiolaethodd efe am ei Fab, ac yn neillduol am ei adgyfodiad, sydd gan yr Yspryd Glân i ddylanwadu ar feddyliau dynion er eu dwyn i gredu. Ac â hyn y cytuna geiriau Petr, "Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, yr Hwn, yn ol ei fawr drugaredd, a'n hadgenedlodd ni i obaith bywiol, trwy adgyfodiad Iesu Grist oddiwrth y meirw." Y casgliad oddiwrth y cwbl yw, mai gweithrediad *gallu anianyddol* a ddygodd i fôd, sydd yn cynal mewn trefn, ac yn effeithio pob cyfnewidiadau yn y greadigaeth naturiol; ac mai dylanwadau *gallu moesol* yn unig, sydd yn effeithio ac yn dwyn i ben bob peth yn y greadigaeth newydd, neu ysprydol.

Yn mhellach, mewn perthynas i weinidogaeth yr Yspryd yn nychweliad pechadur at Grist, yr ydym yn sylwi mai gweinidogaeth neu ddylanwad trwy foddion ydyw; ac nid uniongyrch neu ddigyfrwng. "Cyfraith yr Arglwydd sydd berffaith, yn troi yr enaid." "Byth nid anghofiaf dy orchymynion, canys â hwynt y'm bywheaist." "O'i wir ewyllys yr enillodd Efe ni trwy air y gwirionedd." "Wedi eich ail-eni, nid o hâd llygredig, eithr anllygredig, trwy air Duw." "Trwy yr Hwn (sef Crist) y rhoddwyd i ni addewidion mawr iawn a gwerthfawr, fel trwy y rhai hyn y byddech gyfranogion o'r duwiol anian." "Yr Hwn a'n hadgenedlodd ni i obaith bywiol, trwy adgyfodiad Iesu Grist oddiwrth y meirw," &c. Y mae yr un cyfnewidiad mawr ar gyflwr pechadur yn cael ei osod allan yn yr ysgrythyrau

a nodwyd, drwy wahanol ymadroddion, megis "troi yr enaid, bywhau, enill, ail-eni, gwneuthur yn gyfranogion o'r duwiol anian," &c. A "chyfraith yr Arglwydd," ei "orchymynion, gair y gwirionedd, gair Duw," yr "addewidion mawr iawn a gwerthfawr," &c., yn cael eu priodoli fel offerynau ei effeithiad, a chydnabyddiaeth amlwg o ddylanwadau Dwyfol yr Yspryd trwy yr offerynau hyn, fel yr achos mawr a chyntaf o hono.

Yr ydym yn gweled pob peth yn y byd naturiol o'n hamgylch yn cael eu dwyn yn mlaen trwy foddion, heb ddylanwad uniongyrch neu ddigyfrwng y Duwdod; ac nid yw hyny mewn un modd yn cymylu ac yn cuddio gogoniant ei waith o'n golwg, ond yn hytrach yn peri iddo ymddangos yn fwy gogoneddus; ac nid yw hyn chwaith yn ein hatal i briodoli yr holl ogoniant iddo Ef, fel yr achos mawr a chyntaf o'r holl effeithiau. Sefydlodd gyfreithiau addas a phriodol i lywodraethu yr holl greadigaeth, a'i holl greaduriaid. Mae cyfraith dysgyrchiad (*gravitation*) *yn berfiaith* i droi y ddaear, a'r aneirif luaws o fydoedd a gylch-deithiant yn rheolaidd o amgylch gorsedd y JEHOFA. Y mae y gadwyn dywod a osododd yn derfyn ac yn wregys i'r môr, "trwy ddeddf dragwyddol," yn berffaith i gadw hwnw o fewn ei gylch gosodedig. Y mae y reddf a osododd yn natur yr asyn gwyllt, "yr hwn y gosododd efe y diffaethwch yn dŷ, a'r anialwch yn drigfan iddo," yn *berffaith* i ateb y dyben o'i gadw yno.

Y mae y Beibl yn ein dysgu mai trwy foddion fel hyn y dygir yr holl effeithiau yma oddiamgylch; ac ar yr un pryd yn ein dysgu i gydnabod y dylanwadau Dwyfol ynddynt, yn gystal a phe byddai y Duwdod yn gweithredu yn ddigyfrwng ac uniongyrch. "Efe a wna daranau â'i lais yn rhyfedd," medd Elihu; "Duw y gogoniant a darana;" ac eto gwyddom fod cylch o foddion yn cydweithredu i beri

taranau, ac nid yw hyny yn un atalfa i ni briodoli yr effeithiad hwn i Dduw, mwy na phe byddent ei lais uniongyrchol Ef ei hun. Efe a sefydlodd y deddfau hyn i gynyrchu yr holl wahanol effeithiau, a'i ddylanwad Ef trwy y deddfau sefydledig yw yr achos cyntaf o honynt oll. Nid yw y naturiaethwr, wrth egluro y gwahanol foddion a'r elfenau a barant daranau, yn gwadu nad "Duw y gogoniant a darana." Pa ham, ynte, y dywedir fod y duwinydd yn gwadu gwaith yr Yspryd yn nghyfnewidiad pechadur, pan y dywed ei fod yn dwyn hyny i ben trwy foddion? Y mae y moddion a'r cyfreithiau a osododd yn ei lywodraeth foesol mor briodol ac addas fel cyfryngau iddo i weithredu trwyddynt ar feddyliau ac ansoddau moesol, ag ydyw deddfau natur fel cyfryngau ei allu anianyddol, i ddwyn i ben yr effeithiau a'r cyfnewidiadau perthynol i'r byd defnyddiol. Y mae ei "gyfraith," sef ei air sanctaidd, mor *berffaith* a digonol fel moddion iddo "droi yr enaid," ag ydyw cyfraith y dysgyrchiant (*law of gravitation*) i droi y ddaear; ac megis nad yw yn dwyn i ben unrhyw effeithiau, gwybyddus i ni, yn y byd naturiol, ond trwy foddion wedi eu gosod a'u cyfaddasu i'r dyben; felly nid yw yn dwyn yn mlaen ei waith grasol yn achubiaeth pechaduriaid, ond trwy foddion cymwys a phriodol i'r holl ddybenion.

Y mae Crist, yn ei ymddyddan diweddaf gyda'i ddysgyblion, yn rhoddi darluniad byr a chynwysfawr o natur gwaith yr Yspryd Glân, yn ei osod allan dan yr enw Dyddanydd, neu yn hytrach Dadleuwr, yn dyfod i ddadleu, ymresymu, ac argyhoeddi y byd o bechod, cyfiawnder, a barn; y cyflawnai y gwaith hwn, argyhoeddi y byd o bechod, sef o'i hollol a'i gwbl lygredigaeth moesol, trwy godi a dal yn wyneb y byd ei ymddygiad at Grist. "O bechod, am nad ydynt yn credu ynof fi." Dyma y prawf mawr o hollol lygredigaeth y byd. Profodd ei hun yn ddrwg yn ei ym-

ddygiad at weision a phroffwydi Duw, trwy eu hamharchu, eu llabyddio, a'u lladd; ond gwaith y byd yn gwrthod, yn condemnio, ac yn croeshoelio Mab Duw, a brofodd ddyfnder ei drueni, a ddangosodd ei fod heb gymaint a gwreichionen o fywyd ysprydol, nac o rinwedd ysprydol yn ei fynwes. Y ddadl a ddefnyddia i argyhoeddi y byd o gyfiawnder, fydd derbyniad Crist i'r nefoedd, "O gyfiawnder, am fy mod yn myned at y Tad, ac ni'm gwelwch i mwyach;" sef o gyfiawnder Crist, gwirionedd ei honiadau am dano ei Hun, fel y Messia, Mab Duw, ac anfonedig y Tad. Pe twyllwr fuasai, fel yr haerai y byd, ni chawsai ei dderbyn i'r nefoedd at y Tad; cawsai ei droi yn ol oddiwrth borth y nef i'r ddaear, dyma ddadl y gwna yr Yspryd ddefnydd o honi i argyhoeddi y byd, o gyfiawnder yr honiadau a wnaethai Crist am dano ei hun fel Messia, addawedig y Tad, &c.

Gallwn dybio, pe gosodid y Beibl yn nwylaw dyn nas gwelsai ef erioed o'r blaen, i'w chwilio ar y mater hwn, mai y casgliad a wnelai yn anocheladwy, braidd, fyddai, bod dylanwadau yr Yspryd Glân yn anhebgorol angenrheidiol er troi a chyfnewid pechadur, a'i fod yn dylanwadu ar y meddwl dynol trwy gyfryngau a moddion, sef y gair a gweinidogaeth yr efengyl yn benaf. Y mae yn ddiameu y gallwn olygu, ac y mae y Beibl yn ein dysgu hefyd, bod holl weinyddiadau rhagluniaeth, holl amgylchiadau bywyd dŷn, yn llaw a than oruwchlywodraeth yr Yspryd Glân, i'w defnyddio i fod yn wasanaethgar yn y gwaith o ddychwelyd pechaduriaid; ond y gair a'r weinidogaeth yw y prif foddion, ïe, yr unig foddion, ail-eni a dwyn at Grist. Defnyddia wahanol oruchwyliaethau ac amgylchiadau i sobri y meddwl, a'i ddwyn i gyraedd dylanwad y gair a'r weinidogaeth. Y mae "yn llefaru wrtho unwaith, ïe, ddwywaith, trwy hûn a gweledigaeth nôs, ei geryddu trwy ofid ar ei wely, a lluaws ei esgyrn â gofid caled, nes nesau ei enaid i'r bedd, a'i

fywyd i'r dinystrwyr." Ond gweinidogaeth y "Cenad lladmerydd" sydd yn ei ddychwelyd, ac yn ei ddwyn i'r iawn. Y mae yr holl weinidogaethau blaenorol wedi bod yn parotoi y tir, "agor ei glustiau," neu ei galon, yn ol iaith y Testament Newydd; ond tybir y buasai y cwbl yn ofer heb y weinidogaeth olaf. Yr oedd y lleill oll yn is-wasanaethgar iddi; fel ag y mae yr amaethydd yn trin ei faes, yn ei fraenaru, ei wrteithio, ei aredig mewn trefn i barotoi yr hâd, a dyben olaf y cwbl yw cael ffrwyth oddiarno. Gŵyr yr amaethydd yn dda mai hollol ofer ydyw iddo ddisgwyl ffrwyth oddiar ei faes, gan nad pa mor dda y byddo wedi ei drin a'i barotoi, oni bydd iddo ei hau. Felly yr un modd y mae holl amgylchiadau bywyd dyn yn foddion yn llaw Yspryd Duw, i drin a pharotoi meddyliau dynion i dderbyn y gwirionedd, i "agoryd y galon i ddal ar y pethau," a thrwy y pethau y mae yn dwyn oddiamgylch waith mawr y cyfnewidiad.

Ymddengys i mi mai yr unig hoel ar yr hon y crogir trefniant o waith anianyddol, yw yr ymadrodd am "agor calon Lydia, i ddal ar y pethau a leferid gan Paul;" ac ymddengys hefyd bod yr ymadroddion a gofnodwyd uchod yn eglurhad goleu a chyflawn ar y modd y mae Yspryd Duw yn agoryd clust, neu galon pechadur, sef trwy lefaru wrtho unwaith, ïe, ddwywaith, trwy ei geryddu, ei gystuddio, a'i waredu. "Wele hyn oll a wna Duw ddwywaith neu dair â dyn, i ddwyn ei enaid ef o'r pwll," &c.

2. *Cydweithrediad yr Eglwys.* Y mae y "briodasferch yn dywedyd, Tyred." Y mae hithau yn cydweithredu, yn cydwahodd, â'r Yspryd; y mae yn gydgyfranog âg ef yn y gwaith, ac nid â yn mlaen heb ei chydweithrediad. Dyben ei galw *allan o'r* byd, ei sefydliad yn gymdeithas neillduedig *oddiwrth* y byd, ei gadawiad a'i pharhad *yn* y byd yw, fel y byddo iddi ddwyn ei thystiolaeth dros ei Duw a'i Gwaredwr

wrtho. "Efe," ebai Crist am yr Yspryd, "a dystiolaetha, a chwithau a dystiolaethwch." Y mae yr holl gydmariaethau a ddefnyddir i ddarlunio yr eglwys yn y Beibl yn arwyddo ei bod wedi ei bwriadu i leshau y byd, ac i beri dylanwad bendithiol ar ei gyflwr moesol. "Halen y ddaear," a "goleuni y byd" yw yr eglwys; "colofn a sylfaen y gwirionedd." Nid yw yr halen a'r goleuni yn niweidiol i neb, ond yn llesol i bawb; a'r hyn a fyddai y byd naturiol heb halen a haul, fyddai y byd moesol heb eglwys Dduw. "I hyn yr ordeiniais i chwi," ebai Crist wrth ei ddysgyblion, "fel yr elech ac y dygech ffrwyth." "Chwi yw fy nhystion i, medd yr Arglwydd." Y mae nerth yr eglwys, ei defnyddioldeb, a'i llwyddiant, yn dibynu ar ei hundeb â'r Yspryd, a'i gydweithrediad ef.

(i.) *Undeb Gweinidogaethol.* Yr un weinidogaeth sydd i fod yn ei genau hi ag y sydd yn ngenau yr Yspryd; yr Yspryd yn dywedyd *Tyred*, a'r briodasferch yn dywedyd *Tyred*—yn dywedyd yr un peth; nid yr Yspryd yn dywedyd un peth, a'r briodasferch yn dywedyd peth arall, ond cyd-dystiolaethu, cyd-wahodd. Nid un yn galw a'r llall yn gwahardd, ni ddychwelir y byd byth felly. Bu y briodasferch, yn nyddiau ei hieuenctyd, ei harddwch, a'i hoewder, am yr haner canrif cyntaf o oes Cristionogaeth o'r un feddwl, yr un syniad, a'r un iaith â'r Yspryd. Yr oedd yn dwyn meddwl yr Yspryd, yn ei burdeb, at feddyliau dynion, ac yn "cydweithio, ac yn cadarnhau y gair trwy arwyddion a rhyfeddodau y rhai oedd yn canlyn." Nid oedd dim dynol yn ei gweinidogaeth. Nid oedd wedi llunio unrhyw erthyglau, na chredöau, na threfniant o athrawiaeth; ac yn llafurio i nyddu ac ysgwario yr ysgrythyrau at y rhai hyny; ond yr oedd yn myned allan i'r prif-ffyrdd a'r caeau, yn tramwyo ar hyd a lled y ddaear, a chynifer oll ag a gaffai, hi a'u gwahoddai ac a'u cymellai. Yr oedd yn adseinio gweinidogaeth yr Yspryd yn nghlustiau y byd.

Wedi i'r Arglwydd Iesu Grist egluro i'w ddysgyblion natur gweinidogaeth y Dadleuwr, nodi y dadleuon a ddefnyddiai i argyhoeddi y byd o bechod, cyfiawnder, a barn, sef mai gwaith y byd yn anghredu ynddo, ac yn ei wrthod, fyddai ei ddadl i'w argyhoeddi o bechod; ac mai gwaith Crist yn "myned at y Tad," ac yn cael ei dderbyn ganddo, a fyddai ei ddadl i argyhoeddi "y byd o gyfiawnder;" ac mai y farn a wnaeth Crist ar "dywysog y byd hwn," a fyddai ei ddadl i argyhoeddi y "byd o farn;" aethant allan i'r byd, gan wneuthur y pethau hyny yn brif faterion a defnyddiau eu gweinidogaeth. Dywedent yn wyneb yr Iuddewon, "Chwi a wadasoch y Sanct a'r Cyfiawn, a Thywysog y byd a laddasoch, ac a groeshoelasoch ar bren. Yr Hwn a gyfododd Duw, o'r hyn yr ydym ni oll yn dystion. Yr Hwn sydd raid i'r nef ei dderbyn hyd amseroedd adferiad pob peth. Hwn a ddyrchafodd Duw â'i ddeheulaw. Efe yw yr Hwn a ordeiniwyd gan Dduw yn Farnwr byw a meirw. Y mae Duw yr awrhon yn gorchymyn i bob dyn, yn mhob man, edifarhau; o herwydd iddo osod diwrnod yn yr hwn y barna Efe y byd mewn cyfiawnder, trwy y Gwr a ordeiniodd Efe," &c. A'r canlyniad oedd, bod pechaduriaid wrth y miloedd yn cael eu dwysbigo a'u dychwelyd. Nid oedd dim yn eu gweinidogaeth ag oedd yn groes i feddwl yr Yspryd, gan hyny yr oedd yn rhoddi ei sêl wrthi, ac yn nerthol weithiau drwyddi yn mhob man. Nid oedd dim o rŵd traddodiadau a dychymygion dynol yn pylu awch a mîn y cleddyf; gan hyny yr oedd, fel cleddyf yr Yspryd, yn "cyrhaedd trwodd, hyd wahaniad eneidiau" dynion, "yn barnu meddyliau a bwriadau eu calonau."

Ond wedi hyn, pa gyfnewidiad! "Tywyllodd yr aur, newidiodd yr aur coeth da!" Aeth yr arian da yn sothach; daeth "coed, gwair, a sofl" yn ddefnyddlau adeiladaeth, yn lle yr "aur, a'r arian, a'r meini gwerthfawr;" collodd y

weinidogaeth ei symledd a'i phurdeb cynenid, a chollodd ei hawch a'i heffeithioldeb yr un pryd. Ciliodd y briodasferch oddiar lwybr yr Yspryd, aeth i ddechreu ymryson ac ymddadleu, i alw cynghorau a chymanfaoedd, i benderfynu beth oedd wirionedd a beth nad oedd; y naill esgob i honi uwchafiaeth ar y llall, ac yn lle cydweithio â'r Yspryd er dychwelyd y byd, i symud y "rhwystrau o ffordd y bobl," aeth i ddechreu gosod y naill athrawiaeth a'r llall yn y fath oleuni ger bron y byd ag oedd yn tueddu i fod yn fwy o atalfa nag o anogaeth iddo; ac felly collodd gydweithrediad yr Yspryd i raddau mawr, ac yn hollol i'r graddau ag yr ymadawsai hi â symledd dwyfol yr athrawiaeth. Arafodd olwynion ei cherbydau, oerodd ei thân, a pheidiodd ei llwyddiant. Ni weithia yr Yspryd Sanctaidd âg arfau cnawdol, ni rydd ei sêl wrth un athrawiaeth groes i'w air ysgrifenedig; ni wna ddefnydd o ddim ond o'r "gwirionedd, megis ag y mae yn yr Iesu," i ddychwelyd a chyfnewid pechaduriaid.

Yn wyneb hyn, ymddengys y mawr bwys o feddu golygiadau cywir ar yr "athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb." "Pe safasent yn fy nghyngor, a phe traethasent fy ngeiriau i'm pobl, hwy a wnaethant iddynt ddychwelyd bob un o'i ffordd ddrygionus," meddai yr Arglwydd am gau broffwydi Juda a Jerusalem gynt. Rhaid i'r briodasferch ddyfod eto i'r un feddwl â'r Yspryd, ac i lefaru ei feddwl yn groew wrth y byd, cyn y gellir disgwyl gweled cnwd mawr o ddychweledigion i'r Arglwydd. Y mae yn rhaid llwyr ddifetha yr hyn a eilwr awdwr y "MAMMON" yn *Gybydd-dod yr arcithfa;* a mabwysiadu gweinidogaeth a allo estyn ei breichiau o amgylch yr "holl fyd," a chofleidio "pob creadur" yn ei mynwes. Tra byddo un yn pregethu fel hyn, ac un arall fel arall, un yn gyfyng a'r llall yn helaeth, y mae y byd yn cael ei ddyrysu yn lle ei ddychwelyd. Rhaid i "galon" y

briodasferch fyfyrio eto ar farwolaeth ei Phriod, fel y byddo iddi helaethu yn ei golygiadau am dani, a chymeryd ei safle arni fel "Iawn dros bechodau yr holl fyd," a "phob dyn," ac udganu yn ei "hudgorn mawr" uwch ben yr Aberth hedd, i alw a gwahodd, cymhell ac anog "pob dyn yn mhob man" i "edifarhau a chredu yr efengyl."

(ii.) *Undeb Teimlad.* Rhaid i'r briodasferch, nid yn unig ddefnyddio ac arfer yr un iaith â'r Yspryd, ond hefyd bod yn ei deimlad ef; yn ymysgaroedd a chariad yr Yspryd. Er dywedyd meddwl yr Yspryd yn gywir ni all ddiswyl llwyddiant, tra yn amddifad o'i deimlad. Cyhoeddi gwirioneddau pwysig yr efengyl yn oeraidd a difywyd, mewn dull marwaidd a diegni, sydd yn tueddu yn fwy i galedu dynion, a'u cadarnhau yn eu hanghrediniaeth, nag i'w dychwelyd at Grist; ïe, y mae yn nesaf i amhosiblrwydd i'r fath ddull effeithio nemawr neu ddim daioni, yn ol yr hyn yw cyfansoddiad y natur ddynol. Y mae y natur ddynol wedi ei chyfansoddi yn gyfryw, ag y derbynia y naill ddyn ddylanwad oddiwrth olygon a theimladau dyn arall, yn gystal ag oddiwrth ei ymadroddion. Dyweyd y peth mwyaf pwysig mewn dull oerllyd a difater, sydd a thuedd uniongyrchol ynddo i beri i'r gwrandawyr amheu ei wirionedd, a thybio nad yw y llefarydd ei hunan yn credu yr hyn y mae yn ei ddywedyd. Y mae y cyfryw ddull yn atalfa effeithiol i'r peth gael argraff briodol ar feddyliau dynion; yn difinio y gwirionedd; ac ni ellir disgwyl cydweithrediad yr Yspryd gyda y fath deimlad, oblegid ni chroesa efe byth yr un o ddeddfau y meddwl dynol, y rhai a sefydlodd efe ei hun. Y mae pregethu yr efengyl, cynghori a rhybuddio pechaduriaid i "ffoi rhag y llid a fydd," eu galw i edifarhau a chredu yr efengyl, eu gwahodd i'r wledd, mewn dull claiar, difater, a marwaidd, yn cau i fynu un fynedfa fawr sydd gan Yspryd Duw i fyned at, cael gafael yn, a dylanwadu ar feddyliau

dynion. Felly, mewn trefn i'r eglwys fwynhau llawn gymundeb yr Yspryd, a chael ei gydweithrediad effeithiol ef, rhaid iddi fod yn ei deimlad ef, gwisgo am dani "hynawsedd ac ymysgaroedd Crist," yr hwn a deimlai, a dristäai, a ocheneidiai, ac a wylai, o herwydd calon-galedwch ac anghrediniaeth dynion.

Y mae y Beibl yn eglur a phenderfynol ar y mater hwn. "Cyn ei chlafychu yr esgorodd; cyn dyfod gwewyr arni y rhyddhawyd hi ar fab. Pwy a glybu y fath beth a hyn? Pwy a welodd y fath bethau a hyn? A wneir i'r ddaear dyfu mewn un dydd? A enir cenedl ar unwaith?" Cystal a dywedyd, na chlybu neb erioed y fath bethau, ni buant erioed yn bod; y mae yn groes i drefn a deddfau natur; nid yw byth yn cymeryd lle yn y byd naturiol, nag yn y byd moesol chwaith; oblegid, "Pan glafychodd Seion, yr esgorodd hefyd ar ei meibion." Ni esgorodd ar ei meibion erioed pan yn cysgu mewn difaterwch a dideimladrwydd; ac ni bu heb esgor chwaith erioed pan glafychai. "A ddygaf fi i'r enedigaeth, ac oni pharaf esgor? medd yr Arglwydd; a baraf fi esgor, ac a luddiaf? medd dy Dduw."

(iii.) *Undeb Nodweddiad.* Rhaid i'r eglwys wisgo nodwedd yr Yspryd. "Ymdrwsio oddifewn â gostyngeiddrwydd." Rhaid i'r briodasferch rodio yn ei "gemwaith aur," rhaid i "draed y bendefiges fod yn hardd mewn esgidiau," ac ymwisgo â harddwch sancteiddrwydd," cyn y rhydd yr Yspryd ei gymundeb iddi. Yspryd Glân a sanctaidd yw yr Yspryd, ac ni thriga ond lle byddo glendid a sancteiddrwydd. Y mae ymarweddiadau ansanctaidd proffeswyr crefydd yn un atalfa fawr ar ffordd dychweliad y byd. Y mae yr "Enw rhagorol yn cael ei gablu yn mhlith y cenedloedd" o'i herwydd, yn lle cael ei fawrhau a'i anrhydeddu; crefydd Crist yn cael ei darostwng yn ngolwg y byd, yn lle ei dyrchafu a'i gogoneddu; ei hegwyddorion yn cael eu

cymylu, yn lle eu dangos a'u hamlygu; a'u dylanwad ar feddyliau dynion yn cael ei atal a'i ladd, yn lle ei helaethu a'i ddwfnhau. "Llewyrched felly eich goleuni ger bron dynion, fel y gwelont eich gweithredoedd da chwi, ac y gogoneddont eich Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd," ebai Crist. Y mae y briodasferch wedi ei gadael yn y byd, nid yn unig i ddywedyd wrtho mewn geiriau am ragoriaethau ei Phriod, ac nid yn unig i ddangos teimlad drosto, ac awyddfryd i gael y byd ato ac i'w garu, ond hefyd i fod yn ddelw o hono ger bron llygaid y byd. "Megis yr anfonaist fi i'r byd," ebai Crist wrth y Tad, "felly yr anfonais inau hwythau (sef ei ddysgyblion) i'r byd." Anfonodd y Tad Grist i'r byd i'w ddangos Ef, i'w "hysbysu," ac i fod yn ddelw o hono ger bron y byd; "Y neb a'm gwelodd i, a welodd y Tad," meddai Iesu; ac felly y mae yntau yn gadael ei eglwys ar ei ol yn y byd, i fod yn ddelw a dangosiad o hono ger ei fron, fel ag yr oedd yntau yn wir "ddelw y Duw anweledig." A dyma leferydd yr eglwys, a phob aelod o honi, wrth y byd, "Y neb a'm gwelodd i, a welodd Iesu Grist;" ac os eglwys gybyddlyd, ddaearol ydyw, hi a ddywed wrth y byd mai un cybyddlyd a daearol oedd Iesu Grist. Fel hyn y mae Crist yn cael cam, a'r byd hefyd yn cael cam; yr Yspryd yn cael ei dristau a'i ofidio, ac ni all roddi ei gymundeb a'i gydweithrediad i eglwys a fyddai yn dianrhydeddu Crist ger bron y byd, trwy roddi cam-ddarluniad o hono, a dwyn gau-dystiolaeth am dano wrtho. Swydd yr Yspryd yw "gogoneddu" Crist yn ngolwg y byd; ac ni all fod cymundeb rhyngddo âg eglwys a fyddo yn gwrthdaro ei amcan a'i waith.

Yn awr, dyma natur yr undeb sydd i fod rhwng yr Yspryd a'r briodasferch, er dychwelyd y byd at Grist; a phan fyddo yr eglwys yr un feddwl â'r Yspryd, yn ei deimlad, ac yn gwisgo ei *garacter*, y mae mewn llawn gymundeb

âg ef, y mae yn preswylio ac yn aros ynddi, ac y mae hi yn bibell lân i dywallt ei ddylanwadau ar y byd. Nid oes y fath beth ag ataliad pen-arglwyddiaethol o'i ddylanwadau oddiwrthi; y maent yn ymdywallt arni bob amser ar y tir hwn, ac ar y byd trwyddi. Pan y mae hi yn llewyrchu yn ngogoniant athrawiaeth, teimlad a *character* yr Yspryd, y mae yn "tori allan ar y llaw ddeau, ac ar y llaw aswy—ei hâd yn etifeddu porth ei gelynion—cenhedloedd yn rhodio at ei goleuni, a breninoedd at ddysgleirdeb ei chyfodiad; y mae ei phyrth yn agored yn wastad, ni cheuir hwynt na dydd na nos, i ddwyn ati olud y cenhedloedd—ni fachluda ei haul, a'i lleuad ni phalla." Daw "meibion ei chystuddwyr ati yn ostyngedig, ac ymostyngant wrth wadnau ei thraed, gan ddywedyd, Yn ddiau ynot ti y mae Duw, ac nid oes arall, nac oes Duw." Bydd i'r hwn sydd i'r gwrthwyneb gywilyddio, a dywedyd, "yn wir y mae Duw ynoch;" tra y rhodio "yn y goleuni, megis ag y mae Efe yn y goleuni," y mae iddi gymdeithas âg ef, ac nid yw byth yn amddifad o hono ar y tir hwn. Pan yr oedd yr "holl eglwysi yn Judea, Galilea, a Samaria yn rhodio yn ofn yr Arglwydd ac yn nyddanwch yr Yspryd Glân, hwy a amlhawyd." Ond pan y mae yn amddifad o'r dylanwadau dwyfol, ac felly yn aflwyddianus a digynydd, "Seion heb neb yn ei cheisio," y mae wedi cilio o dir y dylanwadau dwyfol; "Ei hanwireddau wedi ysgaru rhyngddi â'i Duw, a'i phechodau wedi cuddio ei wyneb rhagddi." Dyma yr achos a'r rheswm a rydd y Beibl am hyn, ac nid ataliad pen-arglwyddiaethol o'r dylanwadau dwyfol.

Pan na byddom yn gweled wyneb yr haul ar ddiwrnod tywyll, nag yn teimlo dylanwad ei wres, fel ar ddyddiau ereill, nid ydym byth yn priodoli hyny i un cyfnewidiad ynddo ef; yn meddwl fod ei oleuni wedi pallu, ei wres wedi lleihau, neu ei fod wedi cilio o'i gylch, neu ei fod heb godi

fel dyddiau ereill; ond gwyddom yn dda mai cymylau sydd wedi codi o'r ddaear, a llenwi ein hawyrgylch, a chysgodi rhyngom â'i wyneb ef; yr un yw ef o ran ei oleuni, ei wres, a'i nerth, ac y mae yn cadw ei le a'i gylch fel o'r blaen. Felly yr un modd, pan fyddo yn dywyll ac oer ar eglwys Dduw, nid o'i du Ef a'i Ysbryd y mae y cyfnewidiad. "Wele, ni fyrhawyd llaw yr Arglwydd fel na allo achub, ac ni thrymhaodd ei glust Ef fel na allo glywed," ond "anwireddau" Seion a gododd yn gymylau rhyngddo âg Ef, niwl ei "phechodau a guddiasant ei wyneb oddiwrthi." Y mae yr Arglwydd yn ofalus i ddangos hyn i'w bobl, ac i'w hargyhoeddi o'r camsynied hwn. "O! yr hon a elwir tŷ Jacob, a fyrhawyd Ysbryd yr Arglwydd? Ai dyma ei weithredoedd Ef? Oni wna fy ngeiriau les i'r rhai a rodiant yn uniawn?" "Yr Arglwydd sydd gyda chwi tra fyddoch chwi gydag Ef." Y mae yr Ysbryd, fel yr haul, yn wastad yn ei le, bob amser yn tywallt ei ddylanwadau ar yr eglwys a'r byd, pan na byddo cymylau yn atal. Y mae yn gweithio ar egwyddorion sefydlog a dianwadal, ac nid wrth dymherau a nwydau fel dynion. Y mae yn debygol na bu dim erioed yn fwy effeithiol i grebychu a gwywo ymdrechiadau eglwys Crist nag athrawiaeth y tymhorau; bod yr Ysbryd weithiau allan o'r cyrhaedd, a bod ganddo ei amser penodol i weithio, ac felly nad oes ganddi ddim i'w wneyd, ond aros am dano, a gobeithio iddo ddyfod, ac y daw yn ei amser da ei hun, &c. "AI DYMA EI WEITHREDOEDD EF?"

Wedi ymdrechu egluro, fel hyn, weinidogaeth yr Ysbryd, yn ei chynwysiad, ei symledd, a'i nhatur, a cheisio dangos yr undeb sydd i fod rhwng yr eglwys âg Ef mewn athrawiaeth, teimlad, a nodwedd, mewn trefn i gydweithredu yn nychweliad y byd at Grist, caf wneyd rhai sylwadau ar

II. SEILIAU Y WEINIDOGAETH GYMHELLIADOL HON. "Y mae yr Ysbryd a'r briodasferch yn dywedyd, Tyred," ar yr

un seiliau; yn gwahodd y byd at fywyd ac iachawdwriaeth, oddiar yr un rhesymau.

1. *Dwyfol drefniad yr Iachawdwriaeth.* Yn nechreu y benod y cymerwyd y testyn o honi gosodir hi allan dan y gymhariaeth o "Afon bur o ddwfr y bywyd, yn dyfod allan o orseddfainc Duw a'r Oen." Tarddodd allan o'r orseddfainc, o eisteddle a chanolbwynt y llywodraeth ddwyfol, yr hon yr oedd y byd yn euog ger ei bron; yr orseddfainc yr oedd wedi codi mewn gwrthryfel yn ei herbyn, wedi ceisio ei dadymchwelyd â'i holl egni, ac nid oedd ganddo ddim i'w ddisgwyl ond "mellt, a tharanau, a lleisiau" digofaint oddiwrthi, dim ond afonydd tanllyd llid a soriant i darddu allan o honi. Ond, wele! "enfys" tangnefedd yn ei "hamgylchynu," "Oen Duw megis wedi ei ladd," yn sefyll yn ei chanol; "afon bur o ddwfr y bywyd yn dyfod allan" o honi. Cariad a gras, trugaredd a heddwch, yn cyd-ddylifo yn afon risialaidd o'i chanol i'r byd euog, aflan, a thlawd! Cyfiawnder a heddwch yn cydgyfarfod, trugaredd a gwirionedd yn cydymgusanu! Darpariaeth o eiddo y llywodraeth ydyw. Dyma un o seiliau cedyrn yr Yspryd a'r briodasferch, i alw a gwahodd y byd i'w derbyn a'i defnyddio. Y mae yr holl drefn yn anrhydeddu y llywodraeth; nid oes yr un o'i hegwyddorion yn cael cam, yr un yn cael ei gwanhau a'i dirymu; ond y cwbl yn cael eu gogoneddu a'u cadarnhau yn y drefn. Nid oes un briodoledd ddwyfol yn cael ei chymylu wrth gynyg cymod a maddeuant i fyd euog, "heb gyfrif iddo ei bechodau." Y mae Oen y cymod, yr "Hwn a osododd Duw yn Iawn," yn "sefyll yn nghanol yr orseddfainc," yn gyfrwng urddasol gweinyddiad y drefn ogoneddus. Y mae holl awdurdod y llywodraeth yn rhwymo pob pechadur i dderbyn a chofleidio y drefn, i ddyfod i ymolchi, a thori ei syched yn yr "afon bur," neu ddyoddef rhyw "ba faint mwy cospedigaeth," nag ydyw hyd yn nôd "marw heb dru-

garedd!" Dyma iachawdwriaeth o wyneb yr orsedd, yn cael ei "darparu ger bron wyneb yr holl genhedloedd;" a'r weithred a wna ddyn yn waeth na chythraul, yn fwy gwrthryfelwr na Beelzebub, ydyw ei hesgeuluso a'i gwrthod. Ar sail ei dwyfol drefniad, "Y mae yr Yspryd a'r briodasferch yn dywed," wrth bob pechadur, "TYRED."

2. *Cyflawnder a Digonoldeb y Ddarpariaeth*—"*Afon*" ydyw. "Afon na's gellir myned trwyddi." Y mae ei gwreiddyn yn eigionau tragwyddol gariad Duw. "Anchwiliadwy olud gras."

"'Does yma eisieu byth yn bod,
Trysorau gras yn llawn;
Er maint yr yfed a'r glanhau
Sy' o foreu hyd brydnawn."

Y mae yn *addas* i bawb, ac yn *ddigon* i bawb. Yr Iawn sydd ddigonol dros *un* pechod, sydd ddigonol dros *bob* pechod. Yr haeddiant sydd ddigonol dros *un* pechadur, sydd ddigonol dros *bob* pechadur. Casgler yn nghyd holl bechaduriaid a holl bechodau oesau y byd, ac wele gyflawnder o ras i faddeu y pechodau, a chadw y pechaduriaid! Dyfroedd grisialaidd yr "afon bur" ydynt rinweddol i olchi ymaith hên bechodau wedi cochi fel y "porphor a'r ysgarlad," a gwneyd y pechaduriaid fel yr "eira a'r gwlân." Y mae Crist, fel Gwaredwr, yn cael ei gymharu i'r haul, "Haul y cyfiawnder." Fel y mae gwres a goleuni i'r ddaear oer a thywell yn yr haul, felly y mae cyfiawnder a haeddiant i fyd euog ac annheilwng, yn Nghrist; yr un addasrwydd ynddo i bawb fel eu gilydd. Y mae ei gyflawnder yn ddidreulio fel yr haul. Nid oes dim cybydd-dod yn y drefn; ni "chyfyngwyd ar un pechadur yn ei hymysgaroedd" hi. Y mae yr Yspryd yn ei gosod allan yn ei chyflawnder annherfynol ger bron y byd, ac yn dywedyd, "TYRED."

3. *Rhadlonrwydd yr Iachawdwriaeth.* "Dwfr y bywyd yn rhad," "heb arian ac heb werth." Dyma hi yn nghyrhaedd y byd, yn rhad. Nid oes neb yn rhy dlawd, nid oes un esgus i'w gael bellach. Ni thâl i ti ddywedyd, bechadur, fod arnat ofn nesu yn mlaen, y mae yr "Yspryd yn dywedyd, Tyred." Y mae yr iachawdwriaeth y gwahoddir di i'w derbyn, wedi deilliaw o'r orsedd y codaist yn ei herbyn; y mae awdurdod yr orsedd hono wrth gefn y gwahoddiad; nid oes lle rhesymol i ofni dyfod yn mlaen i dderbyn a chofleidio y drefn, i yfed o'i dyfroedd. Yn dy waith yn sefyll yn ol y mae y perygl; y mae genyt hawl i *dderbyn* iachawdwriaeth, ond nid oes genyt hawl i'w *gwrthod*, pan y mae Duw wedi ei threfnu, a'r Yspryd yn dywedyd, "Tyred." Ni thâl dadleu chwaith, "Hwyrach na fwriadwyd mo honi i mi, na ddarparwyd mo honi ar fy nghyfer i," &c. "Y mae yr Yspryd yn dywedyd, *Tyred*," dyna ddigon i ti; ni buasai yn dy alw ac yn dy wahodd ati, pe na buasai wedi ei bwriadu ar dy gyfer, pe na buasai yn ddigon i dy angen. Bu Iesu farw drosot, "Cymer gysur, y mae Efe yn dy alw di." O! bechadur, a raid i ti, yn ychwanegol at dy holl bechodau ereill, gael taflu y dirmyg ffieiddiaf hwn i wyneb trugaredd a chariad anfeidrol? Aros i ymholi a phetruso yn nghylch digonoldeb rhinwedd gwaed y groes i'th lanhau —helaethrwydd darpariadau gras i'th achub—pa fath ddifenwad yw hyn ar Yspryd y gras?. Tra y mae Efe yn gwaeddi "Tyred," dy fod dithau yn sefyll i goeg-ymresymu fel hyn â thi dy hun? Ni thâl dadleu annheilyngdod chwaith—*rhâd* ydyw. Nid oes eisieu cymwysder na haeddiant; fel yr wyt, yn dy drueni, dy noethder, a'th aflendid, heb ddim genyt, yn anedifeiriol a chalon-galed, os felly y dywedi dy fod, heb nac argyhoeddiad na chalon newydd; y mae yr Yspryd yn dy wahodd fel yna. Os wyt yn ewyllysio iachawdwriaeth, cymer hi yn rhad, neu dywed na fyni mo

honi byth, nad wyt yn ewyllysio ei chael na'i chymeryd; dywed dy fod yn ewyllysio bod yn golledig, y myni di dy ddamnio dy hunan; dywed wrth yr Ysbryd na ddeui ddim byth, gwna dy feddwl i fyny, "Pa hyd yr wyt yn cloffi?" Neu, os wyt yn ewyllysio, cymer iachawdwriaeth rad; ac y mae croesaw i ti wahodd dy gyd-bechaduriaid—"A'r hwn sydd yn clywed dyweded, Tyred." Y mae yr Ysbryd am i bawb droi yn bregethwr, ddyfod yn gynorthwywr iddo yn y gwaith o wahodd at Grist. Buost yn bregethwr dros satan, yn gwahodd dy gydnabyddion i bechu; na ddyro dy dafod mwyach yn "arf anghyfiawnder i bechod;" cysegra ef i'r Ysbryd i gydweithredu âg ef yn nychweliad y byd; dywed wrth dy holl gyfoedion, "Deuwch ac esgynwn i fynydd yr Arglwydd, i dŷ Duw Jacob; ac Efe a'n dysg ni yn ei ffyrdd, a ni a rodiwn yn ei lwybrau Ef."

Y mae dau neu dri o nodiadau yn ymgynyg i'n sylw wrth derfynu.

(i.) Os ydyw y sylwadau blaenorol yn unol â'r gwirionedd, onid oes genym ni, "Cyfarwyddwyr y bobl," achos i ofni ein bod wedi "peri iddynt gyfeiliorni," trwy eu dysgu am natur gwaith yr Ysbryd mewn dull ag oedd â thuedd ynddo i beri i ddynion feddwl nad oedd ganddynt ddim i'w wneyd ond aros a gorwedd yn dawel yn eu pechodau, dal arfau gwrthrhyfel yn erbyn Duw yn eu dwylaw, nes y delai yr Ysbryd i wneyd rhyw waith anorchfygol ac anwrthwynebol arnynt? Ac felly, yn lle pregethu y gangen hon o athrawiaeth yn gymelliadol i bechaduriaid ufuddhau yn ddioedi, er rhoddi eu hunain i fyny i law ac arweiniad yr Ysbryd bendigedig, gwneyd clustog o honi, iddynt i roddi eu penau i lawr arni, i oedi a chysgu yn dawel mewn cyflwr drwg. Drosof fy hun, beth bynag, dywedaf, Y nefoedd fawr a faddeuo i mi yr amryfusedd yma!

Gwnaeth Sultan presenol yr Aifft gyfraith yn ddiweddar,

na byddo i un esmwythfainc (*sofa*) gael ei gwneyd, na'i chadw mewn un tŷ o fewn ei lywodraeth; a'i reswm dros hyny ydoedd, eu bod yn magu yspryd seguryd a diogi yn y bobl. Peth rhyfedd ydoedd i'r Sultan, o dan ei ddwylaw, daro wrth un o egwyddorion mawrion cyfraith a llywodraeth foesol y nef! Yn neddflyfr mawr y llywodraeth ddwyfol cawn yr un gwaharddiad yn gymwys, mewn ystyr foesol ac ysprydol. Nid oes un esmwythfainc yn cael ei gwneyd na'i goddef o fewn terfynau y llywodraeth fawr—edef i gael ei dodi byth mewn nodwydd i wnïo clustog i'w dodi dan benelin un pechadur yn ei gyflwr drwg. Dyma eiriau y gyfraith; "Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw; Gwae y gwnïadyddesau clustogau dan holl benelinoedd fy mhobl, a'r rhai a weithiant foledau am ben pob corffolaeth, i hela eneidiau. Ai eneidiau fy mhobl a heliwch chwi, ac a gedwch chwi yn fyw yr eneidiau a ddel atoch? Am hyny, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw; Wele fi yn erbyn eich clustogau chwi, â'r rhai yr ydych yno yn hela eneidiau, beri iddynt ehedeg, a rhwygaf hwynt oddiwrth eich breichiau; a gollyngaf yr eneidiau, sef yr eneidiau yr ydych yn eu hela, i beri iddynt ehedeg. Rhwygaf hefyd eich moledau chwi, a gwaredaf fy mhobl o'ch llaw, ac ni byddant mwy yn eich llaw chwi yn helfa; a chewch wybod mai myfi yw yr Arglwydd. Am dristau calon y cyfiawn trwy gelwydd, a minau heb ei ofidio ef; ac am gadarnhau dwylaw yr annuwiol, fel na ddychwelai o'i ffordd ddrygionus, trwy addaw iddo einioes." (Esec. xiii. 18–22.)

Y mae holl leferydd yr Yspryd yn ei air, a holl ymrysoniadau yr Yspryd â meddyliau dynion trwy y gwirionedd, yn cydgymell ac yn cydweithio i'w dwyn i ymostyngiad uniongyrchol a dioed; ac onid yw pregethu y dylanwadau, neu y nerth anianyddol ac anwrthwynebol, neu ddyweyd wrth ddynion fod y dylanwadau ag y sydd yn anhebgorol angen-

rheidiol er eu dychwelyd a'u cadwedigaeth, yn gyfryw na chynygir iddynt, neu nad oes ganddynt na derbyniad na gwrthodiad i'w wneuthur o honynt, y rhai, o ganlyniad, ydynt allan o'u cyrhaedd; onid yw y fath olygiad, mewn difrif, yn tueddu yn uniongyrchol ac anocheladwy, i beri i'r pechadur ymesgusodi, a llefaru heddwch iddo ei hunan, &c.? Ai nid llefaru heddwch wrtho yn ei gyflwr annychweledig ydyw? Gall pleidwyr y golygiad geisio gwadu hyn; ond dilëu yr argraffiad hwn oddiar feddyliau dynion nis gallant. Y mae canoedd o bechaduriaid annychweledig yn Nghymru a ddad'euant yn wresog dros y golygiad, ac nid rhyfedd, dyma eu cysgod a'u lloches, "bywyd eu llaw;" arosant yn dawel i ddisgwyl a gobeithio. Y mae athrawiaeth y *tymhorau* o'r un duedd—bod gan yr Yspryd ei amserau pen-arglwyddiaethol i weithio. Mai gweithio o'i benarglwyddiaethol ras y mae yr Yspryd, sydd wir; ond y mae yr un mor wir ei fod yn barod bob amser fel ei gilydd, ei fod yn y cyrhaedd bob munud, mai lle bynag y byddo ei air ordinadau, ac y byddo "dau neu dri wedi ymgynull yn enw" yr Arglwydd Iesu, yno y mae yntau "yn y canol;" a'i fod yn aros gyda'i bobl "bob amser hyd ddiwedd y byd;" ac mai o'n tu ni y mae y bai, pan nad ydym yn mwynhau o'i gymundeb ac yn profi ei ddylanwadau; ac nad oes genym funud o amser i'w golli heb geisio a chwilio ein ffyrdd, a dychwelyd at yr Arglwydd a "cheisio ei wyneb." Gorchymynir i ni "geisio ei wyneb Ef bob amser;" arwydda hyny ei fod i'w gael "bob amser" fel eu gilydd.

Rhaid fod yr addysg a ganiatao esgus i bechadur aros a disgwyl, a roddo ddadl yn ei enau dros oedi ufuddhau a dychwelyd, yn fwy ar ffordd yr Yspryd nag ydyw o gydweithredu âg Ef, a dywedyd yn y modd esmwythaf am dani. Ond pell oddiwrthyf fi fyddo meddwl na dywedyd, nad yw pleidwyr y golygiadau hyny yn gydwybodol, gonest,

a diffuant yn eu gwaith yn eu cyhoeddi a'u hamddiffyn; a'u bod yn gwneyd hyny gyda y dybenion a'r amcanion goreu, er na allaf lai na dwyn fy nhystiolaeth yn erbyn y golygiadau eu hunain. A phell oddiwrthyf hefyd fyddo defnyddio yr iaith erwin, bigog, a chondemniol er gwisgo y briod-ddull hono o anffaeledigaeth a ddefnyddiai ac a wisgai rhai areithwyr, ac ambell ysgrifenydd, o'r ochr hono i'r ddadl, yn ddiweddar. "Eithr Michael, yr archangel, pan oedd efe, wrth ymddadleu â diafol, yn ymresymu yn nghylch corff Moses, ni feiddiodd ddwyn barn gablaidd arno."

(ii.) *Gair at y Briodasferch*—Gwraig yr Oen, Brenines y nef. "Deffro, deffro, gwisg dy nerth, Seion; gwisg wisgoedd dy ogoniant sanctaidd ddinas Jerusalem; cyfod, ymysgwyd o'r llwch, ymddatod oddiwrth rwymau dy wddf, ti gaethferch Seion." "Dyrcha dy lygaid o amgylch," edrych ar y byd o'th ddeutu, gwel genyt lawer iawn o dir heb ei feddianu; y mae y "cenhedloedd" wedi eu "rhoddi yn etifeddiaeth" i'th Briod, "terfynau eithaf y ddaear" wedi eu rhoddi i fod yn "eiddo" iddo; yntau wedi gadael y gwaith o'u goresgyn, a chymeryd meddiant o honynt yn ei enw, i'th ofal di a'r Yspryd. Y mae yr Yspryd yn barod, y mae yn galw am dy gydweithrediad mwyaf egnïol; yn galw arnat i ddyfod gydag ef i ymosod ar alluoedd y tywyllwch, i ddarostwng llygredigaeth y byd, i'w wahodd a'i droi at y Gwaredwr, ac i osod "dyddiau y nefoedd ar y ddaear." Nid yw yn gofyn i'r briodasferch fyned gam allan hebddo, ac na feddylied hithau y gall symud cam na gwneyd dim hebddo chwaith; ac nid yw am fyned gam ei hunan hebddi hithau. Seion! gofyn am dano, y mae dy "Dad yr hwn sydd yn y nefoedd" yn barotach i'w roddi nag ydyw tadau i "roddi rhoddion da i'w plant." Rhaid i ni brisio y rhodd hon uwchlaw pob peth arall, cyn y byddwn ar y tir ac yn y teimlad y mae ef i'w gael. Pan y mae yr eglwys mewn

gwewyr am dano, yn methu byw hebddo, y mae hi yn y ffrydle ag y mae y dylanwadau dwyfol yn llifeirio yn wastadol ar hyd-ddi; "pan y mae yn wan, yna y mae yn gadarn" yn ei nerth ef; pan y mae hi "fel hwylbren ar ben mynydd, ac fel baner ar fryn; Ymddyrchaif yr Arglwydd i dosturio wrthi, ac y disgwyl i drugarhau wrthi." Pan yn ymarfer â'r holl foddion a osodwyd yn ei chyrhaedd er helaethu teyrnas ei Phriod, a dychwelyd y byd ato, mewn hollol ymddibyniad ar ei Yspryd ef, ni chafodd erioed, ac ni chaiff byth, ei siomi am dano. "Ni adewaist, O Arglwydd, y rhai a'th geisiant." "Ni ddywedodd Efe wrth hâd Jacob, Ceisiwch fi yn ofer." Pan ddychwelent ac y ceisient Ef, efe a geid ganddynt; a phan y'm ceisiont â'u holl galon, gadawaf iddynt fy nghael."

Os gofynir yn y fan hon, pa beth sydd yn dwyn yr eglwys, wedi y cwbl, i'r agwedd hon? A pha beth a enillir drwy y dull yma o bregethu? Yr ateb yw, mai Yspryd yr Arglwydd, yn ddiamheu; Efe yw "yr hwn sydd yn gweithio ynddi yr ewyllysio a'r gweithredu, o'i ewyllys da Ef." Ond eto, trwy foddion a gweinidogaeth addas a phriodol i'r dyben yma, rhaid "cerdded a llefaru yn nglustiau Jerusalem;" "Mynegu i bobl" Dduw "eu camweddau, a'i anwireddau i dŷ Jacob;" "Curo â llaw, a tharo â throed" er ei deffroi; gwneyd iddi adnabod ei gwaith, ei dyledswyddau, a'i cholliadau; ei dysgu mai ei "hanwireddau sydd yn ysgaru rhyngddi â'i Duw;" mai ei phechodau sydd yn cuddio ei wyneb oddiwrthi, fel y "ceisio ac y chwilio ei ffyrdd, ac y dychwelo at yr Arglwydd." Nid oes y duedd leiaf yn athrawiaeth y tymhorau pen-arglwyddiaethol i'w deffroi a'i dwyn i deimlad, ond yn hollol i'r gwrthwyneb. Cofier o hyd nad wyf yn dadleu yn erbyn pen-arglwyddiaeth yr Yspryd, y mae ei holl waith yn ben-arglwyddiaethol a grasol i gyd; ond yn erbyn y pen-arglwyddiaeth dychymygol, o fod

ganddo ryw dymhorau neillduol i weithio, ac na weithia ond ar y tymhorau hyny, beth bynag a fyddo teimlad ei eglwys; y gall hi fod yn effro, yn deimladwy a gweithgar, yn ymarfer â phob moddion â'i holl egni, ac yntau yn sefyll draw, ac yn cuddio ei wyneb, &c. Yr wyf yn credu bod yr athrawiaeth uchod yn hollol wrthdaro tystiolaeth mwyaf eglur a phenderfynol y Beibl; a bendith fawr i'r eglwys a'r byd fyddai i ni ei dilëu allan o'n credöau am byth. Rhaid i'r Ysp'ryd gael gweinidogaeth gymhwys i ddeffroi yr eglwys drwyddi, yn gystal ag i ddychwelyd y byd, ac onide, ni waeth pa beth a bregethir.

Eglwys Dduw! Frodyr a chwiorydd anwyl yn yr Arglwydd! Y mae yr athrawiaeth hon yn ein gwneuthur yn euog iawn! Y mae yn dwyn cyfrifoldeb mawr at ein drysau! A ydyw yr Ysbryd bendigedig yn disgwyl ac yn aros wrthym? A ydyw Efe yn wastadol yn ein cyrhaedd, i ni ymlenwi o hono? A ydyw y byd o'n hamgylch yn "gorwedd mewn drygioni;" eneidiau o'n hymyl yn disgyn i drueni, a ninau yn "cysgu fel rhai ereill?" A ydym yn ddistaw wrth y byd, a ninau wedi ein gosod i fod yn gydwahoddwyr â'r Yspryd i'w gymhell at Grist? Ai nid oes eneidiau wedi eu colli byth ac y gallasem ni fod wedi gwneyd rhywbeth tuag at eu hachub? A ydym heb fod yn sefyll ar ffordd dylanwadau yr Ysyryd i gyrhaedd y byd, yn lle bod megis pibellau i'w dwyn iddo? Onid yw yn bryd i Seion waeddi "Gwared fi oddiwrth waed, O Dduw, Duw fy iachawdwriaeth?" "Y neb sydd ganddo glust, gwrandawed beth y mae yr Yspryd yn ei ddywedyd wrth yr eglwysi." A dyma un o'i leferydd wrthynt, "Deffrowch yn gyfiawn ac na phechwch; canys nid oes gan rai wybodaeth o Dduw; er cywilydd i chwi yr wyf yn dywedyd hyn."

Yn ddiweddaf, *Gair at yr Annychweledig.* Fy anwyl gydbechadur, pa beth a ddywedi wrth y pethau hyn? Pa

beth yw dy esgus bellach? "Pa ham y byddi farw?" Y mae Duw yn gofyn hyn i ti; ni ŵyr Ef am yr un rheswm pa ham, a wyddost ti? Nid oes yr un rheswm pa ham yn ei arfaeth na'i gynghor Ef—yr un yn Iawn ei Fab—y mae hwnw i gyd yn "llefaru pethau gwell," y mae yn Iawn drosot ti, yn gystal a phe na buasai pechadur ond tydi ar y ddaear. Nid oes yr un yn ngweinidogaeth yr efengyl; y mae hono i gyd yn gymhelliadol. Ac nid oes yr un yn ngweinidogaeth yr Yspryd chwaith; "y mae yr Yspryd yn dywedyd, *Tyred.*" A oes genyt *ti* reswm pa ham? A ei di i uffern heb yr un rheswm genyt dros fyned yno? A fydd raid i ti fyned yn fud pan gofyna cythreuliaid, "Pa fodd y daethost ti yma?" Enaid anwyl, lle wedi ei barotoi i ddiafol a'i angelion yw y "lle poenus hwnw," ac nid i ti. "Tyred yr awr hon, ac ymresymwn."

Yn sicr, nid âi di i ddywedyd eto, dy fod yn aros ac yn disgwyl am yr Yspryd, ac nad oes genyt ddim i'w wneyd nes y delo ef; "y mae yr Yspryd yn dywedyd, Tyred;" tithau yn "wargaled a dienwaededig o galon, bob amser yn gwrthwynebu yr Yspryd Glân;" diffoddaist ei gymhelliadau filoedd o weithiau, yn lle eu magu a'u meithrin. "Gweithia allan dy iachawdwriaeth, canys Duw yw yr hwn sydd yn gweithio ynot, yr ewyllysio a'r gweithredu, o'i ewyllys da Ef." Yr holl dueddiadau at, a'r dymuniadau am iachawdwriaeth a deimlaist erioed, oeddynt waith Yspryd Duw ynot; dy iachawdwriaeth oeddynt, pe cawsent eu magu a'u "gweithio allan," yn lle eu mygu a'u difetha. Pa sawl gwaith y lleddaist iachawdwriaeth dy enaid, pan oedd yn agos iawn atat, "yn dy enau ac yn dy galon!" Yn lle myned â'r cymhelliadau hyny at orsedd gras, a gweddio, gan ddywedyd, "Cadarnha, O Arglwydd, yr hyn a wnaethost ynof fi;" aethost â hwynt at y dienyddwyr; "tarewaist benau y rhai bach wrth y meini." Pa nifer o'm darllenwyr a welant

eu hwynebau eu hunain yn adlewyrchu yn y drych hwn? Y cyd-dystiolaetha eu cydwybodau â'r gwirioneddau hyn? "Bob amser yn gwrthwynebu yr Yspryd Glân."

"Yn awr, na chaleda dy galon, dyro law i'r Arglwydd;" clyw lais yr Yspryd yn dywedyd, "*Tyred;*" ateb dithau a dywed, "Wele fi yn dyfod," "dychwel di fi, a mi a ddychwelir; tyn fi, a mi a redaf."

Ddarllenydd annychweledig! yr wyf yn dy adael wrth làn "dwfr y bywyd," ar fin yr "afon bur," yn ymyl iachawdwriaeth. Y mae holl drysorau yr efengyl i ti i'w cael, os wyt yn ewyllysio; ewyllys y Tad, ewyllys Crist, ac ewyllys yr Yspryd Glân; ewyllys yr angelion, ac ewyllys yr eglwys yn y nefoedd ac ar y ddaear, ydyw i ti eu derbyn. Nid oes neb yn anewyllysgar ond y diafol, os nad wyt ti dy hunan; gan hyny, gâd i mi lwyddo i'th berswadio gyda y geiriau olaf hyn, fel y byddech yn gollwng y llyfryn hwn o'th law, i "gymeryd gafael yn y bywyd tragwyddol." Amen. *

* Mab chwe mlwydd oed yn y weinidogaeth oedd yr Awdwr pan yr argraffwyd y Bregeth flaenorol y tro o'r blaen. Chwenychasai ef newid peth ar ei geirweddiad mewn rhai manau, ond barnodd mai gwell yn hytrach oedd ei gadael i ymddangos fel yr oedd, yn niwyg ei chyntefigaeth, gan mai yn y ddiwyg hono yr ewyllysiai y rhai oedd yn awyddus am iddi ymddangos yn y gyfrol hon ei chael.

# PREGETH XXII.

## ANGELION DUW.

"Bendithiwch yr Arglwydd, ei angelion Ef, cedyrn o nerth, yn gwneuthur ei air Ef, gan wrando ar leferydd ei air Ef."—*Salm* ciii. 20.

AM yr oll a wyddom ni am angelion a'u hanes, yr ydym yn ddyledus yn unig i'r llyfr hwn. Y mae "anweledig bethau" yr "Anweledig Anfeidrol a Thragwyddol ei Hun" i'w gweled yn amlwg yn "y pethau a wnaed," yn annibynol ar y dadguddiad goruwchnaturiol o hono yn ei air; ond ni allasem ni byth wybod dim am hanfodiad a nodweddion yr anweledigion crëedig hyny—yr angelion, drwy y pethau a wnaethent hwy, heb i ni gael tystiolaeth yn y gair am danynt; ac y mae efe yn dywedyd llawer am danynt—am eu naturiaeth, eu galluoedd, eu hurddas, eu graddau, eu swyddau, a'u gweithrediadau; eu hymddangosiadau i ddynion sanctaidd gynt, a'u cymwynasgarwch iddynt. "Ysprydion gwasanaethgar ydynt hwy oll, wedi eu danfon i wasanaethu er mwyn y rhai a gânt etifeddu iachawdwriaeth," medd un o dystiolaethau y gair am danynt. (Heb. i. 14.)

Tystia'r ysgrythyr y ffaith arswydlawn ddarfod i dyrfaoedd aneirif o'r creaduriaid uchel-raddol hyn godi mewn gwrthryfel yn erbyn eu Creawdwr Hollalluog, a thrwy hyny syrthio dan ddamnedigaeth i drueni ac anobaith tragwyddol.

Eu cwymp hwy oedd y trychineb mwyaf ofnadwy, yn ddiau, a ddigwyddodd erioed yn hanes llywodraeth y Brenin mawr. Pa fodd, pa ham y bu y golled ddychrynllyd hon? Colli myrddiynau dirif o'r fath greaduriaid gogoneddus a galluog i wasanaethu a gogoneddu Duw a buddion ei lywodraeth, i fod yn fradwyr a llofruddion, i hau melldith a dinystr cyffredinol hyd y gallant, yn mhob man: o bob drwg, angel drwg yw y gwaethaf a mwyaf peryglus i fyned i'w afael, ac yn enwedig eu penaeth hwy, "yr hên ddraig, yr hwn yw diafol a satan;" gyda golwg arno ef dysga ein Gwaredwr ni i weddïo, gan ddywedyd, "Gwared ni rhag yr *un drwg.*"

At yr angelion da, sanctaidd, y rhai a gadwasant eu dechreuad, y cyfeiria y testyn a ddarllenwyd ein sylw. Nid llefaru am *danynt*, ond llefaru *wrthynt*, a wna y Salmydd yma. Cawn ef yn niwedd y Salm ogoneddus hon, megis pen publican y bydysawd yn casglu treth y Brenin mawr. Wedi traethu am fawredd a gogoniant y Brenin fel Duw Rhagluniaeth a gras, geilw ar ddeiliaid ei lywodraeth oll i dalu eu teyrnged ddyledus iddo—ardreth o fawl a diolch. Nid oes gan y deiliaid ddim ar eu helw a allant gyflwyno iddo Ef, ond ufudd-dod a mawl, ac ni ofynir dim arall ganddynt; "Abertha foliant i Dduw, a thâl i'r Goruchaf dy addunedau" (Salm i. 14); a thrachefn (adn. 23) "Yr hwn a abertho foliant a'm gogonedda i; a'r neb a osodo ei ffordd yn iawn, dangosaf iddo iachawdwriaeth Duw."

Y mae y publican, neu y treth gasglwr hwn, yn gywir a gonest yn ei waith, gan ei fod yn talu ei ardrethiad ei hun cyn galw ar neb arall i wneyd hyny. "Fy enaid, bendithia yr ARGLWYDD, a chwbl sydd ynof, ei enw sanctaidd Ef," medd efe yn yr adnod gyntaf o'r Salm. Geilw drachefn ar ei enaid, a gesyd o'i flaen y rhwymedigaethau cryfion lawer oedd arno, i dalu y ddyled hon o fawl, "Yr hwn sydd yn maddeu dy holl anwireddau, yr Hwn sydd yn iachau dy

holl lesgedd, yn diwallu dy enau â daioni, yn gwaredu dy fywyd o ddistryw, ac yn dy goroni â thrugaredd ac â thosturi;" dyna ddigon o resymau dros alw unwaith ac eilwaith ar ei enaid, a'r cwbl oedd ynddo, at y gwaith. Yna geilw ar ereill i dalu eu dyled, "Y rhai gorthrymedig oll," y rhai yr oedd y Brenin mawr yn gofalu am danynt i wneyd "cyfiawnder a barn" iddynt. Yna ar Israel, ei bobl etholedig, y rhai yr hysbysodd Efe iddynt ei ddeddfau a'i farnedigaethau. Yna, yn y diwedd, geilw heibio i bawb a phob peth drwy holl amgylchoedd y llywodraeth ddwyfol yn y nef a'r ddaear, i'w cymhell i dalu y ddyled fawr hon; a therfyna lle y dechreuasai, gyda'i enaid ei hun.

Yn ein testyn, geilw y trethwr gyda'r angelion; talwyr da, parod, ewyllysgar bob amser fuont hwy erioed. Aeth llawer o'u brodyr hwythau yn fethdalwyr, drwy eu brâd a'u hanonestrwydd; rhedodd cyfiawnder arnynt, daliodd a chadwynodd, a thraddododd hwynt i garchar na ddeuant allan o hono: ond y dosbarth gonest a glân a gyferchir yma, y y rhai sydd yn talu eu ffordd; nid oes dim ôl-ddyledion ar lyfrau y llywodraeth yn eu herbyn hwy; ni bu y Brenin erioed ddim ar ei golled oddiwrthynt.

Wrthynt hwy y llefara y testyn. A allai pregethwr tlawd anturio dilyn ei destyn yn hyn am unwaith, a hyny heb ryfygu, drwy anerch y gynulleidfa uchel ac anrhydeddus hon ar fyr eiriau? Caniateir i'r truan a'r tlawd yn y llwch, gyfarch Creawdwr angelion; y mae Efe ei hun yn ei alw, ac yn ei ddysgu i wneyd hyny, gan roddi geiriau yn ei enau i'w dywedyd wrtho, "Efe a edrych ar weddi y gwael, ac ni ddiystyrodd ei ddymuniad." Credwn, gan hyny, nad ystyriai yr angelion ni yn rhyfygus, ac na chymerent yn dramgwyddus am i ni eu hanerch hwy felly ar fyr eiriau. Nid gweddio arnynt chwaith, gwyddom na fynent i ni wneyd hyny ar un cyfrif. Pan gynygiodd "y dysgybl yr

oedd yr Iesu yn ei garu" syrthio i lawr wrth draed yr angel oedd yn dangos y weledigaeth nefol iddo, ataliodd ef yn y fan, gan ddywedyd wrtho, "Gwel na wnelych, canys cydwas ydwyf fi i ti, ac i'th frodyr y proffwydi, ac i'r rhai sydd yn cadw geiriau y llyfr hwn. Addola Dduw." (Dat. xxii. 9.) Gwelir yma y gwahaniaeth annhraethol oedd rhwng yr angel sanctaidd hwn a'r angel aflan, taiog hwnw a ofynai Fab Duw ei hun "syrthio i lawr a'i addoli ef" yn yr anialwch. (Mat. iv. 9.) Caniatewch i ni, angelion gogoneddus, fel eich "cydweision," i ddywedyd wrthych bod yn dda iawn genym ni am danoch, er na welodd yr un o honom yr un o honoch chwi erioed, ond gwyddom beth o'ch hanes. Ein tadau, y rhai a gawsant yr anrhydedd hwnw, a fynegasant i ni pa mor dirion a charuaidd, a chymwynasgar hefyd, fyddech yn eich ymweliadau â hwy. Dygasoch rai o ddirgeledigaethau llyfr ein bywyd ni fel cenadau anfonedig oddiwrth yr orsedd dragwyddol, i'w dadguddio i ni trwy y proffwydi a lefarasant wrthym "yn enw yr Arglwydd." Un o honoch chwi a gyhoeddodd y "newydd da o lawenydd mawr" am enedigaeth ein Ceidwad gyntaf erioed i ni, plant dynion; a daethoch i lawr o'r nefoedd bob un, y bore hwnw, i'w addoli Ef yn faban yn ein natur ni, yn y preseb tlawd; chwi a ganasoch anthem orfoleddus ei Nadolig Ef, yr hon y mae ei phêr adsain yn fyw yn awelon y ddaear byth. Do, buoch yn gweini i'n Gwaredwr ni yn yr anialwch, ac yn yr ardd. Un o honoch chwi a dreiglodd ymaith y maen oddiar ei fedd fore y trydydd dydd. Mor garuaidd fu dau o honoch wrth y gwragedd anwyl hyny a'i "canlynasent Ef o Galilea," y rhai a ddaethent yn ofnus a galarus at ei fedd y bore hwnw, "a hi eto yn dywyll," i'w hysbysu ei fod Ef wedi adgyfodi. Mewn gair, y mae yr holl hanes sydd genym ni am danoch yn eich gwisgo â phrydferthwch a hawddgarwch yn ein golwg.

Dywed y testyn o'r ysgrythyr y cymerwn ein safiad arno i'ch anerch yn y wedd hon, eich bod "yn *gedyrn o nerth*," a chawn lawer o brofion o hyny yn yr hanes a rydd yr ysgrythyr am eich gweithrediadau. Y gwrhydri mawr a wnaethoch ar Sinai "ddydd y gymanfa," pan ddygasoch allan y cymylau a'r tywyllwch, a'r dymhestl a'r tân, a'r mellt a'r taranau, a holl elfenau natur yn eu llawn nerth, nes peri i'r "mynyddoedd neidio fel hyrddod, a'r bryniau fel ŵyn defaid;" a pheri i bob cnawd i lewygu a llesmeirio gan ofn a dychryn. Lladdodd un o honoch chwi, ar orchymyn eich Brenin, agos i ddau can mil o filwyr arfog ar un ergyd. Cyffyrddodd un arall â Herod fawr, falch, gelyn ac erlidiwr cyntaf yr eglwys, fel yr aeth yn bydredd trwyddo yn y fan, "a chan bryfed yn ei ysu efe a drengodd." Ymagorai bolltau a dôrau cryfion carchar Petr o'ch blaen ar eich amnaid, megis o'i waith ei hun. O ba natur yw eich nerth hwn, nis gwyddom ni. Nid nerth gewynol, cnawdol, mo hono, ni a dybiwn, gan "nad oes gan yspryd gnawd ac esgyrn" fel ni, canys ysprydion ydych chwi; ond yr ydych, rywfodd, yn gallu cymhwyso eich nerth at wrthddrychau anianol a materol i wneyd pethau nad allwn ni mo'u gwneyd.

Gallai un o honoch chwi ddiffodd anadl einioes y gynulleidfa hon mewn moment, a'n gadael oll yn gelaneddau meirw yn y fan yma. Dim ond i un o honoch dynu yn ol y llèn sydd yn cysgodi ei wyneb, a dangos ei wedd i ni am eiliad, ni a lewygem oll gan fraw; fel y syrthiodd y wyliadwriaeth o filwyr Rhufeinig oedd yn gwarchod bedd ein Ceidwad, "megis yn feirw ar y ddaear," pan wnaeth un o honoch felly yn ngardd Joseph y bore hwnw. Wel, angelion sanctaidd, ymguddiwch chwi yna yn yr anweledig, nyni a ddeuwn atoch yn y man, pan y gobeithiwn y byddwn yn ddigon cryfion i sefyll ac edrych yn eich wynebau! a chymdeithasu â chwi fel brodyr, heb nac ofn nac arswyd.

Yr ydych chwi hefyd yn "gedyrn o nerth" mewn ystyr uwch—mewn gwybodaeth, dealltwriaeth, ac amgyffredion. Nid yw yr eangaf ei wybodaeth, y cryfaf ei ddealltwriaeth a'i amgyffredion o honom ni ddynion ar y ddaear, ond megis baban newydd eni, mewn cymhariaeth â'r un isela o honoch chwi. Yr ydym ninau, yn wir, mewn rhyw bethau, ychydig yn ddoethach nac anifeiliaid y ddaear, ac ehediaid y nefoedd, ond beth ydym mewn cymhariaeth â chwi, *angelion* y nefoedd? "Dyn gwâg, er hyny, a gymer arno ei fod yn ddoeth;" ac o herwydd ei fod yn "ddyn gwâg," y cymer efe arno ei fod yn "ddoeth," ac y rhuthra i hylldremu ar, a thaeru yn nghylch dirgeledigaethau na fynwch chwi, sydd yn ddoethion mewn gwirionedd, geisio edrych i mewn iddynt.

Ond y mae ein testyn yn dyweyd un peth arall mwy ac uwch am danoch—eich bod "*Yn gwneuthur ei air Ef*," a dyma glod uchaf angel. Yr ydych chwi oll "yn gwneuthur ei air Ef," bob un, bob amser, yn ddiball; yn ufudd, yn ewyllysgar o'r galon, yn berffaith a difêth;

> "A byth heb golli'r cariad pur,
> A'r pleser yn y gwaith."

Dedwydd a gwynfydedig ydych; ni wânodd colyn cydwybod euog fynwes un o honoch chwi erioed; ni ellir pregethu edifeirwch i chwi, canys ni wnaeth yr un o honoch ddim erioed i beri iddo achos edifarhau a gofidio dim o'i herwydd. Ni wiw son am bregethu maddeuant pechodau i chwi, o herwydd nad oes genych bechod i'w faddeu; ni ellwch chwi wneyd dim yn gymwysiadol i chwi eich hunain â'r athrawiaeth fawr o gyfiawnhad trwy ffydd; yr ydych yn gyfiawn a difai erioed ger bron yr orsedd dragwyddol—yn gyfiawn yn y cyfiawnder y'ch crewyd ynddo—drwy barhau mewn ufudd-dod gwastadol i ewyllys Duw. Wel, ynte, cymerwn ni ddynion euog, pechadurus, yr *edifeirwch*, a'r *maddeuant*,

a'r *cyfiawnhad drwy ffydd*, a cheir gweled, ryw ddiwrnod, mantell pwy fydd yr harddaf y dydd y daw yr euog a wisgwyd â'r fantell hono o flaen yr orsedd, dan ganu,

"Dygodd Ef fy nillad budron,
Ac a'm gwisgodd i yn lân,
A'r cyfiawnder Dwyfol hwnw,
Na fu am dana'i erioed o'r blaen."

Eto; dywed ein testyn eich bod chwi yn gwrando "ar leferydd ei air Ef"—ar bob gair—heb wrando ar air neb arall; felly, yn wrandawyr a gwneuthurwyr y gair. Angelion! y mae yma ddynion yn yr oedfa hon sydd wedi byw yn sŵn "lleferydd ei air Ef" er ys deugain mlynedd, heb wrando ac ufuddhau eto! ïe, "deugain mlynedd y bu ei air Ef yn ymryson â'r genhedlaeth hon," ac y mae hi yn genhedlaeth luosog yn Nghymru, yr hon sydd wedi dal holl nerth gweinidogaeth "ei air Ef" yn eu hanghrediniaeth a'u hanufudd-dod hyd yma! ânt "ymaith, un i'w faes, ac arall i'w fasnach, yn ddiystyr ganddynt" bob tro; gwrandawant y geiriau, ond nis gwnant hwynt. Beth a feddyliwch chwi, angelion, am y dynion hyn?

Drachefn; y mae ein Salmydd ni yma yn eich galw chwi at ddyledswydd bwysig, nid oherwydd ei fod yn tybied y gallai eich bod yn ei hesgeuluso; gwyddai eich bod oll yn ei chyflawni yn wastadol a di-goll; ond geilw felly arnoch chwi, angelion, i fendithio yr Arglwydd, er ein deffro a'n cymell ni, ddynion, at y gwaith. Ydych, yr ydych chwi yn bendithio yr Arglwydd am eich crëu mor ogoneddus, am eich cynal a'ch diogelu pan syrthiodd cynifer o'ch brodyr i bechod a thrueni; am y galluoedd cryfion y cynysgaeddodd Efe chwi â hwynt i'w wasanaethu a'i fwynhau; ïe, am y drefn o ras yn Nghrist Iesu i'n gwaredu a'n hadfer ni, ddynion, o'n trueni; yr ydych o hyd "yn chwenychu edrych" ar ry-

feddodau y drefn hon yn fwy nac ar ddim arall a welsoch o'r blaen erioed; ac yn y drefn hono i godi y dyn a syrthiodd, y diogelwyd chwithau rhag syrthio byth: gan hyny, "Bendithiwch yr Arglwydd" gyda ni, a chyd-ddyrchafwn ei enw Ef.

Yn awr, angelion sanctaid, byddwch wych. Yr ydym yn teimlo, weithiau, awydd i ddiolch am danoch, er, hwyrach, na chlywir neb o honom byth yn gwneyd hyny. Byddwn yn arfer diolch am wlaw ac am wres, am dymorau ffrwythlawn a chynhauaf da, am ein bara beunyddiol, ac am holl fendithion y bywyd hwn; ac yn ddiau, ni a ddylem ddiolch am danoch chwi, ei angelion Ef; cawsom lawer iawn o gymwynasau a bendithion trwoch, fel offerynau, a gallem feddwl mai nid amhriodol fyddai i ni ddiolch *i* chwi hefyd; yr ydym yn arfer diolch i'n gilydd, bob dydd, am ryw fân gymwynasau a wnawn y naill i'r llall; paham, gan hyny, y byddai yn anweddus i ni ddiolch felly i chwithau. Byddwch wych. Bendith arnoch oll. Amen.

Yn nesaf, y mae y treth-gasglydd yma yn galw heibio i'w "holl luoedd, a'i holl weithredoedd yn mhob man o'i lywodraeth Ef," am arian y deyrnged; ac wrth derfynu ei Salmau drachefn, cymer daith eto drwy yr uchelderau, gan alw yr "haul a'r lleuad, yr holl sêr goleuni, nef y nefoedd, a'r dyfroedd oddiar y nefoedd." Yna disgyna i lawr i'r ddaear, geilw "y dreigiau a'r holl ddyfnderau—tân a chenllysg, eira a tharth, gwynt ystormus, y mynyddoedd a'r bryniau oll, coed ffrwythlon, a'r holl gedrwydd;" yr holl greadigaeth ddifywyd a'i helfenau. Nis gall y dosbarth hwn gyflwyno moliant i'r Creawdwr fel "*rhesymol* wasanaeth," ac ni ofynir hyny ganddynt. Gogoneddir Ef ynddynt hwy fel y maent yn amlygu ei "dragwyddol allu Ef a'i Dduwdod," a'i anfeidrol ddoethineb a'i ddaioni yn eu cread a'u trefniad i ateb dybenion teilwng yn ei lywodraeth, a'u cyf-

addasrwydd i hyny. Yn y wedd hon y mae "Y nefoedd yn dadgan gogoniant Duw, a'r ffurfafen yn mynegu gwaith ei ddwylaw Ef, a dydd i ddydd yn traethu ymadrodd, a nos i nos yn dangos gwybodaeth," am hyny dywedir, "Dy holl weithredoedd a'th glodforant, O Arglwydd." (Salm cxlv. 10.) Y dosbarth nesaf y gelwir arno i folianu y Creawdwr a gynwys holl naturiaeth gwylltfilod, anifeiliaid, ymlusgiaid, "adar asgellog," a'r pethau yn y môr; yn yr un ystyr ag y mae y greadigaeth ddifywyd a anerchwyd o'r blaen y mae y greadigaeth fyw, ond "anianol ac anrhesymol" hon, hithau yn molianu yr Arglwydd. Yn olaf, deuir at y dosbarth uchaf o greaduriaid—y deallol, rhesymol, ac ysprydol; "creaduriaid yn meddu ar alluoedd a chymwysderau i aberthu moliant," fel "*rhesymol* wasanaeth," rhai yn meddu ar ewyllys i wneyd, neu i wrthod gwneyd. Gelwir arnynt yma, bob gradd, oedran, a sefyllfa, at y ddyledswydd arbenig hon—"Breninoedd y ddaear a'r holl bobloedd; tywysogion, a holl farnwyr y byd; gwŷr ieuainc, a gwyryfon hefyd; henafgwyr a llanciau. Molant enw'r Arglwydd, o herwydd ei enw Ef yn unig sydd ddyrchafadwy; ei ardderchowgrwydd Ef sydd uwchlaw daear a nefoedd." (Salm cxlviii. 11–13.) Ond och! y mae hi wedi drysu yma. Aeth y dosbarth hwn, a hwn yn unig (heblaw yr angelion ni chadwasant eu dechreuad), "yn ol am ogoniant Duw." Nid oes dim anghydgord i'w glywed byth yn ngherddororiaeth mawl y greadigaeth o fydoedd ac elfenau yn yr uchelderau; y dynol sydd wedi drysu—yma y mae y *discord* i'w glywed. Pan ddelom at byrth dynoliaeth, yn lle "sain cân a moliant," y clywir "pob creadur yn cyd-ofidio ac yn cyd-ocheneidio;" canys yma, darostyngwyd pob creadur i gaethiwed llygredigaeth, nid o'i fodd, ond o herwydd yr hwn a'i darostyngodd, sef y dyn—y pechadur. Yn lle llef gorfoledd a mawl, a "sŵn caniadau o eithafoedd y ddaear,"

clywir trwst rhyfeloedd, gwaeau, ac wylofain, anrhaith a dychryn, a dinystr. Clywir yn wir, lef gorfoledd ac iachawdwriaeth yn mhebyll y cyfiawn; yma hefyd, ond yn cael ei boddi a'i drysu gan grochlefau annuwiolion ac annuwioldeb—pechod a thrueni sydd uchaf eu sŵn o lawer yma. Ond "nefoedd newydd, a daear newydd, yr ydym ni yn ol ei addewid ef yn eu disgwyl, yn y rhai y mae cyfiawnder yn cartrefu." (2 Petr iii. 13.) Nid fel y maent yn awr y mae pethau i aros a pharhau byth. "Dan obaith y rhyddheir y creadur yntau hefyd o gaethiwed llygredigaeth i ryddid gogoniant plant Duw" (Rhuf. viii. 21), fel y caffo "y creadur yntau hefyd" fwynhau bywyd i'r graddau uchaf y gall ei natur ef fwynhau. Y mae yr Adferwr mawr ar ddeheulaw y mawredd, yn y goruwchleoedd, "a'r awdurdodau a'r galluoedd wedi eu darostwng iddo" (1 Petr iii. 22); "O hyn allan yn disgwyl hyd oni osoder ei holl elynion ef yn droedfainc i'w draed" (Heb. x. 13), ac y gwawrio "amseroedd adferiad pob peth, y rhai y dywedodd Duw trwy enau ei holl sanctaidd broffwydi erioed." (Act. iii. 21.) Y mae gwaith mawr iawn i'w wneyd i ddwyn amseroedd yr adferiad mawr hwnw i ben; ond y mae ei "addewid Ef" yn ddigon i sicrhau y cyflawnir y gwaith hwnw yn llaw a than arolygiaeth yr Hwn y mae pob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear yn ei feddiant, ac "ni phalla efe, ac ni ddigalona, hyd oni osodo farn ar y ddaear; yr ynysoedd hefyd a ddisgwyliant am ei gyfraith Ef." (Esa. xlii. 4.) Gwelodd Ioan, mewn gweledigaeth, yr hyn y dywedai Petr ei fod ef a'r credinwyr yn disgwyl am danynt "yn ol ei addewid Ef." "Ac mi a welais nef newydd, a daear newydd: canys y nef gyntaf, a'r ddaear gyntaf a aeth heibio; . . . a marwolaeth ni bydd mwyach, na thristwch, na llefain, na phoen, ni bydd mwyach; oblegid y pethau cyntaf a aethant heibio." (Dat. xxi. 1–4.)

Cawn y Salmydd, wedi bod drwy holl ororau y greadig-

aeth yn casglu arian y deyrnged i'r Brenin a "barotodd ei orseddfa yn nefoedd, a'i freniniaeth yn llywodraethu ar bob peth," yn troi adref. Gyda ei enaid ei hun y dechreuodd, a therfyna yn yr un man: "Fy enaid, bendithia yr Arglwydd." Dyma y drydedd waith yn y Salm iddo alw fel hyn ar ei enaid, ac ychwanega y bedwaredd eto yn nechreu y Salm nesaf, yr hyn a ddengys ei fod yn teimlo ei hun dan fwy o rwymau nag oedd ar neb arall y buasai yn eu galw a'u cymell at y gwaith. Fy enaid! pe tawai pawb trwy'r nefoedd, bendithia di yr Arglwydd! Edrych, ystyria, meddwl am "*Ei holl ddoniau Ef*"—doniau ei ras a'i iachawdwriaeth, ei ddoniau goreu, penaf, a gwerthfawrocaf Ef. Nid i angelion y darparodd Efe y doniau hyny, ond i ti, fy enaid. Fe'th arbedodd di rhag dy ddamnio, er pechu a gwrthryfelu o honot yn ei erbyn. "Nid arbedodd efe yr angelion a bechasent, eithr eu taflu hwynt i uffern, a'u rhoddi i gadwynau tywyllwch, i'w cadw i farnedigaeth" (2 Petr ii. 4); ond fe'th arbedodd di, er pechu o honot fel hwythau, a hyny filoedd o o weithiau, heb dy daflu ar eu hol hwy i'r un distryw, dan yr un farnedigaeth; "Fy enaid, bendithia yr Arglwydd." Os tewi di, bydd angelion a chythreuliaid yn synu atat. Ystyria eto, fy enaid, nid yn unig Efe a'th arbedodd, ond y mae Efe "Yn diwallu dy enau a daioni; yn dy goroni â thrugaredd ac â thosturi, ac yn dy lwytho beunydd â daioni." Pa le y mae creadur pechadurus arall yn ei holl lywodraeth Ef, os gwyddost, y gwnaeth Efe felly âg ef heblaw dyn? Efe a ddaeth ei Hun ar dy ol di i'th geisio a'th gadw, pan oeddyt yn crwydro fel dafad ar gyfeiliorn! Efe a wisgodd dy natur am dano, gan fod yn "gyfranog o gig a gwaed;" "Canys nid naturiaeth angelion a gymerodd efe, ond hâd Abraham," y naturiaeth ddynol a gymerodd Efe, "fel y byddai drugarog ac Archoffeiriad ffyddlawn mewn pethau yn perthyn i Dduw, i wneuthur cymod dros bechodau y

bobl." (Heb. ii. 17.) Do, Efe a'i rhoddodd ei hun trosot, fy enaid, yn aberth ac yn offrwm difai i Dduw! Saf, gan hyny, gyferbyn â'i groes Ef, a gofyn i ti dy hun, "Pa faint o ddyled sydd arnat ti i'th Arglwydd," ragor pob bôd arall sydd yn bodoli?

"Ond dyn yn enwedigol,
Ië, dyn molianed Ef.
Mewn haleluia ddyblyg,
O'r ddaear gron i'r nef;
Canys tros y dyn 'mestynodd
Ef ar y croesbren mawr,
A thros y dyn gorweddodd
Yn gwaelod bedd i lawr."

Unwaith eto; "Yr hwn sydd yn maddeu dy holl anwireddau." Gosodir hon yn flaenaf ar restr y bendithion, am mai hi yw y benaf o honynt oll; felly hefyd y gosodir hi yn ngweinidogaeth yr efengyl i'w chyhoeddi i'r byd, "Pregethu edifeirwch a maddeuant pechodau;" heb hon ni buasai un efengyl i fyd euog yn bod. Gosodir y ddyledswydd, edifeirwch, o'i blaen, fel Ioan Fedyddiwr yn myned o flaen y Messia, i barotoi y ffordd, i agor drws yr enaid, fel y delo hi, maddeuant, i mewn; ac y mae hi yn dwyn pob bendith arall i mewn gyda hi. "Fy enaid," fel pe dywedasai y Salmydd, "dyma beth newydd, edrych ar hwn." Yr hwn sydd yn maddeu dy holl anwireddau; dyma beth mwy na gwaredu dy fywyd naturiol rhag distryw am dymhor—mwy na diwallu dy enaid â daioni a bendithion y bywyd hwn; a choroni y bywyd hwnw â thrugareddau tymhorol;" "Maddeu dy holl anwireddau." Y mae bywyd tragwyddol o ddedwyddwch a gogoniant yn y fendith hon, megis y dadgenir mewn Salm arall, "Dedwydd yw y rhai y maddeuwyd eu hanwireddau, a'r rhai y cuddiwyd eu pechodau. Dedwydd yw y gwr nid yw'r Arglwydd yn cyfrif pechod iddo."

(Salm xxxii. 1, 2.) Ië, dedwydd *yw*, a dedwydd *fydd*, y gwr hwnw, ac nid dedwydd un gwr arall. Dedwydd yw y gwr hwnw, pwy bynag yw, pa le bynag y mae, pa le bynag yr elo; dedwydd fyddai y gwr hwnw yn uffern ei hun, a thruenus fyddai pob gwr arall yn y nefoedd, ped elai efe yno. Byddai tân mawl y nefoedd yn fwy annyoddefol i elyn a chablwr Duw i fyw ynddo na thân ei soriant yn Gehena obry.

Pa beth a ddywedwn ni wrth ac oddiwrth y pethau hyn? Y mae perthynas agos, bwysig rhwng y pethau hyn â phob un o honom, fel y maent yn cydalw arnom at y rwymedigaeth a'r gwaith—y penaf a phwysicaf o bob gwaith. Y mae y pethau hyn yn dangos i ni mai dyben uchaf holl waith Duw yn nghreadigaeth pob peth yn y nefoedd a'r ddaear, yn holl oruchwyliaethau ei lywodraeth, yn ei ragluniaeth ar bob peth, ac yn iachawdwriaeth dyn ydyw gogoniant ei enw mawr ei Hun; "Yr Arglwydd a wnaeth bob peth er ei fwyn ei Hun." (Diar. xvi. 4.) Felly, gelwir ar bob peth yn gyffredinol, ac arnom ni, ddynion, yn neillduol, yn amlach o lawer yn y Beibl at y ddyledswydd o ogoneddu a moliannu Duw, nac at un ddyledswydd arall. Dolur llygad yn y greadigaeth fyddai creadur wedi pallu a methu ateb dyben ei fodoliaeth; gwrthuni ar wyneb y nefoedd fyddai haul wedi colli ei wres a'i oleuni, neu blaned wedi drysu a myned ar gyfeiliorn, ni byddai y cyfryw dda i ddim, o ddim gogoniant i'r Creawdwr, nac o ddim gwasanaeth i un creadur. Angel, wedi colli ei sancteiddrwydd, colli ateb dyben ei greadigaeth, beth a dâl ef? "Nid yw efe dda i ddim," ond ei fwrw allan yn adyn gwrthodedig o bob cymdeithas, yn ysgymunbeth y greadigaeth, ac i'w gadw yn garcharor dan gadwynau tywyllwch. A dyma ddywed y gwirionedd am danom ni ddynion, "Pawb a bechasant ac ydynt yn ol am ogoniant Duw." (Rhuf. iii. 23.) Nid oes

un ymadrodd a ddengys gyflwr truenus y creadur yn fwy na hwn—"Yn ol am ogoniant Duw." Yn ol y *Peshito* Syriag, un o'r copïau hynaf, os nad yr hynaf oll, o'r Testament Newydd, "A fethasant am ogoniant Duw," a aethant yn feth-dalwyr; felly yr ydym ni oll wedi ein *gazetio* yn feth-dalwyr ar lyfrau'r llywodraeth, a hithau yn parhau byth i'n gofyn am y deyrnged. Y mae mawr ofal calon ar filoedd o ddynion bob dydd rhag myned yn ol yn y byd—methu talu eu ffordd, fel y dywedwn. Llawer un yn methu cysgu na bwyta gan bryder ac ofn, methu talu ei ardreth, ac ateb i'w ofynwyr, na ddarfu iddynt feddwl na phryderu am fynyd erioed o herwydd eu bod wedi myned yn ol am ogoniant Duw—yn feth-dalwyr ar lyfrau y nefoedd—methu yn y peth mawr, mwyaf o bob peth, methu yn ei berthynas â Duw; ac amcan a dyben uchaf bodoliaeth y creadur; ac unwaith y delo y creadur i sylweddoli y syniad hwn am dano ei hun, y mae pob peth arall yn cilio o olwg ei feddwl, ac yntau yn gwaeddi, "Pa beth a wnaf?" Yma y mae yr efengyl yn ei gyfarfod, ac ni buasai hi yn efengyl iddo ef erioed cyn hyn, ac yn dywedyd wrtho, "Ha fab, cymer gysur, maddeuwyd i ti dy bechodau:" a dyna *certificate* i'r meth-dalwr, yn ei ryddhau oddiwrth yr holl ofynion oedd gan y llywodraeth yn ei erbyn, ac yn ei osod ar dir newydd i ail-ddechreu *business* bywyd eto, gan ei "greu o newydd yn Nghrist Iesu i weithredoedd da," fel y byddo "er mawl gogoniant ei ras Ef." I'r amcan a dyben bywyd ag oedd iddo yn y greadigaeth gyntaf y crëir ac y llunir ef yn y greadigaeth newydd; ni all fod un dyben arall i'r naill nac i'r llall.

Eilwaith, fel mai gogoneddu Duw yw dyben uchaf creadigaeth dyn (ac angel yr un modd), felly hefyd, yn nghyflawni y dyben hwnw y mae dedwyddwch penaf y creadur, a gosodir yr ystyriaeth hon fel cymhelliad iddo at y gwaith

yn fynych; "Da yw molianu yr Arglwydd, a chanu mawl i'th enw di, y Goruchaf, a mynegi y bore am dy drugaredd, a'th wirionedd y nosweithiau." (Salm xcii. 1, 2.) "Molwch yr Arglwydd, canys da yw canu i'n Duw ni; o herwydd hyfryd yw, ïe, gweddus yw mawl." (*Ib.* cxlvii. 13.) "Fy ngwefusau fyddant hyfryd pan ganwyf i ti: a'm henaid, yr hwn a waredaist." (*Ib.* lxxi. 23.) "Gwyn fyd preswylwyr dy dŷ, yn wastad y'th folianant." (*Ib.* lxxxiv. 4.) Y mae mwynhad bywyd pob creadur yn ei fod yn aros yn yr elfen y cyfaddaswyd ei natur ef iddi; lluniwyd y lefiathan i chwareu yn y môr, a'r pysg ereill yr un modd; dyger hwy i dir sych, a derfydd am eu chwareu yn y fan, ac am eu bywyd hefyd yn fuan: tröer anifeiliaid y maes i chwareule y pysgod, a dyna ddarfod am danynt hwythau yn union. Felly y creadur a wnaed ar ddelw Duw i'w addoli a'i fwynhau Ef, ni all fod yn ddedwydd byth ond yn ei gydymffurfiad â dyben ei fodoliaeth—clodfori a gogoneddu Duw. "Yn Nuw y mae fy iachawdwriaeth a'm gogoniant; craig fy nghadernid a'm noddfa sydd yn Nuw," medd y Salmydd.

Gwlad y mawl tragwyddol yw y nefoedd; dyna y prif feddylddrych sydd genym ni am dani yn wastad, ac yn wir, dyna y prif feddylddrych a rydd y Beibl i ni am dani. Dyna yr olwg a gafodd Ioan, yn ei weledigaeth, ar y dyrfa ogoneddus o saint ac angelion o flaen yr orseddfainc, yn syrthio ar eu hwynebau ger bron yr Oen, ac yn canu y gân newydd —cân Moses a chân yr Oen. Derfydd y tymor i gyflawni llawer o ddyledswyddau crefydd, yn ngwasanaeth yr eglwys ar y ddaear, pan berffeithir hi yn y nefoedd; ond ni dderfydd y mawl a'r clodforedd yn oes oesoedd. Mynych y dywedai y Salmydd, "Yn dragwyddol y'th folianaf."

Eto; Fe gwyd y Brenin Mawr ei deyrnged o ogoniant oddiar bob un, mewn rhyw ffordd neu gilydd; y mae yn rhwym i'w enw, ei orsedd, a'i air i wneyd hyny. Cafodd

Pharao lawer cynyg i roddi y gogoniant yn wirfoddol iddo, drwy wrando ar ei lais, a gollwng Israel o'i wasanaeth, ac addawodd yntau droion wneyd hyny; ond pan ollyngai llaw farnol yr Arglwydd ei gafael arno ef, tynhâi yntau ei afael ar Israel bob tro. Ond o'r diwedd, "Mi a ogoneddir ar Pharao," medd yr Arglwydd, a gwnaeth hyny drwy ei "ysgytio ef a'i lu yn y Môr Coch, o herwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd." (Salm cxxxvi. 15.) Canys y mae yr Ysgrythyr yn dywedyd wrth Pharao, "I hyn yma y'th gyfodais di, fel y dangoswn fy ngallu ynot ti, ac fel y datgenid fy enw drwy yr holl ddaear." (Rhuf. ix. 17.) Y mae Pharao eto yn datgan ei enw a'i ogoniant Ef, trwy yr holl genhedlaethau—gogoneddodd ei amynedd a'i ddioddefgarwch, a'i hir-ymaros, drwy arbed ei fywyd am hir dymor, tra yr oedd Pharao yn ymgaledu, ymgyndynu, ac yn cablu: drwy hyn daeth Pharao yntau yn ddyn hynod, a phoblogaidd hefyd, mewn hanesyddiaeth—hynod a phoblogaidd fel penadur balch ac ystyfnig, fel y daeth llawer un ar ei ol. Ond beth fu y diwedd? Gogoneddodd Jehofa ei nerth arno yn ei ddymchweliad a'i ddinystr yn y Môr Coch, a chanodd Israel ei farwnad, ac a lefarasant, gan ddywedyd, "Canaf i'r Arglwydd, canys gwnaeth yn rhagorol iawn; taflodd y march a'r marchog i'r môr." (Exod. xv. 1.)

Wrth derfynu, caniataer i mi ofyn, a ydych yn foddlon ac yn barod yn awr i dalu treth y Brenin? Rhaid ei thalu ryw fodd, ryw bryd. Yn awr, "Rhoddwch ogoniant i'r Arglwydd eich Duw, cyn iddo Ef ddwyn tywyllwch, a chyn i chwi daro eich traed wrth y mynyddoedd tywyll? a thra fyddoch yn disgwyl am oleuni, iddo Ef ei droi yn gysgod angeu, a'i wneuthur yn dywyllwch." (Jer. xiii. 16.) "Addunedwch a thelwch i'r Arglwydd eich Duw." (Salm lxxvi. 11.) Ië, addunedwch a thelwch; y mae llawer o honoch wedi *addunedu* lawer gwaith, ond heb dalu, na dechreu talu eto. "Pan

addunedech adduned i Dduw, nac oeda ei thalu, canys nid oes ganddo flas ar rai ynfyd; y peth a addunedaist, tâl." (Preg. v. 4.) Na, "Nid oes ganddo flâs ar rai ynfyd," a rhai ynfyd i'r eithaf yw y rhai hyny sydd o hyd dan weinidogaeth yr efengyl yn addunedu dychwelyd, a dim ond hyny, drwy y blynyddoedd. Nid oes gan y gofynwr flâs ar y dyledwr hwnw sydd yn addaw talu ei ddyled bob tro y digwyddo iddo gyfarfod âg ef, a byth yn cyflawni, nac yn ceisio chwaith; dywed y gofynwr o'r diwedd, ei fod wedi blino ar ei addewidion gweigion, ac y byddai yn haws ganddo ei ddyoddef pe dywedai yn groew nad oedd yn meddwl talu byth. Addunedwr heb dalu! Y mae y nefoedd wedi diflasu ar dy addunedau trwy'r blynyddoedd. "Gwell i ti fod heb addunedu, nag i ti addunedu a bod heb dalu." (Preg. v. 5.) "Y peth a addunedaist, tâl"—tâl yn awr; ni ddeui yn fwy abl i dalu byth nag wyt yn awr; gochel flino a diflasu y nefoedd yn hwy â gwâg addunedau a choeg amcanion. "Cytuna â'th ofynwr ar frys, tra fyddech ar y ffordd gydag ef, rhag iddo dy roddi di yn llaw y barnwr, ac i'r barnwr dy roddi di at y swyddog, a'th daflu yn ngharchar. Yn wir, meddaf i ti, Ni ddeui di allan oddi yno hyd oni thalech y ffyrling eithaf." (Matt. v. 25, 26.) Y mae lluoedd o hên addunedwyr, fel y sydd yma yn awr, y diflasodd y nefoedd ar eu haddunedau, "wedi eu rhoddi yn llaw y barnwr," ac at y swyddog a'u bwrw yn ngharchar, yn talu o hyd, ond heb dalu y ffyrling gyntaf eto, na gobaith gwneyd hyny byth. Y mae rhywrai yn y dyddiau hyn yn ceisio dal gobaith i'r dyledwyr a'r methdalwyr a elont i'r carchar hwnw, y deuant allan rywbryd; ond y mae Efe, yr Hwn y mae "agoriadau uffern a marwolaeth ganddo," yn dywedyd, "Yn wir, meddaf i ti, Ni ddeui di allan oddiyno hyd oni thalech y ffyrling eithaf." Na, nid oes modd dyfod allan byth o'r carchar hwnw, ond y mae modd peidio myned iddo, drwy gytuno â'r Gofynwr ar y ffordd.

# TRAETHAWD I.

## GWEINIDOGAETH GAIR DUW.

WRTH weinidogaeth Gair, neu Efengyl, Duw, yn ystyr eangaf yr ymadrodd, deallir Goruchwyliaeth y Cyfamod Newydd, yn ei gosodiadau a'i hordinadau, fel y trefnwyd ac y sefydlwyd hi gan yr Arglwydd Iesu Grist a'i apostolion etholedig ac awdurdodedig Ef, i aros a pharhau hyd nes y delo Ef ei Hun i osod terfyn arni. Gweinidogaeth nad oes dim o ddyfais a dychymyg dyn i gael ei ychwanegu ati, nac i dynu oddiwrthi, na chyfnewid dim arni, "Megis y rhybuddiwyd Moses gan Dduw, pan oedd efe ar fedr gorphen y babell; canys, Gwel, medd Efe, ar wneuthur o honot bob peth yn ol y portreiad a ddangoswyd i ti yn y mynydd." (Heb. viii. 5.) Yr oedd y rhybudd hwn i Moses i fod yn rhybudd ac addysg i'r holl oesau, i gadw cnawd ar ei ocheliad rhag ymyraeth dim oll mewn un modd â phethau cysegredig gwasanaeth ac addoliad Duw, a drefnasid ac a osodasid ganddo Ef ei Hun. Wrth ryfygu gwneyd hyn, y taflodd cnawd y sarhad mwyaf ag oedd yn bosibl iddo ar awdurdod a doethineb yr anfeidrol. Pe nas gwnaethai Moses y babell yn ol y portreiad a ddangoswyd iddo yn y mynydd, a hyny yn "*mhob peth*," ni ddaethai Duw i breswylio ynddi. "Ond Moses, yn wir, a fu ffyddlon yn ei holl

dŷ ef, megis gwas, er tystiolaeth i'r pethau oedd i'w llefaru," neu i gael eu dysgu trwyddynt, fel yr oedd y tŷ hwnw a'i holl drefniadau yn "Gysgodau o'r daionus bethau a fyddent." (Heb. iii. 5, a ix. 1.) Am ei ofal a'i ffyddlondeb yn hyn, cafodd Moses y gymeradwyaeth a'r ganmoliaeth uchaf gan y Duw mawr ei Hun, a gafodd un dyn ar y ddaear erioed. "Yr hwn sydd ffyddlawn yn fy holl dŷ." (Num. xii. 7.)

"Ond yn awr, Efe (Crist) a gafodd"—a osododd ac a sefydlodd—"weinidogaeth mwy rhagorol, yn gymaint ac y mae Efe yn Gyfryngwr Cyfamod gwell, yr hwn sydd wedi ei osod ar addewidion gwell." (Heb. viii. 6.) "Gweinidogaeth mwy rhagorol" na'r weinidogaeth a gawsai Moses yn y mynydd; ac os oedd y weinidogaeth hono, oedd i gael ei dileu, yn ogoneddus, "mwy o lawer y bydd yr hyn sydd yn aros yn ogoneddus," medd yr apostol (2 Cor. iii. 11). A allem ni dybied, gan hyny, fod mwy o ryddid a goddefiad i'r dynol i ymyraeth â phethau a gosodiadau y weinidogaeth "fwy rhagorol" hon, drwy ychwanegu atynt, neu dynu oddi wrthynt, neu wneyd cyfnewidiadau ynddynt, yn ol ei ddoethineb neu ei chwaeth ei hun? Na allwn, am foment, dybied dim o'r fath beth. Er hyny, ni bu dwylaw cnawd yn fwy prysur gydag un gorchwyl yr ymaflodd ynddo erioed, nag y bu ar y gorchwyl hwn bob amser, yr hyn a barodd ddirfawr flinder i'r eglwys, ac atalfa i lwyddiant crefydd yn y byd.

"Y dyn pechod, mab y golledigaeth, yr hwn sydd yn gwrthwynebu ac yn ymddyrchafu goruwch pob peth a elwir yn Dduw, neu a addolir, hyd onid yw efe megis Duw, yn eistedd yn nheml Duw, ac yn ei ddangos ei hun mai Duw ydyw" (2 Thes. ii. 4); hwn, meddwn, a wnaeth yr hafog fwyaf o bawb yn y peth hwn. Yr oedd "dyfodiad" hwn, medd yr apostol, "yn ol gweithrediad Satan," ei weithrediad penaf, cyfrwysaf, a gwaethaf. Hynod oedd y dyn hwn, fel

y codai ei fwyall halog i ddryllio cerfiadau cysegr Duw, i osod cerfiadau celfyddyd ei ddychymyg ei hun yn eu lle! Dat-drödd a gwrth-drödd yr holl efengyl a'i hordeiniadau hi i wasanaeth ei dwyll a'i uchelgais ei hun, a damnedigaeth eneidiau dynion. Casglodd Satan yn nghyd holl elfenau pob ffug o grefydd a fuasai ganddo yn y byd erioed, i gyfansoddi ei ddyn hwn. O, yr anrhaith dragwyddol! yr holl ddrwg a wnaeth y gelyn hwn yn y cysegr! Ewch i deml ogoneddus "y cyfamod gwell," fel y mae wedi ei hadeiladu yn y Testament Newydd, gan Grist a'i apostolion; "Rhifwch ei thyrau hi, ystyriwch ei rhagfuriau; edrychwch ar ei phalasau, fel y mynegoch i'r oes a ddelo ar ol;" ac ewch i demlau y dwyll-offeiriadaeth Rufeinig a *ritualaidd;* rhifwch dyrau, ystyriwch ragfuriau, ac edrychwch ar eu palasau hwythau; a welwyd dau beth annhebycach i'w gilydd dan haul erioed ag ydyw y ddwy deml yna? Pa gydfod ag undeb a all fod rhyngddynt? Dim oll; mwy nag sydd rhwng goleuni a thywyllwch, rhwng gwirionedd a chelwydd, rhwng Crist a belial. Ni ddadguddiodd Duw un gwirionedd i'r byd na newidiodd Satan a'i weision "y gwirionedd hwnw yn gelwydd." (Rhuf. i. 25.) "Gwirionedd Duw" wedi ei "newid yn gelwydd" ydyw yr athrawiaethau a ddysgir yn nhemlau y pabydd a'r defodwr—efengyl Crist wedi ei datroi a'i gwneyd yn efengyl arall, yr hon nid yw arall, h.y., nid yw efengyl, fel y dywed Paul am dani; ac am athrawon yr "efengyl arall" hono efe a ddywed, "Canys y cyfryw gau apostolion sydd weithwyr twyllodrus, wedi ymrithio yn apostolion i Grist. Ac nid rhyfedd yw, canys y mae Satan yntau wedi ymrithio yn angel goleuni; gan hyny, nid mawr yw er ymrithio ei weinidogion ef fel gweinidogion cyfiawnder, y rhai y bydd eu diwedd yn ol eu gweithredoedd." (2 Cor. xi. 13, 14.)

Hanes gwrthymdrechion egnïol y gwir a'r gau, y *real* a'r

ffugiol, y dwyfol a'r dieflig, yr ysprydol a'r cnawdol a'r defodol yn erbyn eu gilydd, ydyw cynwysiad cyfran fawr iawn o'r Ysgrytdyr, yn yr Hên Destament a'r Newydd. Defnyddia yr Ysgrythyr amryw ffyrdd i wrth-ladd y gelyn y soniwn am dano; weithiau, cymer ddagr finiog gwatwareg i'w drywanu, fel y gwnai Elias gyda'r *humbug* Baal a'i broffwydi ar fynydd Carmel; ac felly gwnai y proffwyd Esaia, ac ereill o'r proffwydi yn fynych, gyda golwg ar dduwiau y Cenhedloedd ac eilunod tŷ Israel a'u proffwydi celwyddog: pryd arall, defnyddia arf ymresymiad i'w ddynoethi, ac er dysgu y bobl i weled ei ynfydrwydd a'i wrthuni; bryd arall, cyhoeddir bygythion a gwaeau ofnadwy yn ei erbyn ef a'i bleidwyr, megis y gwnai y Gwaredwr yn erbyn yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid, a Phaul yr un modd â'r *Ritualists* ei amser ef: bryd arall, gosodir y gwirionedd i sefyll yn ogyferbyn ag ef, megis y gwnaeth y Philistiaid, druain, yn eu hanwybodaeth, pan ddodasant Arch Duw Israel gyferbyn â Dagon eu duw, yn ei deml yn Ashdod, ac erbyn y boreu dranoeth, yr oedd yr *humbug* wedi syrthio ar ei wyneb ger bron Arch Jehofa. Gosodasant ef i fyny eilwaith, a'r boreu nesaf yr oedd Dagon wedi syrthio eto, a'i ben a chledr ei ddwy law wedi eu tori oddiwrth ei gorff a'u taflu oddiwrth eu gilydd, un yma ac un acw ar lawr ei deml. Yn nghwymp Dagon o flaen Arch Duw, cawn ernes o gwymp a dinystr pob *humbug*—pob eilun-dduw, pob gau-grefydd ac ofergoelion, trwy ddylanwad gwirionedd dwyfol yn y diwedd. Cafwyd ernes helaethach o hyn drachefn pan aeth y gwirionedd allan i'r byd ar dafodau tanllyd yr apostolion, ar ol bedydd tanllyd dydd y Pentecost, pan gwympodd yr eilunod o'u blaen yn mhob man. Cafwyd engraifft nodedig o hyn yn Ephesus pan oedd Paul yn pregethu yno, pryd y dygodd llawer o'r rhai a fuasent yn gwneuthur rhodreswaith eu llyfrau dewiniaeth, ac y llosgasant hwynt yn ngwydd pawb,

y rhai a gyfrifid yn werth deng mil a deugain o ddarnau arian. Dyna ddrych o ddiwedd pob *humbugiaeth*, a buan y delo.

1. Deallir a defnyddir yr ymadrodd, "*Gweinidogaeth y Gair*," yn benaf, am bregethiad yr efengyl a gweinyddiad ei hordinhadau. Trwy bregethiad yr efengyl y sylfaenwyd ac y gosodwyd i fyny yr Oruchwyliaeth newydd yn y byd, gan yr Arglwydd Iesu a'i apostolion. "Yr hon wedi dechreu ei thraethu trwy yr Arglwydd, a sicrhawyd i ni gan y rhai a'i clywsant Ef," medd yr apostol (Heb. ii. 1) wrth agor ei draethawd gogoneddus ar oruchwyliaeth gweinidogaeth y Cyfamod newydd. Perthynai i'r weinidogaeth hon ddwy gangen wahaniaethol, y gallem eu galw yr un Anghyffredinol a therfynol, a'r un Gyffredinol a pharhaol; y flaenaf yn arwain i'r olaf. Gweinidogaeth bersonol yr Arglwydd Iesu ei Hun, a'r apostolion ar ei ol Ef, oedd y flaenaf; daeth hono i ben ei thymor pan y cwblhawyd ac y perffeithiwyd ei gwaith yn Ioan, yr olaf a fu fyw o'r apostolion, yr hwn a osododd y maen clo yn adeilad teml y dadguddiad dwyfol, a dyma yr ar-ysgrifen a gerfiodd efe ar y maen hwnw—"Canys yr wyf fi yn tystiolaethu i bob un sydd yn clywed geiriau proffwydoliaeth y llyfr hwn, os rhydd neb ddim at y pethau hyn, Duw a rydd ato ef y pläau sydd wedi eu hysgrifenu yn y llyfr hwn. Ac o thyn neb ymaith ddim oddi wrth eiriau llyfr y broffwydoliaeth hon, Duw a dyn ymaith ei ran ef allan o'r ddinas sanctaidd, ac oddiwrth y pethau sydd wedi eu hysgrifenu yn y llyfr hwn." (Dat. xxii. 18, 19.)

Pregethu oedd y brif elfen berthynol i'r gangen hon; felly y dywed Efe, yr Athraw mawr, am dano ei hun—"I bregethu i'r tlodion yr anfonodd fi, i bregethu blwyddyn gymeradwy yr Arglwydd" (Luc iv. 18 a 19); "Awn i'r trefydd nesaf, fel y gallwyf bregethu yno hefyd; canys i hyny y daethum allan," medd efe dro arall (Marc i. 38). At yr un

gwaith yr etholodd ac yr anfonodd efe y deuddeg dysgybl allan, a'r deg-a-thriugain ar eu hol hwythau; ac am y ddau ddosparth hyn o'i genhadau cyntaf, yn neillduol, y dywed efe yn ei weddi drostynt at y Tad, "Fel yr anfonaist fi i'r byd, felly yr anfonais inau hwythau i'r byd" (Ioan xvii. 19), i gyflawni yr un gwaith, sef pregethu yr efengyl. Gosododd ef bregethu, fel hyn, i fod yn brif ordinhâd yn ngoruchwyliaeth ei deyrnas, yn ei sefydliad a'i dygiad yn mlaen yn y byd. Yr oedd bedydd hefyd (heblaw bedydd Ioan) yn arferedig yn ngweinidogaeth tymor ei fywyd ef, cyn iddo ei sefydlu yn y *Commissiwn* mawr ar ei esgyniad i'r nef. Ychydig iawn a wyddom ni o hanes hwnw, canys ychydig iawn a ddywed yr hanes sanctaidd am dano; Ioan yn unig o'r efengylwyr sydd yn crybwyll dim mewn perthynas iddo, ac ni ddywed yntau ddim ond hyn: "Wedi y pethau hyny daeth yr Iesu a'i ddysgyblion i wlad Judea, ac a arosodd yno gyda hwynt, ac a fedyddiodd" (Ioan iii. 22); a, "Pan wybu yr Arglwydd gan hyny glywed o'r Phariseaid fod yr Iesu yn gwneuthur ac yn bedyddio mwy o ddysgyblion nac Ioan, (er na fedyddiasai yr Iesu ei hun, eithr ei ddysgyblion ef,)" (Ioan iv. 1, 2), a dyna y cwbl oll a gawn ar y mater; ond y mae rhywbeth yn awgrymiadol iawn yn yr ymadrodd cromfachedig ("Er na fedyddiasai yr Iesu ei hun, eithr ei ddysgyblion ef"), fel yn arwyddo mai seren o'r ail radd yn ei deyrnas ef ydoedd y bedydd i fod, mai pregethu oedd y benaf. "Yr hwn a'm hanfonodd i fedyddio," meddai Ioan Fedyddiwr; "I bregethu yr anfonodd Efe fi," medd Efe, yr hwn y dywed y Bedyddiwr am dano nad oedd efe "yn deilwng i ddwyn ei esgidiau ef." Y mae Paul, yntau, yn dywedyd rhywbeth yn debyg am dano ei hun wrth y Corinthiaid. Efe oedd y cenadwr cyntaf a ddaeth i Corinth i bregethu yr efengyl, a bu ei bregethiad yn llwyddianus iawn yno er dychweliad llaweroedd; sefydlodd eglwys luosog

yno; ysgrifenodd epistol maith at yr eglwys hono yn mhen amryw flynyddau wedi hyny, yn yr hwn y dywed efe: "Yr ydwyf yn diolch i Dduw na fedyddiais i neb o honoch, ond Crispus a Gaius. Mi a fedyddiais hefyd dylwyth Stephanas: heblaw hyny, nis gwn a fedyddiais i neb arall. *Canys ni anfonodd Crist fi i fedyddio, ond i efengylu;* nid mewn doethineb ymadrodd, fel na wnelid Croes Crist yn ofer." (1 Cor. i. 14–16.)

Nodweddir gweinidogaeth y tymor hwn fel un anghyffredinol ar gyfrif ddarfod iddi:—

1. Gael dechreu ei "thraethu trwy yr Arglwydd." "Duw, wedi iddo lefaru lawer gwaith, mewn llawer modd, gynt wrth y tadau trwy y proffwydi, yn y dyddiau diweddaf hyn, a lefarodd wrthym ni yn ei Fab," medd yr apostol (Heb. i. 1). A dyna beth anghyffredinol, peth na fuasai erioed o'r blaen, ac na fydd byth mwy, "Iddo Ef, etifedd pob peth, trwy yr hwn y gwnaed y bydoedd; yr hwn sydd yn cynal pob peth trwy air ei nerth" (adn. 3), ddyfod ei hunan *yn* ddyn, *at* ddyn, i lefaru wrtho!

2. Y dynion anghyffredinol a osododd Efe mewn swydd anghyffredin i ddwyn yn mlaen a pherffeithio gwaith gweinidogaeth y tymor hwnw, sef ei apostolion. Nid oedd olynwyr byth i fod i'r dynion hyny yn y swydd hono, mwy nag yr oedd olynwyr iddo Ef, y Messia ei hun, i fod. Megis na anfonodd y Tad erioed, ac na enfyn Efe byth, Fessia arall, ond Iesu o Nazareth, i'r byd; ni anfonodd yntau, ac ni enfyn byth, apostolion i'r byd ar ol y rhai cyntaf. Yr hyn a gyfansoddai un yn apostol ydoedd, ei fod wedi ei ddewis, ei neillduo, a'i awdurdodi ganddo Ef ei hun, yn bersonol ac yn ddigyfrwng, i'r swydd—un wedi bod yn dyst o'i adgyfodiad Ef. Ni roddodd Efe ei hun hawl i'w apostolion etholedig hyny i ethol olynwyr iddynt eu hunain, nac i gyflenwi y bylchau a dorid gan angeu yn eu rhif o bryd i bryd. Gwnaethant hwy

a'r eglwys yn Jerusalem hyny, dan gyfarwyddyd Petr, y mae yn wir, drwy ethol apostol yn lle Judas; ond ymddengys braidd yn fwy na thebygol, mai mewn amryfusedd y gwnaethant. Nid oedd yr addewid a gawsent o dywalltiad yr Yspryd Glân arnynt, i'w "gwisgo â nerth o'r uchelder," ac i'w "tywys i bob gwirionedd," wedi ei chyflawni eto, a'r cwbl a ddywedir am Matthias yw, "Ac efe a gyfrifwyd gyda'r un apostol ar ddeg." Yn mhellach, daeth Ef ei hun i alw ac ordeinio apostol yn lle Judas, wedi hyny, drwy gyfarfod â Saul o Tarsus, ac ymddangos iddo ar y ffordd, gerllaw Damascus; ac fel hyn y llefarodd Efe wrtho ar yr achlysur hwnw: "Cyfod, a sâf ar dy draed, *canys i hyn yr ymddangosais i ti*, i'th osod di yn weinidog ac yn dyst o'r pethau a welaist, ac o'r pethau yr ymddangosaf i ti ynddynt." (Act. xxvi. 16.) Ni buasai yn angenrheidiol i'r Gwaredwr ymddangos iddo yn unig er ei ddychwelyd a gwneyd efengylwr neu weinidog cyffredin o hono; ond i'w wneyd yn apostol, yr oedd hyny, sef *ymddangos* iddo, yn anhebgorol angenrheidiol. Wrth amddiffyn ei awdurdod yn yr eglwys yn erbyn haeriadau y gau apostolion, efe a ddywed wrth y Corinthiaid, "Onid wyf fi yn apostol? onid wyf fi yn rhydd? *oni welais i Iesu Grist ein Harglwydd?*" (1 Cor. ix. 1.) Felly galwyd a gosodwyd y dyn anghyffredin hwn yn yr apostoliaeth mewn modd anghyffredin a gwahanol i bob un o'r lleill; ac yr oedd wedi ei fwriadu i wneyd gwaith mwy yn yr eglwys nag yr un o honynt.

3. Yr oedd nerthoedd a rhyfeddodau anghyffredin yn dilyn gweinidogaeth y tymor hwn o'i ddechreu hyd ei ddiwedd, yn seliau o ddwyfoldeb cenadwri yr efengyl i'r byd; ac wedi iddynt roddi y dystiolaeth i'r byd, cadarnhau y gair yn mhob man "trwy yr arwyddion a'r rhyfeddodau y rhai oeddynt yn canlyn" (Marc xvi. 20), y maent hwythau yn peidio ac yn diflanu gyda diweddiad yr oes apostolaidd.

Ni soniodd yr un o'r apostolion unwaith, ar un achlysur, am olynwyr iddynt yn eu swydd, na gair o gyfarwyddyd i'r eglwysi am ethol y cyfryw olynwyr. Y mae y Testament Newydd yn berffaith ddistaw ar y mater; peth nas gellir rhoddi un cyfrif am dano ar y dybiaeth fod y swydd i barhau mewn olyniaeth. Y mae llawer o gyfarwyddiadau yn yr epistolau yn nghylch dewis a gosod dynion i lenwi swyddau ereill, megis henuriaid a blaenoriaid yn yr eglwys, ond yr un iòta am ddewis apostolion; a'r rheswm amlwg am hyny ydoedd, bod y swydd yn darfod gyda'r personau a osodasai y Pen Mawr ei Hun ynddi, ac ni osododd Efe yr un byth ar ol Paul. Hyd yn nod pe buasai i'r apostolion, yr henuriaid, a'r holl eglwys alw cyngor, a phenderfynu ethol ac ordeinio un neu nifer i'r swydd apostolaidd, ni buasai dim grym nac awdurdod yn eu gwaith, heb iddynt dderbyn cyfarwyddyd a gorchymyn uniongyrchol o'r nef i wneyd; ond ni ychwanegwyd, ac ni ychwanegir byth, un gorchymyn felly mwy, wedi cyflawni a chwblhau y datguddiad dwyfol yn yr Ysgrythyrau. Ac heblaw hyny, y mae gwaith y swydd apostolaidd wedi ei gyflawni am byth gan yr apostolion etholedig hyny, fel y cyflawnodd "Apostol ac Archoffeiriad ein cyffes ni, Iesu Grist," holl waith ei swydd Ef fel Cyfryngwr, pan oedd Ef yn gweinyddu ynddi ar y ddaear, ac y dywedodd "*Gorphenwyd*" wrth farw, fel na fydd angen am, na lle i Gyfryngwr arall rhwng Duw a dynion ar ei ol Ef. Felly hefyd y cyflawnodd yr apostolion waith eu swydd hwythau, fel nad oes lle iddi, nac angen am dani yn yr eglwys byth mwy.

Bellach; deuwn at osodiadau cyffredinol, arosol, a pharhaol yr oruchwyliaeth efengylaidd. Gesyd yr apostol yr holl ordeiniadau a'r swyddau cyffredinol ac anghyffredinol hyny gyda'i gilydd, yn y bedwaredd benod o'r epistol at yr Ephesiaid, lle y dywed, "Eithr i bob un o honom y rhoed gras yn

ol mesur dawn Crist. O herwydd paham, y mae Efe yn dywedyd, Pan ddyrchafodd i'r uchelder, Efe a gaethiwodd gaethiwed, ac a roddes roddion i ddynion. Eithr Efe a ddyrchafodd, beth yw, ond darfod iddo ddisgyn yn gyntaf i barthau isaf y ddaear. Yr hwn a ddisgynodd, yw yr hwn hefyd a esgynodd goruwch yr holl nefoedd, fel y cyflawnai bob peth. Ac Efe a roddes rai yn apostolion, a rhai yn broffwydi, a rhai yn fugeiliaid ac yn athrawon, i berffeithio y saint i waith y weinidogaeth, i adeilad corff Crist" (adn. 7–13). Yn y ddeuddegfed benod o'i epistol cyntaf at y Corinthiaid, ymdrinia yn fanylach â'r mater. "A'r rhai hyn yn wir a osododd Duw yn yr eglwys," medd ef, "yn gyntaf (yn benaf) apostolion; yn ail, proffwydi; yn drydydd, athrawon; yna gwyrthiau; wedi hyny doniau i iachau, cynorthwyau, llywodraethau, rhywiogaethau tafodau" (adn. 28). Dyna oedd ystâd yr eglwys yn nyddiau yr apostolion, yn meddu cyflawnder ac amrywiaeth mawr o'r doniau anghyffredinol, er cydwasanaethu achos yr efengyl yn sefydliad cyntaf ei goruchwyliaeth yn y byd, oll yn cael eu rhoddi a'u cyfranu yn anrhegion i'w eglwys wedi iddo Ef, yr Hwn a osodwyd yn "Ben uwchlaw pob peth" iddi, esgyn i'r uchelder; oll yn cael eu gweinyddu iddi, a'u gweithredu ynddi, drwy a chan "Yr Yspryd Glân, yr hwn a ddanfonwyd o'r nef," i fod yn Arglwydd yr oruchwyliaeth o hyny allan; o herwydd hyny, gelwir hi—"Gweinidogaeth yr Yspryd" (1 Cor. iii. 8.)

O'r holl ddoniau a'r swyddau hyny, dwy yn unig oedd i aros a pharhau yn yr eglwys, sef gweinidogaeth y gair yn y pregethiad o hono, a gweinyddiad yr ordinhadau—Bedydd a Swper yr Arglwydd, a'r ddiaconiaeth. Swydd a darddodd o angenrheidrwydd amgylchiadau yr eglwys yn Jerusalem pan oedd y dysgyblion yn amlhau (Act. vi. 1), a llawer o weddwon a thlodion yn eu plith, barnodd yr

apostolon, dan ddwyfol gyfarwyddyd yn ddiau, yn ddoeth a da i neillduo nifer o wŷr cymhwys, "da eu gair, yn llawn o'r Yspryd Glân a doethineb, i'w gosod ar hyn o orchwyl," sef gofalu am achos y tlodion, a phethau tymhorol yr eglwys, fel y gallent hwy, yr apostolion, "barhau mewn gweddi a gweinidogaeth y gair;" felly, rhoddasant ar yr eglwys i edrych yn eu plith, am seithwyr o'r cyfryw ddynion, yr hyn a wnaethant, a gosodasant hwynt ger bron yr apostolion; y rhai, "wedi iddynt weddïo, a osodasant eu dwylaw arnynt," ac a'u hordeiniasant felly i'r swydd. Hwnw oedd y tro cyntaf i'r eglwys gael ei galw i gymeryd rhan yn ngweinyddiad llywodraeth ei hachosion. Yn etholiad apostolion, a'r holl swyddau perthynol i'r doniau anghyffredinol, fel y crybwyllwyd eisoes, nid oedd ganddi, na'r apostolion chwaith, na llaw na llais i ddewis personau i'w gweinyddu: y Pen Mawr ei Hun yn unig oedd yn trefnu pob peth yn hono, gan osod yr aelodau hyny "yn y corff fel y mynodd Efe;" gan roddi i un "ymadrodd doethineb, ac i arall ymadrodd gwybodaeth, trwy yr un Yspryd; ac i arall ffydd; trwy yr un Yspryd; ac i arall wneuthur gwyrthiau, ac i arall broffwydoliaeth, ac i arall wahaniaeth ysprydoedd, ac i arall amryw dafodau, ac i arall gyfieithiad tafodau. A'r holl bethau hyn y mae yr un a'r unrhyw Yspryd yn eu gwneuthur, gan ranu i bob un o'r neilldu, megis y mae yn ewyllysio." (1 Cor. xvii. 8–11.)

O hyn allan, y mae swyddogaeth yr eglwys yn cael ei thraddodi i'w llaw hi ei hun, ond yn gyfrifol yn unig i'w Phen, ac i'w gweinyddu ganddi yn ei enw Ef, ac yn ol cyfarwyddiadau ei air Ef. Ni roddodd Efe hawl nac awdurod iddi i ychwanegu un swydd wrth ei hewyllus ei hun at y ddwy swydd a osododd Efe ei Hun a'i apostolion ynddi; beth bynag a geir dros ben hyny ynddi, "o'r drwg y mae." Cyfyngir y gweddill o'r traethodyn hwn at Swydd y Weinid-

ogaeth yn unig, gyda chrybwyll fod y cyfarwyddiadau a roddir i'r eglwys yn nghylch dewisiad personau i'r ddwy swydd, y weinidogaeth a'r ddiaconiaeth, yn y Testament Newydd yn ddynodol a manwl iawn; a'i bod o'r pwys mwyaf i'r eglwys fod ar ei gwyliadwriaeth fanylaf, a mwyaf gonest a chydwybodol, yn ei chyflawniad o'r ddyledswydd a'r fraint a ymddiriedwyd iddi.

SWYDD Y WEINIDOGAETH—

Y swydd benaf, bwysicaf a ymddiriedwyd i ddyn ar y ddaear, "Eithr megis y'n cyfrifwyd ni gan Dduw yn addas i ymddiried am yr efengyl, felly yr ydym yn llefaru," medd Paul (1 Thes. ii. 4); a thrachefn, "Yn ol efengyl gogoniant y bendigedig Dduw, am yr hon yr ymddiriedwyd i mi." (1 Tim. i. 11). Wrth ymddiried "efengyl ei ogoniant," ymddiriedodd y "bendigedig Dduw" y peth penaf a gwerthfawrocaf a fedd Efe ei hun i ofal dyn. "Nid i'r angelion y darostyngodd Efe y byd a ddaw," ac nid i'w angelion yr ymddiriedodd Efe y weinidogaeth hon; eithr Efe a roddes "y trysor hwn mewn llestri pridd," fel y byddai godidowgrwydd y gallu *o hono* Ef," a gogoniant y llwyddiant *iddo* Ef yn unig. "Nid yw yr hwn sydd yn planu ddim, na'r hwn sydd yn dyfrhau; ond Duw, yr hwn sydd yn rhoi y cynydd." (1 Cor. iii. 7.)

Cytuna haneswyr eglwysig, bron yn unair, na chydnabyddid ond dwy swydd, y Weinidogaeth a'r Ddiaconiaeth, yn yr eglwys yn y ddwy ganrif gyntaf o'r oes Gristionogol, ac megis ac mai yn ac i'r eglwys yr oedd y swyddau i gael eu gweinyddu, mai yr eglwys ei hun oedd i ddewis y personau a osodid yn y swyddau hyny; a bod yr enwau, henuriad, esgob, a bugail, yn sefyll yn gyfystyr y naill â'r llall yn y Testament Newydd, fel y defnyddid un neu arall, ar

achlysuron, i ddynodi y rhai a weinyddent yn y swydd; ac hefyd nad oedd nac uwch nac israddoliaeth parch nac awdurdod yn perthyn i'r swydd, ond oll yn gwbl gydradd y naill â'r llall, yn swyddol felly; ond yn unig y rhagoriaeth parch a ddangosid i henafgwyr yn y swydd, ar gyfrif eu hoedran a'u profiad; a'r rhai mwyaf llafurus ar gyfrif eu llafur a'u defnyddioldeb helaethach, yr un modd.

Gyda golwg ar "godi pregethwyr," fel y dywedir—dewis a galw i swydd a gwaith y weinidogaeth—y mae o'r pwys mwyaf i'r eglwys gofio ac ystyried nad oes ganddi hi un awdurdod wreiddiol ynddi ac honi ei hun i wneyd hyny, bod yr awdurdod hono yn gwbl yn llaw "Yr Hwn a osodwyd yn Ben uwchlaw pob peth" iddi, ac iddi hi dderbyn gofal yr alwedigaeth hon fel dyledswydd a rhagorfraint i'w gweinyddu yn ei enw a'i awdurdod Ef, yn ol cyfarwyddiadau ei air, ac yn gyfrifol iddo. Na, ni roddodd Efe y fath ofal pwysig—y fath ragorfraint oruchel a hon, o'i law ei hun yn llaw yr eglwys, nac yn llaw neb arall, na brenin na senedd, nac awdurdod wladol na chyngor eglwysig o un math, iddynt hwy i'w hymarfer fel y gwelent hwy yn dda; yn wir, nid oes ganddynt hwy, penaduriaid a llywodraethwyr gwladol, ddim oll a wnelont â'r mater, fel y cyfryw; ond o bydd brenin, neu benaeth, neu swyddog gwladol, yn aelod proffesedig o'r eglwys, y mae ganddo, ar y cyfrif hwnw, hawl, fel rhyw aelod arall o honi, i roddi ei farn a'i bleidlais yn yr achos. "Nid oes gan flaenoriaid yr eglwys, na'r eglwys a'r blaenoriaid yn nghyd," medd Dr. Owen, "hawl nac awdurdod i alw neb i weinidogaeth y swydd hon, pregethu y gair, ond y personau a gynysgaeddodd Efe, pen yr eglwys, a'r cymhwysderau angenrheidiol i gyflawni gwaith a dyledswyddau y swydd." "Ni all eglwys," medd efe, "sarhau ac anfoddloni ei Phen mawr yn fwy na thrwy alw a chymhell personau amddifaid o'r cymhwysderau angenrheidiol hyny

i waith gweinidogaeth ei air Ef, dan ddylanwad mympwy, neu bartïaeth, ac nid oes ond aflwydd, gofid, a gwarth i'w ddisgwyl oddiwrth hyny."

Y mae y cymhwysderau angenrheidiol i weinidogaeth y swydd hon sydd yn awr dan ein sylw wedi eu nodi yn llyfr cyfraith yr eglwys, ac "Un gosodwr cyfraith y sydd." Y mae duwioldeb personol, o angenrheidrwydd, y gyntaf a'r benaf un o'r cymhwysderau hyny, ond nid yr *unig* un. Y mae llawer i'w cael yn yr eglwys, bob amser, y bydd eu duwioldeb personol uwchlaw amheuaeth, y byddai yn gam, ac angharedigrwydd â hwy eu cymhell at waith y weinidogaeth, am na dderbyniasent hwy y cymhwysderau angenrheidiol ereill. Yr oedd llawer o'r rhai a anercha Paul wrth eu henwau, yn niwedd yr epistol at y Rhufeiniaid, yn enwog am eu duwioldeb a'u defnyddioldeb, fel yr oedd eu clod yn yr holl eglwysi, pell ac agos; eto, heb eu galw gan yr eglwys hono, nac un eglwys arall, i'r weinidogaeth. Rhoddasid i bob un o honynt "*dalent* o ras," "yn ol mesur dawn Crist," i'w cymhwyso bob un i'r cylch hwnw o wasanaeth yn ei dŷ yr oedd Efe wedi ei fwriadu iddo; ac yn y cylch hwnw y cymhwysid ef iddo y gall un fod yn gysurus iddo ei hun, ac yn ddefnyddiol i'r eglwys.

Ond, "Pa beth a ddywed yr ysgrythyr?" Pa beth a ddywed Efe ei Hun, sylfaenydd y deyrnas, am y cymhwysderau gofynol i weinidogaeth ei deyrnas, fel y gall yr eglwys adnadod y cyfryw, a'u galw at waith y weinidogaeth hono? Efe a ddywed fel hyn, "Pwy yw y goruchwyliwr ffyddlawn, a phwyllog, yr hwn a esyd ei arglwydd ar ei deulu, i roddi cyfluniaeth iddynt mewn pryd." (Luc xii. 42.) Dyna ddwy elfen angenrheidiol i waith gweinidogaeth gyhoeddus ei deyrnas Ef, yn ol ei feddwl a'i dystiolaeth yn y gair a lefarodd Efe ei hun wrth y rhai a ddewisasai ac a osodasai Efe yn ngweinidogaeth y swydd hon—*ffyddlondeb*

*a phwyll.* Ffyddlondeb—cywirdeb calon mewn egwyddor ac amcan; ymroddiad, gofal, dyhewyd, a diwydrwydd yn y cyflawniad o waith a dyledswyddau ei swydd, yn ol ewyllys a chyfarwyddiadau ei Arglwydd, "Yr ydys yn disgwyl mewn goruchwyliwr gael un yn ffyddlawn." (1 Cor. iv. 2.) Yr ydys yn edrych ac yn disgwyl am hyn yn arbenig ynddo.

Cymhwysder dymunol arall i'r swydd ydyw y ddawn i osod ei feddwl allan yn syml, eglur, a dealladwy; "Yn athrawaidd," fel y dywed yr apostol, ac megis y dywedir am Apolos, ei fod yn ŵr "ymadroddus, cadarn yn yr ysgrythyrau." (Act. xviii. 24.)

Yn yr Athraw mawr ei Hun yn unig yr oedd yr holl gymhwysderau hyn yn cydgyfarfod mewn cyflawn berffeithrwydd cydgyfartal—"Y Tyst ffyddlawn a chywir;" "Yr addfwyn a gostyngedig o galon." Yr Hwn oedd yn llefaru "na lefarodd dyn erioed fel Efe;" yn llefaru ac yn "dysgu gydag awdurdod," "Canys ynddo Ef y mae holl drysorau gwybodaeth a doethineb yn guddiedig." Y mae rhyw fesur o'r cymhwysderau a'r doniau hyn oeddynt yn bob cyflawnder ynddo Ef yn angenrheidiol i fod yn meddiant pob un a fyno ymaflyd yn swydd athraw a dysgawdwr cyhoeddus yn ei deyrnas Ef: ac Efe sydd yn eu cyfranu i'r neb y gwelo yn dda, ac i bob un i'r graddau y gwelo yn dda. Y mae y cymhwysderau a'r doniau hyn yn sicr o weithio eu hunain i'r golwg yn mhob un a gynysgaethwyd â hwynt gan Ben yr eglwys, fel y gallo hi eu gweled a'u hadnabod; ac y maent i'w cymeryd ganddi fel awgrymiadau iddi o'i ewyllys Ef yn mherthynas i'r cyfryw bersonau, fod iddi, wedi y caffo brawf digonol o honynt, eu hanog i ymaflyd yn ngwaith gweinidogaeth y gair.

Felly, gan hyny, ni fedd yr eglwys un hawl i alw neb un i bregethu, neu i weinyddu swydd a gwaith y weinidogaeth,

ond y rhai y gwelo hi eu bod yn meddu ar y cymhwysderau angenrheidiol i'r swydd, fel y dysgir iddi yn ngair Crist; ac yn sicr hefyd, nid oes gan yr un o aelodau yr eglwys rithyn o hawl i ymwthio i'r swydd, heb ei alw gan yr eglwys. Pan y mae eglwys yn anog ac yn codi un anghymhwys—un amddifad o'r cymhwysderau y soniwyd am danynt—i'r weinidogaeth, y mae hi yn pechu yn erbyn Crist; a phan yr ymwthia un at y gwaith megis ar draws teimladau a barn yr eglwys, y mae yntau yn pechu yn erbyn yr eglwys, ac yn erbyn trefn a gweddeidd-dra; ac nid oes o hyny ond chwerwder ac aflwydd. Nid yw yr eglwys i ddisgwyl cael yr holl amrywiol gymhwysderau yn gydgyfartal yn mhob un o'i gweinidogion; ni chafodd yr eglwysi apostolaidd hwynt felly. Yr oedd amrywiaeth ac anghyfartaledd yn noniau a chymhwysderau yr apostolion eu hunain, megis y cyfranasai eu Harglwydd ei fesur neillduol o ddawn yn ol ei ewyllys Ef ei Hun i bob un o honynt. Yr oeddynt oll yn oruchwylwyr ffyddlawn a chywir, wedi i'r bradwr fyned oddiwrthynt, "i'w le ei hun." Yr oeddynt oll "wedi eu *dysgu* i deyrnas nefoedd," ond yr oedd rhai ar y blaen i'r lleill. Yr oeddynt oll yn ddynion synwyrol, call, a gofalus; ond nid i'r un graddau. Meddai pob un ar gymhwysder i ddysgu a phregethu; ond rhagorai y naill ar y llall yn fawr. Ymddengys nad oeddynt oll yn "wŷr *ymadroddus* iawn;" ac yn wir, fe ymddengys nad oedd ond *un* pregethwr mawr iawn o honynt oll, a hwnw oedd Simon Petr; efe oedd y pregethwr cymanfa—Cymanfa Dydd y Pentecost, a'r pregethwr a anfonwyd i agor drws y ffydd i'r Cenhedloedd hefyd yn nhŷ Cornelius y Canwriad yn Cesarea. Yr oedd ereill o'r apostolion, Ioan ac Iago yn neillduol, y rhai, yn gystal âg yntau, "a ystyrid yn golofnau," fel y dywed Paul am danynt, fel rhai oedd o'i flaen ef yn apostolion; ac y mae rhagoriaethau arbenig Ioan ac Iago

yn adnabyddus yn yr eglwys byth; ond ni ddywed yr hanes a gawn am danynt yn y Testament Newydd, nemawr i ddim am danynt hwy fel pregethwyr; Petr, fel y sylwyd, oedd y pregethwr hyd oni alwyd Paul i'r apostoliaeth. Yr oedd rhai, a'r rhan fwyaf o'r apostolion, fe ymddengys, yn rhagori ar Petr mewn arafwch a phwyll. Gallesid dweyd am dano ef, yn gystal ag unrhyw un arall o honynt, "Goruchwyliwr *ffyddlawn;*" ond yn brin y gallesid ychwanegu, "a *pwyllog.*" Gallem dybied mai efe oedd y mwyaf diffygiol mewn pwyll (cyn dydd y Pentecost, beth bynag) o'r un o honynt; ond fel pregethwr, teflid hwynt oll i'r cysgod ganddo.

Yn gyffelyb fel yr oedd hi y pryd hwnw y mae hi wedi bod o'r pryd hwnw hyd y pryd hwn; amrywiaeth mawr yn nhalentau a doniau gweinidogion yr eglwys, un yn rhagori mewn un ddawn, ac arall mewn dawn arall. Nid llawer, a chymeryd golwg ar holl hanes yr eglwys, o ddyddiau yr apostolion hyd yma, nid llawer o bregethwyr mawr iawn, mewn cymhariaeth â'r nifer, a gyfodwyd mewn un oes. Y mae pregethwyr mawr yn yr eglwys, yn wŷr o ychydig nifer bob amser, ac felly yn ddynion anghyffredin ynddi: ond cafodd gynifer o honynt yn wastad ag oedd doethineb ddigyfeiliorn ei Phen yn weled fod yn angenrheidiol iddi, ac y maent yn angenrheidiol eu bod, ryw nifer bob amser, a cholled annhraethadwy fyddai bod hebddynt. Nid ydynt hwy, ar gyfrif eu talentau fel pregethwyr, yn ddim anrhydeddusach na'u brodyr llai eu talentau yn yr ystyr hono, y rhai a ddichon fod yn rhagori arnynt hwythau mewn cymwysderau ereill, ac yn llawn mor ddefnyddiol hefyd yn eu cylchoedd priodol. "Eglurhad yr Yspryd a roddir i bob un er llesâd"—er adeiladaeth "yr eglwys a gogoniant ei Phen," ac nid er enw, elw, neu anrhydedd yr hwn a dderbyniodd y doniau.

Y mae o bwys i bob un, pob un a ymgymero â gwaith y weinidogaeth yn neillduol felly, ei fod yn ei adnabod ei hun, pa gymwysder, neu gymwysderau, neillduol sydd ganddo. "Nac esgeulusa y *ddawn* sydd ynot," medd "Paul yr henafgwr" wrth Timotheus yr efengylwr ieuanc. Mynai Paul i Timotheus ofalu yn benaf am faethu, ymarfer, a defnyddio y ddawn arbenig a dderbyniasai; ac ymddengys mai y ddawn i bregethu oedd hono, oddiwrth rai ymadroddion ereill a ddywed yr apostol wrtho, megis: "Hyd oni ddelwyf, glŷn wrth ddarllen, wrth gynghori, wrth athrawiaethu. Nac esgeulusa y ddawn sydd ynot. . . Myfyria yn y pethau hyn, ac yn y pethau hyn aros, fel y byddo dy gynydd yn eglur i bawb. Gwylia arnat dy hun, ac ar yr athrawiaeth; aros ynddynt, canys os gwnai hyn ti a'th gedwi dy hun, a'r rhai a wrandawant arnat." (1 Tim. iv. 13–16.) A thrachefn, "Yr ydwyf fi, gan hyny, yn gorchymyn ger bron Duw, a'r Arglwydd Iesu Grist, yr Hwn a farna y byw a'r meirw yn ei ymddangosiad â'i deyrnas; *pregetha* y gair; bydd daer mewn amser allan o amser, cerydda, anog," &c. Eto, "Gwna waith *efengylwr*, cyflawna dy weinidogaeth." (2 Tim. iv. 1, 2, a 5.) I wneyd y goreu o'r ddawn oedd ynddo, dangosai yr apostol i Timotheus fod yn rhaid iddo fod yn *ddarllenwr* mawr, yn *fyfyriwr* mawr, a *glynu*, *ac aros*, a pharhau yn yr ymarferion hyny, a dwyn allan yr hyn a gasglai drwy ddarllen a myfyrio felly i'r cyhoedd drwy athrawiaethu neu bregethu i'r bobl. Yr oedd Paul, ni a welwn, am i Timotheus ieuanc, ei "Fab naturiol yn y ffydd," fod yn berffaith a chyfan, heb fod yn ddiffygiol mewn dim a berthynai i waith y weinidogaeth; yn benaf oll, ei fod yn bregethwr cyflawn, fel gan mai pregethu yw y gangen benaf a phwysicaf o'r gwaith, ac o herwydd mai y ddawn pregethu ydoedd y ddawn arbenig a dderbyniasai Timotheus, yr oedd am iddo feithrin y ddawn hono yn benaf;

a dengys iddo, er dyfod yn bregethwr mawr, y buasai raid iddo ddarllen llawer, myfyrio llawer, a phregethu llawer, a glynu wrth, ac *aros* a pharhau yn y cyflawniadau hyn, "Fel y byddo dy gynydd yn eglur i bawb." Gwyddai yr apostol, a dywed hyny wrtho, fod Timotheus, "er yn fachgen, yn gwybod yr ysgrythyr lân," ei fod wedi darllen llawer arni pan oedd yn blentyn, er hyny gwelai yn briodol ei *anog* i *lynu* wrth ddarllen yn barhaus. Y mae yr apostol yn dywedyd yr un peth wrth bob pregethwr a gweinidog ieuanc eto. Nid oedd nemawr o lyfrau, ond "yr ysgrythyr lân," i'w cael y pryd hwnw, a dyna lyfr mawr y pregethwr a'r gweinidog eto; ac ni bydd llawer o lewyrch ar, nac o nerth yn, mhregethu a phregethau y pregethwr a esgeuluso ddarllen yr "ysgrythyr lân," er darllen o hono bob llyfrau ereill.

"Am ben hyn oll, gwisgwch gariad." Cariad—cariad at y Meistr, at y gwaith, at braidd Duw—at eneidiau dynion, ydyw yr elfen fawr sydd yn rhoddi bywyd a gwres, nerth a gwerth yn yr holl wasanaeth. "Pe llefarwn â thafodau dynion ac angelion, ac heb fod genyf gariad, yr wyf fel efydd yn seinio, neu symbal yn tincian," medd yr apostol. (1 Cor. xiii. 1.) Un cwestiwn a ofynodd y Gwaredwr i Simon Petr, wrth ei adferu i'w swydd, ar ol ei gwymp, ond Efe a ofynodd y cwestiwn hwnw dair gwaith yn olynol—"Simon, mab Jona, a wyt ti yn fy ngaru I?" Ac wedi i Simon ateb y cwestiwn yn gadarnhaol dair gwaith, cadarnhawyd ei adferiad i'w swydd dair gwaith hefyd, "Portha fy ŵyn," "Bugeilia fy nefaid," a "Portha fy nefaid." (Ioan xxi. 15–17.)

Eto, fel y mae o bwys i'r eglwys ddeall ac adnabod y cymhwysderau gofynol, yn ol gair Crist, sydd i fod yn y rhai y mae hi i'w galw i waith y weinidogaeth, ac i bob un a elwir felly ganddi, fod yn adnabod ei hun, a'i gymhwysderau; y mae o bwys hefyd fod pob eglwys yn adnabod ei

hunan, ei sefyllfa a'i hamgylchiadau, fel, pan fyddo yn dewis un i fod yn weinidog arni, ond iddi ddeall hyny yn dda, bydd yn gallu barnu yn o gywir pwy, pa fath un, o ran ei gymhwysderau, fyddai ddoethaf iddi hi edrych am dano i fod yn fugail iddi. Clywsom swyddog mewn eglwys oedd heb weinidog ar y pryd, eglwys mewn tref bur adnabyddus, yn dywedyd, "Pregethwr sydd arnom ni eisieu yma—pregethwr poblogaidd; nid ydym yn edrych gymaint am iddo fod yn ymwelwr o dŷ i dŷ, ond fel y byddo achosion neillduol yn galw am hyny; un yn llonaid pwlpud o bregethwr a ddymunem gael." "O'r goreu," meddem, "edrychwch am dano, a phan gaffoch ef, gofalwch na ormesoch ar ei amser; na flinwch ef ond cyn lleied fyth ag y byddo yn bosibl â chwynion ddichon gyfodi yn eich mysg. Edrychwch ar ei fod yn ddiofn yn eich plith." Torwyd gewynau pregeth dda yn *vestry* y capel cyn yr oedfa lawer tro, drwy i'r diaconiaid adrodd i'r gweinidog am ryw dramgwyddiadau, a phethau annymunol oedd wedi digwydd i beri blinder yn yr eglwys, yr hyn a barai i waed teimladau y pregethwr ddyferu ar hyd risiau yr areithfa wrth iddo eu dringo y waith hono; a dyna'r bregeth y disgwyliai gryn lawer wrthi wedi ei llosgi yn boethrwm, cyn ei thraddodi, yn y tân dieithr y tynasid hi trwyddo yn y *vestry*, fel nad oedd dim ond ei lludw i'w gynyg i'r gynulleidfa o'r pwlpud, ac yntau (y pregethwr) yn troi adref y nos Sabboth hwnw, a'i ocheneidiau yn drymion, a'i galon yn ofidus.

Wrth swyddogion ac eglwysi dywedwn, meddyliwch am y pethau hyn; ac os ydych yn awyddus am bwlpud llawn, pregethau goludog o feddyliau ac o efengyl, cedwch bob peth annymunol o'r fath y cyfeiriwyd atynt oddiwrth y gweinidog hyd y byddo yn bosibl, a gofalwch na feichier ef â galwadau lawer—i beidio ei wneyd fel Martha, yn "ofalus a thrafferthus yn nghylch llawer o wasanaeth," fel y caffo

hamdden, fel Timotheus, i ddarllen a myfyrio, ac ymroddi i weinidogaeth y gair yn y pregethiad o hono; ac os byddwch ofalus yn y pethau hyn, ac mewn gweddïau drosto, bydd yn gyfreithlawn ac yn rhesymol i chwi ddisgwyl y bydd iddo ddwyn "allan o'i drysor bethau newydd a hên" bob tro yr esgyno i'r pwlpud, ac os na wna, arno ef y bydd y bai.

Rai blynyddau yn ol, clywais un o'r pregethwyr penaf a gododd yn Nghymru y ganrif hon, yr hwn sydd wedi huno yn yr angeu er's tro bellach, yn cŵynfan fel hyn, megis y dywed y proffwyd am Ephraim gynt: "Nid oes dim rheswm yn ein dull ni o gario pethau yn mlaen," meddai, "y mae genym ormod o gyfarfodydd o'r haner; rhyw gyfarfod bob nos drwy yr wythnos, a'r un personau fydd yn bresenol yn y rhan fwyaf, fel nad yw y rhai hyny byth yn cael nemawr i ddim hamdden gyda'u teuluoedd gartref; a rhaid i'r pregethwr ofalu, beth bynag, ar fod yn bresenol yn mhob cyfarfod; ac mewn lle fel hyn, y mae llawer o alwadau arno bob dydd, fel y mae ei amser i ddarllen a myfyrio yn cael ei fwyta gan estroniaid, ac wrth hyny y maent yn bwyta cryfder ei bregethau. Disgwylir iddo ymweled llawer hefyd o dŷ i dŷ, ac oni wna, achwynir yn dost arno; ac wedi'r cwbl, disgwylir iddo bregethu bob tro fel pe buasai yn cael ei holl amser iddo ei hun. Yr wyf fi, beth bynag, wedi llwyr flino ar y dull yma o fyw, ac yn benderfynol i ymofyn am ryw gongl yn y wlad i lechu am y gweddill byr o'm hoes, lle y caf ryw gymaint o seibiant i feddwl a myfyrio, a chasglu, dethol, a threfnu rhyw bethau y dymunwn eu gadael ar fy ol yn nwylaw y rhai a ewyllysient eu cael." Trefnu nifer o'i bregethau i'r Wasg, a olygai. Yr oedd efe, y pregethwr hwnw, wedi penodi ar y "gongl" hono, ac ar symud i fyned i lechu ynddi, pan ddaeth angeu i alw am dano i'w gongl dawel ef, i orphwys o hyn allan. Nid yw gweinidogion yn y wlad yn cael eu gorlethu gan amledd cyfarfodydd wyth-

nosol yn gymaint a'u brodyr yn y trefydd, hwyrach; ond clywir yr achwyniad yn fynych yn erbyn un ac arall, nad ydynt yn ymweled o dŷ i dŷ â'r aelodau, fel y dylent. Y mae rhywbeth yn afiachus yn y dôn gŵynfanus hon. Dadleuir fod yr apostolion, ac athrawon ereill, yn "arfer dysgu o dŷ i dŷ;" felly yr oeddynt, ond cofier, yn

1. Mai dychweledigion oddiwrth baganiaeth oedd yr aelodau eglwysig o'r cenhedloedd yn eu hamser hwy; rhai newydd eu symud "o'r tywyllwch i'r goleuni," fel y dywed Paul, fel yr oedd yn angenrheidiol eu dysgu yn ngwersi cyntaf Cristionogaeth; eu maethu fel mamaeth yn porthi baban, "Mi a roddais i chwi laeth i'w yfed, ac nid bwyd; canys hyd yn hyn nis gallech, ac nis gellwch chwaith eto yr awr hon ei dderbyn," medd Paul wrth y Corinthiaid. (1 Cor. iii. 2.)

2. Nid oedd Ysgrythyrau yr Hên Destament yn meddiant y dychweledigion cyntaf hyny o'r Cenhedloedd, canys nid oedd ond copïau ysgrifenedig o honynt i'w cael yn y byd y pryd hwnw, a'r rhai hyny yn anaml iawn i'w cael, o angenrheidrwydd. Yr oedd yn wahanol yn hyn gyda'r dychweledigion Iuddewig; yr oeddynt hwy wedi eu dysgu yn y Gyfraith, i ryw fesur, o'u babandod, canys darllenid cyfran o Moses a'r proffwydi yn y Synagog bob Sabboth; ac am y Testament Newydd, nid oedd ef wedi ei ysgrifenu eto; yr oedd yn brydnawnddydd oes yr apostolion pan ysgrifenwyd y rhanau cyntaf o hono; felly, ymweliadau teuluaidd yr apostolion, efengylwyr, ac athrawon, oedd Testament Newydd yr eglwys y dyddiau hyny. Eglurent i'r dysgyblion yn eu hymweliadau teuluaidd yr hyn a bregethent yn y cyhoedd, megis y gwnai yr Athraw mawr ei hun: "Ac o'r neilldu, i'w ddysgyblion, efe a eglurodd bob peth." (Marc iv. 34.) Ond y mae yr achos yn wahanol iawn yn awr gyda ni, sydd âg ysgrythyrau yr Hên Destament a'r Newydd yn ein dwylaw,

ac yn agored o'n blaen, ac wrth law yn mhob teulu i ymgynghori â hwy, fel y mae angen am ymweliadau teuluaidd yn awr, ond ar achlysuron neillduol, yn llawer iawn llai nag ydoedd yn amser boreuol yr eglwys, yn enwedig felly gyda ni, yn Nghymru, sydd genym ein cyfeillachau crefyddol un waith, o leiaf, dwywaith yn fynych, bob wythnos, lle yr ymgyferfydd aelodau yr eglwys fel teulu ar ei haelwyd ei hun, i ymgynghori, a dysgu, ac adeiladu y naill y llall. Y mae yn wahanol gyda'n cyfeillion y Saeson yn hyn, y rhai nid ydynt erioed, oddigerth y brodyr Wesleyaidd yn Lloegr, wedi arfer cynal y cyfarfodydd eglwysig hyny.

3. Nid oes genym un lle i gasglu y byddai yr Athraw mawr ei hun yn arfer myned o dŷ i dŷ, i ymweled a dysgu, nac i dŷ neb, ar un achlysur, ond pan elwid am dano at glâf, neu y gwahoddid ef i gymeryd lluniaeth. Pregethu ar y maes, ar y mynydd, ar y traeth, ar y ffordd, yn y Deml, yn y Synagog, yn y tŷ, oedd gwaith mawr, ïe, unig waith ei fywyd cyhoeddus ef; peth gyda llaw mewn cysylltiad â'r gwaith hwnw, ac yn wasanaethgar iddo, oedd iachau y cleifion a'r holl wyrthiau ereill a wnaeth efe, ac i gyflawni yr un gwaith yr anfonodd Efe y deuddeg allan.

4. Er hyny, ni fynwn, ar un cyfrif, ddywedyd dim a dueddai i ddigaloni neb un a dderbyniodd ddawn a chymwysder i fod yn ddefnyddiol yn y gwaith o ymweled o dŷ i dŷ; bu, ac y mae un felly, wedi ac yn wasanaethgar iawn i achos yr efengyl: ac mewn trefydd mawrion, yn neillduol, y mae yn angenrheidiol eu bod, i ymweled â chyrau eithaf a dyfnaf cymdeithas, lle y ceir llaweroedd, bob amser, na ddeuant ac na ddeuent byth i sŵn moddion gras. Dwg yr ymwelwyr hyn foddion gras atynt hwy, yn y man lle maent, ac ymdrechant eu cael dan weinidogaeth y gair, a llwyddasant i ddwyn llawer o'r "crwydriaid i dŷ." Ond am ymweliadau gweinidogion âg aelodau eglwysig yr oeddym yn son,

Y ddeddf a esyd yr apostol Iago i lawr ydyw, "A oes neb yn eich plith yn glâf? galwed ato henuriaid yr eglwys, a gweddïant hwy drosto." (Iago v. 14.) Nid gorchymyn i henuriaid yr eglwys fyned o amgylch yr aelodau, gan gymeryd eu llyfr gweddi yn eu llogellau, a holi yn mhob tŷ, "A oes neb yn glâf yma heddyw?" Cyfarwyddo y clâf i anfon rhywun drosto at yr henuriaid, i ofyn iddynt ddyfod i ymweled âg ef, a wna yr apostol. Adnabuom rai aelodau eglwysig a gymerent arnynt fod yn glâf, ac a ymgadwent o'r capel am dymor, dan gysgod yr esgus hwnw, i edrych a ddeuai gweinidog yr eglwys i ymweled â hwy; ac os na ddeuai, a hyny a obeithient hwy hefyd, caent asgwrn i'w gnoi, drwy redeg arno wrth bawb, fel y caent gyfleusdra, fel un esgeulus a diofal yn nghyflawniad dyledswyddau ei swydd.

Y mae gweinidog ieuanc wrth ymweled yn fynych o dŷ i dŷ mewn perygl o fyned, o radd i radd, dan ddylanwad yr arferiad hono, nes iddo golli ei awydd at ddarllen a myfyrio. Ni all efe "lynu wrth ddarllen," myfyrio, ac "aros yn y pethau hyn"—pethau y gair a'r athrawiaeth—tra fyddo yn crwydro o'r naill dŷ i'r llall; ac â ei bregethau, o angenrheidrwydd, cyn hir, yn debyg yr olwg arnynt i wartheg culion breuddwyd Pharao. Frodyr ieuainc yn y weinidogaeth, deliwch yn eich côf, a gosodwch yn eich calon, gyngor Paul i Timotheus, am y "glynu, y *myfyrio*, a'r *aros* yn y pethau hyn" yn eich llyfrgellau, hyd y galloch, fel y byddo eich *cynydd* yn y pwlpud "yn eglur i bawb." Os esgeuluswch y glynu, y myfyrio, a'r gweddïo yn y dirgel, rhywbeth arall, nid y *cynydd*, a "fydd yn eglur i bawb" yn y cyhoedd —yn y pwlpud. Yno, yn y pwlpud, y mae gwaith mawr eich gweinidogaeth i gael ei gyflawni. Pregethu, fel y crybwyllwyd droion o'r blaen, a ordeiniodd Efe, Pen yr eglwys, yn brif ordinhad yn ngoruchwyliaeth ei deyrnas; pregethu

—pregethu i bwrpas—sydd gan hyny i'w osod yn nôd, yn "gamp uchel" i gyrchu ato gan bob un a ymaflo yn y swydd. Fel hyn y dywed y pregethwr penaf a fu yn y byd erioed, ond yr Athraw mawr ei Hun: "Yr hwn yr ydym ni yn ei bregethu, gan rybuddio pob dyn, a dysgu pob dyn yn mhob doethineb; fel y cyflwynom bob dyn yn berffaith yn Nghrist Iesu: am yr hyn hefyd yr ydwyf yn llafurio, gan ymdrechu yn ol ei weithrediad Ef, yr hwn sydd yn gweithio yn nerthol." (Col. i. 28, 29.) Dyna i chwi, fy mrodyr ieuainc, *model* o bregethwr—un yn taflu ei hunan gorff ag enaid i'r gwaith; un nad oedd "yn gwneuthur cyfrif o ddim, ac nad oedd gwerthfawr ganddo ei einioes ei hun," chwaith, os gallai "orphen ei yrfa trwy lawenydd, a'r weinidogaeth a dderbyniasai gan yr Arglwydd Iesu, i dystiolaethu efengyl gràs Duw." (Act. xx. 24.)

Ymdrechwch i wneyd y pwlpud yn allu, yn allu i dynu ato bawb o fewn cyrhaedd ei ddylanwad, ac i ddal ei afael ynddynt, wedi y caffo unwaith afael arnynt; pregethwch nes gwneyd peth na ellais i fy hun mo'i wneyd erioed, hyd y gwn i, gwneyd i'r bobl hiraethu a blysio ar ddyddiau yr wythnos am ddyfodiad y dydd Sabboth canlynol. Y mae hyn yn beth mawr, ac yn gam at beth mwy, sef eu henill i gredu ac ufuddhau i'r efengyl: "Felly yr ydym yn pregethu," medd Paul, "ac felly y credasoch chwithau." (1 Cor. xv. 11.) A dyna y pregethu a'r gwrando wedi cyraedd eu dyben mawr. Yr oedd yr Athraw mawr ei Hun yn pregethu bob amser, nes peri i'r bobl naill ai synu, neu gredu, neu ddigio wrtho Ef a'i athrawiaeth. Digiodd yntau unwaith wrth gynulleidfa o wrandawyr caled a diystyr, "Ac edrychodd arnynt o amgylch yn ddigllawn, gan dristau am galedrwydd eu calon hwynt." (Marc iii. 5.) Digiodd tyrfa o wrandawyr wrtho yntau dro arall, "Hwy a lanwyd o ddigofaint tuag ato." (Luc iv. 28.) A dro arall, "Llawer o'i

ddysgyblion Ef a aethant yn eu hol, ac ni rodiasant mwyach gyda'r Iesu." (Ioan vi. 66.) Effeithiau annymunol a galarus iawn, yn wir, ar y pregethu goreu erioed. Eto, o'r ddau, mwy dewisol ydyw i'r pregethwr a'i wrandawyr ddigio tipyn wrth eu gilydd weithiau, na'u bod yn gallu byw a pharhau yn fath o gyfeillion diystyr a diofal y naill am y llall.

Yn ddiweddaf, frodyr a chyfeillion, y mae hyfder fy ymadrodd yn fawr wrthych, fel y gwelwch, a'm hunig esgusawd dros yr hyfdra hwn ydyw hyn—"Yr ydwyf yn hên."

# TRAETHAWD II.

## HAWLIAU AC AWDURDOD Y WEINIDOGAETH.

YMDDANGOSODD sylwedd y traethodyn a ganlyn yn y *Dysgedydd* am Tachwedd, 1853. Ar glawr y rhifyn am Ragfyr, yr un flwyddyn, gwnaed y sylw canlynol arno:—

MR. DYSGEDYDD,—Darllenais ysgrif (y Parch. ——, feddyliwyf) yn nechreu y *Dysgedydd* am Tachwedd diweddaf, ar AWDURDOD Y WEINIDOGAETH, gyda hyfrydwch mawr; yr oeddwn yn argyhoeddedig, er's blynyddau, o'r dirfawr angen oedd yn bod am rywbeth cyffelyb iddi, oblegid barnwyf nad yw y gweinidogion na'r eglwysi yn adnabod cylch eu gweinidogaeth. Yn awr, yr wyf yn cynyg fod i filoedd lawer o'r Traethawd hwnw gael ei argraffu ar ei ben ei hun, ac enw yr awdwr wrtho, a'i werthu am ddimai yr un, fel y gall ddyfod i law pob aelod eglwysig trwy Gymru. Cymeraf gant o honynt i'w rhanu i aelodau tlodion, ac ereill sydd yn ddifeddwl am ddarllen unrhyw draethodyn. Pe gwnai pob gweinidog yn nghylchrediad y *Dysgedydd* yn gyffelyb, byddai hyny yn sicr o'ch diogelu rhag colled o'i argraffu.—Ydwyf,

*Llanfyllin.* D. MORGAN.

Y mae llawn cymaint o angen am drafod y mater hwn yn yr amser presenol ag oedd yn yr amser hwnw; gan hyny, a hefyd bod cangenau ereill o'r un mater wedi bod dan ymdriniaeth yn y tudalenau blaenorol, ac y buasai y pwnc yn cael ei adael megis ar ei ganol, heb i'r gangen hon o hono hefyd gael ei lle dyledus, cyfleir sylwedd y traethodyn

hwnw yn awr i sylw darllenwyr y KOHELETH, wedi ei drwyddedu â chymeradwyaeth yr hên Athraw parchedig o Llanfyllin gynt.

## AWDURDOD Y WEINIDOGAETH.

PERTHYNA i bob swydd ei hawdurdod yn gystal a'i dyledswyddau. Segur-swydd yw hono na byddo iddi ond enw, heb waith i'w gyflawni ac awdurod i'w gweinyddu. Nid oes un segur-swydd yn nheyrnas Iesu Grist—yr un swydd o urddas ac elw yn ddyben iddi; ond pob un i wasanaeth a defnyddioldeb.

Ceisiwn grynhoi ein sylwadau ar y mater mewn ffordd o atebion i'r ddau ofyniad hyn :—*A oes rhyw fath o awdurdod yn perthyn i'r swydd weinidogaethol? Ac os oes, pa fath ydyw?* Apeliwn yn unig "at y gyfraith ac at y dystiolaeth," canys beth bynag a ddyweder na byddo "yn ol y gair hwn," ni fydd dim goleuni na phwys ynddo. "Eithr pa beth a ddywed yr ysgrythyr?" Dyma rai o'i hymadroddion hi ar y pwnc. "Ac yr ydym yn atolwg i chwi, frodyr, adnabod y rhai sydd yn llafurio yn eich mysg, ac yn eich *llywodraethu* chwi yn yr Arglwydd, ac yn eich rhybuddio; a gwneuthur cyfrif mawr o honynt mewn cariad, er mwyn eu gwaith." (1 Thes. v. 12, 13.) Yma, cysylltir *llafur*, neu waith y swydd, â'i hawdurdod—*llywodraethu*, â'r gydnabyddiaeth ddyledus iddi oddiwrth yr eglwys sydd yn derbyn y gwasanaeth—"*adnabod*," neu gydnabod y rhai sydd yn gweini iddi yn y swydd. Eto; "Cyfrifer yr henuriaid sydd yn *llywodraethu* yn dda, yn deilwng o barch (o gydnabyddiaeth) dau-ddyblyg, yn enwedig y rhai sydd yn poeni yn y gair a'r athrawiaeth." (1 Tim. v. 17.) Y mae deddf natur a rheswm yn dysgu dynion, neu y mae dynion "o honynt eu hunain" yn dysgu, y dylai y rhai sydd yn

*gweithio* yn dda, gael eu *talu* yn dda am eu gwaith, yn ol ei swm a'i werth. "Fe ddylai hwn a hwn," meddai hên amaethwr gynt, "gael cyflog dau ddyn, ac ychwaneg; canys fe wna gymaint o waith mewn diwrnod a dau weithiwr cyffredin, ac nid yw yn bwyta mwy na dyn arall." Felly yn union y dywed yr ysgrythyr dan sylw, am y rhai sydd yn llafurio—"Yn poeni yn y gair a'r athrawiaeth, ac yn llywodraethu yn dda" yn yr eglwysi, y dylent gael eu parchu, eu cydnabod "yn ddau-ddyblyg," ragor ereill nad ydynt "yn llafurio ac yn poeni yn y gair a'r athrawiaeth" fel y maent hwy. Nid yw deddf yr ysgrythyr a'r efengyl byth yn croesi deddf natur a rheswm mewn dim. "Un gosodwr cyfraith sydd." Y mae pob deddf, ond "deddf pechod a marwolaeth," wedi deilliaw yn wreiddiol o'r un ffynon—ffynon nad yw byth "Yn rhoddi dwfr hallt a chroew." Fel yna dynoda yr apostol faes llafur a gwaith y weinidogaeth—"*Y gair a'r athrawiaeth.*" Maes neu gylch gweinyddiad ei hawdurdod—yr eglwys; canys "Beth sydd iddi hi (yr awdurdod hon) a farno ar y rhai sydd oddi allan? Onid y rhai sydd oddimewn y mae hi yn eu barnu?" (1 Cor. v. 12.) Ac hefyd, hawliau y weinidogaeth hon ar yr eglwys, sef ei pharchu, ei chydnabod, a'i chynal yn deilwng. Fel y gofala pob llywodraeth wladol am barch a chynhaliaeth deilwng i'r rhai a esyd hi i weinyddu ei chyfreithiau; felly, yr un modd, y gofala yr efengyl am yr un pethau i'r rhai a gyflawnant waith y swydd a'r awdurdod a osododd hithau yn yr eglwys.

Drachefn; "Ufuddhewch i'ch blaenoriaid (llywodraethwyr), ac ymddarostyngwch; oblegid y maent hwy yn gwylio dros eich eneidiau chwi," &c. (Heb. xiii. 17); a thrachefn, "Meddyliwch am eich blaenoriaid, y rhai a draethasant i chwi air Duw." Gallesid lluosogi testynau i'r un perwyl; ond y mae y rhai a goffawyd yn llawn ddigon i'r pwrpas o

brofi fod AWDURDOD o ryw fath, yn gystal a gwaith, yn perthyn i'r swydd weinidogaethol. Nid ydynt yn amwys na gochelgar ar y mater, ond yn syml ac eglur. Golygant hanfodiaeth *awdurdod* y swydd fel peth nad oedd dadl nac amheuaeth yn bod, nac i fod yn ei gylch—peth yr oedd yr eglwysi yn ei addef a'i gydnabod; gan hyny, nid yw yr apostol yn ceisio profi fod yr awdurdod yn bod, ond cymhell yr eglwysi i'w chynal, ei pharchu, ac ymostwng iddi y mae efe, yn union fel y cymhella efe y saint yn Rhufain i barchu ac ufuddhau i'r awdurdodau gwladol, mewn pethau gwladol, fel yr oeddynt hwy yn ddeiliaid i Cæsar yn y pethau hyny (Rhuf. xii. 1).

Cawn yr apostol unwaith yn profi ac yn amddiffyn ei awdurdod *apostolaidd* ef ei hun, yn nghyd a'i hawliau fel apostol a gweinidog, yn wyneb fod gau-apostolion yn eu gwadu ac yn arwain yr eglwysi ar gyfeiliorn ar y mater. Er na arferasai efe ei awdurdod, ac na cheisiai ei iawnderau hyny yn Corinth ac yn eglwysi Achia, eto, ni phetrusai ddadleu dros yr hawliau hyny, yn llawn a phenderfynol, pan ddaeth achos yn galw am hyny; ond pan yn anog yr eglwysi yn gyffredinol i ufuddhau i awdurdod yr henuriaid a osodasid arnynt, nid yw efe yn cymeryd arno brofi a dadleu yr awdurdod hono, gan nad oedd achos yn galw am hyny, o herwydd nad oedd neb yn gwadu y peth. Lle bynag y mae llywodraeth, rhaid yw fod llywodraethwyr i'w gweinyddu; a lle bynag y byddo llywodraethwr, dyna un mewn awdurdod. "Yn y dyddiau hyny nid oedd brenin yn Israel; ond pob un a wnai yr hyn oedd uniawn yn ei olwg ei hun." (Barn. xvii. 6.) Ni bu Israel erioed heb gyfraith, canys yr oedd cyfraith yr Arglwydd ganddynt; ac, mewn un ystyr, ni buont erioed heb frenin chwaith, canys yr oedd Duw ei Hun yn Frenin iddynt hwy. Ond yr oeddynt "yn y dyddiau hyny" heb raglaw neu ddirprwywr mewn

awdurdod i weinyddu dros Dduw, ac felly cymerai pob un ei ryddid i wneyd "yr hyn a fyddai da yn ei olwg ei hun" —ei ewyllys a'i nwydau ei hun ydoedd cyfraith pob un, heb fod yn gyfrifol i un awdurdod o'r tu allan iddo. I'r ystâd hon y mynai llawer ddwyn y byd iddi yn awr; ac ereill a fynent ddwyn yr eglwys iddi hefyd—dileu pob awdurdod a swydd—pob un i wneyd "yr hyn a fyddo uniawn yn ei olwg ei hun"—pob aelod yn ogyfartal, heb swydd nac awdurdod yn perthyn i neb mwy na'u gilydd; ond dengys "y gyfraith a'r dystiolaeth" yn y rhanau a goffäwyd, yn gystal ag mewn llawer o ranau ereill, mai nid dyna yw ewyllys Brenin a Phen yr eglwys. "Pan ddyrchafodd Efe i'r uchelder, (fel y cawsom achlysur i sylwi dro o'r blaen,) Efe a gaethiwodd gaethiwed, ac a roddes roddion i ddynion." A pha beth oeddynt? Pa roddion a gyfranodd Efe i ddynion? "Efe a roddes rai yn apostolion, a rhai yn broffwydi, a rhai yn efengylwyr, a rhai yn fugeiliaid ac athrawon; i berffeithio y saint i waith y weinidogaeth, i adeilad corff Crist." Efe a gyfranodd y galluoedd a'r grasau angenrheidiol i addurno a chymhwyso personau neillduol i lenwi y swyddau hyny yn ei eglwys, er ei chynydd a'i hadeiladaeth. *Ond o ba fath natur yw yr awdurdod hon?*

1. *Nid awdurdod annibynol ar yr eglwys—neu oruch-eglwysig, ydyw.* Yr oedd yr awdurdod apostolaidd felly. Nid gan ddyn, na thrwy ddyn, y derbyniasai yr apostolion eu hawdurdod hwy. Nid oedd gan yr eglwys na llaw na llais yn eu dewisiad a'u gosodiad yn eu swydd a'u hawdurdod; derbyniasant hi yn ddigyfrwng oddiwrth Grist ei hun, ac nid oeddynt yn gyfrifol i neb ond iddo Ef am eu gweinyddiad. Perthynai i'r awdurdod hon ddarbodi ac arosod cyfreithiau i'r eglwys, fel swyddogion apwyntiedig ac Ysprydoledig ganddo Ef i'r gwaith hwnw; ac yr oedd ei awdurdod Ef yn rhwymo yr eglwys i dderbyn ac ymostwng i'r

cyfreithiau hyny. "Os cadwasant fy ngair i," medd Efe wrthynt, "yr eiddoch chwithau hefyd a gadwant." (Ioan xv. 20.) Y mae yn wir nad oeddynt bob amser yn meddu yr awdurdod hon, mwy nag yr oedd y ddawn i broffwydo gan y proffwydi bob amser, ond fel y byddai llaw yr Arglwydd arnynt, ac achosion yn galw am hyny. Efe, "Y proffwyd mawr, ac Archoffeiriad ac Apostol ein cyffes ni, Crist Iesu," yn unig oedd a phob cyflawnder yn trigo ac yn preswylio yn wastadol ynddo; "Canys nid wrth fesur" y rhoddodd y Tad yr Yspryd arno Ef. Ar amserau neillduol, "yn ol ei ddoethineb Ef," y gwisgid y proffwydi dan yr Hên Destament, ac apostolion y Testament Newydd, â'r gallu a'r awdurdod i lefaru a gweinyddu yn anffaeledig.

Y mae yr awdurdod weinidogaethol yn wahanol i'r un apostolaidd, yn ei natur a modd ei derbyniad; trwy yr eglwys y trosglwyddir, y derbynir, ac y gweinyddir hi. Yr eglwys sydd i farnu cymwysderau ac i ethol y rhai a osodir ynddi; er bod y swydd a'i hawdurdod yn ddwyfol o ran eu deilliad a'u trefniad, trwy yr eglwys y trosglwyddir hwy i bersonau, a gwasanaeth ac adeiladaeth yr eglwys yw eu prif ddybenion. Y mae yr awdurdod, gan hyny, i fesur yn ddibynol ar yr eglwys, fel y mae yn drosglwyddedig trwyddi; yn gyffelyb fel y mae awdurdod Seneddol Prydain yn ddibynol, i fesur, ar yr etholwyr. Yn ei llaw hi, y Senedd, y mae yr awdurdod lywodraethol yn aros, i'w gweinyddu; ond trwy yr etholwyr, ac yn rhinwedd eu hetholiad, y mae aelodau y Senedd yn meddu yr awdurdod sydd ganddynt. Beth bynag ydyw awdurdod gweinidogion y gair yn yr eglwys, awdurdod a dderbyniasant trwy eu dewisiad a'u galwad i'r swydd gan yr eglwys ydyw.

Dichon, gan hyny, y dadleua rhai fod gan yr eglwys hawl i gymeryd yr awdurdod o law, a diswyddo ei gweinidog pan y myna; ie, i ddileu y swydd ei hun, os myn. Na, nid

felly. Nid felly yr ydym yn dysgu ewyllys Crist yn ei air. Efe, Crist; nid y hi, yr eglwys, ydyw Creawdwr y swydd a'r awdurdod a berthyn iddi; a'r eglwys hono a gymerai arni ddiddymu yr hyn a grëodd ac a osododd Efe ynddi, a'i gwnai ei hun yn euog o fradwriaeth a gwrthryfel uniongyrchol yn erbyn ei Orsedd a'i awdurdod Ef ei Hun. Addefwn yn rhwydd, y *gall* unrhyw eglwys gyfansoddedig ar yr egwyddor wirfoddol—egwyddor a sail eglwys y Testament Newydd—wneyd hyny; ond gwadwn yr *hawl*, yn hollol. Os gall eglwys brofi fod ei gweinidog wedi gŵyro mewn athrawiaeth neu fuchedd oddiwrth symlrwydd efengyl Crist, i'r fath raddau ac a'i anghymwyso i'w swydd, y mae ganddi hawl, a hi a ddylai, ei ddiswyddo o fod yn weinidog iddi, wedi iddi ei rybuddio, ac iddo barhau yn anniwygiedig. Y *gall* ei fwrw ymaith oddiar unrhyw fympwy, sydd yn beth digon eglur—*gall* atal moddion ei gynaliaeth oddiwrtho; *gall* ei boeni, ei ddirmygu, lladd ei ddylanwad, llofruddio ei deimladau, a'i flino ymaith yn y ffordd hono; ond *gallu* heb *hawl* na chyfiawnder yn perthyn iddo fyddai—y gallu i droseddu cyfraith Crist; y gallu i ddinystrio ei chymeriad, ei hanrhydedd, a'i dylanwad ei hun, fel yr hunan-leiddiad; *gallu* y bydd i'r ymarferiad o hono, pan na byddo achos cyfreithlawn yn galw am hyny, ddwyn melldith a chwerwedd i gwpan yr eglwys a gaffer yn euog. Nid ydym yn meddwl (crybwyllwyd hyn eisoes) na all amgylchiadau ddigwydd, pan y bydd yn ddyledswydd ar eglwys ddefnyddio y gallu hwn; y bydd ei rhwymedigaeth i Grist, i anrhydedd yr efengyl, iddi ei hun ac i'r byd, yn cydalw arni i fwrw ymaith ddyn o gymeriad annheilwng a drygionus o'i gweinidogaeth. Dan amgylchiadau felly, gall yn hyderus ddisgwyl bendith Crist ar ei gwaith.

Dadleuir fod eglwysi sefydledig—eglwysi a gylchir gan y gyfraith a'r awdurdod wladol, yn sefyll ar well tir na'r

eglwysi ymneillduol a gwirfoddol ar y tir hwn, gan fod caer o amddiffyn o amgylch y weinidogaeth, fel na ddichon i amgylchiadau ac awdurdod y gweinidog gael eu niweidio gan y bobl, a'i fod ef yn gwbl annibynol arnynt, &c.; ond credwn ni na oddef natur ysprydol teyrnas Crist ddim dynol a gwladwriaethol, cyfreithiol a gorfodol, gael eu trefnu a'u gosod yn gaerau ac yn rhagfur i'w hamddiffyn a'i dyogelu hi a'i hiawnderau. Y mae eglwys Crist yn gofyn lle i bob rhinwedd fod ar waith ac yn cael ei arddangos ynddi. Atelir tyfiant, a chuddir gogoniant grasau Cristionogaeth yn yr eglwys, gan osodiadau gorfodol. Nid gweinidog y bobl ydyw hwnw a ddewiser ac a osoder arnynt drwy ewyllys ac awdurdod o'r tu allan iddynt, pa un bynag a'i gwladwriaethol a'i cymanfaol fyddo yr awdurdod hono. Nid oes hawl gan un gallu estronol i estyn ei law i ymyraeth dim oll yn yr achos cysegredig hwn, gredwn ni. Yr oedd yn haws gan y nefoedd oddef i'r ychain ysgwyd yr Arch, na goddef i Uzza estyn ei law arni i'w dal hi. "Rhwygwyd y rhwygiad hwnw ar Uzza," yn gerydd ar yr awdurdod a gymerasai arni osod Arch Duw i gael ei dwyn gan ychain, yn ol ei dewisiad ei hun, yn lle ar ysgwyddau y Lefiaid, yn ol trefn a gorchymyn Duw. Eto,

2. *Nid awdurdod ar ffydd yr eglwys ydyw awdurdod y weinidogaeth.* Gair Crist yn unig sydd ag awdurdod ac arglwyddiaeth ganddo ar ffydd y saint; efe ydyw unig Arglwydd cred a buchedd y Cristion. Nid oes dim o awdurdod mewn crefydd, yn addoliad a gwasanaeth Duw, ond a dystiolaethir ac a orchymynir yn ei air Ef: "Beth bynag nid yw o ffydd" ac awdurdod Ddwyfol yn ei dŷ Ef, "pechod yw." Un o'r cwynion trymaf yn erbyn dysgawdwyr Iuddewiaeth gynt, oedd gosod dysgeidiaeth eu dychymygion eu hunain i fyny yn lle dysgeidiaeth y gair Dwyfol, fel y dengys y Gwaredwr iddynt pan y dywed wrthynt, "O rag-

rithwyr, da y proffwydodd Esaias am danoch chwi, gan ddywedyd, Nesau y mae y bobl hyn ataf â'u genau, a'm hanrhydeddu â'u gwefusau; a'u calon sydd bell oddiwrthyf. Eithr yn ofer y'm hanrhydeddant, gan ddysgu gorchymynion dynion yn ddysgeidiaeth" (Matt. xv. 7–10); "Ac efe a ddywedodd wrthynt, Gwych yr ydych yn rhoi heibio orchymyn Duw, fel y cadwoch eich traddodiad eich hunain" (Marc vii. 9). Pan elo y weinidogaeth i honi awdurdod ar ffydd yr eglwys, i geisio gwthio ei hawdurdod ei hun rhwng cydwybod dyn â gair Duw, y mae yn myned yn dwyll-offeiriadaeth. "Aeth y proffwyd yn fagl adarwr yn ei holl lwybrau, ac yn gasineb yn nhŷ ei Dduw." (Hosea ix. 8.) Pan elo i haeru nad yw y Beibl yn llyfr cymwys i'w ddodi yn nwylaw y werin, ac nad oes gan bob dyn hawl ogyfartal i'w ddarllen a'i chwilio drosto ei hun, fel y gwna yr offeiriadiaeth Rufeinig a Ritualaidd, dyna *Briestcraft*, yr hon sydd waeth a mwy melldithiol na *Witchcraft*. Canmola yr ysgrythyr y dychweledigion yn Berea ragor y rhai yn Thessalonica, am y mynent brofi athrawiaeth Paul ei hun, drwy "Chwilio beunydd yr ysgrythyrau," &c., drostynt eu hunain, i weled "a oedd y pethau hyn felly" (Act. xvii. 11); ac wedi cael boddlonrwydd am hyny, "derbyniasant y gair gyda phob parodrwydd meddwl." Nid oes nemawr i un ymadrodd yn yr holl ysgrythyr ag sydd mor gas gan enaid y dwyll-offeiriadaeth a'r un uchod. Myn hi fod agoriad gwybodaeth yn rhwym wrth linyn ei gwregys hi yn unig, ac na pherthyn i'r werin na chwilio na meddwl dim drostynt eu hunain, ond derbyn y gyfraith o'i genau hi, heb amheu dim. Ryw dair blynedd yn ol, digwyddodd i ni gyfarfod â boneddiges Seisnig oleuedig a thalentog yn Llandrindod, yr hon oedd yn aelod selog o'r Eglwys Sefydledig, ond yn rhyddfrydig ac efengylaidd ei golygiadau. Adroddai wrthym yr ymddyddan a fuasai rhyngddi yn ddiweddar â gwein-

idog ei phlwyf, gŵr ieuanc, uchel-eglwyswr a defodwr selog iawn. Darfuasai iddi hi amlygu ei hanfoddlonrwydd i ryw honiadau uchel-eglwysaidd a glywsai ganddo, y rhai nas gallasai hi eu credu a'u cymeradwyo. Trödd yr athraw ieuanc yn llym arni, a dywedai, "Nad oedd ganddi hi, na neb arall o'i gynulleidfa ef, un hawl, ac nad oedd ganddynt ddim oll a wnelent â barnu drostynt eu hunain ar un mater perthynol i grefydd; mai efe, fel eu bugail a'u dysgawdwr awdurdodedig, oedd i feddwl a barnu drostynt hwy, ac mai eu hunig ddyledswydd hwy oedd gwrando arno ef, a dilyn ei gyfarwyddiadau yn mhob peth, heb amheu dim," &c. "Pa beth!" atebai'r foneddiges, "A fynech chwi wthio eich hun rhyngof fi a'm Gwaredwr a'i air ar achos fy mywyd tragwyddol! Gan y bydd raid i mi roddi cyfrif drosof fy hun yn y dydd mawr a ddaw, drwy help Duw, mi a fynaf feddwl a barnu drosof fy hun yn bersonol rhyngof fi â'r gair hwnw y bernir fi wrtho yn y dydd hwnw; ac ni roddaf byth fy hawl hon o'm llaw i chwi, nac i un dyn arall dan haul mwy na chwithau—'Dos yn fy ol i, Satan'."

Gallem feddwl fod gwrthwynebiad tostlym fel yna, yn bur annyoddefol i deimlad ac yspryd uchelfrydig yr offeiriad hwnw. Beread o'r iawn ryw oedd hi, beth bynag; pob parch iddi.

Ond ein cwestiwn yw, *Beth ydyw terfynau awdurdod y weinidogaeth?* Yn

1. *Awdurdod i ddysgu, cynghori, rhybuddio, ceryddu, a gorchymyn pethau y gair yn y weinidogaeth gyhoeddus ac yn yr eglwys.* "Y pethau hyn gorchymyn a dysg," medd Paul wrth Timotheus (1 Tim. iv. 12). Drachefn wrth Titus, gweinidog ieuanc arall, efe a ddywed, "Y pethau hyn llefara a chynghora, ac argyhoedda, gyda phob *awdurdod*" (Titus ii. 15); yr awdurdod sydd yn perthyn i'r swydd y neillduesid ef iddi a olygai yr apostol; ac efe a ychwanega, "Na ddi-

ystyred neb di." Dywedasai yr un peth wrth Timotheus: "Y pethau hyn gorchymyn a dysg. Na ddiystyred neb dy ieuenctyd di." (1 Tim. iv. 11, 12.) Mynai yr apostol i'r ddau weinidog ieuanc deimlo urddas ac awdurdod eu swydd, a llefaru, nid fel dysgyblion dan addysg, ond fel athrawon a dysgawdwyr. Noda iddynt y pethau yr oeddynt i'w llefaru a'u dysgu felly—"*Y pethau hyn*"—pethau dysgeidiaeth yr "athrawiaeth iachus," yr "athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb," "y pethau a glywaist genyf fi," medd ef wrth Timotheus, ac nid "Chwedlau ac achau anorphen, y rhai sydd yn peri cwestiynau yn hytrach nac adeiladaeth dduwiol." (1 Tim. i. 4, a iv. 7, a vi. 4.) Felly, awdurdod y weinidogaeth i gyflawni gwaith a dyledswyddau priodol ei swydd yn ol rheol gair a chyfraith Crist, ydyw awdurdod y gweinidog yn yr eglwys y galwyd ef i weinyddu iddi. Y mae yr Areithfa yn hawl i'r gweinidog; cyflwyna yr eglwys hi i'w ddwylaw pan y mae yn ei alw i weinyddu iddi fel ei dewisedig. Efe sydd i ofalu mwyach ar fod iddi gael ei llenwi, pwy a ollynger iddi ac a gauer o honi; nid oes a wnelo yr eglwys mwyach â'r areithfa yn y pethau hyn, tra byddo y berthynas rhyngddi â'r hwn a alwodd hi i'r swydd yn parhau. Gall ymgynghori ac ymresymu â'r gweinidog, ar achlysuron, ac yntau â hithau; ond ni fedd awdurdod i'w lywodraethu. Tra yr oedd yn amddifad o weinidog, yr oedd yr areithfa dan ymddiried yn ei dwylaw; ond pan alwodd weinidog, trosglwyddodd yr awdurdod i'w law ef.

2. *Awdurdod i lywyddu yn holl gynulliadau yr eglwys*—i osod pob achos y byddo yn angenrheidiol ymdrin âg ef o flaen yr eglwys, i egluro cyfraith Crist arno i'r eglwys, i alw am farn derfynol yr eglwys ar y mater, neu i ohirio yr ystyriaeth o hono hyd ryw amser yn mhellach, i gadw trefn reolus a gweddaidd yn mhob ymdriniaeth ag achosion eglwysig yn nghyfarfodydd yr eglwys; mewn gair, awdur-

dod cadeirydd ar y cyfarfod fyddo wedi ei ddewis ef i'r swydd hono ydyw. Y mae hawl swyddol gan gadeirydd cyfarfod, i drefnu y cyfarfod; i ganiatau neu wrthod i unrhyw un a fyno draethu ei feddwl yno, i alw am drefn pan fyddo achos yn galw am hyny, ac i derfynu y cyfarfod pan welo hyny yn ddoeth; a disgwylir i'r cyfarfod ymostwng i awdurdod ei gadeirydd dewisedig yn mhob peth a berthyn iddo. Y mae i'r gweinidog, wrth ei swydd, awdurdod i lywyddu fel cadeirydd ar holl gyfarfodydd yr eglwys; ond i lywyddu yn yspryd ac wrth reol cyfraith Crist yn unig. Nid oes gan yr eglwys hawl i alw cyfarfod ar un achos eglwysig y tu cefn iddo, llawer llai y mae gan blaid a ddichon fod yn yr eglwys hawl i wneyd hyny; ac nid oes ganddo yntau hawl i benderfynu unrhyw fater eglwysig yn ol ei feddwl ei hun, y tu cefn, neu yn annibynol ar yr eglwys. Y barnwr ydyw y llywydd yn y llŷs gwladol; eto nid oes gan y barnwr awdurdod, yn ol cyfraith y wlad, i benderfynu un achos cyfreithiol yn y llŷs hwnw yn annibynol ar y rheithwyr, na'r rheithwyr chwaith yn annibynol ar y barnwr. Felly, yr un modd, y gweinidog yw y llywydd yn llŷs yr eglwys; ac mewn cydweithrediad y naill â'r llall, y mae pob achos a ddygir i'r llŷs eglwysig i gael eu penderfynu.

Cyflwynir y sylwadau blaenorol i ystyriaeth bwyllog gweinidogion ac eglwysi. Y mae yn sicr o'r pwys mwyaf fod i'r gweinidogion a'r eglwysi feddu golygiadau cywir ar y mater, yn ol y gair, a gweithredu yn eu hol—o'r pwys mwyaf, meddwn, i heddwch, cysur, a llwyddiant yr eglwysi. Os bydd traed yr eglwys yn sathru ar draed y weinidogaeth, neu ei thraed hi yn sathru ar draed yr eglwys, bydd anniddigrwydd, anghydfod, ac aflwyddiant yn ganlyniadau sicr.

Y mae meddu syniadau cywir am natur a therfynau ei awdurdod yn anhebgorol i'r gweinidog er ei gweinyddu yn deg, rhag iddo mewn amryfusedd ei rhedeg i dir tra-

awdurdod, ar un llaw, na'i gollwng i lawr dan draed, ar y llaw arall; ac felly y mae o bwys i'r eglwys hefyd feddu y cyfryw syniadau, rhag iddi hithau, ar un llaw, ollwng ei hiawnderau priodol o'i gafael, a myned yn ysglyfaeth i dwyll offeiriadaeth a thra-awdurdodaeth; nac o'r tu arall, fyned yn ddiystyr o'r awdurdod y mae gair a chyfraith Crist yn ei rhwymo i'w pharchu ac ufuddhau iddi. Golwg druenus ydyw gweled gweinidog yn gaethwas, ac megis dan draed yr eglwys. "Edrychwch ar ei fod yn ddiofn gyda chwi," medd Paul wrth yr eglwys yn Corinth, wrth gyflwyno Timotheus iddi. (1 Cor. xvi. 10.) Ni fydd byth fawr o lewyrch ar yr eglwys hono y byddo ei gweinidog yn gaethwas i'w hofn hi arno. Unwaith yr elo ei ben ef i lawr felly, unwaith y deallo y bobl fod eu hofn arno, dyna bob gwir barch iddo wedi darfod yn eu mynwesau, a'i ddylanwad er daioni megis wedi ei daro â pharlys; ac enbyd fydd sefyllfa ei olynydd.

Drachefn, y mae gweled eglwysi yn cael eu mathru dan garnau tra-awdurdodaeth offeiriadol, yn ddrych alaethus dros ben, fel y bu ac y mae eto yn llawer o wledydd y Cyfandir. Nid oes dim a andwya ddynoliaeth, dim a anrheithia ac a letha eneidiau dynion yn fwy, na "Philosophi a gwag dwyll," tra-awdurdod, a hoced twyll-offeiriadaeth, pan ddyger hwy yn gaethion dan ei hiau.

Wrth derfynu, goddefer i ni ddywedyd wrth yr eglwysi, yn hytrach, i goffau geiriau yr apostol—"I ryddid y'ch galwyd chwi, frodyr; yn unig nac arferwch y rhyddid yn achlysur i'r cnawd, ond trwy gariad gwasanaethwch eich gilydd." (Gal. v. 13.) Y mae digon o gnawd ynom fel gweinidogion ac eglwysi, fel y dylem wylio rhagddo, rhag iddo gael achlysur oddiwrth awdurdod y swydd weinidogaethol o un tu, nac oddiwrth ragorfreintiau aelodaeth eglwysig o'r tu arall, i'w cam-arfer ac enyn cynen ac ymryson.

Peth arall annymunol a niweidiol ydyw, fod i'r gweinidogion a'r eglwysi fyned i edrych y naill ar y llall fel rhyw ddwy blaid wahanol, ac nid fel un corff—un blaid ac un achos ganddynt. Nid yw swyddogion ac aelodau un gymdeithas arall byth yn syrthio i'r amryfusedd hwn. Y mae pob gweinidog yn frawd ac yn aelod o'r eglwys, yn gystal ag yn weinidog a bugail iddi. Aelodau lawer, a swyddau amrywiol; ond un corff, ac "Fel na byddo anghydfod yn y corff, eithr bod i'r aelodau ofalu yr un peth dros eu gilydd." Cofied yr eglwysi mai eu trysor gwerthfawrocaf ydyw gweinidogaeth y gair, ac mai un o'r gemau gwerthfawrocaf yn eu trysor ydyw yr awdurdod gyfreithlawn a berthyna i'r weinidogaeth; ac mai ewyllys a gorchymyn Crist ydyw iddynt barchu, cynal, cynorthwyo, a dal breichiau y weinidogaeth ac ymostwng i'w hawdurdod, fel mai awdurdod a drefnodd Efe "er adeilad, ac nid er dinystr," iddi ydyw. Gweision i'r eglwysi er ei fwyn Ef yw y rhai sydd yn y swydd weinidogaethol. Nid "eich gweision *chwi*," a ddywed yr apostol, "ond gweision *i* chwi, er mwyn Crist." "Eich blaenoriaid, y rhai sydd yn eich llywodraethu chwi yn yr Arglwydd, ac yn eich rhybuddio." A'r cyfryw ymadroddion y llefara'r apostol yn wastad am weinidogion ac eglwysi yn eu perthynas â'u gilydd.

# TRAETHAWD III.

## TWYLL OFFEIRIADAETH.

CYFEIRIWYD droion yn y tudalenau blaenorol at y *Dwyll Offeiriadaeth* yn ei hyspryd, ei honiadau, a'i hamcanion; ac onid oes achos, a mwy o achos yn awr nac un amser o'r blaen, i roddi "llin ar lin, a gorchymyn ar orchymyn," ar y mater hwn yn ei berthynas â Chymru yn arbenigol; pan y mae llygad a chalon yr hên sarff hono wedi eu gosod ar ein gwlad gydag awyddfryd angerddol i'w gwasgu yn ei chôl, ei chofleidio, a'i llyfu, a'i swyno, ac yn y diwedd ei llyncu hi a'i chrefydd, a'i holl ragorfreintiau i'w cheudod drachwantus! Gall hanesydd dyfodol ein gwlad gyfeirio at y flwyddyn 1880, a dywedyd, "A minteioedd y Moabiaid (y Jesuitiaid) a ddaethant i'r wlad y flwyddyn hono." Nid gweled y cleddyf yn dyfod arnom oddi draw yr ydym erbyn hyn, y mae "minteioedd y Moabiaid" wedi dyfod i'n gwlad; nid fel ymwelwyr am dro, ond gyda golwg ar aros ac ymsefydlu ynddi a'i meddianu; wedi dyfod gyda'u hualau a'u cadwynau (eu hegwyddorion) i ddal a dwyn ein plant yn gaethion iddynt. Addefai rhai o honynt yn ddiweddar nad ydynt yn disgwyl gwneyd ond ychydig argraff ar y genhedlaeth bresenol, ond eu bod yn hyderus iawn gyda golwg ar y genhedlaeth sydd yn codi—y plant. Gyda golwg ar gyraedd yr amcan hwnw, ni adawant "un gareg heb ei throi," un cyfleusdra heb ei ddefnyddio, nac un mesur a ddichon cyfrwysdra Jesuitaidd ei ddyfeisio heb ei arfer.

"Ymlusgant i deiau, gan ddwyn yn gaeth wrageddos llwythog o bechodau," fel y dywed Paul am eu tadau yn ei amser ef, ac y mae lluaws o'r cyfryw wrageddos o'r ddwy ystlen i'w cael yn Nghymru eto; a "thrwy ymadrodd têg a gweniaith hwy a dwyllant galonau rhai diddrwg." Y maent wedi eu eu haddysgu i hudo a thwyllo meddyliau ehud ac anwybodus i berffeithrwydd mawr; ac wrth y sŵn a glywir yn mysg y bobl yma ac acw ar hyd y cymydogaethau y maent wedi nythu ynddynt, deallwn fod dylanwad eu "hymadrodd têg a'u gweniaith," yn dechreu dylanwadu ar feddyliau rhai eisoes; soniant am danynt fel dynion yn cael cam dirfawr; eu bod hwy yn eu cael y dynion mwynaf a hawddgaraf a welsant erioed; yn gymwynasgar a haelionus, &c. Felly yn union y meddyliai ein mam Efa am y sarff a'i twyllodd hi drwy ymadrodd têg a gweniaith. Credai hi mai y sarff yn ddiau oedd y creadur diniweitiaf, llareiddiaf, a mwyaf difalais o holl greaduriaid y ddaear, hyd nes y dysgodd, drwy brofiad chwerw, fod sarff arall yn y sarff hono, yr hon a roddasai iddi frathiad angeuol dan gochl y mwyneidd-dra hwnw. Priodol iawn, iawn, i'n hamgylchiadau ni yn Nghymru yn awr yw y geiriau a ddywedai Paul wrth yr eglwys yn Corinth gynt, "Ond y mae arnaf ofn, rhag mewn modd yn y byd, megis y twyllodd y sarff Efa, trwy ei chyfrwysdra, felly fod i'ch meddyliau chwi gael eu llygru oddiwrth y symlrwydd sydd yn Nghrist." (2 Cor. ix. 3.) Na, nid am eu diniweidrwydd y gwasgodd llywodraeth Ffrainc arnynt, y gwaharddodd, ac y cauodd i fyny eu sefydliadau addysgol, ond er amddiffyniad i'w bywyd a'i bodoliaeth ei hun oedd mewn perygl oddiwrthynt. Barnai y llywodraeth hono nad allai llywodraeth rydd a Jesuitiaeth gydhanfodi yn yr un wlad: ei bod hi (Jesuitiaeth) megis yr oedd o'i dechreuad, felly y pryd hwn hefyd, yn elyn marwol i bob llywodraeth a ewyllysia eangu dim yn y

mesur lleiaf ar ryddid ac iawnderau y werin; ac nad oedd dim a'i boddlonai hi ond cael a chadw yr holl awdurdod ar feddyliau a chydwybodau, ar gyrff ac eneidiau y deiliaid yn ei llaw ei hun.

Yn y ffurf Jesuitaidd y daeth "y dyn pechod, mab y golledigaeth," "yn ŵr perffaith" at fesur oedran cyflawnder nerth yr "anwir hwnw," yn yr hwn y mae holl gyflawnder galluoedd ystrywgar a chyfrwysdra y fall yn preswylio yn gorfforol. Pa sawl gwaith y bu raid, hyd yn nôd i lywodraethau pabaidd yn Ewrop, droi olwyn yr awdurdod wladol ar yr urdd hon, a deol eu hathrawon o'u terfynau? Ond cyfrwys ymwthient yn ol yn fuan drachefn a thrachefn, dan ryw ffurf neu gilydd.

Hanes Jesuitiaeth; ei hyspryd, ei hegwyddorion, a gweithrediadau ei llys uffernol—y chwilys—ydyw y gyfrol dduaf a mwyaf arswydlawn o holl gyfrolau hanesyddol oesau y byd. Ni syrthiodd ein gwlad ni erioed, trwy drugaredd, i grafangau ofnadwy y ddraig hono—y chwilys—a gallwn hyderus obeithio na chaiff "y drwg hwnw," beth bynag, byth gyffwrdd â hi. Y mae oes y "teyrnasiad dychryn" hwn wedi myned, neu ar ddarfod, yn mhob gwlad erbyn hyn; y mae yspryd goleuedig yr oes wedi dyfod yn ddigon cryf i ffrwyno ac atal yspryd yr ellyll yma, na chaffo chwarae ei hên ystranciau melldigaid mwy, er fod ei anian a'i yspryd ef yn parhau yn ddigyfnewid yr un ag oedd efe o'r dechreuad.

Yn awr, dyma Jesuitiaeth, wedi anfon ei chenhadau gwrthodedig yn Ffrainc, eu gwlad eu hunain, drosodd i Brydain. Ymdeithiodd y cenhadau hyny hyd Gymru, ac yma gosodant eu pebyll i lawr, gyda'r bwriad o ymgartrefu, a gwneyd y Dywysogaeth yn faes eu llafur, i hau eu hegwyddorion ynddo, yn y gobaith o gael, cyn hir, fedi cynhauaf toreithiog.

Goddefer i hên ŵr, ar fîn ei fedd, i osod rhyw ychydig ymofynion ac awgrymiadau at ystyriaethau ei frodyr ieuang-

ach, a'i gydgenedl yn gyffredinol, ar yr achos, ac yn y cyfnod pwysig hwn ar gyflwr ein gwlad a'n cenedl.

1. Beth a debygech chwi, a ydyw ein cydwladwyr yn gyffredinol mewn agwedd barod i gyfarfod â'r ymosodiad hwn sydd ar gael ei wneyd arnom, a hyny gyda golwg, yn neillduol, ar wybodaeth o egwyddorion, a hanes gweithrediadau ac amcanion y blaid y cyfeirir ati, ac sydd yn awr yn ymsefydlu yn ein plith? Ofni yr ydym nad ydyw; ond ei bod, a chymeryd golwg gyffredinol arni, yn mhell iawn yn ol yn hyn, ac felly yn anmharod iawn i gyfarfod â'r prawf sydd ar gael ei wneyd arni. Y mae ei diffyg mewn gwybodaeth yn y peth hwn yn fantais fawr i'r gelyn wneyd ei ymosodiad. Pe cymerai rhywun galluog a chymwys i'r gorchwyl mewn llaw gasglu a chrynhoi cyfrol o hanes y Jesuitiaid—eu hegwyddorion, a'u gweithrediadau, &c., yn ystod y tri chan' mlynedd diweddaf, i'w roddi yn nwylaw canol oed ac ieuenctid ein cenedl, cyflawnai y gwasanaeth mwyaf angenrheidiol, ar hyn o bryd, y gellid meddwl am dano.

Eto; A ydyw eglwysi efengylaidd Cymru mewn ystâd ac agwedd ddymunol i gyfarfod ag amgylchiadau yr amser presenol hwn? Ah! ai nid yw ofnau Paul am yr eglwys yn Corinth, a'r hyn a ddywedai efe wrthi ac am dani, yn gymwysiadol iawn atom ninau y dyddiau hyn, sef, "Bod cynhenau, cenfigenau, llidiau, ymrysonau, goganau, hustungau, ymchwyddiadau, anghydfyddiaethau," yn ein plith? (2 Cor. xii. 20). Onid yw y gwiberod hyn wedi ymlusgo i mewn i lawer o'n heglwysi, ac yn cael eu magu ynddynt, fel y maent wedi ac yn peri mawr ofid calon a chywilydd wyneb i'r heddychol ffyddloniaid ynddynt? Beth a feddylid am bobl gwlad y byddai gelynion arfog wedi rhuthro i mewn iddi, y rhai, yn lle cyduno i gydsefyll a chydymladd yn erbyn y gelyn cyffredin er amddiffyn eu gwlad, a'i hiawnderau, a'i rhyddid, a dröent i guro, baeddu, ac archolli y naill y llall?

Oni fyddai i wlad yn y cyflwr hwnw syrthio yn ysglyfaeth rwydd i ddwylaw ei gelynion? Gallai eglwysi efengylaidd Cymru ddysgu gwers fuddiol oddiwrth helyntion gwladwriaethol a chymdeithasol ein tadau yn y dyddiau gynt. Ymrysonau, ac anghydfyddiaethau, a rhyfeloedd cartrefol, yn benaf dim, oedd yr achosion o'r aflwydd a'r trueni y darostyngid hwy a'u gwlad iddo bob amser. Ni allasai y Rhufeiniaid eu hunain eu gorthrechu a'u darostwng dan eu hiau i'r graddau y gwnaethant, pe buasent yn un a chytûn a'u gilydd i'w gwrthsefyll. Yr oedd naill ai Afarwy, neu Medrod, neu Gurtisfinddu, o fradwyr yn eu mysg, bob amser, mewn cyngrair â'r gelynion; a'r eiddigeddau, y cynhenau, gwastadol rhwng gwahanol lwythau a mân dywysogion, yn ei gwneyd yn fanteisiol iawn i'r gelyn oresgyn a meddianu eu gwlad. I'r un achosion, yn fwy nag i ddim arall, y gellir priodoli goresgyniad Lloegr gan y Sacsoniaid drachefn. Pe safasai yr holl lwythau Prydeinig o un galon ac ysgwydd dros eu gwlad a'u hawliau yn y dyddiau hyny, odid fawr nad yn nwylaw hiliogaeth yr hên Brydeinwyr y buasai llywodraeth Prydain Fawr y dydd heddyw. Mynent hwythau gnoi a thraflyncu eu gilydd yn wastad, hyd nes y traflyncwyd hwy a'u gwlad gan yr estron.

Y mae Rhufeinwyr yn ymosod arnom yn awr, unwaith eto, a hyny nid gyda golwg ar ddwyn ein gwlad oddiarnom, fel y Rhufeiniaid a'r Sacsoniaid gynt; ond i ddwyn ein crefydd—dwyn yr efengyl a bregethir i ni, ac yn y diwedd, ddwyn ein Beibl, ein trysor gwerthfawrocaf, oddiarnom. Nid oes dim ag y mae eglwys Rufain yn ei ofni ac yn ei gasau gymaint a'r Beibl, fel y cawn ddangos a phrofi o'i genau hi ei hun wrth fyned yn mlaen. Y mae Afarwyaid a Medrodiaid yn ein plith ninau, yn awr, fel oedd gynt, sef y Ritualiaid, fel eu gelwir, sydd o'u calonau yn caru llwyddiant, ac yn gwneyd yr oll a allant yn yr un cyfeiriad a'r

estron-elyn. Ai nid yw hyn yn uchel alw ar eglwysi efengylaidd Cymru, i ddeffro a charthu allan bob eiddigedd sectaidd ac ymrafaelion eglwysig, fel y gallont, o un galon ac ag un ysgwydd, gyd-sefyll, gan gyd-ymdrech yn mhlaid ffydd yr efengyl, pan y mae gelyn y ffydd wedi dyfod i'n tir? Y mae yn beryglus i ni ymddiofalhau, gan dybio fod Cymru yn ddiogel rhag unrhyw niwed oddiwrth babyddiaeth, bid a fyno. Na, na! goresgynwyd hi unwaith o'r blaen ganddi, a bu yn ymlygru ac yn pydru dan ddylanwad ei thwyll a'i hofergoelion am genhedlaethau, nes oedd mor wael a thruenus ei drych moesol ag y mae llawer, a'r rhan fwyaf, o'r Iwerddon i'w gweled yn awr.

Aeth tòn gref o ddychryn rhag pabyddiaeth dros y deyrnas hon yn nheyrnasiad Charles II, pan yr oedd yn wybyddus fod y teyrn anfad hwnw, a'i frawd, y Duc o York, Iago II wedi hyny, yn awyddus am adferu eglwys Rufain i'w hawdurdod gynt, fel eglwys Sefydledig yn Mhrydain. Yr oedd yr Ymneillduwyr Protestanaidd dan orthrymder tost oddiwrth y llywodraeth a'i galwai ei hun yn llywodraeth Brotestanaidd y pryd hwnw; a dadleuon poethion rhwng Eglwyswyr ac Ymneillduwyr yn cael eu dwyn yn mlaen drwy y wasg, ac ysywaeth rhwng gwahanol bleidiau o Ymneillduwyr â'u gilydd hefyd. Wrth sylwi ar y dadleuon a'r ymrafaelion anffodus hyny rhwng y gwahanol bleidiau o Eglwyswyr ac Ymneillduwyr Protestanaidd â'u gilydd, tybiodd Mynach o Urdd St. Francis, o'r enw John Vincent Cane ei bod yn adeg fanteisiol iddo i gymhell a chymeradwyo dychweliad y deyrnas yn ol i fynwes Rufain fel yr unig feddyginiaeth iddi o'r drygau a'r blinderau yr oeddynt ynddynt yn herwydd crefydd. Ysgrifenodd gyfrol i'r perwyl hwnw, yr hon a gyhoeddwyd yn 1661, dan y teitl, "*Fiat Lux:* neu Gyfarwyddyd cyffredinol er dyfod i gyd-ddealldwriaeth yn nghylch y dadleuon a'r ymrysonau poethion

mewn perthynas i grefydd, sydd yn ein mysg ni yma yn Lloegr, rhwng Pabydd a Phrotestant, Presbyteriaid ac Annibynwyr, gyda'r amcan o gymedroli a dwyn yr ymrysonau anhapus hyn i derfyniad heddychol o'r diwedd, &c., gan John Vincent Cane, cyfaill ac ewyllysiwr da i bawb o bob crefydd." Parodd ymddangosiad y llyfr gyffro cyffredinol yn y wlad. Nid oedd ond canolig iawn mewn gallu ymresymiadol; ond yr oedd yn llawn geiriau têg a gweniaith, ac yn gallu defnyddio y dadleuon oedd rhwng Protestaniaid a'u gilydd at ei bwrpas, yn gyfrwys a medrus ddigon. Yr oedd Clarendon, Arglwydd Gangellwr y deyrnas, ac un o brif weinidogion y llywodraeth, yn uchel-eglwyswr uchelfrydig iawn, yn orthrymwr tost ar yr Ymneillduwyr, ond ar yr un pryd, yn Brotestant selog iawn; teimlodd yntau bryder nid bychan yn herwydd llyfr y Mynach, ac yn ei bryder, anfonodd gopi o'r llyfr i Dr. Owen, gan ymbil arno ysgrifenu atebiad iddo. Rhaid oedd ei bod wedi myned yn o galed ar uchel-eglwyswr, fel Clarendon, pan elai megis i guro wrth ddrws y Puritan mawr, Owen, am help. Modd bynag, cymerodd Owen y rhuswr Pabaidd i fyny, ac atebodd ef i bwrpas hefyd; nid oedd y Mynach, druan, ond megis baban yn llaw cawr dan ei driniaeth. Y mae weithiau, fel y dywedai un, "yn chwareu âg ef, megis âg aderyn, ac yn chwalu ei ddadleuon a'i resymau fel chwalu mŵg." Digiodd y Mynach yn aruthr, a chyhoeddodd fath o atebiad i'w wrthwynebydd, mewn ymosodiad personol arno; ac wrth geisio ymryddhau o'i grafangau, y mae yn ei benbleth, yn ymgordeddu ac yn ymddyrysu fwy-fwy bob cynyg, fel hwrdd yn gaeth-garcharor mewn torchbleth o fieri; ond os drwg oedd ei ffawd y tro o'r blaen, gwaeth eto o lawer wedi hyny. Ni threiliodd Owen fawr o amser nac o eiriau ar y Mynach yn ei atebiad iddo y tro hwn; ond cymerodd y gyfundraeth Babaidd i fyny, gan ei dynoethi, ei difynu, ei chwalu, a'i dym-

chwelyd hyd ei sylfaen, fel na "adawodd iddi faen ar faen ar nas datododd."

Ciliodd y Mynach, druan, o'r golwg dan ei warth, i dìr neillduaeth, ac ni welwyd ef mwy. Wedi ymddangosiad ail atebiad Owen i'r Mynach, anfonodd Arglwydd Clarendon ato, gyda Syr Whitelock Bulstrode, i ofyn iddo alw gydag ef; a phan aeth, diolchodd Clarendon iddo yn wresog iawn am ei atebiad anatebadwy i *Fiat Lux*, a chwenegai, "fod Protestaniaid Lloegr dan fwy o rwymau iddo nac i un dyn arall yn y deyrnas." Amlygodd y Canghellwr ei ddymuniad i osod meitr esgob ar ben Owen, os cyd-ymffurfiai; ond nid felly.

Cyn gadael hanes yr helynt hono, gallem grybwyll un amgylchiad bychan a ddigwyddodd mewn cysylltiad a hi, anadnabyddus, fe ddichon, i lawer yn y dyddiau hyn. Bu agos i waith gorchestol Owen mewn atebiad i *Fiat* y Mynach gael ei gadw a'i atal rhag ymddangos i'r cyhoedd. Fel hyn: Yr oedd y llywodraeth wedi apwyntio yr esgobion yn warcheidwaid y Wasg, fel nad oedd dim i gael ei gyhoeddi (yn gyfreithlon felly) heb fyned yn gyntaf dan eu harolygiaeth hwy, a chael eu trwydded; gwrthodent drwyddedu y gwaith hwnw, o herwydd yn gyntaf, nad oedd yr Awdwr ynddo yn dodi y *Sant* o flaen enwau yr apostolion a'r efengylwyr wrth eu crybwyll; ïe, nid oedd yn gwneyd hyny mewn cysylltiad a Petr ei hun? Wel, rhyfedd at y dyn! Ac yn ail, am fod yr Awdwr, yn y llyfr hwnw, yn haeru yn bendant nad allai un dyn brofi ddarfod i Petr ymweled erioed â Rhufain; gwaeth eto! Am y cyntaf, dywedai Owen nad oedd y peth o gymaint pwys yn ei olwg ef, a boddlonodd i roddi y Sant o flaen enwau yr apostolion; er yr ystyriai hyny braidd yn chwith, gan nad allai y Sant fod yn nôd gwahaniaethol o urddas arnynt hwy, gan fod pob un o deulu Duw yn Sant, y naill yn gystal a'r llall, a llawn cystal hawl gan bob un o honynt iddo â'u gilydd; ond bod

yr enwau Apostol ac Efengylwr yn enwau o urddas, yn arwyddnodi swyddau arbenig yn Nheyrnas Crist. Ond am y llall, yr haeriad nas gellir profi ddarfod i Petr erioed ymweled â Rhufain, nad allai efe ddim tynu hwnw yn ol ar un cyfrif yn y byd; ac felly safodd y mater am dymor. Ond yr oedd y disgwyliadau mor fawrion, a'r galwadau mor uchel a thaerion o bob cŵr am gael y llyfr allan, fel yr oedd raid dyfod i ryw gytundeb ar yr achos. Yr oedd yr esgobion yn fawr dros ei atal. Fodd bynag, cymerodd Syr Edward Nicholas, un o weinidogion y llywodraeth, y mater mewn llaw, a llwyddodd i gael gan Esgob Llundain drwyddedu ei argraffu, a chyhoeddwyd ef, ac enw Thomas Greig, capelwr teuluaidd yr esgob wrtho. Wel, yn wir, y mae pethau fel hyn braidd yn ormod i gig a gwaed allu eu dal a'u dyoddef heb frochi tipyn hefyd. Thomas Greig! pwy oedd Thomas Greig? Pwy ŵyr? Nid oes ond ychydig iawn yn fyw ar y ddaear heddyw a wyddant fod y fath ddyn a Thomas Greig wedi ymddangos ar y ddaear erioed; a dichon na buasai neb un yn gwybod hyny y dydd heddyw, ond fel y daeth ei enw i gysylltiad â'r gyfrol hono o waith Dr. Owen. Ië, enw Thomas Greig, capelwr esgob Llundain, yn angenrheidiol er cyfreithloni cyhoeddi llyfr o waith tywysog duwinyddion yr ail ganrif ar bymtheg! Yr oedd yn ormod o ddarostyngiad gan yr esgob (beth oedd ei enw ef nid wyf yn cofio yn awr) iddo ddodi ei enw ei hun wrth y drwydded, debygid! felly cafodd Tomos ddodi ei enw wrthi yn ei le ef! Diolch am, a diolch i Tomos Greig! ac yn bendifaddau, diolch am fod hên groglathau a hualau o'r fath yma ar ryddid y Wasg wedi eu datod oddiam ei thraed a'i thafod, a'u bwrw ymaith am byth.

Dyma ni wedi rhoi "dieithr-lam," ys dywedai y diweddar batriarch o Droedrhiwdalar, llam fawr oddiwrth ein helyntion presenol ein hunain i ganol helyntion ein henafiaid

ddau can mlynedd yn ol—helyntion yn yr un cyffelyb achos â'r eiddom ninau yn awr; y mae hi weithian yn llawn bryd i roddi ad-lam yn ol at ein hachos ein hunain. Ond beth a ddywedwn ni yn wyneb y pethau hyn sydd dan ein hystyriaeth? Nid pethau i dewi a sôn, a'u gadael yn ddisylw, yn sicr, ydynt. Y mae yn ffaith nodedig fod llygad eglwys Rhufain ar Gymru yn arbenigol er's blynyddau lawer bellach. Y mae llawer o honom yn cofio yr hanes am hên frenines Ffrainc, gwraig Louis Phillippe, ddarfod iddi gymeryd achos Cymru at ei chalon yn ddwys iawn, tua'r flwyddyn 1847; neillduo adeg o bob dydd i weddïo am ddychweliad Cymru i'r ffydd, a galw ar ffyddloniaid yr eglwys sanctaidd yn Ffrainc, a phob man arall, i uno gyda hi mewn gweddïau a phaderau at y Forwyn fendigaid dros Dywysogaeth Cymru, yn arbenigol, am i ni, oedd fel defaid wedi myned ar gyfeiliorn, gael ein dwyn yn ol ar frys i gorlan y bugail da, sef y Pab. Yr oedd yn ei bryd aberthu swm mawr o arian i drysorfa Cymdeithas y *Propaganda* tuag at anfon cenhadau i Gymru i bregethu yr efengyl Rufeinig i ni. Cyn pen blwyddyn wedi hyny, yr oedd hi a'i gŵr, druain, wedi ffoi drosodd i'r wlad hon am eu heinioes, rhag cynddaredd eu deiliaid, a'u gorsedd wedi ei llosgi yn lludw ar un o'r petrualau yn Paris, yn nghanol banllefau llawenydd y ddinas, heb i Mair, er yr holl weddiau a'r paderau a offrymasid ati, ddyfod i gynorthwyo a gwaredu ei hên lawforwyn ffyddlon yn nydd y trallod mawr hwnw.

Sylwai Dr. Owen, "Os adferid eglwys Rhufain byth i'w hawdurdod yn Lloegr, fel yr oedd cyn y Diwygiad Protestanaidd, mai fel barn arni am ddiystyru a chamddefnyddio y rhagorfreintiau gwerthfawr a ddygasid iddi, yn dymhorol ac ysprydol drwy y diwygiad hwnw y byddai hyny; mai fel barn a cherydd ar yr eglwys yn herwydd ei dirywiad, ei

hymrysonau, a'i llygredigaethau, ac ar y byd anghrediniol, ac anufudd i'r efengyl, y goddefwyd i babyddiaeth ymgodi ac ymdaenu ar y cyntaf, fel y dengys yr apostol pan y mae yn rhagfynegu am ddyfodiad "yr anwir hwnw," lle y dywed efe, "Ac yna y datguddir yr anwir hwnw. . . . Sef yr hwn y mae ei ddyfodiad yn ol gweithrediad Satan, gyda phob nerth ac arwyddion, a rhyfeddodau gau, a phob dichell anghyfiawnder yn y rhai colledig; *am na dderbyniasant gariad y gwirionedd, fel y byddent gadwedig. Ac am hyny* (sylwer), *am hyny*," am ddiystyru a gwrthod yr efengyl, "*y denfyn Duw arnynt hwy amryfusedd cadarn, fel y credont gelwydd. Fel y barner yr holl rai nid oedd yn credu i'r gwirionedd, ond yn ymfoddloni mewn anghyfiawnder.*" "Yr amryfusedd" cadarn yma yw yr "anwir hwnw," a'r "anwir hwnw" ydyw "y dyn pechod" wedi ymgorffori yn y gyfundrefn babaidd. Y cadarnaf o bob "amryfusedd" y clywsom am dano erioed ydyw hwnw dan ddylanwad yr hwn y ceir dynion â gair Duw yn eu dwylaw, ac y pregethwyd yr efengyl iddynt, ac a gawsent bob manteision addysg efengylaidd, yn "troi oddiwrth y gwirionedd," ac yn credu ac yn cofleidio celwyddau a chwedlau gwrthun pabyddiaeth, fel y gwnaeth lluaws nid bychan o fonedd y deyrnas hon, a llengoedd o offeiriaid eglwys Loegr yn ystod y deng mlynedd ar hugain diweddaf, ac yr aethant drosodd, *bag and baggage*, i Rufain, a llengoedd ereill o honynt sydd yn llechu yn yr eglwys hono, a than yr enw Protestaniaid, ac yn byw ar fwrdd Protestaniaeth, ydynt, â'u holl egni yn ceisio cloddio dan ei seiliau hi a'u dymchwelyd.

Ymgysura cyfeillion yn Lloegr yn fynych yn y gred fod y wlad hon yn eithaf diogel, na syrth hi byth ond hyny i grafangau pabyddiaeth. "*England is sound at the core,*" meddant. Os llwydda y Defodwyr (*Ritualists*) yn y deng mlynedd ar hugain nesaf, fel y llwyddasant yn y deng

mlynedd ar hugain diweddaf, ni fydd hi yn *sound* iawn *at the core* wedi hyny.

Yn ei Ragymadrodd i'r ail argraffiad o'r darlithiau ar "Offeiriadaeth ac Aberth Crist," a gyhoeddwyd yn 1842, gwna y diweddar hybarch Dr. J. Pye Smith y sylw canlynol ar awdwyr yr *Oxford Tracts*—y Puseyaid, fel eu gelwid yr amser hwnw, ac weithiau eto:—

"Y mae yr hên elyniaeth (at yr efengyl) wedi codi ac ymddangos ar wedd arall yn awr. Yn mhlith arwyddion difrifol yr amser presenol, y mae yr ymdrech a wna dosbarth o athrawon ydynt yn mawr warthruddo hên brif ysgol anrhydeddus (Rhydychain) drwy wenwyno ffynonau ei dysgeidiaeth, a dwyn i mewn y 'dyn pechod' yn ei holl hacrwch a'i wrthuni, yn *un* nodedig. Y mae eu cyfrwysedd Jesuitaidd, eu haerllugrwydd taeog, a'u ffalsedd bradwrus tuag at eglwys Loegr, plant yr hon ydynt, meddant hwy, yn adgas i'r eithaf, pan y maent yn magu cancr yn ei hymysgaroedd hi, gan lechu ac ymgadw heb wneyd un sylw ar y dynoethiadau grymus lawer o wnaed o'u twyllresymau a'u coeghoniadau gan glerigwyr ac ymneillduwyr yn Lloegr, Iwerddon, ac America. Nid yw y tawedogrwydd costogaidd hwn i'w briodoli i dawelwch hyder yn ngwirionedd a nerth eu hachos, eithr yn hytrach i wendid calon amheus, â chydwybod anesmwyth, a bâr i'r rhai fyddo dan eu dylanwad ofni dyfod i'r goleuni, 'fel nad eglurer eu gweithredoedd hwynt.'"

Yr oedd raid cael rhywbeth cryf iawn i gyffroi yspryd Dr. Pye Smith i beri iddo lefaru mor nerthol ac angerddol ac y gwna efe yn y dernyn uchod; gŵr ag oedd yn ddiarhebol yn ei oes ar gyfrif addfwynder ei dymer, tynerwch ei deimladau, boneddigeiddrwydd ei foes, a'r mwyaf gwyliadwrus ar ei dafod a'i bin o bawb. Fel y cythruddodd cynulleidfa rwgnachlyd meibion Israel yn yr anialwch, un

yspryd tro, "Y gŵr Moses, y llareiddiaf o'r holl ddynion oedd ar y ddaear," fel "y camddywedodd efe a'i wefusau," felly cythruddodd cynulleidfa y Defodwyr hyny yn Rhydychain, yspryd Dr. Pye Smith, y gŵr tebycaf i Moses o ran ei lareidd-dra o bawb adnabyddus yn yr oes hon, fel, ond ni ddywedwn, "y camddywedodd a'i wefusau," gan y credwn mai geiriau gwirionedd a sobrwydd ydyw y geiriau bob sill.

Eilwaith eto; Er dangos yspryd ac amcan y grefydd wrth-efengylaidd a Phabaidd y daeth lleng o'i hathrawon i'n plith i'w chymell i'n derbyniad, gwahoddir y darllenwyr i edrych arni yn y portreiad a wnaeth tri o'i horaclau doethion hi ei hun o honi, fwy na thri chan' mlynedd yn ol—portreiad na fynasent hwy er y byd, i neb ei weled o'r tu allan i gylch eu cyfrinach hwy eu hunain; ac un, hwyrach, na welodd llygad un darllenydd Cymreig mo hono erioed.

Archodd y Pab Julius III, i dri o esgobion roddi iddo ef eu barn a'u cyngor am y moddion mwyaf effeithiol er cadarnhau ac eangu awdurdod â dylanwad y babaeth. Wrth gyflwyno iddo eu barn ar y mater, erfyniai yr esgobion hyny, yn y modd mwyaf difrifol a gostyngedig, ar fod i'r peth gael ei gadw yn gyfrinachol, na ddelai byth i wybyddiaeth y *cyhoedd.* Ni osodir yma ond yr adran olaf o'r cyngor nodedig hwn :—

"Yn ddiweddaf," meddent, "yr ydym wedi cadw y cyngor a ganlyn i fod yn ddiweddaf, am ei fod y mwyaf pwysig a allwn ni, dan yr amgylchiadau presenol, feddwl am dano i'w gyflwyno i ystyriaeth eich Sancteiddrwydd. Rhaid i chwi wylio, gyda'r gofal mwyaf, na byddo ond i gan lleied fyth ag fo bosibl o'r efengyl (yn enwedig yn iaith y werin) gael ei ddarllen yn y gwledydd sydd yn ddeiliaid o'ch llywodraeth ysprydol, ag ydynt, hyd yma, yn cydnabod eich awdurdod. Yr ychydig a geir yn ngwasanaeth yr offeren *(Mass),* a dim yn ychwaneg; na oddefer i un dyn weled na

darllen mwy na hyny o'r ysgrythyr. Y ffaith yw, tra na chafodd y bobl wybod dim mwy nag sydd yn y gyfran fechan hono o'r ysgrythyr, buont yn dawel dan eich awdurdod ac yn ffyddlon i'r eglwys gatholig; o'r tu arall, dadfeiliodd a gwanhaodd dylanwad eich awdurdod dymhorol ac ysprydol yn union pan ddechreuodd y werin hòni ac arfer yr hawl (ffugiol) i ddarllen a chwilio yr ysgrythyr drostynt eu hunain. Uwchlaw pob peth, y llyfr hwnw (y Beibl) yn fwy na dim arall, a gododd y dymhestl bresenol a ddaeth arnom, ac a'n dygodd i ddibyn dinystr; a rhaid i ni addef, *os chwilia un dyn y Beibl yn ystyriol, a chymaru ei ddysgeidiaeth ef âg ymarferion a defodau ein heglwys ni, y rhaid y gwel efe wahaniaeth dirfawr rhwng y naill a'r llall, a bod ein hathrawiaeth ni, nid yn unig yn hollol wahanol, ond gyda hyny yn hollol groes i athrawiaeth yr ysgrythyr.* Gan hyny, pan gynhyrfer y bobl gan ein gwrthwynebwyr dysgedig i ymofyn am y wybodaeth hon o'r ysgrythyr, ni bydd taw byth ar y cri a godir i'n herbyn, hyd nes y dadguddir y cyfan ac y gwneir ni yn wrthddrychau dygasedd a dirmyg cyffredinol. Gan hyny, rhaid cadw y pethau hyn yn guddiedig *(occultandæ)*, eto, gyda'r gochelgarwch mwyaf *(adhibitum quadum diligentiâ)*, rhag peri cyffro mwy eto yn ein herbyn. Trefnodd eich cenadwr yn ngweriniaeth Venice, Dr. John della Casa, Archesgob Benevento, yr achos hwn yn rhagorol; canys gan ochelyd condemnio yr ysgrythyr mewn modd eglur a phendant, na gorchymyn iddi gael ei chadw yn guddiedig oddiwrth y bobl, gallodd gyraedd yr un amcan mewn ffordd anuniongyrchol, drwy roddi yn y rhif-restr fawr o lyfrau hereticaidd a gyhoeddodd efe, ryw ranau o'r athrawiaeth gynwysedig yn yr efengyl, ac yn arbenigol, y rhanau hyny sydd yn fwyaf amlwg a phendant yn ein herbyn ni."

Dyddiwyd y llythyr hwn at y Pab Julius III, Bononia, Tachwedd 20fed, 1553, wedi ei arwyddo gan Vincentius de

Durantibus, esgob Thermule-Brixia; Ægidius Falceta, esgob Caprulæ; a Gerard Busdragius, esgob Thessalonica. Dygwyd ef allan i'r cyhoedd gan Petr Paul Vergerio, gŵr a safai yn uchel iawn unwaith yn y cynghor Pabawl, ac oedd yn esgob Capo'd'Istria, a chenadwr y Pab yn Germany; a'r hwn, wedi hir a dyfal ymchwiliad, a lwyr argyhoeddwyd o dwyll a drygedd anferth y gyfundrefn Babaidd, a roddodd i fyny ei swydd fel esgob, a'r holl elw a'r anrhydedd oedd yn nglŷn â hi, ac a ddiangodd am ei fywyd i Switzerland, a bu yn weinidog Protestanaidd yno am y gweddill o'i oes. Bu farw yn y flwyddyn 1565.*

Dyna hi y gyfundrefn Babaidd, yr hon y mynai y *Ritualiaid* Seisnig, a'r Jesuitiaid Ffrengig ei chymell i'n derbyniad a'n cymeradwyaeth ni yn Lloegr a Chymru yn awr yn lle ein Protestaniaeth—ein Beibl a'r efengyl; ïe, dyna hi wedi ei diosg yn noethlymyn o'n blaen, gan ei hathrawon a'i horaclau hi ei hun, y rhai a gydnabyddent y gwirionedd yn gyfrinachol rhyngddynt a'u gilydd, ond na fynasent er y byd, i'r gyfrinach hono gael ei dadguddio i'r byd; ond mynodd rhaglunluniaeth Ddwyfol ei thynu allan, a dyna fel y mae hi yn tystiolaethu am dani ei hun; a'i thystiolaeth hon sydd wir, a "pha raid i ni mwyach wrth dystion." Edrycher arni.

Yn awr, Beth a atebwn ni i genhadau y genedl a ddaethant drosodd atom i ymofyn yn nghylch cwestiwn pwysig ein crefydd? A gawn ni gytuno i gyd-ateb, gan ddywedyd, "Seilio o'r Arglwydd Sëion" efengylaidd Cymru, ac y gobeithiwn ni, "trueiniaid ei bobl Ef," ynddi, a'n plant ar ein hol; na newidiem mo'r grefydd a'r athrawiaeth a draddodwyd i ni "yn ngair y dystiolaeth," a'r pregethiad o hono, fel y bu o ddyddiau ein tadau hyd y dydd hwn, am un grefydd nac

* Dr. Pye Smith's "Reasons for the Protestant Religion," p. 46, 47.

efengyl arall, pe deuai angel o'r nef i gynyg un i ni; yn sicr, ynte, ni wnawn un fargen felly a'r athrawon Rhufeinig a ddaethant atom. Na, ni all, ac ni chaiff yr Assyriaid hyn chwaith, ein hachub ni, pe gallasent wneyd hyny, "ac ni farchogwn ar eu meirch hwy," beth bynag, a ni wedi ein haddysgu i wybod mai o ddistryw y daeth y meirch hyny, ac mai i ddistryw y maent yn myned.

Ond nid ydynt hwy eu hunain, fel y crybwyllwyd o'r blaen, yn disgwyl y gallant wneyd llawer o argraff ar y genhedlaeth bresenol, gan ei bod hi, fel y tybiant, wedi ymwreiddio yn rhy ddwfn yn egwyddorion y Beibl a Phrotestaniaeth efengylaidd; a gobeithio ei bod hi felly; ond hyderant y gallant gael gafael ar ein plant, y genedl sydd yn codi, a dodi eu ffrwyn yn eu genau i'w harwain ffordd y mynont. Yn y peth hwn y mae dirgelwch perygl ein gwlad. Yn awr, gydwladwyr, Gristionogion Efengylaidd Cymru, a adewch chwi i'ch plant syrthio i ddwylaw yr estroniaid hyn, drwy ddifrawder ac esgeulusdra, gan dybied fod pob peth yn dda, nad oes achos i ofni un niwed i ni na'n plant oddiwrthynt? Dywedir fod rhieni crefyddol, aelodau perthynol i wahanol gyfundebau efengylaidd yn y Dywysogaeth, yn dodi eu plant mewn ysgolion Pabaidd, mewn manau y ceir cyfleusdra i hyny, o herwydd bod yr ysgolion hyny yn rhatach nag ysgolion Protestanaidd. Ai gwir hyn? Os gwir yw, onid yw y rhieni hyny yn fradwyr a llofruddion i'r egwyddorion a broffesant? Pa faint gwell yw eu gwaith hwy yn hyn, na gwaith y rhieni hyny yn Israel a "dynent eu meibion a'u merched trwy y tân i Moloch," yn nyffryn mab Hinom? Dim oll; os nad gwaeth. Melldithiai ac esgymunai yr offeiriaid Pabaidd unrhyw aelod o'u heglwys hwy a ddodai ei fab neu ei ferch mewn ysgol Brotestanaidd; ac y maent yn hyny yn gyson a'u hegwyddorion, beth bynag. "Deffrowch yn gyfiawn, ac na phechwch," drwy ymddiofalhau yn y peth hwn; ïe, de-

ffrown yn brydlawn—"Ac y mae hi weithian yn bryd i ni ddeffroi o gysgu, canys nid oes gan rai," ac ofnwn y gellir dweyd, nid oes gan *lawer* yn Nghymru, "wybodaeth o Dduw."

Ond eto; Pa fodd yr ydym ni i wrthsefyll yr ymosodiad hwn? "Nid âg arfau cnawdol;" nid drwy awdurdod y llywodraeth wladol i'w tarfu â'u deol o'n gwlad; nid anog a chynhyrfu y werin i'w amharchu a'u herlid mewn un modd, nac ar un cyfrif; nid chwaith drwy ddefnyddio eu harfau hwy eu hunain, dichellion a chyfrwysdra; ond trwy "arfau cyfiawnder ar ddê ac ar aswy"—arfau y filwriaeth efengylaidd; dwyn eu hegwyddorion a'u hathrawiaethau at "y gyfraith ac at y dystiolaeth," a'u dangos i'n hieuenctyd a'n plant yn y goleuni hwnw. Y mae holl arfogaeth Duw yn barod wrth law genym. "Cleddyf yr Yspryd, yr hwn yw gair Duw," fel y gwelsom, ydyw yr arf y mae calon y gyfundrefn Babaidd yn ei ofni yn fwy na dim arall. Gan hyny, "Cymerwch atoch holl arfogaeth Duw, fel y galloch wrthsefyll yn y dydd drwg. Sefwch, gan hyny, wedi amgylchwregysu eich lwynau â gwirionedd, a gwisgo dwyfroneg cyfiawnder," &c. (Eph. vi. 13, 14.) Gwisgwch yr arfogaeth hon am eich plant; rhwymwch y gwregys hwn am eu lwynau, drwy eu haddysgu a'u hyfforddi yn dda yn y teulu gartref, yn yr Ysgolion Sabbothol a'r cyfarfodydd cymdeithasol—"Ac, wedi gorphen pob peth, sefyll."

# "KOHELETH."

## Enwau y Tanysgrifwyr wedi eu Trefnu yn Sirol.

Y GOGLEDD—SIR GAERNARFON.

Parch. E. Herber Evans, Caernarfon (2)
,, J. Alun Roberts, do.
,, D. Williams, Garth, Bangor.
,, W. Griffiths, Tregarth.
,, R. S. Williams, Bethesda.
,, R. Rowlands, do.
,, E. Stephen, Tanymarian.
,, L. Williams, Bontnewydd.
,, R. W. Griffiths, Bethel.
,, J. Machreth Rees, Bettws-y-coed
,, W. B. Joseph, Colwyn Bay.
,, J. C. Jones, Penygroes.
,, E. James, Nefyn.
,, O. Jones, Pwllheli.
,, R. P. Williams, Ebenezer.
,, P. S. Phillips, B.M., Bangor.
,, Dl. Rowlands, M.A., President Normal College, do.
,, W. H. Evans (W.M.), Porthmadoc
,, J. O. Jones (C.M.), Llanllechid.
,, James Davies (C.M.), Four-crosses, Pwllheli.
,, D. S. Evans, Penrhyndeudraeth
,, H. Davies (C.M.), Moeltryfan.
Mr. R. Davies, M.P., Treborth (10).
,, M. Roberts, Tymawr, Dinorwic (6)
,, D. R. Davies, Bangor-st., Caernarfon.
,, H. Jones, Nelson Emporium, do.
,, O. G. Owen (Alafon), do.
,, A. Frazer, merchant, do.
,, J. Evans, *Carnarfon and Denbigh Herald*, do.
,, R. Owen, Newbro-st., do.

SIR GAERNARFON—*parhad.*

Mr. E. O. Jones, 62, Arfon-terrace, do.
,, R. Owen, Brynteg, Bethesda.
,, D. White, Bangor (6).
,, S. Evans, Gwalia House, do.
,, J. W. Parry, Maesygroes, do. (3).
,, R. Evans, Pentrefelin, do.
,, R Evans, Bryntirion, do.
,, R. Williams, 33, Hill-st., do.
,, G. Huxley, Talybont, do.
,, W. Roberts, Talybont, do.
,, T. Jones, Brynderwas, do.
,, J. Price, B.A , Normal College, do
,, H. Williams, draper, Penrhyndeudraeth.
,, D. Parry, grocer, do.
,, Griff. Thomas, do.
,, T. Evans, Church Walk, Colwyn
,, S. Roberts, Maenywern, Llanstumdwy.
,, E. Jones, Plâs Chwilog, Cricieth.
,, O. Hughes, Talsarn.
,, R. Jones, Penygroes.
,, D. L. Davies (Dewi Glanffrydlas), Bethesda.
,, R. Davies, Brynllwyd, do.
,, G. Griffiths, Plastirion, Llanberis
,, J. Jones (diw. Braich-y-Saint), Porthmadoc.
,, O. Morris, Bank-place, do.
,, O. Jones, Pentrefelin, do.
,, T. Griffiths, sychnant, Pwllheli.
,, J. Beuno Jones, school-master, Llanarmon.
,, J. T. Jones, Monachdy, Clynog.

DINBYCH A FFLINT.

Parch. D. Roberts, Wrexham.
,, T. Roberts (Scorpion), Llanrwst.
,, E. T. Davies, Abergele.
,, J. Roberts, Brymbo.
,, R. Roberts, Rhosllanerchrugog
,, S. Evans, Llandegla.
,, T. Nicholson, Dinbych.
,, P. W. Hough, Llanarmon.
,, J. A. Davies, Llanddulas.
,, M. C. Morris, Coedpoeth.
,, W. Griffith, Rhosymedre.
,, W. C. Edwards, Graigfechan, near Ruthin.
,, Jacob Jones (C.M.), Prior, near Denbigh.
,, J. Jones (C.M.), Cefnbychan, near Ruabon.
,, R. Thomas, Rhyl.
,, H. Elvet Lewis, Buckley.
,, J. M. Jones, Caergwrle.
,, Roger Edwards (C.M.), Mold.
Mr. E. Thomas, Henllan-pl., Denbigh
,, Jared Jones, Vale-st., do.
,, T. Gee, ex-Mayor, do.
,, John Walters, do.
,, J. Roberts, Star Shop, do.
,, J. Foulkes, draper, Vale-st., do.
,, J. Williams, ex-Mayor, do.
,, E. Williams, draper, do.
,, J. Davies, clerk, do.
,, D. Morris, N. & S. Wales Bank.
,, E. Davies, Penybank, near do.
,, Edwin Roberts, builder, do.
,, J. Jones Green (deceased), nr. do.
,, J. Jones, Brynhyfryd, do.
,, J. Jones, Caeserwyd, do.
,, R. Roberts, Foxhall Farm, nr. do.
,, J. Wright, Bodfari.
,, A. Wright, do.
,, Daniel Roberts, do.
,, Nathaniel Lloyd, do.
,, D. Roberts, Bontufruffudd, do.
,, O. Williams, Glanclwyd, do.
,, T. Ellis, Llwyn, Llanrhaidr, Denbigh.
,, T. Moss, Gresford, nr. Wrexham (6).

DINBYCH A FFLINT—*parhad.*

Mr. E. M. Jones, timber merchant, do. (2).
,, J. Richard Trefalun, nr. do.
,, E. Davies (Iolo Trefaldwyn), do.
,, J. Jones, draper, Peter-square, Ruthin (3).
,, O. Evans, Bodlondeb, Bont uchel
,, H. Humphreys, Tybrith, do.
,, D. Williams, Tanybryn, do.
,, W. Jones, Garddeni, do.
,, Thomas D. Jones, Pontstyllod, Llanarmon.
,, J. Minor Jones, Bwlchgwyn, near Wrexham.
,, B. Harrison, Coedpoeth, do.
,, W. Carey Roberts, Post-office, Llansilin, do.
,, T. Humphreys, Lili House, near Holywell (2).
,, J. Hughes, builder, do.
,, P. Roberts, chemist, St. Asaph.
Mrs. Vaughan, do.
Mr. T. S. Jones, Post-office, do.
,, Michael, Caergwrle.
,, E. Phillips, Maeshafn, nr. Mold.
,, T. P. Davies, Jessimine Villa, Abergele.
,, D. Roberts, Y.H., Tanrallt, near do. (2).
,, J. Roberts, M.P., Bryngwenallt do. (2).
,, E. Lloyd, Post-office, do.
,, W. N. Clarke, Hendregyntyn, do
,, W. Kerfoot, Vaenol, near do.
,, J. Kerfoot, Hendrebach, nr. do.
,, J. R. Jones, student, Pensarn.
,, J.Humphreys,Cambrian Hotel,do
,, J. Williams, Road Surveyor, do.
,, R. Hughes, Watling-st., Llanrwst
,, W. Davies, do., do.
,, R. Davies, Albion Hotel, do.
,, R. Jones, Auctioneer, do.
,, James Owen, Brynynyr, do.
,, W. Williams, chemist, do.
,, W. Wilkins, do. do.
,, O. Jones, Iscoed, do. do.
,, Robt. Griffith, corn merchant, do.
,, D. Hughes, joiner, do.

DINBYCH A FFLINT—*parhad.*

,, W. Hughes, M.D., do.
,, O. Griffiths, Brookland, Wrexham.

MON.

Parch. W. Griffiths, Holyhead (decsd)
,, W. Lloyd, do.
,, T. Evans, Amlwch.
,, R. Williams (Hwfa Mon), Llanerchymedd.
,, D. S. Jones, Llanddaniel.
,, A. Cynffig Davies, Menai Brdg.
,, W. V. Davies, Moelfro.
,, Esaia Jones (C.M.), Rhiwlas.
,, J. Hopkins, Rhosycôl Rectory, near Valley.
Mr. H. Lewis, Llewelyn Lodge, Bodedeyrn (10).
,, O. Lewis Roberts, Madog, Bryngwran (2).
,, W. Thomas, Assessor, Llangefni (6).
,, W. Thomas, Caerau, Llanfair, near do.
,, W. Thomas, Cana, do. do.
,, D. Lloyd, coal merchant, Beaumaris.
,, Councillor W. Hughes, do.
,, J. Dew, Menai Bridge.
,, Roger Evans, do.
,, O. Davies, confectioner, do.
,, J. Hughes, Ty'nyllidiard, Llanmedo.
,, J. Aubrey, Gorphwysfa, Bodffordd
,, Gwen Griffith, Northend, Llanddaniel.
,, W. Hughes, Shop Sharpe, Llangefni.
,, O. Hughes, Rhosybol.

MEIRIONYDD.

Parch. Price Howell, Four-crosses, Ffestiniog.
,, J. B. Parry, Bethania, do.
,, R. J. Davies, Rhiwbryfdir, do.
,, Ll. B. Roberts, Tanygrisiau, do
,, J. Roberts, Llan, do.

MEIRIONYDD—*parhad.*

Parch. W. Williams, Tynycoed, Maentwrog.
,, Z. Mather, Abermaw, do.
,, D. Griffiths, Dolgellau.
,, J. Charles, Llanuwchllyn.
,, Japheth Jones (C.M.), Conglywal, Bethania, Festiniog.
,, D. Jones (C.M.), Garegddu.
Prof. L. Edwards, D.D., Presbyterian College, Bala.
Parch. E. Peters (C.M.), do.
Prof. T. Lewis, B.A., Independent College, do.
Mr. D. Daniel, myfyr, do.
,, W. Davies, do. do.
,, J. S. Evans, do. do.
,, W. E. Hughes, do. do.
,, W. H. Rees, do. do.
,, W. R. Roberts, do. do.
,, C. Samson, do. do.
,, J. E. Thomas, do. do.
,, Moses Roberts, Bala.
,, J. Parry, grocer, do.
,, R. Thomas, draper, Llandderfel.
,, J. Cadwaladr, Four-crosses, Ffestiniog.
,, M. Jones, do. do.
,, R. Hughes, photographer, do.
,, R. Rowlands, N. & S. W. Bank do.
,, H. Miles, draper, Dolgellau.
,, L. Davies, Post-office, Llanuwchllyn (3).
,, R. Evans, Post-office, Dinas Mawddwy.
,, W. R. Williams, Llanelltyd, Dolgelly.
,, T. Humphreys, Registrar, Maentwrog.
,, E. Hughes, Factory, do.
,, J. Owen, Tanybwlch Hotel, do.
,, Ellis Williams, do.
,, T. Jones, Tynycoed, do.
,, Mchl. Thomas, Llwyn Onn, Bryneglwys, Corwen (4).
,, E. W. Thomas, do. do.
,, Morris Roberts, Blaen Ial, do.
,, J. Roberts, Yale Villa, do.
,, R. P. Williams, draper, Dolgelly.

TREFALDWYN.

Parch. D. Lewis, Rector of Llangyniew, Welshpool.
,, O. Evans, Llanbrynmair.
,, Josiah Jones, Machynlleth.
,, J. R. Roberts, Aberhosan, (deceased.)
,, T. Hughes, Llansantffraid.
,, R. Powell, Dre Newydd.
,, D. S. Thomas, Llanfair-caereinion.
,, D. Jones (Idrysin), (C.M.)
,, D. Jones (C.M.), Machynlleth.
Mr. R. Jones, Y.H., Machynlleth.
,, J. Evans, Corner Shop, do.
,, W. Jones, Graigfach, do.
,, W. Lloyd, National and Provincial Bank, do.
,, H. Lumley, coal merchant, do.
,, J. Morgan, Cambrian House, do,
,, D. E. Davies, Albert House, do.
,, D. Evans, tanner, do.
,, T. H. Evans, ironmonger, do.
,, D. Jones, Doll-street, do.
,, J. M. Meredith, do.
,, J. Lumley, Doll-st., do.
,, D. Morgan, Maengwyn-st., do.
,, E. Benbow, Llanidloes.
,, C. Benbow, do.
,, T. Benbow, do.
,, G. Thomas, draper, do.
Captain Humphreys, do.
Mr. W. Lloyd Roberts, Penceunant, Penbont-fawr.
,, C. R. Jones, Y.H., Llanfyllin.
,, I. Jones, do.
,, E. Davies, builder, Oswestry.
,, J. Evans, M.A., do.
,, Henry Edwards, draper do.
,, Richard Hughes, Park Avenue, do
,, T. Davies, do.
,, J. Griffith, Old Park-yard, do.
,, J. Jones, chemist, Willow-st., do.
,, Josia Jones, Salop-road, Oswestry
,, J. Jones, Castle Villa, do.
,, R. Parry, Oswald-terrace, do.
,, J. Hy. Thomas, Park Avenue, do.
,, Henry Williams, coal merchant, do
,, Joseph Evans, Brynhyfryd, do.

DEHEUDIR—ABERTEIFI.

Parch. T. C. Edwards, M.A. (C.M.), President University College, Aberystwyth.
,, Llewelyn Edwards, M.A. (C.M.), Ardwyn House, do.
,, G. Parry (C.M.), Brynteg, do.
,, T. Levi (C.M.), do.
,, J. Williams (C.M.), do.
,, Job Miles, do.
,, — Morris (B.M.), do.
,, E. Penllyn Jones, do.
,, D. Adams, B.A., Brynhawen.
,, T. B. Evans, New Quay.
,, E. A. Jones, Newcastle Emlyn
,, T. B. Phillips, Horeb.
Mr. John Jones (Ifon), Aberystwyth.
,, T. Thomas, painter, do.
,, W. Julian, grocer, do.
,, J. Jones, Laura-place, do.
,, James Jones, Tyllwyd, near do.
,, J. Morris, Pandy, Penllwyn, do.
,, Daniel Hughes, R.S.O., do.
,, T. Owen, Queen's-road, do.
,, T. Samuel, currier, do.
,, Absalom Prys, Penllwyn, do.
,, R. Davies, Cwrt Mawr, Llangeitho.
,, D. Jones, Derw Cottage, near New Quay.
,, — Williams, National & Pro. Bank, Newcastle Emlyn.

MYNWY A BRYCHEINIOG.

Parch. J. R. Kilsby Jones, Llanwrtyd.
,, R. James, do.
,, D. A. Griffiths, Troedrhiwdalar
,, J. Morris, D.D., President of Brecon Independent College
Professor D. Rowlands, B.A., do.
,, W. Oliver, M.A., do.
Parch. J. Morris, Pontygof, Ebbw Vale.
,, T. D. Evans, Victoria, do.
,, W. Griffiths, Beaufort
,, A. Owen, Curate, Llandrindod

CAERFYRDDIN A BENFRO.

Parch. J. John, Greenfield Villa, Llanelli.
,, E. Clements (B.M.), do.
,, E. H. Davies (B.M.), do.
,, J. Foulkes, Ty Ddewi.
,, O. R. Owen, Glandwr.
Mr. Thomas, Governor of H. M. Prison, Carmarthen.
,, D. Bleddyn Richards, Crugybar, near Llandilo.
,, W. Scourfield, do.
,, W. Davies, Cilycwm, near Llandovery.
,, James Morris, Gorslas, Pontardulais.
,, W. Gibbon, Llandovery.
,, W. G. Williams, Rhymney.

MORGANWG.

Parch. T. Rees, D.D , Swansea.
,, D. Saunders (C.M.), do.
,, T. Jones, Walters-road, do.
,, J. Griffiths, Neath, Archdeacon Llandaff.
,, W. E. Jones, Treforris.
,, C. T. Thomas, Groeswen.
,, J. B. Davies, Cowbridge.
,, W. C. Morris, Pontypridd.
,, E. Roberts (B.M.), do.
,, W. A. Edwards, Pembroke Dok
,, J. Jones, Zoar, Maesteg.
,, J. C. Thomas, do.
,, D. Prosser, do.
,, J. M. Bowen, Pendarren, Merthyr.
,, D. Evans, Pentre, Rhondda Valley.
,, W. Evans, Tresimon, Cardiff.
,, L. Jones, Tynycoed, near Swansea.
,, Joshua Davies, Treorky Grammar School.
,, Methusalem Jones, Tainewydd Rhondda.
,, W. Hopkins, do. (2)
,, T. Davies, Sketty.
,, D. Phillips (C.M.), Swansea.

MORGANWG—*parhad.*

Mr. Thomas Thomas, Tynywern, Groeswen (20)
,, Edmund Thomas, Maendy Hall.
,, T. Williams, Y.H., Gwaelod-y-Garth, Merthyr.
,, D. Davies, Tynewydd-ar-y-Bryn, do.
,, H. Davies, Fronheulog, Pontypridd.
,, D. Lloyd, Woodland-terrace, Taibach.
,, Samuel Richards, Cwm Rhondda
,, J. Williams, Bookseller, Neath.
,, J. Williams, printer and Publisher, Merthyr.
,, D. Davies, M.D., Maesteg.
,, E. Davies, surgeon, do.
,, Evan Williams, grocer, do.
,, S. Jones, Penarth, Cardiff.
,, Henry Yorath, Cardiff.

TREFYDD LLOEGR—LLUNDAIN.

Parch. Professor H. Griffiths, Barnet
,, D. Davies, B.A., Cheshunt.
,, J. Jones, Parsonage, S. Mary, Chistlehurst.
,, R. L. Thomas, Borough.
,, Joseph Rowlands, Sloane-st.
Mr. J. Williams, 28, Harley-st.
,, Isaac Williams, 27, Pembroke-st
,, W. E. Davies, Redesdale House, Chelsea.
,, Davies, Redesdale-street, do.
,, D. H. Davies, 97, Hood-st do.
,, E. Evans, 77, Marquis-road.
,, R. P. Evans, Union-st.
,, J. Evans, Ferntower-road.
,, J. Edwards, 4, Queen's-terrace, Fulham.
,, Abraham Evans, 213, Battersea Park-road, Chelsea
,, Wm. Edwards, 124, Marylebone-terrace
,, W. Evans, 4, Queen's-terrace, Fulham.
,, J. D. Griffiths, 14, St. James-st.

LLUNDAIN—*parhad.*

,, T. Griffiths, 11, Spencer-street, Battersea.
,, O. H. Jones, 4, Westbourne Grove-terrace.
,, W. Powell (Gwilym Pennant).
,, R. Roberts, Roden-st.
,, B. Rees, Carthusian-st.
,, J. L. Thomas, 7, St. Paul's Churchyard.
,, W. Williams, Devonshire-st.
,, D. Edwards, Upper Holloway.
,, T. M. Williams, B.A., 27, Pembroke-street.
,, W. Lloyd, 9, Percy-road, Kilburn
,, T. Jenkins, Westbourne-road.

LIVERPOOL.

Parch. O. Thomas, D.D. (C.M.)
,, J. Hughes, D.D. (C.M), Everton
,, J. Thomas, D.D. 11, Willows, Everton.
,, W. Roberts, Northend.
,, D. M. Jenkins, Park-road.
,, W. Nicholson, Grove-st.
,, W. Jansen Davies, Checkheaton, York-st.
Mr. R. Davies, 136, Windsor-st.
,, D. Davies, do.
,, H. Denman, Lodge Grove.
,, Adonia Evans, Byrom-st.
,, J. Edwards, Upper Parliament-st
,, W. Jones, 147, Queen's-road.
,, J. Kirkham (Iago Wyn Tegai)
Mrs. Lovatt, 35, Upper Parliament-st
Mr. A. Macdonald, Beaumont St. ter.
,, E. Lloyd, 8, Overton-st.
,, R. Roberts (per H. Denman).
Miss E. Thomas (per do.)
,, Catherine Williams, do. (per do.)
Mr. E. Morris, tea merchant.
,, Owen Jones, 4, Queen's-road.
Mrs. Owen Lewis, Great Mersey-st.
Mr. E. Rees, N. & S. Wales Bank (12)

BIRKENHEAD.

Parch. Peter Jones (C.M)
,, Hugh Jones (A).
Mr. E. Jones, Albert House.
,, R. Jones, 187, Conway-st.
,, Stephen Williams, Grange-road.
,, S. Williams, Trewilym, Clifton-road.
,, Richard Williams, Holt-st.
,, John Richard, Beech-road.
,, Griffith Rees, Ashfield.

CAERLLEON.

Parch. James Williams (Cenhadwr Llydaw gynt).
,, H. Rees, Albion Park Chapel.
,, J. P. Davies, M.A. (C.M.), John-st.
,, J. Williams, City-road.
,, D. R. Davies, Sandbach.
Mr. W. Evans, N. & S. Wales Bank (2).
,, Samuel Rees, Chester House (2).
,, Henry Jones, com. traveller. (6).
Mrs. Evans, Chester House.
Mr. T. Williams, chemist, Northgate-street.
,, R. Roberts, Alexandra-terrace.
Dr. Roberts, Abbey-square.
Mr. J. E. Williams, 7, Alexandra-ter.
,, Henry Price, Chester House.
,, D. Davies.

MANCHESTER.

Parch. D. John, 26, Alexander-grove
,, W. Jansen Davies, Chickheaton.
Mr. Evan Davies, student, Springhill College.

Mr. S. Stephen, St. John's College, Cambridge.

LIBRARY
14 JUL 1976
UNIVERSITY OF TORONTO

PLEASE DO NOT REMOVE
CARDS OR SLIPS FROM THIS POCKET

UNIVERSITY OF TORONTO LIBRARY

BS
1475
.4
R44
1881
c.1
ROBA

006009315005